

Cyflwyniad i ieithyddiaeth

Sarah Cooper a Laura Arman (goln.)



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

Cyhoeddwyd yr e-lyfr hwn gyntaf yn 2020 gan

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3WQ

www.colegcymraeg.ac.uk

Rhif Llyfr Rhyngwladol (ePDF):

978-1-911528-19-7

Golygiad cyntaf Tachwedd 2020

Mae testun yr e-lyfr hwn, ac eithrio Rhan 8, wedi'i ryddhau dan y drwydded [Creative Commons BY-SA 4.0](#), sy'n eich caniatáu i'w aildefnyddio a'i newid mewn unrhyw ffordd os ydych yn rhoi cydnabyddiaeth briodol (gan gynnwys dolen i'r dudalen [hon](#)) ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Gweler [testun y drwydded](#) am ragor o fanylion.

Mae testun Rhan 8 wedi'i ryddhau dan y drwydded [Creative Commons BY 4.0](#), sy'n eich caniatáu i'w aildefnyddio a'i newid mewn unrhyw ffordd os ydych yn rhoi cydnabyddiaeth briodol (gan gynnwys dolen i'r dudalen [hon](#)). Gweler [testun y drwydded](#) am ragor o fanylion.

Prawf-ddarllenwyd y gyfrol gan Marian Beech Hughes.

Cyflwyniad i ieithyddiaeth

Golygyddion

Sarah Cooper a Laura Arman

Pwyllgor Gwyddonol

Dr Rosalind Temple PRIFYSGOL RHYDYCHEN

Yr Athro Paul Russell PRIFYSGOL CAERGRAWNT

Yr Athro David Willis PRIFYSGOL RHYDYCHEN

Bob Morris Jones PRIFYSGOL ABERYSTWYTH


Dr Gwenllian Awbery PRIFYSGOL CAERDYDD

Yr Athro Enlli Môn Thomas PRIFYSGOL BANGOR

Yr Athro Delyth Prys PRIFYSGOL BANGOR



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

Cyfranwyr

Dr Sarah Cooper

Mae Sarah Cooper yn ddarlithydd mewn seineg a dwyieithrwydd ym Mhrifysgol Bangor. Mae hi'n dysgu modiwlau ar seineg, ffonoleg, dwyieithrwydd a dysgu ail iaith. Mae Sarah yn gweithio ar ymchwil ar ynganiad mewn iaith oedolion sy'n dysgu Cymraeg, technolegau lleferydd Cymraeg a seineg y Gymraeg yn gyffredinol.

Dr Laura Arman

Graddiodd o raglen PhD Ieithyddiaeth Prifysgol Manceinion yn 2016. Ers hyn, mae Laura wedi bod yn darlithio ac yn parhau â'i gwaith ymchwil mewn nifer o brifysgolion yn y DU gan gynnwys Prifysgolion Bangor a Chaerdydd. Cystrawen, morffoleg, semanteg ac amlieithrwydd yw meysydd ei phrif ddiddordebau ymchwil.

Dr Silva Nurmio

Morffoleg y Gymraeg o safbwynt cyfoes a hanesyddol yw arbenigedd Silva Nurmio. Mae Silva wedi cynnal prosiectau ymchwil ar y pynciau hyn yn sefydliad DIAS (*Dublin Institute for Advanced Studies*) ac ym Mhrifysgol Helsinki ers gorffen ei hymchwil doethurol ym Mhrifysgol Caergrawnt yn 2015. Mae ei gwaith ar y Gymraeg "Grammatical Number in Welsh: Diachrony and Typology" (2019) wedi arwain at ei hymchwil diweddaraf ar rif gramadegol o safbwynt teipolegol.

Dr Jonathan Morris

Sosioieithyddiaeth dwyieithrwydd a chaffael ail iaith yw meysydd ymchwil Dr Jonathan Morris. Mae ei waith yn canolbwyntio'n bennaf ar amrywio a newid ieithyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru. Mae'n gweithio fel uwch-ddarlithydd mewn ieithyddiaeth yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, ac yn dysgu ar nifer o fodiwlau sy'n ymwneud ag ieithyddiaeth a'r Gymraeg.

Dr Iwan Wyn Rees

Darlithydd yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd yw Dr Iwan Wyn Rees. Mae ei waith ymchwil a'i ddarlithoedd yn ymwneud yn bennaf ag agweddau ar dafodieithoedd y Gymraeg

(yng Nghymru ac yn y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia). Maes ymchwil arall o ddiddordeb iddo yw anawsterau ynganu a'r defnydd o nodweddion tafodieithol ymhlith dysgwyr, yn arbennig ym maes Cymraeg i Oedolion ac yng nghyd-destun Cynllun yr Iaith Gymraeg (Talaith Chubut) British Council Cymru. Cyfrannodd Iwan hefyd at y gyfrol hon fel aelod o'r Tîm Prosiect.

Dr Myfyr Prys

Mae Myfyr Prys yn ymchwilydd ym Mhrifysgol Bangor ac i gwmni cyfieithu annibynnol. Ers gorffen ei PhD mewn Ieithyddiaeth ar amrywio arddulliadol yn y Gymraeg, mae ei ymchwil wedi canolbwyntio ar dechnoleg cyfieithu ar gyfer y Gymraeg.

Dr Peredur Webb-Davies

Uwch-ddarlithydd mewn Ieithyddiaeth gydag arbenigedd mewn dwyieithrwydd ym Mhrifysgol Bangor yw'r Dr Webb-Davies. Mae ei ymchwil a'i bynciau addysgu yn cynnwys prif feysydd newid iaith, ieithyddiaeth hanesyddol ac agweddau ar ddwyieithrwydd. Cyhoeddodd gyfrol o'r un enw, "Agweddau ar ddwyieithrwydd" gyda'i gyd-awdur Yr Athro Enlli Môn Thomas gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2017, ac ef hefyd yw cyd-awdur y gyfrol "Building and using the Siarad Corpus" (2018).

Yr Athro Delyth Prys

Pennaeth Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor yw Delyth Prys. Maes ymchwil Delyth yw technolegau iaith ar gyfer y Gymraeg a ieithoedd llai ei hadnoddau. Mae hi'n arwain tîm ieithwyr a datblygwyr meddalwedd lle maent yn datblygu adnoddau i gefnogi adfywio ieithoedd bach fel y Gymraeg. Mae hi'n rhan o Bwyllgor Technoleg a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru, yn Ymgynghorydd i'r DLDP (Digital Language Diversity Project) Ewropeaidd ac yn aelod o bwyllgor safonau terminolegol y BSI (British Standards Institute). Cyhoeddwyd y Llawlyfr Technolegau Iaith gan Delyth a chydweithwyr yn yr Uned Technolegau Iaith dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2019.

Dr Cynog Prys a Dr Rhian Hodges

Mae Cynog Prys a Rhian Hodges yn ddarlithwyr mewn Cymdeithaseg ym Mhrifysgol Bangor. Maent yn cyd-weithio ar sawl prosiect, yn enwedig ar gynllunio ieithyddol yng Nghymru. Cyhoeddwyd eu Pecyn Adnoddau Amlgyfrwng Cymdeithaseg yn ddiweddar gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Dr Ifor Gruffydd

Mae Ifor Gruffydd yn Gyfarwyddwr Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin ym Mhrifysgol Bangor ac yn gyfrifol am reoli darpariaeth Dysgu Cymraeg i oedolion yng ngogledd-orllewin Cymru. Mae gan Ifor ddiddordeb penodol mewn hyfforddiant iaith o fewn y gweithle a sut mae hwnnw'n cael ei reoli'n strategol o fewn sefydliadau er mwyn sicrhau bod sgiliau iaith newydd yn cael eu defnyddio.

Diolchiadau

Hoffai'r awduron ddiolch i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am noddi'r gyfrol drwy y Gronfa Datblygiadau Strategol yn 2017, ac i aelodau'r Tîm Prosiect am oruchwylio datblygiad y llyfr. Diolch i Delyth Prys ac i Peredur Webb-Davies am gefnogi a rhoi sylwadau ar y cais gwreiddiol.

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i'r terminolegwyr Dr Tegau Andrews, Gruffudd Prys a'r Athro Delyth Prys am eu gwaith trylwyr yn safoni termau.

Diolch hefyd i Dr Deepthi Gopal am ei chymorth gyda'r mapiau, ei harbenigedd ac am ei chefnogaeth yn gyffredinol.

Mae ein diolch hefyd i Marian Beech Hughes am brawf-ddarllen y gwaith ac i nifer o academyddion am ddarllen a chynnig sylwadau ar ddrafftiau cynnar o'r gwaith.

Diolch i Meinir Olwen Williams am ei sylwadau ar ddrafftiau o'r penodau hefyd.

Hoffem ddiolch yn fawr i'r pwyllgor gwyddonol am gefnogi'r prosiect ac am roi adborth ar rannau o'r gyfrol. Diolch hefyd i amryw o academyddion eraill a gynigiodd sylwadau defnyddiol mewn cyfarfodydd a seminarau.

Yn olaf, hoffem ddiolch i'n holl ffrindiau a theulu sydd wedi'n cefnogi wrth lunio'r gyfrol. Heb eu cefnogaeth nhw, ni fyddai'r gyfrol hon wedi bod yn bosibl.

Cynnwys

I Cyflwyniad	17
LAURA ARMAN A SARAH COOPER	
1 Beth yw Ieithyddiaeth?	18
1.1 Beth mae ieithyddion yn ei wneud?	18
1.2 Y dull disgrifiadol	18
1.3 Strwythur Iaith	19
2 Pam astudio ieithoedd?	21
2.1 Gramadeg a'r ymennydd	21
2.2 Ieithoedd y byd	21
2.3 Iaith a chymdeithas	27
2.3.1 Amrywio	27
2.3.2 Amlieithrwydd	28
2.3.3 Y defnydd o ieithoedd mewn cymdeithas	28
2.3.4 Technoleg	29
3 Sut mae astudio ieithoedd?	30
3.1 Beth yw damcaniaeth?	30
3.2 Profi rhagdybiaethau	31
3.3 Fframweithiau damcaniaethol	31
4 Amcanion y gyfrol	31
II Seiniau iaith: seineg a ffonoleg	34
SARAH COOPER	
5 Beth yw seineg a ffonoleg?	35
6 Sillafu a thrawsgrifio	38
7 Cynhyrchu lleferydd	39
7.1 Y laryncs	41
7.2 Ceudod y geg a cheudod y trwyn	41

8	Cytseiniaid	44
8.1	Lleisio	44
8.2	Cynanu	44
8.2.1	Man cynanu	44
8.2.2	Modd cynanu	46
8.3	Disgrifio a thrawsgrifio cytseiniaid	48
8.3.1	Cytseiniaid ar siart yr Wyddor Seinegol Ryngwladol (IPA)	48
9	Llafariaid	50
9.1	Hyd llafariaid	50
9.2	Cynanu llafariaid	51
9.3	Disgrifio a thrawsgrifio llafariaid	52
9.3.1	Pedrochr llafariaid	52
10	Cysyniadau ffonolegol allweddol	55
10.1	Cyferbynnu	55
10.2	Y Ffonem	56
11	Cyfuno seiniau	56
11.1	Y sillaf	56
11.2	Pwyslais	58
11.3	Tôn a goslef	59
11.4	Eilededdau sain	59
11.4.1	Seingolli a mewnosod	60
11.4.2	Cymathu	60
11.4.3	Meddalau	61
11.4.4	Caledu	63
11.4.5	Rheolau ffonolegol	64
12	Crynodeb	65
III	Strwythur geiriau: geirfa a morffoleg	67
13	Beth yw morffoleg?	68
	LAURA ARMAN A SILVA NURMIO	
14	Y gair	70
	LAURA ARMAN	
14.1	Adeiladu geiriau	70
14.2	Morffemau rhydd a morffemau clwm	71
14.3	Geirfa	72
14.4	Prif ddosbarthiadau geiriol	73
15	Morffoleg: astudiaeth o ffurf geiriau	74
	LAURA ARMAN	
15.1	Enwi rhannau geiriau	75
15.2	Ieithoedd y byd a'u morffoleg	76

16 Categoriâu gramadegol a morffoleg	77
SILVA NURMIO	
17 Morffoleg enwau	81
SILVA NURMIO	
18 Ffurfdroi a deilliant	83
SILVA NURMIO	
18.1 Geiriau cyfansawdd	85
19 Cynhyrchiol vs anghynhyrchiol	86
SILVA NURMIO	
20 Treiglo a morffoffonoleg	87
LAURA ARMAN	
21 Crynodeb	90
IV Cystrawen	92
LAURA ARMAN	
22 Cyflwyniad: strwythuro brawddegau	93
23 Dychwelyd at ddsbarthiadau geiriol	95
23.1 Swyddogaeth a'r rhan ymadrodd	97
24 Argiau a berfau	99
25 Dosbarthu geiriau ymhellach	100
26 Cyfansoddion	102
27 Ymadroddion, cymalau a brawddegau	105
27.1 Adeiladu a threfnu brawddegau	105
27.2 Traethiad o fewn y cymal	106
27.3 Cyfuno cymalau: brawddegau cymhleth	108
28 Dadansoddi cystrawen	108
28.1 Fframweithiau	108
28.2 Cystrawen o fewn y gramadeg	110
29 Crynodeb	111
V Ystyr	113
30 Cyflwyniad: Creu ystyr	114

SILVA NURMIO A LAURA ARMAN	
31 Beth yw semanteg?	117
SILVA NURMIO	
32 Ystyr geiriau	119
SILVA NURMIO	
33 Newid hanesyddol a semanteg	121
SILVA NURMIO	
33.1 Newid hanesyddol mewn enwau	121
33.2 Ystyr berfol	123
34 Ystyr mewn cyd-destun	124
LAURA ARMAN	
35 Astudio pragmateg	126
35.1 Tynnu casgliad	126
35.2 Beth yw goblygaeth?	126
35.3 Gwirebau Grice	127
35.3.1 Cadw at y gwirebau	127
35.3.2 Diystyru'r gwirebau	128
35.4 Moesgarwch a phragmateg	128
35.5 Gweithredoedd Siarad	131
36 Strwythuro Gwybodaeth	132
LAURA ARMAN	
36.1 Yr hen a'r newydd	134
36.2 Ffocws	134
37 Crynodeb	137
VI Amrywio	139
38 Cyflwyniad	140
JONATHAN MORRIS	
39 Amrywio Daearyddol	144
IWAN WYN REES	
39.1 Dulliau ieithyddol-ddaearyddol	144
39.2 Cysyniadau sylfaenol tafodieitheg ddaearyddol	147
39.2.1 NORMs (a'r cysyniad o 'burdeb' ieithyddol)	147
39.2.2 Isoglosau (a bwndeli ohonynt)	147
39.2.3 Ardaloedd trawsnewid	148
39.3 Astudiaethau ieithyddol-ddaearyddol ar y Gymraeg	151

39.4	Y sefyllfa heddiw	156
40	Amrywio Cymdeithasol	157
	JONATHAN MORRIS	
40.1	Amrywio cymdeithasol a newid iaith	157
40.2	Dosbarth Cymdeithasol	159
40.3	Rhywedd a Rhywioldeb	160
40.4	Amrywio mewn cymunedau amlethnig ac amlieithog	162
40.5	Astudiaethau ar amrywio a newid	164
41	Amrywio Arddulliadol	170
	MYFYR PRYS	
41.1	Sosioieithyddiaeth Labovaidd ac arddull	170
	41.1.1 Cyfweliadau Labov	170
	41.1.2 Canfyddiadau Labov am arddull	171
41.2	Ymgydaddasu a Chynllunio ar gyfer Cynulleidfa	172
41.3	Cynllunio ar gyfer Cynulleidfa	173
41.4	Cynllunio gan Siaradwyr	173
41.5	Amrywio arddulliadol yn y Gymraeg	174
42	Agweddau tuag at amrywio	176
	JONATHAN MORRIS	
43	Crynodeb	179
VII	Amlieithrwydd	181
44	Cyflwyniad	182
	PEREDUR WEBB-DAVIES	
45	Dysgu dwy iaith fel plentyn	183
	SARAH COOPER	
45.1	Magu plant dwyieithog	184
45.2	Addysg ddwyieithog	186
	45.2.1 Trochi	186
	45.2.2 Trochi dwyffordd	186
	45.2.3 Cynnal/adfywio iaith	187
	45.2.4 Addysg yng Nghymru	187
45.3	Un system neu ddwy?	188
	45.3.1 Rhagdybiaeth y system unedig	188
	45.3.2 Rhagdybiaeth y systemau gwahanol	188
46	Dysgu ail iaith fel oedolyn	189
	SARAH COOPER	
46.1	Ffactorau sy'n effeithio ar ddysgu ail iaith	190

47 Cyfnewid Cod	192
PEREDUR WEBB-DAVIES	
47.1 Gwahaniaethu rhwng cyfnewid cod a benthyg	193
47.2 Pam cyfnewid cod	194
47.3 Strwythur gramadegol cyfnewid cod	196
48 Dwyieithrwydd mewn cymuned	199
PEREDUR WEBB-DAVIES	
48.1 Deuglosia	201
48.2 Lefelu ieithyddol a chydgyfeiriant	202
48.3 Shiftt ieithyddol	203
49 Canlyniadau cydgyffwrdd ieithyddol	205
LAURA ARMAN	
49.1 Newid iaith	206
49.2 Ieithoedd newydd ac ieithoedd cymysg	208
49.2.1 Ieithoedd pijin	208
49.2.2 Ieithoedd creol	210
49.2.3 Ieithoedd cymysg	211
50 Crynodeb	214
VIII Cymhwysio ieithyddiaeth at wyddorau eraill	216
51 Rhagair	217
SARAH COOPER A DELYTH PRYS	
52 Cynllunio ieithyddol a pholisi iaith	218
CYNOG PRYS A RHIAN HODGES	
52.1 Diffinio cynllunio ieithyddol a pholisi iaith	219
52.2 Pedair teipoleg o gynllunio ieithyddol	220
52.3 Datblygiad cynllunio ieithyddol	221
52.4 Cynllunio ieithyddol yng Nghymru	222
53 Addysgu dysgwyr ail iaith	224
IFOR GRUFFYDD	
53.1 Dulliau dysgu iaith	225
53.2 Darpariaeth Ymchwil Ganolog	226
53.3 Gyrfa fel Tiwtor Cymraeg i Oedolion	227
54 Geiriadura a therminoleg	228
DELYTH PRYS	
54.1 Gwahanol fathau o eiriaduron	228
54.2 Geiriaduron electronig	231

55 Cyfieithu a thechnoleg cyfieithu	233
MYFYR PRYS	
55.1 Strategaethau cyfieithu	234
55.2 Technoleg cyfieithu	236
55.3 Cyfieithu peirianyddol	237
56 Technolegau iaith	239
DELYTH PRYS	
56.1 Gwirwyr sillafu a gramadeg	240
56.2 Testun i leferydd	241
56.3 Adnabod lleferydd	242
57 Corpora a dulliau digidol o drin data	244
DELYTH PRYS	
58 Diweddglo	246
Llyfryddiaeth	269
Rhestr byrfoddau	271
Mynegai ieithoedd	271

Rhestr tablau

1	Cytseiniaid y Gymraeg	49
2	Gwahanol strwythurau mewnol geiriau: enghraifft <i>ton</i>	71
3	Ffurfiâu ar <i>craf-</i>	74
4	Rhif gramadegol mewn rhagenwau Sorbeg Uchafei]Sorbeg Uchaf.	78
5	Rhediad berf (<i>rhedeg</i>) yn ôl person a rhif	79
6	Rhediad yr arddodiad (<i>ar</i>) yn ôl person, rhif a chenedl	79
7	Ffurfdroi vs. deilliant	83
8	Enghreifftiau o amrywio yn y Gymraeg	140
9	Newidynnau yn astudiaeth P. Davies (2016)	165
10	Newid arddull fesul grŵp (Ball 1984)	174
11	Ieithoedd cymysg presennol (Statistics Canada 2017; Gómez Rendón 2008; Muysken 2013; Meakins 2013; Mous 2013; O'Shannessy 2005; Simons & Fennig 2017)	212
12	Ymraniad gramadegol yr iaith Mitsiff (Bakker 1997)	213
13	Enghraifft o strategaethau cyfieithu o ganllaw 'Cymraeg Clir' (C. Williams 1999)	235

Rhestr Ffigurau

1	Rhai o deuluoedd ieithyddol llafar y byd	23
2	Ieithoedd arunig (di-deulu)	24
3	Coeden deulu'r ieithoedd Indo-Ewropeaidd cyfoes	25
4	Tarddiad 'calon' yn yr ieithoedd Indo-Ewropeaidd (Pokorny 1959; Dyen et al. 1992)	26
5	Canlyniad chwilio yn dangos camsillafiad ym mewnbwn chwiliad gwe	30
6	Y llwybr llais a'r ysgyfaint	40
7	Tannau llais ar wahân ar gyfer cynhyrchu seiniau di-lais (a) ac yn agos ar gyfer lleisio (b)	41
8	Ceudod y geg a cheudod y trwyn â'r cynanwyr wedi eu labelu	42
9	Cytseiniaid ysgyfeiniol siart yr Wyddor Seinegol Ryngwladol	49
10	Pedrochr Llafariaid yr Wyddor Seinegol Ryngwladol	53
11	Pedrochr llafariaid: unseiniaid y Gymraeg	53
12	Sillgoeden yn dangos strwythur y gair <i>pen</i>	57
13	Sillgoeden yn dangos strwythur y gair <i>plant</i>	57
14	Coeden yn dilyn fframwaith Chomskyaid <i>Geraint knows the way</i>	109
15	Strwythur 'gwastad' (<i>flat structure</i>) <i>Teimlodd Rhiannon ias</i>	109
16	<i>Dalen, deilen</i>	115
17	Triongl semiotig (Ogden & Richards 1949)	118
18	Mathau o gyfranwyr yn ôl Hans Kurath (Chambers & Trudgill 1998:29)	146
19	Is-grwpiau o gyfranwyr yn ôl Hans Kurath (Chambers & Trudgill 1998:29)	146
20	Enghraifft o fwndel o isoglosau (yn seiliedig ar B. Thomas & P.W. Thomas 1989:24)	149
21	Enghraifft o ardal drawsnewid (yn seiliedig ar B. Thomas & P.W. Thomas 1989:27)	150
22	Tiriogaeth yr 'u ogleddol' (yn seiliedig ar B. Thomas & P.W. Thomas 1989:32)	152
23	Prif ardaloedd tafodieithol y Gymraeg (B. Thomas & P.W. Thomas 1989:28)	155
24	Canrannau'r amrywiolyn ansafonol [m] yn nata Norwich, Lloegr (yn seiliedig ar Trudgill 1974, Tabl 7.1)	160
25	Dileu'r ferf gynorthwyol <i>wyt</i> , yn ôl oed (ar ôl P. Davies 2016:39)	166
26	Strwythurau meddiannol y trydydd person, yn ôl oed (ar ôl P. Davies 2016:48)	166

27	Amrywio /r/ yng Nghymraeg siaradwyr o gartrefi Cymraeg yng Nghaernarfon yn ôl y dasg (cyfweiliad sosioieithyddol neu ddarllen rhestr o eiriau) a rhyw'r siaradwyr (ar ôl Morris 2013)	168
28	Amrywio /r/ yn Saesneg siaradwyr o gartrefi Cymraeg yng Nghaernarfon yn ôl y dasg (cyfweiliad sosioieithyddol neu ddarllen rhestr o eiriau) a rhyw'r siaradwyr (ar ôl Morris 2013)	169
29	Cyfnewid cod ar draws 4 rhaglen radio a'r Corpws Siarad	176
30	Sgrinlun o ran o gofnod o GPC Ar lein 2014 yn dangos y gwahanol adrannau .	230
31	Sgrinlun o gyfieithu peirianyddol yn Trados Studio	236
32	Cymhariaeth rhwng nifer y geiriau a gyfieithwyd fesul munud ar draws pedwar dull cyfieithu (Screen 2018:191)	239

Rhan I

Cyflwyniad

LAURA ARMAN A SARAH COOPER

1 Beth yw Ieithyddiaeth?

Ieithyddiaeth yw astudiaeth o iaith, ei defnydd a'i strwythur. Nid yw'r syniad o 'iaith' yn golygu iaith benodol (fel Cymraeg, Gwyddeleg, neu Ffrangeg), ond iaith yn gyffredinol.

Mae iaith yn galluogi unigolion i gyfleu gwybodaeth gymhleth i bobl eraill drwy siarad neu drwy ddefnyddio arwyddion o ryw fath. Yn syml, mae pobl yn defnyddio iaith i gyflawni pwrpas penodol; mae iaith yn rhoi'r gallu i bobl i ofyn cwestiynau am y byd o'u cwrpas neu i gydweithio ar dasgau cymhleth. Ond mae ystyr cymdeithasol i iaith hefyd. Mae'n gallu datgelu rhywbeth am hunaniaeth y siaradwr (o ble mae'n dod, ei oedran, ei ryw neu ei rywedd, ei ddsbarth cymdeithasol a.y.b.).

Felly, bydd y llyfr hwn yn canolbwyntio ar esbonio strwythur iaith a'i defnydd. Ceir esboniad o strwythur iaith yn gyffredinol, gan ddefnyddio enghreifftiau o'r Gymraeg. Bydd enghreifftiau o ieithoedd eraill hefyd yn cael eu dyfynnu, ac fe geir hefyd gyflwyniad i'r confensiynau ieithyddol academaidd a ddefnyddir i esbonio strwythur iaith anghyfarwydd i'r darllenwyr.

1.1 Beth mae ieithyddion yn ei wneud?

Yr argraff gyffredinol a geir yn aml wrth glywed y term 'ieithydd' yw fod yr unigolyn yn siarad nifer o ieithoedd, neu'n rhywun sy'n hoff o ddysgu ieithoedd. Mae'n wir fod rhai ieithyddion yn gallu siarad nifer o ieithoedd, ond ffocws ieithydd yn yr ystyr academaidd yw astudio strwythur a defnydd iaith yn gyffredinol gan ddefnyddio'r dull disgrifiadol. Mae ieithyddion yn astudio sut i gynrychioli strwythur y gwahanol agweddau ar iaith (sain, ystyr, ffurf geiriau, a.y.b.), sut i ddatblygu damcaniaeth i esbonio gwahanol batrymau ieithyddol, a sut mae gwahanol agweddau ar iaith yn rhyngweithio â'i gilydd.

Yn ogystal, mae ieithyddion yn ymchwilio i'r modd y mae plant yn dysgu iaith neu ieithoedd, sut mae oedolion yn dysgu ieithoedd ychwanegol, sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei storio yn y meddwl, a sut mae iaith yn amrywio (rhwng siaradwyr a rhwng lleoliadau).

1.2 Y dull disgrifiadol

Nid oes angen esbonio i siaradwyr Cymraeg fod iaith yn bwysig iawn i bobl—yn bwnc dadleuol hyd yn oed—ac, yn aml, mae dadlau am ddefnydd iaith a gramadeg i'w weld yn gyhoeddus.

Dyma enghraifft o'r math ymysg cyfieithwyr Gwyddeleg gwirfoddol y safle we cymdeithasol Facebook. Mae un cyfieithydd yn feirniadol o'r gair a ddewiswyd i gyfieithu 'ffôn' i Wyddeleg ([Lenihan 2013:322](#)):

- (1) *Is salach an focal “fon”, pé duine a cheapann gur choir an focal seo a usáid in ionad an ghaeilge ceart (guthán) ní fíor gaeilgeoir iad, agus cuireann sibh náire ar bhur gcultúr le truailliú lofa a dhéanamh ar bhur teanga*
 The word “fon” is awful, anyone who thinks it’s ok to use this term instead of the correct Irish (guthán) is not a true Irish speaker and they bring shame on our culture by polluting our language. (Cyfieithiad [Lenihan 2013](#))

Dangosodd [Lenihan \(2013\)](#) fod cyfieithydd arall wedi taro'n ôl gan wneud sylwadau am safon gramadeg y cyfieithydd cyntaf:

- (2) *Fíor-ghaeilgeoir? Bíodh ciall agat, a mhac. B'fhéidr go mba choir duit snas a chur ar do ghraiméar sula dtosaíonn tu a bheith ag iarriadh teanga an lae inniú a athrú. (sic)*
 A true Irish speaker? Have sense. Maybe you should brush up on your own grammar before you start trying to change the Irish of today. (Cyfieithiad [Lenihan 2013](#))

Nodi gwahanol agweddau ar y berthynas rhwng hunaniaeth a phurdeb ieithyddol yw pwrpas dyfyniadau [Lenihan](#). Dehonglodd agwedd y cyfieithydd yn enghraifft (1) fel un geidwadol, sy'n gwahaniaethu rhwng siaradwyr iaith gyntaf a siaradwyr ail iaith fel grwpiau anghydnaws. Gwelir, felly, fod 'safonau iaith' yn gallu 'gostwng', yn ôl rhai. Nid ydynt yn hoff o strwythurau 'newydd' neu rai sy'n anghyfarwydd iddynt fel rhan o'u haddysg ffurfiol. Ond mae eraill sy'n deall nad oes modd osgoi newidiadau ieithyddol a bod y ffordd y mae iaith yn newid yn ddiddorol ynnddi ei hun. Nid yw'n eglur bob amser ar ba sail y mae'r 'safonau' iaith honedig wedi eu ffurfio na pham y mae un ffurf yn 'well' na'r llall, ond mae safbwyntiau fel y rhain yn aml yn cyfleu agwedd geidwadol tuag at iaith ac maent yn tueddu i geisio ffafrio'r ffurfiau hyn.

Y ddwy brif ffordd o asesu iaith yw'r dull rhagnodol (rhagnodaeth, *prescriptivism*) a'r dull disgrifiadol (disgrifiadaeth, *descriptivism*). Amcan y dull disgrifiadol yw disgrifio'n fanwl gywir, yn systematig, ac yn wrthrychol (*objectively*) sut mae iaith yn cael ei defnyddio. Nid yw'r dull yn labelu defnydd penodol o iaith yn 'gywir' neu'n 'anghywir'. Dyma un o egwyddorion sylfaenol astudiaethau ieithyddol.

Ar y llaw arall, mae'r dull rhagnodol yn cynnig ffurfiau safonol i'w defnyddio. Mae'r dull yn gosod rheolau ar gyfer iaith sy'n 'gywir', ac nid yw iaith sy'n torri'r rheolau yn dderbyniol, yn ôl y cyfrwng.

1.3 Strwythur Iaith

Sut mae pobl yn mynegi a deall nifer anfesuradwy geiriau a brawddegau eu hieithoedd?

Mae ieithyddion yn astudio strwythur iaith ac ieithoedd, ac mae ieithyddiaeth yn cynnwys nifer o bynciau neu is-feysydd. Mae'n bosib meddwl am rai o'r is-feysydd fel 'blociau adeiladu' iaith. Er mwyn creu ac adeiladu ystyr, mae angen nifer fawr o eiriau. Ar y llaw arall, dim ond nifer cyfyngedig o synau neu **seiniau** y gall bodau dynol eu creu. Dilyniant o seiniau yw gair. Er enghraifft, mae gan y gair *dŵr* dair sain, sy'n cael eu cynrychioli â'r llythrennau <d>, <w>

ac <r>. Mae gan y gair *pump* bedair sain, a *sgert* bum sain. Caiff rhai seiniau eu cynrychioli gan ddeugraff (e.e. <ll> neu <ch>). Felly, tair sain sydd gan y gair *llan*.

Astudiaeth o ddulliau cynhyrchu, trawsyrru a chanfod seiniau yw **seineg**. Mae seinegwyr yn astudio sut mae seiniau ieithoedd: a) yn cael eu cynhyrchu'n ffisiolegol (sut mae ynganu'r seiniau gan ddefnyddio'r organau llefaru) a b) yn cael eu trawsyrru rhwng siaradwyr a gwrandawyr, ond hefyd c) sut mae'r person sy'n gwrandao yn canfod y seiniau.

Mae gan bob iaith reolau ynglŷn â pha seiniau sy'n gallu ymddangos ymhle. Er enghraifft, nid yw cwlwm o gytseiniaid fel <st> yn bodoli mewn Siapaneg. **Ffonoleg** yw'r enw ar astudiaeth o'r ffordd y mae seiniau'n cael eu dosbarthu mewn iaith. Mae ffonolegwyr hefyd yn ceisio deall sut mae seiniau wedi eu trefnu yn y meddwl a'r rheolau sy'n eu cysylltu. Mae Rhan II yn rhoi cyflwyniad i seineg a ffonoleg.

Daw nifer o seiniau at ei gilydd i ffurfio geiriau, ond hefyd ceir unedau ieithyddol sy'n fwy na sain, ond yn llai na gair. Er enghraifft, mae'n bosibl ychwanegu rhywbeth at y gair *coes* er mwyn sôn am sawl coes—sef *coesau*. Mae hyn yn digwydd gyda llawer o enwau, fel *llyfr* → *llyfrau*, *cwpan* → *cwpanau*, ac mae'r un broses yn digwydd gyda gwahanol derfyniadau, fel yn ffenest → ffenestri, merch → merched, cath → cathod. Yr astudiaeth o sut mae iaith yn ffurfio geiriau yw **morffoleg** a dyma sydd o dan sylw yn Rhan III.

Mae rheolau ym mhob iaith ynglŷn â'r ffordd y mae geiriau'n cyfuno mewn brawddegau. Astudiaeth o'r ffordd y mae adeiladu brawddegau o eiriau yw **cystrawen**. Yn aml, mae astudio cystrawen yn golygu edrych ar drefn geiriau mewn brawddegau a'r prosesau sy'n rheoli strwythur y brawddegau. Mae Rhan IV yn rhoi sylw i'r prosesau o ffurfio brawddegau ac yn cyflwyno sylfeini damcaniaethau cystrawennol mwyaf adnabyddus y maes.

- (3) a. Llosgodd y cogydd y cawl
b. Llosgodd y cawl y cogydd

Yr unig reswm dros greu geiriau a brawddegau yw er mwyn cyfleu rhyw fath o ystyr. Yn enghraifft (3), mae trefn elfennau'r frawddeg yn dylanwadu ar yr **ystyr**. Astudiaeth o ystyr geiriau a brawddegau yw **semanteg**—pwnc Rhan V.

Mae ffactorau eraill sy'n rheoli ein defnydd o iaith mewn gwahanol gyd-destunau. **Pragmateg** yw astudiaeth o'r ffordd y mae siaradwyr yn newid ystyr geiriau a brawddegau yn ôl eu cyd-destun.

- (4) Mae hi'n oer yma, yntydi?

Mewn un cyd-destun, wrth eistedd mewn ystafell, efallai, gall y frawddeg yn enghraifft (4) olygu 'caewch y ffenestr, os gwelwch chi'n dda'. Mewn cyd-destun arall, wrth sefyll tu allan, er enghraifft, gall rhywun ddehongli'r frawddeg fel sylw ar dymheredd y lleoliad, heb ystyr pellach. Bydd pragmateg hefyd yn derbyn mwy o sylw yn Rhan V.

2 Pam astudio ieithoedd?

Ieithyddiaeth yw'r astudiaeth o natur iaith ac o natur cyfathrebu, felly. Mae dysgu am iaith a chyfathrebu yn datblygu ein dealltwriaeth o'r byd o'n cwmpas ac yn benodol ein dealltwriaeth o fodau dynol. Ond pam mae angen astudio nifer o ieithoedd, ac nid un iaith yn unig, er mwyn ateb cwestiynau ieithyddol? O fewn y maes academiaidd, deall cyflwr a strwythur iaith o fewn y meddwl yw'r nod, ond mae nifer o gymwysiaid eraill i'r pwnc.

2.1 Gramadeg a'r ymennydd

Mae ieithyddion yn defnyddio'r term 'gramadeg' pan fyddant yn ceisio disgrifio sut mae iaith yn gweithio yn yr ymennydd. Gramadeg, felly, yw'r mecanwaith sy'n ein galluogi i drosi ein syniadau a'n meddyliau yn ffurf o gyfathrebu â'n gilydd.

Yn aml, defnyddir y term 'gramadeg' hefyd i gyfeirio at batrymau morffoleg a chystrawen iaith benodol. Er enghraifft, mae gramadeg y Gymraeg yn gasgliad o reolau sy'n disgrifio iaith benodol, ac mae'r gramadeg meddyliol yn rheoli prosesau sy'n cysylltu ystyr â sain (yn ogystal â phrosesau eraill).

Mae pobl o unrhyw gefndir ethnig yn gallu caffael (*acquire*) unrhyw iaith yn y byd. Pe baent yn dysgu fel plant, byddent yn dysgu'r iaith heb unrhyw acen na nodwedd estron. Mae ieithyddion yn cymryd hyn fel tystiolaeth fod pob ymennydd dynol yn meddu ar y gramadeg a'r elfennau sydd eu hangen i gaffael unrhyw iaith. Serch hyn, nid ydym yn sicr o gynnwys yr elfennau meddyliol sy'n ein galluogi i gyfathrebu, nac o'u trefn. Er mwyn datgelu cyfrinachau ieithyddol yr ymennydd, felly, mae angen cymharu ieithoedd a dehongli pa elfennau sy'n gyffredin rhyngddynt. Chwilio am gysylltiadau ac am gyfyngiadau ar y gramadeg y mae ieithyddion drwy gymharu gwahanol ieithoedd oherwydd bydd y rhain yn brawf o'r holl allbynnau posibl i weithredoedd yr ymennydd.

2.2 Ieithoedd y byd

Mae astudio ieithoedd y byd yn hanfodol i faes ieithyddiaeth am amryw o resymau. Yn gyntaf, mae angen cymharu'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng gwahanol ieithoedd y byd er mwyn darganfod a oes seiliau cyffredin i iaith ddynol—gan adlewyrchu'r gramadeg meddyliol. Nid yw hon yn dasg hawdd gan fod angen dadansoddi ieithoedd unigol mewn digon o fanylder er mwyn gallu eu cymharu yn y lle cyntaf; nid yw ffeithiau syml am ieithoedd yn ddigon ar gyfer eu cymharu oherwydd yr amrywiaeth sy'n bodoli ymysg ieithoedd y byd.

Trafferthion darganfod y seiliau cyffredin

Er enghraifft, mae'r ddau gwestiwn canlynol yn gofyn am gymharu nodweddion syml:

1. A oes llafariaid (*vowels*) ym mhob iaith, hynny yw, seiniau sy'n cael eu creu heb i rannau o'r geg gyffwrdd â'i gilydd, megis /a/, /o/ ac /i/?
2. A oes **bannod benodol** (*definite article*) ym mhob iaith, hynny yw, gair sy'n ymddangos gydag enwau er mwyn cyfyngu eu hystyr, fel *y(r)* yn y Gymraeg a *the* ac *a* yn Saesneg?

Mae'n hawdd iawn profi mai 'nac oes' yw'r ateb i'r ddau gwestiwn uchod, er bod y nodweddion ieithyddol hyn yn ymddangos yn angenrheidiol i rywun sy'n siarad Cymraeg. Mae'r cwestiynau yn cynnwys rhagdybiaeth (*hypothesis*) sy'n anwiriadwy (*falsifiable*); os oes data ar gael o ddigon o ieithoedd y byd, bydd ateb. Nid oes angen meddwl yn rhy ddwys am y cwestiwn cyntaf gan nad yw llafariaid yn cael eu defnyddio fel rhan hanfodol o ieithoedd arwyddion, fel Iaith Arwyddion Prydain (*British Sign Language*).

Nid oes angen mynd yn bell iawn yn y byd i ddod ar draws ieithoedd sydd heb fannod, chwaith. Nid oes bannod mewn Rwsieg, mewn Pwyleg, mewn Tsieceg nac mewn amryw o'r ieithoedd Ewropeaidd sy'n perthyn yn agos iddynt—yr ieithoedd Slafonig.

Yn ail, drwy astudio ieithoedd y byd, mae'n bosib dysgu am ieithoedd y gorffennol yn ogystal â'r sefyllfa bresennol. Wrth gymharu ieithoedd modern, gall ieithyddion ac ieithegwyr (*philologists*, rhai sy'n astudio ieithoedd hanesyddol) ddarganfod pa ieithoedd sy'n 'perthyn' i'w gilydd (gw. [Thorne 1985](#), Rhan 2, am hanes gwaith yr ieithyddion cynnar). Mae cofnodion o ieithoedd cynharach, fel Hen Gymraeg a Lladin, hefyd o gymorth i'r ymdrechion hyn. Er bod miloedd o ieithoedd yn y byd, mae ysgolheigion wedi profi, dros y canrifoedd, fod y rhan fwyaf ohonynt yn deillio o'r un gwreiddiau hanesyddol. Golyga hyn fod ieithoedd wedi newid yn fawr iawn dros amser maith i greu'r holl ieithoedd modern sy'n bodoli heddiw.

Mae dros 100 teulu o ieithoedd yn y byd. Dyma rai o'r teuluoedd ieithyddol mwyaf adnabyddus i ni yng Nghymru, yn ogystal â rhai o'r deg teulu mwyaf yn ôl nifer yr ieithoedd. Daw'r data o'r gronfa ddata ieithyddol *Glottolog* ([Hammarström et al. 2017](#)). Nid yw'r teuluoedd na'r ieithoedd mewn unrhyw drefn benodol, heblaw i gyflwyno'r ieithoedd mwyaf cyfarwydd ym mhob teulu i'r darllenwyr yn gyntaf.

Mae'r rhestr yn Ffigur 1 cynrychioli dros 4,400 o ieithoedd y byd, ond golyga hyn fod miloedd o ieithoedd y byd yn perthyn i deuluoedd na restrwyd uchod. Nid yw'r rhestrau'n cynrychioli'r rhan helaeth o ieithoedd De America, er enghraifft, sy'n niferus, ond yn perthyn i deuluoedd llai o ran nifer yr ieithoedd ym mhob teulu ac yn llai adnabyddus i ni yn Ewrop na'r rhai uchod. Mae yna hefyd ieithoedd sydd ddim yn ymddangos i berthyn i unrhyw deulu o gwbl. Gelwir y rhain yn ieithoedd arunig (*isolates*).

Mae Ffigur 2 yn dangos rhai o'r ieithoedd sydd ddim yn perthyn i unrhyw deuluoedd mwy, hyd y gwyddom, a'u lleoliadau.

Amser maith yn ôl yn hanes dyn, roedd llawer llai o ieithoedd—ieithoedd a oedd yn rhagflaenu pob un o'r teuluoedd ieithyddol yn Ffigur 1. Nid oes unrhyw dystiolaeth o'r ieithoedd hynafol eu hunain gan eu bod yn hŷn nag unrhyw gofnodion hanesyddol. Mae ieithyddion wedi medru ail-greu argraff o sut iaith y mae'r Gymraeg, Saesneg a'r holl ieithoedd Indo-Ewropeaidd eraill wedi tarddu ac esblygu ohoni drwy astudio a chymharu ieithoedd modern y teulu a thrwy astudio ieithoedd hynafol a gofnodwyd cyn iddynt ddiflannu neu newid (fel Sansgrit, Hetheg

Indo-Ewropeaidd

Dros 425 iaith gan gynnwys Cymraeg, Saesneg, Gwyddeleg, Ffrangeg, Llydaweg, Catalaneg, Perseg, Hindi, Wrddw, Sbaeneg, Portiwgaleg, Almaeneg, Lithwaneg, Latfieg, Pwyleg, Rwsieg, Romani, Cwrdeg, Tsieceg, Albaneg (iaith Albania), Groeg, Swedeg, Daneg, Gwjarati, Pynjabi, Potwari.

Wralig

Oddeutu 40 iaith gan gynnwys Ffinneg, Estoneg, yr ieithoedd Sami, Hwngareg, Fepseg (*Veps*), Mariëg, Komi, Wdmwrteg (*Udmurt*), Nenetseg y Twndra, Chantieg (*Khanty*)

Twrcig

Dros 30 iaith gan gynnwys Twrceg, Wigwreg (*Uyghur*), Kasacheg (*Kazakh*), Sachâeg (*Sakha*), Twfaeg (*Tuvan*)

Affro-asiaidd

Dros 350 iaith gan gynnwys Arabeg, Hebraeg, Malteg, Kabileg (*Kabyle*), ieithoedd Twareg, Hawsa, Aramaeg, Amhareg, Somalieg, Oromo, Sidamo

Iwerydd-Congo

Dros 1,400 iaith gan gynnwys Swahili, Iorwba (*Yoruba*), Igbo, Ffwlani (*Fula*, *Fulani*), Shona, Banjal, Gwrene (*Gurene*), neu efallai yn rhan o deulu mwy o'r enw Niger-Congo sy'n cynnwys dros 100 o ieithoedd ychwanegol fel Mandinca a'r ieithoedd Dogon).

Drafiadaidd

Dros 75 iaith gan gynnwys Telwgw, Tamileg, Malaialam, Brahwi, Kolami, Gondi

Sino-Tibetaidd

Dros 450 iaith gan gynnwys Tsieinëeg (tua 26 iaith yn defnyddio'r un ffurf ysgrifenedig, gan gynnwys Mandarin, Hakka, Cantoneg, Byrmaneg (*Burmese*), Tibeteg Safonol, Gwrwng (*Gurung*, *Tamu kwyi*), yr ieithoedd Karén, Kokborok, Mara, yr ieithoedd Tamang, Manipwri, Sartang.

Esgimo-Alewtaidd

Alewteg (*Aleut*), ieithoedd Iwpig (*Yupik*), Inwctitwt, Glasynyseg (*Greenlandic*), Inwpiat (*Inupiat* neu *Inupiaq*) ac Inwfialwctwn (*Inuvialuktun*).

Irocwoiaidd

11 iaith gan gynnwys Tsiérocî (*Cherokee*), Oneida, Mohoceg (*Mohawk*) a Seneca.

Pama-Niwnggaidd

Dros 175 iaith gan gynnwys Arrernte, Warlpiri, Jirrbal, Ganai, Yanda, Kala Lagaw Ya, Dieri, Yanyuwa, Kanju, Yir-Yoront, Tagalaka, Hawkesbury, Narrinyeri, Nhanda, Guugu Yimidhirr, Yidiny, Gupapuyungu.

Awstronesaid

Dros 1,200 iaith gan gynnwys Tagalog, Ffilipineg, Malagasi Merina, Ilocano, ieithoedd Bisacol (*Bisakol*), Sebwano (*Cebuano*), Tsiamoro (*Chamorro*), Malaieg (*Malay*), Jafeg (*Javanese*), Tetwm, Fijieg, Tongeg, Samoeg, Maori, Tahitieg, Pwiwma (*Puyuma*), Rwcai (*Rukai*), Tsow (*Tsou*), Hawaïeg.

Oto-Mangeaidd

Dros 170 iaith gan gynnwys Amwsgo San Pedro (*Amuzgo San Pedro*), ieithoedd Micstéc (*Mixtec*), ieithoedd Sapotéc (*Zapotec*), ieithoedd Tsinantéc (*Chinantec*), Tsitsimeca (*Chichimeca*), ieithoedd Otomi, Mange (*Mangue*).

Ffigur 1: Rhai o deuluoedd ieithyddol llafar y byd

Ieithoedd arunig (*Language isolates*)

Dros 100 o ieithoedd 'byw'; er enghraifft: Basgeg (de-orllewin Ffrainc a gogledd-orllewin Sbaen), Ainwëg (*Ainu*; Ynys Hokkaido, Siapan ac ynysoedd cyfagos yn Rwsia), Bwrwsiasgi (*Burushaski*; gogledd Pacistan a gogledd India), Karok (neu *Karuk*; Califfornia, UDA), Hwafe (*Huave*; de-orllewin Meccico), Pwrépetsa (De Orllewin Meccico), Iagán (Yagán, Tierra del Fuego, Tsile).

Ffigur 2: Ieithoedd arunig (di-deulu)

ac eraill). Gelwir adluniad yr iaith hon yn Proto-Indo-Ewropeg. Mae coeden deulu'r ieithoedd Indo-Ewropeaidd i'w gweld yn Ffigur 3. Yn ogystal â bod o ddi-ddordeb i ni, mae'r gwaith ymchwil hwn o bwys oherwydd ein bod yn dysgu sut mae ieithoedd yn gallu newid ac wedi newid dros amser. Mae astudiaethau **diacronig** (*diachronic*) yn cynyddu ein gwybodaeth o hyblygrwydd iaith dros amser ac yn ein galluogi i gymharu teuluoedd ieithyddol; hynny yw, a yw'r un newidiadau yn digwydd ym mhob teulu ieithyddol?

Nodyn

Mae'r enwau ar ochr dde Ffigur 3 yn enghreifftiau o'r ieithoedd modern sy'n perthyn i bob cangen. Ni chynrychiolir pob iaith fodern sy'n rhan o'r teulu yn y ffigur. Nid yw gwahanol lefelau'r goeden yn gyfystyr; mae lefelau 'uwch' y diagram (i'r chwith) yn dangos y berthynas rhwng yr ieithoedd modern a'r broto-iaith. Felly, nid yw iaith fodern ar lefel 'uwch' na'r gweddill yn golygu bod yr iaith yn hŷn, ond bod ganddi lai o berthnasau agos. Cyfyngir y diagram i bedair lefel, a dangosir ieithoedd Ewrop yn bennaf—sef y rhai mwyaf cyfarwydd yng Nghymru—er y collir cymhlethdod y gangen enfawr Indo-Iranaidd.


Mae enwau'r ieithoedd ar ochr dde pob cangen ac enwau'r canghennau yn dod o'r chwith. Felly, er enghraifft, mae Pynjabi yn iaith Indo-Ariaidd o gangen Indo-Iranaidd y teulu Indo-Ewropeaidd.

Mae ieithyddion wedi medru ail-greu ffurf Proto-Indo-Ewropeaidd o'r gair 'calon' drwy gymharu'r un ffurf yn ieithoedd modern y teulu, fel yn Ffigur 4.


Mae maes teipoleg (*typology*; math o astudiaeth ieithyddol) hefyd yn ceisio cymharu nodweddion rhwng teuluoedd ieithyddol, a hynny'n **syncronig** (*synchronic*), sef disgrifio iaith/ieithoedd ar adeg benodol, y presennol fel arfer. Mae teipolegwyr yn cymharu strwythurau a pherthynas degau o ieithoedd o wahanol deuluoedd ar y tro, er mwyn darganfod a yw'r strwythurau hynny'n bresennol ym mhob iaith. Er enghraifft, mae trefn arbennig i eiriau mewn iaith ac mae angen edrych ar wahanol ieithoedd er mwyn dod o hyd i'r holl gyfuniadau posibl.

Os oes cyfuniad o eiriau sydd byth yn digwydd, efallai y bydd hyn yn datgelu rhywbeth am strwythurau posib iaith yn yr ymennydd. Nid yw cymharu ieithoedd y byd yn waith hawdd am amryw o resymau:

1. Mae rhai ieithoedd yn anhygyrch. Nid oes llawer o ddata ar gael am nifer fawr o ieithoedd y byd oherwydd eu bod yn cael eu siarad mewn mannau anghysbell neu beryglus.
2. Nid yw dehongli ieithoedd yn hawdd heb fod yn gyfarwydd iawn â nhw. Mae astud-



Ffigur 3: Coeden deulu'r ieithoedd Indo-Ewropeaidd cyfoes



Ffigur 4: Tarddiad 'calon' yn yr ieithoedd Indo-Ewropeaidd (Pokorny 1959; Dyen et al. 1992)

iaethau teipolegol yn gofyn am ddealltwriaeth ddofn neu gydweithio dwys.

3. Mae ieithoedd yn wahanol iawn ac felly yn aml yn anodd eu categoreiddio.

Mewn gwirionedd, mae ieithoedd mor anodd eu categoreiddio fel nad oes gwybodaeth bendant faint o ieithoedd sy'n bodoli hyd yn oed, ond mae yna sawl mil, gyda'r gronfa fwyaf adnabyddus yn rhestru dros 7,000 o ieithoedd (Simons & Fennig 2017).

Nodyn: Tafodiaith vs. Iaith

Mae Ffigurau 1 ac 2 yn rhoi syniad pa mor anodd yw gwahaniaethu rhwng iaith a thafodiaith ar adegau: mae Tsieinëeg yn cael ei rhannu'n wahanol ieithoedd llafar, ond un iaith ysgrifenedig ydyw. Yn ogystal, mae sawl enw'n cael ei roi i fwy nag un iaith sy'n perthyn yn agos, fel yr ieithoedd Karén a'r ieithoedd Sami, er enghraifft. Sut felly mae gwahaniaethu rhwng iaith a gwahanol dafodieithoedd o'r un iaith? Mae'n amlwg i siaradwyr y Gymraeg fod yna wahanol dafodieithoedd, ond rydym yn cydnabod mai'r un iaith sy'n cael ei defnyddio gan ein bod i gyd yn deall ein gilydd. Dyma'r mesur symlaf a'r un sydd amlaf ar waith ym maes ieithyddiaeth, ond gwleidyddiaeth, cymdeithas a hunaniaeth grefyddol sy'n aml yn pennu statws iaith neu dafodiaith. Er enghraifft, mae Tajicistan ac Affganistan yn rhannu ffin ac mae rhai o'u pobl yn siarad tafodieithoedd sy'n **gyd-ddealladwy** (*mutually intelligible*) y ddwy ochr i'r ffin honno. Serch hyn, gelwir iaith y siaradwyr yn Tajicistan yn Tajiceg (*Tajik*) ac iaith y siaradwyr yn Afghanistan yn Dari, neu 'Perseg Affgan' (fel a awgrymir gan yr enw, mae Dari yn gyd-ddealladwy yn yr un modd i rai sy'n siarad Perseg, sef prif iaith Iran, sydd i'r de-orllewin). Er bod gramadeg Tajiceg a Dari yn debyg iawn, maent yn gwahaniaethau o ran geirfa ac maent hyd yn oed yn defnyddio orgraff wahanol, sef sgrïpt Gyrilig (*Cyrillic script*, Кириллица) a sgrïpt Berso-Arabaid (*Perso-Arabic script*, الفبای فارسی), oherwydd rhesymau gwleidyddol

hanesyddol. Felly, ar lafar yn unig y mae'r ieithoedd yn ddealladwy i siaradwyr y ddwy iaith.

2.3 Iaith a chymdeithas

O ystyried rôl gymdeithasol iaith, nid yw'n syndod fod llawer o ymchwil ieithyddol yn canolbwyntio ar ddefnydd iaith o fewn cymdeithas. Gall ieithyddion astudio sut mae iaith yn newid yn ôl rhanbarth, a/neu sut mae ffactorau cymdeithasol fel oed, rhyw, a dosbarth cymdeithasol yn effeithio ar y defnydd o iaith. Mae llawer o ieithyddion hefyd yn ymddiddori yn y modd y mae unigolyn yn datblygu mwy nag un iaith, a pha fath o effeithiau y gellir eu darganfod pan fydd mwy nag un iaith mewn cyswllt â'i gilydd mewn cymuned.

2.3.1 Amrywio

Pan fydd rhywun yn siarad, bydd yn cyfleu rhywbeth amdano'i hun neu amdani ei hun. Mae **amrywio ieithyddol** (*linguistic variation*) yn digwydd ym mhob iaith. Hefyd, mae yna amrywio ieithyddol sy'n ymwneud â ffactorau cymdeithasol fel rhyw, oedran a dosbarth cymdeithasol, ac mae iaith hefyd yn gallu amrywio yn ôl y sefyllfa neu'r lleoliad. Mae Rhan VI yn cyflwyno maes amrywio ieithyddol, sy'n cynnwys astudio amrywio daearyddol, amrywio cymdeithasol ac amrywio arddulliadol.

Wrth i unigolyn siarad, cawn ryw argraff o ble mae'n dod. Er enghraifft, mae rhywun o Gaerdydd yn fwy tebygol o ddweud *fe* yn hytrach na *fo*, a *mas* yn hytrach nag *allan*. Mae hyn oherwydd ein bod yn cysylltu acen neu dafodiaith benodol â rhanbarth penodol. Cyflwynir maes tafodieitheg yng Nghymru a'r cysyniad o **amrywio daearyddol** (*geographical variation*) yn Rhan 39.

Ond nid daearyddiaeth yn unig sy'n effeithio ar y ffordd y mae person yn siarad. Mae'n bosib gweld gwahaniaeth—ar sail rhyw, rhywedd, oedran a hyd yn oed rhwng gwahanol ddosbarthiadau cymdeithasol a chefnidiroedd cymunedol neu ethnig. Bydd y Rhan 40 yn trin a thrafod maes **amrywio cymdeithasol** (*social variation*), a sut y mae ffactorau cymdeithasol yn dylanwadu ar amrywio ieithyddol a newid iaith dros amser.

Cyflwynir hefyd astudiaeth o'r modd y mae siaradwyr yn amrywio'r ffordd y maent yn siarad mewn sefyllfaoedd gwahanol. Byddwch yn cael eich cyflwyno i'r cysyniadau o **amrywio arddulliadol** (*stylistic variation*) ac **amrywio cywair** (*register variation*), a sut mae agweddau fel ffurfioldeb sefyllfa yn gallu dylanwadu ar y ffordd y mae person yn siarad. Er enghraifft, mae gan bawb arddull iaith anffurfiol y maent yn ei defnyddio efo teulu neu ffrindiau, ond mewn cyfweiliad am swydd, neu mewn darlith, mae'n amlwg fod defnyddio arddull fwy ffurfiol yn addas.

Gall ieithyddion gyfrannu at wella cymdeithas drwy ddogfennu perthynas ieithoedd â chefnidiroedd unigolion. Mae safbwyntiau meddygol a gwleidyddol hanesyddol wedi eu cywiro i ffafrio grwpiau lleiafrifol ac unigolion sy'n agored i niwed yn rhannol oherwydd dylanwad ieithyddion. Ym mlynnyddoedd olaf y 1970au yn Unol Daleithiau America gofynnwyd i sawl ieithydd ymddangos o flaen y llys i dystio bod gan y gymuned (dlawd) ddu yn Ann Arbor (ac yn y rhan fwyaf o UDA) dafodiaith oedd yn wahanol i Saesneg Safonol yr ardal. Ar y pryd roedd eu tafodiaith yn cael ei hystyried yn iaith 'unigolion llai deallus' yn hytrach na thafodiaith â rheolau gramadegol gwahanol i rai'r iaith safonol. Nid oedd athrawon ysgol yn ymwybodol

o'r dafodiaith na'i nodweddion ac felly roeddent wedi trin disgyblion o'r gymuned ddu leol fel petaent yn llai galluog, gan eu cadw yn ôl yn yr ysgol a'u gyrru am driniaeth seicolegol. Roedd hyn yn amlwg yn effeithio'n negyddol ar ddatblygiad ac addysg y disgyblion. Yn yr achos llys hwn galwodd eu cyfreithiwr ar ieithyddion i esbonio mai gwahanol, ac nid diffygiol, oedd tafodiaith y disgyblion—yn ogystal â chytuno ar y rhesymau dros y gwahaniaethau hyn—er mwyn dangos bod yr ysgol wedi esgeuluso'i dyletswyddau (Labov 1982). Ymysg tystiolaeth arall, dangosodd yr ieithyddion i'r llys fod system ramadegol gyson i iaith y disgyblion a bod y system ramadegol hon yn gyson ar draws poblogaethau du mewn dinasoedd eraill. Drwy ddangos cysondeb gramadeg y dafodiaith mewn gwahanol siaradwyr mewn gwahanol ddinasoedd, llwyddodd yr arbenigwyr i brofi bod y system addysg leol wedi methu trin y disgyblion mewn ffordd addas oherwydd eu cefndir a hanes eu cymuned, gan fynd yn groes i gyfraith UDA (Labov 1982). Ceir golwg manylach ar ieithyddiaeth gymdeithasol, neu sosioieithyddiaeth (*sociolinguistics*), yn Rhan 40.4.

2.3.2 Amlieithrwydd

Hawdd yw meddwl bod dwyieithrwydd yn anghyffredin gan fod rhai o ieithoedd mwyaf adnabyddus y byd yn cael eu siarad gan boblogaethau enfawr. Mewn gwirionedd, mae amlieithrwydd i'w weld ym mron pob gwlad yn y byd, ym mhob dosbarth o gymdeithas ac ym mhob grŵp oedran. Amcangyfrifir bod dros hanner poblogaeth y byd yn ddwyieithog (Grosjean 1989; Crystal 1997).

Mae'r term 'dwyieithog' yn disgrifio rhywun sy'n medru dwy iaith. Yn aml, defnyddir y term i gyfeirio at bobl sy'n defnyddio tair neu fwy o ieithoedd hefyd. Yn y llyfr hwn defnyddir y term 'amlieithog' ac 'amlieithrwydd' i gyfeirio'n benodol at unigolion neu gymdeithasau sy'n siarad o leiaf ddwy iaith, ond 'dwyieithog' a 'dwyieithrwydd' pan mai dwy iaith yn unig sy'n berthnasol. Mewn llawer o wledydd ledled y byd, defnyddir sawl iaith gan y rhan fwyaf o'r gymdeithas.

Bydd llawer yn gyfarwydd â'r safbwynt hanesyddol o feddwl bod dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn niweidio datblygiad plant ac yn rhwystr i gytgord cymdeithasol; drwy astudio poblogaethau amlieithog profwyd nad yw hyn yn wir. Bwriad Rhan VII 'Amlieithrwydd' yw edrych ar natur amlieithrwydd, gan gynnwys datblygiad a'r defnydd o fwy nag un iaith gan unigolyn a rôl amlieithrwydd mewn cymdeithas. Mae'r rhan hon yn trafod dysgu mwy nag un iaith fel plentyn, gan gynnwys y defnydd o fwy nag un iaith yn y cartref ac yn yr ysgol. Mae'r rhan hon hefyd yn edrych ar ddysgu iaith fel oedolyn a'r defnydd o fwy nag un iaith mewn siaradwyr amlieithog. Ceir golwg ar y defnydd o fwy nag un iaith mewn cymuned, sut mae cymunedau'n dod yn rhai amlieithog a'r hyn sy'n gallu digwydd pan fydd dwy iaith (neu fwy) yn cydgyffwrdd yn gymdeithasol. Mae diwedd y rhan yn cynnwys golwg ar effaith cydgyffwrdd ieithyddol ar ramadeg a datblygiad ieithoedd newydd oherwydd amlieithrwydd cymdeithasol.

2.3.3 Y defnydd o ieithoedd mewn cymdeithas

Bydd rhan olaf y llyfr hwn yn cyflwyno rhai disgyblaethau academaidd a chymhwysol (*applied*) sy'n gysylltiedig ag ieithyddiaeth ac a all fod o ddiddordeb i rywun â chefnidir cadarn mewn ieithyddiaeth.

Mae astudio iaith yn gorgyffwrdd â llawer o ddisgyblaethau eraill, gan gynnwys seicoleg, cyfrifiadureg, anthropoleg a chymdeithaseg. Bydd Rhan VIII 'Cymhwysio ieithoedd at wyddorau

eraill' yn cyflwyno rhai o'r meysydd mwyaf perthnasol i siaradwyr Cymraeg ac i Gymru, gan gynnwys polisi iaith a chynllunio, addysgu dysgwyr ail iaith, a thechnolegau iaith fel gwirwyr sillafu a gramadeg (*spelling and grammar checkers*) ac adnabod lleferydd (*speech recognition*).

Gall astudiaethau ieithyddol ddylanwadu ar bolisiau cenedlaethol neu ranbarthol. Ymhlith poblogaeth gymysg neu amlieithog, mae polisiau o'r fath yn hanfodol i warchod hunaniaeth y boblogaeth ac, yn bwysicach, i gynnal anghenion y boblogaeth a'r diwydiannau lleol sy'n eu gwasanaethu. Mae'r enghraifft a roddwyd yn adran 2.3.1 o waith Labov (1982) yn dangos pwysigrwydd cydnabod gwahanol boblogaethau o fewn cymunedau, yn ogystal â phwysigrwydd cydnabod eu hanghenion dan y gyfraith genedlaethol. Yn ôl y gyfraith hon:

Ni chaiff unrhyw dalaith yn UDA ymyrryd â hawl unigolyn i gyfleoedd addysgol oherwydd ei hil, ei liw, [...] yn sgîl methiant gan asiantaeth addysg i oresgyn rhwystrau ieithyddol.

Cod yr Unol Daleithiau, Adran 1703(f)


(Cyfieithiad gwreiddiol)

Mae'r gyfraith hon yn gwahardd gwahaniaethu rhwng disgyblion oherwydd eu cefndir ieithyddol, boed yr iaith honno'n un swyddogol yn ôl y gyfraith ai peidio. Yng Nghymru, mae sawl polisi iaith yn hybu dwyieithrwydd cenedlaethol ac yn amddiffyn hawliau unigolion i gael mynediad at wasanaethau yn y Gymraeg. Nid dyna'r sefyllfa na'r gyfraith ragosodedig yn hanesyddol yn y Deyrnas Unedig. Dim ond yn dilyn Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 yr enillwyd hawliau cyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y llys yn y Deyrnas Unedig ac yna, yn 1993, diwygiwyd yr un ddeddf i gynnwys hawliau cyfreithiol i gael darpariaeth Gymraeg yn y sector gyhoeddus (yr heddlu, addysg uwch a.y.b.). Gall polisiau iaith felly ddylanwadu'n uniongyrchol ar fywydau siaradwyr ieithoedd lleiafrifol gan gyfrannu un ai at amddiffyn neu at ddinistrio eu diwylliant.

2.3.4 Technoleg

Nid drwy bolisiau iaith yn unig y mae dylanwadu ar ddefnydd iaith yn ddyddiol. Mae pob rhyngwyneb technolegol yn ddibynnol ar wybodaeth ieithyddol i ryw raddau. Fel arfer, mae angen dealltwriaeth o'r fath i greu peiriannau chwilio, teclynnau adnabod lleferydd (*speech recognition*) ac unrhyw achos lle mae angen i gyfrifiaduron greu testun y gallwn ei ddeall. Er mwyn datblygu'r dechnoleg hon, mae angen sawl adnodd ieithyddol: gwybodaeth am strwythur yr iaith (cystrawen, ffonoleg a.y.b.) a llawer iawn o ddata ('data mawr') er mwyn hyfforddi'r feddalwedd i ymateb i orchmynion. Mae angen data mawr—adnoddau â llawer o enghreifftiau o'r iaith berthnasol—er mwyn dod o hyd i batrymau yn yr iaith. Yna, mae'r feddalwedd yn asesu'r tebygolrwydd y bydd y strwythur yn ymddangos.

Mae awgrymiadau fel yr un yn Ffigur 5 i'w gweld yn gyffredin mewn peiriannau chwilio; gall meddalwedd awgrymu cymal neu ddilyniant mwy tebygol yn seiliedig ar debygolrwydd y patrymau ar draws ystod eang o ddata. Mae Rhan VIII yn cynnwys amryw o adrannau ar berthynas a pherthnasedd technoleg ac iaith yn ogystal â golwg pellach ar gyfieithu, dysgu ail iaith i oedolion ac ar bolisi iaith.



Ffigur 5: Canlyniad chwilio yn dangos camsillafiad ym mewnbyn chwiliad gwe

3 Sut mae astudio ieithoedd?

Wrth ddarllen y paragraffau uchod, mae'n dod yn amlwg nad maes unffurf yw ieithyddiaeth. Mae sawl agwedd a thechneg dan sylw er mwyn ceisio canfod atebion i'r cwestiynau mwyaf sylfaenol. Sut felly mae dod o hyd i'r atebion hyn mewn ffordd sy'n galluogi'r maes i ddatblygu mewn cytgordd? Rhaid defnyddio dulliau gwyddonol i gynnal safonau cyson, a'r unig ffordd o wneud hyn—hyd heddiw—yw drwy lunio damcaniaeth (*theory*).

3.1 Beth yw damcaniaeth?

Mae ieithyddion yn astudio iaith o safbwynt systematig, gan ffurfio damcaniaethau (theorïau) sy'n ystyried strwythur a defnydd iaith. Er enghraifft, mae rhai damcaniaethau'n ceisio disgrifio gramadeg iaith fel un system gyflawn. Ceir hefyd ddamcaniaethau sy'n ymdrin â'r defnydd o iaith, er enghraifft er mwyn ceisio disgrifio sut mae siaradwyr iaith A yn dysgu iaith B.

Mae angen i ddamcaniaeth **ddisgrifio**’r hyn sy’n digwydd, **egluro** pam mae’n digwydd yn y ffurf a welir (neu a glywir), a **rhagfynegi**’r hyn fydd yn digwydd yn y dyfodol mewn modd cywir, h.y. sut fydd y system yn newid.

Ffurio damcaniaeth

Ffurio damcaniaeth am siaradwyr iaith A yn dysgu iaith B

- Disgrifio sut mae siaradwr ail iaith sy'n dysgu ail iaith fel oedolyn yn siarad yn wahanol i siaradwr iaith gyntaf, e.e. sut mae siaradwyr Almaeneg yn cynhyrchu seiniau'r Gymraeg ar ôl iddyn nhw symud i Gymru.
- Esbonio pam maen nhw'n dysgu yn y ffordd honno, e.e. egluro pam maen nhw'n

cael trafferth efo rhai o seiniau'r Gymraeg. Ydy'r seiniau yn y Gymraeg yn rhy debyg neu'n annhebyg i iaith gyntaf y siaradwr?

- Rhagfynegi be fysai'n digwydd tasai person o gefndir gwahanol yn dysgu'r iaith. Rhagfynegi be fysai'n digwydd pe tasai'r siaradwr yn dysgu iaith wahanol, neu pe tasai siaradwyr iaith wahanol yn dysgu'r Gymraeg.

3.2 Profi rhagdybiaethau

Mae profi rhagdybiaethau yn dechneg ymchwil wyddonol. Gan ddefnyddio'u sylwadau fel sail, mae gwyddonwyr ac ieithyddion yn llunio rhagdybiaethau. Rhagdybiaeth yw'r syniad y mae'r ymchwilydd yn ei gynnig fel esboniad o'r hyn sy'n digwydd. Ar ôl llunio'r rhagdybiaeth, mae angen defnyddio data 'go iawn' i brofi bod y syniad un ai'n gywir neu'n anghywir.

Rhagdybiaeth

Bod <ll> Gymraeg yn sain anodd i siaradwyr Almaeneg (fel iaith gyntaf) ei chynhyrchu am nad yw'r sain yn bodoli mewn Almaeneg.

Os nad yw'n bosib profi bod syniad yn gywir neu'n anghywir, nid yw'r rhagdybiaeth yn un gwyddonol gywir. Mae'n rhaid i'r rhagdybiaethau sy'n sail i'n damcaniaeth fod yn brofadwy (*testable*) ac yn anwiriadwy (*falsifiable*); mae angen gallu eu profi neu eu gwrthbrofi.

3.3 Fframweithiau damcaniaethol

Gan nad oes llawer o gytundeb mewn ieithyddiaeth o ran elfennau sylfaenol gramadeg, mae'n bwysig gweithio o fewn fframwaith damcaniaethol. Mae'r fframweithiau'n cynnwys nifer o syniadau am strwythur gramadeg ac yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau o ieithyddion ac academyddion. Mae'r fframweithiau'n galluogi ymchwilydd i lunio rhagdybiaethau sy'n cydlyn â rhagdybiaethau ymchwilwyr eraill, ac wrth iddynt weithio i brofi a gwirio eu rhagdybiaethau gallant fanylu ar wahanol agweddau o'r ddamcaniaeth. Hynny yw, trwy weithio o fewn yr un fframwaith, gall ieithyddion weithio tuag at brofi'r un ddamcaniaeth neu ddamcaniaethau. Mae enghreifftiau ac esboniad sylfaenol o'r fframweithiau hyn ar gael ar ddiwedd Rhan IV.

4 Amcanion y gyfrol

Nod y gyfrol hon yw cyflwyno maes ieithyddiaeth o safbwynt Cymreig, ac yn amlwg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dros ddeg mlynedd ar hugain ers cyhoeddi'r cyflwyniad diwethaf yn Gymraeg, ac er bod cyflwyniadau di-ri ar gael yn Saesneg y tueddiad yw i'r sylw ganolbwyntio ar yr agweddau sydd fwyaf perthnasol i'r iaith sy'n cael ei ddefnyddio. Dyma gyfle i ddiweddarau

ac adnewyddu'r hen gyflwyniadau cyfrwng Cymraeg gan osod pwyslais ar elfennau gramadegol a materion perthnasol i'r Gymraeg o fewn cyflwyniad cyfoes.

Mae pob rhan o'r gyfrol yn cynnwys enghreifftiau o'r ymchwil ddiweddaraf yn y maes. Un agwedd bwysig ar y gwaith presennol yw cydnabod y problemau, gan gynnwys diffyg ymchwil ar y Gymraeg mewn rhai o'r is-feysydd dan sylw. Gan fod ieithyddiaeth yn ddisgyblaeth gymharol ifanc, mae pob rhan yn cynnwys rhestr o ddeunydd darllen pellach yn y Gymraeg pan fo modd, yn ogystal â chyfeiriadau at ddeunydd Saesneg. Ar ddiwedd pob rhan, ceir cwestiynau i brofi dealltwriaeth ac ysgogi trafodaeth, yn y gobaith y bydd llu o ymchwil newydd ar ieithyddiaeth Gymraeg yn dilyn.

Termau allweddol

Ar ddechrau pob rhan o'r llyfr, ceir rhestr o dermau allweddol i'w dysgu wrth ddarllen y rhan honno. Mae'r termau allweddol ac unrhyw eiriau sydd angen eu pwysleisio mewn **mewn teip trwm**. Mae'r termau allweddol o'r cyflwyniad wedi eu rhestru yma. Dylid ymglyfarwyddo â'r holl dermau allweddol sydd wedi eu rhestru erbyn diwedd pob rhan.

Geirfa allweddol

ieithyddiaeth	seiniau	seineg
ffonoleg	morffoleg	cystrawen
semanteg	pragmateg	gramadeg
bannod benodol	diacronig	synchronig
coeden deulu	tafodiaith	cyd-ddealladwy
amrywio ieithyddol	amrywio daearyddol	amrywio cymdeithasol
amrywio arddulliadol	amrywio cywair	damcaniaeth
rhagdybiaeth		

Cwestiynau

1. Ym mha ffyrdd y mae astudio ieithyddiaeth o gymorth i gymdeithas?
2. Pa ieithoedd adnabyddus sydd ar goll o'r rhestrau yn Ffigurau 1 a 2? I ba deulu y mae Fietnameg yn perthyn?
3. A yw ystyr geiriau'n gyson ymysg gwahanol ieithoedd?

Darllen pellach

Cyfrwng Cymraeg

Thorne, D. A. 1985. *Cyflwyniad i astudio'r iaith Gymraeg*. Cyhoeddwyd ar ran Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru gan Wasg Prifysgol Cymru

Cyfrwng Saesneg

Hammarström, H., S. Bank, R. Forkel & M. Haspelmath. 2017. Glottolog 3.1. Max Planck Institute for the Science of Human History. URL <http://glottolog.org/>

Rhan II

Seiniau iaith: seineg a ffonoleg

SARAH COOPER

5 Beth yw seineg a ffonoleg?

Wrth drafod cyfathrebu, rhaid ystyried pa seiniau sy'n bwysig mewn iaith i greu'r geiriau neu rannau geiriau sy'n cyfleu'r ystyr. Mae adeiladu unedau ystyr iaith yn dibynnu ar y gallu i gyfuno seiniau i gynhyrchu lleferydd sy'n codio neges i'n gwrandawyr.

Rhennir yr astudiaeth o seiniau iaith yn ddwy ddisgyblaeth: **seineg** (*phonetics*) a **ffonoleg** (*phonology*). Seineg yw'r astudiaeth o seiniau'r iaith lafar, yn benodol sut maent yn cael eu cynhyrchu a sut maent yn cael eu **canfod** (*perceive*). Fel arfer, mae seinegwyr yn gofyn cwestiynau fel: sut mae seiniau lleferydd yn cael eu **cynanu** (*articulate*)? Faint o seiniau gwahanol all gael eu defnyddio mewn ieithoedd? Sut allwn ni fesur lleferydd?

Mae ffonoleg hefyd yn delio â seiniau'r iaith lafar ond ar lefel fwy **haniaethol** (*abstract*). Ffonoleg yw astudiaeth o sut mae ieithoedd yn trefnu seiniau mewn patrymau. Fel arfer, mae ffonolegwyr yn gofyn cwestiynau fel: pa seiniau sy'n cyfrif fel yr un peth mewn iaith? Pa seiniau sy'n cyfrif fel pethau gwahanol mewn iaith? Oes unrhyw gyfyngiadau ym mha drefn y gall seiniau ymddangos mewn iaith? Pa fath o brosesau sy'n effeithio ar seiniau pan maent yn cael eu cyfuno?

Er ei bod yn bosibl i'r **llwybr llais** (*vocal tract*) gynhyrchu cannoedd o seiniau gwahanol, dim ond is-set sy'n cael ei defnyddio yn y rhan fwyaf o ieithoedd y byd. Yn drawsieithyddol, mae rhai seiniau'n fwy cyffredin nag eraill. Er enghraifft, mae gan y rhan fwyaf o ieithoedd y byd sain /t/, fel yn y geiriau Cymraeg *ti*, *atal* a *het*, ond dim ond ychydig iawn sydd â'r sain /t/, fel yn y geiriau *llawr*, *allan* a *gwell*. Rhestr gymharol fach o seiniau lleferydd gwahanol sydd gan y rhan fwyaf o ieithoedd ([Maddieson 2013a](#)).

5. Beth yw seineg a ffonoleg?

YR WYDDOR SEINEGOL RYNGWLADOL (diwygiwyd 2019)

CYTSEINIAID (YSGYFEINIOL)

© 2019 IPA


	Dwywefusol	Gwefus-ddeintiol	Deintiol	Gorfannol	Ôl-orfannol	Ôl-blyg	Taflodol	Felar	Wfwlar	Ffaryngeal	Glotal
Ffrwydrolyn	p b			t d		ʈ ɖ	c ɟ	k ɡ	q ɢ		ʔ
Trwynolyn	m	ɱ		n		ɳ	ɲ	ŋ	ɴ		
Tril	ʙ			r					ʀ		
Tap neu Fflap		ɸ		ɾ		ɽ					
Ffrithiolyn	ɸ β	f v	θ ð	s z	ʃ ʒ	ʂ ʐ	ç ʝ	x ɣ	χ ʁ	ħ ʕ	h ɦ
Ffrithiolyn ochrol				ɬ ɮ							
Dynesolyn		ʋ		ɹ		ɻ	j	ɰ			
Dynesolyn ochrol				ɻ		ɺ	ʎ	ɮ			

Cynrychiola symbol ar ochr dde cell gytsain lleisiol, gyda'r symbol di-lais ar y chwith. Dynoda'r meysydd tywyll gynniadau y bernir eu bod yn amhosib.

CYTSEINIAID (ANYSGYFEINIOL)

Cliciau	Mewnffrwydrolyn lleisiol	Allafladiolion
⊙ Dwywefusol	ɸ Dwywefusol	ˀ Enghreifftiau:
Deintiol	ɸ Deintiol/gorfannol	ɸ Dwywefusol
! Ôl-orfannol	ɸ Taflodol	ɸ Deintiol/gorfannol
≠ Taflod-orfannol	ɸ Felar	ɸ Felar
Gorfan-ochrol	ɸ Wfwlar	ɸ Ffrithiol gorfannol

LLAFARIAID



Lle y ceir pâr o symbolau, cynrychiola'r un ar y dde lafariad gron.

SYMBOLAU ERAILL

- ɸ Ffrithiolyn gwefus-felar di-lais
- ɸ Ffrithiolion gorfan-daflodol
- ɸ Dynesolyn gwefus-felar lleisiol
- ɸ Fflap gorfan-ochrol lleisiol
- ɸ Dynesolyn gwefus-daflodol lleisiol
- ɸ Ffrithiolir cytseiniaid affrithiol a chynniadau dwbl gyda dau symbol ynghlwm â chromfar pan fo'r angen.
- ɸ Ffrithiolyn epiglotig di-lais
- ɸ Ffrithiolyn epiglotig lleisiol
- ɸ Ffrwydrolyn epiglotig

ts kp

UWCHSEGMENTOLION

- ˀ Prif bwyslais
- ˁ Pwyslais eilaidd
- ˁˁ Hir
- ˁˁˁ Hanner-hir
- ˁˁˁˁ Byr iawn
- ˁˁˁˁˁ Grŵp (corfan) bychan
- ˁˁˁˁˁˁ Grŵp (goslef) mawr
- ˁˁˁˁˁˁˁ Ffin ryngsillafol
- ˁˁˁˁˁˁˁˁ Cysylltu (heb ffin)

MARCIAU DIACRITIG

◌̥ Di-lais	◌̥ ◌̥	◌̥ Lleisio anadlol	◌̥ ◌̥	◌̥ Deintiol	◌̥ ◌̥
◌̇ Lleisiol	◌̇ ◌̇	◌̇ Lleisio creclyd	◌̇ ◌̇	◌̇ Blaendafodol	◌̇ ◌̇
◌̈ Wedi'i anadlu	◌̈ ◌̈	◌̈ Tafod-wefusol	◌̈ ◌̈	◌̈ Llafnodol	◌̈ ◌̈
◌̉ Mwy crwn	◌̉	◌̉ Wedi'i wefusoli	◌̉ ◌̉	◌̉ Wedi'i drwynoli	◌̉
◌̊ Llai crwn	◌̊	◌̊ Wedi'i dafodi	◌̊ ◌̊	◌̊ Rhyddhad trwynol	◌̊ ⁿ
◌̋ Wedi'i flaenu	◌̋	◌̋ Wedi'i felareiddio	◌̋ ◌̋	◌̋ Rhyddhad ochrol	◌̋ ^l
◌̌ Wedi'i ddatynnu	◌̌	◌̌ Wedi'i ffaryngealeiddio	◌̌ ◌̌	◌̌ Heb ryddhad clywedol	◌̌ ^ʔ
◌̍ Canoledig	◌̍	◌̍ Wedi'i felareiddio neu'i ffaryngealeiddio	◌̍		
◌̎ Canoledig-ganolog	◌̎	◌̎ Wedi'i godi	◌̎ (ɹ = ffrithiolyn gorfannol lleisiol)		
◌̏ Sillafog	◌̏	◌̏ Wedi'i ostwng	◌̏ (ɸ = dynesolyn dwywefusol lleisiol)		
◌̐ Ansillafog	◌̐	◌̐ Gwraidd y tafod wedi'i flaenu	◌̐		
◌̑ Rhotig	◌̑ ◌̑	◌̑ Gwraidd y tafod wedi'i ddatynnu	◌̑		

Caiff rhai marciau diacritig eu gosod uwchben symbolau sydd â chynffon, e.e. ɲ̥

Ffurfdeipiau: Doulos SIL (metadestun); Doulos SIL, IPA Kiel, IPA LS Uni (symbolau)

Geirfa allweddol

seineg	canfod	haniaethol
llwybr llais	orgraff	tryloyw
anhryloyw	diamwys	cyferbynnu
nodiant	llwybr llais	all-lifol
mewnlifol	ysgyfeiniol	all-dafladol
clic	cynanwr	afal breuant
meinwe	lleisio	agen
glotis	lleisiol	di-lais
tannau llais	laryncs	ceudod y geg
ansawdd y llais	ceudod y trwyn	llwybr llais uchaf
cynanwr gweithredol	cynanwr goddefol	Wyddor Seinegol Ryngwladol
trawsgrifio	pilen y glust	uwchsain
gwrym y gorfant	taflod galed	felwm
wfwla	ffaryncs	blaen y tafod
llafn y tafod	corff y tafod	gwraidd y tafod
modd cynanu	man cynanu	dwywefusol
gwefus-ddeintiol	deintiol	gorfannol
ôl-orfannol	ôl-blyg	taflodol
felar	wfwlar	ffaryngeal
glotal	gradd o gulhad	ynghau
dynesiad agos	dynesiad agored	rhwystrolyn
soniarusyn	graddfa soniaredd	eilededd sain
ffrwydrolyn	trwynolyn	geneuol
ffrithiolyn	tyrfol	affrithiolyn
tril	tap	fflap
dynesolyn	atalsain	unseiniaid
deuseiniaid	llafariad canol	llafariad cefn
llafariad agored	crynio	lledu
llafariad anghron	uno	deuseiniaid cau
cyferbyniad	cyferbyniol	ffurf waelodol
gwireddiad seinegol	cyrch	odl
sillaf agored	goben	lefel y sain
traw	uwchsegmentolion	seingolli
llafariad ymwithiol	cymathu	sbardun
meddalau	caledu	dadleisio

6 Sillafu a thrawsgrifio

Wrth ysgrifennu'r geiriau rydym yn eu cynhyrchu, rydym yn eu sillafu â llythrennau fel <t>, <h>, neu <s>. Ond nid yw'r llythrennau sy'n cael eu hysgrifennu bob amser yn cynrychioli'r un sain (e.e. mae <y> yn gallu bod yn /ə/ fer, fel yn *fy* ac *yr*, neu'n /ɪ/ fer, fel yn *mynd* a *cyn*, neu'n /i:/ hir, fel yn *sydd* a *tŷ*); hefyd, mae'n bosibl defnyddio mwy nag un llythyren i gyfleu'r un sain (e.e. <ph> a <ff> i gynrychioli /f/). Fodd bynnag, mae sillafu neu **orgraff** (*orthography*) y Gymraeg yn gymharol **dryloyw** (*transparent*); mae'r **gyfatebiaeth** (*correspondence*) rhwng llythrennau a'r seiniau sy'n cael eu cynanu yn eithaf clir. Gwyddom fod orgraff nifer o ieithoedd, fel Saesneg a Ffrangeg, yn **anhryloyw** (*opaque*), sy'n golygu nad yw'r cysylltiad rhwng y seiniau sy'n cael eu cynhyrchu a'r ffordd y maent yn cael eu hysgrifennu mor glir ag yn y Gymraeg. Er enghraifft, yn Saesneg mae <ough> yn gallu cynrychioli /ʌf/ fel yn *rough*, y llafariad /u:/ fel yn *through*, neu lafariad arall fel /æʊ/ fel yn *dough*.

Sylwer yn yr adran uchod fod y llythrennau'n cael eu dangos o fewn bachau ongllog < > a sain yn cael ei dangos rhwng dau slaes / /. Rhwng y ddau slaes, defnyddir symbol sy'n rhan o set sydd wedi cael ei derbyn yn rhyngwladol, sef yr **Wyddor Seinegol Ryngwladol** (*International Phonetic Alphabet*, IPA), a hyrwyddwyd gan yr International Phonetic Association. Mae'r IPA yn wyddor gwbl dryloyw, sy'n golygu bod un symbol yn cyfleu un sain yn unig. Mae'r wyddor hon yn galluogi ieithyddion i ddefnyddio set o symbolau sy'n **ddiamwys** (*unambiguous*) bob tro. Mae hynny hefyd yn golygu ei bod yn bosibl nodi ieithoedd anhryloyw mewn modd tryloyw. Defnyddir y symbolau hyn ar gyfer **trawsgrifio** (*transcription*) gan ieithyddion ledled y byd. Mae'n bwysig deall bod trawsgrifio yn wahanol i sillafu, am y rhesymau a gyflwynwyd uchod: mae gan wahanol ieithoedd orgraff (neu hyd yn oed sgript) wahanol, sy'n gallu bod yn amwys. Defnyddir y term 'symbolau' yn hytrach 'llythrennau' wrth sôn am wyddor yr IPA.

Wrth drawsgrifio seiniau lleferydd, rydym yn gallu eu rhoi rhwng dau slaes, / /, fel yn yr enghreifftiau uchod. Yng ngweddill y bennod hon byddwch hefyd yn gweld bachau petryal, []. Defnyddir y slaesau neu fachau petryal i ddangos trawsgrifiad o seiniau yn hytrach na'r llythrennau a ddefnyddir i'w sillafu. Pan roddir symbol rhwng dau slaes, mae'n dangos bod y sain honno'n creu gwahaniaeth ystyr yn yr iaith. Drwy ei chyfnewid â sain arall, gallwn weld a yw sain yn creu gwahaniaeth ystyr mewn iaith ai peidio. Er enghraifft, os ydym yn cymryd y gair *oer* /ɔɪr/ ac yn cyfnewid y sain /r/ am /n/, rydym yn cael y gair *oen* /ɔɪn/. Mae'r gair hwn yn golygu rhywbeth hollol wahanol yn Gymraeg ac yn dangos bod /r/ a /n/ yn seiniau pwysig ar gyfer gwahaniaethu rhwng geiriau yn yr iaith. Fodd bynnag, gallwn ynganu'r /r/ naill ai fel [r] (fel mae'r rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn ei wneud) neu fel [ʀ], y ffrithiolyn wfwlar di-lais (*voiceless uvular fricative*, gweler Adran 8) sy'n cael ei ddefnyddio gan rai siaradwyr Cymraeg). Wrth gyfnewid [r] am [ʀ], gallwn glywed y gwahaniaeth ond nid oes gwahaniaeth ystyr rhyngddynt. I drawsgrifio gwahaniaeth ystyr rydym yn defnyddio slaesau, ac i drawsgrifio agweddau manwl o'r ffordd y caiff y seiniau hynny eu cynhyrchu, rydym yn ddefnyddio bachau petryal. Bydd rhagor o wybodaeth am **gyferbynnu** (*contrast*)

yn Rhan 10 ar gysyniadau ffonolegol allweddol.

Mae seinegwyr wedi defnyddio dulliau traddodiadol fel gwrando'n ofalus ac wedi datblygu **nodiant** (*notation*) i drawsgrifio a'u helpu i ddadansoddi seiniau lleferydd. Un o'r heriau y mae seinegwyr yn ei hwynebu yw nad yw fel arfer yn bosibl gweld yr hyn y maent yn ei astudio. Ni allwch weld y tafod wrth iddo symud o fewn ceg rhywun, na gweld tonnau sain yn teithio drwy'r aer, na sut mae **pilen y glust** (*ear drum*) yn dirgrynu. Yn ystod y degawdau diwethaf, mae wedi dod yn bosibl gweld siaradwyr yn cynhyrchu lleferydd drwy ddefnyddio offer megis peiriant MRI neu beiriant **uwchsain** (*ultrasound*), a hefyd i ddadansoddi'r signal acwstig yn ddigidol gan ddefnyddio cyfrifiadur. Ers blynyddoedd lawer, rydym wedi dysgu sut mae bodau dynol yn llunio seiniau lleferydd, a bydd yr adran nesaf yn cyflwyno rhannau o'r corff sy'n bwysig wrth gynhyrchu lleferydd.

7 Cynhyrchu lleferydd


Cynhyrchir lleferydd drwy ddod ag aer o'r **ysgyfaint** i fyny drwy'r **llwybr llais** (*vocal tract*). Mae'r llwybr llais yn cynnwys rhannau o'r corff rydym yn eu defnyddio i gynhyrchu sain: y **tannau llais** o fewn y **laryncs** a'r rhannau uwchben y laryncs: y **ffaryncs**, **ceudod y geg** a **cheudod y trwyn**. Mae'r rhannau hyn i'w gweld yn Ffigur 6.

Defnyddir y term **cychwyn** (*initiation*) i gyfeirio at sut a ble mae'r aer yn dechrau symud. Pan mae aer yn symud allan i gynhyrchu sain, gelwir y sain yn sain **all-lifol** (*egressive*). Pan gaiff aer ei sugno i mewn i gynhyrchu seiniau, fe'u gelwir yn seiniau **mewnlifol** (*ingressive*).

Mae'r rhan fwyaf o seiniau lleferydd yn seiniau all-lifol, ac mae'r aer yn symud allan o'r ysgyfaint (sy'n eu gwneud nhw yn seiniau **ysgyfeiniol**, *pulmonic*). Mae pob sain ysgyfeiniol felly yn sain all-lifol, ond nid yw pob sain all-lifol yn ysgyfeiniol. Ceir seiniau lle mae'r aer yn symud allan, ond nad yw'r aer yn dechrau symud yn yr ysgyfaint; e.e. mae seiniau **alldafladol** (*ejective*) yn cychwyn pan mae'r tannau llais tu mewn i'r laryncs yn symud i fyny'n gyflym ac yn gorfodi'r aer i symud allan o'r ffaryncs. Defnyddir seiniau alldafladaol yn yr iaith Amhareg (*Amharic*, cangen Semitig y teulu Affro-Asiaidd, Ethiopia).

Mae seiniau **mewnlifol** yn cael eu defnyddio yn rhai o ieithoedd de a dwyrain Affrica (e.e. Swlw—neu *Zulu*—a Xhosa, ieithoedd Bantw o'r teulu Niger-Congo, a Nama, o'r teulu *Khoe*). Yn yr ieithoedd hyn ceir cytseiniaid **clic** sy'n digwydd wrth i'r aer cael ei sugno i mewn. Wrth gynhyrchu clic, mae dwy ran o'r geg ar gau: un yng nghefn y geg, ac un o flaen hynny. Mae hyn yn dal yr aer, ac wrth ryddhau'r tafod, mae'r aer yn cael ei sugno i mewn yn gyflym gan wneud y sŵn **clic** (Ladefoged & Johnson 2011:144).

Yng ngweddill y rhan hon, disgrifir seiniau ysgyfeiniol all-lifol yn unig, oherwydd dyma'r unig fathau o seiniau sy'n bodoli yn y Gymraeg. Ar ôl gadael yr ysgyfaint, mae'r aer yn symud trwy'r llwybr llais. Wrth i ni siarad, rydym yn symud rhannau'r llwybr llais i lywio symudiad yr aer drwyddo. Yn gyntaf, gellir dal y tannau llais ar wahân er mwyn caniatáu i'r aer basio drwyddynt neu gallant fod yn agos at ei gilydd er mwyn cynhyrchu sain (gelwir hyn yn **lleisio**;




Ffigur 6: Y llwybr llais a'r ysgyfaint

voicing). Yna mae'r llif aer o'r ysgyfaint yn cael ei siapio gan y **cynanwyr** (*articulators*) yn y geg a'r trwyn.

7.1 Y laryncs

Y laryncs yw'r strwythur o gartilag a chyhyrau ar frig y tracea (y bibell wynt) sy'n rheoli symudiadau'r **tannau llais**. Mae'n bosibl gweld lleoliad y laryncs y tu allan i'r gwddf mewn rhai oedolion, sef yr **afal breuant** (*Adam's apple*). Fflapiau **meinwe** (*tissue*) paralel yw'r tannau llais, ac maent yn ymestyn o'r blaen i'r cefn o fewn y laryncs. Maent yn cael eu dal yn eu lle gan gartilag sy'n rheoli'r pellter rhwng y tannau llais. Y gofod rhwng y tannau llais yw'r glotis (gweler Ffigur 7). Pan mae'r tannau llais yn cael eu dal yn agos at ei gilydd (ond heb fod wedi'u cau'n dynn), mae digon o aer o'r ysgyfaint yn achosi iddyn nhw ddirgrynu, a cheir **lleisio** (*voicing*). Yn Ffigur 7b mae'n bosibl gweld bod gan y glotis **agen** (*slit*) gul. Fodd bynnag, os yw'r glotis yn agored, fel yn Ffigur 7a, nid yw'r tannau llais yn dirgrynu. Mae'r gwahaniaeth hwn yn bwysig yn ieithoedd y byd i wahaniaethu rhwng cytseiniaid **lleisiol** a chytseiniaid **di-lais** (e.e. y cytseiniaid /ð/ a /θ/ ar ddiwedd y geiriau **sydd** /si:ð/ a **syth** /si:θ/).



Ffigur 7: Tannau llais ar wahân ar gyfer cynhyrchu seiniau di-lais (a) ac yn agos ar gyfer lleisio (b)


Cyflymder dirgrynu'r tannau llais sydd hefyd yn gosod **traw'r llais** (*voice pitch*), a'r ffordd y maent yn symud sy'n pennu **ansawdd y llais** (*voice quality*). Mae cyhyrau'r laryncs yn addasu hyd a thyndra'r tannau llais i newid traw ac ansawdd. Gall y ddwy nodwedd hyn amrywio rhwng siaradwyr (lleisiau pobl yn swno'n wahanol) ac o fewn siaradwyr (gall pobl addasu'r dirgryniad). Bydd rhagor o wybodaeth am y defnydd o draw'r llais yn Adran 11.3 'Tôn a goslef'.

7.2 Ceudod y geg a cheudod y trwyn

Ar ôl symud drwy'r laryncs, mae'r sain yn cael ei haddasu a'i hidlo ymhellach wrth iddi deithio trwy **geudod y geg** (*oral cavity*) neu **geudod y trwyn** (*nasal cavity*), sef y **llwybr llais uchaf** (*upper vocal tract*). Mae Ffigur 8 yn dangos yr holl **gynanwyr** allweddol.

Fel arfer, wrth gynhyrchu seiniau lleferydd rydym yn gwahaniaethu rhwng **cynanwyr gweithredol** (*active articulators*) a **chynanwyr goddefol** (*passive articulators*). Cynanwyr sy'n symud

yw cynanwyr gweithredol, tra bo cynanwyr goddefol yn rhai sy'n aros yn llonydd. Fel arfer, mae'r cynanwr goddefol yn rhan o dop y geg a'r cynanwr gweithredol yn rhan o'r tafod.



Ffigur 8: Ceudod y geg a cheudod y trwyn â'r cynanwyr wedi eu labelu

Gwefusau

Defnyddir y gwefusau wrth gynhyrchu cytseiniaid a llafariaid. Gall y ddwy wefus gyffwrdd â'i gilydd [p, b, m], fel ar ddechrau'r geiriau **pob** /po:b/, **bod** /bo:d/, **moch** /mo:χ/, neu gall y wefus isaf symud i gyffwrdd â'r dannedd [v, f], fel ar ddechrau'r geiriau **fab** /va:b/ a **ffa** /fa:/. Mae'r gwefusau yn bwysig hefyd wrth gynhyrchu llafariaid. Mae'n bosibl dod â chorneli'r geg i mewn i wneud y gwefusau'n grwn, fel gyda'r [u:] yn **sŵn** /su:n/, neu eu hystyng yn bell oddi wrth ei gilydd, fel yr [i:] yn **sir** /si:r/.

Dannedd

Mae'r dannedd yn cael eu defnyddio wrth gynhyrchu cytseiniaid fel [v, f] (**fab** /va:b/, **ffa** /fa:/) a /ð, θ/ (**sydd** /si:ð/ a **syth** /si:θ/). Yn y ddwy enghraifft gyntaf, mae'r wefus isaf yn symud i gyffwrdd â'r dannedd uchaf, ac yn yr ail set, mae'r tafod yn symud tuag at y dannedd uchaf.

Gwrym y gorfant

Rhan esgyrnog sydd ychydig y tu ôl i'r dannedd uchaf yw **gwrym y gorfant** (*alveolar ridge*). Gall y rhan fwyaf o bobl deimlo gwrym y gorfant drwy roi eu tafod ychydig tu ôl i'r dannedd uchaf, ond nid yw gwrym y gorfant wedi'i ddiffinio'n eglur gan rai pobl. Mae'r tafod yn symud tuag at wrym y gorfant ar gyfer seiniau fel [t, d, n] (*tal* /tal/, *dal* /dal/, *nant* /nant/).

Tafod galed

Y **daflod galed** (*hard palate*) yw'r rhan esgyrnog ar dop y geg y tu ôl i wrym y gorfant. Gall y rhan fwyaf o bobl deimlo'r daflod galed â'u tafod. Wrth gynhyrchu cytseiniaid a llafariad, mae'r tafod yn symud tuag at y daflod galed, er enghraifft i gynhyrchu [j], y gytsain ar ddechrau *iawn* /jaʊn/.

Felwm

Y **felwm** (*velum*), neu'r **daflod feddal** (*the soft palate*), yw'r feinwe feddal sy'n gwahanu'r geg a cheudod y trwyn. Mae'n bosibl codi neu ostwng cefn y felwm. Pan fo'r felwm yn uchel (ar gau), mae'r aer yn llifo i'r geg. Pan fo'r felwm ar agor, mae'r aer yn llifo i geudod y trwyn. Bydd mwy am y gwahaniaeth rhwng seiniau geneuol (*oral sounds*) a seiniau trwynol (*nasal sounds*) yn Rhan 8.2.2 'Modd cynanu'. Mae'r felwm hefyd yn gyanwr goddefol: mae'r tafod yn symud tuag at y felwm ar gyfer seiniau fel [k, g, ŋ] (*clo* /klo:/, *glo* /glo:/, *llong* /lɔŋ/).

Wfwla

Yr **wfwla** (*uvula*) yw'r peth bach sy'n hongian i lawr o gefn y felwm. Mae'n bosibl defnyddio'r wfwla i gynhyrchu seiniau lleferydd mewn rhai ieithoedd, ac mae rhai siaradwyr Cymraeg yn defnyddio sain wfwlar [ʋ] ar gyfer /r/ mewn geiriau fel *car* /kaʋ/, *araf* /aʋav/. Fel arfer, yr wfwla yw'r cynanwr goddefol ar gyfer /χ/ mewn geiriau fel *chi* /χi:/ a *bach* /ba:χ/ (Ball & B. Williams 2001:102).

Ffaryncs

Y **ffaryncs** (*pharynx*) yw rhan ôl y llwybr llais uchaf (*upper vocal tract*). Mae'r ffaryncs yn mynd i lawr i'r laryncs. Ar y wal ffaryngeal flaen, tu ôl i'r tafod, mae fflap, sef yr epiglottis. Mae'r epiglottis yn rhwystro bwyd rhag disgyn i lawr y trachea.

Tafod

Y tafod yw'r cynanwr mwyaf gweithredol. Rhennir y tafod yn sawl rhan: **blaen y tafod** (*tongue tip*), **llafn y tafod** (*tongue blade*), **corff y tafod** (*tongue body*) a **gwraidd y tafod** (*tongue root*). Mae lleoliad corff y tafod yng ngheudod y geg yn newid siâp y llwybr llais yn sylweddol, ac mae hyn yn bwysig ar gyfer gwahaniaethu rhwng nifer mawr o lafariad (Gweler Adran 9).

Yn y ddwy adran nesaf, disgrifir seiniau lleferydd drwy gyfeirio at yr organau llefaru. Fel arfer, ym maes seineg (a ffonoleg), rydym yn gwahaniaethu rhwng llafariad a chytseiniaid. Llafariad

yw seiniau'r lleferydd sy'n cael eu cynhyrchu drwy ddefnyddio **llwybr llais** cymharol agored, tra bo cynhyrchu cytseiniaid yn golygu bod rhyw fath o gyfyngiad yn y llwybr llais.

8 Cytseiniaid

8.1 Lleisio

Wrth ddisgrifio cytseiniaid, fel arfer rydym yn cyfeirio at leisio. Fel a amlinellwyd yn Adran 7.1 uchod, gwyddom fod y tannau llais yn dirgrynu mewn cytsain leisiol. Mae'n bosibl teimlo'r tannau llais yn dirgrynu drwy osod eich bysedd ar eich gwddf dros eich laryncs. Os byddwch yn cynhyrchu [v], fel yn *fab* /va:b/, yna byddwch yn teimlo'r dirgryniad, ond ni fyddwch yn ei deimlo wrth gynhyrchu [f], fel yn *ffa* /fa:/.

8.2 Cynanu

Mae'r term cynanu (*articulation*) yn cyfeirio at y math o **gulhau** (*narrowing*) sy'n digwydd yn y llwybr llais wrth gynhyrchu seiniau. Er enghraifft, wrth gynhyrchu'r sain [p] neu [b], mae'r llwybr llais ar gau yn llwyr oherwydd bod y ddau gyananwr wedi'u cysylltu'n gadarn â'i gilydd a bod llif yr aer allan o'r geg wedi'i rwystro'n llwyr am gyfnod byr. Ar y llaw arall, mewn seiniau fel y gytsain [w] yn y gair *wedi* /wedi/, nid yw'r cynanwyr yn cyffwrdd ei gilydd, felly er bod culhad, mae'r aer yn parhau i lifo allan o'r geg. Cyn ymhelaethu ar *sut* y mae gwahanol gytseiniaid yn cael eu cynhyrchu (y **modd cynanu**), bydd yr adran nesaf yn disgrifio lle mae'r culhad yn digwydd yn y llwybr llais (y **man cynanu**).

8.2.1 Man cynanu

Mae **man cynanu** (*place of articulation*) cytseiniaid yn cyfeirio at y pwynt lle mae'r cyfyngiad yn digwydd yn y llwybr llais. Fel arfer, daw'r rhan fwyaf o'r ansoddeiriau i ddisgrifio'r mannau cynanu o enw'r cynanwr goddefol (*passive articulator*) dan sylw. Bydd yr adran ganlynol yn manylu ar yr holl fannau cynanu posibl, hyd yn oed y rhai sydd ddim yn cael eu defnyddio yn y Gymraeg.

Dwywefusol

Dwywefusol (*bilabial*): cynhyrchir cytseiniaid dwywefusol drwy beri i'r ddwy wefus gyffwrdd â'i gilydd. Mewn cytseiniaid dwywefusol, mae'r ddwy wefus yn gyananwyr gweithredol. Yn y Gymraeg ceir rhai cytseiniaid sy'n ddwywefusol, fel /p, b, m/ yn y geiriau *pob* /po:b/, *bod* /bo:d/, *moch* /mo:χ/, a hefyd [m], sef y trwynolyn dwywefusol di-lais (*voiceless bilabial nasal*; gweler 8.2.2), sy'n cael ei ddefnyddio mewn treiglâd trwynol—*ym Mhorthaethwy* (Gweler 'Y treiglâd meddal' isod).

Gwefus-ddeintiol

Gwefus-ddeintiol (*labiodental*): cynhyrchir cytseiniaid gwefus-ddeintiol drwy beri i'r wefus isaf gyffwrdd â'r dannedd uchaf. Mae dwy gytsain wefus-ddeintiol yn y Gymraeg, sef /f/ a /v/, fel yn y geiriau **ffa** /fa:/ a **fab** /va:b/.

Deintiol

Deintiol (*dental*): cynhyrchir cytseiniaid deintiol drwy beri i'r tafod gyffwrdd â'r dannedd uchaf. Mae dwy gytsain deintiol yn y Gymraeg, sef /θ, ð/, fel yn y geiriau **sydd** /si:ð/ a **syth** /si:θ/.

Gorfannol

Gorfannol (*alveolar*): cynhyrchir cytseiniaid gorfannol drwy beri i flaen neu lafn y tafod gyffwrdd â gwrym y gorfant neu fynd yn agosach ato. Mae nifer o gytseiniaid gorfannol yn y Gymraeg: /n, t, d, s, r̥, r, l, ʎ/, fel yn y geiriau **nant** /nant/, **tan** /tan/, **dant** /dant/, **sant** /sant/, **rhan** /ɾan/, **ras** /ras/, **lawr** /laʊr/ a **llawr** /ʎaʊn/.

Ôl-orfannol

Ôl-orfannol (*post-alveolar*): cynhyrchir cytseiniaid ôl-orfannol drwy beri i lafn y tafod gyffwrdd ychydig y tu ôl i wrym y gorfant, neu fynd yn agosach ato. Yn Gymraeg, ceir y sain /ʃ/, fel yn y geiriau **siâp** /ʃa:p/, **Siôn** /ʃo:n/ a **pasio** /paʃo/.

Ôl-blyg

Ôl-blyg (*retroflex*): cynhyrchir cytseiniaid ôl-blyg drwy daro cefn gwrym y gorfant â blaen y tafod. Fel arfer, cynhyrchir cytseiniaid ôl-blyg drwy blygu blaen y tafod yn ôl. Mae seiniau ôl-blyg yn gyffredin mewn ieithoedd yn India ac Awstralia, ond nid ydynt yn bodoli yn y Gymraeg. Mae cytseiniaid ôl-blyg yn digwydd yn yr iaith Hindi, fel ar ddechrau'r geiriau /ɖal/ 'gohirio' a /ɖal/ 'cangen'.

Taflodol

Taflodol (*palatal*): cynhyrchir cytseiniaid taflodol drwy beri i lafn y tafod neu flaen corff y tafod gyffwrdd â'r daflod galed. Mae gan y Gymraeg cytsain daflodol, sef y /j/ ar ddechrau'r gair **iawn** /jaʊn/.

Felar

Felar (*velar*): fel arfer, cynhyrchir cytseiniaid felar drwy beri i gorff y tafod gyffwrdd â'r felwm. Yn y Gymraeg, mae /k, g, ŋ/ yn gytseiniaid felar (**clo** /klo:/, **glo** /glo:/, **llong** /ʎŋ/. Mae rhai awduron yn awgrymu bod y gytsain <ch>, fel yn y geiriau **chi** a **moch** yn y Gymraeg, yn gytsain felar [x] (e.e. [Fynes-Clinton 1913](#), [Watkins 1961](#)). Ond, fel arfer, disgrifir y gytsain hon fel un wfwlar [χ], gan gydnabod bod rhai siaradwyr yn defnyddio cytsain felar yma ([G.E. Jones 1984:47](#), [Ball & B. Williams 2001:16](#), [Hannahs 2013:16](#)).

Wfwlar

Wfwlar (*uvular*): Cynhyrchir cytseiniaid wfwlar drwy symud prif ran corff y tafod yn ôl i gyffwrdd â'r wfwla. Yn y Gymraeg ceir y ffrithiolyn wfwlar (*uvular fricative*, gweler Adran 8.2.2 isod) /χ/ yn y geiriau **chi** /χi:/ a **bach** /ba:χ/. Fel arfer, mae'r /r/ a geir yn yr ieithoedd Ffrangeg ac Almaeneg yn ffrithiolyn wfwlar [ʀ]. Mae rhai siaradwyr Cymraeg yn cynhyrchu'r un sain ar gyfer /r/ (Morris-Jones 1913; Ball & B. Williams 2001).

Ffaryngeal

Ffaryngeal (*pharyngeal*): Cynhyrchir cytseiniaid ffaryngeal drwy symud corff y tafod yn ôl tuag at y wal ffaryngeal gefn. Nid oes seiniau ffaryngeal yn y Gymraeg, ond mae cytseiniaid ffaryngeal i'w cael yn Arabeg (Maddieson 2013a).

Glotal

Glotal (*glottal*): Mae cytseiniaid glotal yn cael eu cynhyrchu drwy symud y tannau llais yn agosach at ei gilydd. Mae un gytsain glotal yn y Gymraeg, sef /h/ yn y geiriau **hi** /hi:/ a **hen** /he:n/.

Yn yr adran uchod, cyflwynwyd termau i ddisgrifio manau cynanu cytseiniaid. Symudir ymlaen i gyflwyno dulliau cynanu yn yr isadran nesaf.

8.2.2 Modd cynanu

Mae modd cynanu yn cyfeirio at y ffordd y mae cytsain yn cael ei chynhyrchu. Wrth sôn am fodd cynanu cyfeirir at y **radd o gulhad** (*degree of stricture*), sy'n effeithio ar wasgedd aer yn y llwybr llais. Fel arfer, rydym yn gwahaniaethu rhwng tair gradd o gulhad:

Ynghau (*closure / complete closure*): Mae'r cynanwyr yn cau'n llwyr am gyfnod o amser.

Dynesiad agos (*narrowing / close approximation*): Mae'r cynanwyr yn symud yn agos at ei gilydd ond nid ydynt yn cyffwrdd.

Dynesiad agored (*open approximation*): Mae bwlch eithaf eang rhwng y cynanwyr.

Os bydd sain yn cael ei chynhyrchu pan fydd y cynanwyr yn cau'n llwyr neu pan fydd y cynanwyr yn dod yn agos iawn at ei gilydd (dynesiad agos), bydd yn effeithio ar y ffordd y mae'r aer yn llifo tu mewn i'r llwybr llais. Hynny yw, mae'r gwasgedd aer yn cynyddu. Rydym yn galw cytseiniaid a gynhyrchir fel hyn yn **rhwystrlion** (*obstruents*). Fodd bynnag, os oes bwlch eithaf eang rhwng y cynanwyr, nid yw'r gwasgedd yn codi tu mewn i'r llwybr llais. Gelwir cytseiniaid a gynhyrchir yn y modd hwn yn **soniarusion** (*sonorants*). Byddwn yn edrych ar **raddfa soniaredd** (*sonority scale*) yn nes ymlaen pan fyddwn yn trafod rhai o'r **eilededdau sain** (*sound alternations*) a all ddigwydd mewn ieithoedd.

Ffrwydrolion

Mewn ffrwydrolion (*plosives*), a elwir hefyd yn gytseiniaid ffrwydrol, mae llif yr aer drwy'r geg yn cael ei atal am gyfnod byr tra bo'r cynanwyr ar gau. Wedyn, mae'r cynanwyr yn agor ac mae'r aer yn rhuthro allan yn gyflym. Er enghraifft, yn y ffrwydrolion dwywefusol (*bilabial*

plosives) [p] a [b], mae'r ddwy wefus yn cau'n llwyr i atal llif yr aer cyn iddynt wahanu eto a gadael i'r aer ffrwydro allan (a dyma'r rheswm dros eu galw'n *ffrwydrolion*). Gall y broses hon ddigwydd hefyd drwy beri i flaen y tafod gyffwrdd â gwrym y gorfant (yn ffurfio [t] neu [d]), neu i gefn corff y tafod gyffwrdd â'r dafnod feddal (i ffurfio [k] neu [g]). Cynhyrchir ffrwydrolion mewn manau eraill hefyd (e.e. taflodol, wfwilar), ond nid yw'r mathau hyn o ffrwydrolion yn digwydd yn Gymraeg. Mae gan y Gymraeg chwe ffrwydrolyn: /p, t, k, b, d, g/, fel a geir yn y geiriau *pan* /pan/, *tan* /tan/, *cant* /kant/, *bod* /bo:d/, *dod* /do:d/ a *glo* /glo:/.

Trwynolion

O ran llif yr aer, mae'n bosibl gwahaniaethu rhwng seiniau **geneuol** (*oral*) a seiniau trwynol. Cynhyrchir trwynolion (*nasals*), a elwir hefyd yn gytseiniaid trwynol, mewn ffordd debyg i ffrwydrolion. Y prif wahaniaeth yw bod y felwm ar gefn y dafnod yn cael ei ostwng i alluogi'r aer i fynd i mewn a dianc o geudod y trwyn. Gan nad yw'r gwasgedd aer yn codi llawer oherwydd bod yr aer yn gallu dianc trwy'r trwyn, mae trwynolion yn cael eu trin fel soniarusion. Yn y Gymraeg fe geir trwynolion lleisiol, sef /m, n, ŋ/ fel yn y geiriau *mab* /mab/, *nant* /nant/ a *llong* /lɔŋ/, a thrwynolion di-lais [m̥ n̥ ŋ̥] mewn geiriau sy'n cynnwys y treigladd trwynol (gweler 'Y treigladd trwynol' isod).

Mae'r term **atalsain** (*stop*) yn cyfeirio at y broses o atal llif yr aer yng ngheudod y geg am gyfnod sylweddol, sy'n golygu bod yr aer wedi'i rwystro'n llwyr. Defnyddir y term atalsain i gyfeirio at ffrwydrolion a thrwynolion. Weithiau cyfeirir at ffrwydrolion fel atalseiniau ffrwydro (*plosive stops*) ac at drwynolion fel atalseiniau trwynol (*nasal stops*).

Ffrithiolion

Mewn ffrithiolion (*fricatives*), a elwir hefyd yn gytseiniaid ffrithiol, mae'r ddau gynanwr mewn dynesiad agos. Oherwydd y culhad, mae'r gwasgedd aer yn cynyddu'r tu mewn i'r llwybr llais. Mae hyn yn golygu bod llif yr aer rhwng y cynanwyr yn **dyrfol** (*turbulent*) ac yn swllyd. Mae ffrithiolion yn gyffredin iawn yn y Gymraeg, ac maent yn digwydd mewn nifer o fannau cynanu: /f, v, θ, ð, s, ʃ, χ, h/ fel yn yr enghreifftiau *ffa* /fa:/, *fab* /va:b/, *syth* /si:θ/, *sydd* /si:ð/, *sant* /sant/, *llan* /lan/, *siâp* /ʃa:p/, *chi* /çi:/ a *hi* /hi:/.

Gallwn hefyd wahaniaethu rhwng ffrithiolion ochrol (*lateral*) a ffrithiolion canol (*central*). Cynhyrchir seiniau canol pan fydd aer yn teithio ar hyd canol y tafod, fel /s/ yn *sant* /sant/. Cynhyrchir seiniau ochrol pan fydd yr aer yn teithio ar hyd un neu ddwy ochr y tafod. Mae'r ffrithiolyn ochrol di-lais (*voiceless lateral fricative*) /ʃ/ yn *llan* /lan/ yn wahanol i'r ffrithiolion eraill oherwydd bod yr aer yn llifo ar hyd ochrau'r tafod.

Affrithiolion

Fel arfer, disgrifir affrithiolion (*affricates*), a elwir hefyd yn gytseiniaid affrithiol, fel cyfuniad o ddwy sain: ffrwydrolyn a ffrithiolyn. Mae'r disgrifiad hwn yn cael ei ddefnyddio oherwydd y ffordd y mae'r aer yn llifo: mewn affrithiolyn, mae'r ffordd y mae'r cynanwyr yn dod at ei gilydd yn debyg i'r dull a geir mewn ffrwydrolyn. Mae'r cynanwr gweithredol yn dod at y cynanwr goddefol ac yn cau'n llwyr, ac mae cyfnod o ddistawrwydd yn digwydd. Ond wrth i'r cynanwyr agor, mewn affrithiolyn mae rhyddhad gyda'r **ffritholiad** (*frication*) wrth i'r cynanwyr symud ar wahân. Mae hyn yn wahanol i'r rhyddhad mewn ffrwydrolyn, lle mae'r cynanwyr yn symud ar wahân yn sydyn heb ffritholiad. Mae dau affrithiolyn yn y Gymraeg erbyn heddiw, sef /tʃ, dʒ/, fel arfer mewn benthyciadau o'r Saesneg fel *tsips* /tʃɪps/ a *jam* /dʒam/, (Watkins 1961:21, G.E. Jones 1984:44).

Triliau

Mewn tril, a elwir hefyd yn gytsain driliol, mae un cynanwr yn taro'n gyflym yn erbyn un arall. Mae'r cynanwr gweithredol yn cael ei ddal yn agos at y cynanwr goddefol ac mae llif yr aer yn achosi iddo ddirgrynu. Yn y Gymraeg, cytseiniaid triliol yw'r /t̪/ a'r /r/ yn **rhan** /ɾan/ a **ras** /ras/ fel arfer, ond mewn rhai sefyllfaoedd maent yn cael eu hynganu fel tapiau, lle mae'r tafod yn taro gwrym y gorfant unwaith yn hytrach na dirgrynu (G.E. Jones 1984:50).

Tapiau neu fflapiau

Mewn tap neu fflap, daw'r cynanwyr at ei gilydd yn llwyr, ond dim ond am gyfnod byr. Yn ystod yr amser hwn, nid oes digon o amser i'r gwasgedd aer gynyddu, a dim ond un tap sy'n digwydd rhwng y cynanwyr (Ladefoged & Johnson 2011:175).

Dynesolion

I'r dynesolyn (*approximant*) mae'r cynanwyr yn agosáu at ei gilydd, ond nid ydynt mor agos fel eu bod yn achosi i'r gwasgedd aer gynyddu. Yn y Gymraeg, mae [w] and [j], fel ar ddechrau **wedi** /wedi/ ac **iawn** /jaʊn/, yn ddynesolion canolog (*central approximants*). Mae [l], fel a geir ar ddechrau **lan** /lan/, yn ddynesolyn ochrol (*lateral approximant*), lle mae'r aer yn llifo ar hyd ochrau'r tafod (ond nid oes ffrithioliad).

8.3 Disgrifio a thrawsgrifio cytseiniaid

Fel arfer, mae disgrifio cytsain yn golygu rhoi symbol seinegol ar gyfer ei sain â disgrifiad o'r paramedrau sydd eu hangen i gynhyrchu'r sain. Mae'r adran hon wedi cyflwyno nifer o dermau i ddisgrifio cytseiniaid. Defnyddir y labeli hyn i ddisgrifio cytseiniaid mewn trefn benodol. Fel arfer, disgrifir cytseiniaid yn ôl tri pheth: eu modd cynanu, eu man cynanu a'u lleisio. Cyflwynwyd y termau modd cynanu: **ffrwydrolyn**, **affrithiolyn**, **trwynolyn**, **ffrithiolyn** (**ochrol** a **chanolog**), **dynesolyn** (**ochrol** a **chanolog**), **tril** a hefyd **tap** a **fflap**. Ar gyfer y manau cynanu, cyflwynwyd y labeli **dwywefusol**, **gwefus-ddeintiol**, **deintiol**, **gorfannol**, **ôl-orfannol**, **taflodol**, **felar** a **glotal**. Yn olaf, mae angen nodi a yw'r gytsain yn **lleisiol**, lle mae'r tannau llais yn dirgrynu, neu'n **ddi-lais**, ac nid yw'r tannau llais yn dirgrynu.

Er enghraifft, ar gyfer [s] yn y gair **saith** /saɪθ/, mae angen i ni ystyried y modd ynganu, y man ynganu ac a yw'r sain yn lleisiol ynteu'n ddi-lais. Mewn [s], mae blaen y tafod yn agosáu at wrym y gorfant ac mae'r aer yn llifo'n ddi-dor rhwng y cynanwyr; gyda ffrithiolrwydd, felly, y modd cynanu yw **ffrithiolyn**. Gan fod y tafod yn agosáu at wrym y gorfant, mae hynny'n golygu bod angen defnyddio'r label **gorfannol** ar gyfer y man cynanu. Yn olaf, mae angen i ni ystyried a yw'r gytsain yn lleisiol ynteu'n ddi-lais. Ar gyfer [s], nid yw'r tannau llais yn dirgrynu, felly rydym yn dweud bod y sain yn ddi-lais. Gan roi popeth at ei gilydd, rydym yn disgrifio [s] fel **ffrithiolyn gorfannol di-lais** (*voiceless alveolar fricative*).

8.3.1 Cytseiniaid ar siart yr Wyddor Seinegol Ryngwladol (IPA)

Mae tabl ar dop siart yr Wyddor Seinegol Ryngwladol sy'n cynrychioli cytseiniaid ysgyfeiniol. Mae wedi'i drefnu i gyfuno'r termau rydym yn eu defnyddio i ddisgrifio cytseiniaid: lleisio, modd cynanu a man cynanu. Cynrychiolir y modd cynanu i lawr y rhesi ar y chwith, o radd y culhad mwyaf (ffrwydrolyn) i raddau â'r culhad lleiaf ar y gwaelod (dynesolion). Mae manau cynanu cytseiniaid yn cael eu cynrychioli ar draws y colofnau, o flaen y geg (dwywefusol) i

lawr y llwybr llais i'r laryncs (glotal). Mae'r symbol ar ochr dde'r gell yn cynrychioli'r gytsain leisiol, â'r symbol di-lais ar y chwith.

CYTSEINIAID (YSGYFEINIOL)

© 2019 IPA

	Dwy wefusol	Gwefus-ddeintiol	Deintiol	Gorfannol	Ôl-orfannol	Ôl-blyg	Taflodol	Felar	Wfwlar	Ffaryngeal	Glotal
Ffrwydrolyn	p b			t d		ʈ ɖ	c ɟ	k ɡ	q ɢ		ʔ
Trwynolyn	m	ɱ		n		ɳ	ɲ	ŋ	ɴ		
Tril	ʙ			ɾ					ʀ		
Tap neu Fflap		ɸ		ɹ		ɽ					
Ffrithiolyn	ɸ β	f v	θ ð	s z	ʃ ʒ	ʂ ʐ	ç ʝ	x ɣ	χ ʁ	ħ ʕ	h ɦ
Ffrithiolyn ochrol				ɬ ɮ							
Dynesolyn		ʋ		ɹ		ɻ	j	ɰ			
Dynesolyn ochrol				ɻ		ɭ	ʎ	ʟ			

Ffigur 9: Cytseiniaid ysgyfeiniol siart yr Wyddor Seinegol Ryngwladol

Mae Tabl 1 wedi ei addasu o dabl gwreiddiol yr IPA fel ei fod yn cynnwys y cytseiniaid sy'n bodoli yn y Gymraeg yn unig.

Mae nifer o symbolau ychwanegol felly yn Nhabl 2 nad ydynt yn ymddangos yn nhabl cytseiniaid yr IPA. Nid yw'r afrithiolion [tʃ, dʒ] na'r dynesolyn gwefus-felar lleisiol (*voiced labial-velar approximant*) [w] fel arfer yn cael eu cynrychioli yn nhabl cytseiniaid yr IPA; maent yn cael eu disgrifio yn rhan 'Symbolau Eraill' y siart. Nid yw marciau diacritig chwaith yn ymddangos yn y prif dabl fel arfer, fel yn achos /ɱ, ɳ, ɻ/. Defnyddir marc diacritig y cylch i ddangos bod y trwynolion hyn yn cael eu cynhyrchu'n ddi-lais (gan nad oes symbol fel arfer ar gyfer trwynolion di-lais ar y siart cytseiniaid).

	dwywefusol	gwefus-ddeintiol	deintiol	gorfannol	ôl-orfannol	taflodol	felar	wfwlar	glotal
Ffrwydrolyn	p b			t d			k ɡ		
Trwynolyn	ɱ m			ɳ n			ŋ		
Tril				ɾ r					
Ffrithiolyn		f v	θ ð	s	ʃ			χ	h
Ffrithiolyn Ochrol				ɬ					
Dynesolyn	w					j	w		
Dynesolyn Ochrol				ɻ					
Afrithiolyn					tʃ dʒ				

Tabl 1: Cytseiniaid y Gymraeg

Dyma enghreifftiau o symbolau a disgrifiadau cytseiniaid ar ddechrau'r geiriau:

<i>ffa</i>	[f]	ffrithiolyn gwefus-ddeintiol di-lais
<i>fan</i>	[v]	ffrithiolyn gwefus-ddeintiol lleisiol
<i>themâu</i>	[θ]	ffrithiolyn deintiol di-lais
<i>ddoe</i>	[ð]	ffrithiolyn deintiol lleisiol
<i>tan</i>	[t]	ffrwydrolyn gorfannol di-lais
<i>dyn</i>	[d]	ffrwydrolyn gorfannol lleisiol
<i>llan</i>	[ɫ]	ffrithiolyn ochrol gorfannol di-lais
<i>lawr</i>	[l]	dynesolyn ochrol gorfannol lleisiol

Un o'r ffyrdd gorau o ddechrau trawsgrifio unrhyw sain yw gwahanu'r sain oddi wrth weddill y gair a cheisio meddwl am unrhyw eiriau eraill sy'n eich helpu i gofio'r sain. Er enghraifft, mae /f/ yn y gair *ffa* /fa:/ ond mae hefyd yn y geiriau *ffin* /fi:n/ a *rhaff* /ɾa:f/. Gallech ddefnyddio unrhyw un o'r geiriau hyn i gofio sut i drawsgrifio'r gytsain hon mewn gair enghreifftiol. Ar ddiwedd yr adran nesaf, ceir enghreifftiau ar gyfer trawsgrifio llafariaid y Gymraeg.

9 Llafariaid

Yn Adran 7 'Cynhyrchu Lleferydd' rydym wedi nodi ein bod ni fel arfer yn gwahaniaethu rhwng llafariaid a chytseiniaid ar sail gradd y culhad rhwng y cynanwyr. Llafariaid yw'r seiniau sy'n cael eu cynanu trwy ddefnyddio llwybr llais cymharol agored. Wrth gynhyrchu llafariaid, nid yw'r gwasgedd yn codi tu mewn i'r llwybr llais, felly maent yn cael eu labelu yn soniarusion. Yn yr adran hon, cyflwynir trosolwg o'r prif gysyniadau sy'n angenrheidiol ar gyfer disgrifio cynanu llafariaid. Bydd yr adran yn egluro'r gwahaniaeth rhwng llafariaid hir a byr a sut mae disgrifio cynanu llafariaid.

9.1 Hyd llafariaid

Un gwahaniaeth pwysig i'w ddeall wrth ddisgrifio llafariaid yw'r gwahaniaeth rhwng **unseiniaid** (*monophthongs*) a **deuseiniaid** (*diphthongs*). Dim ond un ansawdd sydd gan unsain, felly mae'r cynanwyr yn aros yn gymharol lonydd. Mewn deusain, mae'r cynanwyr yn symud wrth gynhyrchu'r llafariad, gan newid yr ansawdd rydym yn ei glywed. Er enghraifft, ar gyfer y llafariad yn y gair *had* /ha:d/, mae'r cynanwyr yn aros yn llonydd ac mae'r tafod yn isel. Ar gyfer y llafariad yn y gair *dim* /dɪm/, mae'r cynanwyr yn aros yn llonydd ac mae'r tafod yn uchel. Ond yn y gair *haid* /hard/ mae rhan gyntaf y llafariad yn debyg i'r llafariad yn *had* ac mae'r tafod yn symud i fyny yn y geg i gynhyrchu /ɪ/ fel yn *dim* ar gyfer diwedd y llafariad.

Mewn unseiniaid, rydym hefyd yn gwahaniaethu rhwng unseiniaid hir ac unseiniaid byr. Mae'r llafariad yn y geiriau *ci* /ki:/, *dydd* /di:ð/, *gwin* /gwi:n/, *sâl* /sa:l/ yn hir, ac mae'r llafariad yn y geiriau *cyn* /kɪn/, *dim* /dɪm /, *gwyn* /gwin/, *sant* /sant/ yn fyr. Rydym yn nodi unseiniaid hir â marc diacritig o'r Wyddor Seinegol Ryngwladol, sef [:], felly [i:, e:, a:]. Mae hyd llafariaid yn gallu amrywio o un acen i'r llall yng Nghymru. Er enghraifft, mae'r llafariad cyn [ɫ] fel yn *gwell* yn hir yn y de, /gwe:ɫ/, ac yn fyr yn y gogledd, /gweɫ/. Bydd mwy am amrywio mewn

acenion yn Adran 39 ‘Amrywio daearyddol’.

9.2 Cynanu llafariaid

Wrth drafod cytseiniaid, fe’u disgrifir yn nhermau eu lleisio, eu modd cynanu a’u man cynanu. Fodd bynnag, gyda llafariaid, gan eu bod i gyd wedi eu cynhyrchu yn lleisiol â llwybr llais gweddol agored, mae’r disgrifiad yn wahanol. Mae angen i ni allu gwahaniaethu rhwng yr holl lafariaid gwahanol mewn iaith mewn ffordd gyson. I gynhyrchu’r llafariaid, rydym bob amser yn defnyddio rhyw ran o flaen neu gorff y tafod, a gellir defnyddio’r gwefusau hefyd i ychwanegu at ansawdd llafariad. Mae’r gwahaniaethau rhwng llafariaid yn gallu bod yn weddol fach. Os ydych yn cynhyrchu’r llafariaid yn y geiriau *hir* /hi:r/ a *her* /hɛ:r/ gyda’i gilydd, mae modd teimlo bod y tafod yn symud ychydig yn unig er mwyn gwahaniaethu rhwng y ddwy lafariad hyn.

Pan fyddwn ni’n disgrifio gwahanol unseiniaid, rydym fel arfer yn cyfeirio at dri pheth: uchder y tafod, blaenedd y tafod, a’r gradd o grynio gwefusau (*degree of lip rounding*).

Pan fyddwn yn trafod y dimensiwn blaenedd, rydym fel arfer yn disgrifio lleoliad rhan uchaf y tafod. Ar gyfer llafariaid fel /i/, /e/ ac /a/, blaen y tafod sydd uchaf yn y geg. Ond ar gyfer llafariaid fel /u/ ac /o/, cefn y tafod sydd uchaf yn y geg. Ceir llafariaid hefyd lle mae canol y tafod sydd uchaf yn y geg, fel y llafariad /ə/ yn *yn* /ən/ a *fy* /və/. Felly, fe allwn ni ddisgrifio llafariaid fel **llafariaid blaen** (*front vowels*), **llafariaid canol** (*central vowels*) neu **lafariaid cefn** (*back vowels*) (ond efallai y gwelwch hefyd y term **llafariad ôl** am lafariaid cefn).

Wrth drafod y dimensiwn uchder, rydym yn nodi pa mor uchel mae’r tafod. Ar gyfer /i/ mae blaen y tafod yn agos at y daflod, ac mae’n uchel yng ngheudod y geg. Yn /a/ ar y llaw arall, mae’r tafod yn agos at y dannedd gwaelod, ac yn isel yng ngheudod y geg. Disgrifir /i/ fel **llafariad uchel**, ac /a/ fel **llafariad isel** (ond efallai y gwelwch hefyd y termau llafariad **caeedig** (*close*) a llafariad **agored** (*open*) am uchel ac isel, yn eu trefn).

Wrth ddisgrifio llafariaid, mae’n bwysig ystyried siâp y gwefusau. Gellir eu **crynio** (*to round*), fel yn y llafariad /u/ yn y gair *dŵr* /du:r/, eu **lledu** (*spread*) fel /i/ yn y gair *hir* /hi:r/, neu gallant fod yn niwtral, fel yr /ə/ yn y gair *fy* /və/. Mae’r unseiniaid hir /i:, e:, a:/ (*ci* /ki:/, *mêl* /me:l/ a *tad* /ta:d/) yn cael eu cynhyrchu â’r gwefusau ar led neu’n niwtral, ac mae’r gwefusau yn grwn ar gyfer y llafariaid /o:, u:/ fel yn *tôn* /to:n/ a *cŵn* /ku:n/ (Watkins 1961:10, G.E. Jones 1984:54–5). Wrth ddisgrifio llafariad a gynhyrchir â’r gwefusau ar led neu’n niwtral defnyddir y term **llafariad anghron** (*unrounded vowel*) ac am lafariad a gynhyrchir â’r gwefusau’n grwn defnyddir y term **llafariad gron** (*rounded vowel*).

Yn Adran 7.2 esbonnir bod aer yn gallu mynd ar hyd y llwybr llais drwy’r geg neu drwy’r trwyn. Ond mae hefyd yn bosibl bod yr aer yn mynd allan drwy’r ddau, a gelwir y seiniau a gynhyrchir fel hyn yn seiniau wedi eu trwynoli. Mae llafariaid wedi eu trwynoli yn bwysig ar gyfer creu **cyferbyniad** (*contrast*; gweler Adran 10.1 ‘Cyferbynnu’) yn nifer o ieithoedd y byd, fel Ffrangeg a Hindi (Hajek 2013).

Mae pob un o’r nodweddion hyn yn effeithio ar ansawdd y llafariad a gynhyrchir gan fod y gofod y gall yr aer lifo drwyddo yn newid siâp. Mae hyn yn golygu bod yr aer y tu mewn i geudod y geg a gweddill y llwybr llais yn dirgrynu’n wahanol ac mae’r gwahaniaethau hyn yn bwysig ar gyfer gwrandawyr i wahaniaethu rhwng llafariaid gwahanol.

9.3 Disgrifio a thrawsgrifio llafariaid

Fel arfer, mae disgrifio llafariad yn golygu rhoi symbol seinegol ag esboniad o'r paramedrau sydd eu angen i gynhyrchu'r sain. Mae'r adran hon wedi cyflwyno nifer o labeli i ddisgrifio llafariaid. Yn gyntaf, rydym yn gwybod bod llafariaid yn gallu bod yn uchel, yn ganolog ac yn isel. Gwyddom hefyd fod llafariaid yn gallu bod yn llafariaid blaen, yn llafariaid canol neu'n llafariaid cefn. Hefyd, eglurwyd bod llafariaid yn gallu cael eu cynhyrchu â'r gwefusau'n grwn neu ar led. Defnyddir y termau sy'n disgrifio llafariaid mewn trefn benodol.


Er enghraifft, ar gyfer [i:] yn y gair *ci* /ki:/, mae angen i ni ystyried lleoliad y tafod a siâp y gwefusau. Mewn [i:], mae blaen y tafod yn uchel ac ym mlaen y geg, ac mae'r gwefusau wedi eu lledu. Felly, y label rydym yn ei ddefnyddio ar gyfer y llafariad hon yw llafariad anghron flaen uchel (*high front unrounded*). Ar y llaw arall, ar gyfer [u:] yn y gair *cŵn* /ku:n/, mae corff y tafod yn uchel ond mae yng nghefn y geg, ac mae'r gwefusau'n grwn. Felly, rydym yn defnyddio'r label llafariad gron gefn uchel (*high back rounded*) ar gyfer y llafariad hon.

9.3.1 Pedrochr llafariaid

Yn yr Wyddor Seinegol Ryngwladol, byddwch yn gweld bod llafariaid yn cael eu cynrychioli ar siâp pedrochr sy'n gosod y llafariaid gwahanol mewn llefydd gwahanol. Mae'r dimensiynau uchder, blaenedd a chryniio rydym wedi eu trafod yn cael eu cynrychioli ar y pedrochr llafariaid. Mae dimensiwn llorweddol y pedrochr yn cynrychioli blaenedd llafariaid; hynny yw, llafariaid blaen sydd ar y chwith, a llafariaid cefn sydd ar y dde. Mae dimensiwn fertigol y pedrochr yn cynrychioli uchder y llafariaid; hynny yw, llafariaid uchel sydd ar y top, a llafariaid isel sydd ar y gwaelod. Cynrychiolir dimensiwn cryniio'r gwefusau drwy ddangos llafariaid mewn parau ar y pedrochr. Nid yw'r sefyllfa hon yn berthnasol i'r Gymraeg, ond mae rhai ieithoedd yn gwahaniaethu rhwng llafariaid crwn a llafariaid anghrwn sydd â'r un uchder a lleoliad. Er enghraifft, yn Ffrangeg, yn y llafariad yn y gair *su* /sy/ (ffurf o'r ferf *savoir* 'gwybod') mae'r gwefusau yn grwn, tra bo'r llafariad yn y gair *si* /si/ 'os' neu 'ie' (a.y.b.) ar led, ond mae'r ddwy yn llafariaid blaen uchel (Ladefoged & Johnson 2011:222). Yn y parau o llafariaid ar siart yr IPA, mae'r llafariad anghron ar y chwith, a'r llafariad gron ar y dde.


Fel yn achos y cytseiniaid, un o'r ffyrdd gorau o ddechrau trawsgrifio llafariaid yw gwahanu'r sain oddi wrth weddill y gair a cheisio meddwl am unrhyw eiriau eraill sy'n eich helpu i gofio pob llafariad. Er enghraifft, mae /i:/ yn y gair *ci* /ki:/, ond mae hefyd yn yn y geiriau *ffin* /fi:n/ a *hir* /hi:r/. Gallech ddefnyddio unrhyw un o'r geiriau hyn i gofio sut i drawsgrifio'r llafariad honno. Felly, os byddwch yn dod ar draws gair newydd, gallwch wahanu'r llafariad oddi wrth weddill seiniau'r gair a'i chymharu â'ch gair enghreifftiol. Yna, mae'n bosibl gwybod, er mwyn trawsgrifio'r llafariad hon ar gyfer eich ynganiad, fod angen i chi ddefnyddio'r symbol /i:/. Yn y rhan nesaf, dangosir enghreifftiau ar gyfer holl llafariaid y Gymraeg.

Rydym wedi sefydlu yn gynharach yn yr adran hon fod unseiniaid yn cael eu cynhyrchu drwy gadw'r tafod yn weddol ddisymud wrth gynhyrchu'r llafariad. Os gwrandewch ar siaradwyr sydd ag acenion gwahanol yn Gymraeg, efallai y gwelwch fod ganddyn nhw wahanol unseiniaid. Er enghraifft, yn gyffredinol mae gan siaradwyr Cymraeg y Gogledd yr hyn a elwir yn '<u>ogleddol' /i/, sy'n wahanol i'r /i/. Cynhyrchir yr /i/ ogleddol yn fwy ganolog yn y geg na'r /i/ sy'n cael ei chynhyrchu ar y blaen gan bob siaradwr mewn geiriau fel *ci* /ki:/ a *ffin* /fi:n/. Mae'r <u> ogleddol fel arfer yn cyfateb i'r llythyren ysgrifenedig <u> fel yn *hud* (de: /hi:d/, gogledd: /hi:d/), *ffug* (de: /fi:g/, gogledd: /fi:g/), *pur* (de: /pi:r/, gogledd: /pi:r/), yn digwydd wrth ynganu <y> mewn geiriau fel *hyn* (de: /hm/, gogledd: /hin/) a *cyn* (de: /km/, gogledd:



Ffigur 10: Pedrochr Llafariaid yr Wyddor Seinegol Rynghwladol

/kin/), a hefyd yn cyfateb i'r llythyren <ŷ fel yn *Llŷr* (de: /ʃi:r/, gogledd /ʃi:r/), er enghraifft. Yn y de, mae'r llafariad /i/ wedi **uno** (*merge*) ag /i/ ac nid yw /i/ ac /i/ yn cyferbynnu (Hannahs 2013:22, Watkins 1961:293).



Ffigur 11: Pedrochr llafariaid: unseiniaid y Gymraeg

Enghreiffitiau o lafariaid y Gymraeg			
	Llafariaid blaen	Llafariaid canol	Llafariaid cefn
Llafariaid uchel (caeedig)	<i>ci</i> /ki:/ <i>nid</i> /nid/	<i>cul</i> /ki:l/	<i>cŵn</i> /ku:n/ <i>cwm</i> /kɔm/
Llafariaid canolog	<i>mêl</i> /me:l/ <i>melin</i> /'mɛlm/	<i>ysgol</i> /'ɛsgɔl/	<i>tôn</i> /to:n/ <i>ton</i> /tɔn/
Llafariaid isel (agored)	<i>tad</i> /ta:d/ <i>nad</i> /nad/		

Addaswyd yr enghreiffitiau o Hannahs (2013:24).

Mae deuseiniaid yn cael eu cynhyrchu drwy symud y cynanwyr yn ystod y llafariad, sy'n newid ansawdd y sain. Oherwydd bod y cynanwyr yn symud yn ystod y broses o gynhyrchu deuseiniaid, fe'u cynrychiolir fel arfer gan ddau symbol llafariad. Yn (5) dangosir deuseiniaid y Gymraeg. **Deuseiniaid cau** (*closing diphthongs*) yw'r rhan fwyaf ohonynt; hynny yw, mae'r tafod yn symud yn nes at dop y geg. Mae deuseiniaid y Gymraeg naill ai'n symud tuag at lafariad flaen [ɪ] neu tuag at lafariad gefn [ʊ], neu tuag at [i] (yn y gogledd). Dangosir y deuseiniaid cau sy'n symud at [ɪ] a thuag at [ʊ] yn (5), gydag enghreifftiau o [Hannahs \(2013:24–5\)](#) o eiriau sy'n cynnwys deuseiniaid.

Enghreifftiau o ddeuseiniaid

- (5) Deuseiniaid sy'n cau ar [ɪ] (ar y chwith) a deuseiniaid sy'n cau ar [ʊ] (ar y dde). Addaswyd yr enghreifftiau o [Hannahs \(2013:24–5\)](#).

[aɪ]	tai	llaw	[aʊ]
[ɔɪ]	troi	llew	[ɛʊ]
[əɪ]/[eɪ]	tei	bywyd	[əʊ]
[ʊɪ]	mwy (de yn unig)	lliw	[ɪʊ]
		llyw (de yn unig)	[ɪʊ]

Mae deuseiniaid y de yn cau naill ai tuag at lafariad flaen [ɪ] neu tuag at lafariad gefn [ʊ], fel yn (5). Ond, mae deuseiniaid y gogledd hefyd yn gallu cau tuag at [i] (yr u-ogleddol). Mae'r [i] hefyd yn rhan o'r ddeusain [iʊ] <yw>, lle mae'r tafod yn symud o'r canol i'r cefn [ʊ]. Felly, yn ogystal â'r ddeusain uchod, yng Nghymraeg y Gogledd fe geir y deuseiniaid canlynol:

Deuseiniaid ag [i]

- (6) Deuseiniaid ag [i] ynddynt. Enghreifftiau o [Hannahs \(2013:24–5\)](#).

[aɪ]	cau
[ɑɪ]	cae
[ɔɪ]	coed
[ʊɪ]	mwy
[əɪ]	neu
[iʊ]	yw

Yn y ffigurau uchod cyflwynir llafariaid sylfaenol y Gymraeg, ond mae'r llafariaid yn amrywio o un acen i'r llall. Nid yw holl siaradwyr y Gymraeg yn ynganu deuseiniau. Er enghraifft, gall rhai siaradwyr ddweud *heddi* [hɛði] yn hytrach nag *heddiw* /hɛðiʊ/ neu *llygad* [ɬɛgəd] neu *llyged* [ɬɛgɛd] yn lle *llygaid* /ɬɛgɑɪd/. Mae llawer o amrywiaeth rhwng siaradwyr wrth gynhyrchu llafariaid yng ngwahanol acenion y Gymraeg, ac ymdrinnir â'r pwnc amrywio ieithyddol yn Rhan VI.

10 Cysyniadau ffonolegol allweddol

Bydd yr adran hon yn cyflwyno cysyniadau allweddol sy'n bwysig i ddeall ffonoleg ac yn dangos sut y defnyddir gwahaniaethau sain i wahaniaethu rhwng geiriau.

10.1 Cyferbynnu

Yn Gymraeg, rydym yn gwybod a yw sain yn bwysig wrth wahaniaethu rhwng geiriau penodol. Er enghraifft, rydym yn gwybod bod y gwahaniaeth rhwng /θ/ a /ð/ yn bwysig oherwydd bod **cyferbyniad** rhwng y ddau air *syth* a *sydd*. Ar y llaw arall, nid yw cynhyrchu'r gair *ras* â'r tril [r] [ra:s] neu â'r tap [ra:s] yn newid yr ystyr. Gallwn ddweud felly nad yw tap a thril yn **gyferbyniol** (*contrastive*) yn y Gymraeg. Nid yw hyn yn wir ym mhob iaith. Yn Sbaeneg, er enghraifft, mae tap a thril yn gyferbyniol (h.y. mae'r cyferbyniad rhwng y ddwy sain yn newid ystyr geiriau). Mae'r gair *perro* /pero/ a gynhyrchir â'r tril /r/ yn golygu 'ci', tra bo *pero* /pero/ a gynhyrchir â thap /r/ yn golygu 'ond'. Felly, mae'n bosibl dweud bod tap a thril yn gyferbyniol yn yr iaith Sbaeneg, ond yn y Gymraeg nid yw'r ddwy sain yn gyferbyniol.

Er mwyn profi bod gwahaniaeth seinegol yn gyferbyniol mewn iaith, mae modd defnyddio parau o eiriau sy'n wahanol mewn un segment (cytsain neu lafariad) yn unig. Rhaid i'r segment gwahanol fod yn yr un safle yn y ddau air a rhaid mai dyma'r unig wahaniaeth sy'n bresennol yn y gair. Peth pwysig arall yw fod yn rhaid iddyn nhw olygu pethau gwahanol yn yr iaith. Gelwir y parau hyn o eiriau yn **barau minimol** (*minimal pairs*). Mae *syth* /si:θ/ a *sydd* /si:ð/ yn bâr minimol yn Gymraeg (fel y mae *perro* /pero/ a *pero* /pero/ yn Sbaeneg).

Mae ieithoedd yn defnyddio gwahanol wahaniaethau seinegol i greu cyferbyniad rhwng cytseiniaid, megis lleisio, man a modd cynanu. Er enghraifft, mae'r gwahaniaeth o ran lleisio rhwng /ð/ a /θ/ yn wahaniaeth pwysig rhwng *syth* a *sydd* yn Gymraeg. Mae'r man cynanu hefyd yn bwysig ar gyfer gwneud gwahaniaeth, er enghraifft y gwahaniaeth rhwng y ffrwydrolyn gorfannol /t/ a'r ffrwydrolyn dwywefusol /p/ yn *torth* /tɔrθ/ a *porth* /pɔrθ/. Yn Gymraeg mae gwahaniaeth rhwng y dynesolyn ochrol gorfannol /l/ a'r ffrithiolyn ochrol gorfannol /ɫ/, fel a ddangosir gan y pâr minimol *palu* /pali/ a *pullu* /paɫi/. Defnyddir gwahaniaethau rhwng hyd llafariad (ac weithiau rhwng cytseiniaid) hefyd i greu cyferbyniad mewn ieithoedd. Yn y Gymraeg, mae'r gwahaniaeth rhwng *gwin* /gwi:n/ a *gwyn* /gwi:n/ yn gyferbyniol. Cyn belled â bod un sain yn unig yn cael ei newid a bod y sain yn yr un safle ym mhob gair, yna mae'r geiriau'n ffurfio pâr minimol.

10.2 Y Ffonem

Mae'r parau minimol a ddisgrifiwyd uchod yn dangos bod rhai seiniau'n gyferbyniol yn y Gymraeg. **Ffonem** yw'r uned sain leiaf a all ddangos gwahaniaeth ystyr mewn iaith. Gwelsom hynny yn Sbaeneg gyda'r cyferbyniad rhwng /r/ ac /r/, sy'n ffonemau gwahanol yn yr iaith honno. Ond, gan nad yw'r gwahaniaeth rhwng [r] a [r] yn y Gymraeg yn gyferbyniol, dywedwn eu bod yn fersiynau gwahanol o'r un ffonem yn yr iaith honno. Gelwir y fersiynau gwahanol hyn yn **aloffonau** (*allophones*). Mae'r seiniau [r] ac [r] yn aloffonau o'r un ffonem yn y Gymraeg a gallwn gynrychioli'r ffonem honno fel /r/. Cynrychiolir ffonem gan symbol wedi'i osod rhwng dau slaes, ond i gynrychioli aloffonau defnyddir bachau petryal. Gallwn grynhoi hyn drwy ddweud bod seiniau sy'n **cyfrif** fel yr un peth yn rhan o'r un ffonem ond fod seiniau sy'n **cyfrif** fel pethau gwahanol yn rhan o ffonemau gwahanol.

Nid yw ffonem yn sain sy'n bodoli ar lafar, ond rydym yn ei galw'n **ffurf waelodol** (*underlying form*) sain. Felly, ffonemau yw cynrychioliadau meddyliol unedau ffonolegol iaith. Dyma'r unedau a ddefnyddir i gynrychioli geiriau yng ngeirfa'r meddwl (*mental lexicon*). Ffonemau sy'n achosi gwahaniaethau geiriol, tra bo aloffonau yn **wireddiadau seinegol** (*phonetic realisations*) o ffonemau. Mae'r broses o roi un sain yn lle un arall mewn gair i weld a yw'n gwneud gwahaniaeth yn ffordd dda o ddarganfod ffonemau iaith. Er enghraifft, mae *car* /kar/ a *bar* /bar/ yn dangos bod /k/ a /b/ yn ffonemau yn yr iaith oherwydd eu bod yn creu gwahaniaeth ystyr.

Efallai y gwelwn hefyd y gall y modd y gwireddir ffonem amrywio, yn dibynnu ar y cyd-destun (y seiniau eraill o'i hamgylch, neu ei safle o fewn sillaf). Mae rheolau ffonolegol iaith yn berthnasol i ffonemau er mwyn pennu ynganiad geiriau, a bydd mwy am y ffordd rydym yn cyfleu newidiadau rhagweladwy ar ddiwedd yr Adran nesaf.


11 Cyfuno seiniau

Bydd yr adran hon yn rhoi trosolwg o'r hyn sy'n digwydd wrth gyfuno seiniau lleferydd, er enghraifft, sut mae seiniau'n ffurfio sillafau, sut mae seiniau'n ffurfio patrymau mewn iaith a sut y gall seiniau fynd drwy **eilededdau sain** (*sound alternations*) mewn rhai cyd-destunau.


11.1 Y sillaf

Mewn gair, mae o leiaf un sillaf, ac o fewn y sillaf hwnnw, fel arfer mae o leiaf un llafariad (e.e. *pen*, *cath*, *ci*, *mynd*, *del*, *llong*). Yn y Gymraeg, mae'n bosibl i sillaf gynnwys un llafariad yn unig, fel yn y geiriau *yw* /rɨs/ neu *wy* /vɨ/. Mae hefyd yn bosibl i sillaf gynnwys llafariad wedi'i rhagflaenu gan un gytsain (fel yn *bai* /bai/ neu *ti* /ti:/), dwy gytsain (fel yn *plu* /pli:/ neu *glo* /glo:/) neu dair cytsain (fel yn *sbri* /sbri:/). Mae'n bosibl hefyd i sillaf gynnwys llafariad wedi'i dilyn gan un gytsain (fel yn *at* /at/ neu *aur* /ar/) neu ddwy gytsain (fel yn *arth* /arθ/ neu *allt* /aʔt/).

Wrth gyfeirio at sillafau mewn ieithoedd, rydym fel arfer yn rhoi enwau ar y gwahanol rannau o'r sillaf. Y **cnewylllyn** (*nucleus*) yw rhan hanfodol y sillaf ac mae'n llafariad. Gall cytsain neu glwstwr o gytseiniaid ragflaenu neu ddilyn y cnewylllyn. Y gytsain neu'r cytseiniaid sy'n rhagflaenu'r cnewylllyn yw'r **cyrch** (*onset*), a'r gytsain neu'r cytseiniaid sy'n dilyn y cnewylllyn yw'r **coda**. Gyda'i gilydd, mae'r cnewylllyn a'r coda yn ffurfio'r rhan o'r sillaf a elwir yn **odl** (*rhyme*). Mae'n bosibl dangos strwythur sillaf fel coeden (**sillgoeden**; *syllable tree*), fel yn Ffigur 12. Mae'r Ffigur yn dangos yn y gair *pen* mai <p> /p/ yw'r cyrch ac <en> /ɛn/ yw'r odl. O fewn yr odl mae'r cnewylllyn <e> /ɛ/ a'r coda <n> /n/. Felly, yn y geiriau *tir*, *hir* a *sir*, /t/, /h/ a /s/ yw'r cyrch, ac yn y tri gair /i:r/ yw'r odl; /i:/ yw'r cnewylllyn ac /r/ yw'r coda.

Ffigur 12: Sillgoeden yn dangos strwythur y gair *pen*

Gall y cyrch a'r coda gynnwys mwy nag un gytsain, fel yn yr enghraifft yn Ffigur 13 ar gyfer y gair *plant*; /pl/ yw'r cyrch a /nt/ yw'r coda.

Ffigur 13: Sillgoeden yn dangos strwythur y gair *plant*

Mae'n bosibl peidio â chael cyrch na choda mewn sillaf: does dim cyrch yn y gair *oer* /ɔ:r/ a does dim coda yn y gair *ci* /ki:/. Defnyddir y term **sillaf agored** (*open syllable*) i ddisgrifio sillaf heb goda, lle does dim cytseiniaid yn dilyn y llafariad (e.e. *tŷ*, *ci*, *llo*). Mewn **sillaf gaeedig** (*closed syllable*), mae cytseiniaid yn dilyn y llafariad (e.e. *tan*, *cath*). Mae deall strwythur y sillaf yn bwysig wrth ystyried a oes unrhyw gyfyngiadau ar y drefn y gall seiniau ymddangos ynddi mewn iaith.

Mae gwahanol ieithoedd yn amrywio o ran y mathau o gyfuniadau neu ddilyniannau o segmentau (cytseiniaid a llafariad) y maent yn eu caniatáu mewn sillaf. Weithiau, caiff pethau eu caniatáu ar ddechrau gair mewn cyrch ond nid ar ddiwedd gair mewn coda. Gelwir y patrymau o seiniau neu siapiau sillafau a ganiateir mewn iaith yn **ffonotacteg**. Mae gan y Gymraeg gyfyngiadau penodol ar yr hyn all digwydd yng nghyrch sillaf, neu yng nghoda sillaf. Er enghraifft, mae'n bosibl cyfuno ffrwydrolion a thrwynolion mewn cyrch yn y Gymraeg, er enghraifft /kn/ (fel yn y gair *cnau*). Ond nid yr un cyfyngiadau sydd ym mhob iaith; mewn rhai ieithoedd, fel Saesneg er enghraifft, nid yw'n bosibl cael /kn/ yn y cyrch. Hefyd, os yw iaith yn caniatáu cyfuniad mewn cyrch, nid yw'n wir fod yr iaith yn caniatáu'r un cyfuniad mewn coda.

Er enghraifft, mae [Awbery \(1984:65\)](#) yn dangos bod cyfuniad o /pl/ yn dderbyniol yn y cyrch yn y Gymraeg, ond nad yw'n bosibl ar ddiwedd gair: "there is no such form as */tapl/ in the language". Felly, caniateir /lp/ ar ddiwedd y gair /talp/ ond nid ar ddechrau gair */lpant/. Hynny yw, mae amrywiaeth yn y dilyniantau o segmentau sy'n cael eu caniatáu yn y Gymraeg. Mae [Awbery \(1984\)](#), [Ball & B. Williams \(2001\)](#) a [Hannahs \(2013:34–7\)](#) yn amlinellu rhai o batrymau ffonotactegol allweddol y Gymraeg, gan gynnwys cyfuno dwy neu dair cytsain yn glystyrau mewn cyrch a dwy gytsain yn glystyrau mewn coda. Maent hefyd yn rhoi trosolwg o rai ystyriaethau pwysig am hyd llafariad mewn codâu cymhleth a'r amrywio o acen i acen.

11.2 Pwyslais

Mae pwyslais yn effeithio ar sillafau yn hytrach nag ar segmentau unigol fel llafariad neu gytseiniaid. Mae pwyslais yn cyfeirio at wneud sillaf yn fwy amlwg mewn rhyw ffordd, fel ei fod yn fwy clywadwy na'r sillafau o'i gwmpas. Mae hynny'n golygu bod angen i ni gymharu sillaf â sillafau eraill. Hynny yw, ni allwn nodi a yw'r sillaf ar ei ben ei hun wedi'i bwysleisio ai peidio, ac ni fyddem yn gallu canfod pwyslais heb gyd-destun. Defnyddiwn y marc diacritig [ˑ] o flaen sillaf sydd i'w bwysleisio i nodi'r pwyslais e.e. *mynydd* /'mənið/, *mynyddoedd* /mə'nəðɔɪð/.

Mewn geiriau Cymraeg mae'r pwyslais yn eithaf rheolaidd, a'r prif bwyslais yn disgyn ar y **goben** (*penult*; y sillaf olaf ond un) mewn geiriau amlsillafog (*mynydd*, *mynyddoedd*, *ysgol*, *ysgolion*). Mae rhai eithriadau, fel mewn geiriau lle mae'r pwyslais yn disgyn ar y sillaf olaf (e.e. *caniatáu*, *Cymraeg*, *Caerdydd*, *carafân*), ac mewn rhai benthyciadau o'r Saesneg, fel *ambiwlans*, lle mae'r pwyslais yn disgyn ar y rhagoben (*antepenult*; y sillaf olaf ond dau) ([Ball & B. Williams 2001:166–7](#)). Fodd bynnag, oherwydd bod lleoliad y pwyslais yn eithaf rheolaidd ar y cyfan, disgrifir y Gymraeg yn **iaith bwyslais sefydlog** (*fixed stress language*). Ieithoedd eraill sydd â phwyslais sefydlog yw'r Bwyleg (mae'r pwyslais yn disgyn ar y sillaf olaf ond un, fel yn y Gymraeg) a'r Ffinneg (mae'r pwyslais yn disgyn ar sillaf gyntaf gair). Fodd bynnag, mae gan ieithoedd eraill (e.e. Saesneg, Catalaneg, Eidaleg, Rwsieg) **bwyslais newidiol** (*variable stress*), sy'n golygu na allwn wneud datganiad cyffredinol, syml o ran pa sillafau sy'n cael eu pwysleisio. Er enghraifft, mae'n bosibl pwysleisio'r sillaf olaf neu'r goben mewn geiriau Saesneg: *contract* (enw) /'kɒntrakt/ a *contract* (berf) /kən'trakt/. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid dysgu patrwm y pwyslais fel rhan o ynganiad gair unigol.

Yn llawer o ieithoedd y byd, fel arfer mae'r sillaf sy'n cael ei phwysleisio yn uwch o ran **lefel y sain** (*volume*) ac yn hirach na'r sillafau o'i chwmpas, a gall hefyd fod â newid yn y **traw** (*pitch*). Ond yn y Gymraeg, mae'r ciwiau ar gyfer pwyslais yn wahanol i'r hyn ydyw mewn ieithoedd eraill, fel Saesneg, Almaeneg neu Ffrangeg ([Ball & B. Williams 2001:169](#)). Nid yw traw, lefel y sain na hyd y sillaf yn gliwiau dibynadwy i bwyslais yn y Gymraeg ([B. Williams 1986](#)). Cofnodwyd bod gan y sillaf olaf mewn gair amlsillafog (y sillaf sy'n dilyn y sillaf bwys) draw uwch neu draw sy'n codi ([Watkins 1961:29](#), [Fynes-Clinton 1913:xii](#), [D.M. Jones 1949](#) a [B. Williams 1989](#)). Mewn astudiaeth o'r nodweddion hyn (traw, hyd a lefel y sain), a wnaed gan [B. Williams \(1986\)](#), darganfuwyd nad oedd y llafariad yn y goben yn cael ei phwysleisio yn hirach na'r llafariad yn y sillaf olaf, oedd ddim yn cael ei phwysleisio. Ond, darganfu [B. Williams](#) fod y gytsain sy'n dilyn y goben (y **sillaf bwys**- *stressed syllable*) yn hirach na'r gytsain ar ddiwedd y gair (y **sillaf ddi-bwys**- *unstressed syllable*). Ar sail y canlyniadau hyn, daeth i'r casgliad mai hyd y gytsain yn dilyn y sillaf bwys yw'r arwydd pwysig ar gyfer pwyslais yn y Gymraeg.

11.3 Tôn a goslef

Mewn rhai ieithoedd, gall **traw** wahaniaethu rhwng gwahanol eiriau. Er bod siaradwyr pob iaith yn amrywio traw'r llais wrth iddynt siarad, mae rhai ieithoedd yn defnyddio'r traw fel nodwedd i wahaniaethu rhwng ystyr geiriau. Er enghraifft, yn y Gymraeg nid oes ots pa un a yngenir *ci* â thraw uchel, traw isel, traw sy'n codi neu'n disgyn—bydd bob amser yn golygu 'ci'. Fodd bynnag, mae dros hanner yr ieithoedd ledled y byd yn defnyddio lefel y traw neu newid yn y traw i wahaniaethu rhwng gwahanol eiriau.

Tôn yw enw'r agwedd ar ddefnyddio traw'r llais i wahaniaethu rhwng geiriau. Er enghraifft, yn yr iaith Fandarin (*Mandarin Chinese*, teulu Sino-Tibetaidd) sy'n cael ei siarad yn Tsieina, Taiwan a Singapore a lledled y byd, mae gan y gair /má/, sy'n golygu 'mam', dôn sy'n uchel ac yn wastad. Ond mae'r un dilyniant, /mǎ/, â thôn sy'n dechrau yn y canol ac yn codi, yn golygu 'cywarch'. Hefyd, mae'r gair /mà/, lle mae'r traw yn isel ac yn disgyn, yn golygu 'ceffyl' ac mae'r dôn ar y gair /mâ/, 'tafodi/dwrddio', yn dechrau'n uchel ac yn disgyn i lawr yn gyflym. Mae siaradwyr Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill sydd ddim yn defnyddio tôn yn ei chael hi'n anodd clywed y gwahaniaeth rhwng y geiriau oherwydd nad yw'r agwedd hon yn nodi gwahaniaeth ystyr yn yr ieithoedd y maent yn eu siarad yn barod. Ond mewn ieithoedd fel Mandarin mae tôn cyn bwysiced â'r cyferbyniad rhwng gwahanol gytseiniaid a llafariad.

Nid yw ieithoedd fel Cymraeg, Almaeneg, Sbaeneg a Saesneg yn ieithoedd tonyddol, ond maent yn defnyddio traw'r llais i gyfle gwahanol swyddogaethau wrth siarad. **Goslef** yw'r defnydd o draw'r llais i gyfleu ystyr sy'n annibynnol o'r geiriau a'u seiniau (Nolan 2006:433). Gall siaradwyr ddefnyddio goslef i wahaniaethu, er enghraifft, rhwng cwestiwn a datganiad. Os yw'r frawddeg *Aeth Huw i'r dafarn* yn cael ei dweud â goslef sy'n disgyn, mae'n debyg fod y siaradwr wedi cynhyrchu datganiad sy'n cadarnhau'r ffaith fod Huw wedi mynd i'r dafarn. Os dywedir *Aeth Huw i'r dafarn?* â goslef sy'n codi, mae'n debyg fod y siaradwr yn cynhyrchu cwestiwn sy'n gofyn am ateb. Gellir defnyddio goslef hefyd i grwpio rhannau o ymadroddion yn unedau llai. Er enghraifft, mae'r datganiad *Mae Non yn hoffi hen gŵn a chathod* yn amwys. Gellir darllen hyn i feddwl bod Non yn hoffi hen gŵn a hen gathod, neu gellid darllen bod Non yn hoffi hen gŵn, ond cathod o unrhyw oed, fel pe bai coma yng nghanol y frawddeg *Mae Non yn hoffi hen gŵn | a chathod*. Gellir defnyddio goslef i wahaniaethu rhwng nifer o ystyron yn y ffyrdd hyn, a cheir nifer o farciau diacritig yn yr IPA i drawsgrifio **uwchsegmentolion** (*suprasegmentals*) fel hyd, pwyslais a thôn.

11.4 Eilededdau sain

Wrth eu cyfuno'n sillafau, yn eiriau neu'n frawddegau, mae seiniau lleferydd unigol yn aml yn cael eu heffeithio gan y seiniau o'u cwmpas. Mewn lleferydd di-dor, nid oes unrhyw fwch rhwng geiriau, yn wahanol i'r hyn a geir wrth ysgrifennu. Y rhan fwyaf o'r amser, mae'r ffordd rydym yn ynganu gair yn ofalus ar ei ben ei hun yn wahanol i'r ffordd rydym yn ynganu'r un gair mewn lleferydd di-dor, naturiol. Pan fyddwn yn ynganu gair yn ofalus ar ei ben ei hun, fel arfer byddwn yn ynganu pob un o'r seiniau unigol. Ond mewn lleferydd di-dor, naturiol, efallai y byddwn yn colli seiniau unigol, yn newid seiniau mewn rhyw ffordd neu'n mewnosod seiniau. Disgrifir y prosesau hyn yn yr adrannau isod.

11.4.1 Seingolli a mewnosod

Seingolli (*elision/deletion*) yw'r term sy'n cael ei defnyddio i ddisgrifio'r broses o golli neu ddileu seiniau unigol wrth siarad. Mae'n digwydd yn aml yn y Gymraeg gyda chytseiniaid. Er enghraifft, mae colli /v/ ar ddiwedd geiriau fel *cyntaf*, *gwaethaf*, *lleiaf* yn digwydd yn aml, yn enwedig yn y gogledd (Watkins 1961:57). Mae hefyd yn gallu digwydd gyda sillafau llawn. Defnyddir y term **sillgolli** i ddisgrifio'r broses o golli sillafau. Mae hynny'n digwydd mewn geiriau fel *ysgrifennu* /ˌɛsgrɪˈvɛni/ neu *aderyn* /aˈdɛrɪn/ sy'n cael eu hynganu fel *sgrifennu* /sgrɪˈvɛni/ (neu *sgwennu* /ˈsgwɛni/) a *deryn* /ˈdɛrɪn/ (Ball & B. Williams 2001:54). Dan rai amodau gellir **mewnosod** sain hefyd. Gelwir llafariad a ychwanegir fel hyn yn **llafariad ymwithiol** (*intrusive vowel*). Mae llafariad ymwithiol yn digwydd yn aml yn y Gymraeg rhwng clwstwr o gytseiniaid, yn enwedig ar ddiwedd gair unsill (Watkins 1961:58). Er enghraifft, mae un yn ymddangos yn *pobl* /pobol/, *cefn* /kefen/ ac *ochr* /ochor/.

11.4.2 Cymathu

Weithiau, mae seiniau lleferydd yn cael eu heffeithio gan seiniau cyfagos. Er enghraifft, fel arfer disgrifir /n/ fel trwynolyn gorfannol. Ond mewn geiriau fel *pen-blwydd* /penblɔið/, gellir gwireddu /n/ fel cytsain ddwywefusol [pɛmblɔið]. Hynny yw, mae'r /n/ wedi newid yn [m] dwywefusol oherwydd bod y sain [b] sy'n dilyn yn ddwywefusol. **Cymathu** (*assimilation*) yw'r term rydym yn ei ddefnyddio i ddisgrifio'r broses lle bydd un sain yn newid i fod yn debyg i un arall.

Mae [pɛmblɔið] yn enghraifft o **gymathu ôl** (*regressive assimilation*), y math o gymathu sy'n fwyaf cyffredin yn y Gymraeg (Watkins 1961:55). Mewn cymathiad ôl, mae'r sain yn cael ei dylanwadu gan y sain sy'n ei dilyn (/b/ yn dylanwadu ar yr /n/ yn pen-blwydd). Ond hefyd, ceir **cymathu blaen** (*progressive assimilation*), lle mae sain yn cael ei dylanwadu gan y sain flaenorol. Mae Watkins (1961:55) yn rhoi enghraifft o gymathiadau blaen mewn rhai ardaloedd, lle mae'r /b/ yn *ambell* yn troi'n [m], *ammell*, a'r /n/ yn *simne* yn troi'n [m], *simme*.

Mae'r newid o [n] i [m] yn pen-blwydd, yn enghraifft o **gymathu man cynanu**, sef cymathu sy'n newid y safle yn y geg lle cynhyrchir y gytsain (cytsain orfannol yn newid yn gytsain ddwywefusol). Mae Watkins (1961:54) yn rhoi enghreifftiau o gymathiadau man cynanu — *can punt* ['kɑmpɪnt] ac *enbyd* ['ɛmbɪd]—a gwelwn fod y trwynolyn gorfannol /n/ yn cymathu i'r man lle cynhyrchir y gytsain ddwywefusol nesaf. Mae hyn yn digwydd hefyd gyda chytseiniaid sydd heb fod yn ddwywefusol, fel yn yr enghraifft *dyn caredig*, lle mae'r trwynolyn gorfannol /n/ yn troi'n felar: [ɲ] [di:ŋka're:dɪg]. Ond mae cymathu yn effeithio ar nodweddion eraill seiniau hefyd. Mae enghraifft o /d/ yn troi'n [k] yn *nodcochi* yn enghraifft o **gymathu lleisio** (*voicing assimilation*) a chymathu man cynanu, lle mae'r gytsain sy'n dod cyn y gytsain ddi-lais [k] hefyd yn troi'n ddi-lais [nok'koχi] (ac yn newid man cynanu hefyd) (Ball & B. Williams 2001:52).

Y treigladd trwynol

Mae treiglo yn broses sy'n cael ei hachosi gan wahanol **sbardunau** (*triggers*) (gweler Rhan III a Rhan IV). Un sbardun ar gyfer y treigladd trwynol yw'r gair *yn*, fel yn yr enghraifft *ying Nghymru*. Yn yr enghreifftiau isod sy'n dangos treigladdau trwynol, mae'n bosibl gweld bod y cytseiniaid ar ddechrau enwau'r lleoedd yn newid modd cynanu: maent yn newid o fod yn ffrwydrolion—/b, d, g/—i fod yn drwynolion â'r un man cynanu:

[m, n, ŋ]. Yn yr enghreifftiau *ym Mangor* ac *yng Ngarth Celyn* mae'r trwynolyn [n] sy'n digwydd ar ddiwedd *yn* yn newid ei leoliad cynhyrchu i'r un man cynanu â'r un ar ddechrau'r enw lle. Felly, mae [n] yn troi'n ddwywefusol [m] oherwydd y gytsain ddwywefusol [b] ar ddechrau Bangor ac [n] yn troi'n [ŋ] oherwydd y gytsain felar ar ddechrau Garth. Yn yr enghreifftiau *ym Mangor*, *yn Nolgellau* ac *yng Ngarth Celyn*, mae cytsain drwynol hir yn digwydd (sy'n cael ei nodi â'r marc diacritig [ː]—[əm:ɑŋgər], [ən:nɔlgɛləi], [əŋ:arθ kɛlm]).

Y treigladd trwynol: ffrwydrolyon yn troi'n drwynolion â'r un man cynanu

yn + Bangor → *ym Mangor*
/ən bɑŋgər/ → [əm:ɑŋgər]

yn + Pontypridd → *ym Mhontypridd*
/ən pɒntəpriːð/ → [əm̩m̩ɔntəpriːð]

yn + Dolgellau → *yn Nolgellau*
/ən dɔlgɛləi/ → [ən:nɔlgɛləi]

yn + Trefor → *yn Nhrefor*
/ən trɛvər/ → [ən̩rɛvər]

yn + Garth Celyn → *yng Ngarth Celyn*
/ən gərθ kɛlm/ → [əŋ:arθ kɛlm]

yn + Cymru → *yng Nghymru*
/ən kəmri/ → [əŋ̩jəmri]

Yr un math o beth sy'n digwydd gyda'r enghreifftiau *ym Mhontypridd*, *yn Nhrefor* ac *yng Nghaerdydd* ond mae'r gytsain drwynol hefyd yn troi'n ddi-lais oherwydd y cytseiniaid di-lais /p, t, k/ ar ddechrau'r enwau lleoedd. Mae'n bosibl dweud bod y ffurf waelodol /n/ yn yr arddodiad yn cael ei gwireddu fel [ŋ] oherwydd y /k/ sy'n dilyn, ac mae'r /k/ yn cael ei ynganu fel [ŋ̩] dan ddylanwad yr /n/ flaenorol. Ond nid yw'r cymathiad dwyffordd hwn yn digwydd rhwng trwynolion a ffrwydrolyon yn yr iaith yn gyffredin (Hannahs 2013). Mae enghreifftiau fel *mae Twm yn caru Cadi*, yn dangos nad yw'r /n/ ar ddiwedd *yn* na'r /k/ ar ddechrau *caru* yn treiglo. Mae hynny'n golygu bod y treigladau yn rhywbeth mwy na phroses ffonolegol, oherwydd mewn rhai cyd-destunau morffogystrawennol (*morphosyntactic*) yn unig y mae treiglo'n digwydd.

11.4.3 Meddalau

Mae **meddalau** (*lenition*) yn broses sy'n newid y modd cynanu sain, fel arfer o radd o gulhad mwy i radd o gulhad llai (gweler Adran 8.2.2). Gall hefyd effeithio ar leisio sain lle bydd seiniau di-lais yn cael eu lleisio. Mae'n bosibl trefnu cytseiniaid ar raddfa o gryfder, o'r cryfaf i'r gwannaf, yn seiliedig ar ba mor gaeedig neu agored yw'r llwybr llais. Mae'r sain gryfaf yn ffrwydrolyn, ac yna ceir ffrithiolyn, yna dynesolyn, ac yna ddim byd: ffrwydrolyn > ffrithiolyn > dynesolyn > sero. O ran y raddfa leisio, mae cytseiniaid di-lais yn gryfach na chytseiniaid lleisiol: di-lais > lleisiol. Mae ddau fath o feddalau yn digwydd mewn treigladau yn y Gymraeg: a) lle mae ffrwydrolyon yn newid yn ffrithiolion (treigladd laes a threigladd meddal) a b) lle mae cytseiniaid di-lais yn newid i fod yn rhai lleisiol (treigladd meddal).

Y treigladd laes

Mae'r treigladd laes yn ganlyniad proses meddalau lle mae ffrwydrolyon di-lais yn troi'n ffrithiolion di-lais. Eilededdau sy'n cael eu sbarduno gan yr amgylchedd morffogystrawennol yw'r treigladau yn y Gymraeg. Hynny yw, yn yr enghreifftiau isod, y rhagenw *ei* (benywaidd) sy'n sbarduno'r treigladd laes yn yr enw sy'n dilyn. Mae'r treigladd laes yn

digwydd mewn nifer o gyd-destunau eraill (sy'n cael eu trafod yn Rhannau III a IV).

Y treigladd laes: ffrwydrolion di-lais yn troi'n ffrithiolion di-lais

ei + plant → ei phlant
/ei plant/ → [ei flant]

ei + teledu → ei theledu
/ei teledi/ → [ei θeledi]

ei + cath → ei chath
/ei kaθ/ → [ei χaθ]

Mae'n bosibl gweld bod y broses hon yn newid y ffrwydrolion /p, t, k/ yn ffrithiolion [f, θ, χ]. Nid yw'r broses hon o ffrithiolion yn y Gymraeg heddiw yn golygu bod y ffrithiolion yn cael eu chynhyrchu â'r un man cynanu â'r ffrwydrolion gwaelledol. Er enghraifft, mae'r ffrwydrolyn felar /k/ yn troi'n ffrithiolyn wfwlar [χ]. Hefyd, mae'r ffrwydrolyn dwywefusol /p/ yn troi'n ffrithiolyn gwefus-ddeintiol [f]. Yn hanesyddol, mewn Hen Gymraeg a Chymraeg Canol, byddai'r ffrithiolyn wedi bod yn ddwywefusol sy'n cael ei gynrychioli gan [ϕ] ond mae hyn wedi newid i fod yn wefus-ddeintiol mewn Cymraeg Modern (Morris-Jones 1913; Willis 2009).

Y treigladd meddal

Mae meddalu hefyd yn effeithio ar leisio. Hynny yw, mae cytseiniaid di-lais yn dod yn gytsseiniaid lleisiol. Yn yr enghreifftiau isod o'r treigladd meddal, mae ffrwydrolion di-lais yn dod yn ffrwydrolion lleisiol. Mae'r arddodiad *i* yn sbarduno'r treigladd lle mae /p, t, k/ yn troi'n [b, d, g], felly'n ffrwydrolion â'r un man cynanu, ond wedi'u lleisio.

Y treigladd meddal: ffrwydrolion di-lais yn troi'n ffrwydrolion lleisiol

i + Porthmadog → i Borthmadog
/i: pɔrθ'madog/ → [i: bɔrθ'madog]

i + Trefynwy → i Drefynwy
/i: tre:vənwi/ → [i: dre:vənwi]

i + Conwy → i Gonwy
/i: 'kɔnwi/ → [i: 'gɔnwi]

Ond mae'r treigladd laes hefyd yn gweithio â ffurfiau gwreiddiol sy'n ffrwydrolion lleisiol yn barod /b, d, g/. Yn yr enghreifftiau isod mae'n bosibl gweld bod y ffrwydrolion lleisiol yn troi'n ffrithiolion lleisiol, neu'n cael eu colli yn gyfan gwbl:

Y treigladd meddal: ffrwydrolion lleisiol yn troi'n ffrithiolion lleisiol, neu'n cael eu colli yn gyfan gwbl

i + Bangor → i Fangor

/ i: 'baŋgor/ → / i: 'vaŋgor/

i + Dolgellau → i Ddolgellau

/i: dɔl'gɛɫai/ → [i: ðɔl'gɛɫai]

i + Gorseinion → i Orseinon

/i: gɔr'seɪnjən/ → [i: ɔr'seɪnjən]

Felly, yn yr enghreifftiau i *Fangor* ac i *Ddolgellau*, mae'r /b/ a /d/ wedi troi'n ffrithiolion lleisiol, [v] a [ð]. Yn hanesyddol, roedd /g/ yn troi'n [ɣ], sef y ffrithiolyn felar lleisiol, ond erbyn dechrau'r cyfnod Cymraeg Canol roedd wedi diflannu (Willis 2009:127).

Yn olaf, mae treigladd meddal yn effeithio ar /m, ð, r/. Mae /m/ yn troi'n ffrithiolyn gwefus-ddeintiol [v], ac mae'r /ð, r/ di-lais yn newid yn ddynesolion lleisiol, sef [l, r] (Awbery 2009).

Y treigladd meddal: /m, ð, r/

i + Machynlleth → i Fachynlleth

/ i: ma'χənɫɛθ/ → [i: va'χənɫɛθ]

i + Llandudno → i Landudno

/i: ɫan'dɪdnɔ/ → [i: lan'dɪdnɔ]

i + Rhiwabon → i Riwabon

/i: rɪwə'abən/ → [i: rɪwə'abən]

Hyd yn hyn, mae'r adran hon wedi canolbwyntio ar y broses o feddalu, lle mae cytseiniaid yn mynd yn wannach ar y graddfeydd ffrwydrolyn > ffrithiolyn > dynesolyn > sero neu ddi-lais > lleisiol. Ond mae proses fonolegol arall sy'n peri newid mewn cryfder sain ar y graddfeydd hyn. Caledu yw'r broses groes i feddalu.

11.4.4 Caledu

Caledu (*fortition*) yw'r broses o newid sain ar ben gwannaf y graddfeydd a grybwyllir uchod i fod yn gryfach. Ceir enghraifft o galediad yn y Gymraeg mewn rhai ansoddeiriau. O *gwlyb*, cawn *gwlypach* *gwlypaf*; *rhaf* → *rhatach* a *rhataf*, *pwysig* → *pwysicach* a *pwysicaf*. Hynny yw, mae'r ffrwydrolyon lleisiol /b, d, g/ yn troi'n ddi-lais [p, t, k] wrth wneud yr ansoddeiriau yn gymharol neu'n eithaf (Gweler 16 am fwy o wybodaeth ar ffurfiau cymharol). Disgrifir hyn gan rai fel **treigladd caled** (Watkins 1961:66, Borsley, Tallerman & Willis 2007:19).

Mae proses o galedu yn gyffredin mewn nifer o ieithoedd Ewropeaidd (e.e. Pwyleg, Iseldireg, Almaeneg, Catalaneg), lle mae rhwystrolion (*obstruents*) lleisiol yn colli eu lleisio ar ddiwedd gair. Yn yr ieithoedd hyn, mae rhwystrolion (ffrwydrolyon, ffrithiolion ac weithiau affrithiolion) yn cyferbynnu ar ddechrau neu yng nghanol gair, ond pan fyddant yn digwydd ar ddiwedd gair maent yn cael eu gwireddu'n di-lais. Er enghraifft, mewn Almaeneg mae'r ddau air lluosog *Räder* [ʁe:də] 'olwynion' a *Räte* [ʁe:tə] 'cynghorau' yn bâr minimol. Ond pan mae'r geiriau'n

unigol —*Rad* ‘olwyn’ a *Rat* ‘cyngor’—mae’r ddau air yn cael eu cynhyrchu fel [ɾa:t] er bod gwahaniaeth gweledol rhyngddynt (Kleber et al. 2010:185).

11.4.5 Rheolau ffonolegol

Mae rheol ffonolegol yn ffordd ffurfiol o fynegi prosesau ffonolegol systematig mewn iaith. Gellir meddwl am ynganiad ffonemau neu eiriau fel allbwn system o reolau sy’n cael ei storio ym meddwl siaradwr iaith. Y ffurfiau gwaelodol (*underlying forms*) yw ffurfiau haniaethol geiriau neu seiniau. Ond mewn cyd-destunau penodol megis y rhai a ddisgrifiwyd uchod, gall seiniau eiledu (*alternate*) â seiniau eraill. Gall ffurf waelodol gair fod yn wahanol i’r ffurf ar lafar (gwirediad seinegol; *phonetic realisation*), fel y gwelsom gyda’r gwahaniaeth rhwng *Rad* a *Rat* mewn Almaeneg, uchod. Mae gwir ynganiad *Rad* fel [ɾa:t] yn digwydd o ganlyniad i brosesu’r ffurf waelodol /d/ a’i hallbynnu fel [t]. Mae’n bosibl cofnodi’r broses hon drwy ddefnyddio rheol linol (*linear rule*) i geisio crynhoi’r newid yn ffurfiol. Mae rheol linol yn cymryd y ffurf:

(7) X Y/A__B

Yn yr enghraifft hon, rydym yn dweud bod X yn cael ei wireddu fel Y yn y cyd-destun rhwng A a B. Gallem ddefnyddio rheol i gyfleu’r broses o **ddadleisio** (*devoicing*) sy’n digwydd mewn Almaeneg. Mae’n bosibl crynhoi’r broses fel “Mae /d/ yn cael ei wireddu fel [t] ar ddiwedd gair”. I ddangos ffin gair, gallwn ddefnyddio’r symbol #. Felly, mae’r rheol sy’n newid /d/ yn [t] mewn Almaeneg yn edrych rhywbeth fel hyn:

(8) /d/ [t] / __#

Fodd bynnag, nid yn unig i /d/ y mae’r broses hon yn digwydd mewn Almaeneg; mae’n digwydd i bob rhwystrolion (ffrwydrolion a ffrithiolion). I wneud y rheol hon yn fwy effeithlon, yn hytrach nag ysgrifennu un rheol ar wahân ar gyfer pob sain a wireddir yn wahanol, gallem ddefnyddio rhywbeth i gyfleu bod grŵp cyfan o rwystrolion yn cael eu dadleisio ar ddiwedd gair. Er mwyn nodi nad yw’r broses hon yn digwydd gyda segmentau unigol yn unig, mae ffonolegwyr yn defnyddio set o nodweddion deuaidd i geisio symleiddio ysgrifennu’r rheolau. Felly, gallem ddefnyddio [+/-soniarus] i ddangos y gwahaniaeth rhwng soniarusion a rhwystrolion mewn iaith. Y nodwedd berthnasol i soniarusyn yw [+soniarus], a [-soniarus] i rwystrolion. Yn yr un modd, gallwn wneud yr un peth ar gyfer lleisio. Gallem ddefnyddio [+llais] ar gyfer seiniau lleisiol a [-llais] am seiniau di-lais. Felly, gallem ailysgrifennu’r rheol fel a ganlyn:

(9) [-soniarus] [-llais] / __#

Mae’r rheol wedyn yn dangos bod rhwystrolion lleisiol sy’n digwydd ar ddiwedd gair mewn Almaeneg yn cael eu dadleisio. Yn yr un modd, gallwn ddefnyddio ystod lawn o nodweddion i gofnodi newidiadau ffonolegol mewn ieithoedd. Gellir darllen mwy am reolau a damcaniaeth ffonolegol yn Spencer (1996), Gussmann (2002) a McMahan (2002) ac am ffonoleg y Gymraeg yn Hannahs (2013).

12 Crynodeb

Seiniau iaith: seineg a ffonoleg

Mae'r astudiaeth o seiniau iaith yn cael ei rhannu'n ddau faes: **seineg**, sef yr astudiaeth o'r modd y cynhyrchir seiniau, a **ffonoleg**, sef yr astudiaeth o'r modd y mae seiniau lleferydd yn ffurfio patrymau o fewn ac ar draws ieithoedd. Yn y bennod hon cyflwynwyd sawl cysyniad sy'n ganolog i'r astudiaeth o seiniau lleferydd.

Trafodwyd y gwahaniaeth rhwng sillafu a thrawsgrifio, gan dynnu sylw at y modd y mae ieithoedd yn wahanol o ran faint o gyfatebiaeth sy'n bodoli rhwng y ffordd y mae iaith yn cael ei hynganu a'r ffordd y mae wedi'i hysgrifennu i lawr. Cyflwynwyd yr Wyddor Seinegol Ryngwladol, a ddatblygwyd gan yr International Phonetic Association ar gyfer trawsgrifio seiniau ieithoedd yn ddiamwys ac yn gyson.

Mae'r llwybr llais yn cynnwys rhannau o'r corff sy'n allweddol ar gyfer cynhyrchu seiniau lleferydd: y laryncs (sy'n cynnwys y tannau llais), ceudod y geg, a cheudod y trwyn. I ddisgrifio sut mae cynhyrchu cytseiniaid mae angen disgrifio'r lleisio, y modd cynanu a'r man cynanu. Mae'r rhan fwyaf o gytseiniaid yn cael eu cynhyrchu drwy gulhau'r llwybr llais, gan effeithio ar y gwagedd aer uwchben y tannau llais. Ar y llaw arall, cynhyrchir llafariad â'r llwybr llais yn agored. Gwahaniaethir llafariad fel arfer o ran hyd, yn unseiniaid byr, unseiniaid hir a deuseiniaid hir. Disgrifiwyd sut mae unseiniaid yn cael eu cynhyrchu gan gyfeirio at y newidiadau mewn ansawdd, hynny yw, y dimensiynau o ran uchder, blaenedd, a chrynio'r gwefusau.

Cyflwynwyd nifer o gysyniadau ffonolegol allweddol yn y rhan hon. Cyflwynwyd yr egwyddor o gyferbyniad gan gyfeirio at ffonemau ac aloffonau. Mae seiniau'n cyfuno i greu unedau mwy, sef sillafau. Mewn gwahanol ieithoedd, ceir amrywiaeth yn y mathau o seiniau y gellir eu cyfuno â'i gilydd mewn rhai rhannau o sillafau neu eiriau. Defnyddir y term ffonotacteg i gyfeirio at y cyfyngiadau hyn. Pwyslais yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio i gyfeirio at y ffordd y mae rhai sillafau mewn gair yn cael eu gwneud yn fwy amlwg. Disgrifir y Gymraeg yn iaith bwyslais sefydlog, oherwydd ei bod yn bosibl gwneud datganiad syml ymhle mae'r pwyslais yn disgyn. Ar y llaw arall, mae ieithoedd fel Saesneg a Rwsieg yn ieithoedd â phwyslais newidiol, ac nid yw'n bosibl gwneud datganiad cyffredinol, syml o ran pa sillafau sy'n cael eu pwysleisio ynddynt. Cyflwynwyd y cysyniad o dôn a goslef hefyd yn yr adran hon o'r bennod.

Wrth gyfuno seiniau i greu unedau mwy, rydym hefyd yn gweld bod y seiniau'n gallu eiledu. Hynny yw, gall sain newid mewn rhyw ffordd, neu gellir ychwanegu neu ddileu seiniau. Cyflwynwyd y cysyniad o gymathu, mewnosod, seingolli a sillgolli, yn ogystal â chaledu a meddalau. Gwelsom ei bod yn bosibl llunio rheol ffurfiol i gynrychioli'r newidiadau hyn, megis dadleisio ar ddiwedd gair. Mae rheol ffurfiol yn amlinellu'r math o newid gan ddefnyddio nodweddion a'r amgylchedd lle mae'r newid hwn yn digwydd.

Cwestiynau

1. Sut rydym yn diffinio'r gwahaniaethau rhwng cytseiniaid a llafariaid?
2. Sut rydym yn disgrifio cytseiniaid?
3. Sut rydym yn disgrifio llafariaid?
4. Mewn iaith benodol, sut rydym yn gwybod a yw dwy sain yn ffonemau gwahanol?

Darllen pellach

Cyfrwng Saesneg

Ball, M. J. & Jones, G.E. 1984. *Welsh phonology: Selected readings*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Ball, M. J. & Williams, B. 2001. *Welsh phonetics*, cyf. Welsh studies. Edwin Mellen Press

Davenport, M. & S. J. Hannahs. 2010. *Introducing phonetics and phonology*. London: Hodder Education

Hannahs, S. J. 2013. *The phonology of Welsh*. Oxford University Press

Ladefoged, P. 2005. *Vowels and consonants: an introduction to the sounds of languages*. Malden, MA: Blackwell. 2il ol.

Ladefoged, P. & K. Johnson. 2011. *A course in phonetics*. Wadsworth/Cengage Learning. 6ed ol.

Spencer, A. 1996. *Phonology: theory and description*. Oxford: Blackwell

Rhan III

Strwythur geiriau: geirfa a morffoleg

13 Beth yw morffoleg?

LAURA ARMAN A SILVA NURMIO

Yn ogystal â dangos strwythur ffonolegol a seinegol (gw. Rhan II), gall astudio geiriau ddatgelu dau beth: un ai bod modd deall ystyr y gair drwy ychwanegu ystyr pob rhan o'r gair at ei gilydd, neu bod yn rhaid gwybod ystyr y gair o adnabod y llinyn o seiniau neu symbolau yn unig. Mae adnabod geiriau felly'n ddibynnol ar ddau beth o leiaf: gwybodaeth o **eirfa** (*vocabulary*) iaith a gwybodaeth o strwythur geiriau neu forffoleg (*morphology*).

Mae'r gair **morffoleg** yn dod o'r gwraidd Groeg *morphe-* sydd yn cyfeirio at 'ffurf' neu 'siâp'. Dyma sydd o dan sylw wrth drafod morffoleg o fewn ieithyddiaeth: ffurf a siâp geiriau.

Mae astudiaethau morffolegol yn cynnwys astudio'r rhannau sydd o fewn gair yn ogystal â sut mae ffurfio'r geiriau eu hunain drwy ychwanegu rhannau arbennig. Gan ddechrau â gwraidd neu fôn gair, mae morffoleg yn disgrifio tebygrwydd siâp geiriau sydd ag ystyron tebyg i'w gilydd neu sy'n rhannu patrymau tebyg yn eu gramadeg. Mae elfennau ieithyddol ychwanegol yn adeiladu ar y gwraidd—naill ai o'i flaen, ar ei ôl neu hyd yn oed o fewn y gwraidd—ac mae'r rhannau hyn oll yn cael eu galw'n **forffemau** (*morphemes*) e.e. *gweld*, **ymweld**, **ymwelaf**, *gweledig*. Casgliad o newidiadau systematig yw morffoleg, megis defnyddio *-edig* i ffurfio ansoddeiriau fel *gweledig* o wreiddiau berfol fel *gweld*.

Nid yw pob iaith yn dibynnu ar osod morffemau ychwanegol at wreiddiau i adeiladu ystyr a gramadeg. Mae ieithoedd y byd yn amrywio yn eu strategaethau i adeiladu ystyr, gramadeg a brawddegau. Mae'r Gymraeg, er enghraifft, yn rhannol ddibynnol ar forffoleg i glymu gwahanol ystyron at ei gilydd: mae'n bosibl newid morffoleg berf er mwyn mynegi person neu amser gwahanol, fel *gwelaf*, *gwelaist*, ond mae angen geiriau gwahanol i ddangos cydberthynas ofodol, e.e. **ar** y *gadair*, **o dan** y *gadair*. Enghraifft o iaith sy'n adeiladu ystyr mewn ffordd wahanol yw Fietnameg (*Vietnamese*, Awstro-Asiaidd), sy'n ychwanegu morffemau newydd at ffurf geiriau unigol er mwyn ychwanegu ystyr neu greu ystyr newydd, e.e. *con gấu* 'arth' a *những con gấu* 'eirith' (gw. hefyd adran 14.2 a 15.2 o'r Rhan hon). Ar begwn arall y raddfa forffolegol mae ieithoedd sy'n ychwanegu morffemau at ei gilydd mewn cadwyni hirion i greu un gair (gw. adran 15.2) e.e. Twrceg (teulu Twrcig) *korkusuzlaştırılmış* 'rhywbeth neu rywun a wnaed yn ddiodyn' (gw. hefyd yr iaith Hwafe yn adran 15.2 isod).

Fel y term 'gramadeg' (gw. Rhan I), mae'r term 'morffoleg' yn cael ei ddefnyddio mewn dau ystyr. Mewn un ystyr cyfeiria'r term at forffoleg iaith benodol, e.e. 'morffoleg y Gymraeg', sef y newidiadau systematig i siâp geiriau yn yr iaith. Yn yr ystyr arall cyfeiria'r term at y syniad o forffoleg fel rhan o'r broses feddyliol o ffurfio geiriau sy'n gysylltiedig â'r holl elfennau ieithyddol eraill. Mae morffoleg yn cysylltu'r rhan fwyaf o feysydd ieithyddiaeth oherwydd gall newidiadau i ffurf gair olygu newidiadau rheolaidd mewn ffonoleg, ystyr a chystrawen hefyd. Bydd adran olaf Rhan III yn cyflwyno syniadau cyfredol ieithyddion am le morffoleg o

fewn fframwaith gramadegol.

Arfer y maes yw gosod enghreifftiau o fewn brawddegau a pharagraffau mewn teip italig fel bod modd trafod y gair *gair* neu *brawddeg*, er enghraifft, o fewn brawddeg yn eglur. Fel y sylwch, mae hefyd yn arferiad i ddefnyddio cysylltnod ‘-’ (*hyphen*) i wahanu morffemau pan fydd angen manylu ar strwythur gair. A dyna sut y cyflwynir yr enghreifftiau trwy gydol y llyfr hwn: *ym-weld*, *gwel-edig*, a.y.b. Weithiau, fodd bynnag, nid oes modd gwahanu morffemau yn daclus â chysylltnod, ond nid yw hyn yn golygu nad oes morffoleg arbennig yn bresennol. Ar adegau mae angen cyferbynnu enghreifftiau drwy eu rhestru a hyd yn oed eu ffurfweddu’n arbennig â glos rhynglinellog (*interlinear gloss*) er mwyn dangos morffoleg a gramadeg iaith.

- (10) dobr-e baran-y
 da-LLUOSOG maharen-GWRYWAIDD.LLUOSOG
 ‘meheryn da / hyrddod da’

Pwyleg

Alinir pob gair yn y glos rhynglinellog â gair Cymraeg (ac weithiau Saesneg) sy’n gyfieithiad neu’n esboniad o’r geiriau unigol. Mae’r forffoleg sy’n effeithio ar y geiriau hefyd yn cael ei hegluro ar ffurf label swyddogaeth (*function*) mewn priflythrennau bychain, e.e. -LLUOSOG uchod, sef swyddogaeth y forffem -e ar ansoddair Pwyleg. Er hwylustod, cyflwynir y labeli swyddogaeth ar ffurf byrfodd, megis LL ar gyfer LLUOSOG a G ar gyfer GWRYWAIDD, ac mae rhestr o’r byrfoddau ar dudalen 270.

Bydd y dulliau hyn o egluro a dehongli morffoleg i’w gweld drwy weddill y llyfr.

Geirfa allweddol

geirfa	morffem	morffem rydd
morffem glwm	gair syml	gair cymhleth
morffoleg	lluosogi	dadansoddol
enw	rhagenw	berf
ansoddair	adferf	ad-ddodiad
cysylltair	ebychair	rhan ymadrodd
ffurfdroi	gwraidd	dodiad
bôn	rhagddodiad	olddodiad
mewnddodiad	trawsddodiad	synthetig
morffoleg asiadol	morffoleg gyflunol	rhif gramadegol
rhif cyffredinol	person gramadegol	enw cyfrifiadwy
enw cynnull	cenedl	cyflwr gramadegol
arddodiad	ad-ddodiaid ôl	cymhariaeth
cytundeb	deilliant	cynhyrchedd
cynhyrchiol	anghynhyrchiol	sbardun treiglo
sbardun geiriol pur	sbardun geiriol sero	morffoffonoleg
	alomorffau	

14 Y gair

LAURA ARMAN

Wrth edrych ar eiriau ar bapur, digon hawdd yw datgan mai geiriau yw'r pethau rhwng y bylchau: h.y. gwyddid mai gair yw *wrth* ac mai gair yw *edrych* gan fod bylchau gwag o boptu iddynt. Ond sut y penderfynwyd ymhle i wahanu geiriau pan ysgrifennwyd y Gymraeg am y tro cyntaf? Daw'n amlwg nad oedd cytundeb ynghylch dechrau a therfyn uned y gair wrth i ieithoedd gael eu cofnodi'n ysgrifenedig am y tro cyntaf. Felly, nid yw'n bosibl diffinio gair yn ieithyddol drwy astudio orgraff yn unig. Nid yw pob iaith fodern yn defnyddio bylchau gwynion ac atalnodi yn eu hysgrifen, ond mae eu siaradwyr yn dal i allu adnabod un gair oddi wrth y llall. Gellir profi'n ieithyddol fod geiriau'n unedau synhwyrol a defnyddiol a'u bod, ar y cyfan, yn cyfateb i'r geiriau sy'n ymddangos rhwng bylchau gwynion mewn ysgrifen yn y Gymraeg ac mewn ieithoedd sy'n defnyddio systemau tebyg o drefnu eu horgraff, megis Saesneg, Ffrangeg, Rwsieg, Ffinneg (teulu Wralig, y Ffindir), Malaialam (teulu Drafidaidd, India), Tsiérocí (*Cherokee*, teulu Irocwoaidd, UDA), a.y.b.

Mae gair un ai'n 'forffem rydd' (gw. adran 14.2) neu'n ddilyniant o forffemau ynghlwm wrth ei gilydd. Mae gan eiriau drefn forffemau osodedig a sefydlog. Yn y frawddeg yn (11) gall y geiriau *lloriau*, *to*, *mynydd* a *mynyddoedd* ddisodli'r gair *llwybr* oherwydd nad oes angen unrhyw forffemau pellach arnynt (a'u bod yn gwneud synnwyr, i ryw raddau, wrth gwrs –gw. Rhan V 'Ystyr').

(11) cerddais ar y **llwybr**

Yn yr un modd, nid yw *gor-*, *-le-* na *-din-* yn gallu disodli *llwybr* ac mae angen mwy o forffemau arnynt cyn eu bod yn ystyrion (er bod rhywfaint o ystyr iddynt). Dim ond geiriau (a chymalau, gw. Rhan IV) sy'n gallu disodli geiriau eraill, felly, ac nid rhannau o eiriau. Gelwir y math hwn o brawf yn brawf cyfansoddion (*constituency test*) ac mae cyflwyniad i'r profion yn Rhan IV. Mae braslun o'r gwahanol brofion ar gyfer geiriau Cymraeg yn P.W. Thomas (1996:609–613).

14.1 Adeiladu geiriau

Mae sawl ffordd wahanol o ddehongli strwythur gair llafar. Yn gyntaf, mae geiriau llafar yn cael eu llunio drwy gynhyrchu seiniau yng ngheudod y geg (gweler Rhan II) a chreu dilyniant o seiniau, un ar ôl y llall. Mewn iaith ysgrifenedig ac mewn iaith arwyddion, mae'n bosibl defnyddio **llythrennau ac arwyddion** i gynrychioli'r un **dilyniant o seiniau**, ond nid dyma sy'n digwydd bob amser ym mhob iaith. Yn ail, gellir dehongli ffurf gair fesul sillaf oherwydd gall gwahanol eiriau mewn iaith rannu'r un sillafau, ond mewn gwahanol gyfuniadau, e.e. y

sillaf /pɛ/ yn /'pɛ.li/ *pel*i ac yn /,car.'pɛ.di/ *carped*i.

Pwnc Rhan III yw'r trydydd modd o adeiladu gair, sef fesul un forffem ar y tro. Y forffem yw uned leiaf iaith sy'n cyfrannu ystyr. Felly, mae'r gair *ton* yn forffem, ond nid yw *t-* neu *-o-* nac *-n* yn y gair yn forffemau. Nid oes rhannau llai i'r gair *ton* sydd ag ystyr o unrhyw fath; rhaid cyfuno'r tair ffonem, /t/, /ɔ/, ac /n/, cyn bod ystyr y gair *ton* yn dod yn amlwg.

/t/ /ɔ/ /n/	/t/ /ɔ/ /n/ /a/ /ɪ/	ffonemau
ton	to.nau	sillafau
ton	ton-au	morffemau
ton	tonnau	geiriau

Tabl 2: Gwahanol strwythurau mewnol geiriau: enghraifft *ton*

Ar lefel y morffemau yn Nhabl 2 yr ymddengys ystyr y gair—mae'r gair ystyrllon *ton* yn cyfuno â morffem luosogi *-au* ar y lefel hon. Noder mai <nn> sydd yn orgraff (sillafiad) y gair ac nid <n> fel yr awgrymir gan y ffonoleg. Arfer orgraffyddol yw dyblu <n> o flaen llafariad fer lle mae llafariad hir hefyd yn bosibl, e.e. *tonau*, ffurf luosog *tôn* (gw. Watkins 1961:79–85 am y berthynas rhwng orgraff y Gymraeg a'r iaith fodern). Noder hefyd fod sillaf, morffem a gair weithiau, ond nid bob amser, yn cyfateb yn union o ran eu ffurf—fel *ton*, *ton* a *ton* yng ngholofn gynta'r tabl.

14.2 Morffemau rhydd a morffemau clwm

Fel sy'n amlwg o Dabl 2 ac o enghreifftiau Adrannau 14 a 14.1, mae rhai geiriau yn forffemau unigol. Golyga hyn fod y forffem yn rhydd (*free morpheme*); fel *ton*, *ar*, *y* a *llwybr*, nid oes unrhyw raniad llai ac ystyrllon i'r geiriau ac nid oes angen unrhyw forffemau pellach er mwyn iddynt fodloni'r prawf cyfansoddion. Ar y llaw arall, mae geiriau eraill sy'n gyfuniad o fwy nag un forffem. Gwelir dwy forffem yn *tonnau* yn Nhabl 2. Gwyddid eisoes fod *ton-* yn forffem rydd, ond nid yw'r forffem luosogi, *-au*, yn sefyll ar ei phen ei hun yma nac mewn unrhyw gyd-destun arall yn yr iaith. Gelwir morffemau sy'n ddibynnol ar forffemau eraill i greu geiriau cyflawn yn forffemau clwm (*bound morphemes*). Daw'r <nn> yn sillafiad y gair o reolau orgraff y Gymraeg ac nid yw'n rhan o'r forffoleg (nac o'r ffonoleg).

Mae gair, felly, yn cael ei lunio un ai o un forffem rydd fel *ton*, o un forffem rydd a rhai clwm fel *tonnau* a *tonfeddi*, a hefyd o gyfuniadau eraill. Mae'n bosibl creu geiriau o forffemau clwm yn unig, fel yn y geiriau tafodieithol *hogan* 'geneth' a *hogyn* 'bachgen': mae'r morffemau unigol *-an* BENYWAIDD ac *-yn* GWRYWAIDD yn cyfuno â morffem glwm *hog-* sy'n ddi-ystyr mewn Cymraeg Cyfoes (gair benthyg o'r Saesneg *hog* "mochyn" oedd y forffem yn wreiddiol—gw. 17 am fwy ar ddefnydd *-yn* ac *-en*).

(12) Cyfuniad o forffemau

a.	ton	morffem rydd
b.	tonnau (ton-au)	morffem rydd + morffem glwm
c.	tonfeddi (ton-feddi)	morffem rydd + clwm + clwm
d.	hogan (hog-an)	morffem glwm + clwm
e.	glaston (glas-ton)	rhydd + rhydd

Yn ogystal â chyfuno dwy forffem rydd, noder ei bod yn bosibl ychwanegu mwy o forffemau

clwm at (12e) *glaston*, e.e. *glastonnen* (gw. Adran 18.1 “Geiriau Cyfansawdd”).

Geiriau unforffemig (*monomorphemic*)—sef geiriau sy’n cynnwys un forffem rydd yn unig—yw **geiriau syml** iaith. Mae’r holl eiriau eraill yn **gymhleth** eu strwythur. Mae ieithoedd y byd yn amrywio yn eu dibyniaeth ar un math o air neu’r llall, yn ôl pa mor ddibynnol ydynt ar forffoleg i fynegi ystyron gramadegol a gweithredol. Os nad ydynt yn defnyddio morffoleg mewn geiriau cymhleth i ddynodi’r ystyron hyn, mae’r dasg honno’n cael ei chyflawni gan gystrawen yr iaith drwy greu dilyniant o eiriau syml. Dengys [Haspelmath & Sims \(2013\)](#) enghraifft o Fietnameg fel iaith sy’n llai dibynnol ar forffoleg, fel a grybwyllwyd yn y cyflwyniad i’r rhan hon:

- (13) hai đũa bò nhau là tại gia đình chồng
 dau unigolyn gadael ei.gilydd bod oherwydd teulu dyn.cymar
 ‘Ysgarasant oherwydd teulu’r gŵr’ (Nguyen 1997:223)

Yn enghraifft (13), ceir cyferbyniaeth un-i-un rhwng y morffemau, y geiriau, ac ystyr y geiriau; un ystyr sydd i bob morffem ac mae pob morffem yn air. Mae Fietnameg felly’n ffafrio geiriau sy’n forffolegol syml, a gellir ei disgrifio’n iaith **dadansoddol** (*analytic*). Mae ieithoedd dadansoddol yn fwy tueddol o amgodio gwybodaeth ramadegol ac ystyrol ar ffurf geiriau yn hytrach na thrwy gyfuno morffemau.

14.3 Geirfa

Fel **gramadeg** (gw. Adran 2.1) a **morffoleg** (gw. Adran 13), mae’r term **geirfa** yn golygu mwy nag un peth i ieithydd. Gall y term ‘geirfa’ (*vocabulary*) gyfeirio at holl eiriau iaith benodol, e.e. *draenog*, *llawn*, *crafu*, *cariad* a.y.b. Gall ‘geirfa’ neu ‘lecsicon’ (*lexicon*) hefyd gyfeirio at storfa’r ymennydd sy’n dal y geiriau ar ryw ffurf, hynny yw, geiriadur mewnol.

Mae ieithyddion yn dychmygu ffurfiau haniaethol (*abstract*) geiriau, yn yr eirfa, sy’n gysylltiedig ag ystyron. Yna, mae angen cysylltu’r eirfa â’r ffonoleg cyn bod modd ynganu’r geiriau ar lafar, mewn ysgrifen, neu fel arwydd. Bydd mwy o drafodaeth am gyfathrebu rhwng modiwlau ieithyddol—a’r fframweithiau sydd gan ieithyddion i’w deall—yn Rhan 28.2.

Mae’r cysyniad o eirfa fel rhestr neu restr haniaethol yn hanfodol i astudiaethau o forffoleg. Ar eitemau geiriol iaith y mae rheolau morffolegol yn gweithredu: mae angen dechrau gyda rhyw ddeunydd sydd ag ystyr cyn y gellir newid ei ffurf i weddu i’r cyd-destun neu’r frawddeg. Er enghraifft, mae angen rhestr o eiriau am bethau unigol cyn y gellir ffurfio’r lluosog (h.y. **lluosogi**; *pluralise*) gan ddefnyddio rheol forffolegol sy’n ychwanegu morffemau fel *-au*, *-i* ac *-on* atynt, neu restr o eiriau sy’n disgrifio ansawdd cyn eu troi’n weithredoedd â’r forffem *-hau* fel *glanhau*, *cyfiawnhau*, *hirhau*, neu *ufuddhau*.

Nid yw pob ieithydd yn cytuno ar gynnwys rhestri’r eirfa nac ar ei phwysigrwydd, ond mae cytundeb fod angen rhestri o eiriau neu ffurfiau afreolaidd iaith ([Haspelmath & Sims 2013:60](#)). Yn ychwanegol at y ffurfiau afreolaidd hyn sydd ddim yn dilyn neu’n derbyn effaith y rheolau morffolegol, mae ieithyddion yn ceisio creu darlun o system ieithyddol effeithlon sy’n gweithredu ar yr eirfa. Maent yn trafod eitemau yr eirfa a pha un a ydynt yn eiriau syml, yn eiriau cymhleth, yn forffemau unigol, neu’n gymysgedd o’r rhain. Mae manteision ac anfanteision i effeithlonedd pob un o’r opsiynau hyn, ond nid yw trafodaeth gynhwysfawr ohonynt o fewn cwrpas y llyfr hwn. Pwrpas yr adran hon yw cyflwyno pwysigrwydd ein dealltwriaeth o forffoleg i’n dealltwriaeth o ramadeg fel system ieithyddol, ac mae gweddill

y rhan hon o'r llyfr yn cyflwyno rheolau morffolegol er mwyn dangos sut gall morffoleg weithredu ar eitemau'r lecsicon.

14.4 Prif ddosbarthiadau geiriol

Ymysg yr wybodaeth sydd yn yr eirfa mae gwybodaeth am eiriau sy'n ymdebygu i'w gilydd mewn rhyw ffordd. Nid oes cytundeb ar union drefniant y geiriau (neu'r morffemau, gw. 14.3), ond o edrych ar dystiolaeth mewn ieithoedd unigol, mae'n rhaid bod y geiriau'n cael eu didoli mewn rhyw ffordd gan fod geiriau'n 'ymddwyn' yn wahanol. Yn draddodiadol mewn astudiaethau iaith ac ieithyddiaeth, ceir dosbarthiadau o eiriau fel **enwau** (*nouns*), **rhagenwau** (*pronouns*), **berfau** (*verbs*), **ansoddeiriau** (*adjectives*), **adferfau** (*adverbs*), **ad-ddodiaid** (*adpositions*), **cysyllteiriau** (*conjunctions*), ac **ebycheiriau** (*interjections*). Bydd y rhain yn dermau cyfarwydd i bawb sydd wedi cael addysg ffurfiol oedd yn cynnwys gwersi am ieithoedd. Mae'r mathau hyn o eiriau, neu'r **rhannau ymadrodd** (*parts of speech*) hyn, yn 'ymddwyn' yn wahanol o ran eu lle o fewn brawddegau (eu cystrawen), ond hefyd yn eu morffoleg.

Nid yw pob iaith â'r un dosbarthiadau geiriol, ond yn y Gymraeg mae berfau yn disgrifio gweithred neu gyflwr o fodolaeth ac yn newid eu ffurf (yn **ffurfdroi**, a bod yn fanwl gywir. Gw. Adran 18) â'r forffoleg *-af*, *-aist*, *-odd*, *-ent* yn ôl categori gramadegol e.e. *syllaf*, *syllaist*, *syllodd*, *syllent* a.y.b. Nid yw enwau yn 'ymddwyn' yr un fath, h.y. maent yn perthyn i ddosbarth geiriol arall e.e. *iâr* (enw) ond nid **iarodd* fel berf, canolfan (enw) ond nid **canolfanaf* (berf).

Er bod tebygrwydd mawr rhwng sut mae ieithoedd o fewn yr un teulu ieithyddol yn dosbarthu geiriau, nid yw pob iaith yn rhannu'r un nodweddion yn eu dosbarthiadau geiriol. Yn wahanol i ferfau, mae ad-ddodiaid yn disgrifio perthynas rhwng dau beth, ac nid gweithredoedd. Gelwir ad-ddodiad sy'n dod o flaen enwau yn arddodiad (*preposition*), fel yn y Gymraeg. Mae rhai arddodiaid yn Gymraeg yn newid eu ffurf (yn **ffurfdroi**) yn ôl y person dan sylw, yn debyg i'r ffordd y disgrifiwyd berfau'n newid uchod. Er enghraifft, mae *ataf* yn cyfuno ystyr 'at' a 'fi', *iddo* 'i + fo/fe', *ynddynt* 'yn + nhw'. Nid yw arddodiaid Sbaeneg, er enghraifft, yn ffurfdroi fel ei berfau: mae *miro* 'edrychaf', *miras* 'edrychi', *mira* 'edrych(a)', *miran* 'edrychant' yn ferfau, ond nid yw'r arddodiaid *en* 'yn, mewn, ar, am' neu *sobre* 'ar, uwch, am' yn newid eu ffurf yn ôl nodwedd gramadegol **eno* (lle bwriedir 'ynof'), **sobren* (lle bwriedir 'arnynt'). Mae'n rhaid i siaradwyr Sbaeneg ddefnyddio rhagenwau i gyfleu'r un ystyr ag arddodiaid ffurfdroedig y Gymraeg, h.y. *en mí* 'yn + fi', *sobre ellos* 'ar + nhw'.

Mae'r Rhan hon yn cyflwyno rhai o'r nodweddion gramadegol sy'n ymddangos yn forffolegol mewn dosbarthiadau geiriol dethol yn y Gymraeg. Nid yw'n disgrifio holl forffoleg y Gymraeg na holl forffoleg ieithoedd y byd, ond mae'n portreadu rhai o swyddogaethau morffoleg a gwireddiadau morffolegol ieithoedd y byd, fel cyflwyniad i'r maes.

15 Morffoleg: astudiaeth o ffurf geiriau

LAURA ARMAN

Morffoleg yw'r enw ar astudiaeth o'r amrywio systematig a geir ar ffurfiau geiriol. Mewn geiriau eraill, mae patrymau arbennig yn codi wrth astudio geiriau—o fewn yr un iaith—sy'n rhannu rhywfaint o'u hystyr a'u ffurf. Y fantais o ddisgrifio'r patrymau a'r rheolau hyn yn fanwl yw y gellir darganfod pa reolau morffolegol sydd ar waith mewn iaith, ac mae'r wybodaeth hon, yn ei thro, yn rhoi darlun o system strwythuredig yr eirfa. Os oes patrwm morffolegol i'w weld, gellir diddwytho (*deduce*) ffurf wreiddiol y morffemau dan sylw yn yr eirfa, sef y ffurf gysefin (*radical form*).

crafaf	crafais
crafit	crafaist
craf(ith)	crafodd

Tabl 3: Ffurffiau ar *craf*-

Dengys Tabl 3 un math o amrywio systematig sy'n destun astudiaethau morffolegol. Awgryma'r patrwm sydd i'w weld yn y tabl mai *craf*- yw ffurf gysefin y forffem sy'n rhoi ystyr craidd y geiriau, er bod patrymau eraill yn dechrau ymddangos wrth ystyried terfyniadau'r geiriau. Nid yw'r ffurf gysefin yr un fath â'r gair *crafu* chwaith, er bod cysylltiad semantig amlwg rhyngddynt (ceir gwybodaeth am y berthynas benodol hon yn Adran 19).

Nid yw'r ystyr yn aros mor gyson â'r hyn a welir yn Nhabl 3 ym mhob achos o'r defnydd o'r forffem *craf*-: yr un forffem sydd i'w gweld yn y geiriau *crafiad*, *crafadwch*, *crafanc*, *ymgrafu*, *crafedig* a *crafell*. Gallem, felly, astudio gwahanol agweddau o forffoleg, sef patrymau'r ffurfiau a'r ystyron.

Yn ogystal ag ystyried mai morffemau yw elfennau ystyrol lleiaf geiriau, mae angen cadw mewn cof nad yw pob morffem yr un mor ystyrlon nac ychwaith yr un mor sylfaenol i ystyr gair â morffem arall. Uchod, cyfeirir at ffurf wreiddiol y geiriau yn Nhabl 3 sef *craf*- a dyma ffurf gysefin y forffem, ond dyma hefyd **wraidd** (*root*) y gair. Gelwir morffem sy'n rhoi prif ystyr gair iddo yn wraidd. Mae *craf*- yn pennu ystyr y weithred o grafu, sydd wedyn yn cael ei addasu gan forffemau eraill ym mhob un o enghreifftiau'r adran hon. Mae'r ddwy forffem yn y gair cymhleth *crafaf* yn forffemau clwm, ond addasu ystyr y gwraidd yn unig mae morffemau pellach, e.e. mae *ymgrafaf* yn addasu'r weithred o grafu ac mae'r wybodaeth a geir gan y terfyniad *-af* yn sefydlog.

15.1 Enwi rhannau geiriau

Yn syml, **dodiad** (*affix*) yw unrhyw forffem sy'n ychwanegol i'r gwraidd mewn gair. Felly, dodiad yw'r forffem luosogi *-au* yn y gair *tonnau*. Dodiaid hefyd yw'r morffemau *ym-* ac *-af* yn *ymgrafaf*. Mae dodiad yn adeiladu ar wraidd, ond hefyd yn addasu'r **bôn** (*stem* neu *base*). Gwahaniaeth bychan, ond pwysig, sy'n gwneud bôn yn wahanol i wraidd; mae bôn yn gallu cyfeirio at forffem wraidd gair, ond hefyd at unrhyw gyfuniad o forffemau sy'n derbyn dodiad. Mae pob gwraidd felly'n fôn, ond gall bôn fod yn fwy na gwraidd. Dengys (14) ddodiaid y gair cymhleth *dadansoddi* sydd â thair forffem glwm; *dad-ansodd-i*.

(14)	<i>dad-</i>		dodiad
	<i>-ansodd-</i>	gwraidd (o'r ffurf gysefin 'ansawdd')	
	<i>-i</i>		dodiad

Ar y bôn *ansoddi* mae *dadansoddi* wedi ei ffurfio, yn hytrach nag ar y gwraidd *-ansodd-* yn uniongyrchol. Honna'r ieithydd, felly, nad oes mwy nag un dodiad yn addasu gwraidd neu fôn yr un pryd yn y broses o ffurfio geiriau; mae trefn ar yr adeiladwaith.

(15)	Cam 1. <i>ansodd-</i>		morffem wraidd
	Cam 2. <i>ansodd- + -i</i>	gwraidd + dodiad	gair cymhleth 'ansoddi'
	Cam 3. <i>dad- + ansoddi</i>	dodiad + bôn	gair cymhleth 'dadansoddi'

Er bod enghraifft (14) yn dangos enwau cywir rhannau'r gair *dadansoddi*, mae (15) yn rhoi mwy o fanylder ac yn dangos y gwahaniaeth rhwng gwraidd y gair a'r bôn. Mae'n bosibl manylu ymhellach ar rannau'r gair drwy enwi'r morffemau ar ôl lleoliad y dodiaid mewn perthynas â'r bôn.

Rhagddodiad (*prefix*; weithiau hefyd **blaenddodiad**) yw'r enw ar ddodiad fel *dad-*, *dat-* yn *dadansoddi*, *dadwreiddio*, *datblygu*, *datgymalu*, *dadorchuddio*, *dadeni* neu *dadbacio*, sy'n dod cyn y gwraidd neu'r bôn. Mewn rhai ieithoedd, gan gynnwys y Gymraeg, mae'n bosibl rhagddodi morffem ar fôn sy'n cynnwys rhagddodiad yn barod, e.e. *dadymafael* (*dad-ym-afael*).

Gelwir dodiad sy'n dilyn bôn yn **olddodiad** (*suffix*), megis *-i* yn *dadansoddi*, *-edig* yn *gweledig* ac *-aeth*, *-iaeth* yn *aelodaeth*, *gwahaniaeth* a *profedigaeth*. Fel y gwelir yn *prof-edig-aeth*, mae olldodiaid hefyd yn gallu pentyrru neu greu cadwyni mewn rhai ieithoedd.

Nid rhestru holl ddodiaid y Gymraeg yw pwrpas yr adran hon, ond cyflwyno strwythurau geiriol posibl gan ystyried sut mae morffoleg yn ffurfio geiriau. Mae geiriaduron cyfoes a llyfrau gramadeg disgrifiadol yn ceisio rhestru holl ddodiaid ieithoedd ynghyd â'u swyddogaethau neu eu hystyron, ac mae P.W. Thomas (1996) a GPC Ar lein (2014) yn gampweithiau disgrifiadol hanfodol o'r Gymraeg.

Math o ddodiad nas gwelir yn y Gymraeg yw **mewnddodiad** (*infix*) sydd ddim ond yn ymddangos rhwng morffemau eraill, fel y mewnddodiad *-x-* (cytsain felar ffrithiol ddi-lais) yn Nafaho (*Navajo*, teulu Na-Dené, UDA).

- (16)
- tsaaz* 'tyfu'n fawr'
 - ts^xaaaz* 'tyfu'n fawr iawn'
 - tih* 'gorchuddio, amlapio'

d. *-txih* 'cuddio, amddiffyn'

(Mitchell & Webster 2011:269)

Mae ystyrion y parau o eiriau yn (16) yn amlwg yn perthyn yn agos i'w gilydd, gyda'r mewn-ddodiad mynegiannol *-x-* yn mwyhau unrhyw weithred yn ei fôn.

Math arall o ddodiad yw'r **trawsddodiad** (*transfix*). Mae'r rhain yn gyffredin mewn ieithoedd Semitig megis Arabeg, Maltaeg, Kabileg, Hebraeg ac Aramaeg, sydd i gyd â gwreiddiau teircyt-seiniol (*triconsonantal roots*). Mae'r ieithoedd yn trawsddodi llafariad mewn gwahanol sillafau o fewn y gwraidd er mwyn addasu ei ystyr, e.e. *k-t-b*, gwraidd sy'n ymwneud ag ysgrifennu *kitab* 'llyfr', *maktabat* 'llyfrgell', *kuttāb* 'ysgrifenydd', *muktatib* 'tanysgrifiad' (Arabeg).

Ceir hefyd nifer o fathau eraill o forffemau—rhai'n ddodiaid ac eraill yn newidiadau i'r bôn. Nid oes gofod yma i restru morffoleg gyflawn ieithoedd y byd yn ôl categorïau ieithyddol, ond dyma gyflwyniad i'r mathau o brosesau morffolegol sy'n digwydd yn ieithoedd y byd.

15.2 Ieithoedd y byd a'u morffoleg

Dangosir yn 14 fod rhai ieithoedd yn ffafrio geiriau sy'n forffolegol syml, ac fe'u gelwir yn ieithoedd **dadansoddol**. Mae ieithoedd dadansoddol yn fwy tueddol o amgodio gwybodaeth ramadegol a gwybodaeth am ystyr ar ffurf geiriau unigol.

Yn wahanol i ieithoedd dadansoddol, mae'r Gymraeg yn eithaf dibynnol ar forffemau arbennig. Ieithoedd sy'n tueddu i ffafrio morffoleg sydd dan sylw yn Adran 15.1 ac mae'r term **synthetig** yn disgrifio'r ieithoedd hynny—maent yn creu geiriau trwy gyfuno morffemau. Felly, gelwir ieithoedd megis y Gymraeg sy'n ffurfio geiriau trwy ychwanegu morffemau at fonau yn ieithoedd synthetig.

Mae ieithoedd, gan gynnwys y Gymraeg, yn tueddu i ddefnyddio strategaethau dadansoddol yn ogystal â rhai synthetig. Gall y ddwy strategaeth gydweithio, ond, fel arfer, mae un strategaeth neu'r llall yn fwy cyffredin mewn iaith ac oherwydd hynny fe'i gelwir yn iaith synthetig neu'n iaith ddadansoddol, yn ddibynnol ar radd y tueddiad—pa strategaeth yw'r gryfaf. Er enghraifft, mae Saesneg yn tueddu i ffafrio strwythur dadansoddol ac yn gyffredinol yn osgoi defnyddio morffoleg, e.e. nid yw berfau'n rhedeg fel yn y Gymraeg—*I scratched, you scratched, they scratched* a.y.b. (cymh. Tabl 3). Ar y llaw arall, mae lluosogi enwau'n forffolegol drwy ychwanegu *-s*—e.e. *dog-s* 'cŵn'—ac mae'r swyddogaethau sy'n newid rhannau ymadrodd hefyd yn forffolegol, e.e. *quick* → *quick-ly* 'cyflym', 'yn gyflym' a *open* → *open-able*, *open-ness* 'agor', 'agoradwy', 'didwylledd'. Gellid dadansoddi'r Saesneg fel iaith eithaf ddadansoddol, ond mae'n dal yn synthetig i raddau; mae hi'n llai synthetig na'r Gymraeg ac yn nes at ben ddadansoddol y raddfa nag ieithoedd Indo-Ewropeaidd eraill.

Defnyddir mesuriadau eraill gyda strategaethau morffoleg iaith, e.e. sawl morffem neu air sydd i bob ystyr neu swyddogaeth ramadegol, neu sawl dodiad sy'n cydgadwyno (*concatenate*) mewn un gair. Hynny yw, gall morffemau unigol gyfuno sawl ystyr neu swyddogaeth, e.e. y terfyniad *-af* o *gwrandawaf* sy'n cyfuno'r swyddogaeth o fynegi'r person perthnasol ac amser y weithred (gw. Rhan V). Mae *gwrandawaf* yn gyfystyr â 'rydw i yn gwrandao ar hyn o'r bryd neu fel arfer yn gwrandao' ac felly mae'r wybodaeth hon wedi ei hasio o fewn ychydig forffemau. Yn aml, mae gan ieithoedd synthetig rywfaint o **forffoleg asiadol** (*fusional morphology*), fel *-af*, ond mae'n bosibl i iaith osgoi'r strategaeth hon a ffafrio **morffoleg gyflymol** (*agglutinative morphology*). Yn yr ieithoedd hyn mae morffem unigol i bob swyddogaeth, bron, ac mae rheini'n cael ei gludo at fonau i ffurfio cadwyni o ddodiaid.

Mae'r Hwafe (*Huave*, iaith arunig, Mecsico) yn eithaf dibynnol ar forffoleg gyflynol. Mae rhai categorïau gramadegol â morffemau penodedig, tra mae dodiaid eraill yn mynegi cyfuniad o'r categorïau (Kim 2008:10).

- (17) a. Dyu-m-a-tajk-aw m-a-j.ñe a rran.
 PARH-IS-TH-gwneud-3LL IS-TH-da BAN trydan
 'Maen nhw'n trwsio'r trydan' (Kim 2008:243)
- b. s-a-la.j.k-ion
 1-TH-bod-LL
 'rydym [yma]' (Kim 2008:301)

Er bod y dodiaid yn yr iaith Hwafe yn ymddangos fel pe bai ganddynt berthynas un-i-un ag ystyr/swyddogaeth, gwelir bod gwahaniaeth rhwng strwythur yr olddodiad berfol *-aw* yn (17a) sy'n cyfeirio at y 3^{ydd} person LLUSOG ('nhw'—gw. adran 16 isod) a'r rhagddodiad *s-* yn (17b) sy'n amgodio'r person 1^{af} yn unig ac angen olddodiad LLUSOG *-ion* ar wahân.

Ceir felly amrywiaeth yn nibyniaeth ieithoedd ar forffoleg ar hyd dwy raddfa. Graddfa synthetig-ddadansoddol yw un ohonynt, lle mae ieithoedd yn dibynnu'n fwy neu'n llai ar forffoleg i amgodio ystyr a swyddogaethau gramadegol. Graddfa asiadol-gyflynol yw'r llall, lle mae morffem yn amgodio un ai sawl ystyr a swyddogaeth ramadegol yn un neu lle ceir un ystyr/swyddogaeth i un forffem yn unig.

Nodwedd forffolegol arall sy'n amrywio mewn ieithoedd synthetig yw gosodiad y morffemau—gall ieithoedd ffafrio rhagddodiaid neu olddodiaid, neu gallant ddioli dodiaid yn gyfartal. Mae'r Gymraeg ac ieithoedd Indo-Ewropeaidd yn gyffredinol yn tueddu i ffafrio olddodiaid, ac mae hyn yn wir yn y rhan fwyaf o ieithoedd y byd, yn ôl Dryer (2013b).

16 Categoriâu gramadegol a morffoleg

SILVA NURMIO

Fel y trafodir yn 19 isod, rhennir morffoleg yn aml yn ddwy ran: morffoleg ffurfdroadol (*inflectional morphology*) a morffoleg ddeilliannol (*derivational morphology*). Mae morffoleg ddeilliannol yn creu geiriau newydd trwy greu geiriau cyfansawdd; e.e. *hafddydd* o *haf* + *dydd* a *glaston* o (12e) uchod) neu ychwanegu dodiaid (*affixes*) e.g. *hapusrwydd* o *hapus* + *-rwydd*. Trafodir deilliant ymhellach yn 19. Mae'r rhan hon yn canolbwyntio ar forffoleg ffurfdroadol. Mae morffemau ffurfdroadol, yn y Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill, yn cario ystyron fel rhif, person, cenedl ac amser. Gelwir yr ystyron hyn yn gategoriâu ffurfdroadol (*inflectional categories*).

Yn yr adran hon trafodir categorïau ffurfdroadol sy'n berthnasol i enwau, ansoddeiriau a rhagenwau Cymraeg. Mewn llawer o ieithoedd dynodir **nifer** yn forffolegol, sef gwahaniaethau megis unigol (sy'n dynodi un eitem) vs. lluosog (mwy nag un eitem). Gelwir y categorïau hyn

yn **rhif gramadegol** (*grammatical number*), ac mae'n dynodi nifer o eitemau. Y rhifau mwyaf cyffredin yw unigol a lluosog, a dyma'r rhifau gramadegol a geir yn y Gymraeg. Er enghraifft, mae *siop* yn enw unigol a *siopau* yn enw lluosog a ffurfir trwy ychwanegu'r olddodiad lluosog *-au*. Mae nifer o olddodiaid lluosog yn y Gymraeg, e.e. *-ion*, *-oedd* ac *-i*. Ceir rhifau eraill mewn ieithoedd eraill, megis y rhif deuol (*dual*) sy'n dynodi dwy eitem yn benodol. Mae rhif deuol gan ragenwau mewn Sorbeg Uchaf (*Upper Sorbian*, Balto-Slafig), er enghraifft ([Corbett 2000:20](#)). Dynodir dau berson â'r ffurf ddeuol, a thair neu fwy o eitemau â'r lluosog:

Person	Unigol	Deuol	Lluosog
1	<i>ja</i> 'fi'	<i>mój</i> 'ni'n dau'	<i>my</i> 'ni (mwy na dau)'
2	<i>ty</i> 'ti'	<i>wój</i> 'chi'ch dau'	<i>wy</i> 'chi (mwy na dau)'

Tabl 4: Rhif gramadegol mewn rhagenwau Sorbeg Uchaf.

Mae ffurf ddeuol ar gael i enwau hefyd mewn rhai ieithoedd, er enghraifft mewn Groeg Homeraidd:

- (18) *lukos* 'blaidd' (UNIGOL)
lukō 'dau flaidd' (DEUOL)
lukoi 'bleiddiaid' (LLUOSOG; mwy na dau)

I gymharu, defnyddir y lluosog i gyfeirio at fwy na dwy eitem mewn ieithoedd fel y Gymraeg sydd heb rif deuol, ond, mewn ieithoedd fel Groeg Homeraidd, rhaid defnyddio'r ffurf ddeuol i gyfeirio at ddwy eitem, a'r lluosog gyda 'tri' a rhifau uwch na hynny. Rhifau gramadegol eraill yw rhif triol (*trial*), sy'n dynodi tair eitem (mewn ychydig o ieithoedd yn unig mae'r rhif hwn ar gael), a rhif ychydigol (*paucal*) sy'n dynodi nifer bychan o rywbeth (sy'n cyfateb i ddefnyddio *rhai*, *ambell*, *cwpl* o yn y Gymraeg) ([Corbett 2000:19–35](#)). Ceir hefyd ieithoedd sydd â **rhif cyffredinol** (*general number*), hynny yw, lle nad yw ffurf gyffredin yr enw yn mynegi rhif o gwbl; e.e. yn yr iaith Baiso (teulu Affro-Asiaidd, Ethiopia) mae'r gair *lúban* 'llew/llewod' yn gallu golygu un neu fwy o lewod ([Corbett 2000:9–19](#)). Mae gan ieithoedd fel Baiso wahanol ffyrdd o ddynodi 'un' neu 'mwy nag un' yn benodol, ond nid yw'r ffurf gyffredin, heb ddodiad (fel *lúban*), yn unigol fel y mae yn Saesneg ac (fel arfer) yn y Gymraeg. Mewn ieithoedd lle ceir unigol a lluosog, y rhif lluosog, fel arfer, sy'n cael ei nodi'n forffolegol (cf. Saesneg *shop*, LL *shop-s*). Ond nid hon yw'r unig ffordd o fynegi unigol-lluosog. Mewn rhai ieithoedd ceir dodiaid unigolynnol (*singulative*), sy'n troi'r bonyn yn unigol. Digwydd hyn gyda grŵp gweddol fach o enwau Cymraeg, fel *moch*, *mochyn*, *plant*, *plentyn* a *gwenyn*, *gwenynen*. Mae'r geiriau *moch* a *plant* yn cynrychioli mwy nag un, ond mae'r olddodiad *-yn* yn troi'r geiriau yn unigol; mae'r gair *moch-yn* yn cyfeirio at un anifail ac mae *plent-yn* hefyd yn cyfeirio at un unigolyn yn unig. Gelwir *-yn* ac *-en* yn olddodiaid unigolynnol.

Mae gwahaniaeth arall sy'n rhannol gysylltiedig â rhif, sef gwahaniaethu rhwng **enwau cyfrifiadwy** (*count nouns*) ac **enwau cynnull** (*mass nouns*). Fel arfer, enwau cynnull yw'r rhai na ellir eu cyfrif yn uniongyrchol gan ddefnyddio rhifolion yn unig, e.e. mae **tri/tair bara* yn annerbyniol, ac mae'n rhaid dweud *tair torth o fara* (cf. Saesneg *three loaves of bread*). Ffordd arall o ddiffinio enwau cyfrifiadwy ac enwau cynnull yw gofyn a ellir rhannu'r peth a ddynodir gan yr enw ymhellach, a chael mwy o'r un peth. Er enghraifft, gellir rhannu dŵr neu dywod yn rhannau pellach, ac mae pob rhan newydd yn ddŵr neu'n dywod hefyd. Os rhennir llyfr neu gadair yn rhannau pellach, nid yw pob rhan newydd yn llyfr neu'n gadair. Felly, dywedir mai enwau cynnull yw *dŵr* a *tywod* ac enwau cyfrifiadwy yw *llyfr* a *cadair* (gw.

Corbett 2000:78–82). Gwahaniaeth semantegol yw hwn, ond mater o gystrawen yw'r defnydd o'r enwau hyn gyda rhifolion (*tri llyfr* vs. ***tri dŵr*).

Categori ffurfdroadol cyffredin arall yw **cenedl** (*gender*) ramadegol. Enghreifftiau cyffredin yw gwrywaidd (G; *masculine*) a benywaidd (B; *feminine*), fel yn y Gymraeg, e.e. *ci* (G), *dafad* (B), ac mewn ieithoedd fel Ffrangeg a Gwyddeleg. Nid yr un peth yw cenedl ramadegol a rhyw, er bod llawer o enwau sy'n dynodi pobl ac anifeiliaid gwryw yn enwau gwrywaidd, ac yn yr un modd enwau am fenywod yn aml yn enwau benywaidd. Ond nid yw hynny'n wir ym mhob achos; mae'r enw Gwyddeleg *cailín* 'merch' yn wrywaidd, er enghraifft. Mae rhai ieithoedd, megis Almaeneg ac Islandeg, â thair cenedl (gwrywaidd, benywaidd, a diryw 'neuter'). Rhaniad cenedl cyffredin arall yw **byw** (*animate*) ac **anfyw** (*inanimate*), a geir, er enghraifft, mewn ieithoedd Algoncaidd (*Algonquian*) (Corbett 1991:20). Noder hefyd nad oes cenedl ramadegol mewn llawer o ieithoedd y byd (gw. Corbett 2013a a Corbett 2013b am drafodaeth drawsieithyddol). Mae cenedl ramadegol gan bob enw Cymraeg. Mae ffurfiau gwrywaidd a benywaidd gan rai ansoddeiriau hefyd (e.e. *gwyn*, *gwen*) ac maent yn cytuno ag enwau yn ôl cenedl (*y bwrdd gwyn*, *y gadair wen*). Trafodir **cytundeb** ymhellach isod.

Mae **person gramadegol** yn dynodi pwy yw'r goddrych: ai'r siaradwr (y person cyntaf, *mi*), y gwrandawr (yr ail berson, *ti/chi*) neu rywun arall (trydydd person, *ef/hi/nhw/y dyn/y dynion, a.y.b.*). Mae'r categori hwn yn croestorri â rhif a chenedl, e.e. mae *hi* yn rhagenw trydydd person (PERSON), unigol (RHIF) a benywaidd (CENEDL). Yn ogystal â rhagenwau, mae berfau'n ffurfdroi yn ôl person yn y Gymraeg (ac mewn llawer o ieithoedd eraill). Dyma'r rheswm dros ddarlunio rhediad berfau fel paradeim, e.e.:

Person	Unigol	Lluosog
1	rhedaf (i)	rhedwn (ni)
2	rhedi (di)	rhedwch (chi)
3	rhed (o/hi)	rhedant (hwy/nhw)

Tabl 5: Rhediad berf (*rhedeg*) yn ôl person a rhif

Mae pedwar categori ffurfdroadol arall sy'n berthnasol i ferfau mewn nifer o ieithoedd (fel y Gymraeg), sef amser, agwedd, llais, a modd. Ceir mwy am yr ystyron tu cefn i rai o'r categorïau gramadegol rhain yng ngweddill y llyfr. Ceir hefyd amrywio ym morffoleg y berfau yn ôl cyfrwng ac arddull yr iaith, h.y. iaith ysgrifenedig a llafar, iaith ffurfiol ac anffurfiol.

Geiriau sy'n dangos cydberthnasau gofodol neu amserol yw ad-ddodiaid. Mae rhai arddodiaid syml Cymraeg yn debyg i ferfau o ran dangos person a rhif, e.e. *ar* → *arnaf* (i), *at* → *ataf* (i), *gan* → *gennyf* (i), *i* → *iddi* (hi), *wrth* → *wrtho* (e/fe/fo). Yn yr iaith lafar, ceir rhagenwau ar ôl y rhain: *arna i*, *arnat ti*. Yn ogystal â hynny, ceir gwahaniaeth cenedl yn y trydydd person unigol:

Person	Unigol	Lluosog
1	arnaf (fi / arna i)	arnom (/ arnon ni)
2	arnat (ti)	arnoch (chi)
3	arno GWRYWAIDD (e/fe/fo) arni BENYWAIDD (hi)	arnynt (/ arnyn nhw)

Tabl 6: Rhediad yr arddodiad (*ar*) yn ôl person, rhif a chenedl

Nid yw pob arddodiad yn ffurfdroi fel hyn yn y Gymraeg. Er enghraifft, nid yw'r arddodiad *hefo* yn newid o gwbl: *hefo fi*, *hefo hi*, a.y.b.

Mae gan lawer o ieithoedd system o ddefnyddio **cyflwr gramadegol** (*grammatical case*). Yn Saesneg, mae rhagenwau yn dangos gwahaniaethau cyflwr: *I* (goddrychol), fel yn *I ask*, vs. *me* (gwrthrychol), fel yn *ask me*. Ni cheir cyflyrau i enwau yn Saesneg nag yn y Gymraeg, ond fe'u ceir mewn ieithoedd eraill. Mae'r iaith Ladin yn enghraifft hysbys, ond, mewn ieithoedd modern, mae'r ieithoedd Wralig yn enghreifftiau o bwysigrwydd cyflyrau yn eu systemau enwol. Er enghraifft, ceir 14 cyflwr i enwau yn y Ffinneg. Dyma enghraifft o bedwar cyflwr yn y Ffinneg:

- (19) a. *talo* 'y tŷ / tŷ'—cyflwr enwol (*nominative case*), unigol. Noder nad oes bannod (*article*) yn y Ffinneg, felly gall *talo* olygu 'tŷ' neu 'y tŷ'
 b. *talossa* 'yn y tŷ / mewn tŷ' (mewnfolodol; *inessive*)
 c. *talosta* 'o'r tŷ / o dŷ' (allfynedol; *elative*)
 d. *taloon* 'i'r tŷ / i dŷ' neu 'i mewn i'r tŷ / i dŷ' (mewnfynedol; *illative*)

Noder bod y Ffinneg yn dynodi gwahaniaethau fel 'i'r tŷ', 'o'r tŷ' trwy newid cyflwr yr enw, tra mae'r Gymraeg yn defnyddio **arddodiaid** (*prepositions*) fel *i ac o sy'n* dod o flaen yr enw tŷ ac ni newidir yr enw yn ôl cyflwr. Mae hefyd ieithoedd sy'n defnyddio **ad-ddodiaid ôl** (*postpositions*) sy'n dilyn yr enw, megis Twrceg *Ali gibi 'fel Ali*'. Ceir dau gyflwr mewn Gwyddeleg Modern o hyd: y cyflwr genidol (*genitive case*) a'r cyflwr cyfarchol (*vocative case*), e.e. *leabhar 'llyfr*' (cyflwr enwol), *dath an leabhair 'llyfr*' (genidol). Defnyddir y cyflwr cyfarchol wrth siarad â rhywun yn uniongyrchol, e.e. *Conas tá tú, a Séamais?* 'Sut wyt ti, Séamas?' lle y newidir yr enw *Séamas* yn *Séamais*, a cheir treiglâd hefyd ar ôl y geiryn cyfarchol *a*.

Mae categori arall sy'n berthnasol i ansoddeiriau yn unig, sef **cymhariaeth** (*comparison*). Ceir pedair gradd cymhariaeth yn y Gymraeg (Watkins 1961:159):

- (i) cysefin: *du*
 (ii) cyfartal: *dued / mor ddu*
 (iii) cymharol: *duach*
 (iv) eithaf: *duaf*

Ansoddair rheolaidd (*regular*) ei gymhariaeth yw *du*; ffurfir pedair gradd pob ansoddair rheolaidd yr un ffordd ag a welir uchod, e.e. ychwanegu *-ach* i lunio'r ffurf gymharol. Mae ffurfiau cymharol rhai ansoddeiriau cyffredin yn afreolaidd (*irregular*), e.e. *da*, *cystal*, *gwell*, *gorau* (ac nid *daed, daach, a.y.b.).

Ceir **cytundeb** (*agreement*) gramadegol yn ôl y categorïau ffurfdroadol a drafodir yma. Mae cytundeb yn dynodi bod un elfen, e.e. yr enw mewn ymadrodd enwol, yn rheoli cytundeb ag elfennau eraill, fel berf neu ansoddair. Yn y Gymraeg, weithiau ceir cytundeb o ran cenedl a rhif mewn ymadrodd enwol: *y crys gwyn*, *y wisg wen*, *y crysau gwynion*. Ond nid yw'r rhan fwyaf o ansoddeiriau yn cytuno, e.e. *bachgen deallus*, *merch ddeallus*, *merched deallus*. Mae cytundeb ansoddeiriau yn ddewisol yn y Gymraeg, felly. Gyda goddrych rhagenwol, ceir cytundeb berfol bob tro yn y Gymraeg, e.e. *rhedaf* (i), *rhedant* (hwy). Ond ni cheir cytundeb gyda goddrych enwol, e.e. *rhed y ferch*, *rhed y merched*. Mae systemau cytundeb yn amrywio yn drawsieithyddol. Cymharer e.e. Saesneg *I run*, *they run* (ni cheir cytundeb berfol) â'r

enghreifftiau Cymraeg cyfatebol uchod. Ceir cytundeb yn y trydydd person unigol (3UN) yn Saesneg yn unig: *she runs*, ond *I run, they run*, a.y.b.

Mae'n bwysig nodi mai categorïau morffolegol yw'r categorïau ffurfdroadol megis rhif a chenedl, ac nid ydynt bob amser yn cyfateb i gategorïau semantig y geiriau. Er enghraifft, mae'r enw *byddin* yn cyfeirio at nifer o bobl mewn gwirionedd, ond enw unigol yw o safbwynt morffolegol (*byddin-oedd* yw'r lluosog). Mae *ieithydd* yn enw gwrywaidd yn forffolegol, ond gall gyfeirio at ferch yn ogystal â dyn; felly, nid yw rhyw, neu genedl semantegol, yn cyfateb i'r genedl forffolegol. Mae'n bwysig cofio hefyd nad yw pob iaith yn y byd yn dangos rhif, person, cenedl neu gyflwr drwy'r forffoleg. Nid oes cenedl ramadegol yn y Ffinneg, er enghraifft, ac mae'r rhagenw trydydd person unigol *hän* 'e/hi' yn gallu golygu merch neu ddyn. Yn y Gymraeg, nid oes cyflyrau gramadegol morffolegol fel a geir yn Lladin ac yn y Ffinneg, fel y trafodwyd uchod.

17 Morffoleg enwau

SILVA NURMIO

Yn y rhan hon, trafodir morffoleg enwau'r Gymraeg yn fwy manwl, yn ogystal â phatrymau diddorol a geir mewn ieithoedd eraill.

Mae system rhif gramadegol y Gymraeg yn ddiddorol iawn. Ceir pedair prif ffordd o lunio'r lluosog mewn Cymraeg Canol ac mewn Cymraeg Modern:

- (i) ychwanegu olddodiad, e.e. *siop, siop-au; cath, cath-od*
- (ii) newid llafaria(i)d, e.e. *bachgen, bechgyn*; Cymraeg Canol *march, meirch* 'ceffyl'
- (iii) ychwanegu olddodiad a newid llafariad, e.e. *cadair, cadeiriau; sant, seintiau*
- (iv) ychwanegu olddodiad unigolynnol (*singulative*) at fôn sy'n golygu mwy nag un eitem, e.e. *moch, mochyn; gwenyn, gwenynen*

Mae llawer o olddodiaid lluosog yn y Gymraeg (gw. P.W. Thomas 1996:160–169). Y rhai cyffredin a chynhyrchiol (gw. Adran 19 'Cynhyrchiol ac anghynhyrchiol') yw *-(i)au, -(i)on, -iaid, -i, -ydd, -(i)oedd*, ac *-od*. Yn gyffredinol, nid yw'n bosibl rhagfynegi ffurf luosog gair penodol, ac felly mae'n rhaid dysgu ffurfiau lluosog pob gair (mae'r rhain yn aml yn amrywio yn ôl tafodiaith hefyd). Ond mae rhai enwau cymhleth ag olddodiaid rheolaidd: os ceir *-ydd* fel terfyn i enw, e.e. *ieithydd, mecanydd*, bydd y ffurf luosog yn *-ion* (*ieithyddion, mecanyddion*). Mae llawer o enwau anifeiliaid yn llunio'u lluosog â'r olddodiad *-od* (*cathod, jiraffod*), ond nid yw hyn yn wir gyda phob enw anifail (cymharer e.e. *cŵn, geifr*).

Mae'r ffurfiau unigolynnol yn ddiddorol o safbwynt trawsieithyddol. Trafodwyd y system hon yn 16, ac mae'n cynnwys enwau megis *moch/mochyn, plant/plentyn, gwenyn/gwenynen* a hefyd *ceirch/ceirchen, grawn/gronyn*. Enwau anifeiliaid neu blanhigion yw'r rhan fwyaf o'r rhain, a

cheir rhai enwau eraill fel *sêr/seren* a *dillad/dilledyn*. *Plant/plentyn* yw'r unig enghraifft sy'n cyfeirio at pobl. Mae rhai o'r geiriau sydd â ffurf unigolynnol yn enwau cyfrifiadwy (gw. 16), fel *plant*; gellir dweud *dau o blant*, *deg o blant*, a.y.b. gyda rhifolion. Ond enwau cynnull yw rhai eraill, e.e. *ceirch*; nid yw siaradwyr iaith gyntaf yn hapus gyda ***dau/dwy o geirch*, *deg o geirch*, a.y.b., felly enw cynnull yw hwn. Gellir llunio ffurfiau unigolynnol o fonau cyfrifiadwy ac o rai cynnull. Y peth cyffredin i'r bonau hyn yw eu bod yn golygu mwy nag un eitem: golyga *plant* sawl plentyn, a golyga *ceirch* sawl gronyn o geirch.

Mewn Cymraeg Canol, ceir ffurfiadau diddorol eraill sy'n diflannu erbyn y cyfnod modern. Un ohonynt yw'r ffurfiad y gellid ei alw'n ffurf ddeuol, ond sy'n gyfyngedig iawn: cyfeiria'r ffurfiau hyn at aelodau'r corff mewn parau, e.e. *dwyfraich* 'breichiau (un person)', *deulin* 'gliniau (un person)'. Mae'n bosibl defnyddio'r ffurfiau lluosog normal (*breichiau*, *gliniau* a.y.b.) i gyfeirio at y rhannau hyn mewn Cymraeg Canol hefyd, felly nid yw'n rhaid defnyddio'r ffurfiau 'deuol'. Mae rhai o'r ffurfiau hyn wedi goroesi mewn iaith ffurfiol. e.e. *deudroed*, *dwydroed*. Hen enghraifft o hyn yw *dwyllo*, ond mae wedi dod yn lluosog rheolaidd y gair, a gall olygu mwy nag un pâr o ddwyllo. *Dwyllo*, felly, yw'r ffurf luosog gyfoes, er ei bod yn cynnwys y gair *dwy* ac yn ddeuol yn hanesyddol. Cafwyd proses debyg yn rhannol mewn Gwyddeleg Canol a Gwyddeleg Modern: cyfeirir at rannau'r corff mewn parau, yn aml, gyda 'dau' + enw, yn lle'r lluosog, e.e.

- (20) dhá chois
dau troed
'traed (un person)'

Mae'r ffurf ar ôl *dhá* 'dau' weithiau yr un â'r unigol, ond ceir ffurfiau 'arbennig' fel *cois* (un. *cos* 'troed') yn (20) sy'n hen ffurfiau deuol. Yr oedd tuedd, felly, mewn Cymraeg Canol fel mewn Gwyddeleg Canol a Modern, i ddefnyddio 'dau' + enw yn lle'r lluosog wrth gyfeirio at barau naturiol (fel aelodau'r corff fesul pâr).

Mae ffurfiad arall mewn Cymraeg Canol sy'n diflannu erbyn y cyfnod modern, sef ffurfiau arbennig a ddefnyddir gyda rhifolion, e.e. Cymraeg Canol *tri meib* 'tri mab', *deu vroder* 'dau frawd'. Gelwir y rhain yn ffurfiau rhifol (*numerative*) gan [Nurmio & Willis \(2016\)](#). Maent yn tarddu o'r hen system rhifolion yn y Frythoneg lle roedd ffurf ddeuol ar ôl *dau/dwy*, a'r lluosog ar ôl *tri* a rhifolion uwch. Roedd y system hon wedi'i disodli erbyn cyfnod Hen Gymraeg, ond mae'r ffurfiau rhifol yn goroesi fel olion o'r hen system ac fe'u ceir mewn testunau Cymraeg Canol. Dim ond grŵp bach o enwau sy'n cadw'r ffurfiau rhifol arbennig, gan gynnwys *brawd*, *gŵr*, *march* 'ceffyl' ac *ych*, sef enwau y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfeirio at bethau byw. Mae ffurf rifol rhai ohonynt yn wahanol i'r lluosog, e.e. *tri meib* (LL. *meibion*) a *tri broder* (LL. *brodyr*) ac mae eraill yn unffurf â'r lluosog, e.e. *tri meirch* 'tri cheffyl'. Mae un ffurf rifol wedi goroesi mewn Cymraeg Modern, sef *blynedd* (*tair blynedd*, *pedair blynedd*, a.y.b.), sef ffurf rifol yr enw *blwyddyn*. Mae'r gweddill wedi diflannu, ac felly dywedir *tri mab*, *tri brawd*, a.y.b.

Fel y trafodwyd uchod, nid oes cyflyrau enwol yn y Gymraeg. Ond fe'u ceid yn y Frythoneg (*Brittonic* neu *Brythonic*), yr hen iaith y deilliodd yr ieithoedd Brythonig (Cymraeg, Cernyweg, Llydaweg) ohoni. Ceir trafodaeth fanylach ar y Frythoneg yn [Schrijver \(2011\)](#) a [H. Lewis \(1946:15–41\)](#).

Collwyd y cyflyrau erbyn cyfnod Hen Gymraeg (sy'n dechrau tua chanol chweched ganrif Oed Crist) ond mae olion ohonynt yn goroesi mewn ymadroddion adferfol ac enwau lleoedd. Er enghraifft, hen enw Caerdydd oedd *Caer-dyf*, sy'n cynnwys cyflwr genidol enw afon Taf (felly 'caer yr afon Taf'). Hefyd, ceir hen ffurfiau'r cyflwr derbyniol (*dative case*) mewn adferfau, e.e.

erbyn, sy'n cynnwys hen ffurf cyflwr derbyniol y gair *pen* sef *pyn*. Daw erbyn o'r Frythoneg *are-pennī, cymh. Hen Wyddeleg *ar chiunn* 'o flaen' â'r ffurf dderbyniol *ciunn* o *cenn* 'pen' (noder bod seren * mewn astudiaethau hanesyddol yn dynodi ffurfiau hŷn, heb eu hardystio, sydd wedi eu hadlunio o dystiolaeth ddiweddarach). Ond noder mai ffurfiau 'ffosiledig' yw'r rhain, ac nid ydynt yn enghreifftiau o ddefnyddio prosesau morffolegol cynhyrchiol sy'n cyfleu cyflyrau yn y Gymraeg. Gweler 19 isod am esboniad o brosesau cynhyrchiol ac anghynhyrchiol ac Adran 33.2 yn Rhan V am fwy o wybodaeth am astudio ieithoedd hanesyddol.

18 Ffurfdroi a deilliant

SILVA NURMIO

Pwnc canolog morffoleg yw astudio sut mae ystyr geiriau yn newid wrth ychwanegu morffemau newydd atynt, a sut mae geiriau newydd yn cael eu llunio. Er enghraifft, gellir newid *merch* yn *merch-ed* (lluosog). Pan newidir y gair yn ôl rhif, cenedl, person a chyflwr, er enghraifft, gelwir hyn yn **ffurfdroi** (inflection). Yn achos *merch~merched*, nid yw'r gair ei hun (*merch*) wedi newid yn air arall; dim ond rhif yr enw sydd wedi newid. Gellir hefyd ychwanegu elfennau at air i greu gair newydd, e.e. *hapus* → *hapus-rwydd*, *rhedeg* → *rhedeg-og*, *iaith* → *ieith-ydd*. Geiriau newydd yw *hapusrwydd*, *rhedegog* ac *ieithydd*, ac nid ffurfiau ffurfdroadol o *hapus*, *rhedeg* ac *iaith*. Enghreifftiau o fôn + dodiad (e.e. *hapus* + *-rwydd*) yw'r rhain. Yn ogystal â hynny, mae'n bosibl creu gair cyfansawdd trwy lynu dau air at ei gilydd, e.e. *hafddydd* (*haf* + *dydd*), *rhif ffôn* (*rhif* + *ffôn*, sy'n cael ei ysgrifennu fel dau air, ond ei ynganu fel un). Gelwir y broses o ffurfio geiriau newydd yn y ddwy ffordd hyn yn **ddeilliant** (*derivation*). Mae deilliant yn wahanol i ffurfdroi, ond ceir enghreifftiau amwys rhwng y ddau (a drafodir isod). Gellir rhestru prif nodweddion y ddwy broses fel hyn (rhestr wedi'i haddasu o Lieber 2010:108, gw. hefyd Haspelmath & Sims 2013:90):

Ffurfdroi	Deilliant
dim newid i gategori gair fel arfer (mae enwau yn aros yn enwau, a.y.b.)	gall newid categori'r gair (e.e. ansoddair → enw)
ychwanegu ystyron gramadegol, e.e. rhif, person, amser	gall ychwanegu ystyron geiriol (<i>lexical meanings</i>)
perthnasol i gystrawen (e.e. angen newid berf yn ffurf luosog os yw'r goddrych yn lluosog)	creu geiriau newydd
cynhyrchiol (fel arfer)	gall fod yn gynhyrchiol neu yn anghynhyrchiol

Tabl 7: Ffurfdroi vs. deilliant

Ceir trafodaeth ar brosesau morffolegol cynhyrchiol a rhai anghynhyrchiol isod yn 19. Y gwahaniaeth pwysicaf i'w gofio yw bod deilliant yn creu geiriau newydd tra bod prosesau ffurfdroadol yn newid gair yn ôl rhif, person, amser a.y.b., heb newid y gair ei hun. Felly, mewn

geiriaduron, rhestrir *hapusrwydd* ar wahân i *hapus*. Ond rhestrir ffurfiau ffurfdroadol gyda'r gair syml, e.e. mewn geiriaduron rhestrir y lluosog *merched* o dan y cofnod ar gyfer *merch* (gw. Rhan VIII am strwythur a natur geiriaduron). Mae dodiaid ffurfdroadol yn ychwanegu ystyron gramadegol megis rhif (unigol, lluosog a.y.b.) neu berson (person cyntaf unigol, ail berson lluosog a.y.b.). Ond ystyron geiriol (*lexical meanings*) y mae prosesau deilliannol yn eu hychwanegu. Mewn ieithoedd yn gyffredinol gellir mynegi'r rhain yn forffolegol. Dyma dair enghraifft o ystyron cyffredin: gweithredydd (*agent*) sy'n dynodi person sy'n cyflawni gweithgaredd; ansawdd (*quality*), sef rhywbeth/rhywun ag ansawdd a ddynodir gan y bôn; ystyr amddifadol (*privative*), sef rhywbeth/rhywun heb yr hyn a ddynodir gan y bôn—gw. (Haspelmath & Sims 2013:86–89):

- (21) a. gweithredydd
llyfrgell → *llyfrgell-ydd*
gyrru (bôn *gyrr-*) → *gyrr-wr/gyrr-wraig*
- b. ansawdd
torri (bôn *tor(r)-*) → *tor-edig*
newydd → *newydd-deb*
- c. ystyr amddifadol
gwybod → *di-wybod*
hapus → *an-hapus*

Ceir enghreifftiau o'r tri phroses hyn yn Saesneg hefyd, e.e. *driv-er*, *new-ness*, *un-happy*.

Hyd yma, trafodwyd deiliant sy'n ychwanegu dodiaid at fonau. Fel y trafodwyd uchod, morffemau sy'n ychwanegu ystyr at fôn yw dodiaid (e.e. *-ydd*, *-edig*, *di-*, a.y.b. uchod) ond nid ydynt yn eiriau annibynnol—morffemau clwm ydynt (gw. 14.2).

Gan fod y broses o ddeiliant yn creu geiriau newydd, ychwanegir dodiaid deilliannol at fonau cyn ychwanegu dodiaid ffurfdroadol. Dyma'r rheswm pam y ceir *ieith-ydd-ion* [bôn + dodiad deilliannol + dodiad ffurfdroadol] ac nid ***ieith-ion-ydd*.

Nid yw'r gwahaniaeth rhwng ffurfdroad a deiliant bob tro mor glir ag a awgrymir gan Dabl 7, ac mae'r broblem hon o lawer o ddiddordeb i forffolegwyr. Does dim dadl ynghylch yr enghreifftiau a drafodwyd eisoes: mae *merched* (lluosog) yn ffurfdroadol ac mae *hapusrwydd* yn ddeilliannol. Yn achos *hapusrwydd*, gwelir newid categori; ansoddair yw *hapus*, ond enw yw *hapusrwydd*. Ond mae enghreifftiau amwys yn bodoli hefyd. Un enghraifft bwysig yw'r rhangymeriad presennol (*present participle*) a'r rhangymeriad gorffennol (*past participle*) yn Saesneg:

- (22) a. *she was singing* (rhangymeriad presennol)
 b. *the singing woman*
 c. *he had broken the cup* (rhangymeriad gorffennol)
 d. *the broken cup*

Yn (22a) a (22c) mae *singing* a *broken* yn ymddangos fel ffurfdroadau o'r berfau *sing* a *break*, ond yn (22b) a (22d) maent yn cael eu defnyddio fel ansoddeiriau (cf. *the clever woman*, *the blue cup*). Hynny yw, mae (22b) a (22d) fel petaent yn cynnwys newid categori: *sing* (berf) → *singing* (ansoddair) (gw. Bauer et al. 2013:537–538 a 555–557). Mae'r 'broblem' sut i ddadansoddi rhangymeriadau sy'n cael eu defnyddio fel ansoddeiriau yn parhau i gael ei hystyried. Gweler

Lieber (2010:108–110) a Haspelmath (1995) am drafodaeth bellach ac enghreifftiau o ieithoedd eraill. Yn y Gymraeg, mae berfenwau (*verbal nouns*) yn gategori sy'n broblematic o ran ffurfdroi vs. deilliant. Ar y naill law, maent yn cael eu defnyddio fel ffurfiau berfol, ond ar y llaw arall, gellir eu defnyddio fel enwau. Mae'r term 'berfenw' yn adlewyrchu'r amwysedd hwn. Cymharer:

- (23) a. *mae'r ci'n rhedeg*
b. *ymarfer da yw rhedeg*

Yn (23a), mae'n amlwg mai ffurf ferfol yw *rhedeg*; gellir ail-eirio'r frawddeg fel *rhed y ci*. Yn (23b), ar y llaw arall, mae *rhedeg* yn cael ei ddefnyddio fel enw; gellir rhoi unrhyw enw yn yr un slot â *rhedeg*, e.e. *ymarfer da yw ioga*.

18.1 Geiriau cyfansawdd

Ffordd bwysig arall o ffurfio geiriau newydd yw creu geiriau cyfansawdd (*compound words*). Geiriau cyfansawdd yw geiriau sy'n cynnwys dau air annibynnol, e.e. *rhif ffôn* (rhif + ffôn), *purddu* (pur + du). Mewn geiriau cyfansawdd, mae'r morffemau sy'n ffurfio'r gair newydd yn forffemau rhydd, fel y dengys enghraifft (12e) uchod.

- (24) geiriau â dau wraidd
- hedd + llu = heddlu (enw + enw)
 - byr + pryd = byrbryd (ansoddair + enw)
 - pen + du = penddu (enw + ansoddair)
 - ffurf + troi = ffurfdroi (enw + berfenw)

Mae'n bosibl ffurfio geiriau cyfansawdd o sawl rhan ymadrodd ac maent yn ymddwyn yn forffolegol ac yn gystrawennol fel dosbarth geiriol eu prif elfen. Mae *braslunio* yn ferfenw sy'n ffurfdroi yn union fel berfau eraill:

- (25) a. crafu: crafais, crafaist, crafodd
b. braslunio: brasluniaais, brasluniaist, brasluniodd

Enw yw *clustffonau*, wrth gwrs, gan mai enwau yw *clust* a *ffôn*, ac mae'n bosibl profi bod *hirddydd* yn enw am mai math o *ddydd* (enw) ac nid math o *hir* (ansoddair) ydyw. Felly, yr enw yn y gair cyfansawdd *hirddydd* yw ei brif elfen, sef yr un sy'n dal ei nodweddion gramadegol. Ansoddair yw *penddu* gan mai *du* (ansoddair) yw prif elfen y gair. Profir y rhan ymadrodd drwy ddefnyddio'r prawf cyfansoddion, fel yr eglurir yn Rhan IV, gan ddangos bod *penddu* yn goleddfu (*modify*) enw yn yr un ffordd ag y mae ansoddeiriau eraill.

- (26) a. llwyn cryf: llwyn (enw), cryf (ansoddair)
b. llwyn uchel: uchel (ansoddair)
c. llwyn penddu: penddu (ansoddair)
d. bachgen cryf, penddu

Gweler P.W. Thomas (1996:613–680) am drafodaeth helaeth ar lunio geiriau newydd yn y

Gymraeg.

19 Cynhyrchiol vs anghynhyrchiol

SILVA NURMIO

Cynhyrchedd (*productivity*) yw'r posibilrwydd o ddefnyddio morffem benodol neu broses benodol i ffurfio geiriau newydd. Gelwir prosesau a ddefnyddir gan siaradwyr iaith gyntaf i lunio geiriau newydd yn brosesau **cynhyrchiol** (*productive*); a gelwir rhai prosesau oedd yn cael eu defnyddio yn y gorffennol ond nad ydynt yn cael eu defnyddio bellach yn brosesau **anghynhyrchiol** (*unproductive*). Cymharer y berfenwau canlynol:

- (27) a. cudd-io
b. bowl-io
c. skype-io (sgeip-io a.y.b.)

Olddodiad berfenwol yw *-(i)o*, fel y gwelir mewn llawer o eiriau brodorol yn y Gymraeg, e.e. *cuddio/cuddo* (ceir amrywiaeth tafodieithol rhwng *-io* ac *-o*, gw. [Watkins 1961:97–99](#)). Benthyciad o'r Saesneg *bowl* yw *bowlio* a defnyddiwyd yr olddodiad berfenwol *-io* wrth ei fenthycia i'r Gymraeg. Dengys hyn fod *-io* yn gynhyrchiol yn adeg y benthyciad (y 15fed ganrif, yn ôl [GPC](#)). Mae'n bosibl i broses fod yn gynhyrchiol mewn un cyfnod hanesyddol ac nid wedyn. Ond mae llawer o enghreifftiau o ychwanegu *-(i)o* at fenthyciadau diweddar hefyd, felly gellir dweud bod *-(i)o* yn olddodiad cynhyrchiol o hyd. Er enghraifft, mae siaradwyr iaith gyntaf yn defnyddio *skypio* am 'defnyddio Skype/siarad â rhywun ar Skype', er nad yw'r gair hwn wedi'i ychwanegu at [GPC](#) eto. Mae [Watkins \(1961:95\)](#) yn rhestru llawer o enghreifftiau eraill sy'n fenthyciadau o'r Saesneg, e.e. *barcio*, *cleimio*, *copio*. Enghraifft o air sydd heb fod yn fenthyciad yw *ffrwydr* (enw), *ffrwydro* (berfenw). Crëwyd y ddau air hyn gan y geiriadurwr William Owen Pughe (1759–1835). O'u cymharu â hyn, mae llawer o olddodiaid berfenwol yn anghynhyrchiol, *rhed-eg*, *ystyri-ed*; ni ellir eu hychwanegu at eiriau newydd, e.e. ***skyp-eg* 'defnyddio Skype'. Gellir sôn am ffurfiadau cynhyrchiol ac anghynhyrchiol mewn morffoleg ddeilliannol a ffurfdroadol. O ran deilliannol, enghraifft o olddodiaid anghynhyrchiol yn y Gymraeg yw'r olddodiad bachigol (*diminutive*) *-ig* yn yr iaith ffurfiol (*oenig* 'oen bach', *afonig* 'afon fach', gw. [Watkins 1961:88](#)). O ran ffurfdroadau, ceir olddodiaid lluosog cynhyrchiol ac anghynhyrchiol. Mae'r olddodiad lluosog *-(i)au* yn gynhyrchiol mewn Cymraeg Cyfoes (e.e. *beic-iau*) ond mae *-ed* (e.e. *merch-ed*) ar y llaw arall yn hollol anghynhyrchiol.

Mae morffolegwyr yn aml yn gwahaniaethu rhwng cynhyrchedd a chreadigrwydd. Mae cynhyrchedd yn cyfeirio at eiriau fel *bowlio* a *skypio* uchod; mae'n debyg nad yw gwrandawyr yn meddwl bod y rhain yn eiriau rhyfedd neu arbennig o ddyfeisgar. Golyga creadigrwydd greu gair newydd sydd fel arfer yn ddealladwy i siaradwyr iaith gyntaf, ond sy'n eu taro fel

gair od a dyfeisgar, ac weithiau'n ddoniol neu fel enghreifftiau o benrhyddid bardd. Enghraifft dda o hyn yw **blendio** (*blending*), sef cymysgu rhannau o eiriau nad ydynt yn forffemau'n wreiddiol, e.e. Saesneg *locavore* 'rhywun sy'n hoffi bwyd wedi'i gynhyrchu'n lleol' (*local + carnivore, herbivore*), *blogebrity* (← *blogger + celebrity*) (Lieber 2010:70–71). Mae'n debyg bod pawb yn deall beth yw *locavore* neu *blogebrity*, ond mae'r geiriau hyn yn swnio'n ddoniol ac annisgwyl. Nid oes llawer o enghreifftiau o flendiadau (*blends*) yn y Gymraeg, ond ceir ambell eithriad, e.e. *brecinio* o *brecwast + cinio* ac efallai *gliniadur* o *glin + cyfrifiadur*, mae'n debyg (Russell 2015:2779). O'r ddau air hyn, mae *brecinio* yn enghraifft o ddeiliant creadigol—un seiliedig ar Saesneg *brunch*, mae'n debyg.

Gweler Bauer (2001), Lieber (2010:60–73) a Haspelmath & Sims (2013:114–136) am ragor o fanylion am gynhyrchedd.

20 Treiglo a morffoffonoleg

LAURA ARMAN

Yn Rhan II, cafwyd cyflwyniad i'r prosesau ffonolegol y tu cefn i dreigladau'r Gymraeg. Nid yw'r prosesau ffonolegol hyn yn esbonio treiglo yn ei gyfanrwydd ac felly ceir ymdriniaeth ohono yn y rhan hon ar forffoleg ac ychydig eto yn Rhan IV 'Cystrawen'.

Mae'n amlwg bod agweddau ffonolegol ar dreiglo: mae treiglo'n effeithio ar **ffonemau** ac yn eu newid **drwy broses ffonolegol** yn ffonemau gwahanol e.e. mewn treigladd meddal, mae /t/ yn meddal yn /d/. Yn wahanol i brosesau ffonolegol eraill, nid yw'r newidiadau'n gyson yn yr un cyd-destunau, h.y. mae'r gair *ei* BENYWAIDD /ei/, neu /i/ ar lafar, yn achosi treigladd llaes sy'n ffrithioli /t/ yn /θ/, ond nid yw'r seiniau /ei, i/ yn achosi treigladd llaes fel rhan o eiriau eraill:

- (28) Ffurf gysefin: 'tarw' /taru/
- ei** tharw /ei θaru/: treigladd llaes (TLI)
 - cei** darw /kei daru/: treigladd meddal (TM)
 - *cei tharw
 - tei** tarw /tei taru/: dim treigladd
 - *tei tharw

Gan mai'r un ffonemau, sef /ei/, sy'n dod cyn ffonem /t/ ffurf gysefin /taru/, mae'n rhaid **nad** proses ffonolegol yn unig sy'n rheoli'r treigladau.

Mae'n rhaid bod treigladau'n gysylltiedig un ai â morffoleg neu â chystrawen er mwyn esbonio'r gwahanol dreigladau yn yr un cyd-destun ffonolegol. Gellir un ai gysylltu treiglo â morffemau arbennig neu â manau neu haenau gwahanol yn y gystrawen.

Mantais dehongli treiglo fel rhan o reolau morffoleg yw bod y rhan fwyaf o dreigladau'r Gymraeg yn gysylltiedig â geiriau penodol. Gelwir y **sbardunau treiglo** (*mutation triggers*)

hyn yn **sbardunau geiriol pur**.

- (29) Sbardunau treiglo: sbardun geiriol pur
- *mor, rhy, am, ar, at, dros, i, drwy, â, a.y.b.*
 - *dau, dwy* a rhai rhifolion eraill
 - *fy, dy, ei.B, ei.G*
 - *ni.NEG, a.CW, mi/fe*

O ddilyn dehongliad morffolegol, y geiriau hyn yn (29) sy'n effeithio ar y treigladau. Y forffem, ac nid ei ffonoleg, sy'n pennu'r newid i'r ffonem sy'n dilyn (os yw'r ffonem ddilynol yn un sy'n treiglo, gw. Rhan 11). Mae gwahanol forffemau'n achosi gwahanol dreigladau, e.e. yn y Gymraeg, mae'r rhagenw *fy* yn sbarduno treigladau trwynol (TT), tra mae *dy* yn sbarduno TM *fy mhen*, ond *dy ben*.

Hefyd, ceir **sbardunau geiriol sero** sy'n digwydd pan fo sbardun geiriol pur yn cael ei ddileu neu ar goll:

- (30) Ffurf gysefin: cefais
- a. **Mi** gefais adael.
 - b. **Ges** i adael.
- (31) Ffurf gysefin: cei
- a. **Ni** chei adael.
 - b. **Chei** di ddim gadael.

Mae ffonemau'r geiriau targed yn treiglo yn (30b) a (31b) er nad yw'r sbardunau geiriol pur yn ymddangos. Yn ddi-ddorol, nid yw'r sbardun geiriol pur *ni* NEGYDDOL yn gydnaws â'r strwythur Cymraeg llafar/anffurfiol yn (31b) ac mae hyn yn dystiolaeth fod treiglo yn gysylltiedig â chystrawen.

Mae treiglo felly'n sbarduno prosesau ffonolegol, ond nid yw'n ffenomen ffonolegol bur. Mae treiglo yn debyg i brosesau morffolegol eraill, fel y rheolau morffolegol a ddangoswyd uchod. Yn ogystal â'r sbardunau geiriol, mae sbardunau cystrawennol i dreigladau'r Gymraeg. Rhaid dychwelyd at dreiglo yn y Gymraeg am y trydydd tro, yn ogystal a'r cysylltiad rhwng morffoleg a chystrawen, yn Rhan IV.

Ceir treiglo tebyg mewn ieithoedd eraill heblaw'r Gymraeg, er nad yw'n gyffredin iawn. Weithiau, fel yn achos Amwsgo (*Amuzgo*, teulu Oto-Mangeaidd, Mecsico) sy'n defnyddio treiglo i fynegi categorïau ffurfdroadol, mae'r treigladau'n forffoffonolegol e.e. $ke^{t\acute{o}n3} \rightarrow t^j e^{t\acute{o}n3}$ 'torri' fel bôn UNIGOL a bôn LLUOSOG (Kim 2016 o Buck 2000).

Mae treiglo hefyd yn debyg (ond eto'n wahanol) i brosesau morffoffonolegol eraill, fel cwtoegi llafariad mewn geiriau trisillafog yn Saesneg, neu flaenu llafariad mewn Almaeneg (*umlaut*). Mae llafariad yn cwtoegi'n rheolaidd mewn rhai geiriau trisillafog yn Saesneg, ond nid mewn geiriau eraill (Haspelmath & Sims 2013:214) e.e. *globe* /glɔʊb/ → *globular* /'glɒ.bjʊ.lər/, ond *globalise* /'glɔʊ.bə.lər/. Fel yn enghraifft (28) am dreiglo yn dilyn /ei/, nid y cyd-destun ffonolegol sydd felly'n gyfrifol am yr effaith ar y bôn, ond y rheolau morffolegol cysylltiedig. Morffemau sy'n sbarduno newidiadau i ansawdd llafariad Almaeneg hefyd (Haspelmath & Sims 2013:212–3):

- (32) a. *Buch* /bu:x/ → *Bücher* /by:çə/ ‘llyfr’ a ‘llyfrau’
 b. *Vater* /fa:tə/ → *Väter* /fɛ:tə/ ‘tad’ a ‘tadau’
 c. *bot* /bɔt/ → *böte* /bœtə/ ‘cynnig.PERFFEITHIOL’ a ‘cynnig.DIBYNNOL’

Fel yn yr enghreifftiau o dreiglo yn y Gymraeg, mae’r proses o flaenu llafariad mewn gwreiddiau geiriau yn yr Almaeneg yn un sy’n digwydd o dan wahanol amodau gramadegol, e.e. nid lluosogi geiriau yn unig, fel mae (32c) yn dangos, â newid i ffurfdro’r ferf *bieten* ‘cynnig’. Mae’n digwydd o dan wahanol amodau morffolegol hefyd, h.y. mae morffem luosogi *-er* yn ffurfio rhan o *Büch-er*, ffurf luosog *Buch*, ond nid yn *Väter*, ffurf luosog *Vater*. Mae’r effaith ffonolegol yn gyson: er bod gwahanol llafariad dan sylw, yr un broses ffonolegol sy’n effeithio arnynt oll, sef blaenu llafariad cefn (gw. Rhan II am ddisgrifiad o ansoddau llafariad). Cymharer yr un math o berthynas yn y system luosogi yn y Gymraeg, e.e. *car* → *ceir*, *march* → *meirch*, a *gair* → *geir-iau*, *saer* → *seir-i*. Mae byrhau llafariad mewn rhai geiriau trisillafog Saesneg a blaenu llafariad mewn rhai gwreiddiau geiriau yn yr Almaeneg a’r Gymraeg yn effeithiau ffonolegol sy’n digwydd o dan amodau morffolegol neu eiriol arbennig ac felly’n ffenomenau **morffoffonolegol**.

Mae ieithyddion yn dadlau dros wir sbardunau’r newidiadau ffonolegol hyn; er mai ‘morffoleg’ a ‘rheolau morffolegol’ sy’n cael eu henwi yn y rhan hon, mae’n bosibl mai nodweddion ffonolegol—fel [BYRHAU LLAARIAD] a [BLAENU LLAARIAD]—yn unig sy’n effeithio ar ffurfiau cysefin y geiriau ac mai modiwl ffonoleg y ramadeg sy’n darparu’r rheol yn uniongyrchol, yn hytrach na chyfathrebu trwy’r morffoleg. Ar y llaw arall, mae’n bosibl bod gwahanol ffurfiau o wreiddiau yn bodoli’n gyfochrog fel **alomorffau** (*allomorphs*)—sef dwy ffurf o’r un forffem â’r un ystyr sy’n ymddangos o dan wahanol amodau, heb fod angen sbarduno proses ffonolegol o gwbl. Bydd Rhan IV yn dychwelyd at y syniad o drosglwyddo gwybodaeth rhwng gwahanol fodiwlau’r ramadeg.

Mae treiglo yn rhan o ramadeg pob iaith Geltaidd a cheir yr un ddadl—ai ffonoleg ynteu morffoleg sy’n gyfrifol amdano—ynghylch eu gwahanol systemau treiglo. Serch hyn, nid yw’r prosesau morffoffonolegol eraill yn digwydd oherwydd amodau cystrawennol pur, fel yn achos treiglo yn y Gymraeg (gw. Rhan 25), felly nid yw’r term ‘morffoffonoleg’ yn ddisgrifiad addas ar gyfer pob math o dreiglo.

21 Crynodeb

Strwythur geiriau: geirfa a morffoleg

Yn y Rhan hon, cafwyd cyflwyniad i wreiddiau geiriau ac i forffemau. Morffemau sy'n dod at ei gilydd i greu geiriau ystyrion a dyma uned ystyrion lleiaf unrhyw iaith. Mae rhai ieithoedd yn ffafrio geiriau o un forffem yr un, sy'n adeiladu ystyr brawddegau'n ddadansoddol. Mae ieithoedd eraill yn ffafrio cyfuno gwahanol ystyron a swyddogaethau yn un forffem gan adeiladu geiriau 'synthetig'. Yn yr ieithoedd hyn sy'n ffafrio ychwanegu morffemau i gyfleu gwahanol ystyron, yn aml ceir categorïau gramadegol sy'n dueddol o gael eu amgodio'n forffolegol. Cafwyd crynodeb byr o gategorïau cyffredin yn Adran 16. Esboniwyd hefyd fod morffoleg geiriau yn rheolaidd yn ôl dosbarth geiriol y gair, a bod patrymau neu rediadau arbennig i enwau sy'n wahanol i forffoleg berfau mewn llawer iawn o ieithoedd.

Cwestiynau

1. Beth yw strwythur y geiriau *rhagddodiad*, *mewnddodiad*, ac *olddodiad*?
2. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng **gair syml** a **rhagddodiad**? Ystyriwch yr enghreifftiau *prif(-)* ac *ail(-)*.
3. Ai proses ffonolegol ynteu proses morffolegol ydy blaenu llafariad?

Darllen pellach

Cyfrwng Cymraeg

Thomas, P.W. 1996. *Gramadeg y Gymraeg*. Gwasg Prifysgol Cymru

Thorne, D. A. 1985. *Cyflwyniad i astudio'r iaith Gymraeg*. Cyhoeddwyd ar ran Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru gan Wasg Prifysgol Cymru

Watkins, T. A. 1961. *Ieithyddiaeth*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Cyfrwng Saesneg

Haspelmath, M. & A. Sims. 2013. *Understanding morphology*. Routledge

Rhan IV

Cystrawen

LAURA ARMAN

22 Cyflwyniad: strwythuro brawddegau

Yn Rhannau blaenorol y gyfrol hon cyflwynwyd nifer o wahanol agweddau ar iaith. Mae ieithyddion yn tybio bod ‘lefelau’ ieithyddol o fewn gramadeg sy’n cyfateb i wahanol agweddau ar seiniau a geiriau: seineg, ffonoleg, yr eirfa, a morffoleg. Yn y Rhan hon, mae’r sylw ar fodiwl sylfaenol gramadeg sy’n strwythuro geiriau a morffemau yn frawddegau. Cystrawen yw strwythur ymadroddion, cymalau a brawddegau.

Wrth drafod cystrawen mewn ysgrifen, h.y. mewn geiriau ysgrifenedig, mae angen gwahaniaethu rhwng strwythurau posibl a strwythurau amhosibl. Y traddodiad ym maes ieithyddiaeth yw defnyddio seren (*) i ddangos cymalau a brawddegau sy’n amhosibl, ochr yn ochr â chystrawen sy’n batrwm arferol o fewn yr iaith, e.e. Cymraeg llafar: *tydw i ddim*, ond **ddim tydw i*. Mae hyn yn dangos bod *tydw i ddim* yn dderbyniol mewn rhai tafodieithoedd Cymraeg, ond bod y cymal **ddim tydw i* yn amhosibl fel strwythur, neu’n ‘annerbyniol’ i siaradwyr.

Rhaid nodi nad trefn eiriol brawddeg yw cystrawen, ond yn hytrach y strwythurau gramadegol tu cefn i’r drefn honno. Er mai canlyniad cystrawen yw trefn y geiriau, nid yw’r drefn eiriol yn hollol anhyblyg. Mewn rhai ieithoedd mae hyblygrwydd mawr o ran trefn eiriol, ond mewn eraill mae’r drefn yn rheolaidd iawn ac ychydig yn unig sy’n hyblyg. Mae rhywfaint o hyblygrwydd yn y Gymraeg, e.e. *trafododd Einir y tywydd*, *Einir drafododd y tywydd*, ac y *tywydd drafododd Einir* (neu *Einir a drafododd y tywydd*, y *tywydd a drafododd Einir*). Gweler Adran 36 am fwy ar hyblygrwydd cystrawennol y Gymraeg o safbwynt ystyr.

Cyn dadansoddi gwahaniaethau cystrawennol, rhaid cael dealltwriaeth o wahanol rannau brawddegau, sef y **rhannau ymadrodd** (*parts of speech*)—y prif **ddosbarthiadau geiriol** (*word classes*). Fel y soniwyd yn Adran 15.1, mae geiriau yn dilyn patrymau morffolegol arbennig gan ddibynnu ar eu dosbarth. Mae profion cystrawennol (yn ogystal ag unrhyw brawf morffolegol) yn amlygu’r gwahanol ddosbarthiadau, megis **enwau** (*nouns*), **berfau** (*verbs*), **ad-ddodiaid** (*adpositions*) ac yn y blaen. Mae’r profion cystrawennol yn cynnwys trefn eiriol a **chytundeb** (*agreement*).

Mewn rhai ieithoedd mae **cytundeb** yn ddangosydd da o ddosbarth geiriol gan fod ffurf rhai rhannau ymadrodd yn ddibynnol ar rannau ymadrodd eraill. Er enghraifft, mae morffoleg berfau Cymraeg yn ddibynnol ar enwau a **rhagenwau** (*pronouns*): mae *Dangosais i gerdyn* yn ramadegol gywir, ond nid **Dangosodd i gerdyn*.

Nid yw'r profion sy'n gwahaniaethu rhwng y rhannau ymadrodd yr un fath o un iaith i'r llall. Gwyddys bellach (o Ran III) nad yw pob iaith yn ddibynnol ar forffoleg yn yr un ffordd, felly ni fydd y forffoleg yn dangos dosbarthiadau geiriol yn yr un modd, er enghraifft. Drwy gymharu'r enghraifft uchod yn ei chyfieithiad Saesneg, *I showed a card*, gwelwn nad oes elfen forffolegol yn y ferf *show* sy'n ddibynnol ar y rhagenw *I*. Mae'r ferf yr un fath mewn brawddeg sy'n cyfeirio at wahanol bersonau, e.e. *I/you/they showed a card*. Ar y llaw arall, mae profion sy'n gwahaniaethu rhwng rhannau ymadrodd yn bodoli ym mhob iaith (Tallerman 2007), er nad ydynt yn gweithio yn yr un modd. Bydd y Rhan hon felly'n canolbwyntio'n bennaf ar enghreifftiau Cymraeg er mwyn nodi'r prif brofion cystrawennol am wahanol rannau ymadrodd a chyfansoddion.

Ar ôl meistrolï'r rhannau ymadrodd, bydd eu rôl o fewn cystrawen yr iaith yn cael ei hamlygu. Nid dilyniant o eiriau ar hap yw brawddegau; mae brawddegau wedi eu hadeiladu o strwythurau arbennig. Mae'r strwythurau hyn yn amrywio o iaith i iaith, ond nifer cyfyngedig sydd yna, felly gellir disgrifio a chymharu'r holl strwythurau sy'n bosibl o fewn ieithoedd y byd. Gellir disgrifio prif batrymau cystrawennol ieithoedd drwy ystyried trefn y ferf mewn perthynas ag enwau a rhannau ymadrodd eraill. Er enghraifft, mae Saesneg yn dilyn y drefn goddrych-berf-gwrthrych (*subject-verb-object*; neu *SVO*):

(33) Tara wears boots.

Yn yr enghraifft Saesneg mae'r ferf, *wears*, yn dod rhwng yr enw *Tara* a'r enw *boots* (ymadroddion enwol yw'r rhain, a bod yn fanwl gywir—gw. (38) isod am esboniad o'r gwahaniaeth). Mae'r ferf yn gallu disgrifio **cyflwr o fod** (*state*), perthynas neu **weithred** (*activity*) rhwng un ymadrodd enwol a'r llall. Mae'r un peth yn wir mewn berfau Cymraeg, ond prif strwythur y frawddeg Gymraeg yw berf-goddrych-gwrthrych (*verb-subject-object*; *VSO*, ond gw. Adran 27.1 am fwy):

(34) Prynodd Siân gyfrifiadur.

Yn draddodiadol, gelwir ymadrodd enwol fel y ddwy enghraifft hyn—pobl neu bethau sydd mewn perthynas â'r ferf—yn **oddrych** (*subject*) ac yn **wrthrych** (*object*). Mae'r rhain yn **argiau uniongyrchol** (*direct arguments*) i'r ferf. Argiau yw elfennau sy'n angenrheidiol i gwblhau'r ystyr a ddechreuir â'r ferf (mewn brawddegau syml, ond mae'r ferf yn rhan o'r **traethiad**, (*predicate*; gw. Adran 27.2). Dyma ran sylfaenol o bob iaith, beth bynnag ei thuaddiadau morffolegol, yn nhyb ieithyddion cyfoes. Mae berfau un arg, e.e. *cysgodd Rhian* sydd â *Rhian* fel arg uniongyrchol, a dau arg uniongyrchol (34), yn gyffredin iawn ymysg ieithoedd y byd (gw. Adran 24), ond mae ieithoedd â berfau sy'n cymryd tri arg uniongyrchol neu hyd yn oed ddim arg o gwbl yn llai cyffredin. Mae'r enghreifftiau yn (33) a (34) yn ferfau sydd angen dau arg i gwblhau'r ystyr.

Y goddrych yw'r **arg** (*argument*) sy'n meddiannu'r ferf—un ai o ran cyflawni'r weithred a enwyd ganddi neu o ran cytundeb (gw. Adran 24 isod). Mewn berfau ag un arg yn unig, y goddrych yw hwn. Os oes ail arg uniongyrchol, y gwrthrych, fel arfer, sy'n cael ei effeithio neu ei newid gan y weithred yn y ferf (os oes gwrthrych o gwbl). Nid oes diffiniadau cadarn, ieithyddol o oddrychau a gwrthrychau sy'n ddilys ar gyfer pob iaith, felly nid yw pob fframwaith gramadegol yn defnyddio'r termau hyn, ond mae'r cysyniad o berthynas anghyfartal rhwng argiau a'u berf yn un bwysig ym mhob iaith a fframwaith ieithyddol. Ceir trafodaeth ar fframweithiau gramadegol ar ddiwedd y Rhan yn Adran 28.1.

Cystrawen, felly, sy'n cyfuno geiriau sydd eu hunain yn cydweithio i greu brawddegau. Er mwyn dehongli cystrawen brawddegau, rhaid bod yn gyfarwydd â'r rhannau ymadrodd a sut maen nhw'n cyfuno i lunio unedau mwy. Yna, mae modd dadansoddi gwahanol fathau o frawddegau a'u cymharu o ran strwythur. Dyma fydd ffurf y Rhan hon, fel cyflwyniad sylfaenol i astudio cystrawen.

Geirfa allweddol

rhan ymadrodd	dosbarth geiriol	enw
berf	ad-ddodiaid	rhagenw
cytundeb	cyflwr o fod	gweithred
goddrych	gwrthrych	arg
arg uniongyrchol	arg anuniongyrchol	traethiad
prawf bwlch	anramadegol	swyddogaeth
di-derfyn	cymal	cyfranogydd
berf gyflawn	berf anghyflawn	eiledu
eiledol	gweithredydd	goddefydd
derbynnydd	cyfansoddyn	gair pen
ymadrodd enwol	ymadrodd ad-ddodiadol	ymadrodd arddodiadol
prawf cyfansoddion	dibeniad	alomorff
cytundeb berfol	berf gynorthwyol	cysylltair cydradd
prif gymal	cymal isradd	geiryn
fframwaith gramadegol		

23 Dychwelyd at ddosbarthiadau geiriol

Rhestrwyd y rhan fwyaf o'r rhannau ymadrodd sydd fwyaf cyffredin yn y Gymraeg (a llawer o'r ieithoedd Indo-Ewropeaidd) yn Rhan III, megis berf, arddodiad, enw, a.y.b. Cyflwynwyd y syniad fod y rhannau ymadrodd hyn yn ffurfio gwahanol ddosbarthiadau yn ôl eu patrymau morffolegol—mae morffoleg yn effeithio ar rannau ymadrodd mewn ffordd reolaidd ac mae geiriau o'r un rhan ymadrodd yn dangos ymddygiad tebyg i'w gilydd—a hefyd yn ôl eu cystrawen.

Gellir disgrifio brawddegau fel cyfuniadau o eiriau (neu forffemau, mewn rhai ieithoedd, gw. 15.2), ac o fewn iaith mae'r geiriau hyn yn cyfuno mewn ffyrdd rheolaidd. Er enghraifft, enwau (gan gynnwys rhagenwau) ac ansoddeiriau yw'r unig eiriau unigol sy'n gallu ffurfio brawddeg ystyrion mewn cyfuniad â'r canlynol:

(35) [] yw'r gadair.

Mae unrhyw un o'r ansoddeiriau yn (36a) yn ddilys yn y frawddeg a hefyd unrhyw un o'r enwau yn (36b) ynghyd â'r rhagenw *hon* yn (36c).

- (36) a. [Melyn / Cyfforddus / Simsan / Llydan / Chwyslyd] yw'r gadair. Ansoddeiriau
 b. [Pren / Efydd / Campwaith / Syniad / Gwobr] yw'r gadair. Enwau
 c. [Hon] yw'r gadair. Rhagenw

Ar y llaw arall, nid yw cynnwys berfenwau yn yr un ffordd yn rhoi brawddegau gramadegol nac ystyrlon fel canlyniad, fel a ddangosir yn (37).

- (37) *[Gwneud / Eistedd / Gofalu / Gweithio] yw'r gadair. Berfenwau

Wrth ganiatáu mwy o eiriau yn y bwlch, gwelir mai prawf ar gyfer ymadroddion, ac nid geiriau unigol, yw hwn:

- (38) a. [Moethus iawn / Rhy fawr / Melyn] yw'r gadair. Ymadroddion ansoddeiriol
 b. [Syniad da / Gwastrafflyd ar y naw / Pren] yw'r gadair. Ymadroddion enwol

Felly, mae'r ansoddeiriau yn (36a) yn ymadroddion enwol sy'n cynnwys un gair a'r enwau yn (36b) yn ymadroddion enwol sy'n cynnwys un gair. Er nad yw rhagenw fel *hon* yn (36c) yn llwyr gyfartal ei statws ieithyddol ag enw llawn fel *cadair*, mae'r prawf yn dangos mai ymadrodd enwol yw *hon* yn yr enghraifft. Er mwyn cadw pethau'n syml, bydd y profion canlynol yn cynnwys ymadroddion un gair fel enghreifftiau er bod y geiriau unigol hyn yn cyflawni'r un swyddogaeth ag unrhyw ymadrodd arall.

Prawf bwlch (*gap test*) yw'r enw ar y math hwn o brawf. Fel yr esboniwyd yn y cyflwyniad i'r Rhan hon, mae seren yn dynodi nad yw'r frawddeg yn dderbyniol yn ramadegol, felly mae'r frawddeg yn **anramadegol** (*ungrammatical*). Mae hyn yn wir wrth brofi'r rhannau ymadrodd eraill hefyd:

- (39) a. *[Ar / Yn / Mewn / O] yw'r gadair Arddodiaid
 b. *[Ac / Neu] yw'r gadair Cysyllteiriau (*conjunctions*)
 c. *[Ddoe / Wedyn / Weithiau] yw'r gadair Adferfau
 d. *[Y(r) / Pa / Pob] yw'r gadair Banodolion (*determiners*)

Mae (39) yn dangos bod y frawddeg yn anramadegol ag arddodiaid, cysyllteiriau ac adferfau yn yr un strwythur â'r ansoddeiriau neu enwau. Ond, wrth lunio enghreifftiau i brofi rhannau ymadrodd, rhaid gofalu nad yw'r frawddeg yn taro'r glust yn od oherwydd ei hystyr, yn hytrach na'i chystrawen. Er enghraifft, mae'r frawddeg ganlynol yn un ramadegol dderbyniol:

- (40) #Cul yw'r gadair lydan.

Yn y frawddeg yn (40) yr ystyr sy'n creu trafferth i'r darlennydd, nid ei chystrawen (mae'r symbol hash # yn dynodi hyn). Am y rheswm hwn, **annerbyniol** ac nid anramadegol yw (40) ac enghreifftiau â'r symbol #. Gellir profi hyn drwy ddefnyddio ansoddair gwahanol yn lle *cul*.

- (41) Melyn yw'r gadair lydan.

Mae'n anodd dychmygu cyd-destun lle mae cadair sy'n llydan hefyd yn gul, ond heb gyd-destun mae'n rhaid ystyried enghreifftiau â meddwl agored er mwyn gwahaniaethu rhwng unedau ieithyddol sy'n anramadegol a rhai sy'n annerbyniol oherwydd eu hystyr. Wrth ystyried (42) heb gyd-destun, mae'n anodd dychmygu pam y bydd unrhyw un angen esbonio mai deunydd anarferol sydd dan sylw.

(42) ?#Menyn yw'r gadair.

Ac eto, mae cyd-destun posibl, ond anarferol, sy'n profi bod y defnydd yn dderbyniol. Gellir dychmygu esboniad ar ddarn o gelf sy'n dangos ystafell â'r holl ddodrefn wedi eu llunio o fwydydd. Ceir mwy o wybodaeth am gyd-destun mewn ieithyddiaeth yn Rhan V. Felly, mae'n bwysig dewis enghreifftiau'n ofalus ac arbrofi â gwahanol gyd-destunau wrth lunio profion ieithyddol yn gyffredinol!

Yn ei lyfr arloesol “*Syntactic Structures*” (1957) profodd Chomsky fod modd profi strwythur cystrawennol ar wahân i ystyr a chyd-destun â'r frawddeg Saesneg enwog, *colorless green ideas sleep furiously*. Nid oes unrhyw ystyr amlwg i'r frawddeg, ond mae'n ramadegol dderbyniol. Daw'r gwahaniaeth yn fwy amlwg wrth ei chymharu â brawddeg debyg, *furiously sleep ideas green colorless*, sy'n ddiystyr *ac* yn anramadegol gan nad yw'n cyfateb i unrhyw strwythur posibl yn Saesneg.

Mae'r prawf bwlch yn gwahaniaethu rhwng geiriau yn ôl eu rhan ymadrodd gan fod pob iaith â strwythurau penodol (mae morffoleg, yn aml, yn brawf o hyn hefyd). Dyma rai profion sy'n gweithio i rannau ymadrodd Cymraeg:

(43) Mae'r awyr mor [ansoddair].

Dim ond ansoddeiriau sy'n gallu dilyn *mor*, felly mae'r ansoddeiriau *glas / melyn / lliwgar / difyr / derbyniol / gwael / llawen / gwrthgyferbyniol / siomedig / llaith / oer / oeraidd / disglair* a.y.b. i gyd yn llenwi'r bwlch yn ramadegol. Nid yw'r rhannau ymadrodd eraill yn dderbyniol yma:

- (44) a. *Mae'r awyr mor [gwmwl / oerfel / oleuni / brydferthwch]. Enwau
 b. *Mae'r awyr mor [ddisgleirio / wenu / daro] Berfenwau
 c. *Mae'r awyr mor [i / o / wrth / am] Arddodiaid

Yn ogystal â'r ffordd y mae geiriau'n cyfuno i ffurfio brawddeg, mae eu **swyddogaeth** (*function*) hefyd yn aml yn awgrymu beth yw eu rhan ymadrodd. Eu swyddogaeth sydd wedi arwain at ddiffiniadau cyfarwydd o ansoddair fel gair disgrifiadol ac o ferf fel gair sy'n disgrifio gweithred (fel symudiad neu ddigwyddiad). Er bod y diffiniadau hyn yn rhy gul i fod yn ddiffiniadau ieithyddol addas a chynhwysfawr, maent yn awgrymu'r syniad fod dosbarthiadau geiriol yn gysylltiedig â swyddogaethau penodol (gw. Adran 25 am ddosbarthiad pellach o rannau ymadrodd).

23.1 Swyddogaeth a'r rhan ymadrodd

Ffurf arbennig ar ferf yw'r berfenw; fel arfer mae'n cynnwys bôn y ferf a'i hystyr berfol craidd, ond heb yr wybodaeth sydd ei hangen i ddangos ffurfdroad (gw. Adran 18 yn Rhan III

“Strwythur geiriau: geirfa a morffoleg”). Felly, nid yw'r berfenw'n cynnwys gwybodaeth am y cyfnod o amser y mae'r ferf yn digwydd ynddo neu'n ei ddisgrifio (amser berfol; *tense*); mae'n **ddi-derfyn** (*non-finite*). Heb ffurfdroadau sy'n dangos person gramadegol, nid oes cyfeiriad at y goddrych. Defnyddir berfenwau i lunio brawddegau sydd heb forffoleg amserol, ond sy'n gwahanu swyddogaethau (sef ystyron gramadegol) fel amser, agwedd (*aspect*), a pherson yn eiriau unigol (cymh. strwythur Fietnameg o Ran III, Adran 14.2).

(45) Mae Siân yn mynd fory
amser cyfranogydd agwedd ystyr_berfol amser/cyfnod

Mae'r frawddeg yn enwi gweithred (*mynd*) sy'n digwydd yn y dyfodol (*fory*) ac yn enwi'r person (*Siân*; 3UN) sy'n cyflawni'r weithred.

Ceir aralleiriad o'r frawddeg hon gan ddefnyddio'r ferf wedi ei ffurfdroi.

(46) Aiff Siân yfory
ystyr_berfol.amser.person cyfranogydd amser/cyfnod

Ffurf bresennol/dyfodol *mynd* yw *aiff*, ac mae'r ferf wedi ei ffurfdroi i gyfeirio at 3^{ydd} person unigol. Mae swyddogaethau'r berfenw felly'n wahanol i rai'r ferf ffurfdroedig ac mae gwahanol ddsbarthiad (*distribution*) i ferfau o fewn brawddegau. Mae berfenwau'n cyfuno mewn gwahanol ffyrdd â rhannau ymadrodd eraill sydd ddim yn ramadegol â berf ffurfdroedig ac, wrth gwrs, mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd.

(47) *Mynd Siân yfory

Nid yw'r berfenw yn ramadegol gan nad yw'r holl swyddogaethau sydd eu hangen i lunio brawddeg gyflawn yn bresennol, ac felly nid yw ei ddsbarthiad yn ddilys chwaith. Mae angen morffoleg wahanol (ffurfdroadol) er mwyn creu brawddeg ramadegol â'r ystyr a fwriadwyd, fel a geir yn (46). Dyma enghraifft arall â'r ferf *wylo* yn y gorffennol:

(48) a. Wylodd Elgan ddoe.
b. *Wylo Elgan ddoe.

Nid yw berfau ffurfdroedig yn cyflawni'r un swyddogaethau mewn brawddegau â berfenwau, fel y soniwyd uchod. Mae'r berfau ffurfdroedig perthnasol yn y brawddegau canlynol mewn print **trwm** a'r berfenwau mewn print **oren**.

(49) a. *Mae Siân yn **aiff** fory—Cymh. (45).
b. Mae Siân am **fynd** fory.
c. *Mae Siân am **aiff** fory.

(50) a. Roedd **wylo** yn gyffredin.
b. *Roedd **wylodd** yn gyffredin.

(51) a. Penderfynais ei **gipio**.
b. *Penderfynais ei **gipiodd/gipiaf**.
c. Cafodd **nofio** gan ei rieni.

- d. *Cafodd **nofiodd** gan ei rieni.

Mae rhai geiriau â gwahanol swyddogaethau er eu bod â'r un ffurf forffolegol. Er enghraifft, nid yw rhai geiriau Saesneg yn newid eu ffurf er i'w swyddogaethau a'u dosbarthiad o fewn brawddegau newid:

- (52) I will swim₁ my first swim₂ this year.

Berf yw swim₁. Gwelir mai berfau sy'n ramadegol yn y strwythur hwn yn ôl y prawf bwlch: *I will swim/see/go/laugh/shine*, ac nid enwau **I will coffee/Joe/sofa*. Enw yw swim₂, e.e. *my first tooth/pony/wallet/teacher*, ond nid **my first see/arrive/learn*. Mae'r broses o droi berfau'n enwau ac enwau'n ferfau yn gyffredin iawn yn Saesneg ac, fel canlyniad, ceir llawer o ferfau sy'n gallu cyflawni swyddogaeth enw, fel *swim / walk / ride*. Mae'r rhestr o enwau sy'n cael eu defnyddio fel berfau yn Saesneg yn faith ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dilyn yr un patrwm o ran eu swyddogaeth, sef ychwanegu gweithred sy'n golygu 'gwneud [enw]' neu 'gwneud fel [enw]'. Er enghraifft, ystyr *we waltz/jive/foxtrot* yw: rydym yn gwneud neu'n dawnsio'r *waltz/jive/foxtrot*; ystyr *chair the meeting* yw gweithredu fel *chair* 'cadeirydd' i'r cyfarfod.

Mae'r Gymraeg, fel llawer o ieithoedd eraill, yn gwahaniaethu rhwng rhannau ymadrodd drwy forffoleg ac mae'r dasg o ddadansoddi rhannau ymadrodd yn haws, gan ystyried enwau a berfau Cymraeg, o'i chymharu â'r Saesneg. Yn aml, mae newid swyddogaeth yn digwydd gyda morffoleg ddeilliannol (gw. Adran 18), gan ychwanegu olddodiaid berfol at enwau, e.e. *plu* → *pluo*, *dwrn* → *dyrnu*, eisteddfod → eisteddfota, siop → siopa. Ceir llawer mwy o enghreifftiau o newid dosbarthiadau geiriol yn y Gymraeg yn Rhan III o'r gyfrol hon ac yn P.W. Thomas (1996:613–680).

24 Argiau a berfau

Yn ogystal â chyflawni eu swyddogaethau gramadegol a chario'u hystyron geiriol, mae berfau ffurfdroedig yn rhan annatod o frawddegau. Mae angen nifer gwahanol o argiau gyda gwahanol ferfau er mwyn creu **cymal** (*clause*) ystyrllon. Mae argiau'r ferf yn cynnwys y **cyfranogwyr** (*participants*) ac unrhyw wybodaeth arall sydd ei hangen i gwblhau'r cymal (brawddeg syml).

Mae **berfau cyflawn** (*intransitive verbs*) yn cymryd un arg, sef y goddrych.

- (53) Berfau cyflawn
- Rhedaf.
 - Garddiai Marian.
 - Llithrodd Lowri.
 - Syllasant.

Mewn Cymraeg ffurfiol, deellir bod cyfranogwyr i'r ferf drwy'r ffurfdroad sy'n dangos y person

gramadegol, h.y. mae *Cysgaf* a *Cysgaf i* yn gyfystyr. Mae'r strategaeth hon yn gyffredin mewn ieithoedd, fel Sbaeneg, sy'n amgodi person ar y ferf, e.e. *corro* 'rhedaf' a *lloró* 'wylodd'. Felly, mae angen un arg i gwblhau'r berfau cyflawn enghreifftiol i gyd, sef y goddrych sy'n cytuno â'r forffoleg ferfol, er nad yw'r cyfranogydd wedi ei enwi yn (53a) nac yn (53d). Nid yw pob iaith yn defnyddio cytundeb y ferf i ddynodi'r goddrych, ond dyma'r system ramadegol gyffredin mewn ieithoedd Indo-Ewropeaidd.

Nid oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol ar y berfau i ffurfio cymal. Mae'r enghreifftiau yn (53) yn frawddegau gramadegol syml.

Mae **berfau anghyflawn** (*transitive verbs*), ar y llaw arall, yn cymryd mwy o argiau i greu cymalau.

- (54) Berfau anghyflawn
- Plannodd degeirian.
 - *Plannodd.
 - Agorodd Llew lwybr.
 - *Agorodd (Llew).
 - Rhedodd Rhiannon farathon.

Mewn rhai ieithoedd, ceir berfau sy'n cymryd mwy o argiau heb gefnogaeth unrhyw forffoleg neu farcwyr gramadegol arbennig, fel yn achos y Saesneg.

- (55)
- Annie gave Richard chocolates.
 - Nicolas buys Theo sweets.
 - Prynodd Nicolas dda-da i **Theo**.

Yn yr enghraifft Gymraeg gyffelyb yn (55c), mae angen yr arddodiad *i* (fel yn *i Gymru*, *i Fethesda*, *i gyd-ddyn*) er mwyn ychwanegu arg y derbynnydd (*recipient*), yn wahanol i'r Saesneg, sydd ddim angen unrhyw ddeunydd ieithyddol ychwanegol gyda'r berfau *buy* a *give*. Yn Saesneg, mae hefyd opsiwn i ychwanegu arg gan ddefnyddio arddodiad, e.e. *Annie gave chocolates to Richard*, *Nicholas buys sweets for Theo*. Pan fydd gan ferfau fwy nag un strwythur i'w argiau fel hyn, dywedir eu bod yn **eiledol** (*alternating*).

25 Dosbarthu geiriau ymhellach

Fel dangoswyd yn Adran 23, mae swyddogaeth, dosbarthiad a morffoleg geiriau yn gwahaniaethu rhannau ymadrodd. Nid rhannau ymadrodd yw'r unig ffordd o ddosbarthu geiriau, fodd bynnag. Mae sawl ffordd o gategoreiddio geiriau yn ôl gwahanol fathau neu ddosbarthiadau. Gellid ystyried geiriau o safbwynt eu hystyr, eu morffoleg, a'u 'lleoliad' wrth gyfuno â geiriau eraill o fewn ymadroddion, cymalau, a brawddegau. Er enghraifft, mae sawl ystyr berfol sy'n cyfeirio at newid cyflwr, fel *torri*, *malu*, *rhewi*, *tyfu*. Maent yn perthyn i ddosbarth o ferfau sy'n

disgrifio newid mewn cyflwr i un o'u hargiau yn y Gymraeg—y goddrych gyda berfau cyflawn a'r gwrthrych gyda berfau anghyflawn.

- (56) a. Torrodd gwydryn. Berf gyflawn
 b. Torrodd Olwen wydryn. Berf anghyflawn

Mae'r diffyg treigladd yn (56a) yn awgrymu mai'r gwydryn yw'r goddrych ac felly nad oedd **gweithredydd** (*agent*) allanol wedi achosi'r newid cyflwr (nid yn uniongyrchol, o leiaf). **Goddefydd** (*patient*) yw'r goddrych *gwydryn*, felly. Cysyniadau semantig yw **gweithredydd**, **goddefydd**, a **derbynnnydd** (fel *Theo* yn (55c)). Mae llawer o labeli semantig eraill i gyfranogwyr traethiadau ac nid yw'r rhain yn cyfateb yn union i'r cysyniadau cystrawennol o oddrych a gwrthrych; mae'r rolau semantig yn ddibynnol ar ystyr (neu 'semanteg') y ferf (ac felly'r weithred) dan sylw. Mae gweithredoedd eraill sy'n rhannu rhai nodweddiadau semantig â *torri*, fel gweithredoedd sy'n disgrifio newid mewn cyflwr, ac yn rhannu'r patrwm cystrawennol (neu forffogystrawennol).

- (57) a. Rhewodd / Tyfodd planhigyn.
 b. Rhewodd / Tyfodd Olwen blanhigyn.

Nid pob ferf sy'n dilyn yr un patrwm:

- (58) #Ysgrifennodd llyfr.
 (59) Ysgrifennodd Tudur.
 (60) a. Ysgrifennodd Tudur lyfr.
 b. Ysgrifennodd lyfr.

Yn wahanol i'r *gwydryn* yn (56) a'r planhigyn yn (57), nid yw'r llyfr yn (58) yn dderbyniol fel unig arg y ferf *ysgrifennu*. Daw *gwydryn* yn syth ar ôl y ferf gyflawn ac mae'n wrthrych (*wydryn*) i'r ferf; daw ar ôl y goddrych gyda berf anghyflawn yn (56), gyda'r un effaith i'w gweld ar y *gwydryn* a'r *planhigyn* yn (57) ym mhob achos—mae'r weithred yn newid eu cyflwr o fod. Mae'n bosibl ffurfio brawddeg dderbyniol ag un arg a'r ferf *ysgrifennu*, fel sy'n amlwg o enghraifft (59), ond nid yw goddrych y ferf gyflawn hon yn cyfateb i wrthrych y ferf anghyflawn (60a) fel y mae'r *gwydryn*. Mae *Tudur* yn weithredydd yn y ddwy enghraifft—yr un sy'n gyfrifol am y weithred—ac yn oddrych yn y ddwy enghraifft; mae *Tudur* yn dod yn syth ar ôl y ferf anghyflawn.

Mynega (60b) yr un ystyr â (60a), ond heb enwi'r gweithredydd. Ymddengys yr enghraifft yn debyg iawn i (58), er bod un yn dderbyniol yn yr iaith safonol a'r llall yn annerbyniol. Mae'r tebygrwydd yn codi oherwydd y hyblygrwydd a welir mewn ieithoedd â morffoleg ffurfdroadol i nodi cyfrannydd drwy gytundeb yn unig. Yn hytrach na defnyddio'r rhagenw *o* neu *e*, deallir cyfrannydd 3UN fel gweithredydd ac fel goddrych (60b). Yr unig arwydd o'r gwahaniaeth rhwng (58) a (60b) yw'r treigladd yn y gair *llyfr*. Mae'r treigladd yn digwydd i wrthrych berf gryno, ffurfdroedig. Yn wahanol i'r treigladdau yn Rhan III, nid gair yw'r sbardun treiglo yn yr achos hwn ond cystrawen, gan fod berfau anghyflawn, cryno yn sbarduno treigladd meddal yn y gwrthrych (cyn belled â'i fod yn dilyn y ferf fel yn (60a) a (60b)). Mae hyn yn dangos y berthynas rhwng cystrawen a threiglo, ond gw. P.W. Thomas (1996:703–704) am restr pellach o

sbardunau cystrawennol.

Mae ymadroddion berfol, sy'n cynnwys y berfenwau *torri*, *rhewi*, *tyfu* yn **eiledu** (*alternate*) yn yr un ffordd o safbwynt y gwahaniaeth ystyr rhwng y cyflawn a'r anghyflawn a strwythur yr argiau. Dywedir felly eu bod yn ffurfio rhan o'r un dosbarth berfol.

Nid yw'r dosbarthiadau berfol yn cyfateb o un iaith i'r llall: nid yw geiriau 'cyfystyr' yn cyfateb neu'n cyfieithu'n berffaith rhwng ieithoedd. Dangosodd Levin (1993) gannoedd o batrymau eiledol mewn berfau Saesneg, gan gynnwys y dosbarth 'newid mewn cyflwr' a enghreifftiwyd yn y Gymraeg uchod. Mae *freeze* / *break* / *grow* yn eiledu yn yr un ffordd â'r Gymraeg er nad yw'r drefn eiriol yr un fath:

- (61) a. The plant [froze / grew / broke].
b. Fernanda [froze / grew / broke] the plant.

Ar y llaw arall, nid yw pob berf yn cyfateb o ran ei dosbarth cystrawennol:

- (62) a. Siomais. 1UN yw'r goddrych a'r goddefwr
b. Siomais Tony. Tony yw'r gwrthrych a'r goddefwr
- (63) a. #I [disappointed / shamed]. Annerbyniol fel goddefwr.
b. I [disappointed / shamed] Tony. Tony yw'r gwrthrych a'r goddefwr

Nid rhannau ymadrodd yw diwedd y gân wrth ystyried sut i ddosbarthu geiriau, felly, nac wrth ystyried perthnasau cystrawennol iaith.

26 Cyfansoddion

Uchod, cafwyd cyflwyniad i rannau ymadrodd ac i strwythur argiau a berfau, ond mae mwy o unedau eto o fewn brawddegau.

- (64) a. gwelais (i) arwydd
b. gwelais (i) arwydd enfawr

Yn (64a), mae'r enw *arwydd* yn wrthrych i'r ferf *gwelais* ac mae'n ateb y cwestiwn *beth welais i?* Yn (64b), mae'r gwrthrych yn *arwydd enfawr* ac mae'r enw *arwydd* a'r ansoddair *enfawr* gyda'i gilydd yn ateb yr un cwestiwn, *beth welais i?* Mae'r enw a'r ansoddair wedi ffurfio uned gyda'i gilydd ac felly mae'r gwrthrych wedi ei lunio o fwy nag un gair.

Hyd yn hyn, dim ond enghreifftiau syml o un gair fesul elfen frawddegol a ddefnyddiwyd, ond mae brawddegau naturiol yn cynnwys llawer mwy o gymhlethdod strwythurol.

(65) Gwelodd fy mrawd hŷn uwd poeth mewn powlen wen.

Mae'r frawddeg yn (65) yn hirach fyth, gyda mwy o eiriau i bob arg. Yr ateb i *beth welodd fy mrawd* y tro hwn yw *uwd poeth mewn powlen wen*, a dyma'r gwrthrych. Oddi mewn i'r gwrthrych, mae unedau llai. Defnyddir bachau petryal [] i ddangos **cyfansoddion** (*constituents*) neu bob rhan o frawddeg sy'n ffurfio uned gyda'i gilydd.

(66) Gwelodd [fy mrawd hŷn] [uwd poeth mewn powlen wen].

Gellir dangos fod *uwd poeth mewn powlen wen* yn ffurfio cyfansoddyn drwy ddefnyddio'r prawf cwestiwn (*beth a welodd fy mrawd*), ond gellid hefyd ddadlau bod *uwd* neu *uwd poeth* heb yr wybodaeth ychwanegol yn bodloni'r prawf cwestiwn. Yn amlwg, i siaradwyr brodorol, nid yw *[*poeth mewn powlen wen*] yn ffurfio uned synhwyrol o'r iaith:

(67) Gwelodd [fy mrawd hŷn] [uwd] *[poeth mewn powlen wen].

Y rheswm dros hyn yw bod y **gair pen** (*head word*) ar goll o'r uned anramadegol. Mae'n rhaid i'r ansoddair *poeth* ddisgrifio enw ac felly mae'n rhaid bod [uwd poeth] yn gyfansoddyn gyda'r enw yn chwarae rhan y gair pen, h.y. mae'r ansoddair yn addasu'r enw *uwd*, a math o uwd sydd dan sylw, nid math o rywbeth poeth. Mae'r frawddeg yn dal yn ramadegol heb yr ansoddair, ond nid heb yr enw, e.e. *gwelodd fy mrawd hŷn uwd*, ond nid **gwelodd fy mrawd hŷn poeth/boeth*. Rhan ymadrodd y gair pen sy'n pennu categori'r uned i gyd, felly **y madrodd enwol** (*noun phrase; NP*) yw *uwd poeth*. Mae ymadroddion (*phrases*) yn gallu cyflawni yr un swyddogaethau â'u geiriau pen, felly mae gair fel *uwd*, sy'n enw, hefyd yn ymadrodd enwol syml ac yn air pen, er bod gweddill yr ymadrodd yn wag.


Perthyn i'r gwrthrych y mae gweddill yr uned [*mewn powlen wen*]. Gellir profi hyn drwy arbrofi â'r newid mewn ystyr wrth wahanu'r elfennau. Er enghraifft, mae'r canlynol yn bosibl, ond nid yw'r ystyr yn gweddu i'r sefyllfa fwyaf tebygol:

(68) #gwelodd [fy mrawd hŷn] [uwd poeth] [mewn powlen wen]

Yma, yn (68), mae awgrym fod yr **y madrodd ad-ddodiadol** (*adpositional phrase; PP yma*)—yr arddodiad *mewn* yw'r gair pen—yn addasu ystyr y ferf, sy'n golygu bod y weithred yn digwydd mewn powlen wen. Heb feddwl am fyd ffantasi, sy'n annhebygol o fod wedi codi heb gyddestun arbennig iawn, nid yw *fy mrawd hŷn* yn debygol o fod tu mewn i bowlen wen. Mae'n rhaid felly i'r gwrandaŵr ddeall mai'r uwd sydd o fewn y bowlen. Gwelir yr ymadrodd enwol *powlen wen* â'r enw *powlen* a'r ansoddair *wen* o fewn yr ymadrodd arddodiadol. Ceir felly'r dadansoddiad canlynol o'r gwrthrych:

(69) gwelodd [fy mrawd hŷn] [uwd poeth [mewn [powlen wen]]]

Mae'r system o gynrychioli cyfansoddion o fewn bachau petryal yn mynd yn gymhleth ar lefelau manwl, felly mae ieithyddion yn tueddi i ddefnyddio diagramau coeden i gynrychioli strwythur cymalau a brawddegau. Dyma enghraifft:



Mae'r goeden yn dangos cangen i bob ymadrodd ac yn yr enghraifft hon gwelir ymadrodd ad-ddodiadol o fewn ymadrodd enwol. Yn y diagram, mae'r trionglau'n dangos bod dadansoddiad pellach o strwythur yr ymadrodd enwol, ond nad yw'r strwythur yn berthnasol i'r hyn sydd dan sylw.

Pan roddir pwyslais arbennig ar y cyfansoddyn, mae'r geiriau i gyd oddi mewn i'r elfen yn cael eu heffeithio.

(70) uwd poeth mewn powlen wen (a) welodd fy mrawd hŷn

Mae'r cyfansoddyn wedi ei blaenu fel un uned ac yn dod o flaen y ferf gryno ffurfdroedig i roi'r un ystyr â (69) uchod (gw. Adran 36 am fwy ar y defnydd o flaenu).

Mae cyfeiriad at y goddrych *fy mrawd hŷn* wedi ei nodi ar y ferf unwaith eto, fel ar y ffurfdroad 1UN *-ais* yn (64), ond mae'r goddrych wedi ei enwi'n llawn y tro hwn. Nid oes angen enwi'r goddrych *i* 1UN yn (64) gan ddefnyddio **rhagenw** (*pronoun*) oherwydd bod y rhagenw *i* yn rhannu'r un wybodaeth ag sy'n rhan o ffurfdroad y ferf. Mae rhagenwau'n cyfeirio yn ôl at gyfrannydd sydd eisoes yn hysbys i'r gwrandäwr ac, fel arfer, gellir cymryd bod y person cyntaf unigol (1UN) yn hysbys gan fod hyn yn cyfeirio at y siaradwr ei hun, fel yn (64). Gall rhagenwau ddisodli enwau ac ymadroddion enwol fel argiau, e.e. *gwelodd o uwd poeth mewn powlen wen*. Dyma brawf arall fod *fy mrawd hŷn* yn ffurfio cyfansoddyn; mae rhagenw yn disodli'r cyfan, gan nad yw *[fy o hŷn] na *[o hŷn] a.y.b. yn ramadegol nac yn ystyrllon.

Prawf cyfansoddion (*constituency test*) felly yw unrhyw brawf fod ymadroddion sy'n cynnwys un neu fwy o eiriau yn ffurfio unedau'r frawddeg.

Mae ymadroddion sy'n cynnwys un gair neu fwy yn gyfansoddion ac mae'r gair pen yn rhannu ei swyddogaeth â'r ymadrodd sy'n gallu cynnwys ymadroddion eraill fel **dibeniad** (*complement*), e.e. mae'r ymadroddion ad-ddodiadol hyn yn cynnwys ymadroddion enwol fel dibeniadau [mewn [powlen wen]], [mewn [pum munud]].

Er bod cyfansoddion ym mhob iaith, nid yw'r profion yr un fath ym mhob iaith. Yn rhannol, mae hyn oherwydd y gwahaniaeth mewn trefn geiriau o fewn ymadroddion, , ac felly mewn brawddegau. Er enghraifft, nid yw'r prawf bwlch am ymadrodd ansoddeiriol Saesneg *this is a [] one* yn gweddu i'r Gymraeg.

(71) This is a [yellow / loud / fortunate middle-aged / perfectly imperfect] one.

Mae cystrawen y Gymraeg yn gofyn am brawf fymryn yn wahanol:

(72) Un [isel / hir / hawdd ei (g)weld] yw hyn.

Nid yw'r fannod amhenodol *a(n)* yn bodoli yn y Gymraeg, felly nid yw trefn eiriol y ddau brawf yn cyfateb. Mae ymadroddion enwol Cymraeg, ar y cyfan, yn dilyn y drefn **enw + ansoddair**, neu **enw + enw sy'n goleddfu** (*modify*), e.e. bryn mawr, pupur coch, tŷ fferm, cerbyd cwmni. Mae ambell ansoddair yn achosi i'r drefn newid, ond eithriadau yw'r rhain, e.e. hen (ansoddair) + **enw** (wedi ei dreiglo): hen gar, hen ffrind, hen dŷ fferm. Mae Saesneg yn defnyddio'r drefn **ansoddair + enw** mewn ymadroddion enwol fel rheol, e.e. big hill, red pepper, company vehicle, old car, old friend, old farmhouse.

27 Ymadroddion, cymalau a brawddegau

27.1 Adeiladu a threfnu brawddegau

Ymadroddion yw'r elfennau sy'n ffurfio brawddegau. Gwelwyd eisoes frawddegau syml â geiriau unigol fel ymadroddion ac argiau, enghraifft (73a), yn ogystal â brawddeg syml ag ymadroddion cymhleth fel argiau (73b).

- (73) a. Rhannodd [Leanne] [lun] .
b. Rhannodd [cyn-arweinydd Plaid Cymru] [lun o'i beic newydd] .

Gwelwyd hefyd fod modd blaenu elfennau ac felly newid trefn y frawddeg fel yn (70):

- (74) Llun o'i beic newydd (a) rannodd Leanne.

Er mai trefn berf-goddrych-gwrthrych (VSO) sydd yn y brawddegau symlaf yn Gymraeg, mae (74) yn dangos fod trefn gwrthrych-berf-goddrych hefyd yn bosibl. Nid yw pob iaith yr un mor hyblyg. Er enghraifft, mae gan y Saesneg brif drefn wahanol i'w brawddegau, sef goddrych-berf-gwrthrych (SVO).

- (75) a. Leanne shared a picture SVO
b. *A picture shared Leanne Dim OVS mewn Saesneg safonol

Nid yw pob tafodiaith Saesneg yn caniatáu i'r gwrthrych flaenu heb ddeunydd ieithyddol ychwanegol.

- (76) a. **it was** a picture **that** Leanne shared
b. A picture Leanne shared Saesneg tafodieithol

Er bod effaith debyg wedi ei chreu yn ystyr y frawddeg, mae strwythur y frawddeg yn llai syml

pan fydd yn pwysleisio'r gwrthrych.

Mae llawer o ieithoedd y byd yn dilyn yr un drefn eiriol â'r iaith Saesneg, fel Sbaeneg a Tsieinëeg Mandarin (Dryer 2013a). Nid yw'r Gymraeg yn anarferol o ran ei threfn chwaith; mae'r strwythur VSO wedi bod yn bresennol yng nghanen Geltaidd y teulu Indo-Ewropeaidd tu hwnt i'r Gymraeg. Un nodwedd o'r ieithoedd Semitig fel Arabeg ac Aramaeg yw eu trefn VSO hefyd. Gweler Dryer & Haspelmath (2013), y *World Atlas of Language Structures*, am wybodaeth fanwl am strwythurau ieithoedd y byd gan gynnwys eu trefn eiriol yn ôl math ac iaith. Nid yw pob iaith yn dangos yr un hyblygrwydd neu anhyblygrwydd o ran eu trefn, fodd bynnag; mae hynny'n dibynnu'n llwyr ar reolau cystrawennol yr iaith benodol.

Mae'r Gymraeg yn iaith eithaf hyblyg o ran trefn ei geiriau, â threfn berf-goddrych-gwrthrych fel trefn sylfaenol mewn brawddegau syml (ond mae yna ieithoedd sydd yn llawer mwy hyblyg oherwydd eu morffoleg helaeth, e.e. Rwsieg). Serch hyn, nid y drefn hon yw'r drefn fwyaf cyffredin yn yr iaith lafar gyfoes. Mae Cymraeg llafar yn dueddol o wahanu'r ymadrodd berfol yn ferfenw sy'n cario ystyr geiriol y ferf a **berf gynorthwyol** (*auxiliary verb*), ffurfdroedig, sy'n cynnwys y wybodaeth ramadegol.

(77) nes i yrru neges gyna Cymraeg llafar tafodieithol neu ysgrifenedig anffurfiol

Mae'r ferf gynorthwyol *gwneud*, ar ffurf y person cyntaf UNIGOL *nes* (o'r ffurf *gwnes*) yn dod ar ddechrau'r frawddeg. Y goddrych sy'n dilyn, ar ffurf rhagenw sy'n cyfateb i'r person yn ffurfdroad y ferf gynorthwyol. Yna, mae'r berfenw *gyrru* yn dilyn gyda'r wybodaeth ystyrol. Mae'r gwrthrych *neges* yn dilyn ac yna ymadrodd adferfol sy'n cyfeirio at yr adeg y digwyddodd y weithred a enwyd gan y berfenw. Wrth ddadansoddi'r frawddeg anffurfiol, lafar, daw'r drefn berf gynorthwyol-goddrych-berfenw-gwrthrych (AuxSVO) i'r amlwg (cymh. (45) yn Adran 23.1 sydd â'r un drefn).

Mae'r strwythur yn cymhlethu, ond dyma'r gystrawen amlycaf yn yr iaith lafar; gw. Borsley, Tallerman & Willis (2007:39–47) am ddadansoddiad manwl o gystrawen cymalau sy'n dechrau â'r ferf gynorthwyol. Berfau cryno, sy'n cynnwys ystyr geiriol y ferf yn ogystal â'r ffurfdroad sy'n amgodio gwybodaeth ramadegol, yw'r rhai mwyaf cyffredin yn yr iaith ffurfiol ac ysgrifenedig.

27.2 Traethiad o fewn y cymal

Cyfeiriwyd eisoes at gymalau, a nodwyd eu bod yn frawddegau syml. Er bod y disgrifiad yn gywir, ceir gwell diffiniadau sy'n gwneud strwythur y cymal yn hysbys o fewn cystrawen gymhleth.

(78) Trodd y dewin ei bair. Un cymal, brawddeg syml.

Mae'r cysyniad o gymal yn ddibynnol ar gysyniad y goddrych fel 'pwnc' y frawddeg (ond gw. Rhan V am 'bynciau' ac am strwythuro gwybodaeth o fewn brawddegau). Mae'r cymal yn cynnwys goddrych a rhyw wybodaeth am y goddrych hwnnw. Y traethiad yw'r wybodaeth sy'n cael ei gynnig am y goddrych. Fel arfer, berf yw gair pen y traethiad ac felly ymadroddion berfol sy'n traethu mewn brawddegau, yn aml. Dyma a geir yn (78), lle mae *trodd ei bair* yn traethu am y *dewin*, sef y goddrych.

(79) Cwypodd y llygoden.

Caiff cymal ei ffurfio o draethiad â berf gyflawn fel yn (79) neu â berf anghyflawn fel yn (78) â'r gwrthrych *ei bair*.

Mewn rhai ieithoedd nid oes angen ymadrodd berfol i lunio cymal ac felly frawddeg syml dderbyniol. Yn y Gymraeg, ceir traethiad heb ferf mewn rhai cymalau arbennig, cyfyngedig:

- (80) a. Gwell codi.
 b. Nes penelin nag arddwrn.
 c. Rhydd i bawb ei farn.
 d. Gwyn eu byd. Enghreifftiau o P.W. Thomas (1996:396–8)

Yn draddodiadol, gelwid y cymalau hyn yn *frawddegau enwol*. Mae'r traethiad ym mhob achos yn dod cyn 'pwnc' y cymal, e.e. mae **ei farn** (y pwnc) yn rhydd i bawb, **codi** yw'r hyn y byddai'n well ei wneud.

Fel rheol, nid yw Rwsieg yn defnyddio berf ffurfdroedig mewn rhai cymalau yn yr amser presennol. Mae rhai ieithoedd eraill hefyd yn caniatáu cymal di-ferf dan amodau cyfyngedig:

- (81) a. Moskva gorod.
 Moscow dinas
 "Dinas yw Moscow."
 b. Ona vrač.
 3UN.B meddyg
 "Meddyg yw hi" Rwsieg (Fennell 1961).

- (82) Ay beyaz.
 lleuad gwyn
 "Mae'r lleuad yn wyn." Twrceg

Er bod gan y Gymraeg gymalau sy'n cynnwys traethiad di-ferf, nid oes modd mynegi'r brawddegau Rwsieg a Thwrceg yn yr un modd yn Gymraeg. Hynny yw, nid pob brawddeg ddi-ferf sy'n ramadegol, e.e. *gwyn lleuad, *Moscow ddinas. Mae rheolau arbennig ar amodau'r traethiad di-ferf mewn Twrceg, Rwsieg a Chymraeg.

Brawddeg syml yw brawddeg ac iddi un cymal yn unig. Mae sawl ffordd o gyfuno cymalau. Y symlaf yw defnyddio **cysyllteiriau cydradd** (*coordinating conjunctions*) fel *a(c)*, *neu* ac *ond* (gw. P.W. Thomas 1996:461–66 am restr gyflawn o gysyllteiriau Cymraeg).

- (83) a. Trodd y dewin ei bair **ac** yfodd ei de.
 b. Trodd y dewin ei bair, **ond** cwypodd y llygoden.
 c. Symudodd hi ymlaen **neu** symudodd ef yn ôl.

Nid yw'r brawddegau yn (83) yn syml am eu bod yn cynnwys dau gymal yr un. Mae'r berthynas rhwng y cymalau yn gydradd oblegid y cysyllteiriau cydradd, h.y. mae eu statws yn eithaf hafal ac nid oes yr un ohonynt yn ddibynnol ar y cymal arall. Cymalau cydradd (*coordinate clauses*) yw'r rhain.

27.3 Cyfuno cymalau: brawddegau cymhleth

Pan mae'r berthynas rhwng dau gymal o fewn brawddeg yn anghyfartal, ceir brawddeg gymhleth. Mae nifer o wahanol strwythurau â pherthynas anghyfartal rhwng eu cymalau, ond maent i gyd yn frawddegau cymhleth eu cystrawen.

Mae un cymal bob amser yn **brif gymal** (*main clause*; neu gymal matrices *matrix clause*) a'r gweddill yn **gymal isradd** (*subordinate clause*). Mae rhai isgymalau yn ofynnol; mae angen dibeniad ar strwythur argiau'r ferf yn y prif gymal.

- (84) a. Dywedodd Maggie [nad oedd Bob wedi cyrraedd].
b. Gofynnodd Dewi [iddi adael].
- (85) a. Ceri decided [that she would sleep].
b. Cenwyn hopes [that the weather will be good].

Nid yw'r brawddegau'n ramadegol nac yn gyflawn o ran ystyr heb yr isgymalau, e.e. **Dywedodd Maggie*. **Ceri decided*. Yn wahanol i'r cymalau cydradd, nid yw'r isgymalau yn ffurfio brawddegau syml yn annibynnol: **Iddi adael*. **That the weather will be good*.

Mae amrywio, rhwng ieithoedd, yn y ffordd y caiff isgymalau eu trin. Mewn rhai ieithoedd mae **geirynnau** (*particles*) arbennig i gyflwyno isgymalau. Mae *that* yn *Ceri decided that she would sleep* yn eiryn dibeniadol (*complementiser*) sy'n cyflwyno'r isgymal. Mae nifer o eirynnau eraill yn Saesneg, fel *that*, *for*, *if* a.y.b. sydd yn ymddangos cyn isgymalau. Mae geirynnau'r Gymraeg fymryn yn wahanol. Fe'u gelwir yn eirynnau rhagferfol am eu bod yn ymddangos o flaen berfau ffurfdroedig: a, y(r), mi, fe, na(d), ni(d). Nid yw pob geiryn rhagferfol yn ymddangos cyn isgymalau, e.e. **Dywedodd Maggie* [*mi/fe adawodd ei chôt*], ond *Dywedodd Maggie y gadawodd ei chôt*. Gweler [Borsley, Tallerman & Willis \(2007:32–8\)](#) am ddisgrifiad o'r geirynnau rhagferfol.

Mae gwahanol ieithoedd felly â gwahanol brofion o gymalau isradd ac yn llunio brawddegau cymhleth mewn gwahanol ffordd. Nid mewnosod cymal o fewn un arall yw'r unig ffordd o lunio brawddeg gymhleth; gweler [Tallerman \(2007:83–9\)](#) am wahanol strategaethau o fewn ieithoedd y byd.


28 Dadansoddi cystrawen

28.1 Fframweithiau

Wrth astudio ieithoedd, mae'n rhaid defnyddio'r ffurfiau arwynebol er mwyn dadansoddi strwythurau a pherthnasau o fewn iaith. Mae'n rhaid nodi'r gwahanol gyfuniadau o eiriau, ymadroddion, cymalau a brawddegau sy'n codi a'u cymharu er mwyn profi sut maent wedi eu strwythuro o fewn eu system ramadegol ac mae'n rhaid eu cymharu ar draws ieithoedd

y byd er mwyn deall y cyfyngiadau sydd ar iaith ddynol. Er mwyn cadw'r holl amodau a rheolau mewn cof ac yn eglur i bawb sy'n gweithio yn y maes, mae ieithyddion yn ffurfio fframweithiau damcaniaethol sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae'r ieithydd yn dychmygu bod y system ieithyddol yn gweithio.


Mae sawl **fframwaith gramadegol** adnabyddus sy'n seiliedig ar ymchwil Noam Chomsky ers ei gyfrol “*Syntactic Structures*” (Chomsky 1957), ond yr un mwyaf llewyrchus o'r rheini yn ystod y chwarter canrif olaf yw Minimaliaeth (*Minimalism*; “*The Minimalist Program*”, Chomsky 1995). Nodwedd ganolog y fframwaith hwn yw'r syniad o gyfuno elfennau fesul cam. Ceir enghreifftiau o goed cystrawennol o'r egwyddor hon sydd â dwy gangen yn unig yn uno ar bob lefel.



Ffigur 14: Coeden yn dilyn fframwaith Chomskyaidd *Geraint knows the way*

Dangosir enghraifft Saesneg ar ffurf coeden gystrawennol yma. Mewn brawddegau cymhleth, bydd mwy o ganghennau'n cael eu hychwanegu at y goeden, eto fesul un, ond mae trefn benodol i'r ffordd y mae'r nodweddion gramadegol yn cyfuno. Y broblem amlwg gyda fframweithiau fel hyn yw ymgorffori gwahanol enghreifftiau o drefnau geiriol o fewn yr un iaith gyda'r ramadeg ffurfiol, yn ogystal â chynrychioli cystrawen ieithoedd sydd â threfn eiriol gwahanol i'r drefn yn Saesneg fel prif drefn eu cymalau a'u brawddegau. Mae Borsley, Tallerman & Willis (2007) yn cynnig ac yn ystyried sawl dadansoddiad posibl i gystrawen ferfol y Gymraeg o fewn gwahanol fframweithiau, gan gynnwys rhai o'r tu hwnt i draddodiad Chomskyaidd.

Ceir fframweithiau gramadegol (cystrawennol) sy'n caniatáu trefn eiriol rydd, fel HPSG (*Head-driven Phrase Structure Grammar*) ac LFG (*Lexical-Functional Grammar*), ac sydd â 'strwythurau gwastad'. Ceir felly goed cystrawennol sydd â sawl cangen a nod ar yr un lefel:



Ffigur 15: Strwythur 'gwastad' (*flat structure*) *Teimlodd Rhiannon ias*

Wrth gwrs, mae'r diffyg cytundeb ar un fframwaith gramadegol ymysg ieithyddion sy'n astudio cystrawen yn awgrymu nad oes un fframwaith heb rwystrau neu problemau sydd heb eu

datrys eto. Mae'r problemau sy'n deillio o orfod symud elfennau i ganghennau penodol mewn fframweithiau Chomskyaidd yn troi'n broblemau o gyfyngiadau ar nodweddion sylfaenol fframweithiau fel HPSG ac LFG sydd wedi eu ffurfio ar sail cyfyngiadau (*constraint-based*).

28.2 Cystrawen o fewn y gramadeg

Y tu hwnt i'r coed, mae fframweithiau gramadegol yn disgrifio'r gramadeg fel un system sydd â sawl rhan. Dim ond un o'r rhannau hyn yw'r modiwl cystrawen. Nid oes fframweithiau gramadegol poblogaidd heb bwyslais sylweddol ar gystrawen fel modiwl canolog o'r gramadeg, gan fod cystrawen yn gyfrifol am drefnu ei hunedau llai i gymalau a brawddegau. Ar y llaw arall, mae'r pwyslais ar ffurf neu natur y modiwl cystrawen yn newid o un fframwaith i'r llall. Yn ôl Minimaliaeth, mae'r gystrawen yn eang, â man arbennig i bob nodwedd ramadegol a sgerbwd penodedig i strwythur yr iaith dan sylw. Mae'r forffoleg yn chwarae rhan lai o lawer yn ôl y fframwaith hwn, gan ddarparu morffemau ar gyfer y templed cystrawennol. Ceir fframweithiau sy'n neidio modiwl y forffoleg bron yn llwyr, gan lunio geiriau ar lefel y gystrawen yn yr un modd ag y ffurfir brawddegau (Morffoleg Wasgaredig; *Distributed Morphology*—Halle & Marantz 1993). Ceir hefyd gryn anghytundeb ynghylch maint yr eirfa, gyda rhai'n rhoi mwy o bwyslais ar wybodaeth gynhwysfawr o eirfa wedi ei storio ynghyd â rheolau ac eithriadau cymhleth. Gwahanol gysyniadau o systemau posibl yw'r fframweithiau oll. Drwy brofi ac arbrofi â'r gwahanol bosibiliadau mae'r maes yn symud yn ei flaen, a dyma sut mae ieithyddion yn gweithio tuag at gytundeb ar seiliau cyffredin iaith—drwy weithio o wahanol safbwyntiau ar wahanol agweddau o'r un system.

Er bod cytundeb—ar y cyfan—ynghylch modiwlau'r gramadeg, nid oes cytundeb ar faich gwaith y modiwlau nac ar yr union drefn y mae'r wybodaeth yn cael ei phasio o un i'r llall neu a yw pob modiwl ieithyddol yn gweithredu ar unwaith. Mae'r gyfrol hon yn cyflwyno agweddau ar y prif fodiwlau, sef seineg, ffonoleg, morffoleg a/neu geirfa, cystrawen, a semanteg, ond heb geisio ffafrio un fframwaith damcaniaethol dros y gweddill.

29 Crynodeb

Cystrawen

Yn y Rhan hon, cafwyd cyflwyniad i gystrawen fel strwythur ieithyddol. Dangoswyd y ffurfiau mae ieithyddion yn eu defnyddio er mwyn trafod cystrawen, fel glosau rhyn-glinellog, defnydd y symbolau * a # a'r cysyniad o anramadegolrwydd.

Er bod sawl ffordd wahanol o ddadansoddi cystrawen—a fframweithiau damcaniaethol yn deillio ohonynt—mae profion ieithyddol fel y prawf bwlch yn datgelu patrymau pendant o fewn ieithoedd.

Yma, roedd hefyd ehangiad ar rannau ymadrodd fel dosbarthiadau geiriol ac am eu swyddogaethau o fewn brawddegau a chymalau, e.e. pan mae enw hefyd yn arg, yn oddrych ac yn weithredydd, gan ddibynnu ar y dadansoddiad sydd angen. Dangoswyd sut mae rhannau ymadrodd yn ymddwyn fel cyfansoddion gan ddefnyddio bachau petryal i wahaniaethu strwythur cystrawennol yn ôl ystyr ac yna sut mae'r cyfansoddion yn cydweithio wrth adeiladu ymadroddion, cymalau a brawddegau.

Mae dealltwriaeth ieithyddion o gystrawen yn effeithio ar eu dealltwriaeth o ramadeg ar y cyfan, felly mae fframweithiau cystrawennol yn bwysig i safiadau damcaniaethol ar bob lefel arall o ramadeg sy'n delio a strwythuro, fel ffonoleg (Rhan II) a semanteg, sef un o bynciau'r rhan nesaf.

Cwestiynau

1. A yw rhagenwau ac enwau Cymraeg yn pasio profion bwlch ansoddeiriol? Ceisiwch esbonio pam. Cymharwch â'r Saesneg *the shirt is so* [*ansoddair*] e.e. blue, spotty ond hefyd *the shirt is so me / so you / so Jonathan*.
2. A oes eiledu â berfau eraill yn y Gymraeg, ar wahân i *torri*, *rhewi* a *thyfu*?
3. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cymal ac ymadrodd?

Darllen pellach

Cyfrwng Cymraeg

Richards, M. 1938. *Cystrawen y frawddeg Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. O.N. Noder y gwahaniaethau yn nefnydd y termau 'cymal' a 'brawddeg'.

Thomas, P.W. 1996. *Gramadeg y Gymraeg*. Gwasg Prifysgol Cymru. 6 "Y Frawddeg".

Thorne, D. A. 1985. *Cyflwyniad i astudio'r iaith Gymraeg*. Cyhoeddwyd ar ran Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru gan Wasg Prifysgol Cymru. "Cyfluniad." Tt. 159–163.

Cyfrwng Saesneg

Borsley, R. D., M. Tallerman & D. Willis. 2007. *The Syntax of Welsh*. Cambridge Syntax Guides. Cambridge University Press

Dryer, M. S. & M. Haspelmath (goln.). 2013. *World Atlas of Language Structures (WALS) Online*. Leipzig: Max Planck Institute for Evolutionary Anthropology. URL <https://wals.info>

Tallerman, M. 2007. *Understanding syntax*. Understanding Language. Hodder Arnold. 2il ol.

Rhan V

Ystyr

30 Cyflwyniad: Creu ystyr

SILVA NURMIO A LAURA ARMAN

Mae semantegwyr a phragmategwyr yn astudio ystyr o wahanol safbwyntiau, er bod y ffin rhwng y ddau faes yn gorgyffwrdd mewn rhai achosion. **Semanteg** (*semantics*) yw'r astudiaeth o ystyr geiriau a brawddegau ac mae **pragmateg** (*pragmatics*) yn canolbwyntio ar ystyr o safbwynt y **siaradwr(aig)** a'r **gwrandaŵr(aig)**, sef ystyr mewn cyd-destun, neu'r ystyr y mae'r siaradwr yn bwriadu ei gyfleu. Gall **ystyr brawddeg** (*sentence meaning*) (hefyd **ystyr gair**; *word meaning*) fod yn wahanol i **ystyr siaradwr** (*speaker meaning*), felly. Ystyrier:

(86) Mae'n oer, on'd ydy?

Ystyr brawddeg (86) yw fod y tywydd yn oer. Ond gall rhywun ddweud hynny'n chwaraegar ar ddiwrnod poeth iawn gan honni'r gwrthwyneb i'r frawddeg ('mae'n boeth'); dyma ystyr siaradwr, sy'n wahanol i ystyr brawddeg yn yr enghraifft hon. Mae pragmateg yn astudio **llefariadau** (*utterances*) mewn cyd-destun, tra bod semanteg yn canolbwyntio ar ystyron brawddegau. Mae'r ddau beth yn gysylltiedig, fel y trafodir yn Adran 31 'Beth yw semanteg?'

Mae ystyr yn deillio o sawl lefel ieithyddol wahanol. Yn gyntaf, mae lefel y forffem, ac yna mae lefel y gair. Fel y gwelwyd yn Rhan III, mae pob morffem yn cyfrannu gwybodaeth o ryw fath. Mae Adran 32 isod yn cyflwyno'r syniad bod rhai morffemau'n cario mwy o ystyr nag eraill.

Ym maes **semanteg** mae'r syniad o ystyr gair yn cael ei wahanu oddi wrth ffurf y gair. Ar hap a damwain hanesyddol y lluniwyd ffurf ffonolegol geiriau yn ogystal â holl forffoleg a chystrawen ieithoedd y byd, ac eithrio ychydig o ffurfiau arwyddo neu ffurfiau onomatopeiaidd. Ar yr un pryd â'r newidiadau sy'n digwydd i ffurf arwynebol yr iaith, ceir newidiadau yn yr ystyron cysylltiedig. Caiff ystyr gair ei ehangu i gynnwys ystyron newydd sy'n cydweddu, fel y defnydd o'r gair *feuille* 'deilen' yn Ffrangeg i olygu 'dalen, darn o bapur' neu 'haen denau o grwst' oherwydd tebygrwydd eu siâp. Dengys yr enghraifft fod ffurf y gair yn gysylltiedig â gwahanol nodweddiad ei ystyr gwreiddiol ac felly â **chynodiad** (*connotation*) arbennig sydd ar gael i siaradwyr—mae dail yn tyfu ar goed, ond maent hefyd yn denau iawn. Caiff ystyr gair hefyd ei anghofio wrth i ffurfiau newydd ei ddisodli, fel sy'n digwydd i'r gair *dalen* yn Gymraeg: mae'n cael ei disodli gan y gair *deilen* yn ei gyd-destun gwreiddiol fel rhan o blanhigyn. Mae astudio ieithyddiaeth hanesyddol neu **ieitheg** (*philology*; gw. Adran 2.2) yn dibynnu ar ddealltwriaeth o newidiadau mewn ffurf ac ystyr dros amser.

Tu hwnt i'r ffurf, yr un cysyniadau (*concepts*) a geir wrth gyfathrebu mewn unrhyw iaith, er bod amrywiaeth o arferion ieithyddol a diwylliannol ynghylch sut i'w cyfuno. Gelwir yr astudiaeth semantig o elfennau ystyrlon sylfaenol yn **rhesymeg iaith** (*logic of language*), ac mae'n dod yn uniongyrchol o faes **rhesymeg** (*logic*) mewn athroniaeth (gw. Adran 31). Daeth

semanteg yn faes ieithyddiaeth yn yr 20fed ganrif. Er hynny, mae enghreifftiau o astudio ystyr yn wyddonol i'w gweld yn ysgrifau'r hen athronwyr fel Aristotle a Plato, amser maith yn ôl (Crystal 2010:104–105).

Yn ail, mae ystyr yn codi o gyfuno geiriau yn ymadroddion, cymalau a brawddegau (gw. Rhan IV am y gwahaniaeth rhwng y strwythurau hyn). Mae cyfuniad arbennig o eiriau'n cyfyngu ar ystyron posibl gair unigol. Hynny yw, mae ystyr y gair *allwedd*, er enghraifft, yn amwys heb ei gyd-destun: ai teclyn i agor drws sydd dan sylw neu restr esboniadol o symbolau ar fap? Yn Adran 34 ceir eglurhad o'r modd y mae'r cyd-destun yn cael ei gyflwyno gan y cyfuniad o eiriau yn y frawddeg, ond hefyd gan ein gwybodaeth gyffredinol neu gefndirol o'r byd.

Mae ieithyddion sy'n astudio **pragmateg** yn ystyried sut mae iaith yn bodoli o fewn ein dealltwriaeth o'r byd a'n hamgylchedd a sut mae ein dealltwriaeth o'r rhain yn effeithio ar ein ffyrdd o gyfathrebu. Ystyrir pragmateg yn lefel ieithyddol sy'n rhyngweithio â gwybodaeth gyffredinol sy'n **allieithyddol** (*extralinguistic*). Felly, astudiaeth o'r wybodaeth y mae pobl yn ei chyflwyno a'r ffordd mae'r wybodaeth honno'n cael ei chyflwyno yw pragmateg. Ceir amrywiaeth eang o'r arferion hyn o iaith i iaith—ac o ddiwylliant i ddiwylliant—gan fod cymunedau ieithyddol yn cytuno ar wahanol arferion neu draddodiadau **paraieithyddol** (*paralinguistic*). Er enghraifft, mae gwahanol **ystumiau** (*gestures*)—fel ysgwyd pen—yn cyfleu ystyron gwahanol o fewn gwahanol ddiwylliannau. Mae Adran 35 yn gosod sylfeini astudiaethau pragmateg gan esbonio sut i ddadansoddi ystyr ochr yn ochr â gwybodaeth gyffredinol neu dulliau paraieithyddol o gyfathrebu.



Ffigur 16: *Dalen, deilen*

Geirfa allweddol

semanteg	pragmateg
ystyr brawddeg	ystyr siaradwr
llefariadau	cynodiad
ieitheg	rhesymeg iaith
rhesymeg	allieithyddol
paraieithyddol	ystumiau
cyfeiriad	cyfeirydd
dynodiad	triongl semiotig
cynrychioliadau meddyliol	gosodiadau
ffurf resymegol	rhesymeg osodiadol
lecsem	dynodi
gair ffwythiannol	semanteg eirfaol
gwrthystyredd	cyfystyredd
hyponymeg	hypernymedd
meronymau	hypernymau
hyponymau	amlystyredd
metonymedd	synchroni
cyffredinoli	trosiad
confensiynoli goblygaethau	goblygaeth
cyd-siaradwr	dadamwyso
llefariad	ystyr arfaethedig
tynnu casgliad	gwireb
gwireb meintioldeb	gwireb ansawdd
gwireb perthnasedd	gwireb modd
moesgarwch	wyneb
moesgarwch cadarnhaol	moesgarwch negyddol
gweithred bygwth wyneb	gweithred siarad anuniongyrchol
gweithred lefariadol	gweithred fewnlefariadol
gweithred drwylefariadol	strwythur gwybodaeth
ffocws	pwnc
ffocws cyferbyniol	ffocws cywirol
ffocws traethiadol	ffocws polar
ffocws thetig	

31 Beth yw semanteg?

SILVA NURMIO

Mewn ieithyddiaeth, gelwir y maes sy'n astudio ystyr geiriau yn **semanteg**. Ystyr elfennau unigol iaith sydd dan sylw, felly mae semanteg yn cynnwys astudiaeth o ystyr morffemau a chymalau yn ogystal â geiriau, a sut mae'r rhain oll yn cyfrannu at ystyr ei gilydd ac ystyr y frawddeg. **Pragmateg** yw'r maes sy'n astudio ystyr elfennau iaith mewn cyd-destun. Ystyrier y canlynol:

(87) iawn

O ran semanteg, mae sawl ystyr i'r gair *iawn*, fel y gellir gweld mewn geiriaduron. Y diffiniad cyntaf yn GPC yw:

“Yr hyn sy'n gywir, gwir, gwirionedd; tegwch, cyfiawnder; yr hyn y geill dyn ei hawlio, hawl, iawnder; cyfadferiad, iawndal diwygiad, cam, ad-daliad i unioni cam (colled, trosedd), tâl am fywyd dyn, pridwerth; *Diwin*. (yn aml gyda'r fan.) gwaith aberth Crist yn prynu dyn a'i ailgymodi â Duw, dyhuddiant, cymod.”

GPC Ar lein 2014 ‘iawn’

Mae'r ystyron hyn i gyd yn bosibl, hynny yw, maent i gyd yn ystyron o'r gair *iawn*. Ond, mewn cyd-destun arbennig, un ystyr yn unig sydd yna fel arfer. Er enghraifft, gall *iawn* fod yn ateb i'r llefariad *bydda i'n hwyr, sori!* (wrth siarad neu mewn ysgrifen, e.e. neges destun). Ystyr gwahanol sydd yn y llefariadau *mae'r esboniad hwn yn iawn*, neu *wyt ti'n iawn?* Felly, ceir ystyron gwahanol mewn cyd-destunau gwahanol ac mae'n bosibl i siaradwyr ddewis o blith y gwahanol ystyron sy'n bodoli. Felly, mae maes semanteg yn astudio ystyr geiriau fel *iawn* a'u hystyron posibl (neu synhwyrâu, gw. isod), ac mae pragmateg yn canolbwyntio ar y defnydd o'r gair mewn cyd-destun er mwyn cyflwyno gwahanol negeseuon sy'n dibynnu ar y cyd-destun hwnnw.

Ond beth yn union yw ystyr y gair *ystyr*? Gall *ystyr* olygu gwahanol bethau yn Gymraeg, gan gynnwys ystyr ieithyddol yn (88). Mynega'r siaradwr gysylltiad rhwng dau air, y gair Ffrangeg a'r gair Cymraeg:

(88) Ystyr y gair Ffrangeg *chat* yw ‘cath’.


Mae (89) yn dangos barn oddrychol y siaradwr, ac ni sonnir am yr hyn a olygir gan y gair *Nadolig* yn yr un ffordd ag y mae (88) yn sôn am ystyr *chat* yn y Ffrangeg:

(89) Nid prynu llawer o bethau yw gwir ystyr y Nadolig.

Mae mwy o ystyron i'r gair *ystyr*, ond dengys yr enghreifftiau (88)–(89) pa mor bwysig yw gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o ystyr. Ni fynegir ystyr yn yr un ffordd mewn ieithoedd gwahanol, chwaith; gweler [Riemer \(2010:7–13\)](#) am enghreifftiau o Saesneg, Warlpiri, Ffrangeg, a Tsieinëeg, er enghraifft.

Mae angen termau manylach, felly, er mwyn trafod ystyr yn semantegol. O fewn rhai traddodiadau, gwahaniaethir rhwng **synnwyr** (*sense*) a **chyfeiriad** (*reference*) neu **gyfeirydd** (*referent*). Mae gan lawer o eiriau fwy nag un synnwyr, sy'n amlwg o restr hir o synhwyrâu a geir mewn geiriaduron (fel y rhestr uchod ar gyfer y gair *iawn*; gw. hefyd Adran 54 'Geiriadura a therminoleg'). Soniwyd uchod am ddau synnwyr gwahanol y gair *allwedd* (mae mwy na hynny, gw. *allwedd* yn [GPC](#)): (a) 'teclyn i agor drws' a (b) 'rhestr esboniadol o symbolau ar fap neu destun arall'. Mewn cyd-destunau gwahanol, gall cyfeirydd *allwedd* fod a neu b. Y trydydd term pwysig fel y gellir siarad am ystyr yn fwy manwl yw **dynodiad** (*denotation*) (a'r ferf **dynodi**, *denote*). Dynodiad gair yw'r holl ddsbarth o bethau y gellir cyfeirio atynt gan ddefnyddio'r gair hwn. Mae *allwedd*, er enghraifft, yn dynodi'r holl bethau yn y byd y gellir eu galw'n *allwedd* (gan gynnwys teclynnau a rhestri o symbolau). Mewn gwahanol lefariadau, mae cyfeirydd a synnwyr *allwedd* yn gallu amrywio.

Wrth siarad am wahanol agweddau ar ystyr, mae tair elfen sylfaenol yn bwysig: yr iaith, y byd allanol, a meddwl dynol. Fel y trafodwyd uchod, mae mwy nag un synnwyr gan air penodol (fel *allwedd*), a gall gyfeirio at sawl cyfeirydd. Yn ogystal â hynny, nid yw pob gair yn yr iaith yn cyd-fynd â pheth neu wrthrych amlwg yn y byd, e.e. *glas*, *datblygu*, *rhinwedd*. Mae semantegwyr wedi ceisio deall y berthynas rhwng geiriau'r iaith a'u cyfeiryddion ers peth amser. Ceisiodd [Ogden & Richards \(1949:10\)](#) ddatrys hyn drwy'r model enwog a elwir yn **driongl semiotig** (*semiotic triangle*). Yn y model hwn, mae'r symbol (gair/brawddeg yn yr iaith) a'r peth neu'r syniad a ddynodir ganddo (y cyfeirydd) yn gysylltiedig drwy syniad ym meddwl y siaradwr. Hynny yw, mae gennyf syniad neu we o syniadau ynghylch beth yw *glas*, er enghraifft.



Ffigur 17: Triongl semiotig ([Ogden & Richards 1949](#))

Pwynt pwysig y model hwn yw na all siaradwyr gael profiad o'r byd yn hollol wrthrychol, heb i'r profiadau fynd trwy'r synhwyrâu, fel golwg a chlyw, er enghraifft. Felly, mae'r cyfeiryddion yn y byd yn dod at siaradwyr fel syniadau neu **gynrychioliadau meddyliol** (*mental representations*). Gw. [Riemer \(2010:13–16\)](#) am drafodaeth bellach.

Soniwyd hyd yn hyn am ystyr geiriau, gan fwyaf, ond mae'n bosibl astudio ystyr brawddegau hefyd. Mae ystyr brawddeg yn cynnwys **gosodiadau** (*propositions*), sef yr hyn a fynegir gan y frawddeg. Gall gosodiad fod yn gywir neu'n anghywir. Yn achos enghraifft (86) uchod, gosodiad y frawddeg yw bod y tywydd yn oer, a gall hynny fod yn gywir neu'n anghywir, gan ddibynnu sut mae'r tywydd ar y pryd. Os yw'n oer, mae gosodiad brawddeg (86) yn gywir ac os nad ydyw, mae'n anghywir. Mae hyn yn perthyn i resymeg, sy'n faes o fathemateg yn ogystal

ag athroniaeth ac ieithyddiaeth. Mewn semanteg, defnyddir rhesymeg i astudio gosodiadau a chadwynau ymresymu ohonynt. Nid llefariadau neu frawddegau uniongyrchol sydd dan sylw, felly. Astudir **ffurf resymegol** (*logical form*) datganiadau, sef eu strwythur gwaelodol, sylfaenol. Ystyrier:

- (90) a. Mae'n rhaid i'r myfyrwyr i gyd sefyll arholiad.
 b. Mae Huw yn fyfyrwr.
 c. Felly: Mae'n rhaid i Huw sefyll arholiad.

Os yw datganiadau (90a) a (90b) yn gywir, mae'r casgliad (90c) yn gywir hefyd.

Mewn **rhesymeg osodiadol** (*propositional logic*) astudir gweithredyddion rhesymegol (*logical operators*), megis y geiriau *a(c)*, *ni(d)*, *os*, *sy'n* creu gosodiadau pellach o rai sylfaenol. Ni thrafodir rhesymeg ymhellach yn y gyfrol hon; am ddarllen pellach, gweler **Riemer** (2010:173–221).

32 Ystyr geiriau

SILVA NURMIO

Golyga 'ystyr' y berthynas rhwng geiriau, ymadroddion a brawddegau ar y naill llaw, a phethau, nodweddion a sefyllfaoedd yn y byd ar y llaw arall. Yn y rhan hon, canolbwyntir ar ystyr geiriau, neu, yn fwy manwl, ar ystyr **lecsemau** (*lexemes*). Lecsem yw'r enw CATH neu'r bôn berfol CAN-, er enghraifft. Geiriau yw'r ffurfiau ffurfdroadol a lunnir ohonynt (gw. Rhan III), e.e. *cathod* neu *canaf (i)*, *canwn (ni)*, a.y.b., ond maent i gyd yn rhan o'r un lecsem, sef CATH neu CAN-.

Lecsem yw'r ffurf a restrir mewn geiriaduron; nid oes rhaid rhestru pob ffurf ohono ar wahân (*cath* sydd mewn geiriadur, ac nid oes cofnod gwahanol ar gyfer *cathod*). Felly pan sonnir am eiriau yma, lecsemau sydd o dan sylw mewn gwirionedd.

Mae gan eiriau fwy nag un math o ystyr. Er enghraifft, **geiriau geirfaol** (*lexical words*) yw rhai fel CATH a CAN- uchod: maent yn cyfeirio at bethau neu weithredoedd. Mae geiriau geirfaol yn **dynodi** (*denote*) rhywbeth, fel peth, gweithred neu syniad. Mae'r gair *cath*, er enghraifft, yn dynodi anifail bach pedwartroediog a blewog. Mae *canaf (i)* yn dynodi'r weithred o 'gynhyrchu seiniau cerddorol â'r llais' (*canaf* GPC) a hefyd mai'r person cyntaf unigol (*mi*) sy'n canu.

Geiriau ffwythiannol (*function words*) yw rhai megis y fannod *y(r)* ac ad-ddodiaid fel *i*, *wrth*; mae iddynt ystyr gramadegol yn hytrach nag ystyr geiriol. Yn Rhan III, trafodwyd ystyr elfennau ffurfdroadol a deilliannol (*inflectional and derivational elements*), megis olddodiaid. Nid geiriau ydynt, ond mae ganddynt ystyr er hynny; maent yn dynodi perthnasau yn ôl y categorïau ffurfdroadol neu ddeilliannol. Er enghraifft, gellir dweud mai ystyr yr olddodiad *-au* yn *siopau*, *rhannau*, a.y.b., yw rhif lluosog (sy'n gategori ffurfdroadol). Ystyr *-wr* yn *gyrrwr*,

adeiladwr, a.y.b., yw ‘person sy’n gwneud y weithred a ddynodir gan y ferf (e.e. *gyrru*, *adeiladu*’; mae *-wr* yn olddodiad deilliannol. Ond nid yw hwn yr un fath ag ystyr geiriau geirfaol, megis *cath* neu *canaf*. Ni cheir *-au* neu *-wr* fel geiriau annibynnol. Nid yw’n hawdd diffinio beth yn union yw gair (gw. Adran 14), ond yn fras, mae gan eiriau geirfaol fel *cath*, *bwrdd*, *meddwl*, ayb. ystyr annibynnol (heb unrhyw gyd-destun). Fel arfer, rhestrir geiriau mewn geiriaduron ond mae rhai geiriaduron, fel *Geiriadur Prifysgol Cymru*, yn rhestru olddodiaid hefyd.

Math arall o eiriau yw **marcwyr disgwrs** (*discourse markers*), megis *wel* yn (91):

(91) *wel, dwi ddim yn siŵr am hynny*

Mae geiriau fel *wel*, *ond*, yn ogystal ag ymadroddion fel *a dweud y gwir*, *ta beth*, *wedi’r cyfan* a.y.b., yn cysylltu’r disgwrs â rhywbeth a ddywedwyd cyn hynny, neu gallant fynegi barn neu agwedd meddwl y siaradwr. Canolbwyntir yma ar ystyr geiriau geirfaol. Gelwir astudiaeth o’r math hwn yn **semanteg eirfaol** (*lexical semantics*).

Mae semantegwyr yn astudio’r perthnasau rhwng geiriau sy’n gysylltiedig yn semantig, mewn gwahanol ffyrdd. Y perthnasau hyn yw **gwrthystyredd** (*antonymy*), **cyfystyredd** (*synonymy*), **meronymedd** (*meronymy*), **hyponymedd** (*hyponymy*), a **hypernymedd** (*hypernymy*). Gweler [Riemer \(2010:135–172\)](#) am drafodaeth bellach. Mae parau o eiriau gwrthystyr amlwg yn cynnwys e.e.:

(92) a. *da~drwg*
b. *addas~anaddas* (â’r rhagddodiad *an-* sy’n creu gwrthystyron llawer o eiriau Cymraeg)

Mae gan rhai geiriau fwy nag un gair gwrthystyr, e.e. *bachgen~gŵr* (os gwrthgyferbynnir oed) a *bachgen~merch* (gwrthgyferbynnu rhyw). Nid oes gwrthystyr amlwg i bob gair, e.e. *coeden*, *pwyllgor*. Gwahaniaethir fel arfer rhwng **gwrthystyron graddadwy** (*gradable antonyms*) megis *byr~hir*, a **gwrthystyron anraddadwy** (*ungradable antonyms*) megis *byw~marw*. Mae’n bosibl bod yn fyrrach na rhywbeth neu rywun arall, ond nid yn fwy marw; mae byw a marw yn gyflyrau absoliwt.

Cyfeiria geiriau cyfystyr at yr un peth, e.e.

(93) a. *pert/prydfferth*
b. *allwedd/goriad*
c. *gofyn/holi*

Fel arfer, mae rhyw fath o wahaniaeth rhwng y ddau air, o ran ystyr manwl neu o ran defnydd. Er enghraifft, mae rhywun yn *gofyn cwestiwn*, nid yn ***holi cwestiwn*. Mae *prydfferth* yn fwy cyffredin ar draws ardaloedd a chyweiriau iaith na’r gair *pert*, sy’n fwy cyfyngedig ac yn cael ei ddefnyddio mewn iaith anffurfiol mewn rhai tafodieithoedd yn unig. Mae rhai parau cyfystyr yn gwbl dafodieithol, ond fel arfer mae un yn fwy derbyniol mewn iaith ffurfiol na’r llall, e.e. *allwedd* a *goriad*.

Mae **meronymau** (*meronyms*) yn dynodi perthynas rhan i rywbeth cyfan (‘mae X yn rhan o Y’). Er enghraifft, mae *bys* yn feronym o *llaw*, ac mae *llaw* yn feronym o *braich*.

Hypernymau (*hypernyms*) yw geiriau sy’n dynodi dosbarthiadau uwch neu gyffredinol, e.e.

ci neu *coeden*. Dynoda **hyponymau** (*hyponyms*) is-ddosbarthiadau neu rywogaethau ohonynt. Er enghraifft, mae *Labrador* a *Chihuahua* yn hyponymau o'r dosbarth hypernymaidd *ci*. Hyponymau o'r hypernym *coeden* yw *derwen* a *bedwen*, er enghraifft.

Gall un gair hefyd gael mwy nag un synnwyr. Mae hynny'n bosibl drwy **amlystyredd** (*polysemy*) a **homonymedd** (*homonymy*), ac mae'n anodd gwahaniaethu rhwng y ddau. Mae [Watkins \(1961:219\)](#) yn rhoi enghreifftiau o amlystyredd gyda'r gair *troed/traed*. Synnwyr gwreiddiol y gair yw rhan o'r corff, ond ceir defnydd newydd, trosiadol yn yr ymadroddion canlynol: *mae'r gath yn gorwedd wrth draed y gwely*, *mae traed y gadair yna'n gam*, *mae'r hen dŷ ar ei draed byth*. Mae trosiadau corfforol yn niferus drwy ieithoedd y byd; gellir sôn am *goes cadair*, *chair leg* neu'r Almaeneg *Stuhlbein* 'cadair-goes'. Yma, mae ystyron newydd wedi datblygu trwy drosiad (*metaphor*) o'r ystyr gwreiddiol.

Mae homonymedd yn cyfeirio at eiriau megis Saesneg *bank* 'banc' (sefydliad/adeilad) a *bank* 'llethr, ochr' (darn o dir). Yn yr achos hwn, geiriau gwahanol ydynt yn hanesyddol (cf. eu cofnodion yn yr *Oxford English Dictionary*; [OED](#)) sydd bellach yn unffurf. Enghraifft arall yw'r Ffinneg *kuusi* 'chwech' a *kuusi* 'pinwydden'. Nid yw'r gwahaniaeth rhwng amlystyredd a homonymedd yn glir ym mhob achos. Os nad yw tarddiad neu etymoleg y ddau air unffurf ar gael, ni ellir gwybod a ydynt yn unffurf oherwydd newid hanesyddol sydd wedi peri iddynt ddod yn unffurf (megis Saesneg *bank* 'banc' a *bank* 'llethr') neu a yw un gair wedi datblygu synhwyrâu newydd (*traed* 'rhan o'r corff' vs. *traed* 'rhan o ddodrefnyn' ayb.)

Mae'n bosibl defnyddio gair mewn ystyr trosiadol (*figurative*) sy'n wahanol i ystyr arferol y gair. Mae **metonymedd** (*metonymy*) yn golygu defnydd lle y cyfeirir at y peth cyfan drwy ddefnyddio gair am ran o'r peth, e.e. Saesneg *screen* am y neuadd gyfan mewn sinema (*Screen 1, 2, a.y.b.*), nid y sgrin ei hun yn unig.

33 Newid hanesyddol a semanteg

SILVA NURMIO

33.1 Newid hanesyddol mewn enwau

Mae ystyr, fel agweddau eraill ar iaith, yn newid yn hanesyddol, ac mae ystyr nifer o eiriau mewn testunau Cymraeg Canol yn aneglur i siaradwyr Cymraeg Modern. Ystyrier, er enghraifft:

(94) Gorllwyn ydd wyf ddyn geirllaes ([Dafydd ap Gwilym](#), 111, 14^{fed} ganrif)

Llinell gyntaf y gerdd enwog 'Morfudd fel yr Haul' yw (94). Aralleiriad o'r llinell gan y golygyddion yw 'aros yr wyf am ferch dawel ei llais'. Yr oedd ystyr *dyn* yn ehangach yn y cyfnod hwn, gan gynnwys 'bod dynol', 'gŵr', ond hefyd 'gwraig, merch', fel yn y gerdd. Mae synhwyrâu'r gair *dyn* wedi eu cyfyngu erbyn y cyfnod modern i gynnwys 'bod dynol (gwryw)'

yn unig. Ond mae'r hen synnwyr ehangach yn amlwg mewn ffurfiau deilliannol o'r gair *dyn*, e.e. *dynol* (*hawliau dynol*, *dynolryw*), sy'n cyfeirio at bobl yn gyffredinol.

Wrth siarad am newid ystyr, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng **syncroni** (*synchrony*) a **diacroni** (*diachrony*). Canolbwyntia astudiaethau sincronig ar iaith ar adeg benodol, e.e. Cymraeg Cyfoes yn 2018. Mae ieithyddiaeth ddiacronig, ar y llaw arall, yn astudio newid yn hanesyddol, rhwng 1990 a 2018, er enghraifft, neu rhwng Cymraeg Canol a Chymraeg Cyfoes. Mae amrywiaeth sincronig mewn synhwyrâu gair, megis amlystyredd, yn wahanol i ehangu neu gyfyngu ystyr geiriau dros amser. Ond mae'r ddwy ffenomen hyn yn gysylltiedig, ac mae amlystyredd yn ganolog i ddeall newid hanesyddol. Gyda newid ystyr y gair *dyn* uchod, gwelir mai gair amlystyr ydoedd mewn Cymraeg Canol, ac yn cynnwys y cyfeiryddion 'bod dynol (benyw)' a 'bod dynol (gwryw)'. Yr hyn sydd wedi digwydd rhwng Cymraeg Canol a Chymraeg Cyfoes yw **cyfyngu**'r ystyr, sef colli un o'r cyfeiryddion a'r synhwyrâu gwreiddiol.

Mae **ehangu** neu **gyffredinoli** (*generalisation*) ystyr hefyd yn bosibl. Mae'r gair Llydaweg *bugel* (sy'n gytras â *bugail*) yn golygu 'plentyn' mewn Llydaweg Cyfoes. 'Rhywun sy'n bugeilio' oedd yr ystyr gwreiddiol yn Llydaweg, fel yn Gymraeg (mae hyn yn amlwg o darddiad hanesyddol y gair), ond gan mai plant oedd yn bugeilio fel arfer yn y gorffennol, daeth 'plentyn' yn ystyr newydd, mwy cyffredinol i'r gair mewn sawl tafodiaith o'r iaith Lydaweg (Watkins 1961:222–223).

Mae'n bosibl i air newid trwy **drosiad** (*metaphor*), sef bod siaradwyr yn gweld tebygrwydd o ryw fath rhwng dau beth ac yn eu cysylltu'n ieithyddol. Soniwyd uchod am y gair *troed* yn cyfeirio at droed cadair yn ogystal â throed person. Mae'n debyg mai 'troed person' oedd y cyfeirydd gwreiddiol a bod ystyr y gair wedi ehangu'n drosiadol i gynnwys 'troed cadair' oherwydd tebygrwydd canfyddedig rhwng y ddau beth hyn.

Weithiau mae'r synnwyr newydd, trosiadol yn dod yn synnwyr sylfaenol newydd y gair ac yn disodli'r hen synnwyr yn llwyr. Mae Watkins (1961:221–222) yn rhestru enghreifftiau diddorol. Er enghraifft, ystyr gwreiddiol y gair Lladin *testa* oedd 'pot' ac un o'i synhwyrâu trosiadol oedd 'pen dyn'. Symudodd ystyr y gair yn raddol i ddynodi 'pen' fel prif ystyr y gair, ac felly disodlodd *testa* yr hen air am 'pen', sef *caput*. Dyna'r gair sylfaenol am 'pen' mewn rhai o'r ieithoedd Romáwns modern: Eidaleg *testa*, Ffrangeg *tête* (mae'r ieithoedd Romáwns yn is-gangen o gangen Lladinaidd y teulu Indo-Ewropeaidd, gw. Ffigur 3 yn Rhan I).

Mae semantegwyr wedi awgrymu dwy ffenomen arall a all esbonio newid hanesyddol, sef gwellhau (*amelioration*) a difriäeth (*pejoration*), lle mae synnwyr yn cael ei gysylltu â gwerth cadarnhaol neu negyddol gan siaradwyr. Enghraifft Gymraeg o ddifriäeth yw'r ansoddair *gwirion* (sy'n debyg i'r Saesneg *silly*, a drafodir gan Riemer 2010:375). Mewn Cymraeg Canol, synhwyrâu *gwirion* oedd 'pur, dibechod, cywir, ffyddlon' a.y.b. (gw. *gwirion* yn GPC). Rhestrir yr enghraifft gyntaf o'r synhwyrâu negyddol 'penwan, ynfyd, ffôl' yn y bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg yn GPC. Mae'r gwrthwyneb, sef gwella'r ystyr, wedi digwydd gyda'r gair Saesneg *nice*. Synhwyrâu cynharaf yr ansoddair mewn Saesneg Canol yw 'syml, ffôl, gwirion' ac mae'r synhwyrâu modern, cadarnhaol yn digwydd yn y ddeunawfed ganrif (Riemer 2010:375, gw. hefyd *nice* yn yr OED).

Ni all cyfyngu ac ehangu, neu wella a difriä, esbonio pob newid semantegol, er hynny. Mae Riemer (2010:375) yn rhoi'r enghraifft lle mae'r enw Lladin *ver* 'cynhaef' wedi datblygu'n eiriau sy'n golygu 'haf' mewn ieithoedd Romáwns, e.e. Sbaeneg *verano*, Rwmaneg *vara*. Gelwir proses o'r math hwn yn **newid metonymig** (*metonymic change*). Golyga hynny newid ystyr oherwydd bod dau synnwyr yn agos at ei gilydd, o ran gofod neu'n amser, neu weithiau o

ran y syniad. Dywedir bod y synhwyrâu'n cydgyffwrdd (*contiguous*). Mae hynny'n amlwg gyda'r newid 'cynhaeaf' → 'haf': mae'r ddau synnwyr yn agos yn amserol ac yn syniadol. Mae'r esboniad hwn yn gweithio gyda nifer o'r enghreifftiau uchod, hefyd. Er enghraifft, yr oedd 'rhywun sy'n bugeilio' a 'plentyn' yn ddau synnwyr oedd yn cydgyffwrdd yn achos y gair Llydaweg *bugel*.

Mae'r categorïau a drafodir uchod yn ddefnyddiol ar gyfer disgrifio newid hanesyddol semantig, â rhai rhesymau syniadol a gwybyddol wrth wraidd y newid. Ond nid ydynt yn ei esbonio'n ddamcaniaethol. Mae'r ddamcaniaeth **confensiynoli goblygaethau** (*conventionalisation of implicature*) yn gwneud hynny, heb fod yn anghymarus, o reidrwydd, â'r categorïau disgrifiadol a drafodwyd uchod. Mae'r ddamcaniaeth hon yn defnyddio data pragmatig, sef astudio cyd-destunau lle y defnyddir y gair yn aml. Gall y cyd-destun hwn fod yn un negyddol, er enghraifft, neu'n un trosiadol. Caiff **goblygaethau** (*implicatures*) o'r cyd-destunau hyn (e.e. bod *nice* yn rhywbeth cadarnhaol, ond gw. Adran 35.2) eu cryfhau gydag amser, a gall y synnwyr goblygaethol ddod yn synnwyr arferol i'r gair. Ceir felly air amlystyr, a gall yr hen synnwyr hefyd ddiflannu yn nes ymlaen. Felly, mae cysylltiad diddorol rhwng pragmateg a semanteg: mae casgliadau a wneir o lefariadau'n dod yn rhan o ystyr geiriol gydag amser. Gwelir enghraifft o hyn gyda berfau sy'n golygu 'mynd' mewn gwahanol ieithoedd, yn yr adran nesaf. Enghraifft arall a drafodir gan Traugott (1989:34–35) a Riemer (2010:380) yw newid ystyron diriaethol yn rhai haniaethol. Digwydd hyn mewn llawer o ieithoedd, e.e. yn ystyr 'chwerw'. Gyda'r ansoddair Cymraeg *chwerw*, gwelir y newid o'r ystyr 'gwrthwyneb i felys' → '(person) sbeitlyd, cas'. Cymharer *bitter* yn Saesneg, a'r Roeg *pikros* 'miniog, chwerw' sydd hefyd yn golygu 'sbeitlyd, cas'.

33.2 Ystyr berfol

Un o'r enghreifftiau mwyaf hysbys o newid hanesyddol o ran berfau yw'r newid yn ystyr berfau sy'n dynodi perthnasau gofodol megis 'mynd' a 'dod' i ystyron amserol. Ystyrier:

(95) I'm going to call my mum tomorrow.

Ni chyfeirir at symud tuag at ryw nod, ond yn hytrach at fwriad i wneud rhywbeth yn y dyfodol. Trafodir y newid hwn, sy'n digwydd mewn llawer o wahanol ieithoedd, yn fanwl gan Bybee et al. (1991) a Bybee (2007), a chan R.M. Jones (2010) a P. Davies & Shank (2020) yn achos y Gymraeg. Mae'r newid hwn yn enghraifft o ramadegoli (*grammaticalisation*), sef bod geiriau'n newid dros amser o fod ag ystyr geiriol i fod ag ystyr gramadegol. Ceir y defnydd a welir yn (95) yn y Gymraeg, hefyd:

(96) Fi'n mynd i ffonio mam fory.

Mae'r defnydd hwn yn bodoli ochr yn ochr â'r defnydd gofodol (*rwy'n mynd i Aberystwyth*). Digwydd y newid hwn drwy stad ganolog lle mae'r ystyr 'symud tuag at ryw nod' wedi datblygu'n ystyr sy'n cyfleu 'bwriad' (sy'n gallu cynnwys symud, hefyd). Mae enghraifft P. Davies & Shank yn adlewyrchu hyn:

(97)	a. Dw i'n mynd i Gaernarfon	SYMUD TUAG AT Y NOD
	b. Dw i'n mynd i brynu bara	BWRIAD

Gyda (97b), bwriad i wneud rhywbeth yw'r prif ystyr, ond mae'n bosibl deall bod y siaradwr yn bwriadu mynd i'r siop. Yn achos (97c), nid yw'n bosibl dehongli bod y siaradwr yn bwriadu symud i unrhyw le (yn gorfforol, beth bynnag). Darganfu P. Davies & Shank fod y defnydd a welir yn (97b) a (97c) yn bodoli ers y 16eg ganrif a bod hyn yn cynyddu mewn amllder ar ddechrau'r 20fed ganrif. Mae'n bosibl bod cydgyffwrdd dwys â'r Saesneg yn ystod y cyfnod hwn wedi peri i'r proses gramadegoli gyflymu.

34 Ystyr mewn cyd-destun

LAURA ARMAN

Gellir dehongli cyd-destun yn gul neu'n eang. Crybwyllwyd uchod fod ystyr mewn cyd-destun yn cyfeirio at ddealltwriaeth y **cyd-siaradwr(aig)** (*interlocutor*) sy'n darparu'r wybodaeth yn ogystal â'r cyd-siaradwr sy'n derbyn yr wybodaeth. Mae'r cyd-siaradwyr, mewn gwirionedd, yn delio â sawl cyd-destun ar y tro. Mae'n rhaid i'r gwrandäwr(aig) dalu sylw i gyd-destun geiriau'r frawddeg er mwyn **dadamwyso** (*disambiguate*) ystyr geiriau homonymig—fel *allwedd* yr offeryn ac *allwedd* y testun sy'n egluro symbolau. Mae sawl ffordd o ddeall ystyr, ar wahân i'r ystyr brawddegol sy'n codi o gyfuniadau posib ystyron geiriau'r **llefariad** (*utterance*).

Mae **llefariad** yn gysyniad sydd fymryn yn wahanol i frawddeg. Cyfeiria'r term llefariad at unrhyw ddefnydd o iaith sy'n cyfleu ystyr i gyd-siaradwyr. Mae *da!*, *yn gwmws*, neu *dydw i ddim yn ail-gylchu* i gyd yn llefariadau sydd ag ystyr penodol pan gânt eu hystyried o fewn eu cyd-destunau unigryw, e.e. dweud *da!* fel ymateb wrth glywed am lwyddiant cyd-weithiwr mewn ffordd sy'n ei longyfarch, neu ddefnyddio *yn gwmws* wrth gysuro mam-gu dros y ffôn. Gall llefariad gyfeirio at unrhyw ddefnydd o iaith ar lafar, yn ysgrifenedig, mewn iaith arwyddion (*sign language*), mewn Braille a.y.b. Yn yr un modd, deellir 'siaradwr' fel gair sy'n golygu cyd-siaradwr sy'n darparu gwybodaeth ar lafar, arwyddwr(aig), neu awdur, a gwrandäwr i olygu cyd-siaradwr sy'n derbyn gwybodaeth ar lafar, gwyliwr/wraig, neu ddarllenwr/wraig, gan ddibynnu ar gyfrwng yr iaith dan sylw.

Er mwyn dehongli ystyr y siaradwr yn gywir, mae angen i'r gwrandäwr ystyried manylion fel pwnc y llefariad, amgylchiadau'r llefariad, a'r wybodaeth gyffredinol y maent yn ei rhannu. Mae cyd-siaradwyr yn cydweithio i gyrraedd y nod o gyd-ddealltwriaeth, gyda chytundeb dealledig fod y siaradwr wedi gwirio bod yr wybodaeth ar gael.

Wrth ail-edrych ar enghraifft (86), gwelir bod pob un o'r cyd-destunau hyn yn angenrheidiol i ddealltwriaeth y gwrandäwr o'r ystyr yr oedd y siaradwr yn ei fwriadu. Yn y llefariad *mae'n oer, on'd ydy?* rhwng siaradwyr sydd wyneb yn wyneb ar ddiwrnod poeth, mae angen i'r gwrandäwr wybod y canlynol er mwyn deall mai dweud rhywbeth

digrif oedd bwriad y siaradwr:

pwnc y llefariad Y tymheredd, y tywydd yn gyffredinol, yr hinsawdd, cyfleu statws tymheredd y siaradwr

amgylchiadau'r llefariad Ble, pryd, sut...

- Mae'r cyd-siaradwr yn yr un lle ac mae'r tymheredd yn uchel
- Mae'r siaradwr yn cyfeirio at y presennol
- Nid yw'r siaradwr yn ymddangos fel petai'n oer nac yn cael trafferth oherwydd oerfel

gwybodaeth gyffredinol Mae'r cyd-siaradwr yn dehongli'r tymheredd yn debyg i'w gilydd. Mae hiwmor gwawdlyd neu goegni (*sarcasm*) yn dderbyniol ar yr achlysur penodol hwn, rhwng y cyd-siaradwr penodol hyn.

Yn (86), dim ond wrth ystyried yr holl gyd-destun uchod y gall y gwrandäwr ddehongli ystyr y siaradwr fel a gynlluniwyd. Os oes unrhyw ddarn o'r wybodaeth uchod ar goll, gall amwysedd (*ambiguity*) godi gan achosi i'r gwrandäwr ddehongli ystyr brawddegol y llefariad. Hynny yw, os nad yw'r gwrandäwr yn ymwybodol o amgylchiadau'r siaradwr, mae'n bosibl iddo ddehongli fod y siaradwr yn teimlo'n oer. Neu, os yw'r siaradwr yn dod o wlad lle mae'r hinsawdd yn boethach, mae'n bosibl na fydd y gwrandäwr yn ymddiried yn ei wybodaeth gyffredinol ac yn cymryd bod y siaradwr yn teimlo'n oer tra bo'r gwrandäwr yn teimlo'n boeth.

Os nad oes digon o wybodaeth ar gael iddynt, gall gwrandawyr gamgymryd **ystyr arfaethedig** (*intended meaning*) siaradwr mewn amryw o ffyrdd. Yn gyffredinol, mae angen:

pwnc y llefariad yr ystyr brawddegol ac ystyron geiriau homonymig

amgylchiadau'r llefariad ble, pryd, sut...

- mae'r llefariad yn digwydd, e.e. mewn ystafell, y tu allan, mewn ysbyty, ar boster, trwy'r cyfryngau cymdeithasol, yn Seland Newydd, a.y.b.
- pa bryd mae'r llefariad yn digwydd, e.e. cyn neu ar ôl llefariad arall (cyd-destun y disgwrs), ar ba adeg o'r dydd neu'r flwyddyn, a.y.b.
- amgylchiadau emosiynol y llefariad, e.e. achlysur arbennig, amser llon neu drist, a.y.b.

gwybodaeth gyffredinol mae'r cyd-siaradwr yn ei rhannu, e.e. safbwynt, dulliau hiwmor, profiad o'r byd.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn, fodd bynnag, o'r holl gyd-destun sy'n berthnasol i ddeall ystyr mewn cyd-destun. Mae ieithyddion a phragmategwyr yn parhau i ymchwilio er mwyn penderfynu pa ffactorau yn union sy'n angenrheidiol i gyfathrebu ystyron arbennig tu hwnt i forffoleg a chystrawen, gan gofnodi'r holl ddulliau paraieithyddol o amgodio ystyr. Gweler [J.A. Thomas \(2014\)](#) am gyflwyniad cyfoes, manwl (cyfrwng Saesneg) i gyd-destun o safbwynt pragmateg gyda chyfeiriadau hefyd at y gwahanol safbwyntiau damcaniaethol ar bragmateg.

35 Astudio pragmateg

Astudiaeth o **sut** rydym yn cyfathrebu gan ddefnyddio iaith yw pragmateg. Felly, mae angen ystyried sut mae gwybodaeth ieithyddol, semanteg yn cysylltu â gwybodaeth gyffredinol o'r byd. Tra mae semanteg yn darparu set o ystyron a dehongliadau posib, mae pragmateg yn dewis y rhai sy'n addas yn ôl y sefyllfa.

Er bod y siaradwr yn ceisio rhoi'r holl wybodaeth mae'r gwrandäwr ei hangen mewn llefariad, y rhan helaeth o'r amser mae'n haws i'r cyd-siaradwyr ddibynnu ar eu gwybodaeth gyffredinol o'r byd i gyfathrebu'n llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r llefariad isod yn rhoi manylion diangen rhwng cyd-siaradwyr sydd wyneb yn wyneb:

(98) dwi'n teimlo'n gynnes ar hyn o'r bryd yn y fan yma

Mae'r llefariad yn (98) yn cyfleu gwybodaeth sydd ar gael i'r gwrandäwr yn barod; maent yn rhannu gwybodaeth am yr amgylchiadau gan eu bod wyneb yn wyneb. Mae'r llefariad felly'n rhoi gormod o wybodaeth ac mae'r neges yn llai amlwg o ganlyniad; mae'r amser a'r lle yn amlwg i'r gwrandäwr. Wrth daro llygaid yn ôl ar enghraifft (86), fodd bynnag, a'r gwahanol ddarlleniadau o *mae'n oer, on'd ydy?*, rhaid cofio bod sawl ffordd o ddehongli llefariad. Mae'r cyd-siaradwyr yn dibynnu ar allu'r gwrandäwr i ddod i'r canlyniad mwyaf tebygol.

35.1 Tynnu casgliad

Gall gwrandäwr ddefnyddio un o sawl dull o **dynnu casgliad** (*inference*) i geisio deall ystyr y siaradwr. Un dull sy'n dibynnu ar fwy nag ystyr llythrennol geiriau'r llefariad yw **goblygaeth** (*implicature*) ac mae goblygaeth yn un o syniadau sylfaenol y maes pragmateg.

35.2 Beth yw goblygaeth?

Yn fras, goblygaeth llefariad yw'r ystyr sydd ddim wedi ei amgodio mewn mynegiad ieithyddol (*linguistic expression*), ond sy'n gasgliad a wneir ar sail gwybodaeth gyffredinol am natur cyfathrebu. Er enghraifft:

(99) **Siaradwr(aig) 1:** Fi'n llwglyd.
Siaradwr(aig) 2: Mae gen i bacad o gnau yn 'y mag.

+> (**goblygaeth**) Mae Siaradwr(aig) 2 yn cynnig i Siaradwr(aig) 1 fwyta'r cnau er mwyn iddo/iddi deimlo'n llai llwglyd.

Mae gwybodaeth gyffredinol gennym fod siaradwyr yn bwriadu ychwanegu at sgwrs gyda phob llefariad, felly mae Siaradwr(aig) 1 yn deall bod llefariad 2 yn berthnasol i'r llefariad blaenorol.

Mae **perthnasedd** yn un o **wirebau** (*maxims*) yr Egwyddor Cydweithredu (*Co-Operative Principle*; Grice 1975).

35.3 Gwirebau Grice

Sylwodd Grice (1975) fod cyd-siaradwyr yn dibynnu ar y pedair gwireb ganlynol i'w harwain at gyd-ddealltwriaeth.

Gwireb Meintioldeb (*Maxim of Quantity*)

“Cyfrannwch yr wybodaeth sydd ei hangen ...”

Mae'n rhaid i gyfraniad y siaradwr(aig) gynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen (ar gyfer y cyfathrebiad dan sylw). Nid oes galw am fwy o wybodaeth nag sydd ei angen.

Gwireb Ansawdd (*Maxim of Quality*)

“Cyfrannwch wybodaeth gywir ...”

Mae disgwyl i'r wybodaeth a ddarperir yn y llefariad fod yn wir. Nid oes galw am unrhyw gyfraniad sydd ddim yn wir neu sydd heb dystiolaeth ddigonol.

Gwireb Perthnasedd (*Maxim of Relation*)

“Byddwch berthnasol ...”

Mae'n rhaid i'r wybodaeth fod yn berthnasol i'r sgwrs neu'r cyd-destun.

Gwireb Modd (*Maxim of Manner*)

“Byddwch eglur ...”

Mae'r wireb hon yn cyfeirio at y modd o gyfathrebu; rhaid osgoi llefariadau amwys ac iaith aneglur neu astrus. Mae'r wireb hefyd yn disgrifio'r disgwyliad fod y cyfraniad fod yn gryno ac yn drefnus.

Nid fel rheolau, ond fel egwyddorion cyffredinol y deallir y gwirebau a gynigodd Grice.

35.3.1 Cadw at y gwirebau

Os yw'r cyd-siaradwyr yn dilyn y gwirebau, daw un goblygaeth o'r frawddeg ganlynol:

(100) Reidiodd Mair ei beic adref ac yfodd lond gwydriad o win coch.

Dealla'r gwrandaŵr fod y weithred gyntaf a enwyd wedi digwydd cyn yr ail oherwydd y **Wireb Modd**. Mae'r gwrandaŵr yn disgwyl y bydd y siaradwr **yn drefnus** wrth lefaru.

(101) **Iago:** Dwi 'di rhedag allan o betrol

Dani: Dyw'r garej ddim yn bell

Daw'r ddealltwriaeth fod modd cael petrol yn y garej yn enghraifft (101) o'r Gwirebau Perth-nasedd a Meintioldeb. Mae'r gwrandaŵr, Iago, yn deall bod y siaradwr yn rhoi gwybodaeth sy'n berthnasol ac yn parchu'r Egwyddor Cyd-weithredu—rhaid bod Dani yn sôn am y garej oherwydd y bydd yna betrol yno. Mae eu gwybodaeth gyffredinol o'r byd hefyd o gymorth gan eu bod ill dau'n gwybod bod tebygrwydd o gael petrol mewn garej. Golyga'r Wireb Meintioldeb nad oes yn rhaid i Dani gynnwys cyfeiriad at y petrol yn ei llefariad: mae'r wybodaeth yn ddigonol oherwydd y wireb flaenorol.

35.3.2 Diystyru'r gwirebau

Os yw'r siaradwr yn diystyru'r gwirebau, gall arwain at gamddealltwriaeth.

(102) Dwi 'di ennill car aur

Mae disgwyl i'r siaradwr barchu'r **Wireb Ansawdd**. Felly heb wybodaeth bellach, gall gwrandaŵr ddeall yr ystyr brawddegol. Nid yw hyn yn wir os yw'r siaradwr yn sôn am gyrhaeddiad mewn gêm fideo, ond heb barchu'r **Wireb Meintioldeb** o ddarparu gwybodaeth ddigonol.

Gall siaradwr hefyd benderfynu diystyru gwireb yn fwriadol er mwyn gadael goblygaeth i'r wrandaŵr ei ddeall, fel yn (103):

(103) Canodd Fernanda gyfres o nodau oedd yn swnio rhywbeth fel yr anthem genedlaethol.

Ystyr brawddegol y llefariad yw fod Fernanda wedi canu'r anthem genedlaethol, ond gan fod ffordd fwy cryno o fynegi hyn, sef *canodd Fernanda'r anthem genedlaethol*, mae'r gwrandaŵr yn deall fod y Wireb Meintioldeb wedi ei diystyru. Yna, gellir dewis i ddehongli'r ddiystyriaeth un ai fel rhywbeth bwriadol neu fel rhywbeth damweiniol. Gan nad oes unrhyw eiriau allweddol ar goll, h.y. nid yw'r siaradwr wedi anghofio'r gair *canu*, er enghraifft, neu efallai fod y llefariad mewn llyfr sydd wedi ei gyhoeddi, y tebygrwydd yw fod y wireb wedi ei diystyru'n fwriadol. O ganlyniad, rhaid dychwelyd yn rhannol at yr ystyr brawddegol: nid canu cân oedd hi, ond cyfres o nodau. Mae'r gwrandaŵr yn deall nad oedd Fernanda yn canu'r anthem yn dda iawn a bod y siaradwr wedi diystyru'r Wireb Meintioldeb er mwyn gadael iddo ddehongli'r goblygaeth heb orfod dweud rhywbeth sydd efallai'n anghwrtais (i gyfleu hiwmor, efallai, gan ddibynnu ar y cyd-destun). Felly, o'r llefariad yn (103), ceir y goblygaeth +> *canodd Fernanda'r anthem genedlaethol yn wael*.

Daw'r syniad o gwrteisi neu **foesgarwch** (*politeness*) yn amlwg wrth ystyried y gwahanol ffyrdd o ffurfio llefariadau gan barchu Gwirebau **Grice**. Mae'r adran nesaf yn crynhoi rhai o syniadau cymdeithasegwyr a phragmategwyr am rôl moesgarwch mewn cyfathrebu.

35.4 Moesgarwch a phragmateg

Mae siaradwyr iaith yn cytuno ar y ffordd y mae ystyr geiriau yn perthyn i'w gilydd—dyma sy'n eu galluogi i ddeall ei gilydd ar lefel y semanteg. Er mwyn cyfathrebu'n llwyddiannus, mae'n

rhaid i siaradwyr iaith hefyd gytuno ar yr arddull fwyaf addas. Os nad yw'r cyd-siaradwyr yn ymateb yn foegar, mae'r effaith yn debyg i dorri un o Wirebau Grice.

(104) **Catrin:** Be gefaist ti i ginio?

Emma: Bwyd.

+> Nid yw Emma'n fodlon trafod ei chinio.

Diystyru'r Wireb Meintioldeb

Mae'r gyd-siaradwraig Emma yn diystyru cytundeb gymdeithasol drwy anwybyddu'r Egwyddor Cyd-weithredu a gwrthod y Wireb Meintioldeb. Mae sawl opsiwn sut i ddehongli'r rhyngweithio yn (104), a rhaid i'r gwrandawr ddod i gasgliad pa un yw'r mwyaf tebygol gan ystyried bwriad y siaradwr yn y cyd-destun. Mae'r gwrandawr yn gorfod penderfynu a oedd y llefariad yn addas yn ôl emosiwn y cyd-destun, yn ogystal ag ystyried goblygaethau eraill (er mwyn cyfleu hiwmor, parchu moesgarwch, a.y.b.). Os nad yw'r llefariad yn addas, fel yn (104), yna mae'r siaradwr wedi bygwth amharu ar lwyddiant y cyfathrebu.

Datblygodd [Brown & Levinson \(1978, 1987\)](#) yr astudiaeth o foesgarwch o safbwynt pragmateg gan ddefnyddio'r cysyniad o **wyneb** (*face*) ar sail gwaith cymdeithasegol ([Goffman 1967](#)). Mae'r term wyneb yn cynrychioli hunan-ddelwedd unigolyn mewn cyd-destun cyhoeddus ac mae gan bawb **wyneb cadarnhaol** ac **wyneb negyddol**.

Yr wyneb cadarnhaol hunan-ddelwedd neu bersonoliaeth gyson bositif gan gynnwys yr angen am gymeradwyaeth ac i eraill werthfawrogi neu barchu'r hunan-ddelwedd. Mae arnom hefyd angen rhyngweithio ag eraill a theimlo undod ag eraill.

Yr wyneb negyddol yr hawl i safbwyntiau a daliadau, rhyddid i weithredu a rhyddid rhag rhwystrad *impediment* neu ymosodiad. Mae hyn yn cynnwys yr angen i fod yn annibynnol ac i gael parch.

Mae'r syniad o 'gadw wyneb' ac o 'gollu wyneb' yn gweithio gyda'r cysyniadau uchod mewn ffordd debyg i'w defnydd ar lafar, lle mae'r termau'n cyfeirio at rhywbeth fel anrhydedd neu werth cymdeithasol arall (ac mae'r termau Saesneg *saving face* a *losing face* yn gweithio yn yr un ffordd). Yn yr ystyr ieithyddol, mae bygwth wyneb rhywun—fel yn (104)—yn llai amlwg fel sarhad, ond mae'n effeithio ar ryngweithio (yn enwedig y ffordd mae pobl yn ymateb wrth gyfathrebu) ac felly ar bragmateg.

(105) Nei di uwchlwytho llunia mêt?

(Defnyddiwr ar lwyfan cymdeithasol digidol)

Mae'r siaradwr yn (105) yn apelio at wyneb cadarnhaol y gwrandawr drwy greu teimlad o undod ac agosrwydd cymdeithasol. Mae sawl ffordd o wneud hyn drwy ddefnyddio iaith a dulliau paraieithyddol. Yma, mae'r siaradwr yn defnyddio cywair cyfarwydd, anffurfiol a thafodieithol i gyflawni hyn. Mae morffoleg y ferf yn dafodieithol ac yn anffurfiol: y defnydd o *nei* yn hytrach na'r *gwnei safonol*. Mae'r siaradwr wedi dileu'r geiryn rhagferfol *a*, a fyddai wedi bod yn or-ffurfiol, ac wedi defnyddio'r arddull lafar o gadw treigladd y ferf; felly, mae *a wnei* wedi ei ysgrifennu fel *nei* yn unig. Fel yn yr iaith lafar, mae'r siaradwr wedi defnyddio'r rhagenw yn ogystal â'r ffurfdroad berfol: lle mae *wnei* yn ddigonol mewn ysgrifen ac yn yr iaith lenyddol, mae *wnei di* yn arferol ar lafar. Mae'r defnydd o dafodiaith hefyd yn cyfleu agosrwydd, ac mae defnyddio *-a* yn hytrach na'r *-au* safonol fel olddodiad lluosogi â'r gair *llunia* yn nodweddiadol o dafodiaith ogleddol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r siaradwr wedi ysgrifennu'r neges, ac felly'n gorfod dibynnu ar sillafu fel dull paraieithyddol o gyfleu'r iaith lafar. Mae'r siaradwr hefyd yn apelio'n uniongyrchol at wyneb cadarnhaol y gwrandawr drwy ei alw'n *mêt*. Gelwir y math

yma o ryngweithio yn **foesgarwch cadarnhaol** (*positive politeness*) gan fod y siaradwr yn rhoi sylw i wyneb cadarnhaol y gwrandäwr (Brown & Levinson 1987).

Mae sawl ffordd o gyfleu cyfeillgarwch ac agosrwydd cymdeithasol, gan gynnwys defnyddio tafodiaith (cyfarwydd), cyfeirio at brofiad cyffredin, cyfeirio at gysylltiadau cymdeithasol, defnyddio hiwmor, fel yn (86), a.y.b. Awgryma hyn nad yw'r defnydd o un ohonynt yn unig yn ddigon i gyfleu agosrwydd cymdeithasol, ond bod ffactorau'n cyfuno ac yn cyd-chwarae i roi darlun o gymeriad y llefariad.

Undod mewn tafodiaith

Pam mae tafodiaith ac iaith lafar, anffurfiol, yn cyfleu undod ac agosrwydd cymdeithasol tra bod iaith ffurfiol sy'n nesáu at iaith lenyddol yn cyfleu pellter?

Mae'r cysylltiad hwn yn un diwylliannol, sy'n golygu y gall newid o un gymdeithas i'r llall, dros amser, ac yn dibynnu ar wahanol ffactorau megis cyfoeth a sicrwydd statws cymdeithasol. Ceir syniad bod agosáu ar lefel ieithyddol, dafodieithol yn gyfystyr ag agosáu mewn statws cymdeithasol, h.y. mae'r siaradwr eisiau dangos bod y berthynas yn gyfartal ac nad yw'n ceisio dangos awdurdod dros y cyd-siaradwyr. Am rhesymau hanesyddol, mewn llawer o ddiwylliannau gan gynnwys y diwylliant yng Nghymru, mae statws cymdeithasol uchel yn gysylltiedig ag iaith safonol neu ffurfiol, tra bod tafodiaith yn gysylltiedig â statws cymdeithasol isel. Gw. 41.2 yn Rhan VI am drafodaeth bellach.

Mae **moesgarwch negyddol** (*negative politeness*) yn cyflawni'r un dasg â moesgarwch cadarnhaol, ond mewn dull gwahanol. Mae'r siaradwr yn apelio at wyneb negyddol y gwrandäwr drwy barchu ei hunan-benderfyniad a'i ryddid i weithredu. Mae'r siaradwr yn (106) yn rhoi sylw i agweddau ar hunan-ddelwedd y gwrandäwr, yn benodol ei hawl i ryddid rhag cael ei rwystro.

(106) Gwna drugaredd i mi a dos i nôl 'yn sbectol, 'nei di?

Mae'r siaradwr yn (106) yn cydnabod ac yn parchu anghenion yr wyneb negyddol gan ychwanegu tag cwestiwn ar ddiwedd y llefariad, *'nei di?*, sy'n cadarnhau mai cais ac nid gorchymyn yw'r llefariad. Mae'r siaradwr yma eto'n defnyddio tafodiaith ac iaith anffurfiol i leihau'r pellter cymdeithasol. Mae'r siaradwr hefyd yn bod yn ddiymhongar (*self-effacing*) drwy ddiystyru ei wyneb negyddol eu hun.

Mae unrhyw lefariadau sy'n bygwth wyneb cadarnhaol neu negyddol y cyd-siaradwyr yn **weithredoedd bygwth wyneb** (*face threatening acts*). Dyma weithredoedd sy'n fygythiad i hunan-ddelwedd y gwrandäwr. Heb ofalu am wyneb negyddol y siaradwr drwy gydnabod ei hawliau neu heb ofalu am yr wyneb cadarnhaol drwy gyfleu undod, mae'r llefariad yn (106) yn troi'n fygythiad i wyneb y gwrandäwr.

(107) Tyrd â fy sbectol imi.

Mae'r defnydd o iaith fwy ffurfiol yn dangos ymgais i bellhau oddi wrth y cyd-siaradwr yn (107). Mae'r diffyg gofal am wyneb negyddol y gwrandäwr yn awgrymu mai gorchymyn yw'r llefariad, ac felly'n cynyddu'r gwahaniaeth o ran cyd-bwysedd grym eu perthynas ymhellach. Cysondeb perthynas y cyd-siaradwyr sydd dan sylw wrth astudio iaith yng nghyd-destun moesgarwch, gan roi sylw arbennig i'r strategaethau ieithyddol o gadw a cholli wyneb.

35.5 Gweithredoedd Siarad

Mae llefariadau yn unedau ystyrllon o iaith, fel a ddangosir uchod, ond maent yn cyflawni sawl pwrpas gwahanol. Mae iaith yn fodd o gyfathrebu, ond yn benodol yn ffordd o gyflawni gweithredoedd cymdeithasol. Searle (1975) oedd y cyntaf i ddisgrifio gweithredoedd siarad (*speech acts*) fel elfennau sylfaenol o ryngweithio ieithyddol. Nid oes rhestr gyflawn o'r holl weithredoedd siarad sy'n bosibl mewn unrhyw iaith, ond mae gweithredoedd siarad yn cynnwys cyfarch (e.e. *Haia!*), gwahodd (e.e. *dere lan*), ymddiheuro, gwahardd, gorchymyn, cwestiynu, datgan, gwneud cais, a.y.b.

Nid yw'n hawdd adnabod y math o weithred siarad ar sail nodweddion cystrawennol, morffolegol neu ffonolegol yn unig. Mae Griffiths & Cummins (2016) yn dyfynnu'r y llefariadau Saesneg canlynol er mwyn egluro'r broblem:

- (108) a. I'd be grateful if you would close the window.
 b. Could you close the window?
 c. Close the window. (Griffiths & Cummins 2016:144)

Cais yw pob un o'r llefariadau yn (108), cais i'r gwrandäwr gau'r ffenestr. Serch hynny, mae'r gystrawen yn wahanol ym mhob un. Mae (108a) ar ffurf datganiad, mae (108b) ar ffurf cwestiwn, ac mae (108c) ar ffurf gorchymyn. Galwodd Searle (1975) y rhain yn **weithredoedd siarad anuniongyrchol** (*indirect speech acts*). Dyma weithredoedd siarad sydd ddim yn dod ar ffurf sy'n gysylltiedig yn bennaf â nhw, e.e. defnyddio datganiad i wneud cais fel yn (108a).

Nid yw gweithredoedd siarad anuniongyrchol yn anarferol, fodd bynnag. Er bod ffurf orchmynnol fel (108c) yn gysylltiedig â chais uniongyrchol, oherwydd moesgarwch (fel yr esboniwyd yn Adran 35.4) mae angen dod o hyd i ffyrdd gwahanol o gyflawni'r weithred siarad.

Yn (108b), mae'r gwrandäwr yn deall nad ystyr llythrennol y cwestiwn sydd fwyaf perthnasol (cwestiwn am allu'r gwrandäwr), ac felly'n deall mai cais yw'r weithred siarad. I egluro'r dehongliadau hyn, rhennir gweithredoedd siarad yn dri chategori: **gweithredoedd llefariadol** (*locutionary acts*), **gweithredoedd mewtlefariadol** (*illocutionary acts*), a **gweithredoedd trwylefariadol** (*perlocutionary acts*) (Austin 1962).

Gweithred lefariadol yw'r weithred o berfformio'r llefariad, ond mae'r term hefyd yn cyfeirio at ystyr 'arwynebol' neu llythrennol y llefariad

Gweithred mewtlefariadol yw'r bwriad tu ôl i'r weithred neu'r hyn mae'r weithred lefariadol yn ei gyflawni (e.e. cais, gorchymyn, addewid)

Gweithred drallefariadol yw effaith neu ganlyniad yr uchod

Gan gymryd (108b), neu *'se ti'n gallu cau'r ffenest / elli di gau'r ffenest?* fel enghraifft, mae'r ystyr llythrennol—cwestiwn am allu'r gwrandäwr—yn weithred lefariadol. Y weithred mewtlefariadol yw'r cais i'r gwrandäwr gau'r ffenestr, a'r weithred drallefariadol yw bod y gwrandäwr yn cau'r ffenestr.

36 Strwythuro Gwybodaeth

LAURA ARMAN

Mae gan lawer o ieithoedd, fel y Gymraeg, fodd o drefnu brawddegau i bwysleisio gwahanol agweddau o'r llefariad.

- (109) a. Bwytodd Owen y bara.
b. Owen (a) fwytodd y bara

Mae'r llefariadau yn (109) yn rhoi ffocws ar wybodaeth wahanol drwy wahanol strwythurau cystrawennol. Mewn gwahanol ieithoedd, mae ffyrdd gwahanol o gyflawni'r un dasg: gall iaith amgodio'r wybodaeth yn gystrawennol, fel yn yr enghraifft uchod, neu'n forffolegol gan ddefnyddio morffemau arbennig, neu'n ffonolegol ar lefel goslef. Er enghraifft, mae'n bosibl gwahaniaethu rhwng gweithredoedd siarad drwy oslef yn unig (gw. Rhan II am fwy o wybodaeth am oslef).

- (110) a. Owen fytodd y bara.
b. Owen fytodd y bara? Ffurfiâu llafar

Ar lafar, heb gymorth atalnodi, goslef yn unig sy'n gwahaniaethu rhwng y cwestiwn yn (110b) a'r datganiad (neu'r cyhuddiad) yn (110a). Mae rhai ieithoedd, fel Cymraeg ffurfiol neu lenyddol, yn defnyddio morffemau arbennig i gyflawni'r un dasg.

- (111) **Ai** Owen a fwytodd y bara? Iaith ffurfiol neu lenyddol

Mewn iaith ffurfiol, cyflawna'r geiryn gofynnol *ai* yr un swyddogaeth â defnyddio goslef gofynnol ar lafar.

- (112) Tokyo wa, sekai-iti no daitokai desu **ka**?
Tokyo PNC, world-first big.city is cw
'Speaking of Tokyo, is it the largest city in the world?' Siapaneg ffurfiol (Kuno 1972)

Gwelwn fod ieithoedd eraill, fel Siapaneg, â'r un math o eiryn i nodi cwestiwn: *ka* ar ddiwedd y cymal yn achos Siapaneg.

Mae pragmateg, felly, yn effeithio ar gystrawen iaith ac ar y mecanwaith ieithyddol sy'n galw ar forffemau neu eiriau. Gan fod angen gwahanol lefariadau i gyflawni'r un gweithredoedd siarad (fel y gwahanol ffyrdd o wneud cais yn (108)), yn dibynnu ar gyd-destun a bwriad y

siaradwr (gw. Adrannau 34 a 35.4), mae angen i lefel y pragmateg gysylltu â'r lefelau ieithyddol eraill. Mae **strwythur gwybodaeth** (*information structure*) yn disgrifio gosodiadau penodol iaith sy'n 'pecynnu' gwybodaeth o fewn disgwrs (Chafe 1976).

Mae strwythur gwybodaeth iaith yn cyfleu pa wybodaeth sy'n bwysig o fewn llefariad, ac nid beth yw cynnwys y frawddeg. Ac mae'r strwythur gwybodaeth yn galluogi'r siaradwr i dynnu sylw at yr wybodaeth newydd neu **ffocws** (*focus*) y llefariad, gan gadarnhau'r **pwnc** (*topic*) yr un pryd. Dengys llefariadau a chyfieithiadau (113) rai o'r gwahaniaethau rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn eu dulliau o strwythuro gwybodaeth.

- (113) a. the ball is BLUE 'glas ydy'r bêl'
b. the BALL is blue 'y bêl sy'n las'

Mae'r Saesneg yn defnyddio pwyslais prosodig (*prosodic accent* neu *stress*) a goslef i ffocysu gwahanol elfennau sy'n berthnasol i'r gwrandawr ar y pryd. Gwelir yn (113) fod y Gymraeg yn blaenu'r elfennau pwysig, h.y. yn trefnu'r frawddeg fel bod yr wybodaeth berthnasol yn dod yn gyntaf. Ceir hefyd bwyslais sy'n cyflawni'r un swyddogaeth:

- (114) a. 'Mae'r bêl yn LAS'
b. 'Mae'r BÊL yn las'

Strwythur gwybodaeth fel rhan o'r gramadeg

Fel y soniwyd eisoes, mae strwythuro gwybodaeth yn gofyn am gyfathrebu rhwng pragmateg a chystrawen (yn ogystal â morffoleg, gan ddiybnnu ar y safbwynt damcaniaethol). Mae rhai ieithoedd yn defnyddio marcwyr morffolegol, fel geirynnau cwestiwn, i amgodio pa wybodaeth sy'n bwysig a pha wybodaeth sy'n fwy cefndirol o fewn brawddeg. Gweler y glos PNC yn yr enghraifft Siapaneg yn (112). Mae'r forffem *wa* bob amser yn dilyn **pwnc** y frawddeg mewn Siapaneg; dyma'r wybodaeth 'gefndirol' sy'n cysylltu gwybodaeth gyffredinol y cyd-siaradwyr. Mae morffemau ffocws hefyd i'w clywed yn ieithoedd y byd. Dyma enghraifft o Agham (teulu Iwerydd Congo):

- (115) éná má'á fuo bé-kó â fín-ghó
Inah GORFF-FOC give fufu to friends
'Inah DID give fufu to his friends' (Watters 1979:177)

Dengys yr enghraifft fod **ffocws** y llefariad (a gynrychiolir gan FOC yn y glos rhyn-glinellog) ar y gair sy'n cyfleu'r amser gorffennol. Mae modd adlewyrchu hyn yn y cyfieithiad Saesneg drwy gynrychioli pwyslais prosodig mewn llythrennau bras. Mae tuedd ieithoedd i amgodio eu dulliau o strwythuro gwybodaeth yn forffolegol yn dangos cysylltiad cryf rhwng ein gwybodaeth o'r byd a hyblygrwydd y system ramadegol.

Gan fod y dull o strwythuro gwybodaeth yn unigryw i'r llefariad, yn ei gyd-destun—ac nid yn ofynnol oherwydd cytundeb neu gyflyru gramadegol o fewn brawddeg—nid yw'r strwythur gwybodaeth bob amser yn cyfateb i'r un pwrpas (yn debyg iawn i'r berthynas rhwng gweithredoedd siarad a gramadeg). Er enghraifft, er bod ei bwysleisio a'i flaenu yn cyfleu ffocws ar ymadrodd mewn llefariad Cymraeg, mae'n bosibl cyfuno'r strategaethau hyn i fynegi ystyr gwahanol:

- (116) glas ydy'r BÊL
 (... ond gwyrddlas ydy'r ffon).

Nid yw'r un ffocws ar *glas* ac ar *bêl* yn yr ymadrodd, felly mae angen fframwaith fanylach i allu disgrifio'r gwahaniaethau hyn.

36.1 Yr hen a'r newydd

Fel sy'n wir am weddill pynciau pragmatig, nid yw'n bosibl astudio strwythur gwybodaeth heb gyd-destun, felly mae'n rhaid dychmygu cyd-destun lle defnyddir brawddegau fel y canlynol. Er mwyn deall ychydig mwy ar strwythur gwybodaeth iaith, rhaid dehongli'r hyn sydd dan sylw mewn brawddeg. **Pwnc** brawddeg sy'n ateb y cwestiwn 'am be mae'r frawddeg hon yn sôn?'

- (117) a. chwerthin (a) wnaeth Lisa
 b. CHWARDDODD Lisa

Mae'r brawddegau uchod yn sôn am *Lisa* ac yn cynnig sylw am yr hyn a wnaeth, felly *Lisa* yw'r pwnc (ond nid y ffocws). Maent yn ateb y cwestiwn *beth a wnaeth Lisa?*

- (118) Lisa (a) chwarddodd

Mae (118) yn gwneud sylw ar 'chwerthin', felly dyma bwnc y frawddeg. Mae'n ateb y cwestiwn *pwyl chwarddodd?* Mae'r gyferbyniaeth yn debyg yn y brawddegau Saesneg yn (113). Mae *the ball is BLUE* yn sylw am 'y bêl', sef y pwnc. Mae *the BALL is blue* yn sylw ar 'yr hyn sy'n las'. Mae'r ddwy frawddeg yn ateb cwestiynau gwahanol, sef *pa liw yw'r bêl?* a *beth sy'n las?*, yn ôl eu trefn.

Yng nghyd-destun (117), mae'n debyg fod y cyd-siaradwyr yn gyfarwydd â'r unigolyn, Lisa, yn barod, gan nad oes esboniad pwyl yw Lisa na'i pherthnasedd i'r disgwrs. Cymerwn felly i'r pwnc eisoes gael ei drafod neu o leiaf ei awgrymu o fewn y disgwrs. Mae'r un peth yn wir gyda phob pwnc: mae pynciau'n gysylltiedig â gwybodaeth gyffredin. E.e. er mwyn i'r frawddeg neu'r ymateb *the BALL is blue* fod yn berthnasol ac mewn modd addas (gw. Adran 35.2), mae'n rhaid bod y pwnc, 'yr hyn sy'n las', ar waith yn y disgwrs yn barod.

Mae'r syniad o wybodaeth hen a newydd, neu wybodaeth adnabyddadwy (*identifiable*), felly'n ganolog i astudio strwythur gwybodaeth. Gweler Lambrecht (1994:252) am fanylion ar raddfa gwybodaeth adnabyddadwy a'r tebygolrwydd fod yr wybodaeth fwyaf adnabyddus yn bwnc disgwrs.

36.2 Ffocws

Pan mae gwybodaeth newydd yn cael ei chyflwyno, mae gofyn am ffocws i dynnu sylw'r gwrandawr at yr wybodaeth. Nid oes angen i'r wybodaeth newydd fod yn ffaith sy'n newydd i'r gwrandawr: gall fod yn sefyllfa newydd o fewn cyd-destun cyfarwydd hefyd. Mae gwahanol fathau o ffocws ar gael i wahanol anghenion y disgwrs.

Ffocws cyferbyniol (*contrastive focus*) yw'r ffocws sy'n cyflwyno un posibilrwydd o blith amryw:

(119) Carlos (a) brynodd goffi / Prynodd CARLOS goffi

Mae'r enghraifft yn pwysleisio mai Carlos, yn hytrach nag unrhyw unigolyn arall, a gyflawnodd y weithred. Hynny yw, mae Carlos yn cyferbynnu ag unigolion eraill: allan o set yn cynnwys Carlos, Eduard, Oliver, a Nic, Carlos oedd yr un a brynodd goffi. *Glas yw'r bêl*, ac nid coch, du, llwyd, a.y.b.

O fewn categori ffocws cyferbyniol, ceir hefyd **ffocws cywirol** (*corrective focus*). Dyma'r math o ffocws a geir yn (119) os yw'n ymateb i'r cwestiwn *ai Nic a brynodd coffi?* neu os yw'r cyd-siaradwyr yn camgymryd prynwr y coffi. Nid yw'r Gymraeg yn gwahaniaethu strwythur gwybodaeth ffocws cyferbyniol a chywirol, ond mae'r math o ffocws yn ddibynnol ar y cyd-destun bob amser.

Mae gweithredoedd (*activities*) neu gyflyrau bodolaeth (*states*) hefyd yn destun ffocws. Digwydd **ffocws traethiadol** (*predicate focus*) pan fydd y sylw i'r pwnc yn wybodaeth newydd neu bwysig.

(120) a. BLOEDDIODD Glenda
b. Mi wnaeth Glenda FLOEDDIO

Yn yr enghraifft, y ferf neu'r berfenw sy'n derbyn pwyslais prosodig pan geir ffocws traethiadol. Mae is-gategori i'r ffocws traethiadol sy'n disgrifio cadarnhau neu negyddu traethiad fel gwybodaeth newydd, sef **ffocws polar** (*polar focus*). Mae Cymraeg llafar yn gwahaniaethu rhwng y mathau hyn o ffocws.

(121) a. MI floeddiodd Glenda
b. MI wnaeth Glenda floeddio
c. Mi WNAETH Glenda floeddio

Mae'r enghreifftiau yn (121) i gyd yn cadarnhau gweithred y ferf, yn ateb y cwestiwn *a floeddiodd Glenda?*, neu'n cywiro'r syniad na ddigwyddodd gweithred y ferf drwy bwysleisio'r geiryn rhagferfol *mi*. Mae'r geiryn negyddol rhagferfol (y negydd) hefyd yn rhoi ffocws polar dan bwyslais, gan adlewyrchu'r defnydd o'r geirynnau *mi* a *fe*.

(122) a. NI floeddiodd Glenda
b. NI wnaeth Glenda floeddio
c. ni WNAETH Glenda floeddio

Er bod gwahanol ddarlleniadau o (122c) yn bosibl, h.y. *ni WNAETH floeddio (ond mae hi AM wneud cyn bo hir)*, gall y tri darlleniad o (122) fod yn gyfystyr.

Pe bai'r wybodaeth a gyflwynwyd i gyd yn newydd, i gyd yn bwysig a heb ddigwydd yn gynharach yn y disgwrs, **ffocws thetig** (*thetic focus*) sydd i'r frawddeg (Sasse 2006). Os nad ydy'r llefariad yn torri gwirebau Grice, fel codi pwnc o'r newydd sydd ddim yn **berthnasol**, er enghraifft, mae ffocws thetig ar frawddeg yn awgrymu datgan neu gyhoeddi newyddion:

- (123) Die SONne scheint
 BAN.PEN.B.UN HAUL disgleirio.PRES.3UN
 ‘Disgleiria’r HAUL’ ffocws thetig mewn Almaeneg (Sasse 2006)
- (124) a. a STORM is approaching
 b. The BUTter melted ffocws thetig yn Saesneg (Lambrecht 1994)

Gan nad oes disgwyl i’r brawddegau thetig yn (123) a (124) fod yn ‘weithredol’ fel pynciau yn y disgwrs, mae’n rhaid eu deall heb unrhyw gyd-destun o’u hamgylch. Mae’r gwrandawyr yn dibynnu ar eu **gwybodaeth gyffredinol** er mwyn deall y llefariadau. Awgryma (Sasse 2006) fod pwyslais o ryw fath ar *sonne* ‘haul’ yn y llefariad Almaeneg er bod y frawddeg i gyd yn cyfrannu ‘gwybodaeth newydd’ ac mae’r llefariadau Saesneg yn (124) yn derbyn pwyslais tebyg.

I grynhoi rhai o syniadau’r adran, er bod yr wybodaeth yn y brawddegau yn (125) i gyd yn gyson o ran y cynnwys, mae’r ffordd y mae’r wybodaeth wedi ei strwythuro’n addas ar gyfer gwahanol gyd-destunau.

- (125) a. mae’r gwynt yn fain
 b. main yw’r gwynt
 c. y gwynt sy’n fain

Heb gyd-destun y sgwrs, mae’n amhosibl penderfynu’n union beth yw’r dadansoddiad cywir, ond gallwn ddychmygu (125a) yn cyflawni ffocws thetig yn haws na (125b) neu (125c) am nad oes unrhyw ran o’r elfen o’r llefariad mewn man arbennig. Gall y dadansoddiad newid, fodd bynnag, gydag unrhyw newid mewn goslef, felly nid yw’n amlwg o’r fersiwn Gymraeg ysgrifenedig.

Nid wnaed unrhyw ymchwil ar strwythur gwybodaeth y Gymraeg hyd yn hyn, er bod gwaith wedi’i wneud ar ddadansoddi geirynnau sy’n cyfleu ffocws, megis *mi/fe*, *mai/taw/na* a geirynnau gofynnol: gw. Borsley, Tallerman & Willis 2007 a R.M. Jones (2018) am ddisgrifiadau cyfoes, a sylwadau cyffredinol ar ganlyniadau semantig blaenu elfennau gan Watkins (1991) a (R.M. Jones 2018). Yn gyffredinol, nid oes cyferbyniaeth un-i-un i’w gweld rhwng cystrawen y Gymraeg a’i strwythur gwybodaeth, ond mae cyfuniadau o eirynnau, cystrawen a phwyslais prosodig yn dangos bod dadansoddiad o’r modd y mae’r Gymraeg yn strwythuro gwybodaeth yn dod i’r amlwg.

37 Crynodeb

Ystyr

Yn y Rhan hon, cafwyd cyflwyniad i wahanol agweddau ar astudiaethau ieithyddol sy'n ymwneud ag ystyr. Mae ystyr yn berthnasol i lefel morffemau a geiriau, fel a ddangoswyd yn Adran 32; hynny yw, mae morffemau a geiriau yn medru amgodio ystyron a swyddogaethau unigryw. Gwelwyd bod gramadeg yn gallu cyfleu'r berthynas rhwng geiriau sy'n perthyn, e.e. drwy ddefnyddio morffoleg, fel y rhagddodiad *an-* yn Gymraeg. Mae semanteg yn cynnwys agweddau geirfaol a gramadegol ac yn ymestyn i faes rhesymeg, sy'n ceisio darganfod elfennau sylfaenol ystyr yn ieithoedd y byd.

Dangoswyd pwysigrwydd semanteg astudio newid iaith yn ddiacronig gan nodi trawsnewidiad geiriau geirfaol, ystyrlon yn eiriau ffwythiannol sy'n cyfleu elfennau o ramadeg. Tu hwnt i ystyr llythrennol, brawddegol, mae'r ystyr sydd i'w deall wrth gyfathrebu ag eraill. Dengys hyn fod pragmateg yn faes hynod berthnasol i lefelau eraill y gramadeg, a'i bod hefyd yn ymwneud â gwybodaeth gyffredin a chyffredinol o'r byd. Er nad yw'n aml yn gysylltiedig â phatrymau neu nodweddion gramadegol cyson, gwelwyd bod pragmateg yn addasu mynegiad ieithyddol i anghenion cyfathrebu mewn bywyd bob dydd.

Cwestiynau

1. Mae *bach* a *bychan/bechan* ill dau yn golygu 'nid yn fawr'; maent yn gyfystyr (ac yn wrthystyron o *mawr*). Er hynny, a oes gwahaniaethau yn eu defnydd mewn gwahanol ymadroddion neu mewn gwahanol gyd-destunau? Ceisiwch ddod o hyd i enghreifftiau a phenderfynu ai gwahaniaethau semantig neu bragmatig ydynt.
2. A yw trosiad (metaffor) yn rhan o wybodaeth semantig neu o wybodaeth bragmatig?
3. Wrth gyfathrebu dros y rhyngryd (mewn e-byst, negeseuon testun, a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol), a yw'r cyweiriau traddodiadol wedi newid? Ystyriwch foesgarwch yn y Gymraeg.
4. Ystyriwch enghraifft (115). Sut mae cyfieithu'r frawddeg a'i ffocws i'r Gymraeg? Pa elfennau sy'n cyfleu ffocws yn y frawddeg Gymraeg?

Darllen pellach

Birner, B. J. 2012. *Introduction to pragmatics*, cyf. 38. John Wiley & Sons

Kearns, K. 2011. *Semantics*. Palgrave Modern Linguistics. Palgrave Macmillan. 2il ol.

Riemer, N. 2010. *Introducing semantics*. Cambridge Introductions to Language and Linguistics. Cambridge University Press

Yule, G. 1996. *Pragmatics*. Oxford Introduction to Language Study ELT. Oxford University Press

Rhan VI

Amrywio

38 Cyflwyniad

JONATHAN MORRIS

Mae **amrywio ieithyddol** (*linguistic variation*) yn disgrifio'r gwahaniaethau rhwng y ffordd y mae siaradwyr unigol a grwpiau o siaradwyr yn cynhyrchu nodweddion ieithyddol (gweler Meyerhoff 2011:Pen. 2). Yn fwy penodol, mae'n disgrifio sut y mae siaradwyr yn defnyddio ffurfiau gwahanol ar nodweddion heb fod yr ystyr yn newid (Walker 2014:440). Er mwyn taflu goleuni ar y cysyniad o amrywio ieithyddol, gweler isod enghreifftiau o ffurfiau sy'n gallu amrywio yn y Gymraeg heb newid yr ystyr:

	Nodwedd sy'n gallu amrywio	Sut y gall y nodwedd amrywio?	Enghraifft
1	Yr olddodiad lluosog <i>-au</i>	Y ffurf safonol yw <i>-au</i> mewn geiriau megis <i>pethau</i> . Efallai y bydd rhai siaradwyr yn dweud <i>pethau</i> ond byddwn ni hefyd yn disgwyl clywed <i>-a petha</i> yn y gogledd-orllewin ynghyd ag <i>-e pethe</i> mewn ardaloedd eraill.	Sut ma' petha? / Sut ma' pethe? / Sut ma' pethau?
2	Y gair am 'out' yn y Gymraeg	<i>Allan</i> sy'n ddisgwylidig yng ngogledd Cymru a rhannau o'r canolbarth, o'i gymharu â <i>mas</i> mewn tafodieithoedd eraill.	Pryd mae e'n mynd mas? / Pryd mae o'n mynd allan?
3	3ydd person unigol <i>mynd</i> yn y gorffennol	Mae ynganiad llawer o ferfau yn amrywio yn y Gymraeg. Un enghraifft yw ffurfiau ar y ferf <i>mynd</i> . Yn ogystal â'r ffurf safonol <i>aeth</i> , clywir ffurfiau megis <i>âth</i> .	Aeth hi i'r sinema. / Âth hi i'r sinema. / Esodd hi i'r sinema.
4	Y ferf gynorthwyol <i>wyt</i>	Mae llawer o siaradwyr yn osgoi'r ferf gynorthwyol <i>wyt</i> wrth ffurfio cymalau. Byddai siaradwyr eraill yn cynnwys y ferf gynorthwyol.	Ti'n mynd? / Wyt ti'n mynd?

Tabl 8: Enghreifftiau o amrywio yn y Gymraeg

Ceir yn yr enghreifftiau isod bedwar **newidyn** (*variable*). Hynny yw, ceir pedair nodwedd ieithyddol sy'n gallu amrywio rhwng siaradwyr. Defnyddir y term **amrywiolyn** (*variant*) i ddisgrifio'r ffurfiau sy'n gallu cael eu cynhyrchu heb newid yr ystyr. Yn Enghraifft 1, felly, gellid dweud mai'r 'terfyniad lluosog *-au*' yw'r newidyn a'r gwahanol opsiynau sydd ar gael i'r siaradwr (sef *pethau*, *pethe*, a *petha*) yw'r amrywiolion (gweler Wardhaugh 2002:134–140).

Mae amrywio yn rhan annatod o ieithoedd ac yn gallu ymddangos ar bob lefel o'r system

ieithyddol. Yn Enghraifft 1 uchod, ynganiad y terfyniad lluosog sy'n achosi'r amrywio ac felly ceir yma enghraifft o **amrywio ffonolegol** (*phonological variation*). Yn Enghraifft 2, y gair sy'n amrywio a gellir dweud mai enghraifft o **amrywio geirfaol** (*lexical variation*) ydyw. Yn Enghraifft 2, mae'r amrywio yn effeithio ar ffurf trydydd person gorffennol y ferf *mynd* ac felly mae hyn yn enghraifft o **amrywio morffolegol** (*morphological variation*). Ceir yn Enghraifft 4 enghraifft o **amrywio cystrawennol** (*syntactic variation*) gan fod yr amrywio (sef dileu'r ferf gynorthwyol *wyt*) yn effeithio ar drefn y frawddeg.

Fel arfer, nid yw siaradwyr yn cynhyrchu amrywiolion penodol ar hap. Yn hytrach, dywedir bod nifer o gyfyngiadau yn dylanwadu ar ffafrio un amrywiolyn yn hytrach nag un arall. Fe wahaniaethir rhwng **cyfyngiadau mewnol** (*internal constraints*) sy'n cwmpasu ffactorau ieithyddol (megis seiniau cyfagos sy'n gallu effeithio ar y ffordd y cynhyrchir newidyn) a **chyfyngiadau allanol** (*external constraints*) sy'n disgrifio ffactorau cymdeithasol (Meyerhoff 2011:12). Mae gwaith sy'n edrych ar **amrywio a newid ieithyddol** (*language variation and change*) yn taflu goleuni ar y ffordd y mae ieithoedd yn gweithio, felly, ond hefyd yn dangos bod **amrywiadau ansafonol** (*non-standard varieties*) ar ieithoedd yn amrywiadau go iawn. Mae hyn yn bwysig iawn gan fod tuedd mewn llawer o gymunedau i feddwl mai'r **iaith safonol** (*standard language*) yw'r iaith gywir a bod pob amrywiad arall yn anghywir neu'n fratiaith. Trwy ddarganfod patrymau cedyrn sy'n gallu ymddangos yn yr amrywiadau ansafonol hyn, mae modd dangos bod pob amrywiad ieithyddol yn ddilys.

Gellid honni mai daearyddiaeth yw'r ffactor cymdeithasol mwyaf amlwg sy'n effeithio ar amrywio. Disgwylir i drigolion o ardal benodol ddefnyddio amrywiolion ffonolegol penodol sy'n ffurfio'u hacen. Yn ehangach, tafodiaith yw'r term a roddir i ddisgrifio'r defnydd o amrywiolion ffonolegol, geirfaol a morffogystrawennol mewn modd tebyg gan siaradwyr mewn ardal benodol. Cyfeiria'r term **amrywio daearyddol** (*geographical variation*), felly, at y gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng tafodieithoedd cymunedau daearyddol. Mae gwaith ym maes tafodieitheg yn canolbwyntio ar amrywio daearyddol a'r modd y mae nodweddion ieithyddol yn amrywio rhwng ardaloedd (Chambers & Trudgill 1998:Pen. 2).

Nid daearyddiaeth yn unig sy'n effeithio ar amrywio. Ers y 1960au, mae gwaith ymchwil ym maes amrywio a newid ieithyddol (neu dafodieitheg gymdeithasol) wedi darganfod bod ffactorau cymdeithasol yn gallu effeithio ar amrywio ieithyddol o fewn ardal benodol (gweler Labov 1966 a Trudgill 1972 am enghreifftiau cynnar). Yn y gweithiau hyn canolbwyntir ar y gydberthynas rhwng yr amrywiolion a gynhyrchir gan siaradwyr a ffactorau megis rhywedd y siaradwr (*speaker gender*), cefndir economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd ac oed. Mewn nifer o astudiaethau ar wahanol amrywiadau ar ieithoedd, gwelir bod grwpiau cymdeithasol penodol (megis menywod neu bobl ifanc) yn fwy tueddol o ddefnyddio amrywiolyn penodol. Defnyddir y term **amrywio cymdeithasol** (*social variation*) i ddisgrifio'r gwahaniaethau cyffredinol a geir rhwng grwpiau cymdeithasol. Yn gysylltiedig â'r gydberthynas rhwng amrywio ieithyddol ac oed y mae'r cysyniad o newid iaith dros amser (e.e. Labov 2001). Drwy gymharu'r defnydd o wahanol amrywiolion ymhlith siaradwyr hŷn â rhai siaradwyr iau o fewn un gymuned, mae modd dadlau bod yr iaith yn newid yn y gymuned honno.

Yn ogystal ag amrywio daearyddol a chymdeithasol, mewn gweithiau cynnar ym maes amrywio a newid ieithyddol, darganfuwyd bod cyd-destun y sgwrs hefyd yn gallu dylanwadu ar yr amrywiolion penodol a ddefnyddir gan siaradwyr (Eckert & Rickford 2001; Schilling-Estes 2008). Mae'r term **amrywio arddulliadol** (*stylistic variation*) yn disgrifio'r amrywio sy'n digwydd yn lleferydd yr unigolyn a ddylanwadir gan y cyd-destun y mae'r siaradwr ynddo. Er enghraifft, dengys nifer o astudiaethau (e.e. Trudgill 1974) fod siaradwyr yr iaith Saesneg yn gyffredinol

yn fwy tueddol o ynganu'r terfyniad *-ing* fel [ɪŋ] (e.e. *singing, going*) mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol o'i gymharu â sefyllfaoedd mwy anffurfiol, lle y mae siaradwyr yn ffafrio'r ynganiad [ɪn] (e.e. *singin', goin'*). Fel a amlinellir yn Adran 41 "Amrywio Arddulliadol", mae'r ymchwiliad sy'n edrych ar amrywio arddulliadol hefyd wedi esblygu ac yn cynnig esboniadau trylwyr o'r modd y mae unigolion yn gallu defnyddio amrywiolion penodol er mwyn cyfleu agweddau ar eu hunaniaeth neu er mwyn mynegi agosatrwydd at y siaradwr neu siaradwyr eraill (e.e. [Jaffe 2009:3](#)).

Nod ymchwiliad ym meysydd tafodieitheg ac amrywio a newid ieithyddol, felly, yw disgrifio'r amrywio sy'n ymddangos mewn ieithoedd a darganfod a oes cydberthynas rhwng ffactorau ieithyddol a chymdeithasol (gan gynnwys ardal a chyd-destun) a'r defnydd o amrywiolyn penodol ar draul amrywiolyn arall. Fe wneir y gwaith hwn drwy gynnal gwaith maes yn y gymuned dan sylw a thrwy ddadansoddi'r data ieithyddol yn feintiol (*quantitative analysis*; gweler [Schreier 2013](#)). Golyga hyn fod y canlyniadau'n seiliedig ar ddadansoddiad trylwyr o leferydd siaradwyr a chanlyniadau amrywiaeth o brofion ystadegol yn hytrach nag ar ganfyddiad yr ymchwilydd (gweler [Tagliamonte 2013](#)).

Ar ben hyn, rhaid pwysleisio mai gwaith disgrifiadol, gwrthrychol (*objective*) yw ymchwilio i amrywio ieithyddol (gw. hefyd Rhan I). Yn aml, fe wahaniaethir rhwng amrywiadau ansafonol ac amrywiadau safonol ar ieithoedd. Er enghraifft, *aeth* ac nid *âth* yw'r amrywiolyn a ddisgwylir mewn amrywiadau safonol ar y Gymraeg ([P.W. Thomas 1996:52](#), gweler Enghraifft 3 uchod). Proses gymdeithasol, oddrychol yw safoni ieithoedd ac mae gan bobl farn negyddol yn aml am amrywiadau ansafonol ar ieithoedd tra bo amrywiadau mwy safonol yn cael eu hystyried yn fwy cywir ([Garrett 2010:32](#)). Safbwyntiau goddrychol a feithrinir yn y gymdeithas ehangach yw'r rhain, ac er eu bod yn ddiddorol o safbwynt cymdeithasegol mae sosioieithyddion yn ceisio brwydro yn eu herbyn drwy ddangos bod gan amrywiadau ansafonol ar ieithoedd batrymau cedyrn a rheolau gramadegol pendant (e.e. [Mufwene & Rickford 2013:1](#)).

Eir ymlaen i fanylu ar yr agweddau uchod ar amrywio ieithyddol yng ngweddill y Rhan hon. Yn gyntaf, crynhoir maes tafodieitheg yng Nghymru a'r cysyniad o amrywio daearyddol. Yn ail, gwelir sut y mae ffactorau cymdeithasol yn gallu dylanwadu ar amrywio a newid ieithyddol dros amser. Yn drydydd, manylir ar y cysyniad o amrywio arddulliadol. I gloi, trafodir sut y mae **agweddau** (*attitudes*) tuag at wahanol amrywiadau ar ieithoedd yn gallu arwain at ffurfio barn negyddol a niweidiol.

Geirfa allweddol

Amrywio ieithyddol	Tafodieitheg
Pellter ieithyddol	Isoglos
Ardaloedd tafodieithol	Ardaloedd trawsnewid
Amrywio rhydd	Lefelu tafodieithol
Cydgffwrdd ieithyddol	Cyfweliad sosioieithyddol
Tocyn	Amser real
Amser ymddangosiadol	Amrywio oedrannol
Dosbarth cymdeithasol	Rhwydweithiau cymdeithasol
Rhwydweithiau clòs	Rhwydweithiau llac
Rhyw	Rhywedd
Nodweddion cyfyngedig	Paradocs rhywedd
Uno	Cymuned arfer
Cyfeiriadedd rhywiol	Croestoriadoldeb
Amrywiadau ethnig	Amrywiadau amlethnig
Arddull	Cywair
Damcaniaeth Ymgydaddasu Cyfathrebu	Echelin gymdeithasol
Echelin arddulliadol	Sylw i siarad
Iaith gynhenid	Parau minimol
Paradocs yr arsylwr	Ciwiau sianel
Cydyfeiriant	Dargyfeiriant
Cyfatebolrwydd	Atyniad tebygrwydd
Cynllunio gan Siaradwyr	Ystyr mynegeiol
Safiad	Cydsafiad
Ansoddol	Fflagio
Ystrydeb	Gwahaniaethu ieithyddol

39 Amrywio Daearyddol

IWAN WYN REES

Math o amrywio ieithyddol yw'r amrywio daearyddol sydd dan sylw yn y Rhan hon. I raddau helaeth, diddordeb yn y math hwn o amrywio, sef y gydberthynas rhwng nodweddion ieithyddol a lleoliadau daearyddol, sy'n egluro sut y daeth **tafodieitheg** (*dialectology*) i fodolaeth fel disgyblaeth academaidd. Er bod tuedd i ystyried bod amrywio daearyddol yn gyfystyr â thafodieitheg draddodiadol (o'i chymharu â thafodieitheg gymdeithasol, sy'n ddatblygiad diweddarach), dangosir yn y Rhan hon fod gweithiau ieithyddol-ddaearyddol yn berthnasol hefyd i ddatblygiad astudiaethau sosioieithyddol, a bod tafodieithegwyr yn parhau i arloesi heddiw wrth archwilio'r berthynas gymhleth rhwng iaith a daearyddiaeth.

39.1 Datblygiad dulliau astudiaethau ieithyddol-ddaearyddol

Er mwyn deall datblygiad tafodieitheg fel disgyblaeth academaidd, rhaid mynd yn ôl yn y lle cyntaf i chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ôl [R.O. Jones \(1986:21\)](#), nid gormodiaith yw galw'r Almaenwr Georg Wenker yn '[d]ad tafodieitheg', a disgrifir ei waith gan [Chambers & Trudgill \(1998:15\)](#) fel '[t]he first dialect survey that can properly be called dialect geography'. Yn 1876 y dechreuodd Wenker weithio ar yr arolwg tafodieithol hwn o amrywiadau Almaeneg, gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar rannau o ogledd yr Almaen. Er mwyn casglu tystiolaeth am ffurfiau llafar yn y rhanbarth hwn o'r wlad, anfonwyd holiadur drwy'r post at tua 1,500 o athrawon ysgol lle'r oedd disgwyl i'r ymatebwyr aralleirio dros ddeugain o frawddegau a oedd wedi eu hysgrifennu mewn Almaeneg Safonol. Wedi hynny, ehangodd cwmpas yr arolwg, a rhwng 1877 a 1887 anfonodd Wenker holiaduron at athrawon ar hyd a lled yr Almaen gyfan. Daeth arolwg Wenker felly'n brosiect gwirioneddol genedlaethol, y cyntaf mewn cyfres o astudiaethau tafodieithegol uchelgeisiol iawn. Yn wir, nid oes modd gorbwysleisio pa mor sylweddol oedd swm y cynnyrch a gafwyd ar gyfer arolwg Wenker; anfonwyd ei holiadur at tua 50,000 o athrawon, a dychwelwyd tua 45,000 ohonynt wedi eu llenwi.

Er gwaethaf cynnyrch hynod swmpus y prosiect cenedlaethol hwn, daethpwyd i sylweddoli maes o law fod gwendidau i ddulliau casglu data yr arolwg. Gan mai ymdrin ag ymatebion ysgrifenedig pobl leol yr oedd Wenker a'i gydweithwyr, nid oedd modd gwybod pa mor gywir neu ddibynadwy yr oedd ffurfiau 'llafar' ymatebion yr holiaduron. Yn ogystal â hynny, byddai'n deg dweud i'r swm enfawr o holiaduron a ddychwelwyd brofi'n fwy o lyffethair nag o fantais. Yn y diwedd, bu'n rhaid i Wenker gyfyngu ei ddadansoddiad i amrywiolion nifer penodol o eiriau mewn rhanbarthau o ogledd a chanolbarth yr Almaen. Bu'n rhaid aros tan 1926 mewn

gwirionedd cyn i brosiect Wenker gyrraedd ei benllanw gyda chyhoeddi'r *Deutscher Sprachatlas*, a olygwyd gan Ferdinand Wrede. Yn eironig ddigon, er gwaethaf swm enfawr y data a gasglwyd gan Wenker, sylweddolwyd bod yr arolwg yn brin o wybodaeth yn achos rhai geiriau, ac o ganlyniad i'r diffyg hwn anfonodd W. Mitzka ragor o holiaduron i 50,000 o ysgolion yn 1939.

Os mai Wenker a'i ddilynwyd sy'n cynrychioli dechrau astudio'r berthynas rhwng nodweddion ieithyddol a lleoliadau daearyddol mewn modd systematig, rhaid troi at waith gŵr o'r Swistir, sef Jules Gilliéron, er mwyn deall y camau arwyddocaol nesaf yn natblygiad methodolegau casglu data tafodieithol. O dan gyfarwyddyd Gilliéron y dechreuwyd gweithio yn 1896 ar arolwg cenedlaethol o dafodieithoedd Ffrainc, sef yr *Atlas Linguistique de la France* (ALF), a byddai'n deg disgrifio'r gwaith hwn fel ymgais fwriadol i wella ar ddulliau gwaith maes Wenker. Yn ddiau, y prif wahaniaeth rhwng arolwg yr Almaen a'r ALF yw'r modd yr hyfforddodd Gilliéron weithiwr maes nid yn unig i gasglu ffurfiau tafodieithol, ond hefyd i'w trawsgrifio drwy ddefnyddio symbolau seinegol. Gwelir yma felly newid hynod arwyddocaol (a hirhoedlog ei ddylanwad) o ddull yr holiadur drwy'r post i'r dull wyneb-yn-wyneb. Yn wir, gellid ystyried y gweithiwr maes a ddewiswyd gan Gilliéron, sef Edmond Edmont, fel cymeriad chwedlonol bellach yn hanes tafodieithog. Er mai groser oedd Edmont wrth ei alwedigaeth, fe'i dewiswyd yn ôl pob tebyg am fod ganddo glust arbennig o fain; rhwng 1896 a 1900, beiciodd i bob cwr o Ffrainc gan ddewis siaradwyr i'w cyfweld ar hyd y ffordd, a chasglu'r deunydd crai ar gyfer tua 1,500 o eitemau ieithyddol. Erbyn iddo gwblhau'r gwaith maes, roedd Edmont wedi cofnodi ffurfiau cyfanswm o 700 o siaradwyr Ffrangeg mewn 639 o leoliadau gwahanol, a chyhoeddwyd canlyniadau'r arolwg rhwng 1902 a 1910, yn fuan wedi i'r gwaith maes ddod i ben.

O safbwynt dulliau gwaith maes, daw R.O. Jones (1986:22) i'r casgliad fod methodoleg wyneb-yn-wyneb yr ALF yn rhagori ar ddull Wenker a'i ddilynwyd ar dri chyfrif:

- (i) rhoddwyd cryn sylw i'r samplo ieithyddol, a gwelwyd bod yn rhaid addasu'r holiadur yn ystod yr holi ei hun gan na fyddai pob eitem yn addas ar gyfer pob siaradwr;
- (ii) cofnodwyd atebion yr holl siaradwyr gan un person, a oedd felly'n sicrhau rhyw gymaint o unffurfiaeth yn y cofnodi;
- (iii) yn drydydd, rhaid pwysleisio fod y deunydd i raddau pell iawn yn cynrychioli'r sefyllfa ar yr adeg pan gyhoeddwyd ef.

Ond er gwaetha'r sylw a roddwyd i'r samplo, mae'n ymddangos oddi wrth yr wybodaeth sydd gennym mai lleiafrif bychan iawn oedd y merched a holwyd o blith y 700 (60 yn unig), ac nad oedd y rhan fwyaf o'r siaradwyr wedi derbyn mwy o addysg na'r hyn a oedd yn arferol yng nghefn gwlad Ffrainc ar y pryd. Pan ystyriwn hefyd fod rhagdybiaeth gwbl glir i'w gweld yn yr ALF fod iaith un siaradwr o ardal benodol yn cynrychioli tafodiaith cymuned gyfan, daw'n amlwg mai un o brif wendidau data'r arolwg hwn yw nad yw'n llwyr gynrychioliadol o bob grŵp cymdeithasol yng nghymunedau Ffrainc.

Beth bynnag am hynny, ni ellir gorbwysleisio pa mor ddylanwadol fu gwaith Gilliéron ar yr ALF ar brosiectau cenedlaethol eraill, nid yn unig yn Ewrop, ond hefyd yng Ngogledd America. Mae'n werth crybwyll yma, er enghraifft, mai dau fyfyrwr i Gilliéron a fu'n gweithio ar yr ALF, sef Karl Jaberg a Jakob Jud, a aeth ati i gyfarwyddo eu prosiect eu hunain ar dafodieithoedd Eidaleg de'r Swistir a'r Eidal. Jakob Jud hefyd (ynghyd ag un o dri gweithiwr maes yr Eidal, Paul Scheurmeier) a aeth i'r Unol Daleithiau i hyfforddi gweithwyr maes ar gyfer arolwg sylweddol *The Linguistic Atlas of the United States and Canada* (LAUSC). Mewn modd tebyg, roedd Gilliéron hefyd yn ddolen gyswllt rhwng yr ALF ac arolygon cenedlaethol eraill, e.e. yn Sbaen, yn Romania ac yn Lloegr. Nid gormodiaith felly fyddai honni bod y gaseg eira hon

o brosiectau ieithyddol-ddaearyddol sylweddol a ddatblygodd yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif i raddau helaeth yn tarddu o ddylanwad pellgyrhaeddol Gilliéron.

Fodd bynnag, dylid pwysleisio nad glynu'n slafaid wrth ddulliau gwaith maes Ewropeaidd a wnaeth tafodieithgwyr daearyddol Gogledd America. Yn hytrach, ers dechrau'r LAUSC yn 1930, bu gweithwyr maes Gogledd America yn allweddol ac yn arloesol wrth ddatblygu ymhellach ddulliau gwaith maes astudiaethau ieithyddol-ddaearyddol. Oherwydd ehangder anhygoel y diriogaeth a oedd yn berthnasol i arolwg o dafodieithoedd yr Unol Daleithiau a Chanada, bu'n rhaid rhannu'r gwaith yn gyfres o is-brosiectau. Y gŵr a gafodd y cyfrifoldeb o gydlynu holl is-brosiectau'r arolwg hwn oedd Hans Kurath. Heb os, roedd sylweddoliad gweithwyr maes Gogledd America o'r angen i ddewis siaradwyr yn ofalus yn gam hynod bwysig yn natblygiad y maes. Fel hyn, er enghraifft, y rhannodd Hans Kurath (fel golygydd y *Linguistic Atlas of New England*, un o is-brosiectau'r LAUSC) y cyfranwyr yn dri math gwahanol, fel y gwelir yn Ffigur 18.

Type 1 Little formal education, little reading, and restricted social contacts.

Type 2 Some formal education, usually high school; wider reading, and more social contacts.

Type 3 Superior education, usually university; wide reading, and extensive social contacts.

Ffigur 18: Mathau o gyfranwyr yn ôl Hans Kurath (Chambers & Trudgill 1998:29)

Ymhellach, sylweddolodd Kurath fod gwahaniaethau oed i'w cael o fewn pob un o'r mathau uchod, felly crëwyd yr is-grwpiau canlynol ar gyfer pob math:

Type A Aged, or regarded as old-fashioned.

Type B Middle aged, or regarded as more modern.

Ffigur 19: Is-grwpiau o gyfranwyr yn ôl Hans Kurath (Chambers & Trudgill 1998:29)

Er bod tuedd heddiw i ystyried sosioieithyddion o'r 1960au ymlaen, a William Labov yn arbenig (gweler Adranau 40 ac 41 am fanylion pellach), fel yr arloeswyr o safbwynt dewis samplau o siaradwyr sy'n gynrychioliadol o gymuned gyfan, nid oes dim dwywaith na fu Kurath a'i gydweithwyr yn allweddol wrth fraenaru'r tir ar gyfer y datblygiadau mwy diweddar hyn (gweler Butters 1997 am ddadansoddiad manylach o ddylanwad tafodieithog daearyddol ar ddamcaniaeth sosioieithyddol). Ymhellach, mae'n werth pwysleisio sut y rhoddwyd sylw cynyddol gan weithwyr maes Gogledd America i effaith strwythur holiaduron a geiriad cwestiynau ar yr ymatebion a geid gan siaradwyr; unwaith eto, byddai arbrofion y gweithwyr maes o ganlyniad i'r 'amrywio cyd-destunol' hwn yn allweddol maes o law i ddatblygiad astudiaethau mwy sosioieithyddol oddi ar y 1960au.

Yn olaf, o safbwynt datblygiadau diweddarach ym maes tafodieithog daearyddol, mae'n bwysig crybwyll mai'r hyn sy'n nodweddu degawdau olaf yr ugeinfed ganrif a'r cyfnod diweddar yw twf cynyddol dulliau cyfrifiadurol ac ystadegol mwyfwy soffistigedig o fesur gwahaniaethau tafodieithol. Un o'r arloeswyr cynharaf o ran datblygu dulliau meintiol o gymharu tafodieithoedd daearyddol oedd Jean Séguy, cyfarwyddwr prosiect *Atlas Linguistique de la Gascogne*, a gyhoeddwyd fesul rhifyn rhwng 1952 a 1973. Roedd Séguy yn ymwybodol iawn mai ar sail barn oddrychol y tafodieithegydd i raddau helaeth yr oedd arwyddocâd unrhyw wahaniaeth tafodieithol yn cael ei bennu, felly aeth ati i ddatblygu methodoleg feintiol fwy gwrthrychol o fesur gwahaniaethau ieithyddol. **Tafodieithometreg** (*dialectometry*) yw'r term a ddefnyddir ar gyfer y dulliau hyn a ddatblygwyd gan Séguy, a bellach defnyddir y term hefyd ar gyfer dulliau meintiol diweddarach o gymharu gwahanol dafodieithoedd. Yr hyn a oedd yn

greiddiol i ddull tafodieithometrig Séguy felly oedd cymharu'r holl ymatebion a gafwyd (h.y. yr ymatebion i bob eitem yn ei arolwg) rhwng parau o leoliadau cyffiniol. Gan hynny, cyfrifwyd nifer yr eitemau lle'r oedd 'cymdogion' yn gwahaniaethu oddi wrth ei gilydd, a defnyddiwyd y gwahaniaethau hyn rhwng ardaloedd cyffiniol i gyfrifo canrannau. Dyma'r canrannau a roddai sgorau mynegeiol i Séguy, a'r rhain sy'n ymddangos ganddo ar fapiau er mwyn cyfleu **pellter ieithyddol** rhwng y lleoliadau cyffiniol. Gwelwn felly fod tafodieithometreg yn fan cychwyn allweddol o safbwynt datblygu technegau ystadegol a modelau gofodol-ddaearyddol mwy soffistigedig fyth sy'n addas ar gyfer dadansoddi data tafodieithol, ac fel y cawn weld yn y man daeth ambell astudiaeth ieithyddol-ddaearyddol o dafodieithoedd Cymraeg o dan ddylanwad y dulliau hyn.

39.2 Cysyniadau sylfaenol tafodieitheg ddaearyddol

Hyd yma, rydym wedi bwrw golwg bras ar ddatblygiad astudiaethau ieithyddol-ddaearyddol yn Ewrop ac yng Ngogledd America ers chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn yr adran hon eir ati i grynhoi rhai o brif gysyniadau'r ddisgyblaeth, gan olrhain datblygiad agweddau ieithyddion tuag atynt dros wahanol gyfnodau.

39.2.1 NORMs (a'r cysyniad o 'burdeb' ieithyddol)

Fel y crybwyllwyd eisoes, un nodwedd sy'n gyffredin i bob un o'r prosiectau ieithyddol-ddaearyddol sylweddol y cyfeiriwyd atynt yw'r math o siaradwyr a ddewiswyd ar eu cyfer. Tuedd yr arolygon hyn oedd gwneud defnydd helaeth o ddynion hŷn o ardaloedd gwledig a oedd wedi byw yn yr un gymuned ar hyd eu hoes. Y term Saesneg a ddefnyddir i ddisgrifio'r math hwn o siaradwyr yw NORMs, acronym o 'non-mobile, older, rural males' ([Chambers & Trudgill 1998:29–30](#)). Fodd bynnag, beirnedir tafodieithegwyr 'traddodiadol' yr arolygon erbyn hyn gan (socio)ieithyddion a thafodieithegwyr cymdeithasol am iddynt ragdybio bod amrywiadau'r NORMs hyn yn gynrychioliadol o dafodieithoedd cymunedau cyfain. Derbynnir yn gyffredinol bellach na all iaith NORMs fod yn gynrychioliadol o iaith cymuned gyfan gan mai cynrychioli un garfan gymdeithasol benodol yn unig (a phrin iawn, yn aml) y maent mewn gwirionedd.

Yn yr un modd, ymwrthod â'r cysyniad o 'burdeb' ieithyddol a wna ieithyddion cyfoes; pwysleisia [Chambers & Trudgill \(1998:46\)](#), er enghraifft, fod astudiaethau ieithyddol yn profi 'that there is probably no such thing as a "pure" dialect, since most varieties of language appear to be variable and to show signs of influence from other varieties'. Gellir crybwyll yn y cyswllt hwn mai un o ganfyddiadau astudiaeth ddiweddar o amrywiadau tafodieithol y Gymraeg yng nghanolbarth Cymru yw nad yw grwpiau o siaradwyr sy'n dra thebyg o safbwynt eu nodweddion cymdeithasol a diwylliannol (ac sy'n ymdebygu i raddau helaeth i'r NORMs traddodiadol) yn agos at fod yn unffurf yn ieithyddol ([Rees 2013, 2015](#)).

39.2.2 Isoglosau (a bwndeli ohonynt)

Cysyniad cyffredin arall ym maes tafodieitheg yw **isoglosau** (*isoglosses*), sef llinellau ar fap sy'n cynrychioli ffiniau tafodieithol. Dylid pwysleisio yma nad oes modd i isoglos gynrychioli ffin mwy nag un nodwedd ieithyddol (boed honno'n nodwedd eirfaol, ffonolegol neu gystrawennol, er enghraifft); er hynny, mae'n gyffredin i isoglosau sawl nodwedd wahanol gyd-ddigwydd (neu o leiaf gydredeg yn agos i'w gilydd). Gwelwn enghraifft o hyn yn Ffigur 20, lle y mae

isoglosau pum gair deheuol, sef *rhaca*, *march*, *mam-gu*, *tad-cu* a *twlc*, i'w gweld yn agos iawn i'w gilydd; y geiriau gogleddol traddodiadol cyfatebol fyddai *cribyn*, *stalwyn*, *nain*, *taid* a *cwt* / *cyt mochyn*. **Bwndeli o isoglosau** yw'r term a ddefnyddir ar gyfer sefyllfa o'r math hwn ac, fel y pwysleisia A.R. Thomas (1980:3), arddangos bwndeli fel hyn oedd y dull mwyaf cyffredin gan dafodieithgwyr traddodiadol o sefydlu ardaloedd llafar neu **ardaloedd tafodieithol**.

Mewn gwirionedd, mae bodolaeth ffiniau tafodieithol sy'n ein galluogi i wahaniaethu rhwng tafodieithoedd a'i gilydd wedi bod yn bwnc dadleuol ers peth amser. Wrth ymdrin â'r ystyriaeth hon, daw Durrell (1990:937) i'r casgliad fod dau brif safbwynt i'w canfod ymhlith ieithyddion: mae un garfan o ysgolheigion yn rhagdybio bodolaeth tafodieithoedd arwahanol, gan geisio amlygu eu ffiniau, tra bo carfan arall yn gwadu bodolaeth ffiniau o'r fath, gan ddadlau mai trawsnewid ieithyddol graddol a geir wrth symud o un ardal i'r llall. Gellir dadlau mai pen draw'r amheuaeth hon ynghylch dilysrwydd isoglosau penodol yw'r safbwynt nad yw tafodieithoedd fel y cyfryw yn bodoli o gwbl, a dyna'r casgliad y daeth dau ieithydd o Ffrancwyr iddo yn chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef Paul Meyer yn 1875 a Gaston Paris yn 1888 (Jochowitz 1973:30–1). Fodd bynnag, pwysleisia Durrell (1990:942) fod llawer o dafodieithgwyr bellach yn ystyried safbwynt Meyer a Paris yn rhy eithafol, “and remain convinced that there are geographical groups which exhibit such a significant degree of uniformity in their linguistic behaviour as to justify the attempt to identify them”. Yn y cyswllt hwnnw, mae'n werth dyfynnu cyngor B. Thomas & P.W. Thomas (1989:23) ynghylch y modd y dylem ddehongli arwyddocâd unrhyw isoglos:


Mae'n bwysig cofio nad yw isoglos yn ddim ond dyfais ddefnyddiol sydd yn bras nodi eithafion dosbarthiad daearyddol gair: ni ddylid dehongli'r llinell fel arwydd bod un gair yn darfod yn sydyn ac un arall yn cymryd ei le.

39.2.3 Ardaloedd trawsnewid


Cysyniad pwysig arall ym maes tafodieitheg ddaearyddol yw **ardaloedd trawsnewid** (*transition areas*). Mae sawl astudiaeth dafodieithol yn dangos nad newid sydyn, absoliwt o un ffurf i'r llall sy'n nodweddu ardaloedd tafodieithol cyffiniol; yn hytrach, mae'n gyffredin i wahanol amrywiolion gyd-fyw (neu gystadlu yn erbyn ei gilydd) mewn ardaloedd ffiniol. Fel y mae'r term ardaloedd trawsnewid yn ei amlygu, gellir dweud bod ardaloedd o'r math hwn yn ddrych o drawsnewid graddol rhwng ardaloedd tafodieithol gwahanol. Gwelwn enghraifft o'r broses hon yn Ffigur 21, lle y mae'r geiriau *allan* a *mas* ill dau'n gyffredin mewn rhannau o ogledd Ceredigion.

Mewn modd tebyg, datblygwyd cysyniadau newydd gan Chambers & Trudgill (1998:104–18) mewn dwy astudiaeth achos fanwl o natur amrywio ffonolegol mewn ardal drawsnewid helaeth yn Lloegr, sef ‘mixed lects’, ‘fudged lects’ a ‘scrambled lects’. Y ffin rhwng /ʌ/ de Lloegr ac /ʊ/ gogledd Lloegr (e.e. /kʌp/ a /kʊp/ *cup*), yn ogystal â'r ffin rhwng /ɑː/ hir de Lloegr ac /a/ fer gogledd Lloegr (e.e. /bɑːθ/ a /bʌθ/ *bath*), sydd dan sylw ganddynt yn yr astudiaethau hyn. O fewn ardal helaeth o Ddwyrain Canolbarth Lloegr (*the East Midlands*), gwelir bod gwahanol raddfeydd o drawsnewid i'w cael rhwng Saesneg deheuol ‘pur’ a Saesneg gogleddol ‘pur’. Yn achos y llafariad agored, er enghraifft, gwahaniaethir rhwng yr hyn a elwir ganddynt yn ‘mixed lects’ (/ɑː/ neu /a/ yn bennaf, gydag amrywiad arall yn ymddangos yn achlysurol), ‘fudged lects’ (llafariad hanner hir yn gyfaddawd rhwng y ddau amrywiad posibl) a ‘scrambled lects’ (sef cymysgedd o ‘mixed lects’ a ‘fudged lects’).

Yn amlwg, mae dadansoddiadau fel y rhain o ardaloedd trawsnewid yn amlygu anfanteision



Ffigur 20: Enghraifft o fwndel o isoglosau (yn seiliedig ar [B. Thomas & P.W. Thomas 1989:24](#))



Ffigur 21: Enghraifft o ardal drawsnewid (yn seiliedig ar [B. Thomas & P.W. Thomas 1989:27](#))

sylfaenol isoglosau: nid yn unig y maent yn creu'r argraff fod un sain yn arferol ar y naill ochr i ffin, tra mae sain arall yn arferol yr ochr arall iddi (Durrell 1990:937–42), ond maent hefyd yn rhagdybio bod newid cyflym a sylweddol i'w ganfod wrth deithio ychydig filltiroedd, a bod y newid hwnnw'n effeithio ar systemau ffonolegol yn eu cyfanrwydd (Awbery 1984:102). Os edrychwn ar isoglos traddodiadol yr 'u ogleddol' a ddisgrifiwyd yn wreiddiol gan Darlington (1902) ac a amlygir yn Ffigur 22, cawn yr argraff fod pob siaradwr i'r gogledd o'r ffin yn gwahaniaethu'n gyson rhwng [i:]/[i] flaen ac [i:]/[i] ganol, a hynny ym mhob cyd-destun, e.e. [ti:] *ti* vs. [ti:] *tŷ* (llafariad hir geiriau unsill) a [kari] *Cari* vs. [kari] *caru* (llafariad byrion y sillaf olaf ddi-bwys agored). Ar y llaw arall, ymddengys oddi wrth Ffigur 22 fod y cyferbyniad hwn rhwng [i:]/[i] ac [i:]/[i] yn cael ei gollu'n llwyr i'r de o'r ffin hon. Fodd bynnag, mewn dadansoddiad diweddar o sefyllfa'r '<u> ogleddol' Gymraeg mewn ardal drawsnewid yng nghanolbarth Cymru (Rees 2016), sef Tywyn yn ne Gwynedd, defnyddiwyd data meintiol i ddangos bod isoglos Darlington mewn gwirionedd yn gwbl annigonol heddiw gan fod amrywio helaeth i'w weld ar ddwy ochr y ffin, nid yn unig rhwng siaradwyr a'i gilydd, ond hefyd o fewn iaith yr unigolyn, yn ogystal â rhwng gwahanol gyd-destunau ieithyddol.


39.3 Astudiaethau ieithyddol-ddaearyddol ar y Gymraeg

Yn olaf, cawn gipolwg ar y mathau o astudiaethau ieithyddol-ddaearyddol a gynhaliwyd ar y Gymraeg. Mewn gwirionedd, o'i gymharu â'r gweithgarwch sylweddol a welwyd ar gyfandir Ewrop ac yng Ngogledd America (gweler braslun uchod ar ddatblygiad hanesyddol y ddisgyblaeth, Adran 39.1), ni fu unrhyw brosiectau cenedlaethol mawr ar dafodieithoedd Cymraeg yn negawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg nac yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Yn hytrach, yr hyn a oedd yn fwy cyffredin yn y cyfnodau hyn oedd astudiaethau ieithyddol strwythurol o dafodieithoedd penodol, fel rheol mewn un ardal fechan o Gymru. Mae modd rhannu'r astudiaethau strwythurol hyn yn ddau fath penodol sy'n perthyn i gyfnodau gwahanol, sef:

- (i) disgrifiadau ysbeidiol o amrywiadau Cymraeg ambell ardal yng Nghymru gan ieithyddion nad oeddynt yn Gymry (rhwng 1882 a 1925);
- (ii) monograffau tafodieithol disgrifiadol a gyflwynwyd i Brifysgol Cymru am raddau MA a PhD (rhwng 1926 a'r 80au).

Gellir dweud felly mai ffrwyth ymchwil Sweet (1884) ar amryfal nodweddion tafodieithol Nant Gwynant yn Eryri, clasur Fynes-Clinton (1913) ar eirfa ardal Bangor, a chyfrol Sommerfelt (1925) ar Gymraeg plwyf Darowen (cyffiniau Llanbryn-mair) a rhannau eraill o'r canolbarth yw'r astudiaethau tafodieithogol systematig cyntaf sydd gennym o'r Gymraeg. Er hynny, nid yw'n ymddangos i ddulliau ieithyddol newydd yr ieithyddion hyn ysgogi academyddion o Gymru i ymgymryd ag astudiaethau tebyg yn yr un cyfnod, ac fel yr awgrymodd R.O. Jones (1986:18), '[e]fallai mai'r pwyslais ar sefydlu cyfrwng llenyddol derbyniol ac unffurf a barodd na chafwyd cynnydd arbennig ym maes astudiaethau tafodieithol yng Nghymru ar ddechrau'r [ugeinfed] ganrif'.

Fodd bynnag, teg dweud y bu tro ar fyd oddi ar ail hanner y 1920au wrth i fyfyrwyr o Gymru ddechrau llunio monograffau disgrifiadol ar dafodieithoedd Cymraeg ardaloedd penodol, gweithgarwch a ddatblygodd yn raddol hyd at y 1980au (gweler rhestr o'r astudiaethau hyn gan B. Thomas 2000). Diddorol nodi yn y cyswllt hwn mai traethawd ar dafodiaith Llanfair Pwllgwyngyll a gyhoeddwyd yn 1926 gan Angharad Morris-Jones, merch yr ysgolhaig Syr John Morris-Jones, yw'r cyntaf yn nhraddodiad y monograffau tafodieithol Cymraeg, a dichon mai



Ffigur 22: Tiriogaeth yr 'u ogleddol' (yn seiliedig ar [B. Thomas & P.W. Thomas 1989:32](#))

gwaith [Fynes-Clinton](#) a'i hysbrydolodd i gyflawni'r gwaith hwn. Mae'n werth crybwyll hefyd fod monograff cynnar arall, sef un J. J. Glanmor Davies (1934) ar dafodiaith Ceinewydd, yn arloesol yn ei ddydd ac yn torri tir newydd, e.e. wrth i'w ddadansoddiadau seinegol fesur union leoliad y tafod yn y geg. Yn wir, awgrymwyd yn ddiweddar gan [Awbery \(2017\)](#) i ddatblygiad tafodieitheg yng Nghymru gael ei lesteirio gan farwolaeth annhymig y gŵr hwn o'r diciâu yn 1935 ac yntau'n 27 mlwydd oed.

Yn gyffredinol, gellir dweud bod un o wendidau mawr maes 'ieithyddiaeth gyffredinol' i'w weld hefyd yn yr astudiaethau uchod, yn enwedig yn y monograffau tafodieithol, sef bod eu pwyslais ar ddisgrifio systemau unffurf yn hytrach na dadansoddi prosesau amrywio a newid ieithyddol. Noda [Petyt \(1980:108\)](#) fod dwy agwedd gyffredin i'w gweld gan ieithyddion o'r brif ffrwd tuag at amrywio cyn ail hanner yr ugeinfed ganrif: y naill oedd ei anwybyddu'n llwyr, h.y. esgus nad oedd amrywio yn rhan o'r system 'normal' neu 'draddodiadol', a'r llall oedd defnyddio'r term 'free variation', sef **amrywio rhydd** os oedd unrhyw fath o amrywio yn codi. Mewn gwirionedd, y fframwaith ffonemig o ddadansoddi ffonoleg, sef y model ffonolegol clasurol ([G.E. Jones 2000:4-7](#)), sy'n egluro pam y gorddefnyddiwyd y term 'amrywio rhydd', a pham nad oedd pwyslais arbennig yn y monograffau tafodieithol hyn ar brosesau amrywio; yw wir, cyfaddefodd [G.E. Jones \(2000:16\)](#) nad oedd modd iddo roi cyfrif am yr amrywio rhwng [a:] ac [æ:], e.e. [ta:d] ~ [tæ:d] 'tad', mewn un ardal yn Sir Frycheiniog oherwydd cyfyngiadau'r fframwaith ffonemig.

Diffyg arall sy'n amlwg yn yr astudiaethau strwythurol hyn (ac eithrio yng ngwaith [Sommerfelt 1925](#), efallai) yw bod yr elfen gymharol yn brin ynddynt, h.y. ychydig iawn o gyfeiriadau at dafodieithoedd ardaloedd eraill sydd ynddynt. Gan hynny, gellir dadlau nad astudiaethau yn nhraddodiad y prosiectau ieithyddol-ddaearyddol mawrion mohonynt mewn gwirionedd; mae'n ddigon posib, er hynny, mai'r amcan yn y diwedd oedd llunio cymariaethau rhwng tafodieithoedd gwahanol ardaloedd ar sail y monograffau. Ond, yn anffodus, prin iawn fu dadansoddiadau cymharol o'r math hwn (gweler, er hynny, ymgais [C.H. Thomas 1975](#) i ymdrin â nodweddion ffonolegol dros ranbarth eang yn ne-ddwyrain Cymru).

O safbwynt cyflawni arolwg o ffurfiau tafodieithol Cymraeg ar raddfa genedlaethol, bu'n rhaid aros tan y 1960au cyn yr aethpwyd â'r maen i'r wal, ac yn 1973 y cyhoeddwyd canlyniadau'r arolwg hwn yn *The Linguistic Geography of Wales* (LGW) gan Alan R. Thomas. Disgrifir y LGW fel atlas tafodieithol yn aml gan fod ynddo ugeiniau o fapiau sy'n dangos dosbarthiad daearyddol geiriau tafodieithol ym mhob cwr o Gymru; gellid nodi er hynny fod y cyfanswm o 390 o eitemau geirfaol o 175 lleoliad yng Nghymru yn gymharol isel o'i gymharu â swm enfawr y data a gasglwyd ar brosiectau eraill. O gymharu dulliau gwaith maes y gwaith hwn â phrosiectau cenedlaethol eraill, daw'n amlwg nad oedd gan yr arolwg hwn yr un math o adnoddau dynol ac ariannol ag a gafwyd mewn gwledydd eraill. Mae'n debyg felly mai dyna pam y casglwyd y data drwy anfon holiaduron drwy'r post at bobl leol yn hytrach na thrwy'r dull wyneb-yn-wyneb a ddatblygwyd ddegawdau'n gynharach gan Gilliéron a'i gydweithwyr. Mae'n werth pwysleisio hefyd mai canolbwyntio'n llwyr ar y genhedlaeth hŷn (neu NORMs) a wnaeth arolwg A. R. Thomas, ac na cheisiodd gael samplau cynrychioliadol o siaradwyr ym mhob ardal. Fodd bynnag, gellid dadlau na ddylid ystyried cwmpas cyfyngedig y LGW fel diffyg mewn gwirionedd. Gellir yn rhwydd gytuno â [B. Thomas \(2000:414\)](#), er enghraifft, wrth iddi gloriannu llwyddiant arolwg A. R. Thomas:

Llwyddodd yr astudiaeth hon oherwydd iddi ddiffinio tasg a oedd yn ymarferol bosibl, sef bodloni ar gyfyngu ar hyd a chynnwys yr holiadur trwy gymorth canolwyr a'r gwasanaeth post.

Fodd bynnag, dangosodd P.W. Thomas (1982, 1984, 1990) na fu methodoleg samplu'r LGW yn effeithiol yn y de-ddwyrain gan fod yno siaradwyr hŷn o gefndiroedd amrywiol iawn, e.e. rhai mewn ardaloedd glofaol yr oedd eu rhieni yn hanu o dde-orllewin neu ogledd Cymru, yn ogystal â rhai o gefndiroedd mwy gwledig a oedd â gwreiddiau dyfnion yn yr hen Sir Forgannwg. Gan mai cymysgedd o'r mathau hyn o siaradwyr a ddefnyddiwyd fel sail ar gyfer data'r LGW, nid yw'n syndod mai disgrifiadau megis 'typically mixed' a oedd yn gyffredin gan A. R. Thomas ar gyfer dosbarthiad sawl gair yn y de-ddwyrain. Pwysleisia'r LGW (A.R. Thomas 1973:183), er enghraifft, fod y darlun yn gymysglyd iawn yn Sir Forgannwg pan edrychid ar y geiriau Cymraeg a ddefnyddid ar gyfer *gate* i'r dwyrain o afon Nedd; er mai *clwyd* oedd y gair mwyaf cyffredin yn y rhanbarth hwn, nodwyd hefyd achosion o'r ffurfiau *gât*, *iet* a *llidiart*. Yr hyn a wnaeth P.W. Thomas (1982, 1984, 1990) yn wahanol, felly, oedd talu sylw manylach i'r samplu gan ganolbwyntio ar siaradwyr o gefndir amaethyddol yn unig. O wneud hynny, dangoswyd nad oedd patrymau traddodiadol yr hen Sir Forgannwg o anghenraid yn 'typically mixed'; yn achos *gate*, er enghraifft, amlygwyd patrwm hynod glir lle'r oedd *clwyd* yn arferol drwy'r sir, ond yn amrywio â *gât* yn ardaloedd mwyaf gorllewinol y sir.


Beth bynnag am hynny, mae'n bwysig pwysleisio bod mwy i atlas ieithyddol A.R. Thomas (1973) na mapiau sy'n dangos dosbarthiad daearyddol gwahanol amrywiolion geirfaol; ceir yma hefyd ymgais i sefydlu prif ardaloedd llafar y Gymraeg ar sail y gwahanol fwndeli o isoglosau a ddangosir yn ail ran y LGW (A.R. Thomas 1973:11–82), a'r prif ardaloedd tafodieithol hyn a ddangosir yn Ffigur 23.

Mae'n ddiddorol nodi yn y cyswllt hwn i A.R. Thomas (1973:80) ddadlau fel a ganlyn:

Comparison of the speech-areas [...] with the boundaries of the *gwledydd* of the Middle Ages suggests a persisting correspondence between the medieval administrative boundaries and the present-day speech-area boundaries [...] and correlations with the geographically smaller areas of *cantrefi* can be ascertained.

Nid A. R. Thomas yw'r unig un i honni bod cydberthynas rhwng ffiniau tafodieithol Cymraeg a ffiniau unedau gweinyddol o'r Oesoedd Canol, h.y. ffiniau hanesyddol y 'gwledydd' a'r 'cantrefi'. Yn wir, aeth Thorne (1984) ymhellach fyth gan ddadlau bod ffiniau unedau gweinyddol llai fyth, sef y 'maenorau' (israniadau o fewn 'cymydau'), hefyd yn cydreded â ffiniau ieithyddol yng nghyffiniau Llanelli. Fodd bynnag, dylid pwysleisio bod archwiliad manwl B. Thomas (1984) o un nodwedd ffonolegol benodol, sef y modd y collir y cyferbyniad rhwng /ε/ ac /a/ mewn rhannau o'r gogledd, e.e. yn [kapal] 'capel' a [pεθa] 'pethau', wedi methu canfod unrhyw gyfatebiaeth ystyrion rhwng ffin y nodwedd a ffiniau unedau gweinyddol yr Oesoedd Canol rhwng Dyffryn Conwy a Dyffryn Clwyd. Er nad yw B. Thomas yn dadlau nad oes perthnasedd o gwbl i hen unedau gweinyddol, mae'n werth ystyried ei hawgrym, mewn ambell achos, "nad yr unedau gweinyddol eu hunain sydd yn dwyn arwyddocâd ieithyddol ond y nodweddion daearyddol sy'n isorweddol iddynt" (B. Thomas 1998:58).

Yn fwy diweddar, gwnaed dau arolwg ieithyddol-ddaearyddol arall. Fel y mae'r teitl yn awgrymu, canolbwyntio ar ranbarth penodol o Gymru y mae *Atlas Geirfaol Brycheiniog* G.E. Jones & A. Jones (1996), a dibynnu ar y genhedlaeth hŷn yn unig a wnaed yn yr astudiaeth hon eto. Gan fod Atlas Geirfaol Brycheiniog yn cynnwys mwy o safleoedd holi nag a gafwyd yn y LGW ar gyfer y rhanbarth hwn, aethpwyd ati i gynnig dadansoddiad manylach o'r trawsnewid graddol rhwng tafodieithoedd de Cymru a rhai'r canolbarth o safbwynt daearyddol a hanesyddol ar sail canlyniadau'r arolwg hwn (gweler, er enghraifft, G.E. Jones & C.H. Williams 1997). Yr arolwg diweddaraf i gael ei gyhoeddi yw *The Welsh Dialect Survey* (A.R. Thomas et al. 2000). Ceir yn y gyfrol hon gofnodion seinegol ar gyfer dros 700 o eitemau (rhai ffonolegol yn



Ffigur 23: Prif ardaloedd tafodieithol y Gymraeg (B. Thomas & P.W. Thomas 1989:28)

bennaf, gyda rhai morffoffonolegol ar y diwedd), a hynny ar gyfer 117 o ardaloedd gwahanol yng Nghymru. Fel yn achos y ddau arolwg arall, siaradwyr hŷn sy'n sail i'r gwaith hwn hefyd. Anfantais pennaf y gyfrol hon, fodd bynnag, yw nad oes ynddi unrhyw ddadansoddiad o'r data helaeth a gasglwyd, yn wahanol iawn i'r hyn a wnaeth A. R. Thomas yn achos canlyniadau'r LGW.

I gloi, mae'n deg holi i ba raddau y gwnaethpwyd defnydd o ddulliau cyfrifiadurol ac ystadegol diweddar ar gyfer mesur gwahaniaethau rhwng tafodieithoedd Cymraeg gwahanol ardaloedd. Mewn gwirionedd, ambell ymgais yn unig a gafwyd i gymharu tafodieithoedd Cymraeg yn y modd hwn ar raddfa eang, a chan A.R. Thomas (1980) y cafwyd yr astudiaeth arloesol gyntaf wrth iddo ailddadansoddi data'r LGW drwy ddulliau cyfrifiadurol mwy gwrthrychol. Un o ganfyddiadau mwyaf diddorol y dadansoddiad hwn oedd bod y canlyniadau i raddau helaeth yn atgyfnerthu rhai o gasgliadau dadansoddiad blaenorol mwy goddrychol A. R. Thomas ynghylch ffiniau ardaloedd tafodieithol y Gymraeg.

Hefyd, yn fwy diweddar, dechreuwyd gweithio ar brosiect ymchwil 'Atlas Cystrawen Tafodieithoedd y Gymraeg' o dan gyfarwyddyd David Willis, Maggie Tallerman a Bob Borsley. Mewn erthygl ddiweddar gan Willis (2017) yn seiliedig ar rywfaint o ddata'r prosiect hwn (ynghyd â data o Gorpws Siarad Prifysgol Bangor), arbrofwyd â modelau gofodol-ddaearyddol a dulliau ystadegol newydd ar gyfer archwilio'r modd y mae ffurfiau morffogystrawennol newydd yn ymledu drwy rannau o ogledd Cymru. Drwy ddefnyddio'r modelau newydd hyn, dangoswyd yn glir fod y defnydd o'r rhagenw ail berson unigol *chdi*, sy'n gysylltiedig â rhannau o ogledd Cymru heddiw, yn amrywio yn ôl cyd-destun (e.e. mae'n fwy cyffredin fel rhagenw syml yn dilyn *efo* nag fel rhagenw ategol yn dilyn berfau fel (*bua*)*sa*) ac o safbwynt daearyddol (e.e. mae *chdi* yn amlycach ym Môn a gogledd Gwynedd nag yn rhannau mwy dwyreiniol y gogledd). Ymhellach, dadleuodd Willis fod y datblygiadau hanesyddol a daearyddol a awgrymwyd gan y modelau hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth ffynonellau ysgrifenedig o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gan hynny, gellir defnyddio'r modelau newydd hyn er mwyn ceisio dangos sut yn union y mae'r defnydd o *chdi* wedi lledu o rannau o'r gogledd-orllewin yn raddol tua'r dwyrain a'r de yn ystod yr ugeinfed ganrif.

39.4 Y sefyllfa heddiw a dyfodol prosiectau ieithyddol-ddaearyddol ar y Gymraeg

Fel y dangoswyd gan Rees (2009), mae'n anochel y bydd nifer o nodweddion tafodieithol Cymraeg lleol yn darfod o'r tir oherwydd **lefelu tafodieithol** (*dialect levelling*), a ddiffinnir gan A. Williams & Kerswill (1999:149) fel "a process whereby differences between regional varieties are reduced, features which make varieties distinctive disappear, and new features emerge and are adopted by speakers over a wide geographical area". Er hynny, ni ellir gorbwysleisio pa mor berthnasol yw ffactorau daearyddol o hyd o safbwynt amrywio ieithyddol yn y Gymraeg. Dangosir yn glir gan Morris (2017), er enghraifft, sut y mae **cydgyffwrdd ieithyddol** (*language contact*) rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn effeithio'n wahanol ar siaradwyr Cymraeg mewn rhannau o'r gogledd-orllewin i'r hyn a welir mewn rhannau o'r gogledd-ddwyrain (gweler manylion pellach yn y adran nesaf). Yn yr un modd, dangoswyd gan Rees (2013) fod llawer o amrywio a newidiadau ffonolegol yn parhau i ddigwydd mewn rhannau o ganolbarth Cymru gan eu bod yn ardaloedd trawsnewid rhwng prif amrywiadau'r iaith, sef Cymraeg y de a Chymraeg y gogledd.

I gyd-fynd â'r darganfyddiadau diweddar hyn, mae datblygiadau cyffrous yn mynd rhagddynt

hefyd yn yr Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor, wrth iddynt ymchwilio ymhellach i dechnolegau adnabod lleferydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Man cychwyn y datblygiadau hyn oedd yr ap Paldaruo a ddefnyddiwyd ar gyfer creu corpws cychwynnol o amrywiadau ar y Gymraeg (Cooper et al. 2014, 2019). Yn sicr, wrth i'r angen gynyddu am gorpora cynhwysfawr o amrywiadau Cymraeg cyfoes o bob rhan o Gymru, mae'n bwysig fod ieithyddion y dyfodol agos yn manteisio ar y datblygiadau hyn, nid yn unig i wella ansawdd technolegau adnabod lleferydd, ond hefyd i ddadansoddi'r prosesau ieithyddol sydd ar waith wrth i dafodieithoedd y Gymraeg heddiw amrywio a newid.

40 Amrywio Cymdeithasol

JONATHAN MORRIS

Mae'r adran hon yn manylu ar y cysyniad o amrywio cymdeithasol a'r gydberthynas rhwng ffactorau cymdeithasol megis oed, cefndir economaidd-gymdeithasol, rhywedd, ac ethnigrwydd a lleferydd siaradwyr. Yn gyntaf, crynhoir gwreiddiau'r maes a esblygodd o waith cynnar ym maes tafodieitheg. Yn ail, dangosir sut y mae sosioieithyddion yn astudio newid mewn ieithoedd drwy gymharu lleferydd pobl iau â phobl hŷn. Yn drydydd, archwilir gwahanol astudiaethau sydd wedi taflu goleuni ar y ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar y ffordd y mae pobl yn siarad. I gloi, manylir ar astudiaethau ar amrywio o fewn cymunedau amlieithog ac ar Saesneg Cymru a'r Gymraeg yn bennaf.

40.1 Amrywio cymdeithasol a newid iaith dros amser

Yn hanesyddol, datblygiad o faes tafodieitheg yw is-faes amrywio a newid ieithyddol. Yn hytrach na dibynnu ar NORMs (gweler 39.2 "Cysyniadau sylfaenol tafodieitheg ddaearyddol"), y nod wrth ymchwilio i amrywio cymdeithasol yw casglu data o wahanol grwpiau sy'n cynrychioli'r gymuned dan sylw ac yna cymharu'r data yn ôl y grŵp. Fe gynhaliwyd yr astudiaeth drylwyr gyntaf o amrywio cymdeithasol yn y 1960au gan William Labov (Labov 1963). Nod Labov oedd darganfod i ba raddau y mae strwythurau cymdeithasol ar Winllan Martha (Martha's Vineyard, sef ynys ar arfordir dwyreiniol UDA) yn dylanwadu ar y ffordd y mae'r trigolion yn siarad Saesneg. Yn benodol, arsylwodd ar wahaniaethau ymhlith y trigolion rhwng y modd y cynhyrchir y ddeusain mewn geiriau megis *price* a *mouth*.

Roedd yr astudiaeth gyntaf hon yn wahanol i astudiaethau blaenorol ym maes tafodieitheg am sawl reswm. Yn gyntaf, aeth Labov ati i gasglu data gan siaradwyr o gefndiroedd a grwpiau cymdeithasol gwahanol er mwyn eu cymharu. Yn ail, roedd y dull o gasglu'r data yn wahanol. Yn hytrach na gofyn i'r cyfranwyr yn uniongyrchol sut yr oedden nhw'n ynganu'r ddeusain, ceisiodd dynnu eu sylw oddi ar yr iaith drwy ofyn cwestiynau oedd yn ysgogi naratif (hynny yw, cwestiynau oedd yn gorfodi'r siaradwyr i feddwl am yr hanes dan sylw ac nid sut yr oeddent yn siarad). **Cyfweliad sosioieithyddol** (*sociolinguistic interview*) yw'r enw a roddir i'r dull

hwn o gasglu data a ddefnyddir hyd heddiw (gweler [Tagliamonte 2006](#) am ragor o wybodaeth ynghylch cyfweiliadau sosioieithyddol). Cyfunodd Labov y cyfweiliad sosioieithyddol â thasg arall, sef llunio **rhestr o eiriau** (*wordlist*). Nod y dasg hon oedd tynnu sylw'r siaradwr at yr iaith er mwyn gallu cymharu'r iaith anffurfiol â'r iaith ffurfiol (gweler hefyd [41.1](#)).

Yn drydydd, roedd y dull o ddadansoddi'r data yn wahanol. Cam cyntaf y dull arloesol hwn o ddadansoddi data oedd disgrifio'r holl amrywiolion a oedd yn bosibl ar gyfer y newidyn (sef y ddeusain). **Disgrifio amlen yr amrywio** (*describing the envelope of variation*) yw'r term a roddir i'r cam hwn. Yna, gwrandawodd Labov ar bob enghraifft o'r newidyn (sef y ddeusain) gan nodi beth oedd yr amrywiolyn a gynhyrchwyd. Felly, roedd yn bosibl cyfrifo sgôr (sydd yn aml yn ganran y dyddiau hyn) ar gyfer pob amrywiolyn a chymharu canrannau'r grwpiau cymdeithasol gwahanol. Wrth ystyried y gwahaniaethau hyn, nododd Labov gyddestun ieithyddol pob **tocyn** (*token*, hynny yw pob gair a oedd yn cynnwys y ddeusain dan sylw). O ganlyniad, bu modd iddo ystyried cyfyngiadau ieithyddol (megis sut y mae goslef yn dylanwadu ar yr ynganiad, gweler [Labov 1963:290](#)) ar amrywio yn ogystal ag ystyried y cyfyngiadau cymdeithasol arno.

Fe wnaeth canlyniadau'r astudiaeth hon herio'r cysyniad o amrywio rhydd. Cyn gwaith Labov, roedd tuedd i dybio bod amrywio'n rhydd (hynny yw, nid oedd unrhyw gyfyngiadau'n dylanwadu ar amrywio) os nad oedd yr amrywiolion dan sylw yn aloffonau o'r un ffonem. Arloesodd [Labov \(1963\)](#) drwy ddangos yn glir nad amrywio rhydd oedd yn esbonio'r gwahaniaethau rhwng y modd yr yngenid y deuseiniaid dan sylw. Yn hytrach, roedd nifer o ffactorau ieithyddol a chymdeithasol yn dylanwadu ar yr ynganiadau hyn (gweler Adran [10.2](#) "Y Ffonem" a hefyd [Labov 1972:188–189](#)).

Un canlyniad arall i'r ymchwil gynnar ar amrywio cymdeithasol oedd y darganfyddiad bod modd gweld a yw newid ieithyddol yn digwydd drwy gymharu siaradwyr o wahanol oeddrannau. Yn fras, disgrifia'r term newid ieithyddol y symud o ffafrio un amrywiolyn mewn cymuned i ffafrio amrywiolyn newydd (gweler [40.3](#)). Mae honni bod newid yn digwydd mewn iaith drwy gymharu siaradwyr hŷn a siaradwyr iau yn dibynnu ar y cysyniad o'r Cyfnod Critigol (gweler [46](#) "Dysgu ail iaith fel oedolyn"), hynny yw, y cysyniad nad ydym yn newid sut yr ydym yn siarad ryw lawer ar ôl ein harddegau ([E.M. Thomas & Webb-Davies 2017:Pen. 4](#)). Os oes gwahaniaethau rhwng siaradwyr ifainc a siaradwyr hŷn, felly, mae modd dadlau bod newid ieithyddol ar y gweill. **Astudiaethau amser ymddangosiadol** (*apparent time studies*) yw'r enw a roddir ar astudiaethau sy'n cymharu siaradwyr iau a siaradwyr hŷn er mwyn dangos a yw newid ieithyddol yn mynd rhagddo.

Enghraifft amlwg o lawer o amrywiadau ar y Saesneg yw *be like* (e.e. [Tagliamonte 2016](#)); defnyddir yr ymadrodd *be like* er mwyn dyfynnu yn Saesneg (e.e. *I was like, "no way!"*). Dengys gwaith trylwyr ar y nodwedd hon fod newid ieithyddol clir wedi digwydd. Dechreuodd pobl ifainc ddefnyddio *be like* yn yr Unol Daleithiau yn yr wythdegau, felly mae'r data yn dangos cynnydd yn y defnydd o *be like* ymhlith siaradwyr a aned o'r saithdegau ymlaen a gostyngiad yn y defnydd o ffurfiau eraill megis *say* (e.e. *I said, "no way!"*, gweler [Tagliamonte 2016:72](#)).

Dengys canlyniadau astudiaethau o'r un siaradwyr dros amser, **astudiaethau amser real** (*real time studies*), fod iaith unigolion yn gallu newid ar ôl eu harddegau ond nad yw'r newid yn ddigon sylweddol i negyddu canlyniadau astudiaethau amser ymddangosiadol ([Meyerhoff 2011:148](#)). Yn achos *be like* uchod, er enghraifft, dengys [Tagliamonte \(2016:77\)](#) ddefnydd un siaradwraig o'r ffurf honno dros gyfnod o ddeuddeng mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, nid oedd gwahaniaethau mawr yn ei defnydd o *be like*. Er hynny, rhaid cydnabod bod siaradwyr yn dueddol o newid sut y maent yn siarad i ryw raddau wrth heneiddio. Ceir tuedd yn Saesneg,


er enghraifft, i siaradwyr ddefnyddio mwy o ffurfiau safonol (megis ynganu'r terfyniad *-ing* fel [ɪŋ], gweler uchod) wrth fynd yn hŷn. Enghraifft o **amrywio oedrannol** (*age-graded variation*) yw hyn a dadleuir bod siaradwyr hŷn o dan fwy o bwysau i ddefnyddio ffurfiau safonol (Meyerhoff 2011:156).

40.2 Dosbarth Cymdeithasol

Un o'r ffactorau amlycaf sy'n cael ei ystyried mewn astudiaethau ar amrywio a newid ieithyddol yw **dosbarth cymdeithasol** (*social class*). Mae'n anodd categoreiddio dosbarth cymdeithasol, ond, yn syml, defnyddir gwybodaeth ynghylch swyddi ac addysg unigolion er mwyn gwneud hyn (er bod nifer o ffyrdd gwahanol o gategoreiddio siaradwyr, e.e. Savage et al. 2013). Yn aml, defnyddir y termau **dosbarth gweithiol** (*working class*), **dosbarth canol** (*middle class*) a **dosbarth uchaf** (*upper class*), ond mae modd manylu ar y grwpiau cyffredinol hyn (e.e. drwy wahaniaethu rhwng dosbarth canol is a dosbarth canol uchaf) er mwyn ymchwilio'n fanylach. Dylid cofio nad ydym yn edrych ar ddosbarth cymdeithasol er mwyn beirniadu iaith pobl o ddosbarthiadau cymdeithasol is. I'r gwrthwyneb, fel sosioieithyddion mae gennym ddi-ddordeb mewn diffiniad ehangach o ddosbarth cymdeithasol sydd hefyd yn ystyried agweddau, arferion, a dyheadau gwahanol grwpiau er mwyn ceisio esbonio'r patrymau a geir.

Ymchwiliodd Trudgill (1974) i amrywio a newid ieithyddol yn Norwich, Lloegr, ac roedd yn un o'r ymchwilwyr cyntaf i wahaniaethau rhwng dosbarthiadau cymdeithasol wrth ystyried amrywio. Taflodd nifer o'r canlyniadau oleuni nid yn unig ar y gwahaniaethau rhwng gwahanol ddosbarthiadau cymdeithasol ond hefyd ar y gydberthynas rhwng dosbarth cymdeithasol a ffactorau eraill, megis arddull. Yn ei astudiaeth o'r newidyn (ing), roedd gwahaniaeth clir rhwng grwpiau cymdeithasol (roedd siaradwyr dosbarth canol uchaf yn fwy tebygol o ddweud [ɪŋ] ar ddiwedd geiriau megis *going* ac roedd siaradwyr dosbarth gweithiol is yn fwy tebygol o ddweud [ɪn]). Ond gwelwyd hefyd wahaniaeth clir rhwng cyd-destun ac roedd siaradwyr o'r grwpiau hyn yn fwy tueddol o ddweud [ɪŋ] wrth ddarllen ar goedd o'i gymharu â phan oeddent yn siarad yn rhydd yn anffurfiol. Dengys Ffigur 24 ganlyniadau Trudgill yn fanylach (yn seiliedig ar Trudgill 1974:92). Mae'r ffigur yn dangos y gwahaniaethau rhwng pum dosbarth cymdeithasol (dosbarth gweithiol is neu *LWC* yn y ffigur, dosbarth gweithiol canol neu *MWC*, dosbarth gweithiol uchaf *UWC*, dosbarth canol is *LMC*, dosbarth canol uchaf *MMC*) mewn pedwar cyd-destun (darllen rhestr o eiriau neu *WLS* am *word list*, darllen testun neu *RPS*, cyfweliad ffurfiol *FS*, cyfweliad anffurfiol *CS*).

Mae ystyried gwahaniaethau rhwng dosbarthiadau cymdeithasol drwy labelu siaradwyr yn seiliedig ar ddangosyddion megis addysg ac incwm. Er bod patrymau cedyrn i'w gweld, nid yw'n hollol glir pam y mae amrywio rhwng siaradwyr o wahanol grwpiau. Yn sicr, statws gwahanol grwpiau yn y gymdeithas sydd yn aml yn sbarduno gwahaniaethau rhwng dosbarthiadau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae edrych ar **rhwydweithiau cymdeithasol** (*social networks*) hefyd yn gallu esbonio amrywio mewn modd manylach. Taflodd gwaith Lesley Milroy a James Milroy (e.e. Milroy & Milroy 1985) yn Belfast oleuni ar bwysigrwydd rhwydweithiau. Ys dywed Milroy & Milroy (1985:359): "Generally speaking, it seems to be true that the closer the individual's ties to a local community network, the more likely he is to approximate to vernacular norms". Awgrymant, felly, fod siaradwyr sy'n defnyddio nodwedddion lleol iawn yn fwy tebygol o fod yn rhan o **rhwydweithiau clòs** (*dense networks*), lle y mae pawb mewn cymuned yn adnabod ei gilydd. Mae rhwydweithiau clòs yn dylanwadu ar newid ieithyddol oherwydd nid yw pobl newydd yn dueddol o ymuno â'r rhwydwaith. I'r gwrthwyneb, mae bod yn aelod o **rhwydwaith llac** (*loose network*) yn golygu bod yn rhan o



Ffigur 24: Canrannau'r amrywiolyn ansafonol [in] yn nata Norwich, Lloegr (yn seiliedig ar [Trudgill 1974](#), Tabl 7.1)

gymuned lle nad yw pawb yn adnabod ei gilydd a lle y mae pobl yn dueddol o ddod o wahanol gefndiroedd. Golyga hyn ei bod yn haws i newidiadau ieithyddol ledi.

40.3 Rhywedd a Rhywioldeb

Mewn nifer o ieithoedd, gall geiriau ddynodi **rhywedd** (*gender*) yr enaid byw y maent yn ei ddisgrifio. Gellid dweud bod y geiriau hyn yn **nodweddion cyfyngedig** (*exclusive features*) gan mai disgrifio grŵp cyfyngedig o bobl y maent ([Meyerhoff 2011:213–4](#)). Er enghraifft, defnyddir geiriau megis *merch*, *nain* a *mam* er mwyn cyfeirio at berthnasau sy'n hunaniaethu yn fenywod. Yn ogystal â hyn, gall terfyniadau ar ddiwedd geiriau ddynodi rhyw'r person dan sylw. Yn y Gymraeg, er enghraifft, mae'r gair *athrawes* yn dynodi menyw sy'n addysgu. Ond mae'r system yn amrywio mewn ieithoedd gwahanol. Yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae'r gair *ffrind*, er enghraifft, yn cyfeirio at ddyn neu fenyw. Mae hyn yn wahanol i'r Almaeneg, sy'n gwahaniaethu rhwng *der Freund* (ffrind sy'n ddyn) a *die Freundin* (ffrind sy'n fenyw).

Ym maes sosioieithyddiaeth, nid y nodweddion cyfyngedig hyn sydd o ddiddordeb. Yn hytrach, mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar amrywiolion sy'n fwy tueddol o gael eu defnyddio **gan** ddynion neu fenywod mewn cymuned benodol. Cyn manylu ar yr ymchwil hon, rhaid ystyried y gwahaniaeth rhwng **rhyw** (*sex*) a **rhywedd** (*gender*). Mae'r gair rhyw'n disgrifio'r gwahaniaethau rhwng ffisiolog menywod a dynion ([Cameron & Kulick 2003:2](#)). Cysyniad cymdeithasol yw rhywedd ac mae rhywun yn ffurfio'i hunaniaeth rhywedd dan ddylanwad normau cymdeithasol. Hynny yw, mae'r gymdeithas yn dylanwadu ar ein canfyddiad o'r ffordd y dylai menywod a dynion ymddwyn. Fel y dywed [Eckert & McConnell-Ginet \(2003:2\)](#), "gender

builds on biological sex [...] and it carries biological sex into domains in which it is completely irrelevant”.

Er bod sosioieithyddion yn canolbwyntio ar gymunedau penodol, dengys nifer o weithiau batrwm cyffredin ymhlith dynion a menywod. Arweiniodd hyn at dair egwyddor sy'n seiliedig ar y patrymau cyffredin a ddarganfuwyd mewn astudiaethau o'r math hwn ar y Saesneg ac sy'n rhag-weld sut y bydd dynion a menywod yn cynhyrchu lleferydd mewn gwahanol gyd-destunau (Labov 2001:Pen. 8).

Crynodeb yr egwyddorion

Egwyddor 1. Newidynnau sefydlog: mae menywod yn defnyddio'r amrywiolyn safonol yn amlach na dynion.

Egwyddor 1a. Newid oddi fry (*change from above*): mae menywod yn defnyddio'r amrywiolyn safonol yn amlach.

Egwyddor 2. Newid oddi isod (*change from below*): mae menywod yn defnyddio'r amrywiolyn newydd yn amlach.

Yn ôl yr egwyddorion hyn, mae menywod yn fwy tebygol o gydymffurfio â normau'r iaith safonol pan nad oes newid ieithyddol yn digwydd (Egwyddor 1). Er enghraifft, dengys nifer o astudiaethau ar y newidyn (ing) yn Saesneg fod menywod yn fwy tebygol o gynhyrchu'r amrywiolyn safonol [ɪŋ] (e.e. ynganu'r <ng> yn *going* fel [ŋ] yn hytrach na'i ynganu fel *goin*') na dynion, er bod ffactorau eraill megis cefndir economaidd gymdeithasol hefyd yn dylanwadu ar y newidyn hwn (Meyerhoff 2011:218–9). Yn yr un modd, mae Egwyddor 1a yn rhag-weld y bydd menywod yn mabwysiadu amrywiolion safonol yn gyflymach na dynion mewn sefyllfaoedd o newid. Yn fwy penodol, rhagwelir y bydd menywod yn mabwysiadu ffurfiau newydd os yw'r gymuned ehangach yn ymwybodol o'r ffurf (sef newid oddi fry). Mae'r ffurf *be like* a gyflwynwyd uchod yn enghraifft o newid oddi fry gan fod siaradwyr yn ymwybodol bod hon yn ffordd gymharol newydd o ddweud *say*. Dywed Tagliamonte (2016:76): “quoting *like* gained prestige as a fashionable and socially desirable way to voice inner experience”.

Fodd bynnag, mae menywod hefyd yn fwy tebygol o fabwysiadu amrywiolion newydd pan nad yw'r gymuned ehangach yn ymwybodol o'r ffurf newydd (newid oddi isod). Dywedir, felly, fod **paradocs rhywedd** (*gender paradox*) yn bodoli oherwydd, yn ôl yr egwyddorion hyn, mae menywod yn fwy tueddol o ddefnyddio amrywiolion safonol (Egwyddorion 1 ac 1a) yn ogystal ag amrywiolion ansafonol (Egwyddor 2, gweler Meyerhoff 2011:231–232). Mae ynganiad llafariad, er enghraifft, yn gallu newid heb i gymunedau fod yn ymwybodol ohono. Un enghraifft yw'r **uno** (*merge*) rhwng y llafariad mewn geiriau megis *beer* a *bear* yn Seland Newydd. Yn ystod yr ugeinfed ganrif, digwyddodd newid ieithyddol sy'n golygu bod y ddwy lafariad yn y geiriau hyn wedi mynd yn debycach i'w gilydd yn Saesneg Seland Newydd heb fod pobl yn ymwybodol o hynny (Holmes 2013: 211).

Ceir dwy ystyriaeth bwysig bellach ynghylch yr egwyddorion uchod. Yn gyntaf, mae'r egwyddorion yn seiliedig ar gymunedau Saesneg eu hiaith, ac felly mae'n amhosib eu cymhwyso at bob cymuned. Yn wir, ceir nifer o gymunedau lle nad yw'r patrymau'n cydymffurfio â'r egwyddorion uchod (e.e. Bakir 1986 ar yr iaith Arabeg, B. Thomas 1988 ar y Gymraeg). Yn ail, mae'r gweithiau uchod yn anwybyddu'r cysyniad nad yw rhywedd yn sefydlog fel rhan o'n hunaniaeth a bod y gymdeithas yr ydym yn byw ynddi yn dylanwadu arno, yn ogystal â'n perthynas â phobl eraill a rhannau eraill o'n hunaniaeth.

Fe gwestiynwyd yr egwyddorion uchod yng ngwaith Penelope Eckert ac eraill (e.e. Eckert 1989; Eckert & McConnell-Ginet 1992). Pwysleisiodd Eckert & McConnell-Ginet (1992) fod angen ystyried normau rhywedd yn y gymuned dan sylw cyn y gellir dadlau bod gwahaniaethau rhwng dynion a menywod ar waith. Ys dywed Eckert & McConnell-Ginet (1992:463), “there is no guarantee that ‘women’ (or ‘men’) in a particular community will in fact constitute themselves as a coherent social group with distinctive common interests”. Dadleuir, felly, fod angen llunio dadl ar sail yr hyn sy’n digwydd yn y gymuned yn hytrach na chymhwysio egwyddorion haniaethol at y sefyllfa. Mae dylanwad y drafodaeth hon wedi bod yn sylweddol o fewn y maes. Er bod rhyw/rhywedd yn parhau i fod yn ffactor sy’n cael ei ystyried mewn astudiaethau yn y maes, prin yw’r ymchwil nad yw’n tynnu sylw at ddynwedd grwpiau mewn rhyw ffordd.

Enghraifft arloesol o ymchwil sy’n ystyried dynwedd grŵp yw gwaith Eckert (1988). Ar gyfer ei hastudiaeth o amrywio ffonolegol yn Detroit (UDA), arsylwodd Eckert (1988) bobl ifainc mewn ysgol uwchradd ac roedd ganddi ddiddordeb yn y modd yr yngenid y llafariad [Λ] mewn geiriau fel *strut* yn Saesneg. Darganfu fod aelodaeth o griw penodol yn yr ysgol (e.e. ‘jocks’ neu ‘burnouts’ yn yr achos hwn) yn ffactor pwysig a allai esbonio amrywio yn gyffredinol, a rhwng menywod yn benodol. Ar sail astudiaethau cynnar fel hon, mae’r drafodaeth ynghylch rhywedd hefyd wedi sbarduno nifer o astudiaethau sy’n cyfuno dulliau meintiol ag arsylwi ethnograffig er mwyn taflu goleuni ar berthnasau a rhwydweithiau mewn cymunedau penodol (gweler Eckert 2012 am drosolwg). Yn wir, sbardunodd y gwaith hwn nifer o weithiau eraill sy’n edrych ar grwpiau llai o bobl er mwyn esbonio amrywio yn fanylach. **Cymuned arfer** (*Community of Practice*) yw’r term a roddir i grwpiau llai o bobl.

Fel mewn astudiaethau sy’n ystyried y gydberthynas rhwng iaith a rhywedd, ceir diddordeb yn y gydberthynas rhwng iaith a **chyfeiriadedd rhywiol** (*sexual orientation*). Mae’r ymchwil hon ar iaith a rhywioldeb (*sexuality*) yn ceisio darganfod i ba raddau mae grwpiau o bobl LHDT+ mewn cymuned ddaearyddol benodol yn defnyddio nodweddion ieithyddol yn wahanol i siaradwyr heterorywiol er mwyn mynegi eu rhywioldeb ac, yn fwy penodol, eu haelodaeth o’r gymuned LHDT+ (gweler Munson & Babel 2007 am drosolwg). Yn ogystal â hyn, mae’n werth nodi bod iaith, rhywedd a rhywioldeb yn bwnc eang, a cheir nifer o astudiaethau sy’n dangos sut y mynegir rhywedd neu rywioldeb mewn disgwrs a thrwy ddefnyddio gwahanol nodweddion ieithyddol (e.e. Coates 1991; Kiesling 2001; Podesva 2007; Levon 2016). Yn ganolog i astudiaethau diweddar o’r math hwn y mae’r cysyniad o **croestoriadedd** (*intersectionality*; gweler Marks 2017:55), sef bod gwahanol agweddau ar ein hunaniaeth (megis rhywedd ac ethnigrwydd) yn gysylltiedig ac yn dylanwadu ar ei gilydd (Levon & Mendes 2016:12). Felly, mae angen i’r gwaith diweddaraf ar amrywio cymdeithasol ystyried yr holl ffactorau sy’n gysylltiedig â rhyw, rhywedd a rhywioldeb wrth ymchwilio i amrywio ieithyddol yn ôl grwpiau cymdeithasol.

40.4 Amrywio mewn cymunedau amlethnig ac amlieithog

Rhan bwysig o hunaniaeth nifer ohonom yw ethnigrwydd. Mewn llawer o gymunedau, mae siaradwyr yn gallu cyfleu’r ffaith eu bod yn perthyn i grŵp ethnig penodol yn eu lleferydd (gweler Fought 2006 am drosolwg o’r gydberthynas ehangach rhwng iaith ac ethnigrwydd). Mae defnyddio iaith sy’n gysylltiedig â’r grŵp ethnig yn ffordd o gyfleu ethnigrwydd (er enghraifft, y defnydd o’r Sbaeneg ymhlith siaradwyr o Dde America yn yr Unol Daleithiau,

e.e. [Bailey 2000](#)). Mewn cymunedau eraill defnyddir nodweddion ieithyddol penodol yn yr iaith fwyafrifol er mwyn cyfleu ethnigrwydd. Gellir dweud, felly, fod **amrywiadau ethnig** (*ethnolects*) ar ieithoedd yn ogystal ag amrywiadau daearyddol. Enghraifft amlwg o hyn yw **Saesneg Affro-Americanaid** (*African-American English*), sef amrywiad ethnig ar iaith a siaredir gan lawer o bobl o dras Affro-Americanaid yn yr Unol Daleithiau (e.e. [Rickford 1999](#)). Mae'n bwysig nodi bod nifer fawr o seiniau, rheolau gramadegol a geiriau yn rhan o Saesneg Affro-Americanaid. Yn ogystal â hyn, nid yw pob person sydd o dras Affro-Americanaid yn siarad y dafodiaith ethnig ac yn aml mae siaradwyr hefyd yn newid eu harddull i Saesneg Safonol America ([Rickford 1999:9](#)). Mae llawer o waith ym maes sosioieithyddiaeth wedi canolbwyntio ar yr amrywiad hwn, yn aml er mwyn brwydro yn erbyn **gwahaniaethu** (*discrimination*) yn y gymdeithas tuag at bobl o dras Affro-Americanaid (gweler Adran 42).

Dengys astudiaethau o grwpiau ethnig sut y gall nodweddion o ieithoedd eraill ddod yn rhan o'r amrywiadau ethnig yn yr iaith fwyafrifol (e.e. [Sharma & Sankaran 2011](#)). Er enghraifft, mae astudiaethau o gymuned De Asia Prydain wedi canfod bod seiniau sy'n ymddangos yn ieithoedd De Asia, megis y gytsain ôl-blyg /t/, yn gallu amrywio gyda nodweddion 'brodorol' yn yr iaith Saesneg, fel [t] a [ʔ], mewn geiriau megis *butter* (e.e. [Alam & Stuart-Smith 2011](#); [Kirkham 2013](#); [Sharma & Sankaran 2011](#)).

Ceir yma dystiolaeth, felly, fod modd i nodweddion gael eu trosglwyddo o iaith A (yr iaith gyntaf) i iaith B (yr iaith fwyafrifol) a dod yn rhan o repertoire siaradwyr sy'n perthyn i'r grŵp ethnig nad ydynt yn siarad iaith wreiddiol y grŵp (sef, iaith A). Yng nghyd-destun mewn fudo sylweddol a chydgyffwrdd ieithyddol yn ninasoedd Ewrop, ceir hefyd waith cynyddol ar **amrywiadau amlethnig** (*multiethnolects*). Defnyddir y term hwn i ddisgrifio amrywiadau newydd ar ieithoedd sy'n datblygu oherwydd y cyswllt rhwng gwahanol grwpiau ethnig mewn ardaloedd trefol (e.e. [Cheshire et al. 2011](#); [Drummond 2018](#)).

Er hyn, rhaid cydnabod bod nodweddion ieithoedd eraill a siaredir gan grwpiau ethnig penodol yn dueddol o gael eu cysylltu â'r grwpiau hynny. I ryw raddau, gellid dadlau mai ystrydeb (*stereotype*) yw'r duedd hon gan nad yw pob aelod o grŵp ethnig yn defnyddio amrywiadau ethnig. Mae'n deg dweud bod siaradwyr o grwpiau gwahanol yn ymwybodol o ambell nodwedd sy'n ffurfio amrywiadau ethnig, e.e. Saesneg Affro-Americanaid. Cyfeiria'r cysyniad o **groesi** (*crossing*) at y defnydd o amrywiadau ar iaith sy'n gysylltiedig â grŵp ethnig ymhlith pobl nad ydynt yn aelod o'r grŵp hwnnw ([Rampton 1995:14](#)). Mae gwaith ar ddefnydd siaradwyr gwyn yn UDA o nodweddion Saesneg Affro-Americanaid yn taflu goleuni ar y cysyniad o groesi. Er enghraifft, darganfu [Fix \(2010\)](#) fod gwahaniaeth clir yn y defnydd o nodweddion sy'n gysylltiedig â Saesneg Affro-Americanaid rhwng siaradwyr gwyn a oedd yn rhan o gymunedau lle mae'r rhan fwyaf yn siarad Saesneg Affro-Americanaid a siaradwyr gwyn a oedd yn dynwared siaradwr du.

Mae defnydd siaradwyr gwyn o Saesneg Affro-Americanaid wedi ennyn cryn dipyn o sylw ymhlith ieithyddion a siaradwyr yr amrywiad hwnnw. Cymharodd [Eberhardt & Freeman \(2015\)](#) leferydd Iggy Azalea ac Eminem (cantorion hip-hop, gwyn) â lleferydd nifer o gantorion hip-hop o dras Affro-Americanaid. Darganfuwyd bod Iggy Azalea yn defnyddio nodweddion Affro-Americanaid yn gyson yn ei chaneuon ond nid mewn cyfweiliadau; felly, gellir dod i'r casgliad ei bod yn defnyddio Saesneg Affro-Americanaid fel rhan o'i phersona ar y llwyfan. Er enghraifft, roedd tuedd i Iggy Azalea (ond nid Eminem) hepgor y ferf *to be* mewn cymalau megis *she not here* (yn hytrach na *she's not here*, fel a geir mewn Saesneg Safonol America a llawer o amrywiadau eraill ar y Saesneg). Mae hepgor y ferf hon yn nodwedd amlwg o dafodiaith ethnig Saesneg Affro-Americanaid ac felly roedd yn amlwg bod Iggy Azalea yn

perfformio mewn tafodiaith nad yw'n frodorol iddi. Ceir dadl gref fod hyn yn broblemus o ystyried hanes pobl Affro-Americanidd yn yr Unol Daleithiau ac yn enwedig y cysyniad bod rhywun yn defnyddio amrywiad grŵp ethnig lleiafrifol er mwyn ennill arian.

Ceir nifer o astudiaethau sy'n archwilio amrywio mewn ail iaith (gweler, er enghraifft, [Bailey 2000](#) a [Durham 2014](#)). Ymchwiliodd [Mougeon et al. \(2004\)](#), er enghraifft, i amrywio ymhlith disgyblion ysgol drochi ar gyfer Ffrangeg yng Nghanada. Maent yn gwahaniaethu rhwng dau fath o amrywio yn lleferydd siaradwyr ail iaith. Mae amrywio Math 1 yn disgrifio natur amrywiol rhyng-iaith (*interlanguage*) siaradwyr L2. Amrywio Math 2 yw'r amrywio sosioieithyddol sy'n bresennol yn lleferydd siaradwyr L1 ([Mougeon et al. 2004](#):408–9).

Ceir nifer o resymau pam na fydd siaradwyr ail iaith yn caffael yr un patrymau â siaradwyr iaith gyntaf (sef Amrywio Math 2). Yn sicr, rhaid ystyried faint o fewnbwn y mae'r siaradwyr ail iaith yn ei dderbyn (e.e. [Thibault & Sankoff 1993](#); [Blondeau & Nagy 2008](#)). Ymchwiliodd [Nagy et al. \(2003\)](#), er enghraifft, i amrywio morffogystrawennol ymhlith siaradwyr Ffrangeg L2 ym Montréal. Darganfuwyd bod siaradwyr ail iaith sy'n clywed mwy o Ffrangeg ac yn ei defnyddio'n amlach yn fwy tueddol o gaffael yr un patrwm o amrywio ieithyddol â siaradwyr iaith gyntaf.

Dengys yr ymchwil, fodd bynnag, fod nifer o ffactorau eraill, megis agweddau tuag at yr iaith a'r gymuned newydd, yn gallu effeithio ar gaffael patrymau amrywio ymhlith siaradwyr ail iaith. Mae gwaith diweddar yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon hefyd wedi archwilio caffael patrymau amrywio yn Saesneg (sef amrywio Math 2) ymhlith mewnfudwyr diweddar. Ymchwiliodd [Drummond \(2012\)](#) i amrywio (*ing*) yn Saesneg mewnfudwyr diweddar o Wlad Pwyl ym Manceinion, Lloegr. Canfu fod siaradwyr yn fwy tueddol o ddefnyddio'r amrywiolyn [ɪn] (e.e. *doin'* yn hytrach na *doing*) fel siaradwyr iaith gyntaf os ydynt eisiau aros yn Lloegr ([Drummond 2012](#):128). Roedd y siaradwyr a oedd yn awyddus i fynd yn ôl i Wlad Pwyl yn fwy tueddol o ddefnyddio'r amrywiolyn [ɪn] sy'n cael ei ddysgu mewn ysgolion. Hynny yw, nid oedd y siaradwyr oedd yn awyddus i fynd yn ôl adref yn caffael amrywiolion a ddefnyddir gan bobl leol.

Cymharodd [Schleef et al. \(2011\)](#) amrywio ymhlith pobl ifanc o Wlad Pwyl yng Nghaeredin a Llundain (gweler hefyd [Clark & Schleef 2010](#) a [Meyerhoff & Schleef 2012](#)). Er bod tuedd i bobl ifanc oedd yn siarad Pwyleg gaffael y patrymau mewn modd tebyg i siaradwyr iaith gyntaf yn y ddwy ddinas, roedd tystiolaeth hefyd fod ffactorau cymdeithasol yn dylanwadu ar yr amrywio mewn ffyrdd nad oedd yn bresennol yn lleferydd siaradwyr iaith gyntaf, hynny yw, fod siaradwyr ail iaith yn gallu arloesi wrth iddynt gaffael amrywio yn yr ail iaith.

40.5 Astudiaethau ar amrywio a newid ieithyddol yng Nghymru

Cyhoeddwyd astudiaethau cynnar ar amrywio a newid ieithyddol yn y Gymraeg yn y 1970au a'r 1980au, sef yr un pryd ag y gwelwyd twf yn y maes yn rhyngwladol (gweler [Ball & G.E. Jones 1984](#); [Ball 1988](#)). Elfen bwysig o'r gweithiau cynnar hyn oedd y sylw a roddwyd i rwydweithiau lleol yn ogystal â ffactorau cymdeithasol a oedd yn berthnasol i gymunedau dwyieithog yng Nghymru (e.e. [Roberts 1988](#); [R.O. Jones 1984](#)). Yn ei hastudiaeth o'r Mot yn Sir Benfro gwahaniaethodd [C.M. Jones \(1987, 1989\)](#), er enghraifft, rhwng siaradwyr o gartrefi Cymraeg a rhai o gartrefi di-Gymraeg yn ogystal ag ystyried ffactorau allanol megis rhyw, oed a lefel addysg siaradwr. Roedd gwaith [B. Thomas \(1988\)](#) ym Mhont-rhyd-y-fen yn enghraifft sy'n

mynd yn erbyn yr egwyddor fod menywod yn fwy tueddol o ddefnyddio amrywiolion safonol (gweler 40.3). Yn ei hastudiaeth, darganfu fod menywod hŷn yn fwy tebygol o ddefnyddio'r ffurf leol [ɛ:] mewn geiriau fel *tad* o'i gymharu â dynion, a oedd yn fwy tebygol o ddefnyddio [a:] (B. Thomas 1988:60). Fel yn achos gwaith Milroy & Milroy (1978), rhwydweithiau cymdeithasol ym Mhont-rhyd-y-fen sy'n esbonio'r canlyniad hwn gan fod gan y menywod hŷn yn y pentref rwydweithiau clòs o'u cymharu â siaradwyr iau a dynion (B. Thomas 1988:54).

Astudiodd M.C. Jones (1998) effaith newidiadau cymdeithasol ar y Gymraeg yn Rhosllannerchrugog (Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Rhymni (Bwrdeistref Sirol Caerffili). Yn benodol, gofynnwyd i ba raddau y mae ffurfiau tafodieithol lleol yn diflannu o ganlyniad i ymdrechion i adfywio'r Gymraeg a thwf addysg Gymraeg. Un enghraifft o'r astudiaeth hon yw'r olddodiaid lluosog (e.e. dweud *pethau* yn hytrach na *petha* neu *pethe*). Yn Rhosllannerchrugog, *pethe* yw'r amrywiolyn lleol. Er bod siaradwyr iau yn dueddol o ddweud *pethe*, roeddent hwythau'n amrywio drwy ddweud *pethau* a *petha* hefyd (M.C. Jones 1998:193). Mae M.C. Jones (1998:260) yn crynhoi'r sefyllfa drwy ddweud: "Since the introduction of Welsh-medium education, there is now [...] a phenomenon whereby local Welsh is being replaced by a Welsh that included non-local features, most of them features of Standard Welsh but some also associated with other regional dialects".


Yn fwy diweddar, cyhoeddwyd nifer o astudiaethau sy'n canolbwyntio ar amrywio a newid ieithyddol yn y Gymraeg (P. Davies 2016; Willis 2017; Morris & Hejná 2019). Ymchwiliodd P. Davies (2016), er enghraifft, i ddau newidyn morffogystrawennol, sef y ferf gynorthwyol a strwythurau meddiannol. Dengys Tabl 9 isod y gwahanol amrywiolion a geir:

Newidyn	Amrywiolion
Berf gynorthwyol wyt	Presennol (<i>wyt ti'n mynd?</i>) Absennol (<i>ti'n mynd?</i>)
Rhagenw meddiannol	Ffurf lenyddol (<i>Gwelodd y dyn ei arth</i>) Ffurf niwtral (<i>Gwelodd y dyn ei arth o</i>) Ffurf anffurfiol (<i>Gwelodd y dyn arth (f)o</i>)


Tabl 9: Newidynnau yn astudiaeth P. Davies (2016)

Cymharodd P. Davies siaradwyr o wahanol oedrannau er mwyn gweld a oedd newid ieithyddol yn digwydd. Darganfu fod siaradwyr dan 50 oed yn fwy tueddol o ddileu'r ferf gynorthwyol yn yr ail berson (hynny yw, 'ti'n mynd') na siaradwyr dros 50 oed. Er hyn, nid oedd y gydberthynas yn gryf ac roedd canrannau uchel o enghreifftiau ym mhob grŵp oedran lle roedd y siaradwyr wedi dileu'r ferf gynorthwyol. Dengys Ffigur 25 y canlyniadau (2016:39), sydd, yn ôl P. Davies, yn awgrymu bod y broses o newid ieithyddol (hynny yw, dileu'r ferf gynorthwyol yn yr ail berson) ar fin dod i ben. Roedd y canlyniadau'n wahanol ar gyfer strwythurau meddiannol y trydydd person (hynny yw, 'ei gar o', 'ei char hi'). Fel yr awgrymir yn Ffigur 26 isod, roedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y grwpiau oedran gwahanol ac roedd siaradwyr iau yn fwy tueddol o gynhyrchu'r ffurf anffurfiol o'u cymharu â siaradwyr hŷn. Er bod canlyniad y ddau newidyn yn dangos gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau, felly, roedd y gwahaniaethau yn achos y rhagenw meddiannol yn fwy amlwg. Awgryma hyn fod y nodwedd hon yn newid ar hyn o bryd yn y Gymraeg gan fod dileu'r ferf gynorthwyol yn fwy tueddol i siaradwyr ifainc (P. Davies 2016:54).

Yn ogystal ag astudiaethau sy'n canolbwyntio ar nodweddion 'cynhenid' y Gymraeg, defnyddir methodoleg sosioieithyddol er mwyn asesu effaith ffactorau cymdeithasol ar brosesau dwy-



Ffigur 25: Dileu'r ferf gynorthwyol wyt, yn ôl oed (ar ôl P. Davies 2016:39)



Ffigur 26: Strwythurau meddiannol y trydydd person, yn ôl oed (ar ôl P. Davies 2016:48)

ieithog megis cyfnewid cod (Carter et al. 2011; Deuchar et al. 2016) ac i edrych ar ddylanwad y ddwy iaith ar ei gilydd yn lleferydd siaradwyr dwyieithog Cymraeg–Saesneg (Morris 2013, 2017; Mayr et al. 2017).

Un enghraifft o'r gwaith sy'n edrych ar amrywio yn y repertoire dwyieithog yw Morris (2013). Un o amcanion yr ymchwil hon oedd darganfod i ba raddau y mae siaradwyr dwyieithog Cymraeg–Saesneg yn trosglwyddo seiniau o un iaith i'r llall ac i ba raddau y ceir gwahaniaethau rhwng gwahanol grwpiau cymdeithasol a daearyddol. Defnyddiwyd cyfweiliadau sosioieithyddol i gasglu data oddi wrth bobl ifainc 16–18 oed yng Nghaernarfon a'r Wyddgrug. Canolbwyntiodd Morris (2013) ar y sain /r/ cyn llafariad a rhwng llafariad yn y ddwy iaith. Yn y Gymraeg, disgwylir i siaradwyr gynhyrchu'r sain [r] yn bennaf (e.e. R.O. Jones 1984). Nodir hefyd fod [r] yn nodwedd yn y gogledd-orllewin a bod [ʀ] yn nodwedd o dafodiaith ardal y Bala. Yn Saesneg Cymru, adroddir mewn astudiaethau ym maes tafodieitheg mai [ɹ] sy'n ddisgwylidig mewn ardaloedd dwyreiniol ond bod yr amrywiolion Cymraeg (gweler uchod) yn amlwg mewn ardaloedd yn y 'Fro Gymraeg' draddodiadol oherwydd dylanwad y Gymraeg (e.e. Penhallurick 2007).


Gan ystyried bod siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf i'w cael ledled Cymru (ac nid yn unig yn y Fro Gymraeg draddodiadol) a hefyd yn sgil newidiadau cymdeithasol fel mewnffudo a symudedd cymdeithasol, roedd gan Morris ddiddordeb mewn gweld a oedd gwahaniaethau rhwng y ddwy ardal ac a oedd ffactorau cymdeithasol yn effeithio ar amrywio /r/ yn y ddwy iaith. Yn ogystal ag ardal, ystyriwyd iaith yr aelwyd a rhyw. Ceisiodd Morris (2013) weld a oedd amrywio arddulliadol yn bodoli (gweler Adran 41 "Amrywio arddulliadol") drwy gymharu sgwrs anffurfiol (cyfweiliad sosioieithyddol) â sefyllfa fwy ffurfiol (darllen rhestr o eiriau ar goedd).

Darganfuwyd bod yr amrywiolyn Saesneg, sef [ɹ], yn gyffredin yng Nghymraeg y siaradwyr ifainc yn y ddwy ardal. Roedd [ɹ] yn fwy tebygol o ymddangos yn lleferydd siaradwyr o'r Wyddgrug ac yn lleferydd siaradwyr o gartrefi di-Gymraeg yn y ddwy ardal. Ymhlith siaradwyr o gartrefi Cymraeg yng Nghaernarfon, canfuwyd gwahaniaeth rhwng rhyw'r siaradwr a'r dasg (hynny yw, cyfweiliad sosioieithyddol anffurfiol neu ddarllen rhestr o eiriau ar goedd). Dengys Ffigur 27 y gwahaniaethau rhwng rhyw a thasg yn lleferydd siaradwyr o gartrefi Cymraeg yng Nghaernarfon:


Cadarnhawyd y patrwm a welir yn Ffigur 27 gan brofion ystadegol ar y data, hynny yw, bod [ɹ] yn fwy tebygol mewn sgwrs naturiol o'i gymharu â sefyllfa lle y gellid dadlau bod y siaradwr yn talu mwy o sylw i'r hyn a ddarllenir.

Darganfuwyd patrwm diddorol arall yn yr iaith Saesneg. Siaradwyr o gartrefi Cymraeg yng Nghaernarfon yn unig a drosglwyddodd amrywiolion o'r Gymraeg i'r Saesneg. Yn ogystal â hyn, roedd menywod yn fwy tebygol o gynhyrchu'r amrywiolion Cymraeg ac roedd yr amrywiolion Cymraeg yn fwy tebygol o ymddangos yn y rhestr o eiriau. Dengys Ffigur 28 y data ar amrywio /r/ yn Saesneg siaradwyr o gartrefi Cymraeg yng Nghaernarfon yn ôl y dasg a rhyw'r siaradwyr.

Gellid dadlau bod y canlyniadau uchod yn wahanol i'r hyn a ddisgwylir gan nad yw'r amrywiolion Cymraeg yn rhai safonol. Maent yn mynd yn groes, felly, i'r cysyniad bod menywod yn fwy tebygol o gynhyrchu amrywiolion safonol a bod amrywiolion safonol yn fwy tebygol mewn sefyllfaoedd ffurfiol (gweler 40.3 "Rhywedd a Rhywioldeb"). Dadleua Morris (2013:285) fod y siaradwyr hyn yn cymhwyso'r cyfyngiadau sy'n rheoli amrywio yn y Gymraeg i'w Saesneg a bod i'r amrywiolion Cymraeg fri ieithyddol yn y gymuned hon.



Ffigur 27: Amrywio /r/ yng Nghymraeg siaradwyr o gartrefi Cymraeg yng Nghaernarfon yn ôl y dasg (cyfweliad sosioieithyddol neu ddarllen rhestr o eiriau) a rhyw'r siaradwyr (ar ôl Morris 2013)



Ffigur 28: Amrywio /r/ yn Saesneg siaradwyr o gartrefi Cymraeg yng Nghaernarfon yn ôl y dasg (cyfweliad sosioieithyddol neu ddarllen rhestr o eiriau) a rhyw'r siaradwyr (ar ôl Morris 2013)

Rhydd y gwahaniaethau rhwng y cyfweiliad sosioieithyddol a'r rhestr o eiriau yn y ddwy iaith enghraifft o amrywio arddulliadol. Mae'r adran nesaf yn manylu ar y cysyniad hwn ac yn rhoi enghreifftiau pellach o waith ar y Gymraeg.

41 Amrywio Arddulliadol

MYFYR PRYS

Amrywio arddulliadol yw'r amrywio a welir o fewn iaith un unigolyn, o'i gymharu ag amrywio rhwng gwahanol siaradwyr. Term sy'n cyfeirio at ffordd benodol o siarad yw **arddull** (*style*) (Coupland 2010:2), a defnyddir y term **cywair** (*register*) i ddisgrifio ffordd benodol o ysgrifennu (Biber & Conrad 2009). Mae amrywio arddulliadol wedi cael ei astudio mewn sawl ffordd wahanol, a bydd yr adran hon yn amlinellu tair prif ffrwd y maes. Y gyntaf yw Sosioieithyddiaeth Labovaidd, sy'n ystyried amrywio arddull fel mater o ganolbwyntio'r sylw i gynhyrchu arddull ffurfiol. Yn ail, mae Damcaniaeth Ymgydaddasu Iaith (*Accommodation Theory*; Giles et al. 1991) a damcaniaeth Cynllunio ar gyfer Cynulleidfa (Bell 1984), dwy ddamcaniaeth debyg sy'n pwysleisio bod pobl yn ystyried eu cyd-siaradwyr wrth amrywio'u harddull. Yn olaf, mae dulliau Cynllunio gan Siaradwyr, sy'n canolbwyntio ar y siaradwr ei hun ac yn disgrifio amrywio arddull fel proses greadigol ac unigolyddol.

41.1 Sosioieithyddiaeth Labovaidd ac arddull

Labov oedd y cyntaf i astudio, mewn ffordd wyddonol, ofalus, y ffordd y mae pobl yn newid eu harddull wrth siarad (gweler 38 a 40). Fel rhan o'i astudiaeth enwog ar amrywio yn Saesneg Efrog Newydd (Labov 1966), disgrifiodd yr iaith yn amrywio ar ddwy echelin—yr **echelin gymdeithasol** a'r **echelin arddulliadol**. Hynny yw, mae iaith yn amrywio rhwng gwahanol bobl (yr echelin gymdeithasol) ond mae hefyd yn amrywio o fewn iaith pob unigolyn (yr echelin arddulliadol). Fel y trafodwyd yn yr adran ar Amrywio Cymdeithasol, mesurodd Labov amrywiaeth ar yr echelin gymdeithasol drwy gyfweld cannoedd o siaradwyr yn y ddinas a chyfrifo'u defnydd o amrywiolion sosioieithyddol. Un o'r amrywiolion hyn oedd (r)—sef amrywio rhwng cynnwys neu ollwng [ɹ] ar ôl llafariad (er enghraifft, gellid ynganu'r gair *fourth* fel [fɔɹθ] neu [fɔθ]). Ystyriwyd [ɹ] fel y ffurf safonol, a pheidio â'i ynganu fel ffurf ansafonol yn Efrog Newydd y cyfnod. I gyfrifo'r amrywiaeth hwn ar yr echelin arddulliadol, defnyddiodd y cyfweiliad sosioieithyddol.

41.1.1 Cyfweiliadau Labov

Egwyddor ganolog y cyfweiliad sosioieithyddol oedd **sylw i'r siarad** (*attention to speech*), sydd yn ei dro yn seiliedig ar y cysyniad o **iaith gynhenid** (*vernacular*). Yr iaith gynhenid yw'r arddull gyntaf, fwyaf awtomatig y mae pob person yn ei chaffael yn ystod ei blentyndod. Yn ddiweddarach yn eu bywydau, mae pobl yn dysgu arddulliau eraill, sydd wedyn yn cydfodoli

â'r iaith gynhenid. Gall y rhain fod yn arddulliau lleol mae pobl yn eu dysgu ar y stryd, yn dafodieithoedd o lefydd eraill neu'n rhai sy'n cael eu dysgu yn yr ysgol neu yn y gwaith. Mae hon yn broses sy'n gyffredin i bawb, a does neb yn siarad un arddull yn unig (Labov 1972:208). Un o oblygiadau'r ddamcaniaeth hon yw bod yr iaith gynhenid yn fwy naturiol i'r rhan fwyaf o bobl, ac yn haws i'w siarad heb wneud unrhyw ymdrech arbennig. Mae arddulliau a ddysgwyd yn ddiweddarach mewn bywyd yn cymryd mwy o ymdrech i'w cynhyrchu. Er mwyn achosi i'w gyfranwyr newid arddull, cynlluniodd Labov ei gyfweiliadau fel cyfres o dasgau oedd yn cynyddu faint o sylw roedden nhw'n ei rhoi i'w defnydd o iaith mewn gwahanol ffyrdd.

Dechreuodd bob cyfweiliad â'r prif gyfweiliad **anffurfiol**, a chynyddu'r ffurfioldeb gyda phob cam. Roedd y cyfweiliad anffurfiol i fod yn sgwrs weddol hamddenol, gyda'r cyfwelydd yn gofyn cwestiynau cyffredinol am gefndir y siaradwr a hanes ei gymuned. Ar ôl tua awr o sgwrs, mae'r cyfwelydd yn dechrau ceisio achosi i'r cyfrannwr dalu mwy o sylw i'w arddull siarad gyda chyfres o dasgau darllen. Credai Labov fod pawb yn cysylltu darllen, yn isymwybodol o leiaf, ag iaith yr ysgol. Oherwydd hyn, dadleuodd y byddai darllen testun yn uchel yn achosi iddynt newid eu hynganiad i adlewyrchu'r iaith safonol. Ar gyfer y cam nesaf, roedd yn rhaid i'r cyfrannwr ddarllen paragraff o destun â pharau o newidynnau ieithyddol wedi'u cuddio ynddo. Mae'r enghraifft isod yn rhan o dasg darllen sydd i fod i brofi sut mae'r cyfrannwr yn ynganu'r amrywiolyn (r) mewn geiriau fel *our, corner, four a hard*:

I remember when he was run over, not far from our corner. He darted out about four feet before a car, and got hit hard. (Labov 1972:159)

Yna, rhoddwyd rhestr o eiriau yn cynnwys y newidynnau i'r cyfranwyr eu darllen. Yn y cam mwyaf ffurfiol, defnyddiwyd rhestr o **barau minimol** (*minimal pairs*), sef newidynnau oedd yn amrywio yn ôl un ffonem yn unig, gan ganolbwyntio sylw'r siaradwyr yn llwyr ar eu hynganiad.

Adrodda Labov fod lleihau sylw at iaith yn fwriadol yn anoddach na'i gynyddu. Mae hyn yn rhannol oherwydd **paradocs yr arsylwr** (*the observer's paradox*), sy'n pennu na all iaith sy'n cael ei mesur fod yn gwbl anffurfiol oherwydd bod presenoldeb yr ymchwilyr (neu'r 'arsylwr') bob amser yn effeithio ar y sefyllfa. Er mwyn ceisio lleihau'r sylw roedd cyfranwyr yn ei roi i'w defnydd o iaith, defnyddiodd Labov gyfres o driciau creadigol. Un o'r rhain oedd defnyddio cwestiwn perygl marwolaeth (*danger of death*), lle gofynnai'r cyfwelydd a oedd y sawl oedd yn cael ei gyfweld erioed wedi bod mewn sefyllfa lle'r oedd bron iawn â marw. Credai Labov y byddai hyn yn achosi i'r siaradwr deimlo'n emosiynol a dychwelyd at ei iaith gynhenid. Dull arall oedd defnyddio **ciwiau sianel** (*channel cues*) megis chwerthin, seibiau a newid traw'r llais i ganfod rhannau'r cyfweiliad oedd yn arbennig o anffurfiol. Yn ôl Labov, achosai digwyddiadau ar hap megis galwad ffôn gan ffrind agos i arddull siarad y cyfrannwr newid yn llwyr, ac roedd y darnau hyn o'r cyfweiliad yn dystiolaeth allweddol o arddull anffurfiol siaradwyr.

41.1.2 Canfyddiadau Labov am arddull

Prif ddarganfyddiad Labov ar ôl cyfweld cannoedd o gyfranwyr oedd bod siaradwyr yn amrywio'u hiaith mewn ffordd reolaidd, strwythuredig. Gellir gweld hyn, er enghraifft, yn nefnydd y cyfranwyr o'r newidyn (r). Er bod pob siaradwr yn amrywio yn ei ddefnydd anffurfiol o'r newidyn ar sail dosbarth cymdeithasol, roedd pawb yn symud tuag at y ffurf safonol [ɹ] yn y tasgau ffurfiol. Un eglurhad a ddefnyddiwyd am hyn yw'r cysyniad o ideoleg iaith safonol, sy'n arwain siaradwyr i deimlo bod yn rhaid defnyddio ffurfiau safonol 'gwell' mewn sefyllfaoedd ffurfiol (Lippi-Green 1997). Mae sawl ymchwilydd wedi beirniadu dull Labov yn y degawdau

diwethaf, fel arfer gan ddadlau nad yw'n ystyried elfennau strategol a chreadigol amrywio arddull. Yr elfennau hyn fyddwn ni'n eu trafod yng ngweddill yr adran hon.

41.2 Ymgydaddasu a Chynllunio ar gyfer Cynulleidfa

Prif syniad **Damcaniaeth Ymgydaddasu Cyfathrebu** (*Communication Accommodation Theory*) yw bod pobl yn addasu eu ffordd o siarad ar sail eu perthynas â'u cyd-siaradwr (Giles et al. 1991). Mae tair prif strategaeth yn cael eu defnyddio fel arfer: **cydgyfeiriant** (*convergence*), **dargyfeiriad** (*divergence*) a **chyfatebolrwydd** (*complementarity*). Mae cydgyfeiriant yn strategaeth lle bydd rhywun yn newid ei ffordd o siarad i fod yn debycach i'w gyd-siaradwr. Yn ôl Giles, mae'r ymddygiad hwn yn cael ei sbarduno gan **atyniad tebygrwydd** (*similarity attraction*), egwyddor seicolegol sy'n pennu ei bod hi'n well gan bobl gyd-siaradwyr sy'n ymdebygu iddynt mewn rhyw ffordd. Mae hyn yn golygu y bydd pobl yn gyffredinol yn ceisio addasu eu harddull i fod yn debycach i'w cyd-siaradwr.

Mae sawl astudiaeth wedi darparu tystiolaeth fod cydgyfeiriant yn ffenomen gyffredin, ond un o'r enghreifftiau gorau yw astudiaeth Coupland (1984) o iaith asiant teithio wrth ei gwaith yng Nghaerdydd. Wrth iddi siarad â gwahanol gwsmeriaid, byddai'r asiant yn newid ei hacen i gyfateb i ddosbarth cymdeithasol a lefel addysg ei chyd-siaradwr. Mesurodd Coupland ei hynganiad o'r ffonem /t/ rhwng llafariaid, sy'n amrywio rhwng [t] a [d] yn Saesneg Caerdydd. Wrth siarad â chwsmeriaid o gefndiroedd llai breintiedig, tueddai i ddefnyddio [d], sy'n nodweddiadol o'r dafodiaith leol, ond byddai'n newid i [t] wrth siarad â chwsmeriaid â statws cymdeithasol uwch. Yn ôl Coupland, roedd ganddi gymhelliant sylweddol i wneud hyn i blesio'i chwsmeriaid er mwyn llwyddo yn ei swydd.

Dargyfeiriad yw'r gwrthwyneb i gydgyfeiriant; hynny yw, bydd rhywun yn newid ei arddull yn fwriadol i fod yn llai tebyg i'w gyd-siaradwr. Yn yr un modd ag y mae cydgyfeiriant yn dueddol o blesio cyd-siaradwyr, gall dargyfeiriant ymddangos yn anghyfeillgar. Daw'r strategaeth hon yn fwy amlwg mewn sefyllfaoedd lle mae hunaniaeth grŵp y siaradwyr yn bwysicach na'u perthynas personol â'u cyd-siaradwyr. Enghraifft enwog o ddargyfeiriad yw arbrawf Bourhis & Giles (1977). Rhannodd yr ymchwilyr ddysgwyr Cymraeg yn ddau grŵp. Yn y grŵp cyntaf roedd unigolion oedd yn dysgu'r Gymraeg am resymau gwladgarol, emosiynol. Yn yr ail grŵp roedd unigolion oedd yn dysgu am resymau hollol ymarferol, er enghraifft i gael dyrchafiad yn y gwaith. Recordiwyd pob un o'r cyfranwyr yn 'sgwrsio' â Sais di-Gymraeg. Mewn gwirionedd, roedd y cyfranwyr yn ymateb i recordiad oedd wedi'i gynllunio mor ofalus â phosib i godi gwrychyn unigolion â hunaniaeth Gymraeg gref. Siaradai'r llais ag acen Saesneg grand, a gwnâi sylwadau difriol am y Gymraeg a Chymru. Recordiwyd y cyfranwyr hefyd yn ymateb i recordiad niwtral, er mwyn gallu cymharu. Wrth fesur ynganiad y cyfranwyr wrth iddynt ymateb i'r recordiad heriol, canfuwyd bod y grŵp gwladgarol yn dargyfeirio yn eu nodweddiad ieithyddol oddi wrth y llais i ddefnyddio ynganiad mwy Cymraeg. Eglurhad yr ymchwilyr oedd bod y cyfranwyr yn dargyfeirio er mwyn atgyfnerthu eu hymdeimlad o Gymreictod, ac i fynegi eu hanfodlonrwydd â'r person oedd yn bygwth eu hunaniaeth.

Y strategaeth olaf a ddisgrifir yw cyfatebolrwydd. Mae cyfatebolrwydd yn strategaeth lle y bydd rhywun yn dargyfeirio oddi wrth arddull ei gyd-siaradwr, a hynny am resymau sy'n cael eu cymeradwyo gan gymdeithas. Enghraifft gyffredin o hyn fyddai sgwrs rhwng doctor a chlaf yn yr ysbyty. Yn ôl Street (1991), er enghraifft, mae doctoriaid yn dueddol o ddefnyddio arddull sy'n pwysleisio'u rôl fel arbenigwyr—gan siarad yn amlach a defnyddio geirfa gymhleth—tra mae'r claf yn defnyddio iaith lai arbenigol.

41.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfa

Mae damcaniaeth Cynllunio ar gyfer Cynulleidfa (*Audience Design*) yn rhannu rhai o brif syniadau Damcaniaeth Ymgydaddasu Iaith, ond yn canolbwyntio ar y defnydd o arddull yn y cyfryngau. Yn debyg iawn i Ymgydaddasu Iaith, honna damcaniaeth Bell (1984) fod siaradwyr yn cynllunio eu harddull siarad yn strategol ar gyfer eu cynulleidfa. Fel arfer, bydd siaradwyr naill ai'n addasu eu hiaith i gyfateb yn uniongyrchol i'w cyd-siaradwr, neu byddant yn newid i arddull rhywun sydd ddim yn bresennol o gwbl. Gelwir y math cyntaf hwn o newid arddull yn cynllunio ar gyfer cynulleidfa, a'r ail fath yn cynllunio ar gyfer canolwyr (*referee design*). Yr ail gategori, cynllunio ar gyfer canolwyr, sydd fwyaf perthnasol i'r cyfryngau. Yn y rhan fwyaf o raglenni radio bydd gan y cyflwynwyr syniad ynghylch y gynulleidfa ddelfrydol ar gyfer eu rhaglen. Er mwyn plesio'u gwrandawyr ac i ddenu mwy o'u cynulleidfa darged (gweler y drafodaeth ynghylch atyniad tebygrwydd, uchod), bydd cyflwynwyr yn debygol o addasu eu harddull bersonol i gyfateb i'r ffordd y byddan nhw'n credu bod eu cynulleidfa'n siarad.

Daw tystiolaeth am gynllunio ar gyfer canolwyr o astudiaeth Bell (1977) o orsafoedd radio Seland Newydd. Dewisodd Bell sawl gorsaf radio oedd yn targedu gwahanol gynulleidfaoedd, yn ôl eu hoed a'u cefndir economaidd. Casglodd ddata am gynulleidfa pob rhaglen drwy ddefnyddio holiaduron, ac yna recordiodd sampl o raglenni er mwyn dadansoddi'r iaith. Dangosodd y dadansoddiad gydbertnyddiad agos rhwng ynganiad y cyflwynwyr a statws economaidd ac oed prif gynulleidfa pob rhaglen. Cafodd y canlyniad hwn ei atgyfnerthu gan y ffaith fod rhai o'r cyflwynwyr yn newid eu harddull yn llwyr wrth newid o un rhaglen i'r llall, a hynny o fewn deng munud i'w gilydd, ac mai ymdrech strategol i blesio gwahanol gynulleidfaoedd oedd yr eglurhad amlwg am y newid systematig, yn hytrach na thalu mwy neu lai o sylw i'r iaith.

Oherwydd natur y cyfryngau, does dim llawer o le i ddargyfeirio o fewn damcaniaeth Cynllunio ar gyfer Cynulleidfa. Ond mae un agwedd o'r ddamcaniaeth yn debyg i'r cysyniad o gyfateb-olrwydd yn Namcaniaeth Ymgydaddasu Iaith. Yn ôl Bell, weithiau bydd sefydliad cyfryngau yn defnyddio arddull sy'n wahanol iawn i arddull ei wrandawyr am resymau hanesyddol neu gymdeithasol penodol. Er enghraifft, defnyddiai cyflwynwyr un o brif sianeli radio Seland Newydd yn yr wythdegau ynganiad safonol Saesneg Lloegr, y gellir ei ystyried yn eithaf gwahanol i acen y mwyafrif o wrandawyr y sianel. Roedd hyn oherwydd bod y sianel yn ceisio cyfleu argraff awdurdodol a difrifol yn ei rhaglenni, gwerthoedd yr oedd gwrandawyr yn Seland Newydd yn dueddol o'u cysylltu â Saesneg Lloegr ar y pryd. Dywed Bell (1984:172) fod patrymau tebyg yn dueddol o godi mewn gwledydd sydd â hanes **trefedigaethol** (*colonial*) ac mewn cymdeithasau deuglosig (gweler Adran 48.1). Galwodd y math yma o newid arddull yn gynllunio ar gyfer canolwyr allgrwp (*outgroup referee design*).

41.4 Cynllunio gan Siaradwyr

Y prif ffrwd ymchwil ym maes amrywio arddull bellach yw Cynllunio gan Siaradwyr (*Speaker Design*). Yn wahanol i draddodiadau cynharach sy'n trin arddull fel mater o **aramlygiad** (*exposure*; gw. Rhan VII, Adran 46) neu ymateb i gyd-siaradwyr, cred ymchwilwyr Cynllunio gan Siaradwyr fod unigolion yn 'perfformio' eu hunaniaeth drwy'r ffordd y maent yn siarad. Wrth wraidd hyn mae dau gysyniad pwysig: **ystyr mynegeiol** (*indexical meaning*) a **safiad** (*stance*).

Mae'r term ystyr mynegeiol (Silverstein 2003) yn cyfeirio at y ffordd y mae newidynnau ieithyddol yn gallu magu ystyron newydd, anuniongyrchol, o gyd-destun eu defnydd. Er

enghraifft, yn ôl Eckert (2008), mae ynganiad y ffonem /t/ fel [t], yn hytrach na [ʔ], ar ddiwedd gair (er enghraifft wrth ynganu *tonight* fel [tə'naɪt] yn lle [tə'naɪʔ]) wedi magu arwyddocâd penodol mewn Saesneg America, ac mae pobl yn dueddol o gysylltu ei defnydd â deallusrwydd, eglurder ac addysg (Eckert 2008:469). Gall siaradwyr fanteisio ar yr ystyron hyn i gyfleu negeseuon cymdeithasol am eu hunaniaeth, proses mae Ochs (1992) yn ei galw'n **cymryd safiad** (*stance-taking*). Ceir enghraifft o gymryd safiad i fanteisio ar ystyr [t] ar ddiwedd gair yng ngwaith Benor (2001), a ddangosodd fod bechgyn Iddewig mewn ysgol uwchradd yn yr Unol Daleithiau yn defnyddio'i arwyddocâd deallusol ac awdurdodol er mwyn ennill dadleuon. Mewn astudiaeth ar *nerds* benywaidd gan Bucholtz (1999), defnyddiodd merched ifanc yr un nodwedd i wireddu eu gwerthoedd personol, sy'n dyrchafu deallusrwydd ac addysg, ac i ddangos eu gwrthwynebiad i normau plant eraill yr ysgol. Wrth ddadansoddi amrywio arddull yn iaith dynion hoyw, disgrifia Podesva (2004) un dyn yn defnyddio'r nodwedd i gyfleu persona proffesiynol a difrifol yn ei waith fel doctor, a phersona *bitchy diva* ddigrif mewn parti yn hwyrach yr un diwrnod. Dengys hyn y gall yr un nodwedd ieithyddol fod yn ddefnyddiol wrth gymryd sawl safiad gwahanol. Oherwydd hyn, mae Eckert (2008) wedi cymharu amrywio arddull â ffasiwn. Hynny yw, mae pobl yn dewis nodweddion ieithyddol yn yr un modd â'r dillad maen nhw'n eu gwisgo—i gyfleu hunaniaeth bersonol.

41.5 Amrywio arddulliadol yn y Gymraeg

Un o'r astudiaethau cynharaf ar amrywio arddulliadol yn y Gymraeg oedd doethuriaeth Ball (1984), a ymchwiliodd i amrywio cymdeithasol ac arddulliadol yng Nghymraeg ardal Cwmtawe. Dangosodd Ball fod aramlygiad yn ffactor pwysig oedd yn effeithio ar allu siaradwyr Cymraeg i newid eu harddull. Rhannodd y cyfranwyr yn dri grŵp ar sail eu haramlygiad i'r Gymraeg: roedd grŵp A yn cynnwys cyfranwyr oedd yn defnyddio'r iaith yn aml iawn, grŵp C yn cynnwys cyfranwyr oedd prin yn clywed nac yn siarad y Gymraeg, a grŵp B yn y canol. Cyfrifwyd gallu'r cyfranwyr i newid arddull drwy dynnu cyfanswm y treigladau safonol a ddefnyddiwyd yn y cam mwyaf ffurfiol (y dasg darllen) o gyfanswm y cam lleiaf ffurfiol (y cyfweliad anffurfiol). Dangosodd y canlyniadau fod cyfranwyr oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn amlach yn eu bywyd bob dydd (Grŵp A) yn fwy tebygol o amrywio'u defnydd o rai treigladau, yn syml oherwydd eu bod wedi cael mwy o gyfle i gaffael y nodweddion ieithyddol angenrheidiol.

Grŵp	Maint y newid arddull
A	15.15
B	14.95
C	0

Tabl 10: Newid arddull fesul grŵp (Ball 1984)

Mewn astudiaeth fwy diweddar ar amrywio arddulliadol yn y Gymraeg, ymchwiliodd (M. Prys 2016) i'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y Gymraeg sy'n cael ei siarad yn y gymuned a'r Gymraeg a glywir ar y radio. Defnyddiwyd y corpws Siarad (casgliad o sgysiau anffurfiol) fel enghraifft o iaith gynhenid y gymuned a chorpws deuddeg awr yn cynnwys pedair rhaglen Radio Cymru fel enghraifft o Gymraeg sy'n amrywio'n arddulliadol. Canolbwyntiodd y dadansoddiad ar sbardunau treiglo (gw. rhan 20) a chyfnwid cod (gw. Adran 47) rhwng Cymraeg a Saesneg.

Dewiswyd y pedair rhaglen radio am eu bod yn cynrychioli ystod eang o arddulliau, o'r rhaglen newyddion *Post Prynhawen*, i rhaglen gomedi a cherddoriaeth Tudur Owen. Y prif gasgliad oedd

fod amllder cyfnewid cod y rhaglenni yn cyd-fynd ag amllder y chwerthin a'r torri ar draws, gan gynnig tystiolaeth fod cyfnewid cod yn farciwr cryf o anffurfioldeb. Ac eithrio'r sbardun ffurfiol *a* (hynny yw, y treigladau llaes sy'n dilyn y cysylltair *a* yn yr ymadrodd '*ceffyl a chert*' neu '*llanw a thrai*'), dangosodd y sbardunau treiglo lai o amrywio arddulliadol, sy'n awgrymu efallai fod y treigladau yn is yn ymwybod siaradwyr Cymraeg na chyfnewid cod.

Er mwyn deall y berthynas rhwng cyfnewid cod ac amrywio arddulliadol yn well, dadansoddwyd y rhaglenni o safbwynt **ansoddol** (*qualitative*) hefyd. Un patrwm oedd yn dueddol o gyd-ddigwydd â chyfnewid cod oedd **fflagio** (*flagging*; Poplack 1987). Ystyr fflagio yw tynnu sylw at yr iaith mae rhywun yn ei siarad. Gall hyn gynnwys newid tôn y llais, cymryd saib, neu wneud sylwadau agored am yr hyn a ddywedwyd (gelwir hyn yn *metacommentary* weithiau yn Saesneg, sef rhoi sylwadau am sylwadau). Yn y rhaglenni mwy ffurfiol, tueddai'r cyflwynwyr i fflagio unrhyw ddefnydd o'r Saesneg. Er enghraifft yn (126) o'r rhaglen ffurfiol *Post Prynawn*, mae'r gwestai 'LLY' yn fflagio'r term Saesneg *human error* drwy roi'r sylw 'oedden nhw'n galw fo' wrth drafod erthygl newyddion Saesneg, sy'n creu pellter rhyngddo a defnydd gwreiddiol y term (M. Prys 2016:351).


(126) LLY: ond bod yna le i ... *human error* oedden nhw'n galw fo yn y system felly yndê

Ar y llaw arall, tueddai cyflwynwyr y rhaglenni mwy anffurfiol i fflagio geiriau Cymraeg—yn benodol y rhai mwy crand, llai cyfarwydd, e.e. geiriau academiaidd. Yn (127) mae Tudur Owen yn fflagio'r defnydd o'r gair 'morwrol' gan un o'i gyd-gyflwynwyr, drwy ei ailadrodd mewn llais gwirion (M. Prys 2016:355).

(127) TUD: yr un mawr gwyn 'na
GAR: yr un morwrol 'di hwnnw dw i'n meddwl, yndê?
TUD: morwrol! (llais gwirion)

Dadleuodd M. Prys fod y fflagio yn enghraifft o gymryd safiad. Drwy greu pellter symbolaidd oddi wrth ymadroddion Saesneg a glynu at Gymraeg safonol, cymerai cyflwynwyr y rhaglenni mwy ffurfiol safiadau oedd yn cyfleu difrifoldeb ac awdurdod. Drwy beidio ag osgoi ymadroddion Saesneg a gwneud hwyl am ben Cymraeg 'crand' ar y llaw arall, defnyddiai cyflwynwyr rhaglen Tudur Owen strategaeth oedd yn dangos **cydsafiad** (*solidarity*) â'u gwrandawyr. Gellir enghreifftio hyn drwy gymharu amllder cyfartalog cyfnewid cod y Corpws Siarad â rhaglen Tudur Owen. Mae Ffigur 29 yn dangos bod amllder cyfnewid cod cyfartalog cyflwynwyr Tudur Owen yn nesáu at y Corpws Siarad. Dehongliad arall fyddai'r cysylltiad agos sydd rhwng hiwmor a thyndra: os gellir dadlau bod pwysau'r gofyniad am iaith safonol ar raglenni Radio Cymru yn creu tensiwn, efallai y gallai strategaethau sy'n torri'r normau hyn gynnig hiwmor a seibiant i'r gwrandawyr.

Mae amrywio arddull yn faes sydd wedi newid yn helaeth ers dyddiau Labov. Erbyn hyn mae llai o bwyslais ar sylw i iaith, a mwy o bwyslais ar agweddau creadigol y ffenomen. Mae hyn yn bwysig am ei fod yn cynnig ffordd newydd o edrych ar y Gymraeg. A ydy defnyddio Cymraeg 'ansafonol'—gan gynnwys cyfnewid cod a chamdreiglo—o reidrwydd yn golygu diffyg gallu ieithyddol bob amser? Neu a ydy hi'n bosib fod siaradwyr Cymraeg weithiau'n defnyddio'r nodweddion ieithyddol hyn i gyfleu eu hunaniaeth, neu efallai i gydgyfeirio at eu cyd-siaradwyr? Mae prinder astudiaethau diweddar ar y Gymraeg i'r perwyl yma yn golygu fod hwn yn gwestiwn anodd. Gydag ymchwil bellach fodd bynnag, efallai daw atebion ryw ddydd.



Ffigur 29: Cyfnewid cod ar draws 4 rhaglen radio a'r Corpws Siarad

42 Agweddau tuag at amrywio

JONATHAN MORRIS

Hyd yma, mae'r rhan hon wedi ystyried nifer o enghreifftiau o waith ymchwil ar amrywio ieithyddol. Mae'r astudiaethau hyn yn seiliedig ar waith ym meysydd tafodieitheg a sosioieithyddiaeth sy'n dadansoddi lleferydd siaradwyr ac wedi dangos bod ffactorau daearyddol, cyd-destunol, a chymdeithasol yn gallu effeithio ar y ffordd y mae rhywun yn siarad. Mae gwaith sosioieithyddion yn wrthrychol, sy'n golygu ei fod yn adrodd ar y patrymau hyn ar sail dadansoddiad trylwyr o'r data. Nid yw sosioieithyddion yn mynegi barn ar werth amrywiadau gwahanol a'u siaradwyr ac nid yw'r patrymau a nodir yn seiliedig ar agweddau personol, goddrychol.

Ond yn y gymdeithas ehangach, gwelir tuedd i bobl ffurfio barn ar amrywiadau gwahanol iaith. **Ystrydeb** (*stereotype*) yw barn sydd heb fod yn seiliedig ar ddadansoddiad trylwyr, a heb ystyried bod lleferydd unigolion yn amrywio mewn cyd-destunau gwahanol ([Meyerhoff](#)

2011:71). Yn aml, ceir agweddau neu ystrydebau negyddol tuag at siaradwyr yr amrywiadau hyn fel pe bai'r ffordd y mae rhywun yn siarad yn adlewyrchu agwedd ar ei bersonoliaeth—ei sgiliau deallusol, er enghraifft. Nid oes tystiolaeth sy'n cefnogi'r syniad hwn ac mae llawer o sosioieithyddion wedi ceisio codi ymwybyddiaeth o **wahaniaethu ieithyddol** (*linguistic discrimination*) ymhlith y cyhoedd (e.e. Matsuda 1991; Lev-Ari & Keysar 2010; Baratta 2017).

Gan amlaf, siaradwyr sy'n defnyddio amrywiadau ansafonol sy'n cael eu beirniadu mewn ffordd negyddol gan y cyhoedd ac yn cael eu cyhuddo o siarad yn anghywir (Garrett 2010:7–8). Mae gwaith nifer o sosioieithyddion yn UDA, er enghraifft, wedi dangos bod Saesneg Affro-Americanaidd yn amrywiad ansafonol a chanddo reolau gramadegol cymhleth a phatrymau penodol (gweler 40.4 'Amrywio mewn cymunedau amlethnig ac amlieithog'). Maent wedi tynnu sylw at ffrwyth eu hymchwil er mwyn dangos nad yw'r amrywiad hwn yn anghywir ac er mwyn tynnu sylw at wahaniaethu yn erbyn pobl Affro-Americanaidd yn y system addysg ac yn y system gyfreithiol (e.e. Lippi-Green 2012).

Er bod sosioieithyddion yn osgoi mynegi safbwyntiau goddrychol o'r fath, mae deall agweddau tuag at amrywiadau ar ieithoedd yn rhan hollbwysig o ddadansoddi'r gydberthynas rhwng ffactorau cymdeithasol ac iaith. Yng ngweddill yr adran hon, amlinellir yn fras ddulliau o ymchwilio i agweddau, gan gynnwys enghreifftiau o ymchwil i'r Gymraeg a Saesneg Cymru.

Edrychodd A. Williams et al. (1996) ar ganfyddiadau athrawon yng Nghymru o dafodieithoedd Saesneg Cymru drwy osod tasg fapio. Gofynnwyd i'r athrawon nodi hyd at wyth ardal dafodieithol ar y map a'u henwi. Yna, gofynnwyd iddynt ddisgrifio nodweddion y tafodieithoedd gwahanol. Cafwyd tuedd i ddisgrifio acen gogledd-ddwyrain Cymru fel acen 'Lerpwl' ac i wahaniaethu rhwng acenion Cymreigaidd ac acenion Seisnigaidd. Atgyfnertha hyn y dybiaeth fod ystrydebau'n bodoli ynghylch pa mor Gymreig yw nifer o ardaloedd yng Nghymru a bod acen yn adnodd a ddefnyddir er mwyn cyfiawnhau safbwyntiau o'r fath.

Ymchwiliodd Robert (2009) i agweddau tuag at Gymraeg siaradwyr o gartrefi di-Gymraeg mewn ysgolion Cymraeg yn ne-ddwyrain Cymru. Gofynnodd i 85 o siaradwyr Cymraeg wrando ar glipiau o bedair siaradwraig a oedd wedi caffael y Gymraeg mewn ysgolion Cymraeg, a dwy siaradwraig o siroedd gorllewinol (Sir Gaerfyrddin a Gwynedd) a oedd wedi caffael yr iaith ar yr aelwyd. Gofynnwyd i'r gwrandawyr ateb cwestiynau ar ôl iddynt wrando ar bob clip. Gofynnwyd cwestiynau megis: 'Pa mor dderbyniol yw Cymraeg y person hwn?' a 'Pa mor dda y byddai'r person hwn yn ei wneud yn y brifysgol?' Nod y cwestiynau oedd darganfod i ba raddau y mae'r gwrandawyr yn cysylltu'r ffordd y mae rhywun yn siarad ag agweddau ar ei bersonoliaeth (e.e. gallu i siarad Cymraeg 'cywir' a sgiliau deallusol).

Nid oedd gwahaniaeth clir rhwng y siaradwyr o gartrefi Cymraeg a'r siaradwyr o gartrefi di-Gymraeg ar sail cywirdeb ieithyddol. Hynny yw, nid oedd y gwrandawyr yn dueddol o ddweud bod y ddwy siaradwraig o gartrefi Cymraeg yn fwy cywir. Er hynny, roedd cydberthynas glir rhwng sgorau ar iaith (sef derbynioldeb, cywirdeb, a mynegiant yn y Gymraeg) a dylanwad o du'r Saesneg. Sgoriodd y siaradwyr a oedd wedi defnyddio geiriau Saesneg, er enghraifft, yn is na'r siaradwyr nad oedd wedi cyfnewid cod. Awgryma hyn fod rhai siaradwyr Cymraeg yn dueddol o feirniadu siaradwyr sy'n defnyddio mwy o nodweddion o du'r Saesneg yn negyddol. Fel y gwelir yn Rhan VII, dengys ymchwil ym maes ieithyddiaeth nad yw cyfnewid cod yn arwydd o ddiffyg caffael, ond ei fod, yn hytrach, i'w ddisgwyl yn lleferydd siaradwyr dwyieithog.

Amser a ddengys a fydd canfyddiadau ymhlith y Cymry tuag at amrywiadau ar y Gymraeg a Saesneg Cymru yn newid dros amser. Yn fwy diweddar, mae dwy astudiaeth wedi edrych ar

ganfyddiadau yn Lloegr tuag at dafodieithoedd Saesneg Cymru. Yn debyg iawn i astudiaeth [A. Williams et al. \(1996\)](#) uchod, gosododd [Montgomery \(2016\)](#) dasg fapio i ddisgyblion mewn ysgolion ar ddwy ochr y ffin rhwng Cymru a Lloegr er mwyn darganfod beth yw canfyddiadau pobl ifainc o acenion y ddwy wlad. Dangosodd yr ymchwiler yn glir fod gan bobl ifainc yng Nghymru a Lloegr syniad eithaf clir o wahanol ardaloedd tafodieithol yn Lloegr ond gwelwyd tuedd ymhlith disgyblion yn Lloegr i nodi un ardal dafodieithol yng Nghymru—‘Welsh’—heb wahaniaethu’n fanylach. Dywed [Montgomery \(2016:175\)](#): “This underlines the value of perceptual dialectology in understanding the perceptions of dialect areas from a number of perspectives, and the need to expose those outside smaller countries to the rich dialectal landscape present within them.”

Fe gefnogir y canlyniadau hyn gan waith Mercedes [Durham \(2016\)](#) ar agweddau tuag at Saesneg Cymru ar Twitter. Defnyddiodd ddull o gasglu pob trydariad a oedd yn cynnwys y geiriau ‘Welsh Accent’ dros gyfnod o naw mis ac fe gasglwyd 87,165 o drydariadau. Fel y gwelir yn [\(128\)](#) a [\(129\)](#), roedd nifer o’r trydariadau hyn yn cynnwys agweddau tuag at Saesneg Cymru ([Durham 2016:186](#)):

(128) Wish I had a Welsh accent #lush

(129) RT @username God, that Welsh accent is a bit annoying isn’t it?

Darganfu fod y rhan fwyaf o agweddau yn ffafriol tuag at acenion Saesneg Cymru ond, fel yn astudiaeth [Montgomery \(2016\)](#) uchod, cafwyd tuedd i sôn am un acen Gymreig yn hytrach na gwahanol acenion Cymreig. Mae [Durham \(2016:201\)](#) yn honni bod y cyfryngau’n dylanwadu ar y canfyddiad mai un acen Gymreig yn unig sy’n bodoli gan fod y rhan fwyaf o raglenni teledu o Gymru yn canolbwyntio ar y de-ddwyrain (e.e. *The Valleys, Gavin and Stacey*).

43 Crynodeb

Amrywio

Mae'r Rhan hon wedi cyflwyno'r cysyniad o amrywio a newid ieithyddol. Fe roddwyd enghreifftiau o amrywio ffonolegol, amrywio geirfaol, amrywio morffolegol ac amrywio cystrawennol. Gwahaniaethwyd rhwng gwahanol fathau o amrywio, sef amrywio daearyddol, amrywio cymdeithasol, ac amrywio arddulliadol. Cyfeiria amrywio daearyddol at y gwahaniaethau ieithyddol rhwng gwahanol ardaloedd. Mae astudiaethau ar amrywio cymdeithasol yn canolbwyntio ar y gydberthynas rhwng ffactorau cymdeithasol ac amrywio a newid o fewn cymuned benodol. Disgrifia amrywio arddulliadol y gwahaniaethau rhwng y ffordd y mae'r unigolyn yn siarad mewn sefyllfaedd penodol.

Mae'r Rhan hon hefyd wedi ystyried amrywiadau safonol ac amrywiadau ansafonol ar ieithoedd. Dangoswyd na ddylid beirniadu siaradwyr sy'n defnyddio amrywiadau ansafonol gan fod yr amrywiadau hyn hefyd yn ddilys. Ystyriwyd, felly, agweddau tuag at amrywio ymhlith y gymdeithas ehangach.

Cwestiynau

1. Beth yw'r gwahaniaethau rhwng tafodieithoedd y Gymraeg? Rhowch enghreifftiau o seiniau, geiriau a nodweddion gramadegol sy'n amrywio.
2. Pa ffactorau cymdeithasol sy'n codi mewn astudiaethau blaenorol o amrywio yng nghydestun y Gymraeg?
3. Beth yw'r dulliau gwahanol a ddefnyddir i ymchwilio i amrywio arddulliadol?
4. Sut y mae gosod tasg fapio yn ein helpu i ymchwilio i agweddau siaradwyr tuag at amrywiadau?

Darllen pellach

Cyfrwng Cymraeg

Jones, R.O. 1986. Datblygiad gwyddor tafodieitheg yng Nghymru. *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* 18–40

Thomas, B & Thomas, P.W. 1989. *Cymraeg, cymrâg, cymrêg...: Cyflwyno'r tafodieithoedd*. Caerdydd: Gwasg Taf

Cyfrwng Saesneg

Durham, M. & J. Morris (goln.). 2016. *Sociolinguistics in Wales*. Llundain: Palgrave Macmillan. doi: 10.1057/978-1-137-52897-1

Meyerhoff, M. 2011. *Introducing sociolinguistics*. English Language & Linguistics. Routledge. 2il ol.

Tagliamonte, S. A. 2006. *Analysing sociolinguistic variation*. Cambridge University Press

Rhan VII

Amlieithrwydd

44 Cyflwyniad

PEREDUR WEBB-DAVIES

Credir bod y rhan fwyaf o bobl yn y byd yn **amlieithog**, sy'n golygu eu bod â'r gallu i siarad a/neu ddeall **o leiaf ddwy iaith** wahanol. Ceir siaradwyr amlieithog ym mron holl wledydd a rhanbarthau'r byd, hyd yn oed mewn ardaloedd sy'n uniaith ar y cyfan. Rhaid ystyried bod pob person heddiw sy'n siarad Cymraeg hefyd yn gallu siarad iaith arall; yn nodweddiadol, Saesneg yng Nghymru a Sbaeneg yn yr Ariannin. Y rheswm dros hyn yw bod Cymraeg cyfoes yn iaith leiafrifol, â llai o bobl yn ei siarad yn y DU nag sy'n siarad iaith fwyafrifol fel Saesneg. Mae Saesneg, ar y llaw arall, yn iaith fyd-eang y mae'n debygol iawn y bydd siaradwyr iaith leiafrifol yn y DU yn ei dysgu.

O fewn ieithyddiaeth, felly, mae'n bwysig ystyried iaith nid fel rhywbeth sy'n bodoli ar ei phen ei hun, ond fel rhywbeth sy'n cydgyffwrdd ag ieithoedd eraill, boed hynny ar lefel gymdeithasol neu lefel wybyddol (tu mewn i'r ymennydd, er enghraifft).

Bwriad y rhan hon yw edrych yn ddyfnach ar natur siaradwyr amlieithog; sut y maent yn caffael dwy iaith fel plant neu'n dysgu ail iaith fel oedolion, eu defnydd o'u dwy iaith ac o ffenomenau fel y defnydd o'r ddwy iaith o fewn yr un sgwrs, a'r ffordd y mae person amlieithog efallai'n meddwl ac yn gweithredu'n wahanol i berson sydd â dim ond un iaith. Ceir hefyd ystyriaeth o rôl amlieithrwydd mewn cymdeithas, gan gynnwys sut y gall gwahanol ieithoedd feddu ar swyddogaethau a statws gwahanol, a beth yw goblygiadau hyn ar gyfer yr ieithoedd a'u siaradwyr.

Fel arfer, mae ymchwilwyr yn sôn am ddwyieithrwydd ac am gymdeithasau dwyieithog er mwyn symleiddio eu harbrofion a'u canfyddiadau—gall ystyried ffactorau o dair iaith yr un pryd gymhelthu'r gwaith o dadansoddi canlyniadau. Mae trafod dwyieithrwydd yn hytrach nag amlieithrwydd hefyd yn symleiddio cysyniadau i ddarllenwyr. Ar y llaw arall, mae'n bwysig cydnabod bod cymunedau, dinasoedd a chymdeithasau yn amlieithog ar y cyfan, a hyd yn oed unigolion, er i wahanol raddau. Er enghraifft mae siaradwyr Cymraeg o leiaf yn ddwyieithog, ond yn amlieithog os ydynt wedi dysgu iaith ychwanegol fel Ffrangeg neu'n siarad iaith ychwanegol yn y cartref. Mae eu cymunedau'n ddwyieithog o leiaf, ond yn amlieithog yn aml, yn enwedig mewn trefi. Felly, yn y rhan hon byddwn yn defnyddio'r term **dwyieithrwydd** er mwyn trafod cysyniadau lle mai dwy iaith yn benodol sydd dan sylw, neu er budd symlrwydd, e.e. wrth drafod caffael iaith. Mae'n bwysig cofio nad yw hyn yn golygu nad yw'r un ffeithiau yn wir am amlieithrwydd hefyd, ond efallai fod: a) diffyg ymchwil ar y pwnc neu b) y darlun yn cymhlethu ond heb newid yn sylweddol wrth drafod mwy o ieithoedd.

Bydd y rhan hon yn trin a thrafod agweddau ar amlieithrwydd yn y cartref, yn yr ysgol, mewn oedolion, ac yn y gymdeithas yn gyffredinol, a gall unigolion fyw ymysg unrhyw gyfuniad o ieithoedd yn y peuoedd (*domains*) hynny. Yna, ystyrir y ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol

sy'n berthnasol i ieithoedd lleiafrifol mewn cyd-destun amlieithog, fel yr iaith Gymraeg, er enghraifft. I gloi, ceir trafodaeth ar effeithiau cydgyffwrdd ieithyddol ar ramadeg a datblygiad ieithoedd newydd oherwydd amlieithrwydd cymdeithasol.

Geirfa allweddol

amlieithog	dwyeithrwydd
dwyeithrwydd cydamserol	caffael iaith gyntaf dwyieithog
caffael ail iaith	caffael ail iaith olynol
cynnal iaith	adfywio iaith
rhagdybiaeth y system unedig	rhagdybiaeth y systemau gwahanol
cytundeb berfol	trosglwyddo
ymyrraeth	amrywioldeb rhwng dysgwyr
amrywioldeb dysgwr	cyfnod critigol
cyfnewid cod	benthyciad
cydgyffwrdd ieithyddol	bwlch geirfaol
ymgydaddasu	dargyfeirio
cyfnewid cod rhyng-gymalog	cyfnewid cod mewngymalog
mewniosod	iaith fatrics
iaith fewnblanedig	deuglosia
lefelu tafodieithol	cydgyfeiriant
shifftio ieithyddol	marwolaeth iaith
alltudio arddodiad	bannod ôl-osodedig
iaith yr eirfa	gramadegoli
lingua france	

45 Dysgu dwy iaith fel plentyn

SARAH COOPER

Gall plentyn fod yn ddwyieithog o ganlyniad i wahanol sefyllfaoedd. Er enghraifft, mae'n bosibl eu bod yn cael profiad o ddwy iaith yn y cartref, neu efallai ei fod yn cael un iaith yn y cartref ac iaith arall o'r gymuned. Mewn achosion lle mae plentyn yn datblygu'r ddwy iaith yr un pryd, defnyddiwn y term **dwyeithrwydd cydamserol** (*simultaneous bilingualism*). Defnyddir y term **caffael iaith gyntaf dwyieithog** (*bilingual first language acquisition*) hefyd i gyfeirio at y broses o gaffael dwy iaith yr un pryd. Fel arfer, mae hyn yn digwydd yn naturiol ac nid drwy addysgu ffurfiol mewn dosbarth. Mae caffael agweddau strwythurol yr ieithoedd yn digwydd yr un pryd â chaffael confensiynau cymdeithasol (sef y rheolau ynghylch sut mae defnyddio'r iaith o ddydd i ddydd).

Yn ogystal â dysgu ieithoedd fel plentyn ifanc, mae'n bosibl dysgu ail iaith (L2) ar ôl datblygu'r iaith gyntaf (neu'r ieithoedd cyntaf). Fel arfer, defnyddir y term **caffael ail iaith** (*second*

language acquisition) fel arfer i gyfeirio at sefyllfa lle mae plentyn neu oedolyn yn dysgu ail iaith wedi i'r iaith (neu ieithoedd) gyntaf ddatblygu rhywfaint yn barod.

Oed a chaffael iaith

Fel arfer, os yw'r iaith yn cael ei hychwanegu ar ôl y tair blynedd gyntaf ym mywyd y plentyn, proses **olynol** (*successive*) yw dysgu'r iaith newydd. Os yw'r broses o gaffael iaith yn dechrau cyn 7–10 oed, fel arfer mae'n arwain at feistrolaeth o'r iaith darged. Ar ôl 7–10 oed, gall plentyn neu oedolyn weld y broses o gaffael ail iaith yn un heriol. Ceir mwy am ddysgu ail iaith yn 46 “Dysgu ail iaith fel oedolyn” isod.

Roedd rhagfarn yn bodoli am flynyddoedd fod dysgu dwy iaith yn niweidiol i blant: yn ôl y farn boblogaidd, roedd dwyieithrwydd yn rhywbeth dryslyd i blentyn, yn rhywbeth fyddai'n effeithio ar eu gallu i ddysgu'r ddwy iaith ac yn achosi diffygion yn y ddwy iaith. Fe gafodd ymchwilwyr cynnar effaith niweidiol ar agweddau unigolion cyffredin ac ysgolheigion, a hynny oherwydd bod eu hymchwil yn cynnwys gwendidau methodolegol difrifol. Nid yw hon yn farn gyffredin erbyn heddiw ac mae ymchwilwyr yn gweithio'n galed i sicrhau bod eu hymchwil yn briodol ac yn drwyadl. Mae nifer o astudiaethau wedi dangos nad oes anfanteision o fod yn ddwyieithog. Am wybodaeth fanylach am y newid mewn barn gymdeithasol ac mewn ymchwil dros y blynyddoedd, gweler [E.M. Thomas & Webb-Davies \(2017\)](#).

45.1 Magu plant dwyieithog

Mae cyd-destun caffael iaith yn gydamserol mewn plant dwyieithog yn gallu amrywio o deulu i deulu. Rhaid i rieni ystyried sut y maent am fagu eu plant yn ddwyieithog. Mae [Romaine \(1995\)](#) yn rhestru chwe math o ddwyieithrwydd, gan ddibynnu ar iaith y rhieni, iaith y gymuned a strategaeth (gweler y chwe math isod). Cyfeiria iaith y rhieni at yr iaith (neu'r ieithoedd) y mae'r rhieni yn ei siarad, os ydynt yn ddwyieithog, pa un a yw'r rhieni yn siarad yr un iaith neu ieithoedd gwahanol i'w gilydd ac i ba raddau mae un rhiant yn rhannu iaith neu ieithoedd y llall. Mae iaith y gymuned yn bwysig, yn ôl [Romaine](#), ac mae hi'n ystyried ffactorau megis pa iaith (neu ieithoedd) a siaredir yn y gymuned, a yw un o ieithoedd y rhieni yn cael ei siarad yn y gymuned, ac a yw'r gymuned yn cael ei hystyried yn gymuned ddwyieithog (gw. Adran 48 “Dwyieithrwydd mewn cymdeithas” isod). Yn olaf, mae [Romaine](#) yn ystyried strategaeth y rhieni yn ôl pa ieithoedd maent yn eu siarad â'r plentyn: ydyn nhw'n siarad yr un iaith neu'n defnyddio ieithoedd gwahanol â'u plentyn?

Math 1: ‘un person, un iaith’

Mae iaith gyntaf y ddau riant yn wahanol, ond maent yn gallu siarad rhywfaint o iaith y rhiant arall. Mae iaith y gymuned yr un ag iaith un o'r rhieni. Y strategaeth yw fod pob rhiant yn siarad ei iaith ei hun â'r plentyn.

Enghraifft: Mae'r teulu yn byw yn Lloegr. Iaith gyntaf y fam yw Saesneg. Mae'n siarad Saesneg â'r plentyn. Iaith gyntaf y tad yw Ffrangeg, ac mae'n siarad Ffrangeg â'r plentyn.

Math 2: ‘iaith gartref annominyddol (non-dominant)’

Fel math 1, ond mae'r strategaeth yn wahanol. Mae'r rhieni yn siarad yr un iaith â'r plentyn (sef iaith y rhiant sydd ddim yn ddominyddol yn y gymuned). Mae'r strategaeth hon yn tybio

y bydd y plentyn yn cael mewnbwn yn iaith ddominyddol y gymuned ac yn datblygu'r iaith honno yn naturiol.

Enghraifft: Mae'r teulu yn byw yn yr Almaen, ac Almaeneg yw'r iaith ddominyddol. Iaith gyntaf y fam yw Ffinneg. Mae'r tad wedi dysgu Ffinneg fel oedolyn. Mae'r ddau riant yn siarad Ffinneg â'r plentyn, ac mae'r plentyn yn cael Almaeneg o'r gymuned.

Math 3: 'iaith gartref annominyddol heb gefnogaeth o'r gymuned'

Mae'r ddau riant yn rhannu'r un iaith, ond nid yw'r iaith yn cael ei siarad yn y gymuned. Mae'r rhieni yn siarad â'r plentyn yn eu hiaith frodorol.

Enghraifft: Mae'r teulu yn byw yn yr Iseldiroedd ac Iseldireg yw'r iaith ddominyddol. Iaith gyntaf y rhieni yw Ffinneg. Mae'r rhieni yn siarad Ffinneg â'r plentyn, ac mae'r plentyn yn cael mewnbwn mewn Iseldireg o'r gymuned.

Math 4: 'iaith gartref annominyddol ddwbl heb gefnogaeth o'r gymuned'

Mae iaith gyntaf y ddau riant yn wahanol, ac nid yw'r ieithoedd hynny'n cael eu siarad yn y gymuned. Mae'r ddau riant yn siarad â'r plentyn yn eu hieithoedd cyntaf.

Enghraifft: Mae'r teulu yn byw yn Lloegr a Saesneg yw'r iaith ddominyddol. Iaith gyntaf y fam yw Sbaeneg, ac mae'n siarad Sbaeneg â'r plentyn. Iaith gyntaf y dad yw Iseldireg, ac mae'n siarad Iseldireg â'r plentyn. Mae'r plentyn yn cael mewnbwn yn Saesneg o'r gymuned.

Math 5: 'Rhieni ail iaith'

Mae'r rhieni yn siarad yr un iaith gyntaf, sef iaith y gymuned. Mae un rhiant yn siarad iaith arall y mae wedi'i dysgu (ail iaith) â'r plentyn.

Enghraifft: Mae'r teulu yn byw yn Ffrainc, a Ffrangeg yw'r iaith ddominyddol. Iaith gyntaf y rhieni yw Ffrangeg. Mae'r fam wedi dysgu Saesneg fel oedolyn. Mae'r dad yn siarad Ffrangeg â'r plentyn, ac mae'r fam yn siarad Saesneg â'r plentyn. Mae'r plentyn hefyd yn cael Ffrangeg o'r gymuned.

Math 6: 'Polisi ieithoedd gymysg'

Mae'r rhieni'n ddwyieithog, ac mae'n bosibl fod y gymuned hefyd yn ddwyieithog. Mae'r rhieni yn cyfnewid cod ac yn cymysgu'r ieithoedd.

Enghraifft: Mae'r teulu yn byw yng Nghanada, lle mae Ffrangeg a Saesneg yn cael eu defnyddio. Mae'r tad a'r fam yn siarad Ffrangeg a Saesneg ac yn ddefnyddio'r ddwy iaith â'r plentyn.

Un nod bwysig wrth ddysgu iaith yw cyrraedd lefel o allu sy'n caniatáu i'r plentyn fod yn siaradwr **cynhyrchiol** (*productive*), h.y. eu bod yn cyrraedd pwynt lle mae'r seiliau ieithyddol pwysig yn eu lle er mwyn iddynt fedru cyfleu unrhyw syniad yn y byd drwy gyfrwng yr iaith. Mae angen i unrhyw blentyn (uniaith, dwyieithog neu amlieithog) gael digon o aramlygiad (*exposure*) i'r iaith (neu ieithoedd) y maent yn ei dysgu, ac mae'n bwysig eu bod yn cael mewnbwn digonol. Gall y mewnbwn hefyd ddibynnu ar agweddau'r teulu a'r gymuned tuag at yr ieithoedd a statws yr iaith yn y gymuned. Felly, nid mewnbwn yn unig sy'n bwysig, ond

hefyd agweddau a'r cyd-destun cymdeithasol ar gyfer sicrhau bod plentyn yn datblygu gallu cynhyrchiol yn y ddwy iaith. Gweler [E.M. Thomas & Webb-Davies \(2017\)](#), Penodau 3 a 4, am fwy o wybodaeth am aramlygiad a phatrymau caffael iaith.

45.2 Addysg ddwyieithog

Beth yw addysg ddwyieithog? Yng Nghymru, mae'n bosib bod ni'n gyfarwydd â'r term addysg ddwyieithog yn barod, ond beth mae'r term yn ei olygu? Mae [Baker \(2006\)](#) yn nodi bod y term yn gyffredinol yn cyfeirio at sefyllfa lle mae plentyn sy'n ddwyieithog yn barod yn derbyn addysg, ond hefyd mae'n cael ei ddefnyddio i gyfeirio at sefyllfa lle mae plentyn ag un iaith (neu fwy) yn dysgu ieithoedd ychwanegol o fewn yr ysgol. Mae addysg ddwyieithog yn wahanol i addysg lle mae plentyn yn dysgu iaith mewn dosbarth penodol ar gyfer yr iaith honno. Mae rhaglenni addysg ddwyieithog sy'n arwain at feistrolaeth o'r ieithoedd targed yn defnyddio'r ieithoedd fel cyfrwng addysgu ([Johnstone 2002](#); [Baker & G. Lewis 2015](#)). Fel arfer mae hynny'n golygu bod rhan neu ran fwyaf y cwricwlwm yn cael ei ddysgu trwy fwy nag un iaith.

Mae nifer o raglenni dwyieithog ar gael ledled y byd, a bydd yr adran hon yn canolbwyntio ar dair ohonynt sy'n hybu **dwyeithrwydd adioli** (*additive bilingualism*): **rhaglenni trochi** (*immersion programmes*), **rhaglenni trochi dwyffordd** (*two-way immersion programmes*) a rhaglenni i gynnal neu adfywio ieithoedd.

45.2.1 Trochi

Mae **rhaglenni trochi** ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu mewn ail (neu drydedd) iaith, ac fel arfer mae'r plant i gyd yn dod o'r un cefndir ieithyddol; er hynny, mae amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol mewn rhai rhaglenni trochi. Fel arfer, mae'r plant yn siarad iaith fwyafrifol yn y cartref, ac yn dysgu ail iaith fwyafrifol yn yr ysgol. Mae rhaglenni fel hyn wedi bod yn llwyddiannus yng Nghanaada, lle mae plant sy'n siarad Saesneg gartref yn mynd i ysgol lle mae'r rhan fwyaf o'r dysgu yn digwydd drwy gyfrwng yr iaith Ffrangeg ([Lambert & Tucker 1972](#)). Prif amcan y rhaglenni hyn yng Nghanaada yw datblygu dwyieithrwydd a llythrennedd yn y ddwy iaith, drwy athrawon dwyieithog sy'n parchu iaith gyntaf y plant yn ogystal â'r ail iaith ([Baker 2006](#)).

45.2.2 Trochi dwyffordd

Mewn **rhaglenni trochi dwyffordd**, mae plant o ddau gefndir ieithyddol gwahanol yn cael eu dysgu yn yr un dosbarth ac mae'r dysgu yn digwydd yn y ddwy iaith. Fel arfer, mae plant sy'n siarad iaith leiafrifol yn y cartref a phlant sy'n siarad iaith fwyafrifol yn y cartref yn cael mewnbwn yn yr un dosbarth yn y ddwy iaith. Mae'n bwysig bod niferoedd cyfartal o blant o'r ddau gefndir, a bod yr iaith leiafrifol yn cael ei pharchu ([Rolstad 1997](#); [Collier & W.P. Thomas 2004](#)). Enghraifft o'r math hwn o raglen yw rhaglenni dwyffordd Sbaeneg–Saesneg yn yr Unol Daleithiau. Mae plant o gartrefi Sbaeneg a phlant o gartrefi Saesneg yn cael mewnbwn cyfartal yn y ddwy iaith. Fel mewn rhaglenni trochi, mae pwyslais hefyd ar ddatblygu dwyieithrwydd a llythrennedd yn y ddwy iaith, ond mae'r ddwy iaith yn cael eu cynrychioli yn yr ysgol.

45.2.3 Cynnal/adfywio iaith

Mae **rhaglenni sy'n cynnal neu adfywio ieithoedd** (*language maintenance or revitalisation programmes*) hefyd yn bwysig mewn gwledydd lle mae iaith mewn perygl o farw a lle nad yw plant yn ei dysgu fel iaith gyntaf. Fel arfer, mae'r rhaglenni hyn yn debyg i'r rhaglenni trochi. Mae'r plant yn cael eu dysgu yn y ddwy iaith—yr iaith fwyafrifol a'r iaith leiafrifol sydd mewn perygl. Prif amcan yr addysg hon yw cynnal ac adfywio'r iaith leiafrifol. Mae'r iaith frodorol yn cael ei diogelu a'i datblygu ochr yn ochr â datblygiad yr iaith fwyafrifol (Baker 2006:239). Mae'r math hwn o addysg yn gyffredin yn yr Unol Daleithiau ac yn Awstralia lle mae ieithoedd brodorol mewn perygl o ddiflannu yn y ddwy genhedlaeth nesaf (McConvell & Thieberger 2001). Yn y rhaglenni hyn, mae'r pwyslais ar iaith frodorol y gymuned yn y blynyddoedd cyntaf, ac wedyn efallai y rhoddir sylw cynyddol i'r iaith fwyafrifol (Baker 2006:242). Fel arfer, mae'r gymuned a'r rhieni yn chwarae rôl bwysig yn y gwaith o sicrhau bod digon o fewnbwn a bod y diwylliant yn ogystal â'r iaith yn bwysig yn yr ysgol (Stiles 1997; Hickey 1999).

45.2.4 Addysg yng Nghymru

Yng Nghymru, mae categoreiddio ysgolion yn gallu bod yn gymhleth. Mewn ysgolion cynradd, mae plant rhwng 4 ac 11 oed yn gallu mynd i wahanol fathau o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, Cymraeg yw prif iaith y dosbarth ac mae'r plant yn cael eu trochi yn y Gymraeg. Mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, Saesneg yw prif iaith y dosbarth, ac mae Cymraeg yn cael ei addysgu fel pwnc (yn ffurfiol ar ôl 7 oed). Hefyd, ceir gwahanol fathau o ysgolion o fewn y ddau fath uchod; yn y rhain mae'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu ar gyfer rhwng chwarter a thri chwarter y cwricwlwm, a Saesneg ar gyfer y gweddill. Mae dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) yn diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn esbonio'r mathau gwahanol o ysgolion cynradd ac uwchradd; mae hefyd yn trafod pa fath o ddarpariaeth uwchradd y disgwylir i'r disgyblion ei ddilyn. Weithiau, mae'n anodd gwahaniaethu rhwng addysg ddwyieithog (lle mae'r ddwy iaith yn cael eu defnyddio ochr yn ochr) ac addysg cyfrwng Cymraeg (lle mae'r Gymraeg yn brif iaith y mewnbwn).

Mae rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghymru yn ysgolion trochi: daw'r plant o gefndir-oedd uniaith Saesneg ac maent yn mynd i ysgolion Cymraeg, lle mae'r rhan fwyaf o'r dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, ceir trochi dwyffordd mewn rhai ysgolion, lle mae plant o gartrefi Cymraeg, Saesneg a dwyieithog yn cael eu haddysg yn y ddwy iaith yn yr ysgol. Mae addysg yn rhan bwysig o'r cynllunio ieithyddol ar gyfer cynnal a chynyddu nifer siaradwyr y Gymraeg, felly fel arfer ystyrir ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion dwyieithog fel rhaglenni i gynnal y Gymraeg (Baker 2006; Baker & G. Lewis 2015).

Mae manteision amlwg i addysg ddwyieithog, i unigolion ac i'r gymuned (Baker 2014:2). Er enghraifft, mae addysg ddwyieithog yn hybu sgiliau cyfathrebu: mae plentyn yn datblygu dwy iaith i safon benodol, ac yn datblygu cymhwysedd ynddynt fydd efallai'n fanteisiol i'w yrfa neu'n arwain at gyfleoedd eraill yn y dyfodol. Mae addysg ddwyieithog hefyd yn magu llythrennedd mewn dwy iaith, sy'n rhoi mynediad i sawl diwylliant drwy lenyddiaeth a'r gallu i ddarllen ac ysgrifennu ar lein. Gall y plentyn hefyd elwa o fod yn rhan o ddau ddiwylliant a datblygu dealltwriaeth o'r gwahanol ddiwylliannau. Mae'n bosibl hefyd y bydd hyn yn dylanwadu ar agwedd ac ymddygiad y plentyn, gan ddibynnu pa mor genedlaetholgar ydyw, neu pa mor oddefgar ydyw tuag at bobl eraill (Rolstad, Mahoney & Glass 2005:63; Morrison 2006:139).

45.3 Un system neu ddwy?

Ers cyfnod yr astudiaethau cynnar o siaradwyr dwyieithog, mae ymchwilyr wedi bod yn ceisio ateb y cwestiwn sut mae plentyn yn datblygu gramadeg mewn dwy iaith yr un pryd. Y prif gwestiynau yw:

- (i) Ydy plant dwyieithog yn ymwybodol o'r dechrau eu bod nhw'n cael mewnbwn mewn dwy iaith? Sut mae'r plentyn yn gwahaniaethu rhwng y ddwy iaith?
- (ii) Ydy'r plentyn yn dechrau efo cymysgedd o'r ddwy iaith sydd wedyn yn gwahanu, neu ydy'r ieithoedd ar wahân o'r dechrau?

Mae dwy ragdybiaeth enwog ynghylch datblygiad dwy iaith yr un pryd yn y blynyddoedd cynnar (yn gydamserol): **rhagdybiaeth y system unedig** (*unitary system 'hypothesis'*), a **rhagdybiaeth y systemau gwahanol** (*separate systems 'hypothesis'*). Mae rhan fwyaf o'r dystiolaeth hyd yma yn cefnogi rhagdybiaeth y systemau gwahanol.

45.3.1 Rhagdybiaeth y system unedig

Mae cefnogwyr rhagdybiaeth y system unedig yn dadlau mai dim ond un system sydd gan blentyn ar y dechrau, yn cynnwys geiriau a gramadeg o'r ddwy iaith. Awgrymodd [Volterra & Taeschner \(1978\)](#) fod plant yn mynd trwy dri cham wrth ddysgu dwy iaith. Yn ystod Cam 1, mae'r plentyn yn dechrau ag un system sy'n gymysgedd o eirfa a rheolau gramadegol y ddwy iaith. Wedyn, yng Ngham 2, mae'r plentyn yn gwahaniaethu rhwng dwy eirfa, ond yn cadw un set o reolau gramadegol ar gyfer y ddwy iaith. Yn y cam olaf, Cam 3, mae'r system o reolau gramadegol yn gwahanu ac mae'r plentyn dwyieithog yn gallu gwahaniaethu rhwng y ddwy **eirfa** (gw. Rhan III, Adran 13) a chystrawen, fel oedolion dwyieithog ([Volterra & Taeschner 1978:312](#)).

Arferid gweld datblygiad geirfa a chyfnewid cod fel dau beth oedd yn cefnogi rhagdybiaeth y system unedig. Nid yw rhai plant dwyieithog, ifanc yn gwybod mwy nag un gair (mewn un iaith yn unig) am eitemau penodol. Er enghraifft, gall plentyn dwyieithog Cymraeg/Saesneg fod yn gyfarwydd â'r gair *dŵr*, ond heb fod yn gyfarwydd â'r gair Saesneg *chair*. Cyfranna hyn at y dystiolaeth mai un geirfa yn unig sydd gan y plentyn, oherwydd y gymysgedd o eiriau o'r ddwy iaith (Cam 1). Hefyd, mae plant dwyieithog fel arfer yn cymysgu'r ddwy iaith o fewn un sgwrs neu ymadrodd *spiders mawr mawr, fish mawr, wedi gweld caterpillar*. Gwelir ymadroddion cymysg fel tystiolaeth sy'n cefnogi rhagdybiaeth y system unedig oherwydd eu bod yn awgrymu bod gan y plentyn un eirfa a system ramadegol yn unig yn ystod Cam 1, neu un system ramadeg yn unig yng Ngham 2, felly mae'n cymysgu'r ddwy iaith â'i gilydd.

45.3.2 Rhagdybiaeth y systemau gwahanol

Ar y llaw arall, mae rhagdybiaeth y systemau gwahanol yn tybio bod gan blentyn dwyieithog eirfa ar wahân a gramadeg ar wahân yn y ddwy iaith o'r dechrau. Mae cefnogaeth empirig o waith ymchwil mewn datblygiad geirfa, gramadeg a morffoleg i ragdybiaeth y systemau gwahanol. Dadleua rhai fod yr ymchwil yn dangos bod plant yn datblygu eu dwy iaith ar wahân, ac nad yw rhai agweddau ar ddadl [Volterra & Taeschner \(1978\)](#) yn gyson ([Genesee 1989](#); [Meisel 2000](#)).

Mae rhai wedi canfod bod gorgyffwrdd arwyddocaol yng ngeirfâu plant dwyieithog, a bod plant ifanc yn dangos bod ganddynt barau o eiriau ([Quay 1995](#); [Deuchar & Quay 2000](#)). Mae'r

parau hyn yn cael eu dehongli fel cefnogaeth i ragdybiaeth y systemau gwahanol gan fod y plant yn datblygu geirfa yn y ddwy iaith. Hefyd, mae rhai wedi bod yn ystyried pam mai mewn un iaith yn unig y mae gan blant air am rai cysyniadau. Er enghraifft, mae'n bosibl fod plentyn dwyieithog Cymraeg–Saesneg yn clywed dim ond Saesneg pan fydd yn y bath (gyda'r un rhiant pob tro), a bod y plentyn o ganlyniad yn datblygu geiriau fel *boat*, *duck* neu *soap* yn Saesneg yn gyntaf. Dim ond nifer cyfyngedig o eiriau mae plentyn yn gallu eu dysgu mewn diwrnod, felly os oes gan blentyn dwyieithog ddwy eirfa i'w hadeiladu, bydd bylchau gwahanol yn y ddwy iaith, yn dibynnu ar y mewnbyn (Deuchar & Quay 2000).

Elfen bwysig o iaith yw ei gramadeg, sef patrymau neu reolau sy'n nodi sut a lle y gellir gosod gwahanol ffurfiau ar eirfa er mwyn cyfleu'r ystyr o dan sylw. Mae archwilio sut mae plant yn cyflawni hyn yn ddifrif iawn yng nghyd-destun plant dwyieithog, lle mae dwy set o batrymau i'w caffael. Er enghraifft, os yw plentyn yn dysgu dwy iaith lle mae trefn geiriau un iaith yn wahanol i'r llall, mae'n gyfle i weld sut mae plant yn datblygu gramadeg pan geir patrymau gwahanol yn y ddwy iaith—sut mae plant yn ymdopi â systemau gramadegol gwahanol yn gydamserol? Mae ymchwil i blant dwyieithog Ffrangeg–Almaeneg wedi dangos bod plant yn defnyddio trefn geiriau sy'n addas i'r ddwy iaith, unwaith y maent yn defnyddio ymadroddion â mwy nag un gair (Meisel 2000). Darganfu Meisel hefyd fod plant dwyieithog yn datblygu **gytundeb berfol** (*verb agreement*; gw. Rhan IV) yn gynnar ac nad ydynt fel arfer yn cymysgu'r rheolau cytundeb. Mae Meisel yn dadlau bod hyn yn dystiolaeth nad yw plant yn mynd drwy'r cam o gael un set o reolau gramadegol. Darganfu Paradis & Genesee (1996) hefyd fod plant dwyieithog Ffrangeg–Saesneg yn cadw at y drefn gywir ar gyfer creu ymadroddion negyddol. Yn Saesneg mae gair negyddol yn ymddangos cyn y ferf, e.e. *I do not like*, ond yn Ffrangeg ceir geirynnau neu eiriau negyddol cyn y ferf ac yn dilyn y ferf, e.e. *je n'aime pas*. Nid oedd y plant yn trosglwyddo patrwm un iaith i'r llall, ac awgrymodd Paradis & Genesee fod hynny'n golygu bod y systemau yn datblygu ar wahân.

Mae'r rhan fwyaf o'r ymchwil empirig yn cefnogi rhagdybiaeth y systemau gwahanol. O safbwynt damcaniaethol, mae'r ffocws wedi symud o ganolbwyntio ar y ddadl ynghylch a oes un system ynteu systemau ar wahân i edrych yn fanylach ar yr ymyrraeth sy'n gallu digwydd rhwng dwy iaith mewn plant dwyieithog. Ond roedd rhagdybiaeth y systemau unedig a dadl Volterra & Taeschner yn bwysig i ddechrau gwaith ymchwil ar ddatblygiad ieithyddol plant dwyieithog a'r berthynas rhwng y ddwy iaith. Mae'r ymchwil wedi ehangu ein dealltwriaeth o'r modd y mae plant dwyieithog yn datblygu.

46 Dysgu ail iaith fel oedolyn

SARAH COOPER

Mae dysgu ail iaith yn digwydd pan fydd rhywun yn cael ei gyflwyno i ail iaith (L2) ar ôl datblygu'r iaith gyntaf (L1) yn barod. Mae'n bosibl i hyn ddigwydd yn yr ysgol gynradd, yn yr ysgol uwchradd, neu fel oedolyn.

Mae plant sy'n dysgu ail iaith yn fwy tebygol nag oedolion o feistroli pethau fel ffonoleg, morffoleg, a chystrawen (am drosolwg, gw. [Birdsong 2005](#)). I'r rhan fwyaf o oedolion sy'n dysgu iaith newydd, mae angen ymdrech ymwybodol a blynyddoedd o astudio i feistroli ail iaith. Mewn rhai ffyrdd, mae'n bosibl gweld nodweddion sy'n debyg rhwng dysgu iaith gyntaf a dysgu ail iaith fel oedolyn. Er enghraifft, nid yw'r broses yn digwydd yn gyflym: mae plant ac oedolion yn cymryd blynyddoedd i ddysgu iaith. Mae siaradwyr ail iaith weithiau'n creu elfennau gramadegol sydd ddim yn bodoli yn eu L2, gan ddibynnu ar y camau y maent yn eu cymryd yn y broses o gaffael eu hiaith newydd, ac mae plant sy'n dysgu iaith gyntaf hefyd yn gwneud hyn ([Singleton & Ryan 2004](#)). Fel gyda phlant, mae angen llawer o aramlygiad a mewnbwn yn yr iaith newydd ar oedolion, a gall hyn fod yn anodd y tu allan i ddsbarth. Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn brwydro i feistroli ail iaith, yn enwedig os yw eu hynganiad yn golygu bod ganddynt acen gref ([Flege 1995](#)). Gall siaradwyr ail iaith gael trafferth gyda chystrawen a morffoleg, yn ogystal ag agweddau'n ymwneud ag ystyr ([Selinker 1992](#)). Mae hynny'n wir am oedolion sy'n dysgu Cymraeg hefyd. Mae [Brake \(2012\)](#) yn nodi gwallau iaith lafar 11 o ddysgwyr Cymraeg profiadol mewn astudiaeth beilot. Daeth ar draws gwallau cystrawennol fel defnyddio *mae* neu *oedd* yn lle *bod* mewn cymal enwol (*dw i'n meddwl maen nhw'n eithaf ifanc* yn lle *dwi'n meddwl bod nhw'n eithaf ifanc*). Roedd yna hefyd wallau morffolegol, sef camdreiglo neu ddiffyg treiglo (methu treiglo enw benywaidd unigol ar ôl y fannod, e.e. *y blwyddyn nesaf* yn lle *y flwyddyn nesaf*). Cafwyd gwallau morffolegol hefyd, fel defnyddio'r olddodiad lluosog anghywir (e.e. *capelau* yn lle *capeli*). Yn olaf, nododd wallau ffonolegol, fel rhoi'r pwyslais ar y sillaf anghywir a defnyddio llafariad byr yn lle llafariad hir (e.e. [kaθ] yn lle [ka:θ] ar gyfer *cath*).

Mae'n bwysig ystyried pam mae'r dysgwyr yn cael problemau â'r gwahanol agweddau fel ffonoleg, morffoleg, cystrawen a.y.b. Ar ôl datblygu iaith gyntaf, mae gan unigolyn reolau ar gyfer pob lefel o iaith, e.e. rheol ar gyfer creu clystyrau o gytseiniaid, creu ymadrodd enwol, a chreu brawddegau. Mae'r iaith gyntaf yn cael effaith ar yr ail iaith, fel yn rhai enghreifftiau o'r gwallau Cymraeg llafar gan [Brake \(2012\)](#). **Trosglwyddo** (*transfer*) neu **ymyrraeth** (*interference*) yw'r enw ar y broses hon, ac mae'n digwydd mewn siaradwyr dwyieithog cydamserol yn ogystal â siaradwyr dwyieithog olynol. Mae siaradwyr ail iaith yn trosglwyddo strwythurau o un iaith i'r llall, ac mae hynny'n amlwg o'r enghraifft ffonolegol uchod o ddefnyddio llafariad byr yn hytrach na llafariad hir. Nid yw [a:] hir yn bodoli yn y Saesneg: yn Saesneg ceir llafariad flaen [a] sy'n fer (fel yn *hand*, *back*, *cat*), a llafariad gefn [ɑ:] sy'n hir (fel yn *palm*, *arm*, *father*). Felly, mewn geiriau fel *cath*, mae dysgwyr yn gallu drysu hyd y llafariad ac maent yn trosglwyddo'r peth agosaf yn yr iaith gyntaf, sef [a] fer. Yr un peth sy'n digwydd gydag enghreifftiau o <ll> yn cael eu hynganu fel [kl] ar ddechrau gair. Nid yw /4/ yn bodoli fel ffonem yn Saesneg, felly mae rhai siaradwyr ail iaith yn trosglwyddo'r strwythur [kl] o'r iaith gyntaf i'r Gymraeg. Nid yw'r un gwallau'n ymddangos yn iaith pob siaradwr ail iaith, ac mae ffactorau eraill sy'n gallu effeithio ar lwyddiant dysgu strwythurau a chonfensiynau ail iaith.

46.1 Ffactorau sy'n effeithio ar ddysgu ail iaith

Nid yw pob dysgwr yn mynd drwy'r un camau wrth dysgu ail iaith. Hefyd, gall yr un dysgwr amrywio o un dydd i'r llall o ran pa mor llwyddiannus ydyw wrth defnyddio agwedd newydd o'r iaith newydd. Rydym yn defnyddio'r termau **amrywioldeb rhwng dysgwyr** (*interlearner variability*) i gyfeirio at wahaniaethau rhwng gwahanol dysgwyr, ac **amrywioldeb dysgwr** (*intralearner variability*) i gyfeirio at wahaniaethau o fewn yr un dysgwr.

Mae oed yn ffactor bwysig mewn amrywioldeb rhwng dysgwyr ail iaith, ac rydym eisoes wedi

trafod bod dysgu ail iaith yn fwy o her i oedolion nag i blant. Mae'r her i oedolion wedi gwneud i ymchwilyr feddwl bod rhywbeth arbennig am blentyndod sy'n gwneud meistrolï ail iaith yn hawdd. Awgrymwyd bod **cyfnod critigol** (*critical period*) neu **gyfnod sensitif** ar gyfer dysgu ail iaith (e.e. [Snow & Hoefnagel-Höhle 1978](#); [Bialystok & Hakuta 1999](#)). Y syniad yw y bydd caffael ail iaith cyn diwedd y cyfnod hwn yn arwain at feistrolaeth o'r ail iaith. Ar y llaw arall, os yw'r dysgu'n dechrau ar ôl cyfnod y glasoed (*puberty*), bydd y dysgwyr yn cael trafferth meistrolï'r ail iaith. Nid yw ymchwilyr yn cytuno pa bryd y mae'r cyfnod critigol yn gorffen na hyd yn oed a yw'r cyfnod yn bodoli o gwbl ([Loewen & Reinders 2011](#); [Flege 1995](#)). Am drafodaeth bellach ar y ddadl ynghylch cyfnod critigol, gweler y bennod 'Oed a Sgiliau Caffael Iaith' yn [E.M. Thomas & Webb-Davies \(2017\)](#).

Un peth arall sy'n wahanol rhwng gwahanol ddysgwyr yw'r iaith gyntaf. Mae'n amlwg o'r drafodaeth hyd yma fod y broses o drosglwyddo yn gallu digwydd gyda ffonoleg, morffoleg, cystrawen, a.y.b. Wrth ystyried trosglwyddo strwythur o un iaith i'r llall, gwelir bod dysgwyr sy'n siarad iaith gyntaf â'r un strwythurau (e.e. ffonemau) yn caffael yr ail iaith yn haws na rhywun sy'n siarad iaith â strwythurau sy'n wahanol i'r ail iaith ([Flege 1995](#)). Er enghraifft, bydd rhywun sydd eisoes â'r gytsain dril /r/ yn yr iaith gyntaf yn cael llai o her na dysgwyr sy'n siarad iaith gyntaf heb /r/. Felly, bydd rhywun sy'n siarad Groeg fel iaith gyntaf yn dysgu'r /r/ Gymraeg yn haws na rhywun sy'n siarad Saesneg Prydeinig Safonol (*Standard British English*) yn unig. Mae'r tril /r/ yn ffonem yn yr iaith Roeg, ond nid yw'n ffonem mewn Saesneg Safonol Prydain (mae'r dynesolyn /ɹ/ yn bodoli mewn Saesneg Safonol Prydain). Hefyd, mae rhywun sy'n siarad iaith gyntaf lle mae'r ansoddair yn dilyn yr enw, fel Siapaneg, yn debygol o gaffael y strwythur Cymraeg (*ci mawr*) yn gynt na rhywun sy'n siarad iaith lle mae'r ansoddair yn dod o flaen yr enw, fel sy'n digwydd yn yr iaith Saesneg (*big dog*).

Mae ffactorau eraill hefyd yn bwysig wrth gaffael ail iaith: amser dysgu'r iaith, aramlygiad i'r iaith dros amser a chyfleoedd i siarad yr iaith o ddydd i ddydd. Yn Adran 48 "Dwyieithrwydd mewn cymdeithas", trafodir y defnydd o iaith mewn cymuned, ac mae'r cysyniadau hyn yn bwysig i ystyried wrth feddwl am y cyfleoedd mae dysgwyr yn eu cael i ddefnyddio'r ieithoedd mewn cymuned.

Mae amrywiaeth rhwng galluoedd dysgwyr hefyd yn effeithio ar y broses o ddysgu iaith: ffactorau fel y gallu i ddysgu ieithoedd yn gyffredinol, cymhelliant (*motivation*), oedran dysgu, oedran cyrraedd y wlad, hyblygrwydd a gallu gwybyddol. O fewn yr un dysgwyr hefyd, gall eu cefndir ieithyddol effeithio ar eu cywirdeb. Mae hyd yn oed ffurfioldeb y sgwrs neu bwnc y drafodaeth yn effeithio ar y modd y mae person yn gallu defnyddio'r iaith. Mewn ymchwil i faes dwyieithrwydd, defnyddiwyd yr amodau hyn i gymharu sgiliau caffael/dysgu iaith rhwng grwpiau o wahanol dysgwyr. Mae'n bwysig ystyried ffactorau fel y rhain wrth gasglu data, a hefyd wrth weithio gydag unigolion o wahanol gefndiroedd ieithyddol. Gellir darllen ymhellach am y ffactorau sy'n effeithio ar gaffael ail iaith yn [Doughty & Long \(2003\)](#) a [Herschensohn & Scholten \(2013\)](#).

47 Cyfnewid Cod

PEREDUR WEBB-DAVIES

Mae gan bobl amlieithog sawl iaith y gallant eu defnyddio mewn unrhyw sefyllfa. Un dewis sydd ar gael yw pa iaith i'w defnyddio. Bydd fel arfer ciwiau cymdeithasol sy'n arwain at rywun yn dewis iaith A ar gyfer sgwrs yn hytrach nag iaith B. Gall hyn fod oherwydd bod un iaith yn fwy addas neu arferol na'r iaith arall, neu efallai bod angen dewis un iaith oherwydd nad yw'r cyd-siaradwr yn deall yr iaith arall. Er enghraifft, os yw siopwr yn siarad gyda chwsmer sy'n aelod o'r un gymuned ddwyieithog ag o, yna efallai y byddant yn dewis eu hiaith gartref ar gyfer eu sgwrs, tra bydd y siopwr yn dewis yr iaith arall ar gyfer sgwrsio gyda rhywun sydd o du allan i'r gymuned neu sy'n fwy pwysig na nhw.

Mae dewis arall gan siaradwyr dwyieithog, sef iddynt ddefnyddio dim ond un iaith mewn sgwrs gyda'i gilydd neu ddefnyddio'r ddwy iaith o fewn yr un sgwrs. Gwelir hyn yn aml yn iaith lafar siaradwyr dwyieithog. Rhwir enghraifft o Gymraeg a Saesneg yn cael eu cynnwys o fewn yr un frawddeg yn (130).

(130) Mae **Australia** yn wlad **amazing though**.

Yn (130), mae rhai o eiriau'r frawddeg yn Gymraeg, sef *mae*, *yn* a *wlad*, tra bod rhai o'r geiriau, *Australia*, *amazing* a *though*, yn eiriau Saesneg; dim ond rhywun sy'n ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg fyddai'n gallu cynhyrchu neu ddeall y frawddeg hon yn llawn. Gelwir y broses o ddefnyddio geiriau a/neu ramadeg o ddwy iaith o fewn yr un sgwrs a/neu frawddeg yn **gyfnewid cod** (*code-switching*), a chaiff sawl agwedd ieithyddol o'r broses hon ei hystyried yn yr adran hon. Yn gyntaf, ystyrir y gwahanol resymau pam mae cyfnewid cod (CC) yn gallu digwydd yn iaith lafar person dwyieithog. Yna trafodir gwahanol ffurfiau gramadegol cyfnewid cod, gan ofyn a oes cyfyngiadau ar y math o eiriau y gellir eu cyfnewid o fewn brawddeg. Bydd nifer o'r enghreifftiau a welir yn cyfnewid cod rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, ond, gan fod cyfnewid cod yn ffenomen drawsieithyddol, bydd enghreifftiau o barau o ieithoedd eraill yn cael eu dangos hefyd.

Cyn symud ymlaen, mae'n werth trafod rhai camsyniadau am gyfnewid cod. Mae sawl label Cymraeg negyddol sy'n cyfeirio at y broses o gyfuno geiriau a gramadeg Cymraeg a Saesneg, fel 'bratiaith' neu 'Wenglish', a gwelir bod agweddau negyddol tuag at gyfnewid cod yn gyffredin. Wrth roi eu barn ar wahanol siaradwyr Cymraeg yn dweud stori, fe wnaeth y rhai a gymerodd ran mewn astudiaeth gan Robert (2009), feirniadu dynes oedd yn defnyddio llawer o gyfnewid cod (h.y. geiriau Saesneg yn ei brawddegau Cymraeg) yn fwy negyddol na dynes arall oedd yn defnyddio llai o gyfnewid cod, er gwaetha'r ffaith eu bod ill dwy'n siarad Cymraeg fel ei hiaith gyntaf, gydag un yn nodi ei fod yn meddwl bod ganddi "[f]eddwl a siarad llac" (2009:111)

oherwydd ei bod hi'n gwneud defnydd cyson o gyfnewid cod yn ei hiaith. Mae Jones (1981) yn crybwyll cysylltiad rhwng lefel addysg a'r defnydd o gyfnewid cod (mae'n ymddangos mai ei argraff ef oedd hyn o arsylwi ar bobl Gymraeg yn siarad yn gyffredinol), gan awgrymu mai'r rhai sydd â'r lefel isaf o addysg Gymraeg sy'n cyfnewid cod.

Er hyn, yn ôl dadansoddiadau gan Deuchar et al. (2018), mae cyfnewid cod yn digwydd yn iaith pob siaradwr Cymraeg i wahanol raddau, a dangosodd astudiaeth sosioieithyddol gan Deuchar et al. (2016) mai'r unig ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar ddefnydd cyfnewid cod Cymraeg–Saesneg yw oed—gyda phobl ifanc yn fwy tebygol o gyfnewid cod na phobl hŷn—a bod siaradwyr sydd wedi caffael y Gymraeg a'r Saesneg yn blant ifanc yn cyfnewid cod yn amlach na phobl sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf. Os yw pob math o bobl sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio cyfnewid cod, yna mae'n gwneud synnwyr ei drin fel proses ieithyddol arferol sydd ar gael i siaradwyr dwyieithog (ac amlieithog), yn hytrach na rhywbeth sydd yn ei hanfod yn beth negyddol. Nid oes lle yma i drafod agweddau at gyfnewid cod a dwyieithrwydd yn fwy manwl, ond gellir darllen Pennod 8 o E.M. Thomas & Webb-Davies (2017) i ddysgu mwy.

47.1 Gwahaniaethu rhwng cyfnewid cod a benthg

Ym mhob iaith bydd rhai geiriau yn eiriau cynhenid sydd wedi bodoli yn yr iaith ers y cyfnod cynhanesyddol, tra bydd geiriau eraill o darddiad estron (*foreign origin/etymology*). Y term a ddefnyddir ar gyfer yr ail fath o air yw **gair benthg** neu **fenthyciad** (*loanword* neu *borrowing*), sef gair sydd wedi dod i mewn i un iaith o iaith arall, estron, ar ryw bwynt yn ystod hanes y cyswllt rhwng y ddwy iaith. Mae nifer helaeth o enghreifftiau o eiriau benthg yn y Gymraeg. Mae llawer o'r geiriau hyn yn tarddu o'r Saesneg—fel *trên* o *train*, *losin* o *lozenge*, *syrrffio* o *surf*, *ffordd* o *ford*, a.y.b.—ond ceir geiriau benthg o ieithoedd eraill hefyd, fel Lladin (e.e. daw'r gair Cymraeg *cegin* o'r Lladin *cocina*, daw *eglwys* o *ecclesia*, a *plant* o *planta* 'planhigyn'). Mae siaradwyr Cymraeg—a Brythoneg, ei hiaith gysefin, ymhell yn ôl mewn hanes—wedi bod mewn cyswllt â siaradwyr o ieithoedd eraill drwy gydol eu hanes, a thrwy gyswllt â'r ieithoedd hyn y caiff geiriau eu cymryd o'r iaith estron honno a'u defnyddio yn y Gymraeg. Mae **cydgyffwrdd ieithyddol** (*language contact*) yn digwydd pan fydd mwy nag un iaith yn dod i gysylltiad â'i gilydd mewn rhyw ffordd, p'un ai mewn cymdeithas amlieithog neu yn ymennydd unigolyn sy'n meddu ar fwy nag un iaith. Mae'r sawl sy'n astudio cydgyffwrdd ieithyddol fel arfer yn ystyried pa effaith a gaiff yr ieithoedd gwahanol ar ei gilydd yn ramadegol neu'n gymdeithasol, ac un enghraifft o hyn yw benthg.

Does dim raid i bobl fod yn ddwyieithog er mwyn defnyddio gair benthg, e.e. mae'r gair Saesneg *bungalow* yn air o'r Gwjarati (Indo-Ewropeaidd, India) ac fe gafodd ei fenthg gan siaradwyr Saesneg oedd yn byw yn India; mae bellach yn cael ei ddefnyddio gan bobl uniaith Saesneg i ddisgrifio tŷ ac iddo un llawr yn unig. Ond mae'n rhaid cael rhywfaint o gyswllt rhwng siaradwyr dwy iaith er mwyn i siaradwyr Iaith A glywed a theimlo'i bod yn ddefnyddiol cymryd geiriau o Iaith B. Siaradwyr dwyieithog, felly, sydd fwyaf tebygol o ddechrau defnyddio gair estron yn eu hiaith, a hynny ar y dechrau drwy gyfnewid cod. Wedyn, os bydd amllder y defnydd o'r gair hwnnw yn Iaith A yn cynyddu yn iaith mwy a mwy o bobl o Iaith A, yna yn y pen draw bydd y gair estron yn cael ei gaffael gan blant sy'n dysgu Iaith A. Gellir dweud bod gair wedi cael ei fenthg, h.y. yn rhan o'r iaith sydd wedi ei fenthg, pan fydd siaradwyr uniaith Iaith A yn gwybod ac yn defnyddio gair a oedd yn wreiddiol yn rhan o Iaith B.

Sut mae modd i'r ieithydd sy'n dadansoddi'r Gymraeg benderfynu a yw gair penodedig sydd o

darddiad estron yn cyfnewid cod ynteu'n air benthg? Mae'r cwestiwn hwn wedi arwain at gryn drafod ym maes dwyieithrwydd, gydag awgrymiadau bod geiriau benthg, er enghraifft, yn arddangos ffonoleg a morffoleg yr iaith sydd wedi eu benthg tra bod cyfnewid cod yn cadw gramadeg yr iaith y benthgwyd ohoni. Er hynny, mae'n hawdd cael hyd i eithriadau ar gyfer hyn (gweler e.e. [Deuchar & Stammers 2012](#) am fwy o drafodaeth ar y mater hwn yn y Gymraeg). Ystyriwch fod gair fel *adferteisio* yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru, tra nad yw gair fel *exfoliate-io* mewn geiriadur Cymraeg o gwbl. Does dim sain yn y ddau air hyn sy'n absennol o ffonoleg Cymraeg cyfoes, a noder bod y ddau air yn defnyddio rheolau morffolegol berfenwol Cymraeg (y dodiad *-io*). Fel arfer, geiriau sefydledig neu hanesyddol sy'n ymddangos mewn geiriaduron, tra bod geiriau mwy diweddar yn llai tebygol o gael eu cynnwys. Er enghraifft, cafodd *adferteisio* ei ddefnyddio gyntaf yn y 18^{fed} ganrif yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, ac mae felly wedi ei gynnwys yn y geiriadur hwnnw, ond mae *exfoliate-io* yn debygol o fod yn llawer mwy diweddar ac nid yw wedi ei gynnwys ynddo (ar hyn o bryd).

Dros amser gall cyfnewidiau cod droi'n eiriau benthg, mae'n debyg, ond gall siaradwyr hefyd benderfynu, i ryw raddau, beth sy'n air benthg a beth sydd ddim yn air benthg, yn ôl eu teimladau hwy. Er enghraifft, mae'n bosibl na fyddai'r rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn meddwl bod *ffordd* neu *fferins* neu *llidiart* yn eiriau Saesneg, er eu bod yn deillio o'r iaith honno (o'r Saesneg *ford*, *fairings* a *lidgate*). Cafodd y geiriau hyn eu derbyn i'r iaith Gymraeg oherwydd bod plant o ryw genhedlaeth neu'i gilydd wedi caffael a defnyddio'r geiriau hyn, gan gymryd mai geiriau Cymraeg arferol oeddynt. Felly, mae amser ac arfer yn ddwy ffordd o wahaniaethu rhwng cyfnewid cod a geiriau benthg. Mae tystiolaeth gan [Stammers \(2010\)](#) hefyd yn dangos bod siaradwyr yn fwy tebygol o drin gair o darddiad estron fel gair benthg po fwyaf ei amllder yn yr iaith, h.y. pa mor gyffredin ydyw.

Ar ben arall y broses hon mae cyfnewid cod. Gall cyfnewid cod fod yn broses unigryw, lle mae gair penodol yn cael ei gyfnewid unwaith yn unig gan un siaradwr am reswm penodol iawn, neu gall gair estron gael ei gyfnewid gan nifer helaeth o siaradwyr yn gyson a dros amser maith. Mae'n debygol na fydd y cyfnewid cod sy'n digwydd unwaith neu ddwywaith yn unig yn diweddu fel gair benthg, gan na fydd yn digwydd yn ddigon aml—nac yn cael ei aramlygu i ddigon o siaradwyr—i'w ledaenu a'i sefydlu yn yr iaith.

Y peth gorau i'r ieithydd ei wneud yw edrych ar eiriau o darddiad estron un ar y tro, a phenderfynu pa resymau sydd dros ei nodi fel enghraifft o gyfnewid cod ai peidio. Fel y gwnaethpwyd uchod, gellid defnyddio geiriadur dibynadwy (fel [GPC Ar lein 2014](#) neu Eiriadur yr Academi) fel ffordd o fesur a yw gair wedi cael ei dderbyn i mewn i'r Gymraeg ai peidio—os oes cofnod ohono mewn geiriadur, yna gellid dweud mai gair benthg yw, gan ei fod wedi cael digon o amser ac amllder i gael ei integreiddio i'r iaith; os nad ydyw, yna gellid dweud mai cyfnewid cod ydyw. Mae geiriau benthg yn tueddu i fabwysiadu morffoleg a ffonoleg yr iaith y maent yn cael eu benthg iddi, e.e. *sw* [su:] yw'r gair Saesneg *zoo* yn y Gymraeg (/z/ > /s/ gan nad oes /z/ mewn ffonoleg Cymraeg fel rheol).

47.2 Pam cyfnewid cod

Mae sawl rheswm pam y byddai rhywun dwyieithog yn dewis defnyddio neu'n gorfod defnyddio cyfnewid cod. Er enghraifft, os nad yw siaradwr yn gwybod neu'n cofio gair penodol yn un o'i ieithoedd, yna gall droi at un o'i ieithoedd eraill am air sy'n golygu'r un peth. Dim ond pan fydd y person mae'n siarad ag ef neu hi hefyd yn deall y ddwy iaith a ddefnyddir y gall wneud hyn. Gelwir hyn yn llenwi **bwlech geirfaol** (*lexical gap*), a gall ddigwydd oherwydd

diffyg geirfa gan y siaradwr, e.e. nid yw wedi cael aramlygiad digonol yn un o'i ieithoedd i fod wedi dysgu'r gair penodol, neu hwyrach bod y gair penodol yn un prin ac/neu arbenigol iawn. Neu gall y siaradwr fod yn fwy cyfarwydd â gair mewn un iaith na'r gair cyfatebol mewn iaith arall, efallai oherwydd ei fod wedi arfer defnyddio un iaith yn amlach na'r llall. Neu efallai fod siaradwr yn gwybod y gair ond methu ei gofio ar y pryd (e.e. am reswm gwybyddol yn ymwneud ag amllder defnydd y gair hwnnw), ond ei fod yn gallu cofio'r gair mewn iaith arall.

Er enghraifft, yng ngwaith [K. Jones \(1995\)](#) ar gyfnewid cod mewn gwahanol sefyllfaoedd mewn cymunedau Cymraeg, gwelir siaradwyr yn defnyddio geiriau Saesneg fel *air-mail* mewn sgwrs sy'n gyffredinol Gymraeg, oherwydd eu bod yn swyddfa'r post yn trafod sut i anfon llythyr, a'u bod wedi arfer defnyddio'r termau Saesneg. Mewn sefyllfa fel hon, gellid gweld cyfnewid cod fel ffordd o hwyluso'r sgwrs a'i symud ymlaen, er mwyn peidio gorfod aros i feddwl am y gair yn yr iaith wreiddiol neu ddefnyddio ffordd gwmpasog o'i ddisgrifio.

Yn aml, fodd bynnag, bydd pobl yn cyfnewid cod i Iaith B er eu bod yn gwybod y geiriau yn Iaith A. Isod mae crynodeb o rai o'r rhesymau pam y byddai rhywun yn cyfnewid geiriau o iaith arall yn ei sgwrs, neu'n dewis un iaith yn hytrach nag un arall.

- I. *Pwysleisio*. Er mwyn atgyfnerthu gair neu ymadrodd penodol, gall siaradwr drosi'r gair neu'r ymadrodd hwnnw i iaith arall. Yn aml bydd hyn oherwydd bod yr iaith arall yn cael ei dehongli fel iaith fwy grymus neu ddylanwadol na'r llall.

(131) O'n i'n flin, **furious**, efo fo.

- II. *Sicrhau dealltwriaeth*. Efallai fod y siaradwr yn gwybod y gair yn y ddwy iaith, ond yn poeni mai dim ond yn un o'r ieithoedd y bydd ei gyd-siaradwr yn gwybod y gair, ac felly mae'r siaradwr cyntaf yn cyfnewid cod i'r iaith honno er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddeall. Efallai fod hyn yn fwyaf tebygol o ddigwydd pan fo'r term yn un anghyffredin ac/neu'n arbenigol, ac nad yw'n debygol o gael ei ddeall gan y mwyafrif o siaradwyr.

(132) Yn y Brifysgol, dwi'n astudio **linguistics**.

- III. *Cyfeirio at gysyniadau sy'n perthyn i'r iaith arall, neu'n fwy cysylltiedig â'r iaith honno*. Efallai fod gair yn fwy addas neu berthnasol yn Iaith A nag Iaith B, hyd yn oed os oes gair yn bodoli yn Iaith B. Yn yr enghraifft gyntaf isod mae'r gair *underground* yn cyfeirio at rywbeth penodol i Lundain, sef y system drên tanddaearol, sy'n adnabyddus dan y term Saesneg hwnnw, ac felly'n cael ei ddewis yn lle'r term Cymraeg *trên tanddaearol*. Enghraifft arall fyddai siaradwr Cymraeg yn defnyddio geiriau Saesneg am rifau (e.e. am bris neu amser), efallai oherwydd bod yr arfer o wneud hyn yn gyffredin ers tro a bod y siaradwr yn dilyn y traddodiad hwnnw, h.y. yn defnyddio'r iaith sy'n arferol yn y gymuned.

- (133) a. Wnes i fynd ar yr **underground** i Woolwich gyda fy chwaer.
b. Wnei di roi **two pound fifty** i fi ar gyfer y diod?

- IV. *Dangos awdurdod*. Mewn sefyllfa lle mae person angen dangos grym dros rywun arall, megis athro mewn ysgol yn siarad â disgyblion, gall cyfnewid cod roi pwyslais ychwanegol i gryfhau'r ystyr hwnnw, efallai am fod un iaith yn cael ei hystyried yn fwy grymus na'r llall.

(134) Byddwch ddistaw, bawb! **Be quiet everybody!**

V. *Dangos cyfeillgarwch neu elyniaeth.* Mae'r broses o **ymgydaddasu** (*accomodate*) yn ymarfer ieithyddol lle mae siaradwr yn addasu ei iaith er mwyn lleihau'r pellter cymdeithasol sydd rhyngddo neu rhyngddi a rhywun arall, yn aml drwy siarad yn fwy tebyg i'r person arall mewn rhyw ffordd. Os yw person yn sylweddoli bod ei gyd-siaradwr yn defnyddio llawer o gyfnewid cod, yna gall gynnwys cyfnewid cod yn ei iaith ei hun er mwyn ei gwneud yn debycach i iaith y person arall. Gellid gwneud y gwrthwyneb i hyn hefyd, sef **dargyfeirio** (*diverge*) drwy ddefnyddio mwy o gyfnewid cod na rhywun sydd ddim yn cyfnewid cod llawer.

(135) A: wnest ti wyllo'r pêl droed ar y teledu neithiwr?
 B: Na, wnes i *totally forget*-io amdano fo, am bod fi'n *knackered* ar ôl gwaith.
 A: Wel, oedd hi'n gêm *really unremarkable*, ddim werth yr *hassle* a dweud y gwir.

VI. *Dyfynnu neu sôn am rywbeth ddigwyddodd mewn iaith arall.* Wrth sgwrsio â rhywun arall dwyieithog ac adrodd stori neu hanes, pan fo rhywun angen disgrifio sut wnaeth person arall siarad mewn iaith benodol, gellir cyfnewid i'r iaith honno er mwyn dweud yn union beth a ddywedwyd, yn hytrach na gorfod cyfieithu. Enghraifft arall o hyn fyddai defnyddio dywediad neu idiom o Iaith B mewn sgwrs yn Iaith A (efallai—fel yn rheswm III uchod—am ei fod yn fwy addas nag unrhyw idiom yn Iaith A).

(136) a. Ac mi ddudodd hi, “**I don't like it.**”
 b. “**Beauty is in the eye of the beholder,**” ngwas i.

VII. *Cyfleu hiwmor neu ysgafnhau tôn.* Os yw siaradwyr yn gweld eu dwy iaith mewn ffyrdd gwahanol, e.e. yn gweld un fel eu hiaith cymdeithasu a'r llall fel iaith mwy aruchel a phwysig, yna gellir cyfnewid o un iaith i'r llall er mwyn bod yn ddigrif. Neu gall defnyddio cyfnewid cod, yn hytrach na siarad mewn un iaith yn unig, fod ynddo'i hun yn arwydd o hiwmor neu ysgafnder.

Dylid nodi nad yw siaradwyr o anghenraid yn ymwybodol pam maent yn cyfnewid cod (neu hyd yn oed eu bod nhw'n cyfnewid cod). Gall yr ieithydd ddadansoddi disgwrs dwyieithog er mwyn ceisio canfod pam mae unrhyw gyfnewid cod neilltuol yn digwydd, neu gellir gofyn i'r siaradwyr ar ôl iddo ddigwydd pam maent yn credu eu bod nhw wedi newid iaith (e.e. nid oes modd gwybod a oes gan rywrai fwch geirfaol heb ofyn iddynt yn benodol a ydynt yn gwybod term yn y ddwy iaith neu mewn un iaith yn unig).

47.3 Strwythur gramadegol cyfnewid cod

Rhoddyd diffiniad cyffredinol iawn uchod o gyfnewid cod, sef y defnydd o fwy nag un iaith yn yr un disgwrs, ond gellir trafod strwythur a gramadeg cyfnewid cod yn fwy manwl, gan wahaniaethu yn gyntaf rhwng dau fath o gyfnewid cod, yn dibynnu ymhle yn gystrawennol mae'r cyfnewid iaith yn digwydd.

Mae **cyfnewid cod rhyng-gymalog** (*inter-clausal code-switching*) yn cyfeirio at newid iaith sy'n digwydd rhwng un cymal a chymal arall (gweler Rhan IV am fwy o wybodaeth am gymalau

a chystrawen). Mae'n ddefnyddiol cofio yma y gall cymal fod yn un frawddeg gyfan yn unig neu'n israniad o frawddeg. Yn y math hwn o gyfnewid cod, ceir cymal mewn un iaith ac yna, ar y ffin rhwng y cymal hwnnw a'r cymal nesaf, mae'r iaith yn cael ei newid, fel yn (137), lle mae'r cymal cyntaf yn Saesneg a'r ail gymal yn Gymraeg (yn yr achos hwn mae'r ddau gymal hefyd yn ddwy frawddeg wahanol).

(137) **Come to the lounge.** Mae'r bobl drws nesa wedi dod draw.

Yr ail fath yw **cyfnewid cod mewngymalog** (*intra-clausal code-switching*), sy'n cyfeirio at gyfnewid iaith o fewn yr un cymal. Y term am gynnwys geiriau neu ymadroddion o un iaith o fewn strwythur gramadegol iaith arall yw **mewnosod** (*insertion*). Yn enghraifft (138) mae'r enwau Saesneg *lounge* a *neighbours* wedi cael eu mewnosod i ddau gymal sydd fel arall yn gymalau Cymraeg.

(138) Dewch i'r **lounge**. Mae'r **neighbours** wedi dod draw.

Mae tystiolaeth ar draws ieithoedd fod ffactorau cymdeithasol yn dylanwadu ar y mathau o gyfnewid cod y mae siaradwyr yn eu defnyddio. Er enghraifft, mewn astudiaeth o gyfnewid cod rhwng Ffrangeg ac Arabeg ym Morocco, gogledd Affrica, gwelodd [Bentahila & E.E. Davies \(1995\)](#) fod pobl hŷn yn defnyddio mwy o gyfnewid cod rhyng-gymalog, gan gyfnewid yn rhwydd o Ffrangeg i Arabeg ac yn ôl yn ystod sgwrs, tra bod pobl iau yn fwy tebygol o ddefnyddio cyfnewid cod mewngymalog, gan gynhyrchu brawddegau Arabeg ar y cyfan, gyda rhai geiriau yn cael eu mewnosod ynddynt. Yn yr achos hwn doedd y siaradwyr ddim yn ddigon galluog mewn Ffrangeg, yn ôl yr awduron, i allu—neu fod eisiau—cynhyrchu brawddegau Ffrangeg cyfan yn aml iawn. Felly, roeddent yn fwy hyderus yn cynhyrchu brawddegau Arabeg ar y cyfan gan fewnosod geiriau Ffrangeg yma ac acw.

Mae astudiaethau fel [Carter et al. \(2011\)](#) wedi dangos bod cyfnewid cod mewngymalog yn fwy cyffredin na chyfnewid cod rhyng-gymalog mewn cyfnewid cod rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru, tra bod cyfnewid cod rhyng-gymalog yn fwy cyffredin yn iaith siaradwyr dwyieithog Cymraeg-Sbaeneg ym Mhatagonia, yr Ariannin. Nid yw'n hollol glir pam mae'r gwahaniaeth yma'n bodoli, ond mae [Carter et al.](#) yn awgrymu bod angen ystyried ffactorau cymdeithasol a hanesyddol fel agweddau pobl tuag at y Gymraeg ym Mhatagonia a pha mor aml, ac ym mha sefyllfaoedd, mae'r iaith yn gallu cael ei defnyddio yn y gymuned honno.

Gan fod cyfnewid cod mewngymalog yn fwy cyffredin yn iaith pobl ddwyieithog Cymraeg–Saesneg, canolbwyntir ar y math hwn am weddill yr adran hon. Wrth droi at ramadeg cyfnewid cod, gwelir bod cyfyngiadau ar y modd y mae ieithoedd yn cael eu cyfuno o fewn cymal. Ystyriwn y ddwy frawddeg isod, (139) a (140).

(139) Dw i'n barod yn eistedd yn **yr airport**.

(140) Dw i'n barod yn eistedd yn **the airport**.

Mae ystyr y ddwy frawddeg yr un fath: yr unig wahaniaeth yw mai dim ond yr enw *airport* sydd wedi cael ei fewnosod o'r Saesneg yn (139), gan adael y fannod *yr* yn Gymraeg, tra bod yr ymadrodd enwol cyfan *the airport* wedi cael ei gyfnewid o'r Saesneg yn (140). Mewn data Cymraeg (e.e. o'r corpws *Siarad*—gweler Rhan VIII) enghreifftiau fel (139) a welir bron bob tro,

tra bod cyfnewid cod fel sydd yn (140) yn anarferol iawn ac yn debygol o swnio'n od i glust siaradwr Cymraeg.

Pa un o (141) a (142) isod sy'n fwyaf tebyg i cyfnewid cod Cymraeg–Saesneg arferol?

(141) Mae'r **ci ferocious** yn rhedeg ar fy ôl i.

(142) Mae'r **ferocious ci** yn rhedeg ar fy ôl i.

Yn (141) mae'r ansoddair Saesneg *ferocious* yn ymddangos ar ôl yr enw Cymraeg *ci*, ac fel y trafodwyd yn Rhan IV, mae ansoddeiriau Cymraeg fel rheol yn dilyn yr enw. Mae ansoddeiriau Saesneg, fodd bynnag, fel arfer yn dod o flaen yr enw (e.e. *red wine*, *big house*). Mae astudiaethau o gyfnewid cod Cymraeg–Saesneg fel Deuchar et al. (2018) yn dangos bod patrymau fel a geir yn (142), lle mae'r ansoddair Saesneg yn cael ei fewnosod o flaen enw Cymraeg, yn anarferol dros ben, a bod siaradwyr bron bob tro yn defnyddio'r drefn o gael ansoddair yn dilyn enw mewn ymadrodd enwol sy'n cynnwys cyfnewid cod h.y. mae hyn hefyd yn wir os yw'r enw yn air Saesneg a'r ansoddair yn air Cymraeg). Bydd trefn geiriau cyfnewid cod fel yn enghraifft (142) yn swnio'n anarferol i glust siaradwr Cymraeg, tra bod patrwm fel yr un yn enghraifft (141) yn fwy arferol.

Dengys y ddwy enghraifft uchod fod cyfnewid cod rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn dilyn patrymau cyson fel arfer, a bod siaradwyr yn tueddu i gyfnewid mathau penodol o eiriau yn unig, e.e. ansoddeiriau, enwau, adferfau, gwreiddiau berfol, a.y.b. Gellir ystyried gwreiddiau berfol wrth edrych ar sut mae modd cyfnewid un forffem mewn gair cymhleth, fel yn enghraifft (143).

(143) Mae Heledd yn **love**-io dringo.

Gwraidd Saesneg sydd gan *love-io* yn enghraifft (143), ond—fel mae Stammers (2010), er enghraifft, yn ei drafod—nid yw'n debyg y bydd siaradwyr Cymraeg yn mewnosod berf Saesneg heb ei haddasu i gydymffurfio â rheolau morffoleg y Gymraeg. Yr hyn a wneir yw defnyddio'r olddodiaid berfenwol *-io* neu *-o* (yn dibynnu ar y dafodiaith neu ar strwythur ffonolegol y gwraidd) yn cael ei ddefnyddio, gan newid y mewnosodiad Saesneg i ymddwyn fel berfenw Gymraeg (heb wneud hyn, ceir **mae Heledd yn love dringo*, sydd eto yn swnio'n anarferol i glust siaradwr Cymraeg).

Yn y llenyddiaeth ar gyfnewid cod ceir trafodaeth ynghylch pam a sut mae siaradwyr yn cynhyrchu cyfnewid cod sydd â phatrwm a rheolau cyson iddo, ac un damcaniaeth sydd wedi ei chrybwyll ar gyfer hyn yw **iaith fatrics** (*matrix language*). Dadleuir gan Myers-Scotton (2006), mewn iaith sy'n cynnwys cyfnewid cod, fod un iaith sy'n darparu prif strwythur gramadegol pob cymal (fel trefn y geiriau) a hefyd yn darparu rhai mathau neilltuol o eiriau (fel ffurfdroadau gramadegol penodol), a gelwir hon yn iaith fatrics neu iaith sylfaen. Yr iaith arall yw'r **iaith fewnblanedig** (*embedded language*) sy'n gallu darparu rhai mathau o eiriau (e.e. enwau ac ansoddeiriau) ar ffurf mewnosodiadau, ond yr iaith fatrics yw 'prif' iaith cymal o safbwynt gramadegol. Yn enghreifftiau (139) ac (141) uchod, er enghraifft, Cymraeg yw'r iaith fatrics gan ei bod yn darparu gramadeg y frawddeg. Ni ellir manylu ymhellach yma ar y damcaniaeth hon, ond gellir darllen mwy ym Mhennod 6 o E.M. Thomas & Webb-Davies (2017).

Yn yr adran hon trafodwyd cyfnewid cod, gan ei ddiffinio ac ystyried gwahanol batrymau ohono, gan gydnabod ei bod yn nodwedd sy'n bodoli ar draws ieithoedd y byd yn iaith pobl

ddwyieithog. Edrychwyd ar y rhesymau dros gyfnwid cod ac ystyried pa fath o ramadeg sy'n cael ei ganiatáu wrth i bobl gymysgu'r Gymraeg a'r Saesneg. Cyn darllen ymhellach ar gyfnwid cod yn y Gymraeg a'r Saesneg, byddai'n syniad da sicrhau dealltwriaeth o'r rhannau ar forffoleg ac ar gystrawen (Rhannau III a IV) yn y gyfrol hon. Gan fod cyfnwid cod yn nodwedd sy'n amrywio oherwydd ffactorau cymdeithasol, dylid hefyd ddarllen am ddwyieithrwydd mewn cymuned, a drafodir yn ddiweddarach yn y rhan hon (48), er mwyn canfod cyd-destun cymdeithasol y nodwedd ieithyddol hon.

48 Dwyieithrwydd mewn cymuned

PEREDUR WEBB-DAVIES

Wrth drafod pobl amlieithog, mae'n bwysig ystyried y gymuned y maent yn byw ynddi. Yn aml, bydd pobl ddwyieithog yn byw mewn cymdeithas ddwyieithog, hynny yw, mewn cymuned lle mae nifer o bobl yn ddwyieithog yn yr un ieithoedd â'i gilydd. Er enghraifft, yng Ngwynedd mae dros hanner y bobl yn y sir (yn ôl Cyfrifiad 2011) yn siarad Cymraeg, ac felly mae nifer helaeth o gymunedau, trefi a phentrefi Gwynedd yn rhai dwyieithog—er i wahanol raddau. Efallai fod mwyafrif pobl cymuned benodol yn siarad yr un dwy iaith, neu efallai eu bod yn y lleiafrif, neu efallai fod nifer o bobl y gymuned yn ddwyieithog ond nid o reidrwydd yn yr un dwy iaith; meddylier, er enghraifft, am ddinas fawr fel Caerdydd neu Lundain, lle mae ystod eang o bobl o wahanol gefndiroedd ieithyddol i'w cael. Mae'r term 'cymdeithas' yn golygu unrhyw ardal neu gymuned, boed fawr neu fach, sy'n cael ei chydabod gan y bobl sy'n byw ynddi, e.e. pentref, tref, sir, rhanbarth neu wlad.

Ceir rhai cymdeithasau lle mae siaradwyr nifer fawr o ieithoedd yn byw ynddynt. Er enghraifft, mae dros 700 o wahanol ieithoedd yn cael eu siarad yn Indonesia, a dros 300 yn Unol Daleithiau'r America—ac wrth reswm bydd nifer o'r bobl hyn yn siarad mwy nag un o'r ieithoedd hynny! Mae cymdeithasau eraill yn llai dwyieithog ar gyfartaledd; er enghraifft, mae'n weddol hawdd cael hyd i bentrefi yn Lloegr lle mae pawb yn uniaith Saesneg, er bod mwy a mwy o gymysgu ieithoedd i'w weld mewn gwledydd, fel Ffrainc neu Loegr, sy'n cael eu hystyried yn gyffredinol yn weddol uniaith.

Mewn egwyddor bydd pob cymdeithas yn dechrau'n uniaith ac efallai'n dod yn ddwyieithog yn ystod ei hanes. Wrth i wahanol boblogaethau symud i mewn ac allan o'r gymdeithas, bydd cyfansoddiad ieithyddol y gymdeithas yn newid. Felly, os yw cymdeithas ar y dechrau'n cynnwys pobl sy'n siaradwyr Iaith A, ond bod siaradwyr Iaith B yn symud i mewn i'r gymdeithas ar ryw bwynt, yna bydd cyswllt rhwng y ddwy iaith:

- Weithiau, bydd siaradwyr B yn dysgu A er mwyn gallu cyfathrebu â'r boblogaeth wreiddiol.
- Neu gall siaradwyr A a B ddysgu iaith y naill a'r llall, nes bod pawb yn ddwyieithog yn A a B.

- Mae'n bosibl y bydd siaradwyr Iaith B yn trechu siaradwyr Iaith A mewn rhyfel neu goncwest, ac wedyn yn gorfodi B ar siaradwyr A.

Rhan bwysig o ddysgu am ddwyieithrwydd o fewn cymdeithasau yw sylweddoli nad yw'n gysyniad syml, ond bod llawer o wahanol fathau o gymdeithasau dwyieithog i'w cael. Trwy feddwl am hanes yr ardal, ei gwleidyddiaeth a'i demograffeg (h.y. y mathau o bobl sy'n byw ynddi) y bydd modd deall pam mae'r gymdeithas yn ddwyieithog a pha fath o ddwyieithrwydd sydd ynddi.

Daeth Cymru yn gymdeithas ddwyieithog dros gyfnod hir. Roedd siaradwyr Cymraeg (neu Frythoneg, ei ffurf gyntefig) yn byw ym Mhrydain ymhell cyn i'r Eingl-Sacsoniaid fudo o gyfandir Ewrop gan ddod â'u hiaith gyda nhw, sef yr iaith a ddatblygodd i fod yn Saesneg. Wrth i siaradwyr y ddwy iaith gyfarfod a byw yn agos at ei gilydd ym Mhrydain, effeithiwyd ar y Gymraeg dros y canrifoedd, yn enwedig wrth i siaradwyr yr iaith Saesneg ddod yn fwy a mwy blaenllaw yn Lloegr o ran grym a statws. Concrwyd Cymru gan frenin Lloegr yn 1282 a dros amser daeth yr iaith Saesneg yn fwy grymus na'r Gymraeg, yn gymdeithasol ac yn wleidyddol. Yn y Deddfau Uno a gyhoeddwyd gan y brenin Harri VIII yn y 16eg ganrif, fe'i gwnaed yn anghyfreithlon i ddefnyddio'r Gymraeg mewn nifer helaeth o swyddi uchel eu statws, gan greu sefyllfa gymdeithasol lle roedd y Gymraeg, ac felly ei siaradwyr, yn cael ei thrin fel iaith israddol. Yn y cyfnod hwn, dim ond siaradwyr dwyieithog oedd yn gallu cael y swyddi gorau, ac felly roedd pobl uniaith Gymraeg yn tueddu i fod yn dlawd. Yn ystod y canrifoedd diweddar gwelir bod mwy a mwy o boblogaeth Cymru yn medru siarad Saesneg hefyd, wrth i Saesneg ddod yn iaith fyd-eang yr oedd angen i bawb ei deall a'i defnyddio. Mudodd llawer o bobl ddi-Gymraeg i Gymru yn ystod y Chwyldro Diwydiannol yn yr 18fed a'r 19eg ganrif, ac yn y cyfnod hwn gwelwyd cyfran siaradwyr Cymraeg Cymru yn lleihau. Erbyn heddiw mae pob siaradwr Cymraeg yn ddwyieithog, ond mae pobl ddwyieithog yn lleiafrif yng Nghymru.

Wrth ystyried ieithyddiaeth Gymraeg a siaradwyr Cymraeg, mae'n rhaid cofio mai iaith leiafrifol yw'r Gymraeg, sy'n golygu bod llai o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru nag sydd o siaradwyr yr iaith fwyafrifol, sef Saesneg. Mae ieithoedd lleiafrifol yn gyffredin ledled y byd; nid drwy niferoedd yn unig y mae mesur iaith leiafrifol, ond gellir nodi bod gan y rhan fwyaf o ieithoedd y byd lai na 100,000 o siaradwyr ([Austin & Sallabank 2011](#)); mewn cymhariaeth, mae ymhell dros hanner miliwn o siaradwyr Cymraeg (cyfrifiad y DU 2011). Yn gyffredinol, mae ieithoedd lleiafrifol yn ieithoedd sydd mewn perygl o ddiplannu oherwydd pwysau gan ieithoedd mwyafrifol, a chredir y gall hyd at 90% o ieithoedd lleiafrifol y byd fod wedi marw erbyn diwedd yr 21ain ganrif ([Austin & Sallabank 2011](#)). Fel rheol, mae statws is gan ieithoedd lleiafrifol mewn cymdeithas, ac felly mae'n fwy tebygol y bydd angen i siaradwyr yr iaith leiafrifol ddysgu'r iaith fwyafrifol na bod angen i siaradwyr yr iaith fwyafrifol ddysgu'r iaith leiafrifol.

Gan fod sawl lefel wahanol o'r hyn y gellir ei alw'n gymdeithas, fel a nodwyd uchod—e.e. gall pentref fod yn gymuned ond hefyd gallwn alw gwlad gyfan yn gymuned—rhaid hefyd ystyried bod iaith yn gallu bod yn lleiafrifol o fewn cymdeithas fawr ond yn fwyafrifol o fewn cymdeithas fechan. Er enghraifft, mae siaradwyr Cymraeg yn lleiafrif yng Nghymru gyfan ond yn fwyafrif yn Ynys Môn (yn ôl Cyfrifiad 2011); mae pobl ddwyieithog Sbaeneg–Saesneg yn lleiafrif yn Unol Daleithiau America fel gwlad gyfan ond yn fwyafrif yn sir Miami Dade, Florida ([Carter et al. 2011](#)).

Yng Nghymru mae pawb sy'n siarad Cymraeg hefyd yn siarad Saesneg, sefyllfa sy'n gyffredin i ieithoedd lleiafrifol. Yn y degawdau diweddar gwelwyd mwy a mwy o bobl ddi-Gymraeg yn penderfynu dysgu Cymraeg oherwydd iddi gynyddu yn ei bri cymdeithasol erbyn diwedd

yr 20fed ganrif. Mewn cymdeithas ddwyieithog lle mae un iaith yn iaith leiafrifol a'r llall yn iaith fwyafrifol, gall y sefyllfa fod yn fygythiad i'r iaith leiafrifol. Mae'n rhaid i drafodaeth o'r Gymraeg yn ei chyd-destun dwyieithog felly gynnwys ystyriaeth o beth yw statws a defnydd yr iaith heddiw, beth allai ddigwydd i'r iaith yn y dyfodol, a pha fath o gamau y gellid eu cymryd yn gymdeithasol er mwyn amddiffyn iaith leiafrifol.

Bwriad yr adran hon yw trafod rhai o nodweddion pwysicaf dwyieithrwydd yn y gymdeithas. Yn gyntaf trafodir deuglosia, sef sefyllfa lle mae gan ddwy iaith ddefnydd a statws gwahanol mewn cymdeithas ddwyieithog. Yna trafodir y newid ieithyddol sy'n gallu digwydd pan ddaw dwy iaith i gyffyrddiad â'i gilydd a pha ffactorau cymdeithasol sy'n caniatáu hyn. Yn olaf, ceir trafodaeth ar **shifft ieithyddol** a dyfodol y Gymraeg, sef y cysyniad o'r defnydd o iaith leiafrifol yn newid dros amser oherwydd dylanwad cymdeithasol gan iaith arall sy'n iaith fwyafrifol.

48.1 Deuglosia

Mae damcaniaeth **deuglosia** (*diglossia*), cysyniad a drafodwyd gyntaf gan [Ferguson \(1959\)](#), yn dadlau bod gwahanol ieithoedd, tafodieithoedd neu arddulliau iaith yn cael eu defnyddio ar gyfer gwahanol bwrpasau mewn cymdeithas. Mae iaith sy'n cael ei defnyddio fel iaith bob dydd gan siaradwyr, ar gyfer cyfathrebu gyda theulu neu ffrindiau, er enghraifft, yn cael ei galw'n iaith 'isel' (*Low* neu L yn nherminoleg Ferguson) tra bod iaith sy'n cael ei defnyddio mewn peuoedd ffurfiol fel addysg neu'r gweithle yn cael ei galw'n iaith 'uchel' (*High* neu H). Bydd gan y ffurf uchel fri a statws o fewn y gymdeithas, a bydd ei siaradwyr yn ei chydabod fel ffurf sydd â gwerth cymdeithasol a hanesyddol uchel, tra bydd y ffurf isel yn cael ei gweld gan ei siaradwyr fel iaith ddefnyddiol efallai ond nid un sy'n addas ar gyfer rhai peuoedd cymdeithasol, e.e. ysgrifennu neu gyfathrebu ffurfiol.

Mewn cymdeithas uniaith bydd deuglosia rhwng arddull ffurfiol iaith—fel Saesneg safonol—fel y ffurf uchel, ac arddull anffurfiol neu dafodieithol yr iaith fel y ffurf isel. Mae [Ferguson \(1959\)](#) yn cyfeirio at sawl esiampl o gymunedau lle mae deuglosia rhwng dwy arddull o'r un iaith, gan gynnwys Groeg llenyddol a Groeg llafar yng Ngwlad Groeg ac Almaeneg Uchel (*High German*) ac Almaeneg y Swistir yn y Swistir. Yn y cymunedau hyn mae siaradwyr yn cydymffurfio â'r normau cymdeithasol sy'n pennu bod pobl yn defnyddio'r ffurf dafodieithol, leol neu greol, mewn peuoedd anffurfiol ond yn defnyddio'r iaith safonol neu gyffredinol mewn peuoedd ffurfiol neu bwysig.

Mewn cymdeithas ddwyieithog lle ceir deuglosia, bydd rôl y ffurf isel, L, yn cael ei chyflawni gan un iaith tra bydd rôl y ffurf uchel, H, yn cael ei chyflawni gan iaith arall. Felly bydd gan un iaith statws uwch na'r iaith arall o fewn y gymdeithas honno, efallai oherwydd ei bod hi'n iaith fwyafrifol, neu fod y rhai sy'n ei siarad fel mamiaith â mwy o rym cymdeithasol, neu ei bod hi'n iaith sy'n cael ei defnyddio ar draws cymunedau ar gyfer busnes, a.y.b. Ceir nifer helaeth o esiamplau o gymunedau dwyieithog deuglosig ar draws y byd, a thrafodir rhai gan [Fishman \(1967\)](#), a ddatblygodd syniadau Ferguson o sôn am wahanol arddulliau o fewn yr un iaith i sôn am ieithoedd gwahanol. Dylid nodi nad yw pob cymdeithas ddwyieithog yn un ddeuglosig hefyd.

Gallwn ystyried bod cymunedau Cymru yn arfer bod yn ddeuglosig. Yn hanesyddol cafwyd deuglosia yng Nghymru oherwydd dylanwad a phwysigrwydd yr iaith Saesneg. Dim ond yn y cartref, yn y gymuned, mewn diwylliant ac efallai yn y capeli yr oedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio am amser hir yn dilyn y Deddfau Uno (1536–43), gan mai'r iaith Saesneg oedd yr

unig iaith yr oedd modd ei defnyddio yn y gweithle, mewn addysg neu mewn llywodraeth. Yn hanesyddol, felly, Cymraeg oedd yr iaith isel a Saesneg oedd yr iaith uchel, gyda gwahaniaeth statws mawr rhwng y ddwy iaith. Yn y cyfnod diweddar, mae gan y Gymraeg fwy o hawliau cyfreithiol, a hefyd mae'r iaith Saesneg yn gyffredin iawn fel iaith bob-dydd yng Nghymru. Felly, gallwn ddweud nad oes deuglosia yng Nghymru o'r math a gafwyd yn y cyfnod hanesyddol, ond efallai fod yna ddeuglosia o fath gwahanol rhwng gwahanol ffurfiau o'r Gymraeg/Saesneg (e.e. rhwng y ffurfiau tafodieithol a'r ffurfiau safonol).

Gweler Pennod 7 yn [E.M. Thomas & Webb-Davies \(2017\)](#) am fwy am ddeuglosia.

48.2 Lefelu ieithyddol a chydgyfeiriant

Mae **lefelu tafodieithol** (*dialectal levelling*) yn broses gyffredin o newid iaith lle bo nodweddion **hynod** (*idiosyncratic*) mewn tafodiaith yn cael eu colli wrth i siaradwyr droi at ddefnyddio nodweddion mwy cyffredinol yn yr iaith, neu nodweddion sy'n perthyn i ffurf sydd â bri uwch o'r iaith, yn lle hynny (gw. e.e. [Kerswill 2008](#)). Gall hyn gynnwys newid ffonoleg y dafodiaith i fod yn debycach i'r ffurf safonol, er enghraifft, neu ddefnyddio geiriau mwy safonol neu gyffredin yn lle geiriau traddodiadol y dafodiaith. Wrth i hyn ddigwydd, mae'r gwahaniaeth rhwng y dafodiaith hon a thafodieithoedd eraill yr iaith yn cael ei lefelu, h.y. maent yn dod yn fwy tebyg i'w gilydd o ran eu gramadeg.

Gall hyn ddigwydd i ieithoedd sy'n cydgyffwrdd mewn sefyllfa ddwyieithog hefyd. Gan fod gwahaniaeth statws a bri fel arfer rhwng iaith leiafrifol ac iaith fwyafrifol, dros amser gall nodweddion hynod neu neilltuol yr iaith leiafrifol gael eu disodli gan nodweddion o'r iaith fwyafrifol. Mae enghreifftiau o hyn yn digwydd yn y Gymraeg oherwydd dylanwad yr iaith Saesneg, yn cynnwys benthyg geiriau, siaradwyr yn peidio defnyddio dodiaid lluosog ar ansoddeiriau ar batrwm y Saesneg, nad yw'n cynnwys ansoddeiriau lluosog (e.e. dweud *hetiau mawr* yn lle'r ffurf hŷn *hetiau mawrion*; [A.R. Thomas 1982](#)). Hefyd, gwelir symleiddio'r system dreiglo drwy ddefnyddio'r treigladd meddal yn lle treigladd trwynol neu dreigladd llaes (e.e. yn *Fangor* yn lle *ym Mangor* < *Bangor*), efallai oherwydd nad oes system dreiglo yn yr iaith Saesneg.

Mae sawl rheswm pam mae hyn yn digwydd. Tuedda i fod yn gyfuniad o'r ffaith fod siaradwyr yn gweld bod bri uwch i ramadeg yr iaith fwyafrifol a siaradwyr yn peidio â chael digon o aramlygiad i ramadeg yr iaith leiafrifol; mae hyn un eu rhwystro rhag caffael gramadeg cyflawn yr iaith honno, sy'n golygu eu bod yn defnyddio gramadeg yr iaith fwyafrifol—lle nad oes problem o ran cael aramlygiad—yn hytrach na gramadeg yr iaith leiafrifol. Mae [Gathercole & E.M. Thomas \(2009\)](#) yn trafod sawl enghraifft o ramadeg Cymraeg cyfoes lle mae amrywiaeth aramlygiad yn cael effaith sylweddol ar allu pobl mewn gramadeg Cymraeg, gan gynnwys geirfa, treiglo a chenedl enwau. Ym mhob achos mae siaradwyr sydd â llai o aramlygiad o'r Gymraeg (e.e. sy'n dod o gartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad) yn llai tebygol o ddefnyddio nodweddion traddodiadol y Gymraeg, ond yn hytrach yn defnyddio systemau treiglo symlach, geiriau Saesneg, a.y.b. Drwy hyn, gellid dadlau bod Cymraeg llawer o siaradwyr yn dod yn debycach i'r Saesneg o safbwynt rhai agweddau (ond nid pob agwedd) o'i gramadeg.

Cydgyfeiriant (*convergence*) yw'r term am lefelu ieithyddol o'r math hwn, sef canlyniad unrhyw broses sy'n golygu bod gramadeg un iaith neu dafodiaith yn dod yn debycach i ramadeg iaith neu dafodiaith arall sy'n cydgyffwrdd â hi. Nid yw pob newid iaith yn dangos

cydgyfeiriant ond gellid dweud ei fod yn fwyfwy tebygol po fwyaf dwys yw'r cydgyffwrdd rhwng dwy iaith a'r mwyaf yw'r gwahaniaeth statws rhyngdynt.

48.3 Shifft ieithyddol

Nid yw'r berthynas rhwng dwy iaith mewn cymdeithas o anghenraid yn gyfartal. Os bydd gan un iaith statws a bri uwch nag iaith arall yn y gymuned, gall hyn arwain at newid iaith, a/neu gall olygu bod deuglosia yn y gymuned honno, fel a drafodwyd uchod. Efallai fod deuglosia fel hyn yn sefyllfa sefydlog, sef bod pobl y gymuned yn derbyn bod un iaith ar gyfer un pwrpas ac iaith arall ar gyfer pwrpas arall, a bod hyn yn aros yn gyson o genhedlaeth i genhedlaeth. Posibilrwydd arall yw y bydd anghymesuredd rhwng dwy iaith mewn cymuned yn newid dros amser fel y bydd un iaith yn fwy a mwy dominyddol yn y gymdeithas a'r iaith arall yn cael ei dysgu a'i defnyddio lai a llai. Gelwir proses fel hon yn **shifftio ieithyddol** (*language shift*), ac mae'n werth ystyried beth ydyw, i ba raddau y digwyddodd yn hanes y Gymraeg ac i ba raddau y bydd yn digwydd yn y dyfodol. Cysylltir shifft ieithyddol â marwolaeth iaith, felly rhoddir ystyriaeth i hynny yn yr adran hon hefyd.

Diffinnir shifft ieithyddol fel siaradwyr yn newid o ddefnyddio un iaith i ddefnyddio un arall dros gyfnod o amser ([Crystal 2000](#)). Ar ddechrau'r broses bydd un brif iaith (Iaith A) yn y gymdeithas, a phawb yn ei siarad a'i defnyddio ym mhob sefyllfa. Yna bydd iaith arall (Iaith B) yn dechrau cael ei defnyddio yn y gymdeithas, a honno â bri uchel ac yn ddeniadol i siaradwyr, yn enwedig siaradwyr ifanc. Bydd Iaith B yn iaith o'r tu allan i'r gymuned ac yn debygol o fod yn iaith siaradwyr pwerus a niferus o gymdeithas(au) arall. Bydd siaradwyr yn dechrau defnyddio B mewn sefyllfaoedd lle roeddent yn arfer defnyddio A, ac am gyfnod bydd A a B yn cael eu defnyddio drwy'r gymdeithas, yn enwedig mewn cyd-destunau cyhoeddus ac Uchel (gweler y drafodaeth ar ddeuglosia uchod), fel y gweithle a byd addysg. Ar ôl cyfnod o amser, dim ond yr hen genhedlaeth fydd yn defnyddio Iaith A, a bydd plant y genhedlaeth newydd yn dysgu Iaith B yn hytrach nag Iaith A, gan mai B sydd fwyaf blaenllaw yn y gymdeithas. Gan nad oes neb yn dysgu nac yn defnyddio A, bydd B yn cael ei defnyddio ym mhob rhan o gymdeithas a bydd A yn diflannu o'r gymdeithas fel iaith fyw. Os bydd hynny'n digwydd, gellir galw hyn yn **farwolaeth iaith** (*language death*), sef nad oes unrhyw siaradwyr ar ôl sy'n gallu siarad iaith ([Crystal 2000](#)). Mae [Crystal](#) hefyd yn nodi bod angen defnyddio iaith at ddibenion cyfathrebu er mwyn iddi gael ei galw'n iaith fyw, ac felly fod iaith i bob pwrpas yn marw pan fydd dim ond un person ar ôl yn fyw sy'n gallu ei siarad, gan nad oes gan y person hwnnw unrhyw un i gyfathrebu ag ef neu hi yn yr iaith honno. Nid yw shifft ieithyddol bob tro'n gorfod cyrraedd y pen draw hwn, fodd bynnag, fel a drafodir isod.

Mae sawl nodwedd i'w gweld mewn iaith sy'n shifftio:

- (i) Lleihad yn nifer ei siaradwyr: dros amser gwelir newid demograffig lle mae llai a llai yn siarad Iaith A a mwy a mwy yn siarad Iaith B.
- (ii) Lleihad neu newid yn statws Iaith A dros amser: bydd Iaith B yn cael ei gweld fel iaith fwy deniadol, defnyddiol a modern, tra bydd Iaith A yn cael ei gweld fwyfwy fel iaith hen ffasiwn, gyffredin, annefnyddiol.
- (iii) Gwelir newidiadau gramadegol mewn iaith sydd yn y broses o shifftio ieithyddol: y mathau o bethau sydd wedi cael eu nodi yw cynnydd mewn benthyc geiriau (gwelir yr adran ar gyfnewid cod, uchod) i Iaith A o Iaith B, ymyrraeth ramadegol fel newid trefn geiriau, a symleiddio gramadegol lle mae systemau cymhleth (e.e. morffoleg) yn dod yn

llai cymhleth wrth i siaradwyr newydd fethu caffael y system gyflawn.

Nid yw'r ffaith fod iaith yn newid fel hyn o reidrwydd yn golygu bod yr iaith honno'n newid yn ramadegol neu'n strwythurol (ystyrir bod Saesneg wedi mynd drwy'r holl newidiadau gramadegol a restrwyd, a hithau ymhell o fod yn farw!), ond mae newid iaith yn aml yn digwydd os yw shiftt ieithyddol yn digwydd (gw. Adran 49.1).

Wrth droi at y Gymraeg yn benodol, gellir ystyried a yw'r tair nodwedd uchod wedi digwydd iddi yn ystod ei hanes. O ran nifer ei siaradwyr, mae'r ffigwr hwn wedi lleihau bron bob degawd ers dechrau'r 20fed ganrif, a hynny'n batrwm a oedd wedi dechrau ers o leiaf ganrif cyn hynny. Yng Nghyfrifiad 1901 nodir bod tua 50% o boblogaeth Cymru yn siarad Gymraeg; yn 2011 roedd y gyfran wedi gostwng i tua 19%, sef tua 562,000 o siaradwyr (nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys siaradwyr Gymraeg sy'n byw y tu allan i Gymru). Daeth yr iaith Saesneg yn fwyfwy blaenllaw yng Nghymru yn ystod y ddwy ganrif ddiwethaf, gyda'r canlyniad fod rhieni'n llai tebygol o drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, a'r plant felly'n llai tebygol o'i dysgu, gan ystyried nad oedd addysg Gymraeg yn gyffredin tan ail hanner yr 20fed ganrif. Wrth i boblogaeth Cymru gynyddu, yn aml oherwydd mewnfudwyr o weddill y Deyrnas Unedig neu'r tu hwnt, daeth cymunedau Gymraeg traddodiadol yn fwy dwyieithog mewn Saesneg, ac yna'n llai tebygol o fod yn gymunedau lle clywid y Gymraeg. O ran newid iaith, trafodwyd eisoes rai o'r ffyrdd y mae'r Gymraeg wedi newid—weithiau ar ffurf cydgyfeiriant at y Saesneg—oherwydd cydgyffwrdd ieithyddol.

Mae shiftt ieithyddol oddi wrth y Gymraeg tuag at y Saesneg wedi digwydd yn hanesyddol mewn nifer o gymunedau yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd trefol a rhai/neu rai sy'n agos at Loegr. Mewn mannau fel hyn yn aml ceir niferoedd isel o siaradwyr Gymraeg ac ni fydd y Gymraeg i'w chlywed mor aml ar y stryd. Ar y llaw arall, mewn ardaloedd eraill, yn enwedig rhai mwy gwledig megis rhannau o ogledd-orllewin a de-orllewin y wlad, nid oes cymaint o shiftt ieithyddol wedi digwydd ac mae'r Gymraeg yn parhau fel iaith gyffredin a chlywadwy. Felly nid yw'n briodol dweud bod shiftt ieithyddol wedi digwydd drwy Gymru gyfan, dim ond mewn rhai rhannau ohoni.

Gellir dadlau hefyd fod modd atal a gwrthdroi shiftt ieithyddol (Fishman 1991), drwy gefnogi iaith sy'n shifttio ar lefel statudol, e.e. drwy roi mwy o statws swyddogol a chefnogaeth ariannol iddi a'i siaradwyr, a hefyd ar lefel y siaradwyr, drwy ei defnyddio a'i throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. Mae gweithredoedd fel cyflwyno deddfau Iaith Gymraeg 1967 ac 1993 a Mesur y Gymraeg 2011 yn enghreifftiau o ymdrechion gan y llywodraeth ym Mhrydain ac yng Nghymru i amddiffyn y Gymraeg a gwrthdroi shiftt ieithyddol mewn cymunedau lle mae hi'n fregus. Mae'r ffaith fod modd defnyddio'r Gymraeg ar bob lefel yn y gymdeithas (ystyrir y drafodaeth yn 48.1 uchod) bellach yn arwydd nad yw shiftt ieithyddol yn beth anochel.

Yn yr adran hon trafodwyd dwyieithrwydd o fewn cymdeithasau, gan ystyried sut y gall gwahanol ieithoedd fod â phwrpasau a statws gwahanol o fewn cymdeithas, sut y gall ieithoedd lleiafrifol newid oherwydd pwysau cymdeithasol, a beth yw shiftt ieithyddol. Mae pynciau'r adran hon yn berthnasol i faes sosioieithyddiaeth (a chymdeithaseg hefyd), a chyn ddarllen ymhellach ar bynciau fel newid iaith neu amrywio gramadegol, byddai'n syniad da darllen a deall y rhannau ar ramadeg y Gymraeg sydd yn y gyfrol hon, e.e. Rhan IV ar gystrawen, Rhan III am forffoleg, a Rhan II ar ffonoleg.

49 Canlyniadau cydgyffwrdd ieithyddol

LAURA ARMAN

Mae amlieithrwydd mewn cymdeithas yn golygu bod siaradwyr yn gallu cyfathrebu mewn mwy nag un iaith. Dangoswyd eisoes fod cyfnewid cod yn digwydd o fewn grwpiau o bobl sy'n ddwyieithog (o leiaf) ac yn rhannu ieithoedd cyffredin, a hynny am amryw o resymau (gw. 47.2 'Pam Cyfnewid Cod?' uchod). Fodd bynnag, nid dyma unig ganlyniad cydgyffwrdd ieithyddol.

Nid yw dwyieithrwydd o fewn cymdeithasau yn dibynnu ar boblogaeth enfawr; ar rai adegau, gall yr angen i rannu adnoddau naturiol neu i fasnachu greu sefyllfa lle mae'n rhaid i gymunedau bach allu cyfathrebu a'i gilydd.

Ar y llaw arall, ceir dinasoedd enfawr sy'n gartref i gannoedd o ieithoedd. Er enghraifft, mae Gweriniaeth Senegal yn cydnabod Ffrangeg fel iaith swyddogol a Jola (neu *Diola*), Mandinca (neu *Malinke*, *Mandingue*, a.y.b.), Pwlâr (*Pulaar* neu *Fula*, *Fulani*, *Fulah*, *Toucouleur*, a.y.b.), Serer (neu *Sérère*), Sonince (neu *Soninké*) ac Woloff (*Wolof*) sydd i gyd o'r teulu Iwerydd-Congo neu Niger-Congo (gw. Adran 2.2) "ac unrhyw ieithoedd [...] eraill i'w codeiddio" fel ieithoedd cenedlaethol (Cyfansoddiad Senegal, Teitl 1, Erthygl 1). Roedd Ffrangeg yn **lingua franca**, sef iaith a oedd yn gyffredin i bawb, yn y brifddinas Dakar tan yn ddiweddar ac mae Woloff yn lingua franca i llawer o'r boblogaeth heddiw. Mae Woloff Dakar (*Urban Wolof* neu *Wolof-Dakar*) yn dafodiaith o Woloff sy'n cynnwys llawer o gyfnewid cod i'r Ffrangeg a chyda globaleiddio a dylanwad crefydd, mae llawer o Saesneg ac Arabeg i'w clywed yn y ddinas hefyd (Versluys 2008). Yn ogystal â'r ieithoedd mwyafrifol hyn, mae gwahanol gymunedau yn y ddinas yn siarad un o ddegau o ieithoedd Senegal a gwledydd cyfagos yn dilyn y trefoli (*urbanisation*) sydyn a ddigwyddodd yn Senegal yn ystod y degawdau diweddar. Yn ei hastudiaeth o 35 siaradwr yn Nakar, enwodd Swigart (1992) yr ieithoedd canlynol fel L1: Woloff (13 o siaradwyr), Ffrangeg (4), Jola (4), Pwlâr (3), Serer (3), Mandinca (2), Creol Portiwgaleg Senegal (2), Arabeg (2), Sonince (1), Sws (1; *Susu*, cangen teulu Mande, efallai Niger-Congo—gw. Adran 2.2).

Er mai uniaith yw rhan fwyaf siaradwyr y DU lle mae bron pawb yn gallu siarad Saesneg, mae dros 150 o ieithoedd yn cael eu defnyddio yn ninas Manceinion yn Lloegr, gydag oddeutu 40% o bobl ifanc y ddinas yn ddwyieithog neu'n amlieithog (Gopal et al. 2013:1).

Fel y trafodwyd eisoes yn y rhan hon, mewn cymunedau amlieithog o unrhyw faint, boed hwy'n wledydd cyfan neu'n bentrefi pitw, mae cydgyffwrdd ieithyddol yn debygol o arwain at y canlynol:


- (i) benthg geiriau

- (ii) unigolion amlieithog
- (iii) cyfnewid cod
- (iv) newidiadau gramadegol

O'r pedwar canlyniad uchod, mae benthg yn unigryw fel proses sy'n digwydd yn annibynnol o'r prosesau eraill. Bydd iaith yn benthg gair newydd o unrhyw iaith arall ar unrhyw adeg, pan fo galw (gw. Adran 47.1). Serch hynny, nid yw'n arwain at newidiadau mor sylweddol ag y gall y gweddill. Yn ogystal â'r prosesau a restrwyd, yn anaml iawn, mae cydgyffwrdd ieithyddol yn creu cyfle i ieithoedd unigryw a newydd godi.

Benthg geiriau a newid iaith

Pam nad yw benthg geiriau yn arwain at ddatblygiad ieithoedd newydd? Gall gwahanol dafodieithoedd o'r un iaith fenthg geiriau gwahanol (o iaith arall).



Gall poblogaeth orllewinol Iaith A fod mewn cyswllt â'r boblogaeth sy'n siarad Iaith B, ond efallai nad yw hynny'n wir am weddill siaradwyr Iaith A. Bydd Iaith A y gorllewin yn debygol o fenthg geiriau o Iaith B. Yna, ceir sawl posibilrwydd: un ai bod gweddill siaradwyr Iaith A hefyd yn mabwysiadu'r eirfa fenthg newydd, neu fod yr eirfa fenthg newydd yn dod yn nodweddiadol o Iaith A y gorllewin sydd mewn cyswllt ag Iaith B. Bydd Iaith A Gorllewinol wedyn yn dafodiaith arbennig o Iaith A ac felly mae'n bosibl i'r broses o fenthg greu tafodiaith newydd. Gall poblogaeth ddwyreiniol Iaith A, neu unrhyw rai o'r siaradwyr ar yr ymylon, fod mewn cyswllt â siaradwyr gwahanol boblogaethau, e.e. siaradwyr Iaith C. Mae gwahaniaethau tafodieithol Iaith A wedyn yn cynyddu. Dros amser, gall gwahaniaethau sylweddol mewn geirfa arwain at drafferthion.

A yw'n bosibl benthg cynifer o eiriau fel bod iaith yn newid yn gyfan gwbl? Tra bydd strwythur gramadegol iaith yn aros heb ei newid, ni fydd iaith yn 'perthyn yn agosach' i deulu newydd oherwydd ei bod yn benthg geiriau. Er hyn, gall benthg dwys fod yn arwydd allanol fod newidiadau strwythurol hefyd wedi digwydd; nid yw benthg dwys yn digwydd heb fod newidiadau strwythurol o ryw fath wedi digwydd yr un pryd.

49.1 Newid iaith

Heb unrhyw ymyrraeth allanol, mae ieithoedd yn newid dros amser—dyma sut y mae gwahanol dafodieithoedd yn dod i fodolaeth. Prin yw'r dystiolaeth fod newidiadau strwythurol yn digwydd o fewn iaith oherwydd ymyrraeth allanol (ond gw. "Ieithoedd cymysg" yn adran 49.2 isod am sefyllfaoedd eithriadol). Mae newidiadau strwythurol yn digwydd yn araf, felly, ar y

cyfan, ac mae'r newid yn ddibynnol ar amllder defnydd rhyw nodwedd o'r iaith sy'n bodoli'n barod (gw. Rhan VI).

Felly, rhaid i newidiadau strwythurol sy'n digwydd oherwydd cydgyffwrdd ieithyddol gyd-fynd i ryw raddau â gramadeg yr iaith sy'n derbyn y newid. Hynny yw, mae newidiadau bychain yn digwydd yn haws na newidiadau strwythurol mawr. O ganlyniad, mae'n **anodd profi mai cydgyffwrdd ieithyddol yw'r rheswm dros newid iaith**. Y newid hawsaf i'w brofi yw cynnydd strwythur penodol yn Iaith A oherwydd poblogrwydd yr un strwythur yn Iaith B. Er mwyn i'r newid hwn ddigwydd, mae angen i'r strwythur fod ar gael i Iaith A: mae'n rhaid ei fod eisoes yn rhan o'r gramadeg, ond yn brin ei defnydd. Er mwyn profi pa iaith sydd wedi dylanwadu ar y llall, fodd bynnag, mae angen digonedd o ddata hanesyddol yn y ddwy iaith fel tystiolaeth fod newid wedi digwydd ac er mwyn profi pa iaith sydd wedi dilyn y llall.

Yn anaml, ceir newidiadau strwythurol nodweddiadol sydd heb unrhyw amheuaeth yn ganlyniad i gydgyffwrdd ieithyddol. Dyma'r math a welir yn yr enghraifft hon o Gymraeg Cyfoes:

- (144) a. **O le** dach chi 'n dod?
b. **Lle** dach chi 'n dod o?

Mae enghraifft (144b) yn cynrychioli'r strwythur cystrawennol newydd sy'n cyfateb i'r gys-trawen Saesneg *where do you come from?* Newidiwyd safle yr arddodiaid o oddi wrth y gair cwestiwn *lle*, fel yn y strwythur cwestiwn **O le** yn (144a). Dangosodd Hirata (2012) nad oedd y **alltudio arddodiad** (*preposition stranding*) hwn yn digwydd yn y cyfnodau cyn Cymraeg Cyfoes a bod cystrawen (144a) yn fwy ceidwadol, fel yn (145).

- (145) **i ba le** y mae'r ynfydion accw 'n ceisio mynd (Gweledigaethau'r Bardd Cwsg 18.6 1703)

Prin yw alltudio arddodiaid fel strwythur cystrawennol ymysg ieithoedd y byd, ac felly mae'n annhebygol iawn fod unrhyw reswm dros y newid hwn heblaw cydgyffwrdd ieithyddol a dylanwad Saesneg ar y Gymraeg. Mae'r un newid wedi digwydd yn Ffrangeg Ynys y Tywysog Edward (*Prince Edward Island French*), tafodiaith o Ffrangeg a siaredir yng Nghanada.

- (146) **Où** ce-qu' elle vient **de**?
where that she comes from?
'Where does she come from?' (Enghraifft, cyfieithiad a glos o King 2000:136)

Gan nad yw'r un newid wedi digwydd mewn tafodieithoedd Ffrangeg tu hwnt i Ganada ac nad yw'n bodoli mewn unrhyw iaith Ladinaidd arall (King 2000:136), mae rhywfaint o sicrwydd mai dylanwad Saesneg sydd ar waith.

Yn union fel y berthynas rhwng Cymraeg a Saesneg Prydain, a Ffrangeg Ynys y Tywysog Edward a Saesneg Canada, mae ieithoedd eraill sy'n rhannu tir yn dueddol o rannu nodweddion. Ar adegau, gall sawl nodwedd ymledu o un iaith i nifer o ieithoedd eraill, hyd yn oed pan fo'r ieithoedd hynny'n wahanol iawn i'r iaith honno. Gelwir y math hwn o ffenomen yn ardal ieithyddol (*linguistic area* neu *Sprachbund*). Un ardal ieithyddol enwog yw ardal y Balcan yn ne-orllewin Ewrop, sy'n cynnwys rhwng saith a deg iaith Indo-Ewropeaidd o bum cangen wahanol o'r teulu. Maent yn rhannu ffiniau, wrth gwrs, yn ogystal â sawl nodwedd ieithyddol, gan gynnwys nodweddion morffolegol fel ffurfio rhifolion yn yr un modd, olddodiaid bachigol

cyffredin, a **bannod ôl-osodedig** (*postposed article*), sy'n anghyffredin iawn mewn ieithoedd Indo-Ewropeaidd.

Mae newid iaith felly'n digwydd ym mhob iaith ac mae'n broses parhaus; mae ieithoedd yn newid dros amser. Dangoswyd bod rhai newidiadau strwythurol yn digwydd oherwydd cydgyffwrdd ieithyddol, ond nad yw profi cyfeiriad y dylanwad yn hawdd heb ddata hanesyddol. Ar y llaw arall, mae cydgyffwrdd ieithyddol fel sbardun newid iaith yn dod i'r amlwg wrth astudio ymlediad nodwedd ramadegol drwy ieithoedd cyfagos.

49.2 Ieithoedd newydd ac ieithoedd cymysg

Daw'r mathau canlynol o ieithoedd o sefyllfaoedd o gydgyffwrdd ieithyddol hanesyddol yn unig:

- ieithoedd pijin (*pidgins*).
- ieithoedd creol (*creoles*).
- ieithoedd cymysg (*mixed languages*).

Gan fod yr ieithoedd hyn yn brin yn y byd, nid yw'r syniad o iaith gwbl newydd yn codi yn un cyfarwydd. Yn anffodus, mae diffyg dealltwriaeth o systemau gramadegol yn ogystal ag anwybodaeth gul wedi achosi rhagfarn a chamdriniaeth enllibus o siaradwyr ieithoedd sy'n datblygu o ganlyniad i amlieithrwydd (er enghraifft, gweler Rhan VI 'amrywio mewn cymunedau aml-ethnig ac amlieithog'). Lle'r ieithydd, felly, oedd cydnabod cydraddoldeb iaith pob poblogaeth a disgrifio ieithoedd creol ac ieithoedd cymysg yn fanwl gywir, fel nad oedd eu siaradwyr yn cael eu difrio'n bellach.

Yn yr adrannau sy'n dilyn, disgrifir y mathau o ieithoedd newydd sydd wedi codi o ganlyniad i amlieithrwydd cymdeithasol, gan roi enghreifftiau o strwythurau nodweddiadol o rai o'r ieithoedd hynny.

49.2.1 Ieithoedd pijin

Er nad yw datblygiad iaith bijin o'r dyddiau cynnar wedi ei gofnodi, mae'n debygol i'r ieithoedd hyn ddatblygu oherwydd angen. Maent yn codi mewn cyd-destunau amlieithog lle nad oes fawr o wybodaeth o lingua franca gan y siaradwyr, ac felly mae'n rhaid iddynt ymdopi â dealltwriaeth rannol o'r iaith fwyaf gyffredin rhyngddynt. Daw'r iaith hon yn sail i'r rhan fwyaf o eiriau'r iaith bijin ac felly defnyddir y term **iaith yr eirfa** (*lexifier language*) i gyfeirio at ei pherthynas i'r iaith newydd. Er enghraifft, Saesneg yw iaith yr eirfa yn (147), ond i siaradwyr Saesneg, mae'n amlwg nad yw'r gramadeg yn adlewyrchu gramadeg (morffoleg a chystrawen, yma) y cyfieithiad.

- (147) You wantchee catchee one piecee lawyer.
 2UN want catch one DOS lawyer
 You will have to engage a lawyer. Pijin Saesneg Tsieina (Tong 1862)
 "Bydd yn rhaid i ti ymgynghori â chyfreithiwr."

Mae'r geiriau a ddewiswyd, e.e. *catch* 'dal, gafael', i gynrychioli syniadau mwy cymhleth, fel *catchee* 'engage, ymgynghori â, dod o hyd i(?), cyflogi(?)', yn dangos sut mae pobl wedi addasu

geirfa fechan i fod yn fwy hyblyg ei hystyr. Ceir ieithoedd pijin sy'n seiliedig ar ieithoedd mwyafrifol (h.y. ieithoedd sy'n gysylltiedig â hanes gwladychu neu rym milwrol, gwleidyddol neu fasnachol yn aml) fel Saesneg, Ffrangeg, Arabeg, a Swlw (*Zulu*), ond hefyd rhai sy'n seiliedig ar eirfa ieithoedd bychain iawn, yn ddibynol ar y sefyllfa hanesyddol. Mae'r rhestr yn (148) yn dangos rhai enghreifftiau enwog o ieithoedd pijin.

(148) Tarddiadau hanesyddol posib ieithoedd pijin:

Morwrol:

Lingua Franca (Môr y Canoldir, geirfa Lladinaidd), Pijin Morwrol Polynesia (y Cefnfor Tawel, geirfa Polynesaidd; Drechsel 2014).

Dyma enghreifftiau o sefyllfa lle mae siaradwyr un iaith wedi teithio o bell, dros y moroedd, ac wedi cwrdd â siaradwyr iaith neu ieithoedd eraill. Yn aml, roedd yr ieithoedd pijin yn cael eu defnyddio gan forwyr o wahanol wledydd er mwyn cyfathrebu rhwng llongau.

Masnachol:

Pijin Saesneg Tsieina (Chinese Pidgin English, Hong Kong a phorthladdoedd cyfagos, 18^{fed} ganrif; Matthews & Li 2013), Jargon Tsinŵc (Chinook Jargon, gogledd-orllewin UDA a de-orllewin Canada, 19^{eg}-20^{fed} ganrif; Thomason 1983)

Daeth yr ieithoedd hyn i fodolaeth oherwydd yr angen i brynu a gwerthu gyda chymunedau cyfagos neu gyda mewnfudwyr cyfoethog.

Caethweision, gweithlu:

Roedd yn arferiad cadw caethweision o wahanol gefndiroedd ieithyddol gyda'i gilydd, er mwyn ceisio osgoi gwrthryfela yn erbyn y meistri. Mae'n debyg mai fel ieithoedd pijin y dechreuodd ieithoedd creol cyn iddynt ddatblygu'n systemau cyflawn (gw. 'Ieithoedd creol' isod).

Fel y gwelwyd uchod yn enghraifft (147), mae iaith bijin yn ail-strwythuro geirfa iaith gyffredin—Saesneg yn yr enghraifft—ar ramadeg newydd. Nid yw siaradwyr yr iaith bijin yn defnyddio gramadeg iaith yr eirfa, a hynny er mwyn gallu llunio ystyr o strwythurau mor syml â phosib. Effaith y symleiddio yw colli morffoleg (os oedd yr iaith gyffredin yn ddibynol iawn ar forffoleg), a cholli ystyr a grëwyd gan unrhyw beth ond geiriau syml. Mae pijin felly'n iaith ddadansoddol iawn lle mae ystyron yn codi o gyfuno geirfa gyfyngedig iawn i adeiladu cysyniadau mwy cymhleth. Er nad ydynt yn tarddu o'r un teuluoedd, mae ieithoedd pijin ledled y byd felly'n rhannu rhai nodweddion cyffredin.

(149) Nodweddion arferol ieithoedd pijin:

- systemau llafariad syml. Pum llafariad / i e a o u / yn cynrychioli pob pegwn o'r gofod llafariad (gw. Rhan II Seineg a Ffonoleg). Er nad yw'r cofnod yn enghraifft (147) o'r 19^{eg} ganrif yn dangos trawsgrifiad o seiniau Pijin Saesneg Tsieina yn yr IPA, mae'r sillafu yn amlwg yn cynrychioli ffonoleg wahanol i iaith yr eirfa.
- patrwm sillafau syml CVCV—cytsain ar ddechrau sill, llafariad syml yn dilyn, e.e. *piecee* /pi.si/, o enghraifft (147).
- dim morffoleg neu ychydig iawn o forffoleg.
- tuedd i ddefnyddio trefn geiriau SVO (gw. Rhan IV Cystrawen).
- berfau cyfres (*serial verbs*), e.e. Pijin Saesneg Ghana *tek mof put inside* o'r geiriau Saesneg 'take mouth put inside' gan olygu "amharu, ymyrryd, busnesu".

Nid yw'r nodweddion hyn yn unigryw i ieithoedd pijin nac yn anghyffredin yn ieithoedd y byd. Er enghraifft, systemau pum llafariad sydd fwyaf cyffredin yn y byd (Maddieson 2013b). Yr hyn sy'n nodweddiadol o ieithoedd pijin yw eu bod yn rhannu nifer o'r nodweddion hyn yr un pryd.

Mae'r *Glottolog* (Hammarström et al. 2017) yn rhestru 80 iaith bijin a gofnodwyd yn hanesyddol a hyd at heddiw. Er bod ganddynt ramadeg a geirfa reolaidd gyfyngedig, pan fydd yn datblygu'n ffurf lawn ar gyfathrebu, mae pijin yn datblygu nodweddion iaith greol. Dyma pam nad oes cofnodion safonol o ieithoedd pijin; os yw'r sefyllfa gyfathrebu'n un barhaol neu'n llewyrchus, mae'r poblogaethau gwahanol naill ai wedi dysgu ieithoedd ei gilydd yn fwy trylwyr, neu mae'r iaith bijin yn troi'n iaith gyflawn ar ffurf iaith greol.

49.2.2 Ieithoedd creol

Yn wahanol i ieithoedd pijin, mae ieithoedd creol yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r genhedlaeth nesaf fel L1, yn union fel unrhyw iaith arall. Maent yn bodoli ar wahân i unrhyw gyd-destun amlieithog a gall siaradwyr iaith greol, fel siaradwyr unrhyw iaith arall, fod yn uniaith neu'n amlieithog. Felly, mae siaradwyr ieithoedd pijin o reidrwydd yn siarad iaith gyntaf yn ogystal â'r iaith bijin.

Gan nad yw ieithoedd creol yn enghreifftiau o gyfnod arbennig yn natblygiad iaith newydd ond yn ieithoedd sefydlog yn barod, mae llawer mwy o gofnodion ieithyddol o ieithoedd creol, hen a chyfoes, yn bodoli, ac mae miliynau o bobl yn parhau i'w siarad heddiw.

Ar y llaw arall, fel ieithoedd pijin, mae ieithoedd creol wedi derbyn geirfa o ieithoedd eraill. Maent yn rhannu nifer o'r un nodweddion â'r ieithoedd pijin, megis nodweddion y rhestr uchod, ond hefyd yn dangos mwy o gymhlethdod gan gynnwys **gramadegoli** (*grammaticalisation*). Gellid ystyried ieithoedd creol fel ieithoedd sydd wedi datblygu o'r un sefyllfa oedd ag ieithoedd pijin, ond sydd wedi ehangu i gyfoethogrwydd iaith frodorol mor hyblyg a chymhleth ei strwythur ag unrhyw iaith arall.

Dyma enghraifft sy'n dangos morffoleg (gw. Rhan III Geirfa a Morffoleg) sy'n wahanol i iaith yr eirfa (Saesneg):

- (150) pikin dem 'plant'
pus dem 'cathod' Krio, Sierra Leone (Finney 2013)

Mae Krio yn defnyddio morffem wahanol i -s Saesneg i luosogi enwau. Yn (150) mae *dem* yn ffurfio'r lluosog o'r enw *pikin* am blentyn a *pus* am gath.

Dyma enghraifft o system amserol-agweddol-moddol (*tense-aspect-modality* neu TAM; gw. Rhannau IV ac V am ddisgrifiadau o fynegi amser) sydd eto wedi datblygu'n wahanol i'r hyn a geir yn iaith yr eirfa. Yn yr enghreifftiau isod yn (151a)–(151c), daw'r ffurfiau Saramaceg (*Saramaccan*, Swrinam) o eiriau Saesneg; *bi* o *been* 'GORFFENNOL', *o* o *go* 'DYFODOL/AMODOL' a *tá* o *stand/stay* 'ARFERIADOL (*habitual*)' (Matras 2009:282).

- (151) a. mi tá-nján dí fisi 'I eat fish/I am eating fish'
b. mi bi-nján dí fisi 'I ate the fish'
c. mi o-nján dí fisi 'I will/might eat the fish' Saramaceg (Bakker et al. 1994)

Gan fod cynifer o ieithoedd creol, mae rhai yn eithaf enwog ac yn gyfarwydd i siaradwyr iaith yr eirfa. Er enghraifft, bydd Creol Saesneg Jamaica (*Jamaican Creole English* a elwir yn 'Patois' gan ei siaradwyr) yn gyfarwydd i siaradwyr Saesneg i ryw raddau, efallai fel 'acen Jamaica drom', ac mae'n debyg y bydd siaradwyr Ffrangeg wedi clywed am Greol Ffrangeg Haiti (*créole haïtien, Haitian Creole*). Fel y gwelir uchod, nid yw pob iaith bijin neu greol yn defnyddio'r geiriau disgrifiadol hyn yn eu henwau: math o system ddosbarthu i ieithyddion yw'r enwau hirion. Hynny yw, mae modd labelu Saramaceg yn 'Creol Saesneg Swrinam' er mwyn eglurder. Yn anffodus, nid yw siaradwyr yr ieithoedd hyn bob amser yn hapus â'r termau 'creol' a 'pijin' gan fod hanes yr enwau'n gysylltiedig â cham-drin y bobl sy'n eu siarad gan gynnwys bychanu eu dulliau cyfathrebu. Er mai disgrifiad ieithyddol yw Creol Saesneg Jamaica, sy'n dilyn y patrwm MATH + IAITH YR EIRFA + LLEOLIAD/DYLANWAD (e.e. Pijin/Creol + Saesneg/Ffrangeg/a.y.b. + Haiti/Tsieineaidd), mae siaradwyr yr iaith yn cymryd yn erbyn yr enw ac yn ei galw hi'n *Patois*, sef y gair Ffrangeg am dafodiaith sathredig. Yn ogystal, am resymau hanesyddol, nid yw unrhyw ffurf o'r gair pijin neu greol mewn enw iaith yn golygu mai iaith bijin neu greol yw hi: mae Pijin Saesneg Ghana (*Ghanaian Pidgin English*) a Tok Pisin (Papwa Guinea Newydd) yn ieithoedd creol.

Mae ieithoedd pijin a chreol yn rhannu nodwedd arall, sef dylanwad ieithoedd is-haen (*substrate languages*), neu ieithoedd L1 y poblogaethau a ddechreuodd yr ieithoedd newydd. Fel unrhyw iaith, gall ieithoedd sy'n codi mewn cyd-destun amlieithog fenthyg geiriau a syniadau o ieithoedd eraill. Yn aml, mae sawl iaith yn cyfrannu geiriau at ieithoedd pijin a chreol yn ogystal â phrif ieithoedd eu geirfa. Er enghraifft, iaith bijin a siaredid gan bysgotwyr Rwsiaidd a chymunedau arfordirol yng Nghylch yr Arctig oedd Russenorsk (arfordir gogleddol Norwy, 18^{fed}-19^{eg}); roedd yn defnyddio geirfa o Rwsieg a Norwyeg yn bennaf, ond hefyd o'r Iseldireg, Ffrangeg, Saesneg, o'r ieithoedd Sami ac ieithoedd eraill (Jahr 1996). Serch hynny, nid yw ieithoedd pijin a chreol o anghenraid yn dangos dylanwad gramadegol yr holl ieithoedd sy'n rhoi geirfa iddynt. Maent yn fwy tebygol o ddangos dylanwad gramadegol o ieithoedd L1 y bobl sy'n siarad yr iaith amlaf. Yn enghraifft (147), gwelwn y math hwn o ddylanwad ar Bijin Saesneg Tsieina drwy strwythur yr ymadrodd enwol. Fel yn yr ieithoedd Tsieineaidd, ceir dosbarthydd enwol (*noun classifier*) sy'n ychwanegu gwybodaeth am siâp a natur yr enw. Mae'r rhain yn rhannau annatod o ieithoedd Tsieineaidd, fel y Gantoneg a siaredir yn Hong Kong, ond yn anarferol iawn mewn ieithoedd Indo-Ewropeaidd fel Saesneg.

Daw dylanwad y gwahanol ieithoedd is-haen i'r amlwg wrth gymharu ieithoedd creol o wahanol rannau o'r byd ag iaith yr eirfa yn gyffredin, e.e. mae *tek* yn iaith Pijin Saesneg Ghana wedi cadw strwythur sillafau CVC tebyg i'r Saesneg *take* 'cymryd', ond mae *teki* yn yr iaith Saramaceg wedi newid ffonoleg y gair i weddu i system CVCV. Fel gyda'r ffonoleg, gall ieithoedd is-haen ddylanwadu hefyd, i wahanol raddau, ar strwythur geiriau ac ystyr geiriau. Yn wahanol i'r argraff boblogaidd, nid cymysgedd o ieithoedd yw ieithoedd pijin nac ieithoedd creol, ond ieithoedd newydd sy'n cymryd geiriau o iaith gyffredin ac yn llunio gramadeg newydd dan ddylanwad ambell elfen o famiaith eu siaradwyr a strwythur yr iaith wreiddiol, i ryw raddau. Er bod dylanwad sylweddol sawl iaith ar rai ieithoedd pijin a chreol, nid ydynt, fodd bynnag, yr un fath ag ieithoedd cymysg.

49.2.3 Ieithoedd cymysg

Ceir trydydd math o iaith newydd o gyd-destun amlieithog. Y tro hwn, cyd-destun dwyieithog sydd fwyaf perthnasol i darddiad yr iaith newydd. Mae **iaith gymysg** yn ganlyniad dwy iaith yn uno ymhlith siaradwyr sy'n eithaf cyfarwydd â'r ddwy iaith. Felly, mae ieithoedd yr

eirfa yn cyfrannu geirfa mewn ffordd eithaf cyfartal, ond, yn bwysicach, yn gwneud hynny'n systemaidd, a'r tro hwn mae gramadeg a strwythurau'r ieithoedd gwreiddiol (eu ffonoleg, eu morffoleg, eu cystrawen, a'u hystyr) hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at yr ieithoedd.

Mae angen sefyllfa ddwyieithog arbennig iawn i esgor ar iaith gymysg, yn dibynnu ar y ffactorau cymdeithasol cywir. Mae ieithyddion o'r farn eu bod yn cael eu sefydlu'n fwriadol, i ryw raddau, gan boblogaeth ddwyieithog, fel modd o arwyddo neu amlygu hunaniaeth (Matras 2009). Mae sawl tebygrwydd felly, rhwng sefyllfa gychwynnol iaith gymysg a chyfnewid cod (gw. 47 uchod), ond mae'n bwysig cofio nad yw siaradwyr ieithoedd cymysg yn aml yn rhugl yn y ddwy iaith wreiddiol ac felly nad oes cyfle i gyfnewid cod ar unrhyw adeg. Un cod sy'n bodoli, ac mae ei strwythur yr un mor systematig ag unrhyw iaith arall.

Gan fod y cyd-destun i greu'r math hwn o iaith mor arbennig, nid oes llawer o'r ieithoedd hyn yn bodoli. Hyd at heddiw, mae cofnod o 24 iaith gymysg (Hammarström et al. 2017) gyda llong llaw yn unig yn cael eu siarad heddiw.

Iaith	Nifer y siaradwyr	Ieithoedd rhiant	Lleoliad
Mitsiff <i>Michif</i>	~800	Ffrangeg, Crieg	Canada, UDA
Media Lengua	~2,000	Sbaeneg, Quechua	Ecuador
Gurindji Kriol	~1,000	Gurindji, Kriol	Awstralia
Ma'á/Mbugu	~7,000	iaith Gwsitig anhysbys (<i>Cushitic</i> , cangen o'r teulu Affro-Asiaidd), Maasai	Tanzania
Warlpiri Ysgafn <i>Light Warlpiri</i>	~350	Kriol, Warlpiri	Awstralia
Alewt Mednyi <i>Mednyj Aleut</i>	~350	Alewteg, Rwsieg	Ynysoedd Komandorski, Rwsia

Tabl 11: Ieithoedd cymysg presennol (Statistics Canada 2017; Gómez Rendón 2008; Muysken 2013; Meakins 2013; Mous 2013; O'Shannessy 2005; Simons & Fennig 2017)

Un nodwedd sy'n ymddangos fel petai'n wir mewn sawl iaith gymysg yw fod gwahaniaeth rhwng geiriau a morffoleg; mae'r forffoleg yn dod o un o'r ieithoedd yn bennaf. Mae cystrawen a morffoleg Media Lengua (152) yn adlewyrchu cystrawen a morffoleg Quechua, ei hiaith riant. Ar y llaw arall, daw'r geiriau ystyrllon o'r rhiant arall, sef Sbaeneg. Mae'r forffoleg ar ffurf ol-ddodiaid (print trwm).

- (152) Isi-**ga** asi nustru barrio-**ga** asi kostumbri-**n** abla-**na**
 hyn-**PNC** felly ein cymuned-**PNC** felly arfer-**3UN** siarad-**ENW**
 “Yn ein cymuned rydym yn arfer siarad fel hyn” cymh. Sbaeneg llafar ‘*es que así es como hablamos en nuestro barrio*’.
 Media Lengua (Muysken 1997)

Mae'r geiriau ystyrllon a'r geiriau gramadegol yn dod o'r ddwy iaith riant ym Media Lengua ac mae'r ffonoleg hefyd yn tueddu i ddod o'r ddwy iaith. Felly, nid yw'r ymraniad yn digwydd ym mhob achos, ond mae'r patrwm hwn yn codi mewn sawl iaith gymysg.

Iaith gymysg arall yw Mitsiff, sef iaith rhai o'r bobl Métis yng Nghanada a Gogledd Dakota, UDA. Yn ôl Bakker (2013), mae'r iaith yn dyddio yn ôl i'r 18^{fed} o leiaf, ond mae'r cofnod cyntaf yn dod o'r 1930au. Roedd siaradwyr oedd wedi dod i orllewin Canada oherwydd y fasnach

crwyn morlo yn cymysgu â'r brodorion amlieithog. Defnyddiai'r brodorion hyn lingua franca yn barod, sef yr iaith Grieg (Crieg y Gwastatir, *Plains Cree*, teulu Algoncig) ac efallai, felly, nad oedd rheswm dros ddewis mabwysiadu un ai Ffrangeg neu Grieg, ond parhau i ddefnyddio'r ddwy iaith. Dros y blynyddoedd, roedd llai o gyswllt rhyngddynt a'r boblogaeth drefedigaethol Ffrangeg ei hiaith yng Nghanada a datblygodd y bobl Métis hunaniaeth newydd (Bakker 2013). Daw rhan o ramadeg yr iaith Mitsiff o'r Ffrangeg, a rhan arall o'r Grieg.

Iaith riant	Crieg	Ffrangeg
Geirfa	berfau rhai enwau	enwau rhai ansoddeiriau
Ffurfdroadau	ffurfdroadau berfol	ffurfdroadau enwol
Geiriau gramadegol	rhagenwau dangosol	rhagenwau meddiannol banodau rhifolion
Cystrawen	trefn ymadrodd berfol	trefn ymadrodd enwol

Tabl 12: Ymraniad gramadegol yr iaith Mitsiff (Bakker 1997)

Mae ieithoedd cymysg felly'n cynnig cipolwg ar sut mae'r ymennydd yn trefnu gramadeg. Dengys Tabl 12 fod gwaith didoli yn digwydd, heb fod siaradwyr cyntaf yr iaith fod yn ymwybodol ohono, mae'n debyg.

50 Crynodeb

Amlieithrwydd

Yn y rhan hon diffiniwyd a thrafodwyd gwahanol agweddau ar amlieithrwydd, yn cynnwys dwyieithrwydd, gan edrych ar y cyd-destun Cymraeg a thu hwnt.

Yn gyntaf trafodwyd sut mae plentyn yn caffael neu'n dysgu mwy nag un iaith. Cymharwyd dwyieithrwydd cydamserol â dwyieithrwydd olynol, gan ystyried, ar un llaw, y gwahanol sefyllfaoedd cymdeithasol all arwain at blentyn yn caffael dwy iaith yr un pryd ac, ar y llaw arall, sut y gall plentyn uniaith ddod yn ddwyieithog drwy gael addysg mewn ail iaith. Edrychwyd wedyn ar ystyriaethau damcaniaethol ynghylch sut mae dwy iaith yn cael eu prosesu yn ymennydd plentyn sy'n caffael dwy iaith, gan drafod gwahanol dystiolaeth am ragdybiaeth y system unedig a rhagdybiaeth y systemau gwahanol.

Yn nesaf, ystyriwyd sut mae oedolyn yn dysgu iaith arall, gan edrych ar nodweddion fel sut, yn aml, y gwelir ymyrraeth neu drosglwyddiad yng ngramadeg un iaith o'r llall yn ystod y broses ddysgu. Trafodwyd ffactorau cymdeithasol sy'n gallu effeithio'n gyffredinol ar ddysgu ail iaith, gan gynnwys y syniad o gyfnod critigol, lle mae iaith yn aml yn anoddach i'w dysgu wrth i berson fynd yn hŷn.

Yn dilyn hyn edrychwyd ar y ffenomen o gyfnewid cod. Cymharwyd cyfnewid cod â benthg geiriau, ac ystyriwyd pam y mae siaradwyr amlieithog yn cyfnewid cod wrth siarad. Ystyriwyd agweddau gramadegol o gyfnewid cod, gan gymharu cyfnewid cod rhyng-gymalog a chyfnewid cod mewngymalog, ac yna trafodwyd a oes cyfyngiadau gramadegol ar gyfnewid cod.

Wrth ystyried dwyieithrwydd mewn cymdeithas, trafodwyd cysyniadau fel sut mae cymuned yn dod yn ddwyieithog, gan gynnwys diffinio beth yw cymuned ddeuglosig. Rhoddwyd enghreifftiau o'r prosesau cymdeithasol sy'n codi wrth drafod cymunedau amlieithog, er enghraifft lefelu ieithyddol, cydgyfeiriant a shifft ieithyddol.

Yn olaf edrychwyd yn fanwl ar yr hyn sy'n gallu digwydd pan fydd dwy iaith (neu fwy) yn cydgyffwrdd yn gymdeithasol. Trafodwyd newid mewn gramadeg iaith, ac yna ystyriwyd sut mae ieithoedd newydd yn gallu cael eu creu mewn sefyllfa o gydgyffwrdd ieithyddol, gan gynnwys ieithoedd pijin, ieithoedd creol ac ieithoedd cymysg.

Cwestiynau

1. Pa strwythurau gramadegol sy'n wahanol yn y Gymraeg a Saesneg fyddai'n ddefnyddiol er mwyn profi safbwyntiau rhagdybiaeth y system unedig a rhagdybiaeth y systemau gwahanol?
2. Sut mae dwyieithrwydd yn amrywio o fewn cymdeithas eang, e.e. ar draws gwahanol ranbarthau yng Nghymru? (Ystyriwch pa fath o ffactorau cymdeithasol/ieithyddol sy'n gallu peri i wahanol gymunedau fod yn fwy neu'n llai dwyieithog na'i gilydd, neu'n ddwyieithog mewn gwahanol ieithoedd.)
3. Sut mae patrymau gramadegol cyfnewid cod yn amrywio rhwng gwahanol barau o ieithoedd?
4. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng iaith greol ac iaith gymysg?

Darllen pellach

Cyfrwng Cymraeg

Thomas, E.M & P. Webb-Davies. 2017. *Agweddau ar ddwyieithrwydd*. Coleg Cymraeg Cenedlaethol. URL <https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=3001~4e~cunoKUqT>

Cyfrwng Saesneg

Wei, L. (gol.). 2000. *The Bilingualism Reader*. Routledge

Winford, D. 2010. Contact and change. Yn: R. Hickey (gol.), *The handbook of language contact*, pen. 8, 170–184. John Wiley & Sons

Rhan VIII

Cymhwyso ieithyddiaeth at wyddorau eraill

51 Rhagair

SARAH COOPER A DELYTH PRYS

Pam fyddech chi eisiau astudio ieithyddiaeth? Beth allech chi ei wneud gydag ieithyddiaeth neu bwnc cysylltiedig arall? Beth allai siaradwyr Cymraeg sydd â gwybodaeth am y ffordd y mae iaith wedi'i strwythuro a sut y mae'n cael ei defnyddio ei wneud yn y dyfodol?

Nod y rhan hon o'r llyfr yw sôn am feysydd cymhwysol sy'n ffinio ag ieithyddiaeth, ac annog myfyrwyr ac ymchwilwyr ieithyddiaeth (neu bynciau cysylltiedig eraill) i feddwl pa fath o yrfaeodd sydd ar gael iddyn nhw lle mae angen gwybodaeth o strwythur a defnydd iaith. Yn gynharach yn y llyfr, fe'ch cyflwynwyd i sgiliau adnabod a dadansoddi strwythur seiniau, geiriau, brawddegau ac ystyr. Mae'r gyfrol hefyd wedi ystyried pwysigrwydd y defnydd o iaith ac ieithoedd gan unigolion ac mewn cymdeithas, a sut y gall hyn amrywio.

Mae rhai llwybrau traddodiadol ar gyfer myfyrwyr ieithyddiaeth yn cynnwys gyrfaoedd mewn addysg, therapi iaith a lleferydd, golygu, cyhoeddi a newyddiaduraeth. Wrth astudio ieithyddiaeth, mae person yn datblygu sgiliau datrys problemau a rhesymu dadansoddol drwy arsylwi, dadansoddi a dehongli data. Mae gan ieithyddion wybodaeth o systemau ieithyddol a'r gallu i gymharu gwahanol ieithoedd, neu gymharu un math o iaith â math arall. Mae ieithyddion yn aml yn mwynhau gweithio gyda phobl ac efallai y bydd ganddynt brofiad o gasglu data gan gyfranogwyr. Mae ieithyddion yn datblygu cwestiynau ymchwil i'w hateb ac yn cynnig a phrofi rhagdybiaethau. Mae'r wybodaeth a'r sgiliau hyn a ddatblygir wrth astudio ieithyddiaeth yn addas ar gyfer nifer mawr o swyddi y tu hwnt i'r rhai traddodiadol.

Mae astudio iaith yn gorgyffwrdd â llawer o ddisgyblaethau academaidd eraill yn y gwyddorau a'r gwyddorau cymdeithasol, gan gynnwys seicoleg, cyfrifiadureg, anthropoleg a chymdeithaseg. Bydd y rhan hon yn canolbwyntio ar feysydd cysylltiedig, sef polisi a chynllunio ieithyddol, addysgu dysgwyr ail iaith, cyfieithu a thechnolegau iaith. Yn benodol, bydd yn canolbwyntio ar sut mae'r meysydd hyn yn bwysig i Gymru yn arbennig, a sut mae modd defnyddio gwybodaeth am strwythur iaith a defnydd iaith i ddylanwadu ar fywydau siaradwyr Cymraeg.

Yn 2017, ryddhaodd Llywodraeth Cymru strategaeth i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Yn y strategaeth hon maent yn nodi tair thema greiddiol ar gyfer gwireddu'r weledigaeth: 1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, 2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a 3. Creu amodau ffafriol—seilwaith a chyd-destun ([Llywodraeth Cymru 2017:4](#)). Mae'r meysydd a gyflwynir yn y Rhan hon yn bwysig i bob un o'r themâu hyn. Yn gyntaf, bydd Adran [52](#) 'Cynllunio ieithyddol a pholisi iaith' yn cyflwyno maes cymdeithaseg iaith, drwy ffocysu ar bolisiau iaith a sut maent yn ddylanwadau ar fywydau siaradwyr ieithoedd lleiafrifol. Bydd Adran [53](#) 'Addysgu dysgwyr ail iaith' yn cyflwyno maes Dysgu Cymraeg i Oedolion a'r gwaith

o greu siaradwyr newydd a chynyddu'r nifer sy'n siarad Cymraeg. Bydd Adran 54 'Geiriadura a therminoleg' yn cyflwyno geiriaduron a geiriaduron termau sy'n adnoddau hanfodol ar gyfer trin a deall iaith. Yn Adran 55 'Cyfieithu a thechnoleg cyfieithu' cyflwynir maes cyfieithu, ei hanes a'i bwysigrwydd yng Nghymru. Bydd Adran 56 'Technolegau iaith' yn cyflwyno'r dechnoleg lle mae ieithoedd dynol yn dod i gysylltiad â chyfrifiaduron. Yn olaf, bydd yr astudiaeth o iaith naturiol ar raddfa fawr yn cael ei chyflwyno yn Adran 57 Corpora a dulliau o drin data.

Geirfa allweddol

cynllunio ieithyddol	cynllunio corpws	cynllunio caffael
cynllunio bri	cynllunio macro, meso a micro	unieithrwydd
cenedl-wladwriaeth	prifair	cofnod
byrfodd	lemateiddiwr	cynodiad
cyfieithu ar y pryd	cyfieithu cyfathrebol	cof cyfieithu
cronfeydd termau	cyfatebiaeth	cyfieithu peirianyddol
prosesu iaith naturiol	ieithyddiaeth gyfrifiadurol	technoleg lleferydd
deallusrwydd artiffisial	difodiant digidol	bywiogrwydd digidol
testun i leferydd	tocyneiddio	nodau
adnabod lleferydd	parth-benodol	torfoli
dysgu trosglwyddol	rhyngrywied pethau	ieithyddiaeth corpws
corpws cytbwys	corpws monitro	corpws gwallau
corpws cyfochrog	corpws lleferydd	dysgu peirianyddol

52 Cynllunio ieithyddol a pholisi iaith

CYNOG PRYS A RHIAN HODGES

Mae 195 o wladwriaethau annibynnol yn bodoli yn y byd heddiw a thros 7,000 o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad ynddynt (Simons & Fennig 2017). O ystyried hynny, gwelwn fod amrywiaeth diwylliannol ac ieithyddol yn nodwedde ganolog o fywyd mewn cymunedau ledled y byd. O fewn y cyd-destun hwn mae **cynllunio ieithyddol** (*language planning*) yn bodoli fel maes sy'n ceisio dylanwadau ar y modd y mae un iaith neu nifer o ieithoedd yn cael eu defnyddio mewn bywyd bob dydd.

Bydd yr adran hon yn edrych ar y modd y mae penderfyniadau ynglŷn â defnydd iaith yn aml yn cael eu gwneud ar lefel lywodraethol neu rynglywodraethol. Er enghraifft, mae llywodraethau'n sefydlu **polisiau** ynglŷn â pha iaith neu ieithoedd y mae llywodraeth yn darparu gwasanaethau cyhoeddus ynddi / ynddynt, pa iaith neu ieithoedd a ddefnyddir ar gyfer addysg neu ar gyfer datganiadau'r llywodraeth i'r cyhoedd (e.e. Mesur y Gymraeg, *Llywodraeth Cymru 2011*). Ond nid llywodraethau yn unig sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â defnydd iaith. Mae

busnesau'r sector preifat a grwpiau cymunedol hefyd yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â defnydd iaith. Er enghraifft, gall siop benderfynu ar iaith ei harwyddion neu gall clwb chwaraeon lleol wneud penderfyniad ynglŷn ag iaith sesiynau hyfforddi. Yn ogystal, mae unigolion amlieithog yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â defnydd iaith o fewn cyd-destun penodol, o fewn y teulu, gyda phlant neu yn y gymuned ehangach.

Mae cynllunio ieithyddol yn cael ei weld fel maes cynyddol bwysig o fewn gwledydd amlieithog fel Cymru. Er enghraifft, o fewn cyd-destun Cymreig mae cynllunwyr ieithyddol yn cael eu cyflogi ar wahanol lefelau o'r llywodraeth (e.e. gweision sifil Llywodraeth Cymru a staff Comisiynydd y Gymraeg) a lywodraeth leol (e.e. Cyngorau Sir). Maent hefyd i'w canfod o fewn y system addysg ac ar lefel gymunedol (e.e. Mentrau Iaith). Yn wir, gan fod gofynion cyfreithiol yn cael eu gosod ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru, mae hyn yn galw am arbenigwyr ar gynllunio ieithyddol, yn ymgynghorwyr neu swyddogion iaith, ym mhob sefydliad cyhoeddus yng Nghymru. O ganlyniad gellir dadlau bod cynllunio ieithyddol wedi datblygu i fod yn faes galwedigaethol a phroffesiynol o bwys heddiw yng Nghymru gan gyflogi gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr mewn amrediad eang o feysydd.

52.1 Diffinio cynllunio ieithyddol a pholisi iaith

Ymgais fwriadol i ddylanwadu ar ddefnydd iaith yw cynllunio ieithyddol (Cooper 1989). Mae Kaplan & Baldauf (1997:3) yn disgrifio cynllunio ieithyddol fel “a body of ideas, laws and regulations (language policy), change, rules, beliefs and practices intended to achieve a planned change (or to stop a change from happening) in the language use in one or more communities”. Gellir dehongli felly fod cynllunio ieithyddol yn ymwneud â phenderfyniadau ynglŷn â pha iaith sy'n cael ei defnyddio, ymhle a gyda phwy. Yma gwelwn y cyswllt rhwng cynllunio ieithyddol a'r modd y mae'r cynlluniau hyn yn dylanwadu ar **bolisi iaith** o fewn cyd-destunau amrywiol.

Cyfeiria Baldauf (2006) at dair lefel o gynllunio ieithyddol, sef **cynllunio macro**, **meso** a **micro**. Llywodraethau a'u hasiantaethau sydd fel arfer yn cael eu gweld fel y prif sefydliadau sy'n ymwneud â chynllunio ieithyddol (Liddicoat & Baldauf 2008) a gelwir y math hwn o gynllunio ieithyddol yn gynllunio ar lefel facro. Yn yr achos hwn mae cynllunio macro yn digwydd o'r brig i'r bôn, wrth i bolisiau amrywiol y llywodraeth ddylanwadu ar ddefnydd iaith o fewn gwlad benodol, fel Cymru, er enghraifft. Fodd bynnag, noda Baldauf (2006) y gall cynllunio ieithyddol ddigwydd ar lefel **ficro** hefyd, sef o'r bôn i'r brig, wrth i unigolion a chymunedau ymwneud â chynllunio'u defnydd o iaith neu ieithoedd ar lefel leol (gweler Hodges & C. Prys 2018 am enghraifft o fewn cyd-destun Cymreig). Mae **cynllunio meso** yn y canol rhwng y ddau begwn hyn, gan gynnwys cyrff lled-lywodraethol a rhanddeiliaid eraill sy'n gweithredu ar lefel gymunedol (e.e. Mentrau Iaith yng Nghymru).

Mae polisi iaith yn aml yn destun trafod wrth ystyried cynllunio ieithyddol. I nifer, ffin niwlog sydd rhyngddynt ond mae'n bwysig gwahanu rhyngddynt hefyd. Noda Mesthrie et al. (2009:371) fod polisi iaith yn cyfeirio at “the more general linguistic, political and social goals underlying the actual language planning process”. Hynny yw, polisi iaith yw cynnyrch y broses o gynllunio ieithyddol. Noda Omoniyi (2004) mai ymgais fwriadol i newid defnydd iaith unigolion neu gymunedau yw polisi iaith, a bod y cymunedau ieithyddol hyn yn gallu bodoli ar lefel leol, ar lefel genedlaethol a rhyngwladol neu'n drawsffiniol. Er enghraifft, gellir nodi bod Llywodraeth Cymru yn meddu ar bolisiau iaith sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru (e.e. Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru 2017). Yn yr un modd mae

gan yr Undeb Ewropeaidd bolisiau iaith sy'n nodi pa ieithoedd yw'r rhai swyddogol o fewn y sefydliad a pha rhai sy'n rhai lled-swyddogol (Gazzola 2016). O ganlyniad, gellir honni mai nod polisi ieithyddol yw gosod cynllunio ieithyddol ar waith ar lefel gymdeithasol ac ymarferol.

52.2 Pedair teipoleg o gynllunio ieithyddol

Mae Mesthrie et al. (2009) yn cyfeirio at y dimensiynau amrywiol sy'n bodoli o fewn cynllunio ieithyddol, gan gyfeirio at **gynllunio statws, corpws, caffael** a **chynllunio bri**. Yn ôl Kaplan & Baldauf (1997) mae cynllunio statws yn cael ei ystyried fel y broses fwriadol o osod statws ar iaith neu ieithoedd penodol. Mae Cooper (1989) yn cyfeirio at benderfyniadau ynglŷn â pha iaith i'w phennu fel iaith swyddogol gwlad fel enghraifft o hyn, iaith y llysoedd neu iaith gweinyddiaeth gyhoeddus. Gellir nodi bod **cynllunio statws** (*status planning*) sy'n ymwneud â'r Gymraeg yng Nghymru yn enghraifft ddiweddar o hyn gyda Mesur y Gymraeg 2011 yn gosod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.

Tra bo cynllunio statws yn ymwneud ag elfennau cymdeithasol ynglŷn â defnydd iaith, mae **cynllunio corpws** (*corpus planning*) yn ymwneud â chynnwys ieithyddol ieithoedd unigol, yn hytrach na ffactorau allanol, cymdeithasol neu wleidyddol. Gall cynllunio corpws gynnwys safoni orgraff iaith, safoni termau, creu iaith safonol at ddibenion swyddogol (yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle ceir gwahanol dafodieithoedd heb draddodiad o iaith lenyddol, ysgrifenedig, fel yr iaith Romani er enghraifft), a gofalu bod geiriaduron, llyfrau gramadeg ac adnoddau eraill ar gael i roi arweiniad i bobl ynghylch sut i ddefnyddio'r iaith. Er hynny, mae Kaplan & Baldauf yn nodi bod gwahaniaethu'n daclus rhwng cynllunio statws a chynllunio corpws yn anodd, gan fod cynllunio corpws yn bodoli o fewn y byd go iawn â dylanwadau hanesyddol, diwylliannol a gwleidyddol (1997:48).

Cyfeiria Cooper (1989) at drydedd deipoleg i'w hystyried, sef **cynllunio caffael** (*acquisition planning*). Mae cynllunio caffael yn ymwneud yn benodol ag ymdrechion i hwyluso a hyrwyddo dysgu iaith benodol neu ieithoedd penodol. Mae Baker & Prys Jones (1998) yn cyfeirio at gynlluniau sy'n ymwneud â dysgu Cymraeg i oedolion yng Nghymru (gw. Adran 53) neu gynlluniau i blant ddysgu iaith y Maori yn Seland Newydd (gw. Adran 45 yn Rhan VII 'Amlieithrwydd' am fwy o fanylion ac enghreifftiau). Yn yr achosion hyn gwelir ymgais gwledydd i **gynnal** neu **adfer** y defnydd o iaith benodol mewn systemau addysg amrywiol.

Y bedwaredd deipoleg yw **cynllunio bri** (*prestige planning*), sef cynllunio sy'n ymwneud â chreu amgylchiadau seicolegol ffafriol ar gyfer iaith (Mesthrie et al. 2009). Mae Haarmann (1990) yn cyfeirio at bwysigrwydd gosod bri ar ieithoedd penodol a dylanwad hynny ar unigolion a'u defnydd hwy o iaith neu ieithoedd penodol o fewn eu bywydau bob dydd (gw. hefyd Adran 48.1 'Deuglosia'). O fewn y cyd-destun Cymreig, gellir cyfeirio at waith Comisiynydd y Gymraeg yn hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg fel enghraifft o gynllunio bri.

O fewn yr enghreifftiau uchod gwelir rôl cynllunio ieithyddol yn ceisio dylanwadu ar y defnydd o iaith mewn gwahanol ffyrdd ac mewn gwahanol gyd-destunau. O ganlyniad, gwelwn ddylanwad pŵer cymdeithasol ar y broses o gynllunio ieithyddol, wrth i gynllunwyr geisio cynhyrchu newid cymdeithasol ieithyddol neu atal newid rhag digwydd. Gwelwn fod elfen wleidyddol ynghlwm wrth gynllunio ieithyddol ac edrychwn isod ar ei ddatblygiad fel maes, a'r modd y mae'n cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar ddefnydd iaith o fewn cymdeithas.

52.3 Datblygiad cynllunio ieithyddol

Yn ôl [Ricento \(2000\)](#) mae modd olrhain y broses o gynllunio ieithyddol yn ôl i gyfnod y Rhufeiniaid, wrth i Ladin gael ei chyflwyno fel iaith yr ymerodraeth honno—roedd yn rhaid i bawb siarad Lladin er mwyn cyfathrebu â'r llywodraeth ymerodrol (*imperial*). Fodd bynnag, nid ymddangosodd y term 'cynllunio ieithyddol' tan yr ugeinfed ganrif. Datblygodd cynllunio ieithyddol a pholisi ieithyddol fel maes academaidd yn yr 17g a'r 18g wrth i syniadau ynglŷn â chenedlaetholdeb a chenedl-wladwriaethau modern gael eu datblygu ([Wright 2016](#)). Yn ystod y cyfnod hwn, nododd [Wright](#) mai hyrwyddo unffurfiaeth ieithyddol oedd prif nod cynllunio ieithyddol, gan gyfeirio at bolisiau iaith yn Ffrainc fel enghraifft amlwg o hyn, lle nodwyd mai Ffrangeg oedd unig iaith y wladwriaeth. Hyd heddiw, gwelir enghraifft ddadleuol o hyrwyddo unffurfiaeth ieithyddol yn Ffrainc, sef polisi ieithyddol sy'n deillio o'r Chwyldro Ffrengig yn 1789. Yn yr achos hwn, hyrwyddwyd Ffrangeg fel iaith llywodraeth ac addysg yn y weriniaeth honno, a hynny ar draul ieithoedd lleiafrifol brodorol fel y Llydaweg, Ocsitaneg a Basgeg. Noda [Wright \(2000\)](#) fod dylanwad y Chwyldro Ffrengig yn parhau i'w weld yn Ffrainc hyd heddiw lle mae'r ieithoedd rhanbarthol yn cael eu gweld gan rai fel bygythiad i undod y wlad. Ymhellach, noda [Skutnabb-Kangas & Phillipson](#) i'r athrawiaeth hon o **unieithrwydd** (*monolingualism*) gael ei hymestyn o amgylch y byd wrth i wladwriaethau'r cyfnod modern hyrwyddo'r polisiau o 'un wladwriaeth, un iaith' ([2017:2](#)). Gwelwn felly fod cysyniadau'n ymwneud ag adeiladu undod cenedlaethol ac unieithrwydd o fewn cenedl-wladwriaeth (*nation state*) yn nodwedd o gynllunio ieithyddol yn y cyfnod cynnar hwn.

Yn sgil yr Ail Ryfel Byd a'r cyfnod trefedigaethol, datblygodd y maes ymhellach ([May 2006:256](#)) oherwydd yr angen i ddatrys problemau ieithyddol wrth lywodraethu'r tiriogaethau a adawyd gan yr Ymerodraeth Brydeinig (ac eraill), fel gwledydd yn Affrica, Asia a'r Dwyrain Canol. Mae [Kaplan & Baldauf \(1997:5-7\)](#) yn cyfeirio at y sefyllfa yn y gwledydd i'r de o'r Sahara ar ddiwedd y cyfnod trefedigaethol, lle roedd angen sefydlu iaith neu ieithoedd swyddogol er mwyn uno a llywodraethu'r gwledydd hyn. Pwysleisiai'r cyfnod hwn nodweddion strwythurol cynllunio ieithyddol, gan roi sylw penodol i gysoni defnydd iaith a moderneiddio o fewn gwledydd newydd a gwledydd hŷn y byd ([Ricento 2000](#)). Yn y cyfnod hwn, gwelir nifer cyfyngedig o ieithoedd yn cael eu blaenoriaethu fel ieithoedd cenedlaethol y genedl-wladwriaeth fodern (e.e. cyflwyno Saesneg ac Hindi fel ieithoedd gweinyddol yn India).

Cyfeiria [Wright \(2016\)](#) at ail gyfnod yng nghanol yr 19g, gan nodi i gynllunio ieithyddol a pholisi iaith ddatblygu fel ymateb grwpiau ac unigolion oedd wedi cael eu gwthio i'r cyrion gan bolisiau iaith trefdigaethol (*colonial*). Noda [Ricento \(2000:202\)](#) i niwtraliaeth proses cynllunio ieithyddol y cyfnod gael ei chwestiynu, wrth i anghyfartaledd rhwng grwpiau ieithyddol barhau. Amlygwyd y modd y gall penderfyniadau ynglŷn â defnydd iaith a'r broses o adeiladu cenedl gyfyngu ar ddefnydd ieithoedd lleiafrifol yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn wleidyddol. Gall hyn yn ei dro ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol iaith a chynhaliaeth cymunedau ieithyddol lleiafrifol. Fel ymateb i'r anghyfartaledd grym sydd gan grwpiau ieithyddol, gwelwyd datblygiad yn y galwadau gan rai academyddion i amddiffyn hawliau ieithyddol grwpiau ieithyddol sydd wedi cael eu gwthio i'r cyrion yn sgil y broses o adeiladu cenedl ([Kymlicka 2001](#); [G. Lewis 2008](#); [Skutnabb-Kangas & Phillipson 2017](#)). Yn sgil y datblygiadau hyn ym maes hawliau ieithyddol, gwelwyd datblygiadau gan gyrff rhynglywodraethol megis y Cenedloedd Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a Chyngor Ewrop i warchod ac, ar adegau, i hyrwyddo hawliau ieithyddol unigolion a grwpiau ieithyddol (gweler [G. Lewis 2008](#) am drafodaeth lawn).

Noda [Wright \(2016\)](#) i gynllunio a pholisi iaith ddatblygu ymhellach yn fwy diweddar i ganol-

bwyntio ar ieithoedd yng nghyd-destun ymfudo a **globaleiddio** (*globalisation*). Yn y cyd-destun hwn gwelwyd cymunedau oedd yn siarad un iaith yn dod i gyswllt â chymunedau ieithoedd gwahanol yn sgil y mudo ar raddfa eang a welwyd yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, gyda chymunedau ieithoedd yn fwy symudol a heb fod o reidrwydd yn gysylltiedig ag un wlad yn unig. Yn ogystal â hyn, gwelwyd ffocws cynyddol ar y modd y mae globaleiddio yn effeithio ar rwydweithiau iaith unigolion a thwf Saesneg fel iaith gyffredin, a dylanwad hynny ar ieithoedd eraill y byd a'r sawl sy'n eu siarad (Coupland 2010). O fewn y cyd-destun hwn mae maes 'siaradwyr newydd' wedi ymddangos fel maes pwysig o fewn cynllunio ieithyddol wrth i unigolion ddysgu ieithoedd cymunedau newydd, fel unigolion neu drwy'r system addysg (gweler gwaith Hodges 2014 am enghraifft o fewn cyd-destun Cymraeg).

O ystyried datblygiad cynllunio ieithyddol fel maes, gwelir bod cynnal (neu greu) undod cenedlaethol a chymdeithasol yn parhau i fod yn nodwedd gyson o fewn y ddisgyblaeth. Wrth gadw mewn cof fod gwledydd y byd yn cynnwys nifer o grwpiau lleiafrifol brodorol, yn ogystal â grwpiau ac unigolion sydd wedi mewnfudo i'r wlad, cred rhai, fel Barry (2001), fod cynnal undod cymdeithasol yn parhau i fod yn bryder. Er mwyn ceisio dygymod â hyn, mae proses o adeiladu cenedl yn digwydd ym mhob gwlad yn y byd wrth i wladwriaethau ymgymryd â phroses fwriadol o geisio uno'r gwahanol garfanau a geir o fewn ffiniau gwlad i greu un wladwriaeth unedig. Yn ôl Kymlicka (2001:27) mae'r broses o adeiladu cenedl fel arfer yn digwydd drwy bolisiau amrywiol y wladwriaeth, fel dewis iaith swyddogol, cwricwlwm addysg a gofynion dinasyddiaeth. Yma, mae'r wladwriaeth yn ceisio annog neu orfodi aelodau cymdeithas gyfan i integreiddio yn un model gwleidyddol a chymdeithasegol, sy'n rhoi bri ar un diwylliant ac fel arfer yn gweithredu drwy un iaith (fel a welwyd yng Nghymru yn y gorffennol). Gwelir rhan cynllunio ieithyddol yn hyn, wrth i rai gwladwriaethau gyflwyno un iaith fel iaith llywodraeth, addysg a busnes (sef cynllunio statws). Galwai Kaplan & Baldauf (1997:230) y math hwn o gynllunio yn gynllunio ieithyddol negyddol sy'n ceisio cyfyngu ar y defnydd o iaith o fewn gwladwriaethau penodol. Fodd bynnag, gwelwyd cydnabyddiaeth gynyddol yn y maes o allu cynllunio ieithyddol i wthio unigolion a grwpiau cymdeithasol sy'n siarad ieithoedd lleiafrifol i'r cyrion, a gwelwyd ymateb deddfwriaethol a pholisi iaith mewn nifer o gyd-destunau mewn ymgais i amddiffyn hawliau ieithyddol siaradwyr ieithoedd lleiafrifol. Erbyn heddiw, nid yw pob gwladwriaeth fodern yn hyrwyddo unieithrwydd fel polisi iaith, ac mae gwledydd megis De Affrica, Gwlad Belg, Canada a Chymru yn enghreifftiau o wledydd sy'n hyrwyddo polisiau o ddwyieithrwydd neu amlieithrwydd. Er hynny, dadleuir bod hierarchaeth ieithyddol yn parhau i fodoli, hyd yn oed o fewn gwledydd amlieithog. O ganlyniad, mae tensiynau'n parhau rhwng polisiau sy'n hyrwyddo cynnal undod ac unffurfiaeth genedlaethol ac ieithyddol, a'r galw i amddiffyn lleiafrifoedd ieithyddol.

52.4 Cynllunio ieithyddol yng Nghymru

Wrth i ni edrych ar gynllunio ieithyddol yng Nghymru, mae'n bosib i ni ystyried dwy enghraifft o gynllunio ieithyddol â bwriadau tra gwahanol. Yn gyntaf, gellir dehongli bod elfen o gynllunio ieithyddol ynghlwm wrth y Ddeddf Uno (1536). Nod y Ddeddf Uno oedd ymestyn cyfraith Lloegr dros Gymru, ac fel rhan o'r ddeddf nodwyd mai Saesneg fyddai unig iaith y llysoedd yng Nghymru. Gellir dehongli hyn fel ymgais gynnwys at gynllunio ieithyddol yng Nghymru; yn yr achos hwn, hyrwyddo'r iaith Saesneg ar draul y Gymraeg a wneir, sef yr hyn a eilw Kaplan & Baldauf (1997:230) yn gynllunio ieithyddol negyddol. Er hynny, noda J. Davies (1990) nad oedd y darlun mor syml â hynny wrth i'r Goron gyflwyno'r Gymraeg fel iaith crefydd yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod (am drafodaeth lawn, gweler J. Davies 1990). Un o ganlyniadau

anfwriadol hyn oedd safoni'r iaith Gymraeg (cynllunio corpws) a gosod statws i'r Gymraeg mewn parth cymdeithasol o bwys. Gwelwn felly'r modd y mae cynllunio ieithyddol wedi bod ar waith yng Nghymru ers canrifoedd, gyda chanlyniadau amrywiol o ran statws a defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru.

Yn fwy diweddar, gwelwyd y Gymraeg yng Nghymru yn cael ei hamddiffyn ac yn derbyn statws mewn nifer o barthau swyddogol. Rhwng 1942 a 1993 pasiwyd cyfres o ddeddfau gan lywodraeth San Steffan i alluogi defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth gyhoeddus. Yn 1942 pasiwyd Deddf Llysoedd Cymru oedd yn caniatáu i siaradwyr Cymraeg roi tystiolaeth yn y llysoedd barn yn y Gymraeg, pe baent yn gallu profi eu bod o dan anfantais yn siarad Saesneg (Aitchison & Carter 2000; R. Lewis 1998). Yn dilyn cyfnod o bwysu a phrotestio (gweler Phillips 1998) pasiwyd Deddf Iaith 1967. Fodd bynnag, cyfyng iawn oedd effaith y ddeddf hon, a'i phrif gyfraniad oedd cyflwyno'r cysyniad o 'ddilysrwydd cyfartal', sef bod gan ddogfennau cyfreithiol yn yr iaith Gymraeg (e.e. ewyllys) yr un statws cyfreithiol â phe baent wedi eu hysgrifennu yn Saesneg (Prys Davies 2000). Tu hwnt i'r llysoedd barn, ni osododd y ddeddf hon unrhyw ddyletswydd swyddogol ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg (G. Williams & Morris 2000). Yn wir, noda G. Williams (1987) mai cyfreithloni statws israddol y Gymraeg yng Nghymru oedd canlyniad y ddeddf hon.

Yn 1993 pasiwyd Deddf yr Iaith Gymraeg, a amlinellodd, am y tro cyntaf, ofynion statudol i ddarparu gwasanaethau sector cyhoeddus yn y Gymraeg. Roedd y ddeddf yn cynnwys yr egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol, gan nodi: "cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal" (Deddf yr Iaith Gymraeg 1993:3). Am y tro cyntaf yng Nghymru roedd disgwyl i gyrff cyhoeddus (e.e. byrddau iechyd neu gynghorau sir) baratoi polisi iaith ar ffurf Cynllun Iaith Gymraeg (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996). Pwrpas y cynlluniau iaith hyn fyddai amlinellu sut y byddai cyrff cyhoeddus yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal o fewn eu gweithdrefnau, a sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gefnogi'r cyrff hyn a goruchwyllo'r broses o weithredu Deddf Iaith 1993. Er hynny, gwelwn yma amwysedd ynglŷn a beth yn union sy'n *briodol* neu'n *ymarferol* wrth ystyried gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg o fewn y sector cyhoeddus. Yn ogystal, fel y gwelir yn y dyfyniad, nid oedd y ddeddf yn gorfodi cyrff cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ym mhob agwedd o fywyd cyhoeddus gan iddi ganolbwyntio ar y sector cyhoeddus yn unig. O ganlyniad, beirniadwyd y ddeddf am gynnwys y sector cyhoeddus yn unig, gan adael y sector preifat a'r sector gwirfoddol y tu hwnt i ddylanwad statudol y ddeddf (C. Prys 2010; Dunbar 2009).

Pasiwyd Mesur y Gymraeg yn 2011 gan Lywodraeth Cymru, gan sefydlu am y tro cyntaf fod y Gymraeg yn iaith â statws swyddogol yng Nghymru. Diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan y ddeddfwriaeth newydd a sefydlwyd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg yn lle hynny (Llywodraeth Cymru 2011). Rôl y Comisiynydd Iaith yw galluogi defnyddio'r Gymraeg, gyda'i brif ffocws yn parhau ar wasanaethau'r sector cyhoeddus. Y tro hwn, yn hytrach na nodi y dylid trin y ddwy iaith yn gyfartal (Deddf yr Iaith Gymraeg 1993), nodwyd o dan y Mesur na ddylid trin y Gymraeg "yn llai ffafriol na'r Saesneg" (Llywodraeth Cymru 2011:1). Yn ogystal, daethpwyd â'r weithdrefn o lunio polisiau iaith Gymraeg ar ffurf cynlluniau iaith i ben (ac eithrio mewn rhai achosion, e.e. yn y llysoedd) a daeth trefn newydd i rym, sef Safonau'r Gymraeg. Swyddogaeth y safonau iaith yw amlinellu'r dyletswyddau sydd gan gyrff cyhoeddus (a rhai lled-gyhoeddus) o ran darpariaeth iaith Gymraeg. Gellir dehongli bod rôl Comisiynydd y Gymraeg yn ymdebygu'n fwy i rôl rheoleiddiwr, yn enwedig o gofio bod gan y Comisiynydd y gallu i gosbi cyrff sy'n methu cadw at y gofynion iaith a roddwyd arnynt (hyd at £5,000).

Bwriad arall a amlinellir o fewn y Mesur yw ymestyn maes gorchwyl deddfwriaeth iaith i rai rhannau o'r sector preifat. Nodwyd y byddai disgwyl i wasanaethau craidd o'r sector preifat, megis darparwyr dŵr, nwy a thrydan, yn ogystal â darparwyr gwasanaethau telathrebu (e.e. cwmnïau ffôn), dderbyn safonau iaith a darparu elfennau o'u gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i'r cyhoedd yng Nghymru ([Llywodraeth Cymru 2011](#):118–20). Gellir dadlau mai dyma un o elfennau mwyaf pellgyrhaeddol y Mesur. Fodd bynnag, nid yw'r safonau hyn wedi eu cyhoeddi, a hynny wyth mlynedd ar ôl pasio'r ddeddfwriaeth. Yn ogystal â hyn, gellir dadlau nad yw Mesur y Gymraeg 2011 yn creu hawliau ieithyddol clir i'r cyhoedd yng Nghymru, yn enwedig o gofio bod y safonau o ran darpariaeth yn yr iaith Gymraeg a osodir ar sefydliadau yn gallu amrywio yn ôl ardal ddaearyddol neu natur y sefydliad.

Yng Nghymru gwelwyd datblygiadau cynyddol ym maes cynllunio ieithyddol a'r iaith Gymraeg wrth i'r defnydd o'r Gymraeg gael ei brif ffrydio o fewn y wlad. Yn 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth iaith ddiweddaraf, sef Cymraeg 2050 ([Llywodraeth Cymru 2017](#)). Amlinella'r strategaeth weledigaeth y llywodraeth bresennol o ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn o bobl yng Nghymru erbyn 2050. Bydd rôl cynllunio a pholisi iaith yn allweddol yn y broses hon os yw Llywodraeth Cymru am wireddu ei gweledigaeth uchelgeisiol, a chanlyniad hyn yw fod cynllunio ieithyddol fel maes academiaidd a galwedigaethol yn dod yn gynyddol bwysicach yng Nghymru.

53 Addysgu dysgwyr ail iaith

IFOR GRUFFYDD

Ers datganoli yn 1999 mae'r Llywodraeth yng Nghymru wedi cyhoeddi sawl strategaeth, e.e. 'Iaith Pawb' ([Llywodraeth Cymru 2003](#)) ac 'Iaith Fyw: Iaith Byw' ([Llywodraeth Cymru 2012](#)), lle cafwyd ymrwymiad i warchod, hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg, gan gynnwys mesurau i gefnogi ac annog dysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Mae'r strategaeth ddiweddaraf, 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr' ([Llywodraeth Cymru 2017](#)) yn parhau â'r nod hwn, yn amlwg felly o safbwynt creu siaradwyr newydd, ac yn nodi bod "angen gwthio'r ffiniau a chymryd camau uchelgeisiol fel bod mwy o bobl yn dysgu a defnyddio'r Gymraeg" ([Llywodraeth Cymru 2017](#):4). Ochr yn ochr â hyn dechreuodd y [Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol](#) newydd ar ei gwaith yn 2016. Mae'r Ganolfan yn gyfrifol am bob agwedd o'r maes Dysgu Cymraeg i Oedolion ac un o'i phrif nodau yw denu siaradwyr newydd a chynyddu'r niferoedd sy'n siarad y Gymraeg. Ar draws Cymru, mae 11 sefydliad wedi derbyn cytundeb gan y Ganolfan i ddarparu cyrsiau dysgu Cymraeg i oedolion ar ei rhan.

Ym mhob un o'r 11 sefydliad sy'n darparu'r cyrsiau mae timau o diwtoriaid, amser llawn a rhan amser (cyfanswm o dros 500 o bobl), sy'n dysgu yn y gymuned (e.e. mewn neuaddau pentref, ar gampws coleg neu mewn llyfrgelloedd) ac mewn gweithleoedd (sefydliadau sector cyhoeddus fel rheol). Bydd y cyrsiau dysgu Cymraeg hyn fel arfer tua 2 neu 3 awr o hyd (er bod rhai hwy ar gael) a bydd tiwtor amser llawn yn dysgu rhwng 20 a 25 awr yr wythnos. Cynigir cyrsiau ar

bum lefel gallu wahanol, sef Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch a Hyfedredd. Yn ddiweddar cafwyd cynnydd mewn swyddi ar gyfer tiwtoriaid dan hyfforddiant, sy'n ddelfrydol ar gyfer unigolion sydd eisiau dilyn gyrfa yn y maes gan y cynigir arweiniad a hyfforddiant pwrpasol i unigolion am gyfnod o rhwng 12 a 18 mis. Y gobaith ydy medru cynnig swyddi parhaol i'r hyfforddeion wedi hynny. Er bod angen sgiliau Cymraeg cadarn i fod yn diwtor, mae gan diwtoriaid y maes fathau gwahanol o arbenigedd, boed hynny ym maes ieithyddiaeth, addysg, technoleg gwybodaeth neu ieithoedd modern; does gan bawb ddim gradd yn y Gymraeg! Rhoddir hyfforddiant priodol ac angenrheidiol i bawb, waeth beth fo'u cefndir.

53.1 Dulliau dysgu iaith

Nid oes un dull perffaith o ddysgu iaith (o ran yr hyn y mae'r tiwtor yn ei wneud yn ystod y gwersi) ac awgryma [E. Davies \(2016\)](#) y dylai tiwtoriaid Cymraeg i oedolion fod yn ymwybodol o ddulliau gwahanol sydd wedi cael eu defnyddio yn y gorffennol a pha effaith mae'r rheiny wedi'u cael ar ddulliau heddiw. Mae rhai o'r prif ddulliau, fel y'u disgrifiwyd gan [E. Davies](#), yn cynnwys y canlynol:

Y dull gramadeg a chyfieithu (*grammar-translation method*)—dyma ddull clasurol o ddysgu ieithoedd drwy ddysgu cyfres o reolau gramadegol a rhestri geirfa sylweddol ar y cof. Mae cyfieithu o'r iaith darged ac iddi, a chywirdeb gramadegol hynny, yn allweddol hefyd ac o'r herwydd mae'r pwyslais yn y dull hwn ar ddarllen ac ysgrifennu ac nid ar ennill sgiliau llafar, sef prif nod y maes Cymraeg i oedolion heddiw. Prin yw'r cyrsiau sy'n defnyddio'r dull hwn heddiw.

Y dull union (*direct neu natural method*)—mae'r pwyslais yma ar drochi dysgwyr yn yr iaith darged ac nid oes modd i'r tiwtor siarad iaith gyntaf y dysgwyr. Mae'r pwyslais ar siarad ac ynganu yn y dull hwn, gan ddefnyddio'r iaith darged fel cyfrwng, ond y gwendid yw anallu'r tiwtor i esbonio neu gynorthwyo'r dysgwyr gyda chwestiynau neu anawsterau.

Y dull clywlafar (*audiolingual method*)—seiliwyd y dull hwn ar ganfyddiad 'strwythurol' o iaith a oedd yn ei diffinio fel cyfres o elfennau llinol, a'r egwyddor sylfaenol y tu ôl i'r elfennau hyn oedd mai drwy ddynwared yr oedd y dysgu'n digwydd. Yn yr un modd â'r **dull union**, mae'r pwyslais ar sgiliau llafar a defnyddio'r iaith darged. Defnyddir driliau iaith (ailadrodd cyson er mwyn osgoi gwallau ynganu a chofio brawddegau er mwyn medru disodli elfennau i greu brawddegau newydd) a rhennir yr iaith yn sefyllfaoedd, e.e. amser swper, yn y dafarn, yn y siop etc. er mwyn cyflwyno'r iaith darged. Gwelwyd y ddwy elfen hon yn y cyrsiau Wlpan a ddefnyddiwyd hyd yn ddiweddar. Mae'r dull clywlafar wedi cael ei feirniadu oherwydd diffyg pwyslais ar ddefnydd tebygol y dysgwr o'r iaith darged, ac oherwydd ei fod yn ddull anniddorol.

Y dull cyfathrebol (*communicative method*)—yn ôl [E. Davies \(2016:8\)](#), “daeth y ‘chwyldro’ cyfathrebol i drawsnewid dulliau dysgu a meddylfryd addysgwyr” a hynny o ganlyniad i ddyhead Cyngor Ewrop i hwyluso ymfudo rhwng gwledydd y Gymuned Ewropeaidd newydd yn y 1970au. Symudodd y pwyslais oddi wrth ramadeg, patrymau brawddegau a sefyllfaoedd at ddysgu geirfa a chystrawennau sylfaenol ar gyfer defnydd bob dydd, er mwyn ‘cyfathrebu’. Yn hytrach na rhannu iaith yn categorïau gramadegol, ei graddio'n batrymau brawddegol neu ei chlystyru'n sefyllfaoedd, rhennir yr iaith ar sail **swyddogaethau** (*functions*), e.e. gofyn am rywbeth, ymddiheuro, neu ofyn i rywun wneud rhywbeth. Oherwydd hyn, mae pwyslais clir ar ddysgu iaith lai ffurfiol a mwy llafar (yn wahanol i'r hyn a ddysgir mewn ysgolion) gyda'r nod y bydd dysgwyr yn medru defnyddio'u Cymraeg yn naturiol o ddydd i ddydd. Gan mai

hwyluso cyfathrebu yn yr iaith darged yw'r nod, mae llai o bwyslais ar ddysgu gramadeg yn y ffordd fformiwlaig, draddodiadol, ond yn hytrach ar ddysgu rheolau gramadegol mewn cyd-destun penodol ar gyfer dysgu iaith a thrwy dasgau cyfathrebu. Ceir rhyngweithio rhwng y tiwtor a'r dysgwyr, rhwng y dysgwyr a'i gilydd a rhwng y dysgwyr a'r gymuned darged. Dyma'r dull a ddefnyddir ym maes Cymraeg i oedolion heddiw.

53.2 Darpariaeth Ymchwil Ganolog

Fel rhan o reolaeth y ddarpariaeth dysgu Cymraeg i oedolion mae ethos a meddylfryd clir y dylai ymchwil fod yn ganolog i ddatblygiad y ddarpariaeth er mwyn adlewyrchu'r syniadaeth ddiweddaraf ac er mwyn sicrhau bod y deunyddiau crai yn seiliedig ar dystiolaeth. Yn hyn o beth, mae ymchwil academiaidd perthnasol yn cael ei gynnal mewn sawl maes, fel ieithyddiaeth, gwyddorau cymdeithasol, addysg a seicoleg, a hynny ar bynciau mor amrywiol â thechnoleg gwybodaeth, newid ymddygiad, adnoddau dysgu, y gweithle a defnydd cymdeithasol. Isod, ceir astudiaeth achos sy'n rhoi sylw i un agwedd o faes ieithyddiaeth sy'n destun ymchwil perthnasol iawn i faes Cymraeg i oedolion.

Ymchwil ar ynganiad y Gymraeg

Mae agweddau ar ieithyddiaeth, fel seineg, morffoleg a chystrawen, yn feysydd ymchwil pwysig ym maes caffael iaith, a chanolbwyntir yma ar agwedd seinegol o'r ymchwil ieithyddol sy'n bwysig i addysgu oedolion, a hynny ym maes ynganiad siaradwyr newydd y Gymraeg. Yn draddodiadol, mae dysgu siaradwyr newydd (mewn unrhyw iaith) sut i ynganu fel siaradwyr brodorol wedi bod yn eilradd i'r pwyslais ar ddysgu gramadeg a geirfa ([Celce-Murcia, Brinton & Goodwin 1996](#); [Harmer 2001](#)).

Ond, yn ôl [Mac Giolla Chríost et al. \(2012:31\)](#), “mae ynganu yn rhan bwysig o gyflawni tri amcan cyfathrebol pwysig, sef: eglurder, integreiddio ac effeithlonrwydd”. Mae hyn wedi'i gydnabod ym maes dysgu Cymraeg i oedolion ers blynyddoedd ac mae llwyddiant siaradwyr newydd i ynganu mewn ffordd sy'n eglur i siaradwyr iaith gyntaf wedi amrywio'n fawr, ac agweddau ar ynganiad y Gymraeg yn peri problemau eang a chyson i diwtoriaid. Gan mai prif ddiben y dull cyfathrebol o ddysgu a welwn yng Nghymru heddiw yw galluogi pobl yn yr ystafell ddosbarth (yn y lle cyntaf) i gyfathrebu â'i gilydd, dylid cael pwyslais clir ar ddysgu ynganu fel rhan hanfodol o'r cyrsiau ([Morley 1991](#)). Os nad yw siaradwyr newydd yn cyrraedd lefel drothwy o safbwynt ynganiad, dengys tystiolaeth ymchwil ([Hinofotis & Bailey 1980](#); [Celce-Murcia, Brinton & Goodwin 1996](#)) y byddant yn wynebu anawsterau cyfathrebu, waeth pa mor dda yw lefel eu gallu gramadegol a geirfaol. Tanlinellir y pwynt hwn yng nghyd-destun y Gymraeg gan [Hughes \(2003\)](#), sydd hefyd yn nodi fod anallu siaradwyr newydd i ynganu yn medru arwain at agwedd negyddol siaradwyr iaith gyntaf tuag atynt (gw. [Flege 1987](#), hefyd). Er bod y broblem hon yn cael ei chydabod yn gyffredinol, awgryma [Hughes \(2003:51\)](#) mai “prin iawn yw'r sylw a roddir i ynganu a goslef yn y cyrsiau”, a dyna'r sefyllfa hyd heddiw. Yn rhannol o ganlyniad i hyn, ceir anawsterau gydag integreiddio siaradwyr newydd, a gwelir sefyllfaoedd tebyg i'r hyn a amlygir gan [Hodges et al. \(2015\)](#) lle mae siaradwyr iaith gyntaf yn troi i'r Saesneg gyda siaradwyr newydd. Mae'n bwysig nodi yma mai un o gyfuniad o ffactorau sy'n medru effeithio ar allu siaradwyr newydd y Gymraeg i integreiddio yw hon. Mae ffactorau fel ofn, ansicrwydd, siarad yn ffurfiol, diffyg amynedd neu amser (gan siaradwyr iaith gyntaf) hefyd yn effeithio ar yr integreiddio hwn, ac mae angen ymchwil pellach ar yr amrywiol ffactorau hyn, yn arbennig felly o du'r siaradwyr iaith gyntaf.

Ers dros hanner canrif, cafwyd sawl ymateb gwahanol i'r cwestiwn a yw'n bosib i siaradwyr newydd ddysgu ynganu iaith yn 'gywir', ac awgrymodd [Mac Giolla Chrïost et al. \(2012\)](#) nad oes modd i siaradwr newydd gael gwared ar ei acen estron ac ynganu'n berffaith. Un ddamcaniaeth gynnar a phoblogaidd oedd na fyddai modd i unigolyn ddysgu iaith newydd yn llwyr—gan gynnwys ynganiad brodorol—y tu hwnt i gyfnod plentyndod, a hynny am resymau niwrolegol ([Scovel 1988](#); [Long 1990](#); [Bongaerts, van Summeren, Planken & Schils 1997](#)); gelwir y ddamcaniaeth hon yn "Critical Period Hypothesis" gan [Flege \(1987:162\)](#) (gweler Adran 46 'Dysgu ail iaith fel oedolyn').

Mae eraill, fel [Derwing & Munro \(2008\)](#), wedi herio'r safbwynt hwn gan dderbyn (yn gyffredinol) fod gan oedolion sy'n dysgu iaith newydd acen ddieithr ond bod modd dysgu ynganiad brodorol dros gyfnod o amser, gydag ymdrech benodol, gan honni: "there seems to be a limit on the degree of development [o gywirdeb ynganiad] without any focused learning" ([Derwing & Munro 2008:481](#)).

Felly, wrth **ddysgu gyda ffocws pendant** (*focused learning*), ydy hi'n bosibl rhoi sylw mwy penodol i ddysgu ynganiad ym maes Cymraeg i oedolion? Mae'n wir nad ydyw wedi bod yn ganolog fel rhan strwythuredig o hyfforddiant tiwtoriaid na chynnwys y cyrsiau i siaradwyr newydd hyd yn hyn, er y ceir enghraifft o arfer da yn Dysgu Cymraeg Morgannwg lle cynigir cyrsiau ynganu i siaradwyr newydd fel rhan o ddarpariaeth atodol. Un farn a fynegir yn rhyngwladol fel rheswm dros wendidau ynganu siaradwyr newydd yw fod ansicrwydd neu ofn ar athrawon neu diwtoriaid i roi sylw manwl i ynganiad ([Murphy 1997](#); [Burgess & Spencer 2000](#); [Harmer 2001](#); [Macdonald 2002](#); [Breitkreutz, Derwing & Rossiter 2001](#)), neu eu bod yn ddihyder i wneud hynny, a hynny o bosibl oherwydd nad ydynt wedi cael eu hyfforddi'n briodol.

Er y cyfoeth o ymchwil ym maes ynganiad yn rhyngwladol, a hynny yng nghyd-destun nifer o ieithoedd gwahanol, prin iawn yw'r ymchwil ar y Gymraeg. Mae cydweithio diweddar rhwng yr Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth a Dysgu Cymraeg y Gogledd-orllewin ym Mhrifysgol Bangor wedi esgor ar astudiaethau cychwynnol ar ynganiad siaradwyr newydd y Gymraeg sy'n oedolion (gweler [Cooper 2017a,b, 2018](#)). Yn ogystal, mae gwaith pwysig gan [Rees & Morris \(2018\)](#), Prifysgol Caerdydd a edrychodd ar anawsterau ynganu siaradwyr newydd o bersbectif tiwtoriaid, yn cynnig camau gweithredu i'w cymryd o ran yr addysgu, yr adnoddau a'r hyfforddiant (i diwtoriaid) ynghyd â meysydd ymchwil pellach pwysig sydd angen sylw.

Mae angen parhau â'r ymchwil er mwyn arfogi addysgu mwy effeithiol yn y gobaith y bydd hyn yn ei dro'n arwain at siaradwyr newydd mwy effeithiol. Gobeithiwn felly weld cynnydd yn niddordeb myfyrwyr ieithyddiaeth ym maes caffael iaith fel oedolion ac awydd i ychwanegu at y corff o ymchwil am y Gymraeg yn y maes.

53.3 Gyrfa fel Tiwtor Cymraeg i Oedolion

Heb amheuaeth, byddai cefndir mewn ieithyddiaeth yn fanteisiol i ddarpar diwtor am sawl rheswm. Yn gyntaf, mae dadansoddi iaith o ran ffurf, ystyr a chyd-destun yn fanteisiol i diwtoriaid y maes ar ddechrau eu gyrfaoedd. Yn ail, byddai gwybodaeth am seineg, ffonoleg, morffoleg a chystrawen, yn arbennig yng nghyd-destun y Gymraeg, yn sail gadarn ar gyfer addysgu dysgwyr ac ymateb i gwestiynau cyffredin. Yn drydydd, byddai astudio modiwlau dewisol perthnasol fel **caffael iaith** (gw. Rhan 45) yn ychwanegu at y cyfoeth o wybodaeth a fyddai'n arbennig o ddefnyddiol fel tiwtor.

Byddai gwybodaeth am ieithyddiaeth, fel y crynhowyd uchod, yn galluogi myfyrwyr i gyf-

rannu'r tu hwnt i'r addysgu hefyd. Gellid defnyddio sgiliau penodol er mwyn cyfrannu at hyfforddi tiwtoriaid, creu deunyddiau i ddysgwyr, cyfrannu at gyrsiau i ddysgwyr neu gynnig cyrsiau arbenigol i ddysgwyr er mwyn cynorthwyo gydag agwedd benodol ar gaffael iaith.

54 Geiriadura a therminoleg

DELYTH PRYS

54.1 Gwahanol fathau o eiriaduron

Mae lexicograffeg, sef gwyddor geiriadura, ynnddi ei hun yn hen iawn, gyda rhestrau geiriau dwyieithog yn cael eu cadw mor bell yn ôl â'r cyfnod o gwmpas 2300 cyn Crist gan y Swmeriaid ([Haywood 1965](#)). Ers hynny, mae'r mathau o eiriaduron sydd ar gael wedi bod yn amrywiol iawn, gan gwmpasu rhai uniaith, rhai dwyieithog ac amlieithog, rhai yn cynnwys diffiniadau, etymoleg, enghreifftiau o ddefnydd geiriau ac ymadroddion, a darluniadau. Gellir cael rhai cryno, byr iawn, a rhai helaeth yn ymestyn i sawl cyfrol. Mathau arbennig o eiriadur yw thesawri, sef geiriaduron o gyfystyron; geiriaduron dysgwyr, sy'n cynnwys yr hyn sy'n cael ei ystyried fel geirfa addas ar gyfer dysgu ail iaith, efallai gyda chanllawiau ychwanegol; a geiriaduron tafodieithol, sy'n gasgliadau o eirfa ardaloedd penodol, fel arfer rhai a gasglwyd o iaith lafar pobl, o'i chyferbynnu â'r iaith safonol, ysgrifenedig. Gellir trefnu geiriaduron yn ôl gwahanol egwyddorion, gan gynnwys fesul pwnc, yn ôl yr odl, neu grwpiau symbolau. Mewn ieithoedd gorllewinol yn y cyfnod modern, y drefn arferol o ddsbarthu geiriau o fewn geiriaduron yw dilyn trefn yr wyddor Ladin. Dim ond mater o gonfensiwn yw hyn. Does dim perthynas o reidrwydd rhwng y drefn o adrodd llythrennau yn y wyddor a defnyddio'r drefn honno i ddsbarthu geiriau o fewn rhestr eiriau neu eiriadur.

Yn Gymraeg, cyhoeddwyd y geiriadur print modern cyntaf, a oedd yn un dwyieithog Saesneg-Cymraeg, o eiddo William Salesbury, yn [1547](#). O hynny hyd at ein dyddiau ni, cyhoeddwyd nifer o eiriaduron o wahanol fathau, y rhan fwyaf ohonynt yn rhai dwyieithog, Cymraeg a Saesneg, a ddylanwadodd yn fawr ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg ([Morgan 2002](#)).

Dau brif raniad o fewn geiriaduron yw rhai **disgrifiadol** (*descriptive*) a rhai **rhagnodol** (*prescriptive*), neu rai cyffredinol a rhai arbenigol ([D. Prys 2015](#)). Mae geiriaduron disgrifiadol neu gyffredinol yn ceisio cyflwyno iaith fel y mae, yn ei holl gyfoeth ac ehangder, tra bo geiriaduron rhagnodol neu arbenigol yn ceisio rhoi arweiniad i'r defnyddiwr ar eirfa benodol i'w defnyddio o fewn maes pwnc arbennig, neu at ddibenion technegol. Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn cael ei gadw'n haearnidd wrth gwrs, ac mae nifer o eiriaduron cyffredinol yn hidlo pa fath o eirfa y maent am ei chynnwys, gan adael allan, er enghraifft, eiriau y maent yn eu hystyried yn sathredig neu'n ansafonol. Mae geiriaduron o bob math hefyd bellach yn ceisio adlewyrchu rhyw fath o safon orgraffyddol, ac felly'n dod yn gyfeirlyfrau pwysig ar gyfer sillafu cywir. Mae geiriaduron rhagnodol, arbenigol, yn cynnwys termau technegol sydd fel arfer wedi bod trwy broses safoni. Yma, ceir pwyslais ar argymhell un term neu ymadrodd safonol sydd i'w

ddefnyddio mewn cyd-destunau technegol er mwyn hwyluso cyfathrebu clir, yn hytrach na chynnig amrywiaeth o gyfystyron a chyd-destunau gwahanol.


Mae geiriaduron hanesyddol yn fath arbennig o eiriadur disgrifiadol sy'n croniclo nid yn unig yr iaith gyfoes ond hefyd yr iaith fel yr oedd hi ganrifoedd yn ôl, a'r datblygiadau sydd wedi digwydd ynddi ers y cyfnod cynharaf y mae tystiolaeth ar gael ar ei chyfer. Ceir geiriadur hanesyddol cynhwysfawr ar gyfer y Gymraeg, sef *Geiriadur Prifysgol Cymru* (R.J. Thomas et al. 1967–2002), sydd bellach yn cael ei ddatblygu a'i ddiweddarau yn electronig. Mae geiriadur dwyieithog neu amlieithog yn un sy'n cynnwys mwy nag un iaith ac yn aml iawn yn cael ei anelu at ddefnydd cyfieithwyr neu ddysgwyr sydd angen gwybod sut mae geiriau'n cyfateb mewn gwahanol ieithoedd. Beth bynnag fo'u ffurf a'u diben, mae geiriaduron fel arfer yn glynu at rai confensiynau cyffredin sy'n eu gwneud yn haws i'w defnyddio.

Prifair (*headword*) yw'r term am unrhyw air neu ymadrodd sy'n gweithredu fel mynegai i gael hyd i ragor o wybodaeth am y gair neu'r uned eiriol honno o fewn geiriadur. Yna, mae'r gair neu'r ymadrodd yn cael ei ddefnyddio i drefnu'r geiriadur yn nhrefn yr wyddor. Yn aml iawn caiff ei argraffu mewn print trwm ar ochr chwith y geiriadur, â gwybodaeth berthnasol yn dilyn. Gyda geiriau y gellir cael llawer o ffurfiau ohonynt mewn iaith (er enghraifft, geiriau wedi'u treiglo yn Gymraeg, berfau wedi'u rhedeg mewn nifer o ieithoedd), defnyddir ffurf graidd y gair fel y prifair. Defnyddir confensiynau gwahanol i benderfynu beth yw'r ffurf graidd mewn iaith benodol. Yn Saesneg, ffurf annherfynol y ferf (*infinitive*) a ddefnyddir fel prifair (e.e. *sing*), ac fel arfer defnyddir y berfenw yn Gymraeg (e.e. *canu*). Weithiau, fodd bynnag, fel gyda *Geiriadur Prifysgol Cymru*, defnyddir person cyntaf presennol y ferf (e.e. *canaf*) fel y prifair.

Cofnod (*entry*) yw'r term a ddefnyddir am bob adran sy'n ymwneud â gair neu ymadrodd unigol o fewn geiriadur, p'un a yw'n un llinell syml sy'n rhoi gwybodaeth gryno am y gair, neu'n baragraff estynedig sy'n cynnwys llawer o wybodaeth. Cofnod, felly, yw'r testun a geir rhwng un prifair a'r prifair nesaf o fewn geiriadur.

Mae'r wybodaeth sy'n dilyn y prifair yn dibynnu ar natur y geiriadur. Lle cynhwysir adran ar **etymoleg** (*etymology*) a / neu darddiad geiriau, daw'r wybodaeth hon yn aml nesaf. Fel arfer, rhoddir gwybodaeth ramadegol ynghylch rhan ymadrodd y gair, ac os yw'n eiriadur dwyieithog, rhoddir y gair **cyfatebol** (*equivalent*) yn yr iaith arall wedyn. Os mai geiriadur uniaith yw, rhoddir **diffiniad** (*definition*) o'r gair, a/neu rhestrir **cyfystyr** (*synonym*) neu gyfystyron ohono. Weithiau rhoddir **brawddegau enghreifftiol** (*example sentences*) i ddarlunio'r gair, ac os mai geiriadur hanesyddol ydyw, bydd y rhain wedi'u cymryd o ddogfennau hanesyddol, gyda'r ffynhonnell a'r dyddiad yn cael eu nodi.

Sylwer bod geiriaduron traddodiadol wedi gorfod cywasgu llawer ar yr wybodaeth o'u mewn er mwyn arbed lle yn y cyfrwng print, ac felly defnyddir **byrfoddau** (*abbreviations*) yn aml lle mae'r wybodaeth yn ailadroddus, er enghraifft, rhannau ymadrodd, ffynonellau, meysydd pwnc, gwybodaeth am ddefnydd. Mae geiriaduron disgrifiadol yn gwneud defnydd helaeth o rifau i ddangos ystyron gwahanol neu is-ystyron dan yr un prifair. Mae hyn yn wahanol i'r ffordd mae geiriaduron rhagnodol wedi'u trefnu fel arfer, lle mae'r cysyniad, yn hytrach na ffurf y gair, yn ganolog, a lle ceir felly gofnod ar wahân i bob cysyniad gwahanol. Mae nifer o eiriaduron traddodiadol hefyd yn defnyddio geiriau unigol yn unig fel prifeiriau. Mewn geiriaduron traddodiadol, felly, ceir ymadroddion aml-air yn is-gofnodion o fewn y prif gofnod. Ni ddefnyddir y confensiwn hwn fel arfer gyda geiriaduron rhagnodol arbenigol, gan y gall cysyniad technegol gynnwys mwy nag un gair, a daw'r uned aml-air honno felly yn brifair ar y cofnod cyfan.



Ffigur 30: Sgrinlun o ran o gofnod o GPC Ar lein 2014 yn dangos y gwahanol adrannau

54.2 Geiriaduron electronig

Roedd dyfodiad geiriaduron electronig ddechrau'r 1990au yn gam mawr ymlaen, gan nad oedd cymaint o bwyslais bellach ar geisio arbed lle, a doedd dim rhaid bod mor gynnil o fewn cofnodion. Does dim angen trefnu geiriadur yn nhrefn yr wyddor, gan fod modd teipio unrhyw air i chwilio am gofnod ar y gair hwnnw. Fodd bynnag, mae dylanwad y confensiynau a ddatblygwyd ar gyfer geiriaduron print mor drwm ar ddefnyddwyr o hyd fel bod y geiriaduron electronig cynnar yn dal i ddilyn nifer ohonynt. Yn raddol bach mae posibiladau newydd technolegau digidol yn llacio gafael y confensiynau hyn, a cheir bellach ffyrdd fwy dyfeisgar o chwilio am wybodaeth a'i dangos.

Ymhlith y datblygiadau hyn mae defnyddio nodweddion chwilio arbenigol i chwilio o fewn ac ar draws cofnodion, ac nid o dan brifeiriau yn unig. Yn Gymraeg, gall hyn gynnwys defnyddio **lemateiddiwr** (*lemmatiser*), nodwedd sy'n gallu adnabod unrhyw ffurf ar air, a'i holrhain yn ôl at y ffurf a ddefnyddir fel prifair. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol mewn ieithoedd fel y Gymraeg, lle mae'n anodd i ddysgwyr a phobl heb gefndir ieithyddol ddeall ac olrhain rhai ffurfiau yn ôl i'r ffurf a ddefnyddir fel prifair mewn geiriadur. Er enghraifft, mae'n anodd i'r anghyfarwydd adnabod *ellir* (ffurf bresennol amheronol y ferf â threigladd meddal) fel ffurf ar y ferf *gallu*. Y geiriadur electronig cyntaf yn y Gymraeg i gynnwys lemateiddiwr oedd CysGair, a oedd yn sgil-gynnyrch i'r gwirydd sillafu a gramadeg CySill, ac a aildefnyddiodd nifer o nodweddion a ddatblygwyd yn wreiddiol ar gyfer y gwirydd hwnnw (D. Prys & Morgan 2000).

Fersiynau electronig o eiriaduron a oedd wedi bodoli cyn hynny mewn print oedd nifer o'r geiriaduron electronig cyntaf, ac roedd ôl confensiynau'r cyfrwng hwnnw i'w weld o hyd arnyn nhw, megis y defnydd cynnil o ofod, gan fod cyhoeddi ar bapur yn ddrud. Roedd rhai o'r geiriaduron hanesyddol cynhwysfawr eisoes yn anferth, gyda'r *Oxford English Dictionary* yn cynnwys ugain cyfrol, a *Geiriadur Prifysgol Cymru* yn cynnwys pedair. Wrth i wyddor geiriadura electronig aeddfedu, dechreuodd ymbellhau oddi wrth eiriaduron print, er enghraifft wrth hwyluso croesgyfeirio drwy gyfrwng **hypergyssylltiadau** (*hyperlinks*), cynnwys mwy o enghreifftiau o ddefnydd, a mwy o ddeunydd darluniadol i esbonio geiriau a chysyniadau.

Mae'n debyg mai'r geiriadur electronig cyntaf yn y Gymraeg oedd un dwyieithog (Cymraeg–Saesneg) **Nodine** (1990au) a ddatblygwyd yn wreiddiol ar gyfer dysgwyr. Nid yw bellach ar gael ar-lein. Roedd *CysGair* ar y llaw arall ar gael yn gyntaf ar gyfer defnydd electronig lleol, all-lein, a hynny ar **ddisgiau hyblyg** (*floppy discs*), ac nid yw erioed wedi'i gyhoeddi fel geiriadur ar bapur. Ddechrau'r ganrif hon adeiladwyd ar lwyfan electronig *CysGair* i greu fersiwn CD o *Y Termiadur Ysgol* (D. Prys & J.P.M. Jones 1998), a oedd wedi'i gyhoeddi'n wreiddiol ar bapur. Roedd hyn yn gymharol hawdd am ei fod wedi'i ddatblygu o'r dechrau ar ffurf cronfa ddata eiriadurol bwrpasol, a'i fod yn medru benthg nifer o nodweddion y geiriadur electronig *CysGair*.

Erbyn hyn mae technoleg CD hefyd wedi cael ei disodli gan dechnolegau mwy diweddar, gan gynnwys technoleg ar-lein, lle gellir chwilio geiriadur drwy'r rhyngwrdd â'r gronfa ddata eiriadurol yn cael ei chadw ar weinydd pell ar y we fyd-eang. Ceir hefyd dechnoleg apiau, sy'n caniatáu i eiriadur gael ei lwytho i lawr o'r we a'i osod yn lleol ar dabled neu ffôn symudol. Mae *Y Termiadur Addysg* bellach ar gael ar lein ar ei wefan ei hun, ar wefan *Y Porth Termau Cenedlaethol* ac fel geiriadur y gellir ei ddarllen heb gyswllt gwe o fewn yr *Ap Geiriaduron* (2012).

Yn 2012 cyhoeddwyd fersiwn ar-lein o *Geiriadur yr Academi* (Griffiths, D.G. Jones & Academi

Gymreig 1995). Mae hwn yn eiriadur cyffredinol cyfoes sy'n gweithio o'r Saesneg i'r Gymraeg, ac roedd creu fersiwn digidol ohono yn dipyn mwy o waith na digido'r geiriaduron termau gan nad oedd y geiriadur wedi'i ddatblygu yn wreiddiol mewn cronfa ddata nag ychwaith i fod yn eiriadur digidol. Fodd bynnag, mae'r geiriadur ar-lein yn cynnwys nodweddion ychwanegol defnyddiol nad oedd modd eu cynnwys mewn geiriadur print, gan gynnwys y gallu i chwilio am eiriau ac ymadroddion o fewn corff cofnodion gwahanol. Gan fod rhai cofnodion yn y geiriadur hwn yn helaeth iawn (er enghraifft, mae'r cofnod am '*self*' yn cymryd bron i bum tudalen yn y fersiwn papur), gall fod yn anodd canfod gwybodaeth o'u mewn. Ond mae'r cyfrwng electronig yn hwyluso hynny gyda nodweddion 'chwilio uwch' ac mae modd felly chwilio am gyfieithiadau, nid o dan y prif air yn unig, ond o fewn corff cofnodion ar wasgar drwy'r geiriadur.

Yn 2014 cyhoeddwyd y fersiwn electronig, ar-lein cyntaf o *Geiriadur Prifysgol Cymru* (R.J. Thomas et al. 1967–2002). Mae hwn yn eiriadur hanesyddol cynhwysfawr o'r iaith Gymraeg. Ar ôl dechrau gweithio arno yn 1948, cyhoeddwyd y rhan gyntaf ar bapur yn 1967, gyda rhifynnau dilynol yn cael eu cyhoeddi bob yn dipyn hyd nes i'r geiriadur cyfan gael ei gwblhau yn 2002. Mae'r geiriadur cyfan ar gael hefyd ar ffurf pedair cyfrol fawr, gydag atodiadau ac adolygiadau yn cael eu cyhoeddi'n gyson ar ffurf rhifynnau byr hyd at 2013. Unwaith eto, roedd maint y geiriadur yn ei gwneud hi'n anodd chwilio'n gyflym ac yn drylwyr o'i fewn, ac roedd ei bris hefyd y tu hwnt i lawer o ddefnyddwyr cyffredin. Mae'r fersiwn electronig yn llawer haws i chwilio ynddo, gyda'r modd i groesgyfeirio a sboncio o un cofnod i'r llall yn hwylus. Yn 2016 cyhoeddwyd fersiwn ohono hefyd fel ap ar gyfer tabledi a ffonau symudol. Felly, nid oes angen bellach bod ynghlwm wrth gyfrifiadur na chael mynediad at gyswllt gwe cyn medru ei ddefnyddio.

Mae'r dull o ysgrifennu a chynnull geiriaduron hefyd yn newid oherwydd posibiliadau newydd y cyfryngau electronig. Gellir chwilio'n hawdd am eiriau newydd sy'n dod i'r iaith drwy ddulliau corpws. Golyga hyn fod technoleg cymharu geiriau sydd eisoes yn y lecsicon â chorpws electronig, o bapurau dyddiol, er enghraifft, yn gallu canfod eitemau sydd ddim yno ar unwaith, gan adnabod y geiriau o'u cwmpas er mwyn astudio'r cyd-destun a deall yr ystyr. Gall y dulliau hyn hefyd gyfrif **amlder geiriau** (*word frequency*) yn y corpws, sy'n gymorth i wybod pa eiriau yw'r pwysicaf i'w cynnwys mewn geiriadur ar gyfer dysgwyr, dyweder, neu eiriadur sy'n canolbwyntio ar eirfa graidd.

Mae systemau ysgrifennu geiriadur, er enghraifft Maes T, yn galluogi tîm gwasgaredig o olygyddion i gydweithio ar eiriadur heb orfod bod yn bresennol gyda'i gilydd yn yr un lle. Mae systemau fel hyn fel arfer yn gweithio yn y cwmwl (ar y we), heb fod angen gosod meddalwedd arbennig yn lleol, ac yn storio'r wybodaeth ar weinyddion canolog. Mae modd cyhoeddi'n syth ar-lein yn weddol ddiraffferth o systemau fel hyn, sy'n galluogi cofnodion i gael eu cyhoeddi un ar y tro, neu mewn sypynnau bach, heb orfod aros nes bod digon o ddeunydd i gyhoeddi cyfrol gyfan fel yn achos yr hen eiriaduron print.

Erbyn hyn, os yw geiriadur yn cael ei ddatblygu mewn cronfa ddata bwrpasol ar gyfer gwaith geiriadur, nid yw'n gaeth i un cyfrwng cyhoeddi. **Meistr gronfa** yw'r enw ar y gronfa ganolog, ac o'r gronfa hon gellir cyhoeddi mewn mwy nag un cyfrwng, er enghraifft, ar bapur, ar lein, ar ffurf ap, ac o bosib o fewn technolegau eraill sydd heb eu datblygu eto. Mae hyn yn bwysig ar gyfer ieithoedd lleiafrifol lle mae pwyslais ar gael yr adnoddau iaith hanfodol hyn o fewn cyrraedd pawb yn y ffordd hawsaf, fwyaf eang posibl.

55 Cyfieithu a thechnoleg cyfieithu

MYFYR PRYS

Mae hanes cyfieithu yng Nghymru yn dyddio yn ôl i'r Oesoedd Canol, lle roedd **cyfieithu ar y pryd** (*simultaneous translation*) yn angenrheidiol i'r Cymry uniaith oedd am gyfathrebu mewn meysydd ffurfiol, yn y llysoedd barn, er enghraifft (Kaufmann 2009). Yn gyffredinol, nid oedd llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweld llawer o werth mewn cyfieithu dogfennau i'r Gymraeg oherwydd y canfyddiad poblogaidd mai Saesneg oedd iaith briodol bywyd cyhoeddus. Dechreuodd hyn newid ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan ddechreuodd aelodau'r llywodraeth boeni nad oedd modd i'r Cymry Cymraeg ddeall dogfennau deddfwriaethol, ac arweiniodd hyn at gyfieithu “adroddiadau, hysbysiadau, crynodebau, rheolau arbennig, posteri, taflenni a rhai deddfau hyd yn oed” (Andrews 2015:1).

Er hyn, parhaodd cyfieithu yn weithgaredd achlysurol yn unig tan ganol yr ugeinfed ganrif. Sbardun y newid y tro hwn oedd pwysau o du'r cyhoedd, gyda phrotestiadau Cymdeithas yr Iaith yn arwain at ddeddfwriaeth newydd a ehangodd y gofyn am gyfieithiadau Cymraeg gam wrth gam (Screen 2018:7). Ymddangosodd y cyfieithwyr proffesiynol cyntaf gydag agor uned gyfieithu'r Swyddfa Gymreig yn 1966 (Andrews 2015:7). Roedd cyfieithu yn y dyddiau cynnar hynny'n wahanol iawn i'r hyn ydyw heddiw. Yn un peth, doedd gan y cyfieithwyr ddim rhwydwaith o gyfieithwyr eraill i drafod termau a materion tebyg â nhw (Andrews 2015:2). Prin iawn hefyd oedd unrhyw dechnoleg ar gyfer hwyluso'r broses gyfieithu (Andrews 2015:10). Golygai hyn ddau beth. Yn gyntaf, roedd cyfieithwyr yn ynysig ac felly'n fwy tebygol o gynhyrchu cyfieithiadau anghyson ac o ailadrodd gwaith (bathu termau ac ati) a oedd eisoes wedi'i gyflawni gan rywun arall (Andrews 2015:8). Yn ail, roedd y broses gyfieithu yn arafach, ac yn golygu y gellid cyfieithu llai o waith yn gyffredinol. Ar y pryd, serch hynny, roedd y gofyn am gyfieithiadau o'r Gymraeg i'r Saesneg yn llawer llai nag y mae heddiw.

Newidiodd y sefyllfa hon yn raddol o'r wythdegau ymlaen. Sefydlwyd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn 1976 i hwyluso rhwydweithio rhwng cyfieithwyr ac erbyn hyn mae'r sefydliad yn cynnig profion ar gyfer achredu cyfieithwyr proffesiynol (Prys Jones 2015:91). Ymddangosodd cyfrifiaduron mewn swyddfeydd yng Nghymru yn yr wythdegau cynnar, ac fe gafodd hyn effaith sylweddol ar y gallu i gyfieithu dogfennau'n gyflymach. Tyfodd y diwydiant y tu hwnt i'r sector cyhoeddus gyda sefydlu cwmnïau preifat megis Cymen, Prysg a Trosol (Andrews 2015:17).

Yn y nawdegau gwelwyd cynnydd pellach gyda Deddf Iaith 1993, a bennodd fod fersiynau dwyieithog, Cymraeg a Saesneg, yn orfodol yn y sector cyhoeddus, ac mae Mesurau Iaith 2011 wedi arwain at rywfaent o bwysau ar rannau o'r sector preifat (hynny yw, cwmnïau a busnesau) i sicrhau hynny. Daeth cam pwysig arall ar ddiwedd y nawdegau gyda sefydlu llywodraeth ddatganoledig i Gymru ar ffurf y Cynulliad Cenedlaethol, gyda'r holl oblygiadau a

ddilynodd o ran cynyddu'r galw am gyfieithiadau a phroffesiynoli'r diwydiant (Screen 2018:9). Heddiw, mae hybu'r diwydiant cyfieithu'n rhan ganolog o bolisi swyddogol Llywodraeth Cymru, gyda'i strategaeth iaith ddiweddaraf, 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr', yn datgan bod "Llywodraeth Cymru'n awyddus i weld y proffesiwn yn esblygu ac yn addasu ar gyfer y dyfodol [...] wrth i'r Gymraeg gael ei normaleiddio fwyfwy" (Llywodraeth Cymru 2018:73). Ar y cyfan, mae'r sector preifat wedi'i eithrio rhag unrhyw ddeddfwriaeth sy'n eu gorfodi i gyfieithu i'r Gymraeg, ond gan mai ffactorau gwleidyddol sydd wedi siapio'r galw am gyfieithu yng Nghymru hyd yma, mae'n bosib y gallai hyn newid ryw ddydd. Ers ei sefydlu yn y chwedegau, felly, mae'r diwydiant wedi ymbroffesiynoli, wedi tyfu ac wedi mabwysiadu technoleg i raddau helaeth.

55.1 Strategaethau cyfieithu

Un o'r dadleuon damcaniaethol pwysicaf o ran cyfieithu i'r Gymraeg heddiw yw'r tyndra rhwng cyfieithu ffurfiol a chyfieithu semantig (Prys Jones 2015:95). Mae cyfieithiadau ffurfiol yn cyfleu'r gwreiddiol yn llythrennol, gan roi llai o bwyslais ar gyfleu'r **cynodiadau** (*connotations*). Mae'r strategaeth hon yn arbennig o flaenllaw wrth gyfieithu'r dogfennau biwrocraidaidd sy'n nodweddiadol yn y diwydiant cyfieithu modern yng Nghymru. Wrth gyfieithu darn o ddeddfwriaeth er enghraifft, mae'n bwysig cyfleu'r ffaith fod y cyfieithiad yn gyfwerth â'r gwreiddiol yng ngolwg y gyfraith. Oherwydd hyn gall cyfieithydd fod yn gyndyn o symud yn rhy bell oddi wrth ffurf y darn gwreiddiol.

Yr ail strategaeth yw canolbwyntio ar gyfleu ystyr ac arwyddocâd y testun gwreiddiol. Gellir gweld y tueddiad hwn mewn cyfieithiadau o ddeunyddiau marchnata megis sloganau. Wrth greu hysbyseb, mae cyfleu teimlad y gwreiddiol yn aml yn bwysicach na chyfleu ei ffurf, ac mae'r defnydd o ddywediadau'n gallu bod yn arbennig o anodd i'w cyfieithu'n llythrennol beth bynnag. Un enghraifft adnabyddus o'r strategaeth hon yw cyfieithiad Moc Rogers o slogan BT 'Make someone happy with a phone call', sef 'Codi Ffôn i Godi Calon'. Fel y dywed Prys Jones (2015:95), er mai dim ond un gair sy'n gyffredin rhwng y cyfieithiad a'r gwreiddiol, mae'n cyfleu'r teimlad yn well nag y byddai cyfieithiad llythrennol clogyrnaidd megis 'Gwnewch rhywun yn hapus â galwad ffôn' wedi'i wneud.

Mater pwysig arall yw'r defnydd o hyblygrwydd cywair wrth gyfieithu. Mae cyfieithwyr yn tueddu i gyfieithu mewn cywair a elwir yn Gymraeg llenyddol, sy'n seiliedig ar ffurfiau ysgrifenedig, safonol o'r iaith. Nid yw hon yn iaith y gellir ei chlywed ar lafar yng Nghymru heddiw; mae'n rhaid darllen (ac ysgrifennu, efallai) er mwyn ei chaffael, ac mae'n debyg nad oes llawer o Gymry Cymraeg yn gwneud hynny (Gruffudd 2015). Yn ôl Trefor (2015), un o elfennau pwysicaf cyfieithu i'r Gymraeg yw'r gallu i ddilyn '**teithi'r iaith**', sef rheolau gramadegol Cymraeg llenyddol. Ystyrir bod gallu ysgrifennu yn y ffordd hon yn hollbwysig i unrhyw gyfieithydd sydd am ymgymryd â gyrfa broffesiynol. Daw tystiolaeth am hyn o waith Wooldridge (2015) a astudiodd gorpws o bapurau arholiad cyfieithwyr oedd wedi ymgeisio am aelodaeth Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Bwriad yr ymchwil oedd egluro pam mae cynifer o gyfieithwyr yn methu'r arholiadau hyn bob blwyddyn. Datgelodd y dadansoddiad fod "mwy o wallau iaith na'r disgwyl wrth gymharu â chyfieithu i brif iaith" (Wooldridge 2015:112) yng ngwaith yr ymgeiswyr. Cafodd yr ymgeiswyr drafferth arbennig gyda nodweddion gramadegol fel y fannod, y treigladau (yn enwedig ar ôl rhagenwau blaen) a chyflenwi berfau, enwau ac ansoddeiriau. Pwysleisiodd Wooldridge fod dylanwad y Saesneg yn amlwg yn y gwallau, a bod hyn yn deillio o'r anghydbwysedd

cymdeithasol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru, sy'n ei gwneud hi'n anodd i siaradwyr Cymraeg gaffael nodweddion Cymraeg safonol yn llawn.

Mae hyn yn broblem amlwg i'r diwydiant cyfieithu yng Nghymru, gan ei bod hi'n hollbwysig cynnal safon cyfieithu i'r Gymraeg, ond yn yr un modd mae'n debyg fod angen osgoi sefyllfa lle nad yw siaradwyr Cymraeg arferol yn gallu deall y cyfieithiadau sy'n cael eu cynhyrchu. Yn ôl [Gruffudd \(2015\)](#) yr ateb yw datblygu **cyfieithu cyfathrebol** (*communicative translation*), lle mae'r cywair yn cael ei addasu i gyfateb i'r gynulleidfa berthnasol. Mewn dadansoddiad byr, mae [Gruffudd](#) yn dangos bod iaith darllen nifer o destunau Cymraeg yn uchel iawn mewn llawer o ddogfennau sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd, gyda dogfennau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) yn gofyn am radd doethuriaeth i'w darllen. Awgrym [Gruffudd](#) yw y dylid cyfieithu'r rhan fwyaf o ddogfennau i'r cywair y mae'n ei alw'n Anffurfiol/Llafar gofalus.

Enghreifftiau o gyweiriau

Ffurfiol iawn: Ni wn

Ffurfiol: Nid wyf i'n gwybod

Lled ffurfiol: Nid wy'n gwybod

Anffurfiol / Llafar gofalus: Dw i ddim yn gwybod

Anffurfiol iawn / tafodieithol: Smo fi'n gwplod

Llafar: Mbo

Yn ôl [Gruffudd](#), dyma'r cywair "sydd agosaf at yr hyn y mae modd ei ystyried yn iaith lafar safonol a hefyd at ffurf ysgrifenedig dderbyniol" ([Gruffudd 2015:112](#)), ac mae'n awgrymu y dylid ei fabwysiadu ar gyfer cyfieithu deunydd sydd wedi'i anelu at y cyhoedd yn y dyfodol.

Yr ymgais systematig ddiweddaraf i ddatblygu cywair sy'n fwy hygyrch i siaradwyr Cymraeg arferol yw 'Cymraeg Clir' ([C. Williams 1999](#)), canllaw a ddatblygwyd gan Ganolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor. Ymysg awgrymiadau'r awdur mae osgoi "ffurfiau sydd bron wedi marw allan ar lafar" (1999:4), sy'n cynnwys berfau amheronol (e.e. *dywedir*, *cyhoeddwyd*), ffurfiau cryno 3ydd person unigol presennol y ferf (e.e. *caiff*, *dywed*), a geiriau anghyffredin pan nad ydyn nhw'n ofynnol (e.e. y gair *annedd* yn lle *tŷ*). Wrth drafod cyfieithu yn benodol, mae'r awdur yn cynnig strategaethau i osgoi efelychu patrwm gramadegol y Saesneg a chyfleu'r ystyr yn glir yr un pryd.


Saesneg	Children in the 6 to 8 year-old age range are naturally still orientated towards their own homes and families
Cyfieithiad 1	Mae plant yn yr amrediad oedran 6 i 8 oed yn naturiol wedi eu cyfeiriadu tuag at eu cartrefi eu hunain a'u teuluoedd
Cyfieithiad 2	Mae bywyd plant 6-8 oed yn troi o amgylch eu cartrefi a'u teuluoedd.

Tabl 13: Enghraifft o strategaethau cyfieithu o ganllaw 'Cymraeg Clir' ([C. Williams 1999](#))

Er enghraifft, yn [Nhabl 13](#) gellir gweld dau gyfieithiad o'r un testun. Er bod Cyfieithiad 1 yn dechnegol dderbyniol, mae'r ail gyfieithiad yn gwella arno'n sylweddol drwy ganolbwyntio ar ystyr y gwreiddiol yn hytrach na chyfieithu pob elfen yn llythrennol. Mae hyn yn caniatáu i'r cyfieithydd aildrefnu'r ymadroddion a disodli geiriau diangen, gan arwain at gyfieithiad sy'n fwy rhugl ac yn haws i'w ddarllen.

55.2 Technoleg cyfieithu

Ymysg ei hawgrymiadau ynghylch sut i wella safon cyfieithu ymgeiswyr yn y dyfodol, awgrym-odd [Wooldridge](#) fod angen i gyfieithwyr gael “hyfforddiant o ran sut i ddefnyddio geiriaduron, corpora cyfochrog a gwirwyr sillafu a gramadeg” ([Wooldridge 2015:111](#)). Mae'r defnydd o gymhorthion cyfieithu yn cynnig buddiannau sylweddol i gyfieithwyr, gydag adroddiad diweddar yn honni y gallent gynyddu nifer y testunau a gyfieithir 40% ac arbed 20% mewn amser gweinyddol ([D. Prys et al. 2016:4](#)). Rhennir yr adnoddau pwysicaf yn dair elfen—**coffon cyfieithu**, **peiriannau cyfieithu** a **chronfeydd termau**. Fel arfer, bydd yr elfennau hyn yn cael eu casglu at ei gilydd mewn un rhyngwyneb, a elwir yn **offeryn CAT** (*computer assisted translation tool*). Ar hyn o bryd mae sawl pecyn CAT ar gael ar y farchnad, â'r rhan fwyaf yn gofyn am dalu trwydded. Enghreifftiau o'r rhai mwyaf blaenllaw yw *SDL Trados Studio*, *Déjà Vu*, *Wordfast* ac *OmegaT*.



Ffigur 31: Sgrinlun o gyfieithu peirianyddol yn Trados Studio

Prif egwyddor systemau **cof cyfieithu** (*translation memory*) yw na ddylai cyfieithydd fyth orfod cyfieithu'r un testun fwy nag unwaith. Mae'r system yn gweithio drwy ychwanegu pob dogfen a gyfieithir at storfa yn y cof, sydd wedi'i rhannu'n segmentau. Pan fydd y cyfieithydd yn gweithio ar ddogfen newydd, bydd y rhyngwyneb cyfieithu yn chwilio yn y cof am batrymau tebyg sydd wedi cael eu cyfieithu o'r blaen. Os bydd yn canfod segment sy'n cyfateb yn agos i'r hyn sy'n cael ei gyfieithu, gall y rhaglen gynhyrchu'r segment yn awtomatig, naill ai'n rhannol neu'n llawn, gan ddibynnu ar y math o gyfatebiaeth. Yn gyffredinol gellir rhannu'r cyfatebiaethau hyn yn dri math. Mae **cyfatebiaethau llawn** (*exact matches*) yn cyfateb yn union i segment sydd eisoes yn bodoli yn y cof. Mae **cyfatebiaethau rhannol** (*partial matches*) yn cyfeirio at segmentau yn y cof sy'n eithaf gwahanol i'r segment ffynhonnell dan sylw, ond sy'n dal yn ddefnyddiol. Os nad yw'r segment yn cynnwys digon o destun defnyddiol, gelwir hyn yn **dim cyfatebiaeth** (*no match*).

Defnyddiodd [Screen \(2018\)](#) ddadansoddiad arbrolfol er mwyn mesur manteision defnyddio systemau cof cyfieithu. Rhannodd wyth cyfieithydd yn ddau grŵp, gyda'r grŵp cyntaf yn

gweithio'n llawrydd heb unrhyw gymhorthion (y grŵp rheoli) a'r ail yn addasu cyfatebiaethau rhannol o gof cyfieithu (y grŵp arbrofol). Dangosodd yr arbrawf fod y grŵp arbrofol yn llawer mwy cynhyrchiol, gan gynhyrchu dros ddwbl y geiriau fesul munud o'i gymharu â'r grŵp rheoli. Er y buddion amlwg a welir, mae cyfieithwyr yng Nghymru wedi bod yn gymharol araf i fanteisio ar yr adnoddau hyn. Yn arolygon [D. Prys et al. \(2009\)](#) ac ([Andrews 2010](#)) o gyfieithwyr, adroddwyd mai dim ond 50% a 47% o'r ymatebwyr oedd yn defnyddio technoleg cof cyfieithu. Gellir cymharu hyn ag arolwg [Lagoudaki \(2006\)](#) a adroddodd ffigur o 86% ar gyfer y diwydiant rhyngwladol.

55.3 Cyfieithu peirianyddol

Mae cyfieithu peirianyddol yn dechnoleg sy'n galluogi cynhyrchu cyfieithiadau awtomatig o segmentau mewn dogfen, hyd yn oed os nad yw'r peiriant a ddefnyddir wedi 'gweld' y segmentau hyn o'r blaen. Mae'r dull a ddefnyddir i wneud hyn yn amrywio. Hyd at ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, y prif ddull a ddefnyddid oedd **cyfieithu peirianyddol ar sail rheolau** (*rule-based machine translation* neu *RBMT*). Ers troad y ganrif, daeth **cyfieithu peirianyddol ar sail ystadegau** (*statistical machine translation* neu *SMT*) yn fwy effeithlon nes ei gwneud hi'n bosib i gyfieithwyr proffesiynol ddefnyddio'r dechnoleg yn eu gwaith bob dydd. Yn y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf mae math newydd, arloesol wedi codi, sef **cyfieithu peirianyddol ar sail rhwydweithiau niwral** (*neural machine translation* neu *NMT*).

Y ddwy brif safon a ddefnyddir wrth werthuso cyfieithiadau fel arfer yw **rhuglder** (*fluency*) a **digonolrwydd** (*adequacy*) ([White et al. 1994](#)). Mae rhuglder yn cyfeirio at elfennau fel cywirdeb gramadegol a naturioldeb yr iaith. Bydd cyfieithiad hollol rugl yn un sy'n cyfateb i iaith siaradwr iaith gyntaf. Nid yw cyfieithiad yn rhugl os yw'n ymddangos yn od ac yn glogyrnaidd i ddarllenwyd, hyd yn oed os yw'n cynnwys yr wybodaeth gywir. Mae digonolrwydd yn ystyried p'un a yw'r cyfieithiad wedi cadw at ystyr y frawddeg a gyfieithir. I fod yn ddigonol, felly, rhaid i'r cyfieithiad adlewyrchu ystyr y frawddeg wreiddiol mor agos â phosib. Er enghraifft, nid yw'r cyfieithiad yn ddigonol os oes rhannau o'r neges wreiddiol ar goll, wedi'u newid neu wedi'u hychwanegu ([Koehn 2010:218](#)). Un dull a ddefnyddir mewn gwerthuso dynol yw cynnig graddfa 1–5 ar gyfer y ddwy safon. Hynny yw, ar gyfer pob cyfieithiad unigol, bydd beirniaid dynol yn rhoi sgôr o 1 (dim ystyr) i 5 (yr holl ystyr) wrth raddio digonolrwydd, a sgôr o 1 (annealladwy) i 5 (rhugl) wrth raddio rhuglder.

Defnyddio beirniaid dynol oedd yn arferol tan droad y ganrif, ond roedd sawl anfantais amlwg yn gysylltiedig â hyn ([Koehn 2010:222](#)). Mae'n tueddu i fod yn ddud iawn, ac yn gallu cymryd hyd at fisoedd i'w weithredu. Mae pobl hefyd yn gallu bod yn anghyson wrth werthuso, oherwydd ffactorau megis personoliaeth yr unigolyn, eu teimladau ar y diwrnod, ac yn y blaen. Mae systemau awtomatig yn cynnig ffordd o osgoi'r problemau hyn. Y metrig mwyaf poblogaidd ar hyn o bryd yw BLEU ([Papineni et al. 2002](#)), sy'n gweithio drwy gymharu cyfieithiadau peiriant â chyfieithiadau o'r un testun sydd wedi cael eu cynhyrchu gan gyfieithydd dynol (cyfieithiadau cyfeiriadol). Mae'r system yn rhoi sgôr i gyfieithiad y peiriant drwy gyfrif nifer y geiriau a'r ymadroddion sy'n cyfateb yn uniongyrchol rhwng cyfieithiad y peiriant a'r cyfieithiadau dynol. Mewn geiriau eraill, y mwyaf o eiriau ac ymadroddion sy'n cyfateb i'r cyfieithiad dynol, yr uchaf fydd ei sgôr BLEU. Hefyd, y mwyaf o eiriau sy'n cyfateb yn yr union drefn ddilyniannol, yr uchaf fydd ei sgôr BLEU.

Mesurir sgôr BLEU ar raddfa rhwng 0 ac 1, neu 0% a 100%. Mae sgôr dan 15% yn cynrychioli peiriant nad yw'n gallu darparu cyfieithiadau defnyddiol, oni bai fod y cyfieithydd yn gwneud

llawer iawn o ôl-olygu. Ystyrir bod peiriannau sy'n cyrraedd sgorau rhwng 15% a 30% yn gallu cynhyrchu testun dealladwy heb ddiffygion amlwg. Mae sgôr dros 50% yn cynrychioli cyfieithiad rhugl (Wolk & Marasek 2015:5). Mae effeithlonrwydd BLEU wedi'i brofi mewn arbrofion lle roedd sgorau BLEU yn cydberthyn yn weddol agos â gwerthusiadau gan feirniaid dynol (Koehn 2004).

Gan ei fod yn anwybyddu ffactorau fel ystyr a chystrawen yn gyfan gwbl, mae BLEU yn tueddu i anwybyddu pwysigrwydd cymharol rhai geiriau. Er enghraifft, gall geiriau sy'n ramadegol allweddol, fel y gair Saesneg *not*, newid ystyr brawddeg yn llwyr os nad yw'n cael ei gynnwys mewn cyfieithiad, ond nid yw BLEU yn gwahaniaethu rhyngddo ac unrhyw air arall (Koehn 2010:229). Am resymau sy'n gysylltiedig â hyn, efallai, mae rhai achosion lle mae BLEU wedi methu canfod gwallau a oedd yn amlwg i feirniaid dynol—er enghraifft mewn cystadleuaeth cyfieithu o'r Saesneg i'r Arabeg yn 2005 (Koehn 2010:231). Beirniadaeth arall yw bod sgorau BLEU yn rhy haniaethol—hynny yw, mae cynifer o is-ffactorau'n cyfrannu at y sgôr derfynol fel ei bod yn anodd gweld sut yn union y cafodd y sgôr ei chyfrifo (Koehn 2010:229). Oherwydd hyn, mae ymchwilwyr megis Snover et al. (2006) wedi dadlau bod BLEU yn or-gymhleth. Er mai BLEU yw'r system werthuso fwyaf poblogaidd o hyd, mae sawl dewis amgen wedi ymddangos yn y degawd diwethaf sy'n gwella arni mewn ffyrdd penodol.


Un o'r rhain yw TER (*Translation Edit Rate*), sydd yn aml yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â BLEU. Diffinnir TER fel y nifer lleiaf o olygiadau unigol fyddai eu hangen i newid cyfieithiad peiriant nes y byddai'n cyfateb yn union i gyfieithiadau cyfeiriadol, wedi'i normaleiddio yn ôl hyd cyfartalog y cyfeiriad (Snover et al. 2006:3).

$$\text{TER} = \frac{\text{Nifer cyfartalog y golygiadau}}{\text{Nifer cyfartalog y geiriau sydd yn y cyfeiriad}}$$

Mae'r cysyniad o 'olygiad' yma yn cynnwys pob gweithred o ddileu, mewnosod a chyfnwid sy'n cael ei gweithredu ar eiriau unigol, yn ogystal â phob gweithred o symud dilyniannau o eiriau. Gan fod pob gweithred ychwanegol yn arwydd o fwy o bellter rhwng y rhagdybiaeth a'r cyfeiriad, ystyrir sgôr isel yn well na sgôr uchel. System boblogaidd arall yw METEOR (*Metric for Evaluation of Translation with Explicit Ordering*) a ddatblygwyd gan Banerjee & Lavie (2005). Mae'n fwy manwl na BLEU, ac mae'n cyfateb y rhagdybiaeth a'r gwreiddiol ar bedair lefel—geiriau, geirynnau, ystyr ac ymadroddion. Yn ôl Banerjee & Lavie (2005), mae gan METEOR well cydberthyniad â beirniadaeth ddynol na BLEU. Un anfantais i METEOR yw ei fod yn llai hyblyg na BLEU, ac mae'n weddol gyfyngedig o ran ei ddefnydd gydag ieithoedd llai cyffredin fel y Gymraeg.

Y tu hwnt i fesur ansawdd peiriannau cyfieithu penodol, mae rhai ymchwilwyr wedi mesur y buddion cyffredinol y mae cyfieithu peirianyddol yn eu cynnig i gyfieithwyr. Yn y cyddestun Cymraeg, mae (Screen 2018) wedi mesur rhai o'r buddion hyn mewn arbrawf diweddar. Cymharodd wyth cyfieithydd profiadol wrth iddyn nhw ddefnyddio pedwar dull cyfieithu. Mesurwyd y cyfieithwyr yn gyntaf wrth gyfieithu heb unrhyw gymhorthion technolegol, yna wrth ôl-olygu cyfatebiaethau rhannol a llawn o gof cyfieithu, ac yn olaf wrth ôl-olygu segmentau a gynhyrchwyd gan y peiriant cyfieithu Google Translate. Wrth fesur nifer y geiriau a gyfieithwyd fesul munud (WPM), fe gyfieithwyd tua thair gwaith yn fwy o eiriau fesul munud wrth ôl-olygu allbwn y peiriant cyfieithu o'i gymharu â chyfieithu heb gymhorthion, a thua dwywaith yn fwy nag wrth ôl-olygu'r cyfatebiaethau rhannol o gof cyfieithu (gweler Ffigur 32 isod). Ymysg ei ganfyddiadau eraill, cafodd fod y testunau cyfieithu peirianyddol a ôl-olygwyd yn fwy cyson nag unrhyw ddull arall (2018:250), ac nad oedd gwahaniaeth sylweddol rhwng

ansawdd testunau'r peiriant cyfieithu a'r testunau hynny a gyfieithwyd heb gymhorthion (2018:255).



Ffigur 32: Cymhariaeth rhwng nifer y geiriau a gyfieithwyd fesul munud ar draws pedwar dull cyfieithu (Screen 2018:191)

56 Technolegau iaith

DELYTH PRYS

Mae technolegau iaith yn wyddor sy'n dal yn eithaf newydd ac yn datblygu'n gyflym wrth i dechnoleg a chyfathrebu digidol dyfu a dod yn fwyfwy pwysig yn ein bywydau bob dydd. Mae'n faes amlddisgyblaethol, yn cwmpasu gwyddorau cyfrifiadurol ac ieithyddol, a'r ffordd hawsaf i feddwl amdano yw ei fod yn cwmpasu'r byd lle mae ieithoedd dynol yn dod i gysylltiad â chyfrifiaduron a thechnoleg gwybodaeth, neu lle mae angen i bobl ryngweithio â chyfrifiaduron (D.B. Jones et al. 2019).

Mae **prosesu iaith naturiol** (*natural language processing* neu NLP), **ieithyddiaeth gyfrifiadurol** (*computational linguistics*), **technoleg lleferydd** (*speech technology*) a **deallusrwydd artiffisial** (*artificial intelligence*) yn feysydd sy'n gorgyffwrdd â thechnolegau iaith, ac nid

yw'r ffin rhyngddynt yn bendant. Fodd bynnag, mae defnyddio'r term 'technolegau iaith' yn aml yn awgrymu gogwydd ymarferol i'r maes, lle mae ymchwil academiaidd yn arwain at gymwysiadau diwydiannol a chynnyrch ymarferol i gynorthwyo pobl i gyfathrebu â'i gilydd drwy ddulliau digidol, ac i gyfathrebu â chyfrifiaduron a dyfeisiau digidol eraill.

Mae technolegau iaith yn ffynnu ym mhrif ieithoedd gorllewinol y byd, yn enwedig yn Saesneg, yr iaith gyntaf i gael ei defnyddio mewn cyfrifiadureg ac ar y rhyngwrwd, ac sy'n dal ymhell ar y blaen o ran yr adnoddau cyfrifiadurol sydd ar gael ynnddi (Ananiadou 2012). Ceir ieithoedd eraill, megis pob un o brif ieithoedd cynhenid India, sydd, er eu bod yn cael eu siarad gan niferoedd mawr, ymhell ar ei hôl hi o ran technoleg iaith, gan nad oes gan eu siaradwyr gymaint o fodd i brynu'r dechnoleg ddiweddaraf. Mewn rhai amgylchiadau, nid oes ganddynt gyswllt hawdd â chyflenwad thrydan, y we, ac angenrheidiau eraill isadeiledd y byd datblygedig. Mae ieithoedd eraill, fel yr Islandeg, yn cael eu siarad gan nifer bach iawn o bobl, ac felly heb fod o ddiddordeb masnachol mawr, er eu bod yn perthyn i'r byd datblygedig. Os ydynt yn ieithoedd lleiafrifol, fel y Gymraeg, a heb fod yn ieithoedd swyddogol, maent hefyd yn dioddef o ddiffyg statws, ac mae'n rhaid gwneud ymdrechion arbennig i'w diogelu yn y byd digidol.

Gelwir yr ieithoedd hyn gyda'i gilydd yn **ieithoedd llai eu hadnoddau** (*less-resourced languages*) a cheir ymdrechion yn awr i geisio cynyddu nifer yr adnoddau hyn a chydweithio i alluogi technolegau iaith mewn amrywiaeth eang o ieithoedd, gan gynnwys rhai difreintiedig. Mae cynllunio ieithyddol bellach yn cynnwys pwyslais ar le technolegau iaith yn y gwaith o gynorthwyo i adfer ieithoedd sydd dan fygythiad o ddiflannu. Ceir pryder ynghylch **difodiant digidol** (*digital extinction*) os nad yw iaith yn cael ei chynrychioli yn y cyfryngau digidol, ochr yn ochr â'r syniad o **fywiogrwydd digidol** (*digital vitality*), sy'n ffordd o weithio allan pa fath o raglenni ac adnoddau digidol sydd eu hangen ar ieithoedd unigol i oroesi a ffynnu (Berger et al. 2018). Gwelir technolegau iaith, felly, fel cyfraniad pwysig i greu offer i alluogi ieithoedd i fyw yn y sfêr digidol neu gyfathrebu cyfrifiadurol.

Erbyn hyn, mae'r defnydd o dechnolegau iaith yn Saesneg a rhai o'r ieithoedd byd-eang eraill yn soffistigedig iawn, ac yn torri tir newydd o ran deall a dadansoddi gwybodaeth ar raddfa helaeth, megis canfod cyflwr iechyd poblogaethau, neu agweddau cynulleidfaoedd at wahanol bynciau. Yn y cyfamser, mae llawer o'r ieithoedd llai eu hadnoddau yn dal heb rai o'r adnoddau digidol mwyaf sylfaenol. Yn ddiweddar cymeradwywyd adroddiad gan Senedd Ewrop, a gyflwynwyd gan Jill Evans, aelod sy'n cynrychioli Cymru yn y Senedd, yn galw am gydraddoldeb ieithyddol yn Ewrop yn y maes digidol, a gwell polisiau, buddsoddiad ac addysg i sicrhau hawliau holl dinasyddion Ewrop yn y maes hwn (Senedd Ewrop 2018). Yng Nghymru, cyhoeddodd y Llywodraeth Gynllun Gweithredu Technolegau Iaith (Llywodraeth Cymru 2018) sy'n amlinellu'r blaenoriaethau yn y maes fel cyfraniad at nod y Llywodraeth o gynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050.

Isod ceir rhai o'r prif bynciau'n ymwneud â thechnolegau iaith sy'n bwysig i ieithoedd bach a mawr fel ei gilydd, ac sy'n galluogi ieithoedd i gael presenoldeb digidol yn y byd cyfoes.

56.1 Gwirwyr sillafu a gramadeg

Technoleg weddol syml sydd y tu ôl i wirydd sillafu (*spelling checker*). Yn y bôn mae'n ffordd o gymharu pob gair mewn testun yn erbyn rhestr o eiriau'r iaith dan sylw. Os nad yw'r gair yn y rhestr, mae'r gwirydd yn cymryd ei fod wedi'i sillafu'n anghywir. Wrth gwrs, efallai mai gair sydd heb fod ar y rhestr ydyw, neu air sydd wedi'i hepgor am ei fod yn cael ei ystyried yn anwedus neu'n enllibus. I gymhlethu pethau, mewn ieithoedd sydd â morffoleg gyfoethog,

ceir nifer o ffurfiau gwahanol i air, oherwydd treigladau, rhediadau berfol, cyflyrau gwahanol neu nodweddion gramadegol eraill (gw. Rhan III ‘Morffoleg’), ac mae’r rhain yn gallu gwneud y ffurfiau hynny yn anodd iawn eu perthnasu i’r ffurf ar y gair a geir mewn cofnod geiriadur. Nid yw cael rhestr syml o eiriau fel y maent yn bodoli mewn geiriadur yn ddigon, felly, ac mae angen cael pob ffurf bosibl ar air er mwyn adnabod sillafiadau anghywir. Yn y Gymraeg, ar sail rhestr sylfaenol o 39,000 o eiriau, cynhyrchwyd o gwmpas hanner miliwn o eiriau drwy ei hymestyn i gynnwys rhediadau berfol, lluosogion a ffurfiau treigledig (Hicks 2004). Mewn gwirwyr sillafu cynnar pan oedd cof cyfrifiaduron yn fach iawn, yr arfer oedd defnyddio algorithmau i gynhyrchu holl ffurfiau amrywiol gair, ond bellach, lle nad yw maint y cof mor bwysig, gellir cynnwys rhestrau geiriau helaeth sy’n rhestru pob ffurf bosibl.

Mae gwirwyr gramadeg (*grammar checkers*) yn fwy cymhleth na gwirwyr sillafu, gan eu bod yn ceisio cywiro gramadeg yr iaith dan sylw, nid dim ond y sillafu, er mai cywiro sillafu yw cam cyntaf y broses fel arfer. Lluniwyd y genhedlaeth gyntaf o wirwyr gramadeg ar sail rheolau. Er enghraifft, er mwyn cywiro *cath bach* i *cath fach* rhoddwyd y rheol fod ansoddeiriau’n treiglo’n feddal ar ôl enw benywaidd. Roedd angen cael **tagiwr rhannau ymadrodd** (*part-of-speech tagger* neu *POS tagger*) i helpu’r broses yma, fel bod y rhaglen yn adnabod *cath* fel enw benywaidd, a *bach* fel ansoddair. Mantais y dull hwn o greu gwirydd gramadeg oedd fod y rhaglen hefyd yn medru rhoi neges yn esbonio pam mae rhywbeth yn ramadegol wallus. Fodd bynnag, nid yw’r math yma o wirydd yn medru adnabod pob gwall, ac mae angen llawer o arbenigedd gramadegol i’w lunio. Dull arall, mwy diweddar, o lunio gwirydd gramadeg yw un sy’n dibynnu ar greu modelau iaith a defnyddio dulliau tebygolrwydd i gymharu gwahanol batrymau posibl. Mae technegau rhwydweithiau niwral newydd yn gwella gwirwyr gramadeg ymhellach, ond mae angen llawer iawn o ddata crai o ansawdd uchel iawn i’w hyfforddi yn gyntaf, a gall hyn fod yn anodd i ieithoedd llai eu hadnoddau.

Y gwirydd sillafu a gramadeg cyntaf yn y Gymraeg oedd Cysill, a ddatblygwyd ym Mhrifysgol Bangor ac a gyhoeddwyd gyntaf yn 1995 gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn ddiweddarach cyhoeddwyd fersiwn **cod agored** (*open source*) o’r gwirydd sillafu ynddo ar gyfer OpenOffice (<https://www.openoffice.org/cy/>), a’i drwyddedu hefyd ar gyfer Microsoft. Cyhoeddwyd fersiwn estynedig yn cynnwys holl ffurfiau gwahanol y geiriau oedd yn yr eirfa fel Hunspell yn 2013 (<http://troi.org/cy/hunspell-cy.html>) a defnyddiwyd hwn wedi hynny fel gwirydd sillafu mewn gwahanol raglenni, fel Firefox Cymraeg. Yn 2009 cyhoeddwyd Cysill Ar-lein (<https://www.cysgliad.com/cysill/arlein/>) fel fersiwn am ddim o’r gwirydd sillafu a gramadeg sydd ar gael drwy’r cwmwl (ar y we). Mae technoleg y cwmwl yn galluogi gyrru testun at weinyddion pell drwy’r rhyngwrdd er mwyn ei gywiro, lle nad oes copi lleol o’r rhaglen ei hun yn bodoli ar gyfrifiadur y defnyddiwr. Mae fersiwn masnachol o Cysill yn awr yn cael ei drwyddedu ynghyd â’r pecyn geiriaduron Cysgeir fel Cysgliad (<https://www.cysgliad.com/cy/>), mewn dau fersiwn ar gyfer y cartref ac ar gyfer sefydliadau.

56.2 Testun i leferydd

Mae’r dechnoleg testun i leferydd (*text to speech*) yn caniatáu i unrhyw beth sy’n cael ei deipio, neu sy’n bodoli ar gyfrifiadur ar ffurf testun, dogfen neu lyfr, gael ei ddarllen yn uchel gan y peiriant. Datblygwyd llawer ar y dechnoleg hon yn wreiddiol fel cymorth i bobl â nam ar eu golwg neu oedd ag anawsterau darllen. Fodd bynnag, mae’r dechnoleg bellach wedi ymuno â phrif lif technolegau digidol, gyda siarad yn cael ei gyfrif yn ffordd hwylus i bob math o declynnau cyfathrebu yn ddigidol, e.e. systemau GPS wrth deithio yn y car, cynorthwywyr digidol yn ateb cwestiynau, rhaglenni dysgu ieithoedd tramor, a darllen e-lyfrau yn uchel.

Er mai'r un yw'r dechnoleg waelodol, mae angen ei haddasu ar gyfer ieithoedd unigol, am fod system seiniau pob iaith yn wahanol yn ogystal â'r berthynas rhwng y gair ysgrifenedig a'r ynganiad mewn gwahanol ieithoedd. Ymhlith yr hanfodion sydd eu hangen ar gyfer creu lleisiau synthetig ar gyfer iaith mae set o ffonau'r iaith hon, rheolau **tocyneiddio** (*tokenisation*), sef proses o bennu ffiniau **nodau** (*characters*) a'u dosbarthu, rheolau llythyren-i-sain yr iaith dan sylw, syntheseiddydd tonffurfiau, a gwybodaeth am oslef, parsio prosodig a hyd llefariadau. Os yw'r llais wedi'i fwriadu at ddefnydd cyhoeddus, mae angen cael hyd i 'dalent llais', sef unigolyn â llais clir, cyson a dymunol i'w ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer y llais synthetig. Darperir set o bromptiau penodol i'r unigolyn a ddewiswyd i'w darllen yn uchel a'u recordio. Y bwriad yw nid yn unig recordio'i lais ond hefyd gofalu bod holl seiniau'r iaith a chyfuniadau posibl y seiniau hynny wedi'u cynnwys yn yr recordiad. Os na wneir hyn, bydd y llais synthetig yn fylchog. Er enghraifft, os nad yw'r sain am <j> [dz] wedi'i chynnwys yn y promptiau recordio, ni fydd llais synthetig Cymraeg yn medru ynganu geiriau fel *jôc* a *banjo*.

Roedd yr ymdrechion cyntaf i lunio lleisiau synthetig yn eithaf amrwd ac yn swnio'n robotaid iawn. Gellir meddwl am lais synthetig y ffisegydd enwog Stephen Hawking fel enghraifft o lais felly. Bellach gellir adeiladu lleisiau synthetig sy'n swnio'n llawer mwy naturiol, a gallai Stephen Hawking fod wedi cael llais synthetig mwy naturiol wrth i'r dechnoleg ddatblygu, heblaw ei fod wedi perchenogi'r llais robotig cynnar fel ei lais 'ef' erbyn hynny. Bellach mae'n bosib creu lleisiau synthetig sy'n swnio fel unigolion penodol. Mae'r nodwedd olaf hon yn hynod o ddefnyddiol i bobl sy'n colli eu gallu i siarad oherwydd problemau meddygol, e.e. pan fo angen tynnu'r laryncs o ganlyniad i ganser y gwddf. Os cânt y cyfle i recordio'u lleisiau cyn y llawdriniaeth, neu cyn i'r llais wanhau'n ormodol yn achos clefydau dirywiol, mae modd bancio'r lleisiau hynny a'u defnyddio i adeiladu llais unigryw i'r claf. Gwnaethpwyd hyn am y tro cyntaf yn y Gymraeg drwy'r project *Lleisiwr*, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (D. Prys & D.B. Jones 2018). Yn yr achos hwn, cynlluniwyd set o bromptiau arbennig i fod mor gynnil â phosibl wrth recordio, rhag blino gormod ar y claf.

Erbyn hyn mae technoleg testun-i-leferydd yn dod yn rhan o dechnolegau mwy cymhleth, megis peiriannau cyfieithu lleferydd-i-leferydd, sy'n cydio adnabod lleferydd wrth gyfieithu peiriannyddol a thestun i leferydd, fel bod rhywbeth sy'n cael ei siarad mewn un iaith yn dod allan o'r peiriant fel cyfieithiad llafar mewn iaith arall.

56.3 Adnabod lleferydd

Mae'r dechnoleg adnabod lleferydd (*speech recognition*) yn caniatáu i berson siarad â chyfrifiadur neu ddyfais glyfar, gyda'r cyfrifiadur naill ai'n cofnodi'r geiriau yn ysgrifenedig, neu'n gweithredu ar y geiriau a lefarwyd drwy ufuddhau i orchmynion, ateb cwestiynau neu gyflawni tasg. Datblygwyd y dechnoleg hon eto yn wreiddiol ar gyfer yr iaith Saesneg, ac roedd y genhedlaeth gyntaf o raglenni adnabod lleferydd yn canolbwyntio ar bethau fel trawsgrifio'r hyn oedd yn cael ei lefaru yn sgript ysgrifenedig, fel cymorth i bobl nad oedd yn gallu, neu'n dymuno, teipio. Erbyn hyn defnyddir y dechnoleg yn eang i osgoi teipio lle byddai bysellfwrdd yn fawr ac yn drwsogl, e.e. i ddeialu rhif ffôn, archebu tocynnau neu reoli teclyn, e.e. cynnau golau, newid sianel deledu, gweithredu braich robotig.

Mae'r rhan hon o dechnoleg lleferydd yn dipyn anoddach i'w chreu na thestun i leferydd, gan fod cymaint o amrywiaeth ansawdd mewn lleisiau dynol, yn ogystal ag acenion gwahanol, sŵn cefndir, a ffactorau eraill sy'n amharu ar allu'r peiriant i adnabod geiriau a brawddegau yn

gywir. Gellir addasu rhai o'r cydrannau a ddefnyddir ar gyfer testun i leferydd i greu peiriant adnabod lleferydd hefyd, ond un gwahaniaeth pwysig yw bod angen casglu data sylweddol ar ffurf recordiadau o bobl yn siarad ar gyfer adnabod lleferydd, er mwyn hyfforddi'r peiriant i adnabod gwahanol leisiau. Mae rhai projectau cyfoes yn amcangyfrif bod angen cant o oriau o recordiadau er mwyn hyfforddi peiriant adnabod lleferydd cyffredinol da. Un ffordd o leihau'r gwaith yw creu peiriannau adnabod lleferydd **parth-benodol** (*limited domain*), sydd ddim ond yn gorfod adnabod is-set o eiriau neu frawddegau, e.e. rhifau, enwau lleoedd penodol, set gaeedig o orchmynion.

Erbyn hyn defnyddir dulliau **torfoli** (*crowdsourcing*) i gasglu recordiadau llafar helaeth ar gyfer creu peiriant adnabod lleferydd; gyda'r dull hwn, mae aelodau o'r cyhoedd yn cyfrannu eu lleisiau'n wirfoddol er lles eu cymuned ieithyddol nhw. Mae disgwyl i ddata o'r fath fel arfer gael ei rannu'n agored ac yn ddi-dâl, a'i ddefnyddio gan nifer o ymchwilyr, cwmnïau ac unigolion, yn wahanol i weithgaredd masnachol rhai o'r cwmnïau meddalwedd mawr, sy'n cadw'u hadnoddau a'u meddalwedd yn gaeedig er mwyn cael budd masnachol ohono. Er hynny, mae rhai o'r cwmnïau mawr yn dechrau defnyddio dulliau torfoli erbyn hyn, gan ei bod hi mor ddrud ac mor anodd fel arall i gael data digonol.

Un o'r ymdrechion cynharaf i dorfoli casglu recordiadau at ddibenion adnabod lleferydd oedd yr ap Paldaruo gan Brifysgol Bangor ([Cooper et al. 2014, 2019](#)). Fe'i datblygwyd i weithio ar dabledi neu ffonau symudol lle roedd gan y ddyfais ficroffon, seinydd a chyswllt gwe i anfon y recordiadau yn ôl i weinydd canolog ar gyfer eu storio. Yn ddiweddarach cynhwyswyd y Gymraeg yng nghynllun amlieithog, rhyngwladol CommonVoice Mozilla ([D. Prys & D.B. Jones 2018](#)) gyda nifer penagored o ieithoedd yn rhannu llwyfan a methodoleg gyffredin.

Pa ddull bynnag a ddefnyddir i gasglu'r recordiadau, mae paratoi promptiau neu sgript recordio yn rhan bwysig o'r gwaith paratoi. Mae'r cyfranwyr wedyn yn darllen y promptiau yn uchel, â'r data llais yn cael ei gasglu a'i storio. Golyga hyn nad oes angen trawsgrifio'r hyn a dywedwyd, dim ond cydweddu'r geiriau ysgrifenedig yn y sgript â'r seiniau a ynganwyd. Defnyddir meddalwedd arbenigol, sy'n medru trin y data yn fanwl, i wneud hyn. Dewis arall yw cymryd hen recordiadau llafar, e.e. rhaglenni radio hanesyddol, a thrawsgrifio'r rheiny er mwyn hyfforddi'r peiriant i adnabod y geiriau a'r brawddegau ynddynt. Defnyddir dulliau newydd o **ddysgu trosglwyddol** (*transfer learning*) rhwng gwahanol barthau ac ieithoedd i gyflymu'r broses, gyda'r setiau data fel arfer yn cael eu hollti yn setiau safon aur, setiau profi, a setiau gwerthuso. Mae hwn yn faes sydd yn symud yn ei flaen yn gyflym, gyda llawer o adnoddau'n cael eu cyfeirio ato ar hyn o bryd, gan fod pwysigrwydd y dechnoleg i'r **rhynggrwyd pethau** (*internet of things*) a datblygiad technolegau digidol eraill wedi dod yn fwyfwy amlwg.

57 Corpora a dulliau digidol o drin data

DELYTH PRYS

Mae **ieithyddiaeth corpws** (*corpus linguistics*) yn gangen bwysig o ieithyddiaeth. Er ei bod yn bodoli cyn dyfodiad cyfrifiaduron a dulliau digidol newydd o drin data, mae'r offer a'r cyfryngau newydd hyn wedi chwyldroi'r maes. Yn draddodiadol, ystyrir bod ieithyddiaeth corpws yn astudio iaith fel y'i ceir mewn corff o destunau, recordiadau llafar neu recordiadau fideo o ieithoedd arwyddion, yn deillio o sefyllfaoedd real yn y byd go iawn. Roedd y corpora hyn wedyn yn rhoi sylfaen tystiolaeth gadarn ar gyfer astudio iaith naturiol, gan y gellid apelio at enghreifftiau penodol o'r defnydd o wahanol ffenomenâu neu nodweddion oedd yn cael eu hastudio neu eu dadansoddi, a gweld patrymau yn y data, yn hytrach na dyfynnu'n fympwyol neu greu enghreifftiau artiffisial. Ymhlith y corpora enwocaf hyd yn hyn mae'r Penn TreeBank o America, sy'n cynnwys 4.5 miliwn o eiriau wedi'u tagio a'u parsio'n drylwyr. Corpws enwog arall yw'r BNC (British National Corpus), sy'n gorpws o Saesneg Prydain yn cynnwys cyfanswm o 100 miliwn o eiriau. Bu'r rhain yn batrymau ar gyfer creu corpora mewn nifer o ieithoedd eraill yn y cyfnod diweddar.

Yn y dyddiau cynnar, roedd casglu'r corpora hyn yn waith llafurus yr oedd yn rhaid ei wneud â llaw. Roedd hi hefyd yn anodd chwilio â llaw drwy gasgliadau enfawr o destun neu recordiadau i ganfod yr hyn roeddech chi'n chwilio amdano. Erbyn hyn gall offer chwilio cyfrifiadurol roi trefn ar ddata digidol yn awtomatig, a datblygwyd llawer o feddalwedd a rhaglenni cyfrifiadurol pwrpasol i wneud hyn. Y corpws cyntaf i gael ei greu drwy ddulliau cyfrifiadurol oedd y *Brown Corpus* (Kučera & Francis 1967) yn Unol Daleithiau America. Yr oedd hwn yn cynnwys oddeutu miliwn o eiriau o destun Saesneg, wedi'i dynnu o nifer o ffynonellau gwahanol i geisio cael cynrychiolaeth gytbwys o wahanol gategoriâu o destun (gwleidyddiaeth, chwaraeon, llenyddiaeth, crefydd, gwyddoniaeth, etc). Mireiniwyd y corpws, gan ychwanegu tagiau ar gyfer rhannau ymadrodd a nodweddion eraill, a'i ddefnyddio at nifer o ddibenion gwahanol.

Bu'n rhaid aros tan y nawdegau cynnar i gael corpws tebyg yn y Gymraeg. Y corpws hwnnw oedd [Cronfa Electroneg o Gymraeg—CEG](#) (Ellis et al. 2001), a oedd hefyd yn gorpws o oddeutu miliwn o eiriau o wahanol ffynonellau. Ni ellir gwneud cymhariaeth union rhyngddo a chorpws Brown, fodd bynnag, gan nad yw rhai o'r parthau'n cyfateb yn union, e.e. gan nad oes papur newyddion dyddiol yn Gymraeg nid oes cynrychiolaeth o'r math yma o destun ynddo, ac ar y llaw arall nid oes testunau eisteddfodol i'w cael yng nghorpws Brown. Mae fersiwn chwiliadwy, ar-lein o gorpws CEG a chorpora Cymraeg eraill ar gael ar [Y Porth Corpora Cenedlaethol](#).

Mae corpws CEG yn **gorpws cytbwys** (*balanced corpus*), sef math o gorpws sy'n ceisio rhoi sampl cynrychioladol o fath arbennig o iaith dros gyfnod penodedig. Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer rhai dadansoddiadau, er enghraifft, defnyddiwyd CEG i gyfrifo beth yw'r cyfartaledd o enwau gwrywaidd yn y Gymraeg o'i gymharu â'r cyfartaledd o enwau benywaidd. Petai

corpws heb fod yn gytbwys wedi'i ddefnyddio i wneud hyn, gallai tuedd arbennig yn y data fod wedi sgiwio'r dystiolaeth. Bydd corpws newydd CorCenCC yn y Gymraeg, fydd yn cynnwys deg miliwn o eiriau, yn gorpws cytbwys cynrychioladol, gan gynnwys samplau o iaith lafar yn ogystal ag iaith ysgrifenedig. Enghreifftiau enwog o gorpws cytbwys yn Saesneg yw corpws LOB, neu Lancaster-Oslo/Bergen (LOB 1970–1978), sy'n cynnwys 500 o samplau 2,000 o eiriau o Saesneg Prydain yn y 1960au cynnar.

Math cyffredin arall o gorpws yw **corpws monitro** (*monitor corpus*). Mae corpws felly yn tyfu'n barhaus a gellir cael amrywiaeth o ddeunyddiau ynddo. Os yw'r corpws yn tyfu dros amser maith, gall y math o ddeunyddiau sydd ynddo hefyd amrywio dros amser. Mae'r *Bank of English* o Brifysgol Birmingham yn enghraifft dda o'r math yma o gorpws yn Saesneg. Mae wedi bod yn tyfu ers yr 1980au, ac erbyn hyn yn cynnwys dros hanner biliwn o eiriau. Enghraifft debyg yn y Gymraeg yw Corpws Cysill Ar-lein (D. Prys et al. 2016) o Brifysgol Bangor sy'n cael ei gasglu o'r testunau sy'n cael eu mewnbynnu i raglen wirio sillafu a gramadeg ar-lein. Mae hwn bellach yn cynnwys tua chant a hanner o filiynau o eiriau. Mewn gwirionedd, mae hwn ar gael mewn dau fersiwn: un heb ei gywiro a elwir yn **gorpws gwallau** (*corpus of errors*), a'r llall yn fersiwn lle'r ystyriwyd awgrymiadau'r gwirydd ac sydd felly yn debyg o fod yn fwy safonol, er na ellir ei drin fel corpws o'r iaith safonol ychwaith am ei fod yn cael ei ddefnyddio cymaint gan ddysgwyr a phobl ansicr o'u Cymraeg. Mae corpora gwallau yn aml yn cael eu casglu o waith dysgwyr, ac yn ddefnyddiol ar gyfer astudio patrymau iaith a gwallau nodweddiadol pobl sydd wrthi'n dysgu iaith arall.

Gellir cael corpora dwyieithog neu amlieithog hefyd, sy'n cael eu galw yn **gorpora cyfochrog** (*parallel text corpora*). Mae'r rhain yn cael eu casglu o ffynonellau fel trafodion dwyieithog sefydliadau megis llywodraethau sy'n gweithredu mewn mwy nag un iaith a lle ceir cyfieithu rhwng y naill iaith a'r llall. Enghraifft o hyn yw corpws *Hong Kong Parallel Text* (Ma 2004), sy'n cynnwys data dwyieithog (Saesneg a Tsieinëeg) o Hansard Hong Kong, cyfreithiau Hong Kong a newyddion Hong Kong. Yng Nghymru mae trafodion dwyieithog Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi darparu cyfle i greu corpws tebyg, a chafwyd sawl fersiwn o hyn. Mae un chwiliadwy ar-lein ar gael drwy'r Porth Corpora Cenedlaethol. Mae corpora o'r fath yn ddefnyddiol ar gyfer astudio gwahanol agweddau o ddwy iaith ochr yn ochr, er enghraifft, er mwyn astudio'r defnydd o dermau cyfatebol mewn dwy iaith. Yn gynyddol hefyd defnyddir corpora cyfochrog er mwyn creu cyfieithu peirianyddol lle mae'r corpws cyfochrog yn hyfforddi peiriant creu cyfieithu peirianyddol fel Moses (Koehn et al. 2007).

Datblygiad mwy diweddar yw'r **corpws cyfryngau cymdeithasol** (*social media corpus*), sy'n cael ei greu o ddeunydd electronig ar y we sy'n deillio o destunau cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter. Dechreuwyd ystyried corpora cyfryngau cymdeithasol fel math gwahanol o ddata oherwydd y diddordeb yn iaith y cyfryngau hyn gan dybio'i fod yn cynrychioli cywair iaith gwahanol, sy'n llawer mwy llac ac anffurfiol nag iaith ysgrifenedig arferol. Datblygodd diddordeb mewn corpora o'r fath hefyd oherwydd y ffordd roeddent yn gallu dangos gwahanol agweddau cymdeithasol neu wleidyddol. Corpws o'r fath yw Credbank (Mitra & Gilbert 2015), sy'n gasgliad o dros 60 miliwn o drydariadau wedi'u dadansoddi i weld pa mor gredadwy yw eu cynnwys yn wyneb pryderon diweddar am newyddion ffug.

Mae angen gofal mawr gyda phreifatrwydd a materion hawlfraint wrth gasglu corpora o ddeunyddiau cyfryngau cymdeithasol, ac oherwydd hynny nid oes llawer ohonynt ar gael yn agored i'w defnyddio gan eraill ar y we. Cesglir Corpws Trydariadau Cymraeg gan Brifysgol Bangor (D.B. Jones et al. 2015), ond ers i Twitter newid eu hamodau defnydd, nid yw hwn ar gael bellach i'w lwytho i lawr gan ddefnyddwyr eraill. Gellir meddwl am y we gyfan bron fel

corpws erbyn hyn, ac mae llawer o ymchwil o fath corpws yn digwydd yn fyw drwy gyfrwng chwiliadau gwe. Mae corpws Google o'r enw y *Google N-gram Corpus* yn cynnwys 1 triliwn o **docynnau geiriol** (*word tokens*) a gymerwyd o dudalennau gwe cyhoeddus. Mae'r corpws yn cynnwys hyd at bump n-gram ar gyfer pob tocyn geiriol, yn ogystal â pha mor aml maent yn ymddangos.

Nid dim ond o destunau ysgrifenedig neu ddigidol y mae modd casglu corpws. Mae **corpws lleferydd** (*speech corpus*) wedi dod yn ddosbarth pwysig iawn o gorpora, lle mae ffeiliau sain yn cael eu cadw, yn ogystal â thrawsgrifiadau ysgrifenedig ohonynt. Gallant fod yn destun sy'n cael ei ddarllen yn uchel, neu'n sgysiau a straeon byrfyfyr. Maent yn ddefnyddiol ar gyfer astudio agweddau ar seineg, tafodieitheg ac agweddau ieithyddol eraill ar y ffordd y mae pobl yn siarad. Fodd bynnag, maent yn cael eu defnyddio fwyfwy ar gyfer gwaith adnabod lleferydd hefyd, er enghraifft er mwyn creu modelau acwstig ar gyfer llunio rhaglenni adnabod lleferydd.

Enghreifftiau enwog o gorpora lleferydd yw Corpora CHILDES ([MacWhinney 2000](#)), sy'n astudio iaith plant. Mae hwn yn cynnwys sawl corpws, mewn sawl iaith, gan gynnwys Saesneg a'r Gymraeg, sy'n rhannu rhai egwyddorion cyffredinol megis fformat unffurf, set o offer trawsgrifio cyffredin a'r gallu i ryngweithio â systemau eraill.

Mae anodi a thagio data o fewn corpora yn fater o bwys gan na ellir gwneud dadansoddiadau o'u cynnwys heb y cymhorthion hyn. Mae anodi'r data drwy roi tagiau metadata arno yn gymorth i gyfathrebu rhwng iaith ddynol ac iaith cyfrifiaduron. Mae corpws wedi'i anodi yn hanfodol er mwyn hyfforddi algorithmau **dysgu peirianyddol** (*machine learning*). Gyda'r posibiladau newydd hyn, a'r ffordd y mae corpora bellach yn cael eu defnyddio i wneud tasgau cyfrifiadurol megis Cyfieithu Peirianyddol, Adnabod Lleferydd, neu Ateb Cwestiynau, mae maes ieithyddiaeth corpws yn symud o fyd ieithyddiaeth, â'r pwyslais ar ddadansoddi a deall iaith naturiol, i fyd technoleg iaith a deallusrwydd artiffisial, â'r pwyslais ar greu adnoddau cyfrifiadurol newydd sy'n deall iaith ddynol.

58 Diwedd glo

Mae pob cangen o ieithyddiaeth yn faes ymchwil cyffrous heddiw sy'n ychwanegu at ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae iaith yn gweithio. Yn y rhan hon rydym wedi gweld agweddau mwy cymhwysol ar wyddor ieithyddiaeth a meysydd cyd-ffiniol. Mae deall strwythur iaith yn bwysig ar gyfer datrys problemau, datblygu sgiliau newydd, cyfrannu at adfywiad iaith a galluogi ieithoedd cymharol bach fel y Gymraeg i oroesi yn y byd digidol cyfoes. Mae gan ieithyddiaeth, cymdeithaseg iaith, dysgu ail iaith a thechnolegau iaith lawer i'w gyfrannu at wireddu strategaeth Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Maent hefyd yn cynnig swyddi da i raddedigion sy'n siarad Cymraeg ac yn deall iaith yng Nghymru heddiw. Yn y dyfodol bydd galw cynyddol am ddealltwriaeth o'r ffordd y mae'r Gymraeg yn gweithio wrth i dechnoleg ddatblygu ac i'r nifer o siaradwyr Cymraeg gynyddu.

Llyfryddiaeth

- Aitchison, J. W. & H. Carter. 2000. *Language, economy, and society: the changing fortunes of the Welsh language in the twentieth century*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Alam, F. & J. Stuart-Smith. 2011. Identity and ethnicity in /t/ in Glasgow-Pakistani high-school girls. Yn: *ICPhS XVII*, 216–9.
- Ananiadou, S. 2012. *The English language in the digital age*. Berlin New York: Springer.
- Andrews, T. 2010. *Current practice in website localization and its application to Welsh*: Prifysgol Bangor. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd.
- Andrews, T. 2015. Cyd-destun gwleidyddol a chymdeithasol cyfieithu yn y Gymru gyfoes. Yn: Prys, D & T. R. (goln.), *Ysgrifau a Chanllawiau Cyfieithu*, Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol. URL <https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1414~4k~jCaIVfFR>.
- Austin, J. 1962. *How to do things with words*. The William James lectures ; 1955. Clarendon Press. URL <https://books.google.co.uk/books?id=qO7WAAAAMAAJ>.
- Austin, P. K. & J. Sallabank. 2011. Introduction. Yn: P. K. Austin & J. Sallabank (goln.), *The Cambridge handbook of endangered languages*, 1–25. Cambridge University Press.
- Awbery, G. 1984. Phonotactic constraints in Welsh. Yn: M. J. Ball & G. E. Jones (goln.), *Welsh phonology: Selected readings*, 65–104. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Awbery, G. 2009. Welsh. Yn: M. J. Ball & N. Müller (goln.), *The Celtic languages*, 359–426. Llundain: Routledge. 2il ol.
- Awbery, G. 2017. Mynwenta. *Llafar Gwlad* 136. 20–1.
- Bailey, B. 2000. Language and negotiation of ethnic/racial identity among Dominican Americans. *Language in Society* 29(4). 555–582.
- Baker, C. 2006. *Foundations of bilingual education and bilingualism*. Clevedon: Multilingual Matters. 4ydd ol.
- Baker, C. 2014. *A parents' and teachers' guide to bilingualism*, cyf. 18. Parents' and Teachers' Guide. Multilingual Matters. 4ydd ol.
- Baker, C. & Lewis, G. 2015. A synthesis of research on bilingual and multilingual education. Yn: W. E. Wright, S. Boun & O. García (goln.), *The handbook of bilingual and multilingual education*, 109–126. Wiley Blackwell.

- Baker, C. & S. Prys Jones. 1998. *Encyclopedia of bilingualism and bilingual education*. Multilingual Matters.
- Bakir, M. 1986. Sex differences in the approximation to Standard Arabic: a case study. *Anthropological linguistics* 28(1). 3–9.
- Bakker, P. 1997. *A language of our own: The genesis of Michif, the mixed Cree-French language of the Canadian Métis*. Oxford Studies in Anthropological Linguistics. New York: Oxford University Press.
- Bakker, P. 2013. Michif. Yn: S. M. Michaelis, P. Maurer, M. Haspelmath & M. Huber (goln.), *The survey of pidgin and creole languages. contact languages based on languages from Africa, Asia, Australia, and the Americas*, cyf. 3, Rhydychen: Oxford University Press. URL <http://apics-online.info/surveys/75>.
- Bakker, P., M. Post & H. van der Voort. 1994. TMA particles and auxiliaries. Yn: J. Arends, P. Muysken & N. Smith (goln.), *Pidgins and creoles: An introduction*, cyf. 15, John Benjamins Publishing.
- Baldauf, R. B. 2006. Rearticulating the case for micro language planning in a language ecology context. *Current Issues in Language Planning* 7(2-3). 147–170. doi: 10.2167/cilp092.0.
- Ball, M. J. 1988. *The use of Welsh: a contribution to sociolinguistics*, cyf. Multilingual matters. Multilingual Matters.
- Ball, M. J. & Jones, G.E. 1984. *Welsh phonology: Selected readings*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Ball, M. J. & Williams, B. 2001. *Welsh phonetics*, cyf. Welsh studies. Edwin Mellen Press.
- Ball, M. J. 1984. *Sociolinguistic aspects of the Welsh mutation system*: Prifysgol Cymru, Caerdydd. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd.
- Banerjee, S. & A. Lavie. 2005. Meteor: An automatic metric for mt evaluation with improved correlation with human judgments. Yn: J. Goldstein, A. Lavie, C. Lin & C. Voss (goln.), *Proceedings of the acl workshop on intrinsic and extrinsic evaluation measures for machine translation and/or summarization*, 65–72. Ann Arbor.
- Baratta, A. 2017. Accent and linguistic prejudice within British teacher training. *Journal of Language, Identity & Education* 16(6). 416–23.
- Barry, B. 2001. *Culture and equality: an egalitarian critique of multiculturalism*. Cambridge, UK: Polity Press.
- Bauer, L. 2001. *Morphological productivity*, cyf. 95. Cambridge University Press.
- Bauer, L., R. Lieber & I. Plag. 2013. *The Oxford reference guide to English morphology*. Oxford University Press.
- Bell, A. 1977. *The language of radio news in Auckland a sociolinguistic study of style, audience and subediting variation*: Prifysgol Auckland. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd.
- Bell, A. 1984. Language style as audience design. *Language in society* 13(2). 145–204.

- Benor, S. B. 2001. The learned/t: phonological variation in Orthodox Jewish English. *University of Pennsylvania Working Papers in Linguistics* 7(3). 2.
- Bentahila, A. & Davies, E.E. 1995. Patterns of code-switching and patterns of language contact. *Lingua* 96(2-3). 75–93.
- Berger, K. C., A. G. Hernaiz, P. Baroni, D. Hicks, E. Kruse, V. Quochi, I. Russo, A. S. Tuomo Salonen & C. Soria. 2018. The DLDP digital language survival kit. Digital Language Diversity Project. URL http://www.dldp.eu/sites/default/files/documents/DLDP_Digital-Language-Survival-Kit.pdf.
- Bialystok, E. & K. Hakuta. 1999. Confounded age: Linguistic and cognitive factors in age differences for second language acquisition. Yn: D. Birdsong (gol.), *Second language acquisition research. second language acquisition and the critical period hypothesis*, 161–81. Mahwah, NJ, US: Lawrence Erlbaum Associates Publishers.
- Biber, D. & S. Conrad. 2009. *Register, genre, and style*. Cambridge University Press.
- Birdsong, D. 2005. Interpreting age effects in second language acquisition. Yn: J. F. Kroll & A. M. B. de Groot (goln.), *Handbook of bilingualism: Psycholinguistic approaches*, 109–127. Oxford University Press.
- Birner, B. J. 2012. *Introduction to pragmatics*, cyf. 38. John Wiley & Sons.
- Blondeau, H. & N. Nagy. 2008. Subordinate clause marking in Montreal Anglophone French and English. *Social Lives in languages. Sociolinguistics and multilingual speech communities. Celebrating the work of Gillian Sankoff* 273–313.
- Bongaerts, T., C. van Summeren, B. Planken & E. Schils. 1997. Age and ultimate attainment in the pronunciation of a foreign language. *Studies in Second Language Acquisition* 19(4). 447–465. doi: 10.1017/s0272263197004026. URL <https://doi.org/10.1017/s0272263197004026>.
- Borsley, R. D., M. Tallerman & D. Willis. 2007. *The Syntax of Welsh*. Cambridge Syntax Guides. Cambridge University Press.
- Bourhis, R. Y. & H. Giles. 1977. The language of intergroup distinctiveness. *Language, ethnicity and intergroup relations* 13. 119–36.
- Brake, P. 2012. Astudiaeth gychwynnol o wallau iaith lafar dysgwyr Cymraeg i oedolion profiadol. *Gwerddon* 12. 24–52.
- Breitkreutz, J., T. M. Derwing & M. J. Rossiter. 2001. Pronunciation teaching practices in Canada. *TESL Canada Journal* 19(1). 51. doi: 10.18806/tesl.v19i1.919.
- Brown, P. & S. C. Levinson. 1978. Universals in language usage: politeness phenomena. Yn: *Questions and politeness: strategies in social interaction*, 56–311. Cambridge University Press.
- Brown, P. & S. C. Levinson. 1987. *Politeness: some universals in language usage*, cyf. 4. Cambridge University Press.
- Bucholtz, M. 1999. “why be normal?”: Language and identity practices in a community of nerd girls. *Language in Society* 28(02). doi: 10.1017/s0047404599002043.

- Buck, M. 2000. Gramática amuzga de San Pedro Amuzgos, Oaxaca. Yn: C. Stewart & R. Stewart (goln.), *Diccionario amuzgo de San Pedro Amuzgos, Oaxaca*, 361–480. SIL International. URL <https://www.sil.org/resources/archives/10968>.
- Burgess, J. & S. Spencer. 2000. Phonology and pronunciation in integrated language teaching and teacher education. *System* 28(2). 191–215. doi: 10.1016/s0346-251x(00)00007-5. URL [https://doi.org/10.1016/s0346-251x\(00\)00007-5](https://doi.org/10.1016/s0346-251x(00)00007-5).
- Butters, R. R. 1997. Dialectology and sociolinguistic theory: Issues and methods in dialectology. Yn: A. R. Thomas (gol.), *Selected papers from the ninth international conference on methods in dialectology*, 1–13. Bangor: Adran Ieithyddiaeth, Prifysgol Cymru.
- Bybee, J. L. 2007. Diachronic linguistics. Yn: D. Geeraerts & H. Cuyckens (goln.), *The Oxford Handbook of Cognitive Linguistics*, 945–987. Oxford University Press. URL <http://www.oxfordhandbooks.com/view/10.1093/oxfordhb/9780199738632.001.0001/oxfordhb-9780199738632-e-36>.
- Bybee, J. L., W. Pagliuca & R. D. Perkins. 1991. Back to the future. Yn: E. C. Traugott & B. Heine (goln.), *Approaches to grammaticalization*, cyf. 2: Types of grammatical markers (Typological Studies in Linguistics 19), 17–58. John Benjamins Publishing.
- Cameron, D. & D. Kulick. 2003. *Language and sexuality*. Cambridge University Press.
- Carter, D., P. Davies, M. Deuchar & M. d. C. P. Couto. 2011. A systematic comparison of factors affecting the choice of matrix language in three bilingual communities. *Journal of Language Contact* 4(2). 153–183.
- Celce-Murcia, M., D. M. Brinton & J. M. Goodwin. 1996. *Teaching pronunciation: a reference for teachers of English to speakers of other languages*. Caergrawnt: Cambridge University Press.
- Chafe, W. 1976. Givenness, contrastiveness, definiteness, subjects, topics, and point of view. *Subject and topic*.
- Chambers, J. K. & P. Trudgill. 1998. *Dialectology*. Cambridge New York: Cambridge University Press. 2il ol.
- Cheshire, J., P. Kerswill, S. Fox & E. Torgersen. 2011. Contact, the feature pool and the speech community: The emergence of Multicultural London English. *Journal of Sociolinguistics* 15(2). 151–96.
- Chomsky, N. 1957. *Syntactic Structures*. Mouton.
- Chomsky, N. 1995. *The minimalist program*. Cambridge, MA: MIT Press.
- Clark, L. & E. Schlee. 2010. The acquisition of sociolinguistic evaluations among Polish-born adolescents learning English: Evidence from perception. *Language Awareness* 19(4). 299–322.
- Coates, J. 1991. *Women talk: Conversation between women friends*. Wiley-Blackwell.
- Collier, V. P. & Thomas, W.P. 2004. The astounding effectiveness of dual language education for all. *NABE Journal of Research and Practice* 2(1). 1–20.
- Cooper, R. L. 1989. *Language planning and social change*. Cambridge University Press.

- Cooper, S. 2017a. Producing new sounds in Welsh: variable lateral fricative production in adult Welsh learners. Cyflwyniad yng nghynhadledd International Symposium Bilingualism.
- Cooper, S. 2017b. Ynganu gan ddysgwyr Cymraeg. *Tiwtor Cymraeg*.
- Cooper, S. 2018. Dysgu cytseiniaid newydd yn Gymraeg. Cyflwyniad yng nghynhadledd genedlaethol Cymraeg i Oedolion, Nant Gwrtheyrn.
- Cooper, S., Jones, D.B & Prys, D. 2014. Developing further speech recognition resources for Welsh. Yn: J. Judge, T. Lynn, M. Ward & B. Ó Raghallaigh (goln.), *Proceedings of the first Celtic Language Technology Workshop*, 55–59.
- Cooper, S., Jones, D.B & Prys, D. 2019. Crowdsourcing the Paldaruo speech corpus of Welsh for speech technology. *Information* 10. 247. doi: 10.3390/info10080247.
- Corbett, G. G. 1991. *Gender*. Cambridge Textbooks in Linguistics. Cambridge University Press. doi: 10.1017/CBO9781139166119.
- Corbett, G. G. 2000. *Number*. Cambridge Textbooks in Linguistics. Cambridge University Press. doi: 10.1017/CBO9781139164344.
- Corbett, G. G. 2013a. Number of genders. Yn: M. S. Dryer & M. Haspelmath (goln.), *The World Atlas of Language Structures Online*, Leipzig: Max Planck Institute for Evolutionary Anthropology. URL <http://wals.info/chapter/30>.
- Corbett, G. G. 2013b. Sex-based and non-sex-based gender systems. Yn: M. S. Dryer & M. Haspelmath (goln.), *The World Atlas of Language Structures Online*, Leipzig: Max Planck Institute for Evolutionary Anthropology. URL <http://wals.info/chapter/31>.
- Coupland, N. 1984. Accommodation at work: Some phonological data and their implications. *International Journal of the Sociology of Language* 1984(46). 49–70.
- Coupland, N. 2010. Introduction: sociolinguistics in the global era. Yn: N. Coupland (gol.), *The handbook of language and globalization*, 1–27. Wiley-Blackwell. doi: 10.1002/9781444324068.ch.
- Crystal, D. 1997. *English as a global language*. Cambridge University Press.
- Crystal, D. 2000. *Language death*. Ernst Klett Sprachen.
- Crystal, D. 2010. *The Cambridge Encyclopedia of the English Language*. Cambridge University Press. 3ydd ol. doi: 10.1017/9781108528931.
- Darlington, T. 1902. Some dialectal boundaries in mid Wales: With notes on the history of the palatalization of long a. Yn: *The transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion (1900–01)*, 13–39.
- Davenport, M. & S. J. Hannahs. 2010. *Introducing phonetics and phonology*. London: Hodder Education.
- Davies, E. 2016. Dulliau dysgu a'r dosbarth iaith. Yn: C. Jones & S. Morris (goln.), *Cyfoethogi'r cyfathrebu: llawlyfr ymarferol i diwtoriaid Cymraeg i oedolion*, Gwasg Prifysgol Cymru.
- Davies, J. 1990. *Hanes Cymru*. Llundain: Penguin.

- Davies, P. 2016. Age variation and language change in Welsh: auxiliary deletion and possessive constructions. Yn: M. Durham & J. Morris (goln.), *Sociolinguistics in Wales*, 31–59. Llundain: Palgrave Macmillan.
- Davies, P & C. Shank. 2020. Newid hanesyddol yn nefnydd *mynd i* yn y Gymraeg i fynegi'r dyfodol: astudiaeth gorpws o ramadegoli. *Gwerddon*.
- Deddf yr Iaith Gymraeg. 1993. Pennod 38.
- Derwing, T. M. & M. J. Munro. 2008. Putting accent in its place: rethinking obstacles to communication. *Language Teaching* 42(4). 476–490. doi: 10.1017/s026144480800551x.
- Deuchar, M. & S. Quay. 2000. *Bilingual acquisition: Theoretical implications of a case study*. Oxford University Press.
- Deuchar, M., K. Donnelly & C. Piercy. 2016. 'mae pobl monolingual yn minority': Factors favouring the production of code switching by Welsh–English bilingual speakers. Yn: M. Durham & J. Morris (goln.), *Sociolinguistics in Wales*, 209–239. Llundain: Palgrave Macmillan.
- Deuchar, M. & J. R. Stammers. 2012. What is the “nonce borrowing hypothesis” anyway? *Bilingualism: Language and Cognition* 15(3). 649–650. doi: 10.1017/S1366728911000563.
- Deuchar, M., P. Webb-Davies & K. Donnelly. 2018. *Building and using the Siarad Corpus*. John Benjamins Publishing Company. doi: 10.1075/scl.81.
- Doughty, C. J. & M. H. Long (goln.). 2003. *The handbook of second language acquisition*. Blackwell.
- Drechsel, E. J. 2014. *Language contact in the Early Colonial Pacific: Maritime Polynesian Pidgin before Pidgin English*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Drummond, R. 2012. Aspects of identity in a second language: ING variation in the speech of Polish migrants living in Manchester, UK. *Language Variation and Change* 24(1). 107–133. doi: 10.1017/s0954394512000026.
- Drummond, R. 2018. *Researching urban youth language and identity*. Springer.
- Dryer, M. S. 2013a. Order of subject, object and verb. Yn: M. S. Dryer & M. Haspelmath (goln.), *The World Atlas of Language Structures Online*, Leipzig: Max Planck Institute for Evolutionary Anthropology. URL <https://wals.info/chapter/81>.
- Dryer, M. S. 2013b. Prefixing vs. suffixing in inflectional morphology. Yn: M. S. Dryer & M. Haspelmath (goln.), *The World Atlas of Language Structures Online*, Leipzig: Max Planck Institute for Evolutionary Anthropology. URL <http://wals.info/chapter/26>.
- Dryer, M. S. & M. Haspelmath (goln.). 2013. *World Atlas of Language Structures (WALS) Online*. Leipzig: Max Planck Institute for Evolutionary Anthropology. URL <https://wals.info>.
- Dunbar, R. 2009. International comparisons: Celtic cousins—language legislation for Welsh and Scottish Gaelic. Presentation at the CBA Canadian Legal Conference.
- Durham, M. 2014. *The acquisition of sociolinguistic competence in a lingua franca context*. Multilingual Matters.

- Durham, M. 2016. Changing attitudes towards the Welsh English accent: A view from Twitter. Yn: *Sociolinguistics in Wales*, 181–205. Llundain: Palgrave Macmillan. doi: 10.1057/978-1-137-52897-1_7.
- Durham, M. & J. Morris (goln.). 2016. *Sociolinguistics in Wales*. Llundain: Palgrave Macmillan. doi: 10.1057/978-1-137-52897-1.
- Durrell, M. 1990. Language as geography. Yn: N. E. Collinge (gol.), *An encyclopedia of language*, 917–955. Llundain: Routledge.
- Dyen, I., J. B. Kruskal & P. Black. 1992. An Indoeuropean classification: a lexicostatistical experiment. *Transactions of the American Philosophical Society* 82(5). iii–132. doi: 10.2307/1006517. URL <http://www.jstor.org/stable/1006517>.
- Eberhardt, M. & K. Freeman. 2015. ‘first things first, i’m the realest’: Linguistic appropriation, white privilege, and the hip-hop persona of Iggy Azalea. *Journal of Sociolinguistics* 19(3). 303–27.
- Eckert, P. 1988. Adolescent social structure and the spread of linguistic change. *Language in society* 17(2). 183–207.
- Eckert, P. 1989. The whole woman: Sex and gender differences in variation. *Language variation and change* 1(3). 245–267.
- Eckert, P. 2008. Variation and the indexical field. *Journal of sociolinguistics* 12(4). 453–76.
- Eckert, P. 2012. Three waves of variation study: The emergence of meaning in the study of sociolinguistic variation. *Annual review of Anthropology* 41. 87–100.
- Eckert, P. & S. McConnell-Ginet. 1992. Think practically and look locally: Language and gender as community-based practice. *Annual review of anthropology* 21(1). 461–488.
- Eckert, P. & S. McConnell-Ginet. 2003. *Language and gender*. Cambridge University Press.
- Eckert, P. & J. R. Rickford. 2001. *Style and sociolinguistic variation*. Caergrawnt: Cambridge University Press.
- Ellis, N. C., C. O’Dochartaigh, W. Hicks, M. Morgan & N. Laporte. 2001. Corpws electroneg o Gymraeg: A 1 million word lexical database and frequency count for Welsh. URL <https://www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/ceg.php.cy>.
- Fennell, J. L. I. 1961. *The Penguin Russian Course*. Middlesex: Harmondsworth.
- Ferguson, C. A. 1959. Diglossia. *Word* 15(2). 325–340.
- Finney, M. A. 2013. Krio structure dataset. Yn: S. M. Michaelis, P. Maurer, M. Haspelmath & M. Huber (goln.), *Atlas of Pidgin and Creole language structures online*, Leipzig: Max Planck Institute for Evolutionary Anthropology. URL <http://apics-online.info/contributions/15>.
- Fishman, J. 1991. *Reversing language shift: theoretical and empirical foundations of assistance to threatened languages*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Fishman, J. A. 1967. Bilingualism with and without diglossia; diglossia with and without bilingualism. *Journal of social issues* 23(2). 29–38.

- Fix, S. 2010. Representations of blackness by white women: Linguistic practice in the community versus the media. *University of Pennsylvania Working Papers in Linguistics* 16(2). 8.
- Flege, J. 1995. Second-language speech learning: Theory, findings, and problems. Yn: W. Strange (gol.), *Speech perception and linguistic experience: Issues in cross-language research*, 229–73. Timonium, MD: York Press.
- Flege, J. E. 1987. A critical period for learning to pronounce foreign languages? *Applied Linguistics* 8(2). 162–177. doi: 10.1093/applin/8.2.162.
- Fought, C. 2006. *Language and ethnicity*. Cambridge University Press.
- Fynes-Clinton, O. H. 1913. *The Welsh vocabulary of the Bangor district*, cyf. 1. H. Milford, Oxford University Press.
- Garrett, P. 2010. *Attitudes to language*. Cambridge University Press.
- Gathercole, V. C. M. & Thomas, E.M. 2009. Bilingual first-language development: Dominant language takeover, threatened minority language take-up. *Bilingualism: language and cognition* 12(2). 213–237.
- Gazzola, M. 2016. Multilingual communication for whom? Language policy and fairness in the European Union. *European Union Politics* 17(4). 546–569.
- Genesee, F. 1989. Early bilingual development: one language or two? *Journal of Child Language* 16. 161–79.
- Giles, H., N. Coupland & J. Coupland. 1991. Accommodation theory: Communication, context, and consequences. Yn: H. Giles, N. Coupland & J. Coupland (goln.), *Contexts of accommodation: Developments in applied sociolinguistics*, pen. 1. Cambridge University Press.
- Goffman, E. 1967. On face-work. *Interaction ritual* 5–45.
- Gómez Rendón, J. 2008. *Mestizaje lingüístico en los Andes*. Quito: Abya Yala.
- Gopal, D., Y. Matras, L. Percival, A. Robertson & M. Wright. 2013. Multilingual Manchester: a digest. URL <http://mlm.humanities.manchester.ac.uk/wp-content/uploads/2014/04/MLMDigest.pdf>.
- GPC Ar lein. 2014. *Geiriadur Prifysgol Cymru*. Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. URL <http://www.geiriadur.ac.uk>.
- Grice, H. P. 1975. Logic and Conversation. Yn: P. Cole & J. L. Morgan (goln.), *Syntax and semantics*, cyf. 3, 41–58. New York: Academic Press.
- Griffiths, B., Jones, D.G & Academi Gymreig. 1995. *Geiriadur yr academi*. Geiriadur yr Academi. Gwasg Prifysgol Cymru. URL <https://books.google.co.uk/books?id=szsOAQAAMAAJ>.
- Griffiths, P. & C. Cummins. 2016. *Introduction to English semantics and pragmatics*. Edinburgh Textbooks on the English Language. Edinburgh University Press. 2il ol.
- Grosjean, F. 1989. Neurolinguists, beware! the bilingual is not two monolinguals in one person. *Brain and Language* 1(36). 3–15.

- Gruffudd, H. 2015. Oes rhywun yn darllen? Yn: D. Prys & T. R. (goln.), *Ysgrifau a Chanllawiau Cyfieithu*, Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol. URL <https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1414~4k~jCaIVfFR>.
- Gussmann, E. 2002. *Phonology: analysis and theory*. Cambridge University Press.
- Haarmann, H. 1990. Language planning in the light of a general theory of language: a methodological framework. *International Journal of the Sociology of Language* 86(1). 103–126.
- Hajek, J. 2013. Vowel nasalization. Yn: M. S. Dryer & M. Haspelmath (goln.), *The World Atlas of Language Structures Online*, Leipzig: Max Planck Institute for Evolutionary Anthropology. URL <https://wals.info/chapter/10>.
- Halle, M. & A. Marantz. 1993. Distributed morphology and the pieces of inflection. Yn: K. Hale & S. J. Keyser (goln.), *The view from Building 20*, 111–176. Cambridge, MA: MIT Press.
- Hammarström, H., S. Bank, R. Forkel & M. Haspelmath. 2017. Glottolog 3.1. Max Planck Institute for the Science of Human History. URL <http://glottolog.org/>.
- Hannahs, S. J. 2013. *The phonology of Welsh*. Oxford University Press.
- Harmer, J. 2001. *The practice of English language teaching*. Essex, England: Longman.
- Haspelmath, M. 1995. Word-class-changing inflection and morphological theory. Yn: G. Booij & J. van Marle (goln.), *Yearbook of morphology*, 43–66. Springer.
- Haspelmath, M. & A. Sims. 2013. *Understanding morphology*. Routledge.
- Haywood, J. A. 1965. *Arabic lexicography: its history, and its place in the general history of lexicography*. Brill Archive.
- Herschensohn, J. & M. Y. Scholten. 2013. *The Cambridge handbook of second language acquisition*. Cambridge Handbooks in Language and Linguistics. Cambridge University Press.
- Hickey, T. 1999. Parents and early immersion: reciprocity between home and immersion pre-school. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 2(2). 94–113.
- Hicks, W. J. 2004. Welsh proofing tools: making a little NLP go a long way. Yn: *Proceedings of the 1st workshop on international proofing tools and language technologies*, Patras, Greece.
- Hinofotis, F. & K. Bailey. 1980. American undergraduates' reactions to the communication skills of foreign teaching assistants. *On TESOL* 80. 120–133.
- Hirata, R. 2012. *Preposition stranding in Welsh*: Prifysgol Bangor. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd.
- Hodges, R. 2014. Caught in the middle: parents' perceptions of new Welsh speakers' language use: the case of Cwm Rhymni, south Wales. *Zeszyty Łużyckie* 48. 93–114.
- Hodges, R. & Prys, C. 2018. The community as a language planning crossroads: macro and micro language planning in communities in Wales. *Current Issues in Language Planning* 20(3). 207–225. doi: 10.1080/14664208.2018.1495370.
- Hodges, R., Prys, C, A. Orrell, S. Williams, E. Williams & Jones, H.M. 2015. Welsh language use in the community: research study. *Government social research: analysis for policy* .

- Hughes, H. 2003. *Cymathu'r dysgwyr â'r gymdeithas Gymraeg a rôl yr addysgwyr yn y broses*: Prifysgol Caerdydd. Traethawd MA.
- Jaffe, A. 2009. Introduction: The sociolinguistics of stance. Yn: A. Jaffe (gol.), *Stance: sociolinguistic perspectives*, 3–28. Efrog Newydd: Oxford University Press.
- Jahr, E. H. 1996. On the pidgin status of Russenorsk. Yn: E. H. Jahr & I. Broch (goln.), *Language contact in the Arctic: northern pidgins and contact languages*, cyf. 88. Trends in Linguistics: Studies and Monographs, 107–122. Berlin, New York: Berlin: Mouton de Gruyter. doi: 10.1515/9783110813302.107. URL <http://www.degruyter.com/view/books/9783110813302/9783110813302.107/9783110813302.107.xml>.
- Jochnowitz, G. 1973. *Dialect boundaries and the question of Franco-Provençal*. Den Haag: Mouton.
- Johnstone, R. 2002. Immersion in a second or additional language at school: A review of the international research. Tech. rep.. Scottish Centre for Information on Language Teaching. Stirling, UK.
- Jones, B. L. 1981. Welsh: linguistic conservatism and shifting bilingualism. *Minority language today* 40–52.
- Jones, C.M. 1987. *Astudiaeth o iaith lafar Y Mot (Sir Benfro)*: Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd.
- Jones, C.M. 1989. Cydberthynas nodweddiol cymdeithasol ag amrywiadau'r Gymraeg yn Y Mot, Sir Benfro. *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* 36. 64–83.
- Jones, D.B, P. Robertson & A. Taborda. 2015. Corpws trydariadau Cymraeg. Adnodd ar-lein. URL <http://techiaith.cymru/corpora/twitter>.
- Jones, D.B, Prys, D, Prys, M & Prys, G. 2019. *Llawlyfr technolegau iaith*. Coleg Cymraeg Cenedlaethol. URL <https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=4217~4o~orjUKoy9>.
- Jones, D.M. 1949. The accent in Modern Welsh. *Bulletin of the Board of Celtic Studies* 13(2). 63–64.
- Jones, G.E. 1984. The distinctive vowels and consonants of Welsh. Yn: M. J. Ball & G. E. Jones (goln.), *Welsh phonology: Selected readings*, 40–64. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Jones, G.E. 2000. *Iaith lafar Brycheiniog: Astudiaeth o'i ffonoleg a'i morffoleg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Jones, G.E & Jones, A. 1996. *Atlas geirfaol Brycheiniog*. Caerdydd: Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru.
- Jones, G.E & Williams, C.H. 1997. A mid-Wales dialect transition zone. Yn: A. R. Thomas (gol.), *Issues and methods in dialectology*, 294–312. Bangor: Adran Ieithyddiaeth, Prifysgol Cymru.
- Jones, M.C. 1998. *Language obsolescence and revitalization: Linguistic change in two sociolinguistically contrasting Welsh communities*. Oxford University Press.
- Jones, R.M. 2010. *Tense and aspect in informal Welsh*, cyf. 223. Walter de Gruyter.

- Jones, R.M. 2018. Copular clauses in Welsh. Ysgrif heb ei chyhoeddi.
- Jones, R.O. 1984. Change and variation in the Welsh of Gaiman, Chubut. Yn: M. J. Ball & G. E. Jones (goln.), *Welsh phonology: Selected readings*, 189–207. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Jones, R.O. 1986. Datblygiad gwyddor tafodieitheg yng Nghymru. *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* 18–40.
- Kaplan, R. & R. B. Baldauf. 1997. *Language planning from practice to theory*. Clevedon England: Multilingual Matters.
- Jones, K. 1995. Code-switching, intertextuality and hegemony: exploring change in bilingual discourse. Yn: *Proceedings of the summer school, code-switching and language contact*, 108–118. Ljouwert/Leeuwarden: Fryske Akademy: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Kaufmann, J. 2009. *Cymdeithaseg cyfieithu: Dylanwad cyfieithu ar y pryd ar y defnydd o'r gymraeg yng ngwynedd*: Prifysgol Bangor. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd.
- Kearns, K. 2011. *Semantics*. Palgrave Modern Linguistics. Palgrave Macmillan. 2il ol.
- Kerswill, P. 2008. Koineization and accommodation. Yn: *The handbook of language variation and change*, 669–702. Blackwell Publishing Ltd. doi: 10.1002/9780470756591.ch26.
- Kiesling, S. F. 2001. “now i gotta watch what i say”: Shifting constructions of masculinity in discourse. *Journal of Linguistic Anthropology* 11(2). 250–273.
- Kim, Y. 2008. *Topics in the phonology and morphology of San Francisco del Mar Huave*: University of California at Berkeley. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd. URL <http://personalpages.manchester.ac.uk/staff/yuni.kim/papers.html>.
- Kim, Y. 2016. Tonal overwriting and inflectional exponence in Amuzgo. *Tone and Inflection: New Facts and New Perspectives* 296. 199.
- King, R. 2000. *The lexical basis of grammatical borrowing: A Prince Edward Island French case study*, cyf. 209. Current Issues in Linguistic Theory. John Benjamins Publishing.
- Kirkham, S. 2013. *Ethnicity, social practice and phonetic variation in a Sheffield secondary school*: Prifysgol Sheffield. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd.
- Kleber, F., T. John & J. Harrington. 2010. The implications for speech perception of incomplete neutralization of final devoicing in German. *Journal of Phonetics* 38(2). 185–196.
- Koehn, P. 2004. Statistical significance tests for machine translation evaluation. Yn: *Proceedings of the 2004 conference on empirical methods in natural language processing*, 388–395.
- Koehn, P. 2010. *Statistical machine translation*. Cambridge University Press.
- Koehn, P., H. Hoang, A. Birch, C. Callison-Burch, M. Federico, N. Bertoldi, B. Cowan, W. Shen, C. Moran, R. Zens, C. Dyer, O. Bojar, A. Constantin & E. Herbst. 2007. Moses: open source toolkit for statistical machine translation. Yn: *Proceedings of the 45th annual meeting of the association for computational linguistics companion volume proceedings of the demo and poster sessions*, 177–180. Prague, Czech Republic: Association for Computational Linguistics. URL <https://www.aclweb.org/anthology/P07-2045>.

- Kučera, H. & W. N. Francis. 1967. *Computational analysis of present-day American English*. Dartmouth Publishing Group.
- Kuno, S. 1972. Functional sentence perspective: A case study from Japanese and English. *Linguistic Inquiry* 3(3). 269–320. URL <http://www.jstor.org/stable/4177715>.
- Kymlicka, W. 2001. *Politics in the vernacular: nationalism, multiculturalism and citizenship*. Oxford University Press.
- Labov, W. 1963. The social motivation of a sound change. *WORD* 19(3). 273–309. doi: 10.1080/00437956.1963.11659799.
- Labov, W. 1966. *The social stratification of English in New York City*. Washington, D.C: Center for Applied Linguistics.
- Labov, W. 1972. *Sociolinguistic patterns*. Rhydychen: Blackwell.
- Labov, W. 1982. Objectivity and commitment in linguistic science: the case of the Black English trial in Ann Arbor. *Language in Society* 11(2). 165–201.
- Labov, W. 2001. *Principles of linguistic change: social factors*, cyf. 2. Rhydychen: Blackwell.
- Ladefoged, P. 2005. *Vowels and consonants: an introduction to the sounds of languages*. Malden, MA: Blackwell. 2il ol.
- Ladefoged, P. & K. Johnson. 2011. *A course in phonetics*. Wadsworth/Cengage Learning. 6ed ol.
- Lagoudaki, E. 2006. Translation memories survey 2006: Users' perceptions around TM use. Yn: *proceedings of the ASLIB international conference translating & the computer*, cyf. 28. 1, 1–29.
- Lambert, W. E. & G. R. Tucker. 1972. *Bilingual education of children: The St. Lambert experiment*. ERIC.
- Lambrech, K. 1994. *Information structure and sentence form: topic, focus, and the mental representations of discourse referents* (Cambridge Studies in Linguistics 7). Cambridge University Press.
- Lenihan, A. 2013. *The interaction of language policy, minority languages and new media: a study of the Facebook translations application*: University of Limerick. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd.
- Lev-Ari, S. & B. Keysar. 2010. Why don't we believe non-native speakers? the influence of accent on credibility. *Journal of experimental social psychology* 46(6). 1093–6.
- Levin, B. 1993. *English verb classes and alternations: A preliminary investigation*. Chicago, IL: University of Chicago Press.
- Levon, E. 2016. Gender, interaction and intonational variation: The discourse functions of high rising terminals in London. *Journal of Sociolinguistics* 20(2). 133–163. doi: 10.1111/josl.12182.
- Levon, E. & R. B. Mendes. 2016. *Language, sexuality, and power: Studies in intersectional sociolinguistics*. Oxford University Press.
- Lewis, G. 2008. *Hawl i'r Gymraeg*. Tal-y-bont: Y Lolfa.

- Lewis, H. 1946. *Datblygiad yr iaith Gymraeg*, cyf. 6. Cyfres y brifysgol a'r werin. Gwasg Prifysgol Cymru.
- Lewis, R. 1998. *Cyfiawnder dwyieithog? Golwg ar yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn Llysoedd Ynadon Cymru*. Llandysul: Gomer.
- Liddicoat, A. & R. B. Baldauf. 2008. Language planning in local contexts: agents, contexts and interactions. Yn: A. Liddicoat & R. B. Baldauf (goln.), *Language planning and policy: language planning in local contexts*. Language planning and policy, Multilingual Matters.
- Lieber, R. 2010. *Introducing morphology*. Cambridge Introductions to Language and Linguistics. Cambridge University Press. doi: 10.1017/CBO9780511808845.
- Lippi-Green, R. 1997. *English with an accent: Language, ideology and discrimination in the United States*. Llundain: Routledge.
- Lippi-Green, R. 2012. *English with an accent: Language, ideology and discrimination in the United States*. Routledge.
- Llywodraeth Cymru. 2003. Iaith pawb—a national action plan for a bilingual Wales.
- Llywodraeth Cymru. 2007. Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng cymraeg.
- Llywodraeth Cymru. 2011. Mesur y Gymraeg. URL http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/pdfs/mwa_20110001_we.pdf.
- Llywodraeth Cymru. 2012. Iaith fyw, iaith byw. URL <https://llyw.cymru/strategaeth-y-gymraeg-2012-i-2017-iaith-fyw-iaith-byw>.
- Llywodraeth Cymru. 2017. Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr. URL <https://llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg>.
- Llywodraeth Cymru. 2018. Cynllun gweithredu technoleg a chyfryngau digidol Cymraeg. URL <https://gov.wales/docs/dcells/publications/230513-action-plan-cy.pdf>.
- LOB. 1970–1978. The LOB Corpus, original version. compiled by Geoffrey Leech, Lancaster University, Stig Johansson, University of Oslo (project leaders), and Knut Hofland, University of Bergen (head of computing).
- Loewen, S. & H. Reinders. 2011. *Key concepts in second language acquisition*. Houndmills, Basingstoke, Hampshire: Palgrave Macmillan.
- Long, M. H. 1990. Maturational constraints on language development. *Studies in second language acquisition* 12(3). 251–285.
- Ma, X. 2004. Hong kong parallel text ldc2004t08. Web Download.
- Mac Giolla Chríost, D., P. Carlin, S. Davies, T. Fitzpatrick, A. P. Jones, R. Heath-Davies, J. Marshall, S. Morris, A. Price, R. Vanderplank, C. Walter & A. Wray. 2012. Adnoddau, dulliau ac ymagweddu dysgu ac addysgu ym maes Cymraeg i Oedolion: astudiaeth ymchwil gynhwysfawr ac adolygiad beirniadol o'r ffordd ymlaen.
- Macdonald, S. 2002. Pronunciation—views and practices of reluctant teachers. *Prospect* 17(3).

- MacWhinney, B. 2000. The CHILDES project: tools for analyzing talk, cyf. i: Transcription format and programs, cyf. ii: The database.
- Maddieson, I. 2013a. Presence of uncommon consonants. Yn: M. S. Dryer & M. Haspelmath (goln.), *The World Atlas of Language Structures Online*, Leipzig: Max Planck Institute for Evolutionary Anthropology. URL <https://wals.info/chapter/19>.
- Maddieson, I. 2013b. Vowel quality inventories. Yn: M. S. Dryer & M. Haspelmath (goln.), *The World Atlas of Language Structures Online*, Leipzig: Max Planck Institute for Evolutionary Anthropology. URL <http://wals.info/chapter/2>.
- Marks, Rh. 2017. Syrffio'r drydedd don?: heriau cyfoes astudiaethau rhywedd. *Y Traethodydd* 47–62.
- Matras, Y. 2009. *Language contact*. Cambridge Textbooks in Linguistics. Cambridge University Press.
- Matsuda, M. J. 1991. Voices of America: Accent, antidiscrimination law, and a jurisprudence for the last reconstruction. *Yale Law Journal* 1329–407.
- Matthews, S. & M. Li. 2013. Chinese Pidgin English. Yn: S. M. Michaelis, P. Maurer, M. Haspelmath & M. Huber (goln.), *The survey of pidgin and creole languages. English-based and Dutch-based languages*, cyf. 1, Rhydychen: Oxford University Press. URL <http://apics-online.info/surveys/20>.
- May, S. 2006. Language policy and minority language rights. Yn: T. Ricento (gol.), *An introduction to language policy*, 255–272. Blackwell.
- Mayr, R., J. Morris, I. Mennen & D. Williams. 2017. Disentangling the effects of long-term language contact and individual bilingualism: the case of monophthongs in Welsh and English. *International Journal of Bilingualism* 21(3). 245–267.
- McConvell, P. & N. Thieberger. 2001. State of indigenous language in Australia. *Australia State of the Environment Second Technical Paper Series (Natural and Cultural Heritage)* URL <http://www.ea.gov.au/soe/techpapers/index.html>.
- McMahon, A. 2002. *An introduction to english phonology*. Edinburgh: Edinburgh University Press.
- Meakins, F. 2013. Gurindji kriol structure dataset. Yn: S. M. Michaelis, P. Maurer, M. Haspelmath & M. Huber (goln.), *Atlas of Pidgin and Creole language structures online*, Leipzig: Max Planck Institute for Evolutionary Anthropology. URL <http://apics-online.info/contributions/72>.
- Meisel, J. M. 2000. Early differentiation of language in bilingual children. Yn: K. Hyltenstam & L. K. Obler (goln.), *Bilingualism across the lifespan*, 13–40. Cambridge University Press.
- Mesthrie, R., J. Swann, A. Deumert & W. L. Leap. 2009. *Introducing sociolinguistics*. Edinburgh University Press.
- Meyerhoff, M. 2011. *Introducing sociolinguistics*. English Language & Linguistics. Routledge. 2il ol.
- Meyerhoff, M. & E. Schlee. 2012. Variation, contact and social indexicality in the acquisition of (ing) by teenage migrants 1. *Journal of Sociolinguistics* 16(3). 398–416.

- Milroy, J. & L. Milroy. 1978. Belfast: Change and variation in an urban vernacular. *Sociolinguistic patterns in British English* 19. 19–36.
- Milroy, J. & L. Milroy. 1985. Linguistic change, social network and speaker innovation. *Journal of Linguistics* 21(2). 339–384. doi: 10.1017/s0022226700010306.
- Mitchell, B. & A. K. Webster. 2011. “We Don’t Know What We Become”: Navajo ethnopoetics and an expressive feature in a poem by Rex Lee Jim. *Anthropological linguistics* 53(3). 259–286.
- Mitra, T. & E. Gilbert. 2015. Credbank: a large-scale social media corpus with associated credibility annotations. Yn: *Ninth international AAAI conference on web and social media*, .
- Montgomery, C. 2016. The perceptual dialectology of Wales from the border. Yn: M. Durham & J. Morris (goln.), *Sociolinguistics in Wales*, 31–59. Llundain: Palgrave Macmillan.
- Morgan, M. E. 2002. *Hanes geiriaduraeth yng Nghymru o 1547 hyd 1914: gyda sylw arbennig i ddylanwad John Walters a William Owen Pughe ar eiriadurwyr 1805-1850*: Prifysgol Cymru, Bangor. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd.
- Morley, J. 1991. The pronunciation component in teaching English to speakers of other languages. *TESOL quarterly* 25(3). 481–520.
- Morris, J. 2013. *Sociolinguistic variation and regional minority language bilingualism: an investigation of Welsh–English bilinguals in north Wales*: Prifysgol Manceinion. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd.
- Morris, J. 2017. Sociophonetic variation in a long-term language contact situation: /l/-darkening in Welsh–English bilingual speech. *Journal of Sociolinguistics* 21(2). 183–207.
- Morris, J. & M. Hejrná. 2019. Pre-aspiration in Bethesda Welsh: A sociophonetic analysis. *Journal of the International Phonetic Association* 1–25.
- Morris-Jones, J. 1913. *A Welsh grammar: historical and comparative*. Rhydychen: Clarendon.
- Morrison, G. S. 2006. *L1 & L2 production and perception of English and Spanish vowels: A statistical modelling approach*: University of Alberta. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd.
- Mougeon, R., K. Rehner & T. Nadasdi. 2004. The learning of spoken french variation by immersion students from Toronto, Canada. *Journal of Sociolinguistics* 8(3). 408–32.
- Mous, M. 2013. Mixed Ma’a/Mbugu. Yn: S. M. Michaelis, P. Maurer, M. Haspelmath & M. Huber (goln.), *The survey of pidgin and creole languages. contact languages based on languages from Africa, Asia, Australia, and the Americas*, cyf. 3, Rhydychen: Oxford University Press. URL <http://apics-online.info/surveys/62>.
- Mufwene, S. S. & J. R. Rickford. 2013. Introduction. Yn: S. S. Mufwene, J. R. Rickford, G. Bailey & J. Baugh (goln.), *African-American English*, 1–8. Llundain: Routledge. doi: 10.4324/9780203355596.
- Munson, B. & M. Babel. 2007. Loose lips and silver tongues, or, projecting sexual orientation through speech. *Language and Linguistics Compass* 1(5). 416–449.
- Murphy, J. M. 1997. Phonology courses offered by matesol programs in the us. *TESOL quarterly* 31(4). 741–764.

- Muysken, P. 1997. Media Lengua. Yn: S. G. Thomason (gol.), *Contact languages: A wider perspective*. Creole Language Library, 365–426. Amsterdam: John Benjamins.
- Muysken, P. 2013. Media Lengua. Yn: S. M. Michaelis, P. Maurer, M. Haspelmath & M. Huber (goln.), *The survey of pidgin and creole languages. Contact languages based on languages from Africa, Asia, Australia, and the Americas*, cyf. 3, Rhydychen: Oxford University Press. URL <http://apics-online.info/surveys/73>.
- Myers-Scotton, C. 2006. *Multiple voices: an introduction to bilingualism*. Malden, MA: Blackwell.
- Nagy, N., H. Blondeau & J. Auger. 2003. Second language acquisition and “real” French: An investigation of subject doubling in the French of Montreal Anglophones. *Language variation and change* 15(1). 73–103.
- Nguyen, D.-H. 1997. *Vietnamese*, cyf. 9. London Oriental and African Language Library. Amsterdam: John Benjamins.
- ‘nice adj. and adv’. OED. *Oxford English Dictionary Online*: Rhagfyr 2018. Oxford University Press. URL <http://www.oed.com/view/Entry/126732?rskey=gPRWud&result=3&isAdvanced=false>.
- Nodine, M. 1990au. Geiriadur mark nodine. URL <http://www.geiriadur.ac.uk/geiriaduron-cymraeg-ar-lein/>.
- Nolan, F. 2006. Intonation. Yn: B. Aarts & A. McMahon (goln.), *The handbook of English Linguistics*. Blackwell Handbooks in Linguistics, pen. 19, 433–458. Rhydychen: Blackwell.
- Nurmio, S. & D. Willis. 2016. The rise and fall of a minor category: the case of the Welsh numerative. *Journal of Historical Linguistics* 6(2).
- Ochs, E. 1992. Indexing gender. Yn: A. Duranti & C. Goodwin (goln.), *Rethinking context: Language as an interactive phenomenon*, cyf. 11, pen. 14, 335. Cambridge University Press.
- Ogden, C. K. & I. A. Richards. 1949. *The meaning of meaning*. Llundain: Routledge and Kegan Paul. 2il ol.
- Omoniyi, T. 2004. *The sociolinguistics of borderlands: two nations, one community*. Trenton, NJ: Africa World Press.
- O’Shannessy, C. 2005. Light Warlpiri: A new language. *Australian Journal of Linguistics* 25(1). 31–57.
- Papineni, K., S. Roukos, T. Ward & W.-J. Zhu. 2002. BLEU: a method for automatic evaluation of machine translation. Yn: *Proceedings of the 40th annual meeting on association for computational linguistics*, 311–318. Association for Computational Linguistics.
- Paradis, J. & F. Genesee. 1996. Syntactic acquisition in bilingual children: Autonomous or interdependent? *Studies in second language acquisition* 18(1). 1–25.
- Penhallurick, R. 2007. English in Wales. Yn: D. Britain (gol.), *Language in the British Isles*, 152–70. Cambridge University Press.
- Petyt, K. M. 1980. *The study of dialect: An introduction to dialectology*. Llundain: A. Deutsch.

- Phillips, D. 1998. *Trwy ddulliau chwyldro -? : hanes cymdeithas yr iaith gymraeg, 1962-1992*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Podesva, R. 2004. On constructing social meaning with stop release bursts. Yn: *Sociolinguistics symposium*, cyf. 15, 1–5.
- Podesva, R. J. 2007. Phonation type as a stylistic variable: The use of falsetto in constructing a persona 1. *Journal of sociolinguistics* 11(4). 478–504.
- Pokorny, J. 1959. *Indogermanisches etymologisches Wörterbuch*. Francke.
- Poplack, S. 1987. Contrasting patterns of code-switching in two communities. Yn: M. Heller (gol.), *Codeswitching: Anthropological and sociolinguistic perspectives*, 215–44. Efrog Newydd: Mouton de Gruyter.
- Prys Davies, G. 2000. Statws cyfreithiol yr iaith Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif. Yn: G. H. Jenkins & M. A. Williams (goln.), *'Eu hiaith a gadwant'?: y Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Prys Jones, S. 2015. Theori ac ymarfer cyfieithu yng Nghymru heddiw. Yn: D. Prys & T. R. (goln.), *Ysgrifau a Chanllawiau Cyfieithu*, 97–113. Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol. URL <https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1414~4k~jCaIVfFR>.
- Prys, C. 2010. The use of Welsh in the Third Sector in Wales. *Contemporary Wales* 23(1). 184–200.
- Prys, D. 2015. Geiriaduron, termiaduron ac adnoddau defnyddiol eraill. Yn: D. Prys & T. R. (goln.), *Ysgrifau a Chanllawiau Cyfieithu*, Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol. URL <https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1414~4k~jCaIVfFR>.
- Prys, D & Jones, D.B. 2018. Gathering data for speech technology in the Welsh language: a case study. Yn: *Sustaining knowledge diversity in the digital age (ccurl2018)*, 56–62.
- Prys, D & Jones, J.P.M. 1998. *Y termiadur ysgol: termau wedi'u safoni ar gyfer ysgolion Cymru: Cymraeg–Saesneg, English–Welsh*. Caerdydd: ACCAC.
- Prys, D & M. Morgan. 2000. E-Celtic language tools: the latest developments from Wales. Yn: *Proc. 6th annual conference of the North American Association for Celtic Language Teachers*, .
- Prys, D, Prys, G & Jones, D.B. 2009. Gwell offer technoleg cyfieithu ar gyfer y diwydiant cyfieithu yng Nghymru: Arolwg dadansoddol. URL http://techiaith.bangor.ac.uk/wp-content/uploads/2016/06/CATcymru_AdroddiadTerfynol_HE06fsp_CY.pdf.
- Prys, D, Prys, G & Jones, D.B. 2016. Cysill Ar-lein: a corpus of written contemporary Welsh compiled from an on-line spelling and grammar checker. Yn: *Proceedings of the tenth international conference on language resources and evaluation (LREC 2016)*, 3261–3264.
- Prys, M. 2016. *Style in the vernacular and on the radio: code-switching and mutation as stylistic and social markers in Welsh*: Prifysgol Bangor. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd.
- Quay, S. 1995. The bilingual lexicon: Implications for studies of language choice. *Journal of Child Language* 22. 369–87.

- Rampton, B. 1995. Language crossing and the problematisation of ethnicity and socialisation. *Pragmatics. Quarterly Publication of the International Pragmatics Association (IPrA)* 5(4). 485–513.
- Rees, I. W. & J. Morris. 2018. Astudiaeth o ganfyddiadau tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion o anawsterau yngan ymhlith dysgwyr yr iaith. *Gwerddon* 27. 39–66.
- Rees, I. W. 2009. *Tafodiaith Ardudwy: Astudiaeth o iaith y genhedlaeth hŷn a'r to iau yn Harlech a'r cyffiniau*. Prifysgol Aberystwyth. Traethawd Meistr nas cyhoeddwyd.
- Rees, I. W. 2013. *Astudiaeth o amrywiadau ffonolegol mewn dwy ardal yng nghanolbarth Cymru*: Prifysgol Aberystwyth. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd. URL http://cadair.aber.ac.uk/dspace/bitstream/handle/2160/13424/Rees_I_W.pdf?sequence=2.
- Rees, I. W. 2015. Phonological variation in mid-Wales. *Studia Celtica* 49(1). 149–174.
- Rees, I. W. 2016. “Dim Sôn am Dduw na Dyn”: Ar drywydd yr ‘u ogleddol’ yng nghanolbarth Cymru. *Gwerddon* 22. 47–74.
- Ricento, T. 2000. Historical and theoretical perspectives in language policy and planning. *Journal of Sociolinguistics* 4(2). 196–213. doi: 10.1111/1467-9481.00111.
- Richards, M. 1938. *Cystrawen y frawddeg Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Rickford, J. R. 1999. *African American vernacular English: Features, evolution, educational implications*. Wiley-Blackwell.
- Riemer, N. 2010. *Introducing semantics*. Cambridge Introductions to Language and Linguistics. Cambridge University Press.
- Robert, E. 2009. Accommodating “new” speakers? an attitudinal investigation of L2 speakers of Welsh in south-east Wales. *International Journal of the Sociology of Language* 2009(195). 93–115.
- Roberts, A. E. 1988. Age-related variation in the Welsh dialect of Pwllheli. *The use of Welsh: A contribution to sociolinguistics* 104–22.
- Rolstad, K. 1997. Effects of two-way immersion on the ethnic identification of third language students: an exploratory study. *Bilingual Research Journal* 21(1). 43–63.
- Rolstad, K., K. Mahoney & G. V. Glass. 2005. The big picture: A meta-analysis of program effectiveness research on English language learners. *Educational policy* 19(4). 572–594.
- Romaine, S. 1995. *Bilingualism*. Blackwell. 2il ol.
- Russell, P. 2015. Welsh. Yn: S. O. Peter O. Müller, Ingeborg Ohnheiser & F. Rainer (goln.), *Word-formation: an international handbook of the languages of Europe*, cyf. 5, De Gruyter Mouton.
- Salesbury, W. 1547. *A dictionary in Englyshe and Welshe*. Llundain.
- Sasse, H. 2006. Theticity. *Empirical Approaches to Language Typology* 20(8). 255.

- Savage, M., F. Devine, N. Cunningham, M. Taylor, Y. Li, J. Hjellbrekke, B. Le Roux, S. Friedman & A. Miles. 2013. A new model of social class? findings from the BBC's Great British Class Survey experiment. *Sociology* 47(2). 219–250.
- Schilling-Estes, N. 2008. 15 investigating stylistic variation. Yn: J. K. Chambers, P. Trudgill & N. Schilling-Estes (goln.), *The handbook of language variation and change*, cyf. 24. Blackwell Handbooks in Linguistics, 375–401. John Wiley & Sons.
- Schleef, E., M. Meyerhoff & L. Clark. 2011. Teenagers' acquisition of variation: A comparison of locally-born and migrant teens' realisation of english (ing) in edinburgh and london. *English world-wide* 32(2). 206–236.
- Schreier, D. 2013. Collecting ethnographic and sociolinguistic data. Yn: M. Krug & J. Schlüter (goln.), *Research methods in language variation and change*, 17–39. Cambridge University Press.
- Schrijver, P. 2011. Old British. Yn: E. Ternes (gol.), *Brythonic Celtic–Britannisches Keltisch: from Medieval British to Modern Breton*, cyf. 11. Münchner Forschungen zur Historischen Sprachwissenschaft, 1–84. Hempen Verlag.
- Scovel, T. 1988. *A time to speak: a psycholinguistic inquiry into the critical period for human speech*. Rowley, MA: Newbury House Publishers.
- Screen, B. 2018. *Defnyddio cyfieithu awtomatig a chof cyfieithu wrth gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg: astudiaeth ystadegol o ymdrech, cynhyrchedd ac ansawdd gan ddefnyddio data Cofnodwyr Trawiadau Bysell a Thracio Llygaid*: Prifysgol Caerdydd. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd.
- Searle, J. R. 1975. Indirect speech acts. Yn: P. Cole & J. L. Morgan (goln.), *Syntax and semantics*, cyf. 3, 59–82. New York: Academic Press.
- Selinker, L. 1992. *Rediscovering interlanguage*. London: Longman.
- Senedd Ewrop. 2018. Language equality in the digital age. URL <http://www.europarl.europa.eu/sides/getDoc.do?pubRef=-//EP//TEXT+TA+P8-TA-2018-0332+0+DOC+XML+V0//EN&language=EN>.
- Sharma, D. & L. Sankaran. 2011. Cognitive and social forces in dialect shift: Gradual change in London Asian speech. *Language variation and Change* 23(3). 399–428.
- Silverstein, M. 2003. Indexical order and the dialectics of sociolinguistic life. *Language & communication* 23(3-4). 193–229.
- Simons, G. F. & C. D. Fennig. 2017. Ethnologue: languages of the world. Fersiwn ar-lein. URL <http://www.ethnologue.com>.
- Singleton, D. & L. Ryan. 2004. *Language acquisition the age factor*. Clevedon: Multilingual Matters. 2il ol.
- Skutnabb-Kangas, T. & R. Phillipson. 2017. Linguistic human rights, past and present. Yn: *Linguistic human rights*, De Gruyter Mouton. doi: 10.1515/9783110866391.71.

- Snover, M., B. Dorr, R. Schwartz, L. Micciulla & J. Makhoul. 2006. A study of translation edit rate with targeted human annotation. Yn: *Proceedings of association for machine translation in the Americas*, cyf. 200. 6, 223–231.
- Snow, C. E. & M. Hoefnagel-Höhle. 1978. The critical period for language acquisition: Evidence from second language learning. *Child Development* 49. 1114–28.
- Sommerfelt, A. 1925. *Studies in Cyfeiliog Welsh: a contribution to Welsh dialectology*. Oslo: Jacob Dybwad.
- Spencer, A. 1996. *Phonology: theory and description*. Oxford: Blackwell.
- Stammers, J. 2010. *The integration of English-origin verbs into Welsh: A contribution to the debate over distinguishing between code-switching and lexical borrowing*. Saarbrücken: VDM Verlag Dr. Müller.
- Statistics Canada. 2017. Mother Tongue (263), Single and Multiple Mother Tongue Responses (3), Age (7) and Sex (3) for the Population Excluding Institutional Residents of Canada, Provinces and Territories, Census Metropolitan Areas and Census Agglomerations, 2016 Census - 100% Data (Table). *Catalogue no. 98-400-X2016061* URL <http://www12.statcan.gc.ca/census-recensement/2016/dp-pd/dt-td/Index-eng.cfm>.
- Stiles, D. B. 1997. Four successful indigenous language programs. Yn: J. Reyhner (gol.), *Teaching indigenous languages*, 138–262. Flagstaff, AZ: Northern Arizona University. URL http://jan.ucc.nau.edu/~jar/TIL_21.html.
- Street, R. L. 1991. Accommodation in medical consultations. Yn: H. Giles, N. Coupland & J. Coupland (goln.), *Contexts of accommodation: Developments in applied sociolinguistics*, 131–56. Cambridge University Press Cambridge.
- Sweet, H. 1884. Spoken north Welsh. *Transactions of the Philological Society* 19(1). 409–484.
- Swigart, L. 1992. Women and language choice in Dakar: a case of unconscious innovation. *Women and Language* 15(1). 11. URL <https://search.proquest.com/docview/198812347?accountid=14874>.
- Tagliamonte, S. 2013. Analysing and interpreting variation in the sociolinguistic tradition. Yn: M. Krug & J. Schlüter (goln.), *Research methods in language variation and change*, 382–401. Cambridge University Press.
- Tagliamonte, S. A. 2006. *Analysing sociolinguistic variation*. Cambridge University Press.
- Tagliamonte, S. A. 2016. *Teen talk: The language of adolescents*. Cambridge University Press.
- Tallerman, M. 2007. *Understanding syntax*. Understanding Language. Hodder Arnold. 2il ol.
- Thibault, P. & G. Sankoff. 1993. Diverses facettes de l'insécurité linguistique. vers une analyse comparative des attitudes et du français parlé par les Franco-et des Anglo-montréalais. *Cahiers de l'Institut de linguistique de Louvain* 19(3-4). 209–218.
- Thomas, A.R. 1973. *The linguistic geography of Wales: A contribution to Welsh dialectology*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

- Thomas, A.R. 1980. *Areal analysis of dialect data by computer: A Welsh example*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Thomas, A.R. 1982. Change and decay in language. Yn: D. Crystal (gol.), *Linguistic controversies: essays in linguistic theory and practice in honour of F.R. Palmer*, Llundain: Edward Arnold.
- Thomas, A.R, Jones, G.E, Jones, R.O & D. Thorne. 2000. *The Welsh dialect survey*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Thomas, B. 1984. Linguistic and non-linguistic boundaries in north-east Wales. Yn: M. J. Ball & G. E. Jones (goln.), *Welsh phonology: Selected readings, 189–207*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Thomas, B. 1988. Differences of sex and sects: linguistic variation and social networks in a Welsh mining village. Yn: J. Coates & D. Cameron (goln.), *Women in their speech communities*, 51–60. Harlow: Longman.
- Thomas, B. 1998. *Ynys fach o Gymreictod: Astudiaeth sosioieithyddol o'r Gymraeg ym Mhont-rhyd-y-fen*: Prifysgol Caerdydd. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd.
- Thomas, B. 2000. Golud y gorffennol? Cofnodi'r tafodieithoedd. Yn: G. H. Jenkins & Williams, M.A (goln.), *'Eu hiaith a gadwant'?: y Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif*, 405–20. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Thomas, B & Thomas, P.W. 1989. *Cymraeg, cymrâg, cymrêg...: Cyflwyno'r tafodieithoedd*. Caerdydd: Gwasg Taf.
- Thomas, C.H. 1975. Some phonological features of dialects in south-east Wales. *Studia Celtica* 10. 345–66.
- Thomas, E.M & P. Webb-Davies. 2017. *Agweddau ar ddwyieithrwydd*. Coleg Cymraeg Cenedlaethol. URL <https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=3001~4e~cunoKUqT>.
- Thomas, J.A. 2014. *Meaning in interaction: an introduction to pragmatics*. Routledge.
- Thomason, S. G. 1983. Chinook Jargon in areal and historical context. *Language* 59(4). 820–870.
- Thomas, P.W. 1982. Putting Glamorgan on the map. *Cardiff Working Papers in Welsh linguistics* 2. 73–101.
- Thomas, P.W. 1984. Glamorgan revisited: progress report and some emerging distribution patterns. *Cardiff Working Papers in Welsh linguistics* 3. 119–45.
- Thomas, P.W. 1990. *Dimensions of dialect variation: a dialectological and sociological analysis of aspects of spoken Welsh in Glamorgan*: Prifysgol Cymru, Caerdydd. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd.
- Thomas, P.W. 1996. *Gramadeg y Gymraeg*. Gwasg Prifysgol Cymru.
- Thomas, R.J, G. A. Bevan & P. Donovan (goln.). 1967–2002. Geiriadur Prifysgol Cymru.
- Thorne, D. A. 1984. The correlation of dialect and administrative boundaries in Welsh: A review. Yn: M. J. Ball & G. E. Jones (goln.), *Welsh phonology: Selected readings, 176–88*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

- Thorne, D. A. 1985. *Cyflwyniad i astudio'r iaith Gymraeg*. Cyhoeddwyd ar ran Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru gan Wasg Prifysgol Cymru.
- Tong, T. 1862. *The Chinese-English Instructor (6 vols.)*, cyf. IV. Guangzhou: Anhysbys.
- Traugott, E. C. 1989. On the rise of epistemic meanings in English: an example of subjectification in semantic change. *Language* 31–55.
- Trefor, R. 2015. Cyd-destun gwleidyddol a chymdeithasol cyfieithu yn y Gymru gyfoes. Yn: Prys, D & T. R. (goln.), *Ysgrifau a Chanllawiau Cyfieithu*, Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol. URL <https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1414~4k~jCaIVfFR>.
- Trudgill, P. 1972. Sex, covert prestige and linguistic change in the urban British English of Norwich. *Language in society* 1(2). 179–195.
- Trudgill, P. 1974. *The social differentiation of English in Norwich*. Caergrawnt: Cambridge University Press.
- Versluys, E. 2008. Multilingualism and the city: the construction of urban identities in Dakar (Senegal). *City & Society* 20(2). 282–300. URL <https://anthrosource.onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1111/j.1548-744X.2008.00022.x>.
- Volterra, V. & T. Taeschner. 1978. The acquisition and development of language by bilingual children. *Journal of Child Language* 5(2). 311–26.
- Walker, J. A. 2014. Variation analysis. Yn: R. Podesva & D. Sharma (goln.), *Research methods in linguistics*, pen. 20. Cambridge University Press.
- Wardhaugh, R. 2002. *An introduction to sociolinguistics*. John Wiley & Sons. 4ydd ol.
- Watkins, T. A. 1991. The function of cleft and non-cleft constituent orders in Modern Welsh. Yn: E. Poppe & J. Fife (goln.), *Studies in Brythonic word order*, 329–51. John Benjamins.
- Watkins, T. A. 1961. *Ieithyddiaeth*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Watters, J. R. 1979. Focus in Aghem: A study of its formal correlates and typology. Yn: L. M. Hyman (gol.), *Aghem grammatical structure* (South California Occasional Papers in Linguistics 7), 137–197. Los Angeles: USC, Department of Linguistics.
- Wei, L. (gol.). 2000. *The Bilingualism Reader*. Routledge.
- White, J., T. O'Connell & F. O'Mara. 1994. The ARPA MT evaluation methodologies: evolution, lessons, and future approaches. Yn: *Proceedings of the 1994 conference, Association for Machine Translation in the Americas*, 193–205.
- Williams, A, P. Garrett & N. Coupland. 1996. Perceptual dialectology, folklinguistics, and regional stereotypes: Teachers' perceptions of variation in Welsh English. *Multilingua - Journal of Cross-Cultural and Interlanguage Communication* 15(2). 171–200. doi: 10.1515/mult.1996.15.2.171.
- Williams, A & P. Kerswill. 1999. Dialect levelling: change and continuity in Milton Keynes, Reading and Hull. Yn: P. Foulkes & G. Docherty (goln.), *Urban voices: Accent studies in the British Isles*, 141–62. Llundain: Arnold.

- Williams, B. 1986. An acoustic study of some features of Welsh prosody. Yn: C. Johns-Lewis (gol.), *Intonation in discourse*, 35–52. Llundain: Croom-Helm.
- Williams, B. 1989. *Stress in Modern Welsh*: Indiana University Linguistics Club Publications. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd.
- Williams, C. 1999. *Cymraeg clir: canllawiau iaith*. Penygroes: Gwasg Dwyfor.
- Williams, G. 1987. Policy as containment within democracy: the Welsh Language Act. *International Journal of the Sociology of Language* 1987(66). doi: 10.1515/ijsl.1987.66.49.
- Williams, G & D. Morris. 2000. *Language planning and language use: Welsh in a global age*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Willis, D. 2009. Old and Middle Welsh. Yn: M. J. Ball & N. Müller (goln.), *The Celtic languages*, 117–160. Llundain: Routledge. 2il ol.
- Willis, D. 2017. Investigating geospatial models of the diffusion of morphosyntactic innovations: The Welsh strong second-person singular pronoun *chdi*. *Journal of Linguistic Geography* 5(1). 41–66.
- Winford, D. 2010. Contact and change. Yn: R. Hickey (gol.), *The handbook of language contact*, pen. 8, 170–184. John Wiley & Sons.
- Wolk, K. & K. Marasek. 2015. Neural-based machine translation for medical text domain. based on European Medicines Agency leaflet texts. *Procedia Computer Science* 64. 2–9.
- Wooldridge, D. E. 2015. *Proffilio gwallau: dadansoddiad o'r gwallau a wneir gan gyfieithwyr Saesneg–Cymraeg*: Prifysgol Bangor. Traethawd PhD nas cyhoeddwyd.
- Wright, S. 2000. Jacobins, regionalists and the Council of Europe's Charter for Regional and Minority Languages. *Journal of Multilingual and Multicultural Development* 21(5). 414–424.
- Wright, S. 2016. *Language policy and language planning: from nationalism to globalisation*. Palgrave Macmillan.
- Yule, G. 1996. *Pragmatics*. Oxford Introduction to Language Study ELT. Oxford University Press.

Rhestr byrfoddau

B	Benywaidd
BAN	Bannod
CW	Cwestiwn, geiryn cwestiynol
DOS	Dosbarthydd enwol
ENW	Cyflwr enwol
FOC	Ffocws
G	Gwrywaidd
IS	Isbwnc, isradd
NEG	Negyddol, negydd
PARH	Parhaol
PEN	Penodol
PNC	Pwnc
TH	Llafariad thematig
UN	Unigol

Mynegai ieithoedd

- Agham, 133
 Alewt Mednyi, 212
 Alewteg, 212
 Almaeneg, 46, 59, 64, 79, 88, 89, 136, 160, 201
 Amhareg, 39
 Amwsgo, 88
 Arabeg, 46, 76, 161, 197, 205, 209

 Baiso, 78
 Braille, 124
 Brythoneg, 193

 Cantoneg, 211
 Catalaneg, 58
 Creol Ffrangeg Haiti, 211
 Creol Saesneg Jamaica (*Patois*), 211
 Crieg, 212, 213
 Cymraeg Canol, 62, 63, 82, 121, 122

 Eidaleg, 58, 122

 Ffinneg, 23, 58, 70, 80, 81, 121, 185
 Ffrangeg, 46, 52, 79, 114, 117, 122, 182, 186, 189, 197, 205, 207, 209, 211–213
 Ffrangeg Ynys y Tywysog Edward, 207
 Fietnameg, 68, 72

 Groeg, 23, 68, 123, 191, 201
 Groeg Homeraidd, 78
 Gurindji, 212
 Gurindji Kriol, 212
 Gwjarati, 193
 Gwyddeleg, 79, 80, 82
 Gwyddeleg Canol, 82
 Hen Wyddeleg, 83

 Hen Gymraeg, 62, 82
 Hwafe, 68, 77

 iaith arwyddion, 124
 Iaith Arwyddion Prydain, 22
 Iseldireg, 211
 Islandeg, 79

 Jargon Tsinŵc, 209

 Karén, ieithoedd Karén, 26
 Krio, 210
 Kriol, 212

 Lingua Franca (Lladinaidd), 209
 Lladin, 122, 193
 Llydaweg, 122, 123

 Ma'á/Mbugu, 212
 Maasai, 212
 Mandinca, 205
 Media Lengua, 212
 Mitsiff, 212, 213

 Nafaho, 75
 Nama, 39

 Patois—gw. Creol Saesneg Jamaica, 211
 Pijin Morwrol Polynesia, 209
 Pijin Saesneg Ghana, 209, 211
 Pijin Saesneg Swrinam gw. Saramaceg, 211
 Pijin Saesneg Tsieina, 208, 209, 211
 Pwlâr, 205
 Pwyleg, 58, 69

 Quechua, 212

 Russenorsk, 211
 Rwmaneg, 122
 Rwsieg, 58, 106, 107, 211, 212

 Saesneg, 27, 28, 58, 59, 76, 78, 80, 81, 84, 87, 88, 100, 123, 133, 136, 158–160, 164,

- 174, 188, 189, 191–195, 197, 198,
204, 205, 207–211
- Saesneg Affro-Americanaidd, 163, 164
- Saesneg Caerdydd, 172
- Saesneg Cymru, 178
- Saesneg Prydeinig Safonol, 191
- Sami, ieithoedd Sami, 23, 26, 211
- Saramaceg, 210, 211
- Sbaeneg, 55, 59, 73, 122, 182, 186, 197, 200,
212
- Serer, 205
- Siapaneg, 20, 132
- Sonince, 205
- Sorbeg Uchaf, 78
- Swlw, 39, 209
- Swsu, 205
- Tsieineaid, ieithoedd Tsieineaid, 211
- Tsieinëeg
- Tsieinëeg Hong Kong, 245
- Tsieinëeg Mandarin, 59
- Twrceg, 23, 68, 80, 107
- Warlpiri, 212
- Warlpiri Ysgafn, 212
- Woloff, 205
- Xhosa, 39

